Gweithrediad y Cyd-Bwyllgor

Sefydlwyd Cyd-Bwyllgor Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru ar 1 Chwefror 2019 er mwyn datblygu ymagwedd ranbarthol i dwf economaidd ac er mwyn rhoi sylw i'r heriau a'r rhwystrau sy'n wynebu economi Gogledd Cymru. Mae'n cynnwys chwe ardal weinyddol awdurdodau lleol rhanbarth Gogledd Cymru, sef cynghorau Gwynedd, Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint. Mae'r Cyd-Bwyllgor hefyd yn cynnwys Prifysgol Bangor, Prifysgol Wrecsam, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth y Cyd-Bwyllgor gytuno ar Gynllun Twf Gogledd Cymru gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gan sicrhau buddsoddiad o £240 miliwn i economi Gogledd Cymru fel rhan o'r cytundeb. Mae Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'i sefydlu er mwyn cyflawni'r Cynllun Twf a chymeradwywyd achos busnes llawn y prosiect cyntaf ym mis Rhagfyr 2021 a bellach mae yn ei bedwaredd flwyddyn o gyflawni.

Fe grynhoir isod daliadau ac incwm rhwng y Cyd-Bwyllgor, yr Awdurdodau Lleol, Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch a'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Penodwyd Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletya ar gyfer y BUEGC.

	Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan BUEGC	Incwm a dderbyniwyd	Symiau sy'n ddyledus i'r BUEGC
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	2	0	(98)	0
Cyngor Sir Ddinbych	13	0	(98)	0
Cyngor Sir y Fflint	5	0	(98)	0
Cyngor Gwynedd	261	0	(1,697)	0
Cyngor Sir Ynys Môn	2	0	(98)	0
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	0	0	(272)	0
Prifysgol Bangor	0	582	(29)	0
Prifysgol Wrecsam	6,210	2,850	(29)	0
Coleg Cambria	4	0	(29)	0
Grŵp Llandrillo Menai	0	1,002	(29)	0
Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd	0	4	(1)	(83)

Llywodraeth Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru reolaeth effeithiol dros weithrediadau cyffredinol y Cyd-Bwyllgor, ac mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol ynghyd â darparu'r mwyafrif o'r ariannu drwy grantiau. Ceir dadansoddiad goddrychol o'r grantiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn Nodyn 17 sy'n dadansoddi natur gwariant ac incwm. Manylir y sefyllfa ar 31 Mawrth yn Nodyn 20.

Aelodau Bwrdd, Ymgynghorwyr a Swyddogion

Mae gan aelodau ac ymgynghorwyr y Cyd-Bwyllgor ddylanwad dros bolisïau ariannol a gweithredol y Cyd-Bwyllgor.

Mae holl Aelodau'r Bwrdd, Ymgynghorwyr ac Uwch Swyddogion y Cyd-Bwyllgor wedi cwblhau ffurflenni datganiad i ddatgan eu diddordeb neu eu perthynas mewn cwmnïau, cyrff gwirfoddol, elusennol neu gyhoeddus sy'n ymwneud â'r Cyd-Bwyllgor.

NODYN 21 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG (parhad)

Mae dadansoddiad o'r taliadau a wnaed i'r cyrff yma yn ystod 2024/25 a'r balansau ar 31 Mawrth 2025 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan BUEGC	Incwm a dderbyniwyd	Symiau sy'n ddyledus i'r BUEGC
£'000	£'000	£'000	£'000
38	19	0	0

Mae un o aelodau pleidleisio'r BUEGC hefyd yn aelod o Bwyllgor Pensiynau Cronfa Bensiwn Gwynedd. Dangosir manylion trafodion gyda'r Gronfa Bensiwn yn Nodyn 24.

NODYN 22 – GWARIANT CYFALAF AC ARIANNU CYFALAF

Dengys y tabl isod gyfanswm gwariant cyfalaf am y flwyddyn (yn cynnwys gwerth yr asedau hynny gaffaelwyd drwy brydlesi cyllidol), ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Os yw'n fwriad ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol drwy godi tâl yn refeniw fel defnyddir asedau gan y Cyd-Bwyllgor, yna byddai hyn yn arwain at gynnydd yn y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC), mesurydd gwariant cyfalaf hanesyddol y Cyd-Bwyllgor sydd heb ei ariannu eto. Dadansoddir y GCC yn yr ail ran o'r nodyn hwn.

31 Mawrth 2024 £'000		31 Mawrth 2025 £'000
0	Cyfrif Addasiadau Cyfalaf (Nodyn 15.1)	0
0	**Gofyn Cyllido Cyfalaf**	**0**

Mae'r symudiadau am y flwyddyn yn cael eu hegluro fel a ganlyn:

2023/24 £'000		2024/25 £'000
0	**Gofyn Cyllido Cyfalaf 1 Ebrill**	**0**
1,547	Wedi'w ariannu o gyfalaf drwy statud	10,766
(1,547)	Grantiau Llywodraeth a chyfraniadau eraill	(10,643)
0	Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth	(123)
0	**Gofyn Cyllido Cyfalaf 31 Mawrth**	**0**

NODYN 23 – PECYNNAU TERFYNU GWAITH

Nid oedd yna unrhyw becyn terfynu gwaith yn ystod 2024/25 na 2023/24.

NODYN 24 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'u gweithwyr eraill, mae'r Cyd-Bwyllgor yn gwneud cyfraniadau at gostau buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion yma yn daladwy hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyd-Bwyllgor ymrwymiad i wneud y taliadau. Mae'n rhaid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau yn y dyfodol.

Mae BUEGC yn ymwneud â dau gynllun buddiannau ôl-gyflogaeth:

a) **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd. Mae'n gynllun wedi ei ariannu, gyda buddion diffiniedig yn seiliedig ar gyflog terfynol tan 31 Mawrth 2014, ac yn seiliedig ar gyflog cyfartaledd gyrfa o 1 Ebrill 2014. Mae'r Awdurdod a'r gweithwyr cyflogedig yn talu cyfraniadau i'r gronfa, sydd wedi eu cyfrifo ar lefel sydd i fod i gydbwyso'r ymrwymiadau pensiwn gyda'r asedau a fuddsoddir.

b) **Trefniadau ar gyfer dyfarnu buddiannau ôl-ymddeol dewisol wrth ymddeol yn fuan**. Trefniant buddion diffiniedig heb ei ariannu yw hyn, lle adnabyddir yr ymrwymiadau wrth wneud y dyfarniad. Fodd bynnag, nid oes asedau buddsoddi wedi eu cronni er mwyn cwrdd â'r ymrwymiadau pensiwn, ac mae angen cynhyrchu arian er mwyn cwrdd â gwir daliadau pensiynau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei gweithredu dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a Phwyllgor Pensiynau Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun. Caiff polisi ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Y prif risgiau i'r Cyd-Bwyllgor o'r cynllun yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (megis nifer fawr yn tynnu allan o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, enillion bondiau a pherfformiad buddsoddiadau ecwiti a ddelir yn y cynllun. Mae'r rhain wedi'u lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi'r symiau sy'n ofynnol gan statud fel a ddisgrifir yn y nodyn polisïau cyfrifo i'r Gronfa Gyffredinol.

Trafodion sy'n Perthyn i Fuddion Ôl-gyflogaeth

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn adnabod cost y buddion ymddeol yn y gost gwasanaethau a adroddir pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan fydd y buddion yn cael eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r gost sydd angen ei wneud yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn sy'n golygu bod gwir gost buddion ôl-gyflogaeth/ymddeol yn cael ei wrth-droi allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau. Yn ystod y flwyddyn, mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir ac Ymrwymiad Net	Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2025		
	Asedau	**Ymrwymiadau**	**(Ymrwymiadau)/ asedau net**
	£'000	**£'000**	**£'000**
Gwerth Teg Asedau'r Cynllun	1,955	0	1,955
Gwerth Presennol Ymrwymiadau wedi eu hariannu	0	(1,551)	(1,551)
Effaith y nenfwd asedau	0	0	(404)
Sefyllfa Agoriadol ar 1 Ebrill	**1,955**	**(1,551)**	**0**
Cost Gwasanaeth			
Cost Gwasanaeth Cyfredol*	0	(158)	(158)
Cyfanswm Cost Gwasanaeth	**0**	**(158)**	**(158)**
Llog Net			
Incwm Llog ar Asedau'r Cynllun	102	0	102
Cost Llog ar Fuddion a Ddiffinnir Ymrwymiad	0	(81)	(81)
Llog ar effaith y nenfwd asedau	0	0	(20)
Cyfanswm Llog Net	**102**	**(81)**	**1**
Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)	**102**	**(239)**	**(157)**
Llif Arian			
Cyfraniadau Aelodau'r Cynllun	84	(84)	0
Cyfraniadau y Cyflogwr	225	0	225
Buddion a Dalwyd	(1)	1	0
Sefyllfa Cau y Disgwylir	**2,365**	**(1,873)**	**68**
Ail Fesuriadau			
Newid mewn Tybiaethau Demograffig	0	3	3
Newid mewn Tybiaethau Ariannol	0	503	503
Profiadau Eraill**	0	14	14
Enillion ar Asedau ac eithrio symiau a gynhwysir yn llog net	(11)	0	(11)
Enillion ar Asedau ac eithrio symiau a gynhwysir yn llog net	0	0	424
Cyfanswm yr Holl Ail Fesuriadau yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)	**(11)**	**520**	**933**
Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr	2,354	0	2,354
Gwerth Presennol Ymrwymiadau wedi eu hariannu	0	(1,353)	(1,353)
Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth	**2,354**	**(1,353)**	**1,001**

* Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans 0.6% cyflogau ar gyfer costau gweinyddiaeth.
** O fewn profiadau eraill, mae'r ymrwymiadau a ariennir wedi gostwng £14,000 o ganlynad i'r gorchymyn cynydd pensiwn yn wahanol i'r rhagdybiaeth flaenorol.

NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir ac Ymrwymiad Net	Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2024			
	Asedau	**Ymrwymiadau**	**Effaith addasiadau'r nenfwd asedau**	**(Ymrwymiadau) /asedau net**
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Gwerth Teg Asedau'r Cynllun	1,540	0	0	1,540
Gwerth Presennol Ymrwymiadau wedi eu hariannu	0	(1,397)	0	(1,397)
Effaith y nenfwd asedau	0	0	(143)	(143)
Sefyllfa Agoriadol ar 1 Ebrill	**1,540**	**(1,397)**	**(143)**	**0**
Cost Gwasanaeth				
Cost Gwasanaeth Cyfredol*	0	(143)	0	(143)
Cyfanswm Cost Gwasanaeth	**0**	**(143)**	**0**	**(143)**
Llog Net				
Incwm Llog ar Asedau'r Cynllun	79	0	0	79
Cost Llog ar Fuddion a Ddiffinnir Ymrwymiad	0	(71)	0	(71)
Llog ar effaith y nenfwd asedau	0	0	(7)	(7)
Cyfanswm Llog Net	**79**	**(71)**	**(7)**	**1**
Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)	**79**	**(214)**	**(7)**	**(142)**
Llif Arian				
Cyfraniadau Aelodau'r Cynllun	66	(66)	0	0
Cyfraniadau y Cyflogwr	171	0	0	171
Buddion a Dalwyd	(1)	1	0	0
Sefyllfa Cau y Disgwylir	**1,855**	**(1,676)**	**(150)**	**29**
Ail Fesuriadau				
Newid mewn Tybiaethau Demograffig	0	9	0	9
Newid mewn Tybiaethau Ariannol	0	158	0	158
Profiadau Eraill**	0	(42)	0	(42)
Enillion ar Asedau ac eithrio symiau a gynhwysir yn llog net	100	0	0	100
Enillion ar Asedau ac eithrio symiau a gynhwysir yn llog net	0	0	150	150
Cyfanswm yr Holl Ail Fesuriadau yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)	**100**	**125**	**150**	**375**
Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr	1,955	0	0	1,955
Gwerth Presennol Ymrwymiadau wedi eu hariannu	0	(1,551)	0	(1,551)
Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth	**1,955**	**(1,551)**	**0**	**404**

* Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans 0.6% cyflogau ar gyfer costau gweinyddiaeth.
** Mae'r profiadau eraill ar ymrwymiadau yn cynnwys lwfans o £42,000 ar gyfer effaith gorchymyn cynnydd pensiwn Ebrill 2024.

NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Asedau ac ymrwymiadau pensiwn a gydnabyddir yn y Fanolen

Mae'r swm a gynhwyrsir yn y Fantolen sy'n codi o ymrwymiad y Cyd-Bwyllgor mewn perthynas â'i gynllun buddion diffiniedig fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2024 £'000	31 Mawrth 2025 £'000
Gwerth Teg Asedau'r Cynllun	1,955	2,354
Gwerth Presennol Ymrwymiadau wedi eu hariannu	(1,551)	(1,353)
Is-gyfanswm	**404**	**1,001**
Effaith SCRh 19/ PDAARh 14	(404)	(1,001)
Ased/ (Ymrwymiad) Net Yn Deillio o Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir	**0**	**0**

Mae prisiad actiwaraidd ymrwymiadau cynllun pensiwn a resef pensiynau y Cyd-Bwyllgor a ddangosir ar y Fantolen yn adrodd am ased neu ymrwymiad net o ddim. Penderfynodd Actiwari'r Cyd-Bwyllgor, Hymans Robertson LLP, fod gwerth teg asedau cynllun pensiwn y Cyd-Bwyllgor yn fwy na gwerth presennol ymrwymiadau'r cynllun ar 31 Mawrth 2025 gan arwain at ased cynllun pensiwn. Mae PDAARh 14 a buddion gweithwyr SCRh 19 yn ei gwneud yn ofynnol, lle mae ased cynllun pensiwn yn bodoli, ei fod yn cael ei fesur fel yr isaf o'r:

- Gwarged yn y cynllun buddion diffiniedig; a'r
- Nenfwd asedau, sydd wedi'i gyfyngu i £0

Y nenfwd asedau yw gwerth presennol unrhyw fuddion economaidd sydd ar gael ar ffurf ad-daliadau o'r cynllun neu ostyngiadau yng nghyfraniadau i'r cynllun yn y dyfodol. Cyfrifodd Actiwari'r Cyd-Bwyllgor y nenfwd asedau fel y gwerth net presennol o gostau gwasanaeth yn y dyfodol llai gwerth net presennol cyfraniadau yn y dyfodol. Mae'r nenfwd asedau a gyfrifwyd ar gyfer 2024/25 yn arwain at fwy o gyfraniadau gwasanaeth yn y dyfodol na chostau gwasanaeth yn y dyfodol, felly mae'r budd economaidd wedi'i gyfyngu i ddim. Mae'r Cyd-Bwyllgor yn dibynnu ac yn rhoi sicrwydd ar farn broffesiynol yr Actiwari a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir i gyfrifo'r prisiad actiwaraidd hwn.

Prif Gategorïau Asedau'r Cynllun fel Canran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun

Mae'r Actiwari wedi darparu dadansoddiad manwl o asedau'r Gronfa yn unol â gofynion SCRh 19. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng natur a risg yr asedau hynny ac yn eu torri i lawr ymhellach i'r rheiny sydd â dyfynbris mewn marchnad actif, a'r rheiny sydd ddim yn cael eu dyfynnu. Tybir bod rhaniad asedau BUEGC ar yr un gyfran â dyraniad asedau'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2024. Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad. Mae'r actiwari yn amcangyfrif bod gwerth bid asedau'r Gronfa yn £3.18bn ar 31 Mawrth 2025, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu ac yn rhoi ystyriaeth i enillion mynegai lle bo hynny'n briodol. Dim ond rhan o'r Gronfa sy'n berthnasol i'r BUEGC.

NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

Mae gwerth yr asedau isod ar werth bid yn unol â gofynion SCRh 19.

Categori Ased	Ar 31 Mawrth 2024				Ar 31 Mawrth 2025			
	Prisiau a ddyfynnwyd mewn	Prisiau na ddyfynnir mewn	Cyfanswm		Prisiau a ddyfynnwyd mewn	Prisiau na ddyfynnir mewn	Cyfanswm	
	£'000	£'000	£'000	%	£'000	£'000	£'000	%
Ecwiti Preifat								
Y cyfan	0	102	102	5	0	127	127	5
Eiddo Diriaethol								
Eiddo y DU	0	136	136	7	0	150	150	6
Cronfeydd Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau Unedol								
Ecwiti	0	1,088	1,088	56	0	1,300	1,300	55
Bondiau	0	0	0	0	0	692	692	29
Is-adeiladwaith	0	0	0	0	0	69	69	3
Eraill	0	556	556	28	0	0	0	0
Deilliadau								
Chwyddiant	0	48	48	3	0	0	0	0
Arian a Chywerthoedd Arian								
Y cyfan	0	25	25	1	0	16	16	1
Cyfanswm	**0**	**1,955**	**1,955**	**100**	**0**	**2,354**	**2,354**	**100**

Sail ar gyfer amcangyfrif asedau ac ymrwymiadau

Mae'r ymrwymiadau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, sef amcangyfrif o'r pensiwn fydd yn daladwy yn y dyfodol yn ddibynnol ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, disgwyliad oes a lefelau cyflog. Mae disgwyliad oes yn seiliedig ar VitaCurves y Gronfa gyda gwelliannau yn unol â model CMI 2023, gyda phwysiad o 15% o ddata 2023 (a 2022), pwysiad o 0% o ddata 2021 (a 2020), llyfnu safonol (Sk7), addasiad cychwynnol o 0.25% a chyfradd gwelliant hirdymor o 1.5% y flwyddyn ar gyfer gwrywod a benywod.

Mae Hymans Robertson, cwmni actiwari annibynnol, wedi amcangyfrif ymrwymiadau Cynllun Pensiwn Gwynedd ac ymrwymiadau Buddion Dewisol. Roedd amcangyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn seiliedig ar y prisiad llawn ddiweddaraf o'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022. Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddir gan yr Actiwari yn y tabl canlynol wedi cael effaith sylweddol ar werthoedd yr asedau a'r ymrwymiadau fel a ganlyn:

NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)

	31 Mawrth 2024	31 Mawrth 2025
Tybiaethau Ariannol	**% y.f.**	**% y.f.**
Cyfradd Codiad Pensiynau	2.75	2.70
Cyfradd Codiad Cyflogau	3.25	3.20
Cyfradd Chwyddiant	2.75	2.70
Cyfradd Ddisgownt	4.85	5.85
Cyfradd enillion tymor hir a ddisgwylir ar yr holl asedau	4.85	5.85
Nifer a ddisgwylir i gymryd yr opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeol		
am wasanaeth cyn Ebrill 2008	65	65
am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008	65	65
Tybiaethau Marwolaeth	**Blynyddoedd**	**Blynyddoedd**
Hirhoedledd yn 65 oed i bensiynwyr cyfredol		
Dynion	20.8	20.7
Merched	23.7	23.7
Hirhoedledd yn 65 oed i bensiynwyr y dyfodol		
Dynion	22.5	22.4
Merched	25.5	25.4

Mae'r amcangyfrifiad o'r ymrwymiadau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintioli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r Actiwari wedi cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymiadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2025 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigyrau SCRh 19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwyn meintioli'r ansicrwydd ynghylch disgwyliad hyd oes, mae'r Actiwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Cyd-Bwyllgor pe bai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o tua 3-5% yn y gost o fudd-daliadau. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynnol ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn).

Mae'r ffigyrau yn y tabl isod wedi deillio'n seiliedig ar broffil aelodaeth y Cyd-Bwyllgor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022, sef dyddiad y prisiad actiwaraidd diweddaraf. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd a ddangosir isod yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd y flwyddyn flaenorol.

Effaith ar Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir yn y Cynllun		
Newid tybiaeth	**Brasamcan cynnydd i'r Ymrwymiad Buddion Diffiniedig**	**Brasamcan swm ariannol**
	31 Mawrth 2025	**31 Mawrth 2025**
	%	£'000
0.1% o leihad i'r gwir gyfradd ddisgownt	3	42
Cynnydd o 1 blwyddyn yn nisgwyliad oes aelodau	4	54
0.1% o gynnydd i'r cyfradd codiad cyflog	0	2
0.1% o gynnydd i'r gyfradd codiad pensiwn	3	41

NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Effaith ar Lif Arian y Cyd-Bwyllgor

Un o amcanion y cynllun yw y dylid cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosib. Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi cytuno ar strategaeth gydag Actiwari'r gronfa i gyflawni lefel cyllido o 100% dros yr 17 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol.

Caiff y cyfraniadau a delir gan y Cyd-Bwyllgor eu gosod gan Actiwari'r Gronfa yn y prisiad pob tair blynedd, neu ar unrhyw adeg arall pan roddir cyfarwyddyd i wneud hynny gan yr Awdurdod Gweinyddu. Mae'r cyfraniadau sy'n daladwy dros y cyfnod tan 31 Mawrth 2024 wedi'u gosod yn y dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau. Am fanylion pellach ar y dull a ddefnyddiwyd i osod cyfraddau cyfrannu ar gyfer y Cyd-Bwyllgor, dylid cyfeirio at adroddiad actiwaraidd 2022, dyddiedig 28 Mawrth 2023.

Gwybodaeth am yr Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir

	Rhaniad Ymrwymiad 31 Mawrth 2025	
	£'000	%
Aelodau Gweithredol	1,348	99.6
Aelodau Gohiriedig	5	0.4
Aelodau Pensiynwyr	0	0.0
Cyfanswm	**1,353**	**100.0**

Mae'r ffigyrau uchod yn cynnwys ymrwymiadau wedi eu hariannu yn unig, ac nid ydynt yn cynnwys ymrwymiadau pensiynwyr heb eu hariannu. Mae'r parhad yn effeithiol ar brisiad swyddogol blaenorol ar 31 Mawrth 2022. Yn unol a'r sefyllfa ar ddyddiad y prisiad yma, cyfnod cyfartaledd cymhwysol o'r ymrwymiadau buddion diffiniedig ar gyfer aelodau'r cynllun yw 31 mlynedd.

Effaith ar y Blynyddoedd i ddod

Disgwylir i gyfanswm y cyfraniadau a wneir i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Cyd-Bwyllgor fod yn £225k yn y flwyddyn i 31 Mawrth 2026.

Gan fod adroddiad Actiwari yn seiliedig ar amcangyfrifon, ac o ganlyniad i wahaniaethau amser, gwnaed addasiad o -£1,518 yn 2024/25 (£7,328 yn 2023/24), i ddod â'r sefyllfa yn y Gronfa ar sail ffigyrau Actiwaraidd yn unol â'r sefyllfa cau ar 31 Mawrth 2025 (cyn unrhyw addasiad nenfwd ased). Mae'r gwahaniaeth yma wedi ei drin fel Enillion a Cholledion Actiwaraidd ar Asedau ac Ymrwymiadau Pensiwn.

NODYN 25 – DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Awdurdodwyd y Datganiad o'r Cyfrifon gan y swyddog ariannol cyfrifol ar 27 Mehefn 2025. Nid yw digwyddiadau yn dilyn y dyddiad yma wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau cysylltiedig. Lle roedd digwyddiadau a oedd yn digwydd cyn y dyddiad hwn yn darparu gwybodaeth am amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2025, mae'r ffigyrau yn y datganiadau a'r nodiadau ariannol wedi'u haddasu ym mhob agwedd materol i ddangos yr effaith.

Geirfa

Ariannu Cyfalaf - Cyllid ar gyfer talu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd i ariannu gwariant cyfalaf yn cynnwys benthyca, lesu, cyllido'n uniongyrchol o refeniw, derbyniad cyfalaf i'w ddefnyddio, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, reserfau refeniw a reserfau wedi'u clustnodi.

Ased - Eitemau o werth sydd yn cael ei fesur mewn cyd-destun pris.

- Caiff ased cyfredol ei dreulio neu gall golli gwerth ariannol materol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.
- Mae ased anghyfredol yn darparu budd i'r Cyd-Bwyllgor ac i'r gwasanaethau mae'n ddarparu am gyfnod o dros flwyddyn.

Balansau (neu Reserfau) - Mae'r rhain yn cynrychioli cyllid cronedig sydd ar gael i'r Cyd-Bwyllgor. Caiff rhai balansau (reserfau) eu clustnodi ar gyfer pwrpas penodol i ariannu mentrau diffiniedig yn y dyfodol neu i gwrdd â risg neu ymrwymiadau gaiff eu hadnabod.

CIPFA (Chartered Institute of Public Finance and Accounting) - Sefydliad proffesiynol ar gyfer cyfrifwyr sy'n gweithio yn y sector gyhoeddus.

Cost Gwasanaeth Cyfredol - Cynnydd yng ngwerth cyfredol ymrwymiadau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a ddisgwylir i godi o wasanaeth gweithiwr yn y cyfnod presennol.

Credydwyr - Symiau yn ddyledus gan y Cyd-Bwyllgor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, sydd â thaliadau heb eu gwneud erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

Cronfa Gyffredinol - Prif gronfa refeniw'r Cyd-bwyllgor sydd yn cynnwys cost net yr holl wasanaethau a ariennir gan gyfraniadau partneriaid a grantiau'r Llywodraeth.

Cyfrif Addasiadau Cyfalaf - Reserf wedi ei glustnodi o adnoddau cyllid neu dderbyniad cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-daliad benthyciad allanol a mathau eraill o drafodion cyllido cyfalaf.

Cynllun Buddiannau Diffiniedig - Pensiwn neu gynllun budd ymddeoliad arall sydd ddim yn gynllun cyfraniad diffiniedig.

Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig - Pensiwn neu gynllun budd ymddeoliad arall lle gwelir gweithiwr yn cyfrannu symiau penodol rheolaidd fel swm neu ganran o'r cyflog, a ni fydd rhwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu cyfraniadau pellach petai'r cynllun ddim ag asedau digonol i dalu buddion i'r holl weithwyr mewn perthynas â gwasanaeth y gweithiwr yn y cyfnod presennol a blaenorol.

Dibrisio - Mesuriad cost y budd economaidd yr asedau sefydlog diriaethol dreuliwyd yn ystod y cyfnod.

Dyledwyr - Symiau yn ddyledus i'r Cyd-Bwyllgor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, o fewn y cyfnod cyfrifo, sydd â thaliadau heb eu derbyn erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

Enillion a Cholledion Actiwaraidd - Ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, mae y newidiadau mewn gwarged actiwaraidd sydd yn codi oherwydd bod digwyddiadau heb gyd-daro gyda rhagdybiaeth actiwaraidd a wnaed ar gyfer y prisiad diwethaf (profiad enillion a cholledion) neu bod y rhagdybiaethau actiwaraidd wedi newid.

Gwariant Cyfalaf - Gwariant caffael ar ased anghyfredol, a gaiff ei ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaeth tu hwnt i'r cyfnod cyfrifo neu wariant sydd yn cyfrannu, a ddim yn unig yn cynnal, at werth ased anghyfredol.

Gwerth Teg - Y pris a dderbynnir i werthu ased, neu a delir i drosglwyddo ymrwymiad mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranwyr i'r farchnad ar ddyddiad y mesuriad.

Partïon Cysylltiedig - Caiff partïon eu hystyried i fod yn gysylltiedig os oes gan un parti'r gallu i reoli'r parti arall neu gyda dylanwad sylweddol penodol dros y parti arall wrth wneud penderfyniadau ariannol neu weithredol.

Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh) - Cyfres o safonau cyfrifo a ddefnyddir ar draws y byd. Rhaid iddynt gael eu gweithredu ar bob datganiad cyllidol gan bob endid sy'n adrodd i bob datganiad cyllidol er mwyn darparu darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr endid, ac fel ffordd i gysoni a chymharu gyda datganiadau cyllidol endidau eraill.

Ymrwymiadau - Symiau sydd yn ddyledus i unigolion neu sefydliadau y bydd yn rhaid eu talu rhywbryd yn y dyfodol.

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

18 Gorffennaf 2025

TEITL: Diweddariad aelodaeth yr Is-bwyllgor

AWDUR: Iwan Evans, Swyddog Monitro

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Cymeradwyo penodi'r Aelodau cyfetholedig ar yr is-bwyllgorau cynllunio a thrafnidiaeth strategol.

1.2 Nodi aelodaeth yr Is-bwyllgorau fel a nodir yn y Tablau isod.

2. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

2.1 Mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) gyfrifoldeb statudol dros ddatblygu polisi cynllunio a thrafnidiaeth strategol ar sail ranbarthol mewn perthynas ag ardal pob cyngor cyfansoddol (ac ar gyfer cynllunio, Parc Cenedlaethol Eryri). Mae'r CBC wedi penderfynu sefydlu dau is-bwyllgor i gyflawni'r swyddogaeth hon, gan adrodd materion a gedwir yn ôl i'r CBC sy'n cynnwys mabwysiadu ac adolygu unrhyw gynllun neu bolisi.

3. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

3.1 Yn 2022 cymeradwyodd y CBC sefydlu Is-bwyllgor Cynllunio Strategol ac Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol, ei aelodaeth a'i hawliau pleidleisio. Cymeradwyodd y CBC hefyd Gylch Gorchwyl a Rheolau Sefydlog yr Is-bwyllgorau ynghyd â manylion y broses ffurfiol ar gyfer cyfethol.

3.2 Mae'r CBC wedi penderfynu ffurfio cyfansoddiad ac aelodaeth ei is-bwyllgorau drwy gyfethol yr aelodau hynny sy'n dal y portffolio arweiniol ar gyfer trafnidiaeth (6 aelod â phleidlais) a chynllunio (7 aelod â phleidlais, gan gynnwys cynrychiolydd y Parc Cenedlaethol). Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r aelodau hynny sydd i'w cyfethol ar y ddau is-bwyllgor yn dilyn newidiadau i ddeiliaid portffolio ar ôl cyfarfodydd cyffredinol blynyddol yr Awdurdodau hynny sy'n ffurfio aelodaeth y CBC.

3.3 Mae'n ofynnol i'r Aelodau arweiniol hynny (ac aelod enwebedig y Parc Cenedlaethol) a nodwyd i'w cyfethol lofnodi Cytundeb Cyfethol sy'n gosod y telerau a'r swyddogaethau mewn perthynas â phob is-bwyllgor. Mae'r broses bresennol o gyfethol yn golygu nad oes lle i ddirprwyon fynychu yn absenoldeb yr aelod cyfetholedig (oni bai bod aelod yn rhan o drefniant rhannu swydd).

3.4 Yr argymhelliad yw penodi'r aelodau a ganlyn:

- Y Cynghorydd Gary Pritchard i gymryd lle'r Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Ynys Môn) ar yr is-bwyllgor trafnidiaeth strategol

- Y Cynghorydd Richard Jones i gymryd lle'r Cynghorydd Christopher Bithell (Sir y Fflint) ar yr is-bwyllgor cynllunio strategol

Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol	
Enw	**Sir**
Y Cyng. Craig ab Iago	Cyngor Gwynedd
CADEIRYDD Y Cyng. Goronwy Edwards	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
IS-GADEIRYDD Y Cyng. David A. Bithell	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
~~**IS-GADEIRYDD**~~ ~~Y Cyng. Dafydd R. Thomas~~ Y Cyng. Gary Pritchard	Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyng. Barry Mellor	Cyngor Sir Ddinbych
Y Cyng. Glyn Banks	Cyngor Sir y Fflint

Is-bwyllgor Cynllunio Strategol	
Enw	**Sir**
Y Cyng. Craig ab Iago	Cyngor Gwynedd
Y Cyng. Chris Cater	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
IS-GADEIRYDD Y Cyng. Hugh Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
CADEIRYDD Y Cyng. Nicola Roberts	Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyng. Alan James	Cyngor Sir Ddinbych
~~Y Cyng. Christopher Bithell~~ Y Cyng. Richard Jones	Cyngor Sir y Fflint
Y Cyng. Edgar Owen	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

ATODIADAU:

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Awdur yr adroddiad.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.

ADRODDIAD I GYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

18 Gorffennaf, 2025

TEITL: Diweddariad ar y Cynllun Datblygu Strategol (SDP) ar gyfer Gogledd Cymru – Cytundeb Cyflawni

AWDUR: Alwen Williams, Prif Weithredwr y CBC,

Andy Roberts, Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar y cynnydd gyda pharatoi Cytundeb Cyflawni (DA) ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol (SDP) ar gyfer Gogledd Cymru, yn ogystal â thynnu sylw at rai o'r materion allweddol y bydd angen mynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i gychwyn y cynllun.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR


2.1. Nodi'r sefyllfa gyda'r SDP a'r materion a amlygwyd i'w datrys yn y dyfodol.

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Sicrhau bod y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gwbl ymwybodol o'r cam a gyrhaeddwyd gyda'r SDP, a'r materion allweddol y mae angen eu datrys er mwyn dechrau'r cynllun.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021 (Rheoliadau SDP) yn rhannu'r broses o gynhyrchu SDP yn chwe cham allweddol. Mae'r camau hyn a'r gofynion manwl ar gyfer pob cam wedi'u nodi mewn llawlyfr SDP drafft – nid yw Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi nac ymgynghori arno'n ffurfiol eto, ond mae swyddogion mewn Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi cael cyfle i adolygu'r llawlyfr drafft a'i ofynion.



Proses y Cynllun Datblygu Strategol (o'r Llawlyfr SDP drafft)

4.2. Cam cyntaf y broses yw datblygu Cytundeb Cyflawni. Yn y bôn, mae hwn yn gynllun o sut y bydd y cynllun yn cael ei gynhyrchu, pwy fydd yn cymryd rhan, sut, a phryd, a pha mor hir y bydd y cynllun yn ei gymryd i'w gynhyrchu. Mae'n cynnwys dwy brif ran: Datganiad o Gyfranogiad Cymunedol sy'n nodi pwy neu ba grwpiau, cyrff neu sefydliadau y bydd y CBC yn ceisio ymgysylltu â hwy yn y broses, y dulliau a ddefnyddir i ymgynghori, a'r cyfleoedd a'r ffyrdd y gall partïon sydd â diddordeb wneud sylwadau. Mae'r ail ran yn cynnwys amserlen fanwl sy'n rhannu pob cam allweddol yn dasgau mwy manwl, ac yn gosod amserlen ar gyfer pa mor hir y bydd pob tasg, cam a'r broses gyffredinol yn ei gymryd i'w gwblhau.

4.3. Unwaith y bydd Cytundeb Cyflawni wedi'i ddrafftio, dylai'r CBC anelu at ymgynghori'n anffurfiol ar ei gynnwys, er gwaethaf y ffaith ei bod yn ddogfen weithdrefnol, ac nad yw'n cynnwys unrhyw weledigaeth, amcanion na chyfeiriad polisi ar hyn o bryd. Nid oes gofyniad statudol felly i ymgynghori ar y Cytundeb Cyflawni, ond ystyrir ei bod yn arfer dda i sicrhau bod y Cytundeb Cyflawni drafft ar gael i bartïon â diddordeb edrych arno a rhoi sylwadau arno.

4.4. Ar ôl ymgynghori, ac ystyried unrhyw sylwadau perthnasol, mae'n rhaid i'r CBC fabwysiadu'r Cytundeb Cyflawni drwy benderfyniad ffurfiol, cyn ei gyflwyno wedyn i Lywodraeth Cymru i'w ystyried a'i gytuno gan Weinidogion Cymru. Hyd nes y bydd Gweinidogion Cymru yn llofnodi'r Cytundeb Cyflawni, ni all y CBC ddechrau datblygu'r SDP ei hun, er y gall rhywfaint o waith ar gasglu tystiolaeth gefndirol ddigwydd.

4.5. Yn ogystal â dangos i Weinidogion Cymru fod y Cytundeb Cyflawni yn rhesymol o ran pwy y bydd yn ymgynghori â hwy, sut a phryd, a'r amser y bydd yn ei gymryd i gynhyrchu'r cynllun, fel rhan o'r Cytundeb Cyflawni mae'n rhaid i'r CBC hefyd asesu ac egluro'r adnoddau y bydd eu hangen i ymgymryd â'r SDP a'r gost gyffredinol o wneud hynny. Ymhellach i hyn, mae'n rhaid iddo nodi'n glir sut y bydd yn darparu'r cyllid angenrheidiol i dalu'r costau hynny dros oes y broses o gynhyrchu'r SDP. Hyd nes y bydd y cyllid llawn wedi'i adnabod, ni all y CBC gyflwyno'r Cytundeb Cyflawni i Weinidogion Cymru yn ffurfiol i'w arwyddo ac felly ni all ddechrau'r SDP.

5. CYNNYDD GYDA'R SDP

5.1. Mae Cytundeb Cyflawni drafft wedi'i gynhyrchu ar gyfer SDP Gogledd Cymru. Mae hwn wedi'i anfon at swyddogion yn Nhîm Cynllun Datblygu Llywodraeth Cymru ac ym mhob un o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol priodol yng Ngogledd Cymru am eu sylwadau a'u hadborth. Mae'r Cytundeb Cyflawni drafft ynghlwm wrth yr adroddiad hwn fel atodiad 1.

5.2. Mae'r Cytundeb Cyflawni hefyd wedi cael ei adolygu a'i drafod yn anffurfiol gan Is-bwyllgor Cynllunio Strategol y CBC i sicrhau eu bod yn llwyr ymwybodol o'r broses ac yn rhan lawn ohoni, a chael adborth cyn dechrau ymgynghori'n anffurfiol. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, y bwriad yw ymgynghori ar y Cytundeb Cyflawni yn ystod mis Gorffennaf ac Awst, ac yna adrodd ar unrhyw adborth a dderbyniwyd i'r CBC yn ei gyfarfod ar 19eg Medi 2025.

6. PRIF BENAWDAU'R CYTUNDEB CYFLAWNI

6.1. Mae sawl mater allweddol i'w hamlygu i'r CBC o'r Cytundeb Cyflawni drafft:

- Mae'r rhaglen ddrafft yn rhagweld dyddiad cychwyn ar gyfer llunio'r cynllun yn chwarter cyntaf 2026, gyda dyddiad mabwysiadu dilynol yn chwarter cyntaf 2031, felly amserlen o bum mlynedd i gyd ar gyfer creu'r cynllun;
- Cyfnod cynllun 25 mlynedd o 2026 – 2051;
- Bydd sail dystiolaeth yr SDP yn tynnu'n sylweddol ar adolygiad o'r dystiolaeth sy'n cael ei chynhyrchu i gefnogi Adolygiadau presennol o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl);
- Y ffocws ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori ffurfiol fydd dibynnu ar ddulliau rhithwir o ystyried graddfa ddaearyddol y Rhanbarth a sgôp strategol y SDP, ac mae'n bosib na fydd y rhain o reidrwydd yn adnabod materion cynllunio lleol y byddai'n well ymdrin â nhw mewn CDLl neu CDLl 'lites'. Nid yw hyn yn golygu na ellir cydlynu sesiynau galw heibio lleol er enghraifft, ond bydd hyn yn dibynnu ar ddull cydweithredol gyda phob ACLl;
- Aseswyd fod y gost gyffredinol o gynhyrchu'r SDP yn £3.276m a bydd angen i'r broses a ddaw i sefydlu cyllideb y CBC adnabod sut y gellir cyllidebu ar gyfer y costau hyn dros oes pum mlynedd y broses o lunio'r cynllun;
- Bydd ymgynghoriad anffurfiol â rhan-ddeiliaid ar y Cytundeb Cyflawni yn cael ei gynnal yn ystod mis Gorffennaf ac Awst a bydd unrhyw sylwadau a wneir yn cael eu bwydo'n ôl i'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol a'r CBC ym mis Medi;
- Mae cyflwyno'r cytundeb cyflawni yn ffurfiol i Weinidogion Cymru yn dibynnu ar allu dangos cyllideb ddigonol i dalu costau llawn yr SDP.

7. PRIF FATERION/RISGIAU'N CODI GYDA DECHRAU'R SDP

7.1. Wrth edrych ymlaen at y cyfnod ar ôl i Weinidogion Cymru arwyddo'r Cytundeb Cyflawni, mae rhai heriau allweddol i'w datrys er mwyn gosod y cyd-destun cywir ar gyfer dechrau'r gwaith ar y SDP ei hun. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adnoddau – ystyried y dull o adeiladu Tîm Cynllunio mewnol o fewn y CBC a'r sail dros wneud hynny e.e. recriwtio parhaol neu gydweithio/secondio;
- Ymgynghorwyr – bydd angen defnyddio ymgynghorwyr arbenigol i ddarparu cefnogaeth i rannau allweddol o'r broses SDP, i ddechrau drwy gynorthwyo'r CBC i adolygu a choladu'r sail dystiolaeth y mae pob un o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol partner ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi'i datblygu i gefnogi gwaith y CDLl;
- Gweledigaeth – Tasg allweddol yw datblygu gweledigaeth hirdymor briodol ac integredig ar gyfer yr SDP, sy'n cyd-fynd â phwrpas cyffredinol y CBC, a'r meysydd polisi eraill o fewn

ei gylch gwaith. Mae gwaith cynnar yn cael ei wneud i drefnu cyfres o weithdai gweledigaeth yn yr Hydref gydag Aelodau a swyddogion cynllunio, trafnidiaeth a datblygu economaidd a rhan-ddeiliaid allweddol. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu am hyn;

- Graddfa twf – Bydd yn bwysig sicrhau bod y SDP wirioneddol yn gynllun strategol nad yw'n ceisio delio â materion sy'n fwy priodol i gael sylw ar lefel leol trwy CDLl unigol. Rôl bwysig i'r SDP fydd gosod lefelau twf rhanbarthol (cyflogaeth, tai) a dosbarthu'r rhain i lawr i lefel yr awdurdod lleol unigol. Bydd angen iddo hefyd ddiffinio beth yw ystyr 'strategol' o ran maint y safle datblygu e.e. isafswm maint safle cyflogaeth neu o leiaf 500 o gartrefi;
- Strategaeth Ofodol – Bydd angen i'r SDP adnabod strategaeth ofodol lefel uchel sy'n tynnu sylw at yr aneddleoedd a'r lleoliadau allweddol sy'n debygol o fod yn ffocws ar gyfer twf rhanbarthol dros oes y cynllun. Nid yw hyn yn golygu nad yw aneddleoedd eraill yn bwysig, dim ond y byddant yn bwysicach ar lefel leol, CDLl;
- Cyllid – Mae dyletswydd statudol y CBC i gynhyrchu SDP yn cynnwys talu'r costau llawn o wneud hynny. Mae'r Cytundeb Cyflawni drafft yn cynnwys asesiad o'r costau hyn ac mae adran 8 yr adroddiad hwn isod, yn asesu gallu cyllideb gyfredol y SDP ar gyfer 2025-26 i gwrdd â'r costau hyn, os na ddisgwylir iddynt newid wrth symud ymlaen;
- Integreiddio Polisi – Un egwyddor graidd y tu ôl i'r ffordd y mae'r CBC yn gweithio yw sicrhau bod lefel uchel o integreiddio polisi, ac mae'r SDP yn rhoi cyfle i gysylltu â'r gwaith a wnaed eisoes i greu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP) i adnabod goblygiadau defnydd tir y rhaglen isadeiledd trafnidiaeth, yn ogystal â llywio cyfeiriad hynny yn y dyfodol. Bydd Llesiant Economaidd hefyd wrth wraidd strategaeth yr SDP, gan alluogi twf economaidd rhanbarthol, swyddi a buddsoddiad i barhau.

7. GOBLYGIADAU ARIANNOL

7.1. Bydd costau'n cael eu tynnu o gyllidebau presennol CBC y Gogledd gyda'r gefnogaeth angenrheidiol gan dimau Cyfreithiol a Chyllid y CBC. Bydd y CBC hefyd yn ceisio sicrhau rhagor o gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru. O ran cyllideb bresennol y CBC ar gyfer 2025-26 sy'n ymwneud â'r SDP, byddai angen cynyddu'r gyllideb hon 50% o'r lefel bresennol bob blwyddyn, dros gyfnod cynhyrchu'r cynllun sef 2026-2031, i gwrdd â chostau llawn yr SDP. Bydd asesiad manylach yn cael ei gyflwyno i'r CBC ym mis Medi fel rhan o adroddiad pellach ar yr SDP.

8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

8.1. Mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ddyletswydd statudol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r gofynion a'r camau penodol i gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol wedi'u nodi yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021.

ATODIADAU:

Cytundeb Dosbarthu Drafft

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:
Dim sylwadau i'w hychwanegu mewn perthynas â phriodoldeb

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Fel y nodwyd yn yr adroddiad, mae cyllideb mewn lle ar gyfer datblygu'r SDP. Fel y nodwyd, mae'r penderfyniad a geisir yn un o sawl cam mewn proses hir a bydd swyddogion cyllid yn parhau i gefnogi swyddogion ac aelodau yn ôl yr angen.

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

Cynllun Datblygu Strategol 2026-2051

Cytundeb Cyflawni Drafft

Mai 2025

Tud-alen

1. Crynodeb Gweithredol 4

2. Cyd-destun Polisi 6

Uchelgais y CBC – i ddatblygu rhanbarth cysylltiedig, gwydn, blaengar a chynaliadwy 6

Uchelgais y CBC – i ddatblygu rhanbarth cysylltiedig, gwydn, blaengar, cynaliadwy 7

3. Rôl y Cytundeb Cyflawni (DA) a'r Cynllun Cynnwys Cymunedol (CIS) 8

4. Paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol (SDP) 9

Llywodraethu 10

Deilliannau Allweddol 10

Deddfwriaeth, Polisi, a Chanllawiau sy'n berthnasol i baratoi'r SDP 11

Dull Asesu Integredig: Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ISA) sy'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol (SA/SEA) ac asesiadau cysylltiedig eraill 12

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) 13

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Sail Tystiolaeth 14

Archwiliad Annibynnol a Chadernid 16

Cydymffurfiaeth Gyfreithiol a Rheoleiddiol wrth Baratoi Cynllun 16

Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) 16

Monitro ac Adolygu 16

Cydweithio 17

5. Cynllun Cynnwys y Gymuned 19

Egwyddorion Allweddol ar gyfer Cyfranogiad 19

Yr Iaith Gymraeg ac Ymgysylltu Dwyieithog 20

Pwy fydd y CBC yn ymgynghori â hwy? 21

Sut bydd y CBC yn eich cynnwys chi? 27

Adeiladu Consensws 29

Rheoli Sylwadau 30

Sylwadau Hwyr 30

Argaeledd Dogfennau 31

6. Yr Amserlen 31

Asesiad Risg 33

7. Cyllideb y Rhaglen a Strategaeth Adnoddau 33

Atodiadau

Atodiad 1: Asesiadau Sail Tystiolaeth

Atodiad 2: Rhestr o Gyrff Ymgynghori Penodol a Chyffredinol

Atodiad 3: Prif Swyddfeydd Llywodraeth Leol

Atodiad 4: Crynodeb o gyfranogiad cymunedol yng nghyfnodau allweddol yr SDP

Atodiad 5: Amserlen SDP Manwl

Atodiad 6: Asesiad Rheoli Risg

Atodiad 7: Llythyr gan Lywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni

1. Crynodeb Gweithredol

1.1 Mae Rhanbarth Gogledd Cymru yn cynrychioli un o'r lleoliadau mwyaf poblogaidd ar gyfer twf a buddsoddi, o farchnadoedd rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae ganddo hefyd y manteision ychwanegol o fod yn un o'r lleoliadau mwyaf deniadol i fyw a gwneud busnes, gydag amgylchedd naturiol cyfoethog ac amrywiol, arfordir deinamig, ynghyd â threftadaeth adeiledig a diwylliannol gref. Gyda llesiant wrth ei gwraidd, mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio i weld y rhanbarth yn datblygu mewn modd blaengar ond cynaliadwy, gyda chyfleoedd i bobl ennill sgiliau newydd, datblygu gyrfaoedd gwerth chweil, i fusnesau ffynnu, ac i gymunedau ffynnu.

1.2 Mae Uchelgais Gogledd Cymru eisoes yn gweithio'n effeithiol mewn ystyr gydweithredol wrth gyflawni'r Cynllun Twf ond drwy ddefnyddio manteision pwerau statudol newydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC), ei nod yw datblygu polisïau a phrosiectau strategol sy'n integreiddio lles economaidd â chynllunio gofodol a datblygu isadeiledd trafnidiaeth gynaliadwy. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ddatblygu'r cynlluniau a'r strategaethau allweddol a ganlyn:

- Fframwaith Buddsoddi Economaidd Rhanbarthol
- Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP)
- Cynllun Datblygu Strategol (SDP)

1.3 O ran cynllunio gofodol, bydd gan yr SDP rôl allweddol wrth lunio a llywio twf y rhanbarth yn y dyfodol, trwy nodi cynigion strategol a pholisïau defnydd tir dros y cyfnod 2030-2050.

1.4 Trwy gwmpasu ardal ddaearyddol ehangach, bydd yr SDP yn sicrhau aliniad a chydweithrediad ar draws ffiniau gweinyddol llywodraeth leol yn Rhanbarth Gogledd Cymru, gan adlewyrchu'r ffyrdd y mae pobl yn byw, sut mae marchnadoedd yn gweithredu, a sut mae'r system drafnidiaeth a busnesau'r rhanbarth i gyd yn rhyngweithio ac yn gweithredu. Mae hyn yn cynrychioli dull mwy cyfunol nag a ddefnyddiwyd o'r blaen; wedi'i alinio'n dynn ag uchelgeisiau datblygu economaidd a'n gweledigaeth ar gyfer dull mwy strategol o gynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth.

1.5 Er bod yr SDP yn ofyniad statudol, bydd yn cael ei deilwra i ymdrin â'r materion a'r gyrwyr allweddol ar gyfer y rhanbarth. Mae'r rhain yn cynnwys y nodau craidd y tu ôl i'r Cynllun Twf sef adeiladu economi fywiog, gynaliadwy a gwydn; adeiladu ar gryfderau i gyflawni twf cynhwysol; a hyrwyddo twf cynaliadwy a chynhwysol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

1.6 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r cam cyntaf yn natblygiad yr SDP ac yn nodi sut a phryd y gall rhanddeiliaid a'r gymuned gymryd rhan yn y broses o wneud cynlluniau. Mae hefyd yn cynnwys amserlen gynhwysfawr ar gyfer ei baratoi, gan nodi amserlenni clir a cherrig milltir ar

gyfer camau allweddol y broses. Mae'r dull hwn wedi'i gynllunio i feithrin ymgysylltu a sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed.

2 Cyd-destun Polisi

Uchelgais y CBC – i ddatblygu rhanbarth cysylltiedig, gwydn, blaengar, cynaliadwy

2.1 Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi bod yn gweithio'n llwyddiannus fel partneriaeth o'r saith awdurdod lleol yng ngogledd Cymru drwy'r Cynllun Twf – rhaglen gwerth £1bn sy'n canolbwyntio ar wneud gogledd Cymru yn gysylltiedig, gwydn, blaengar a chynaliadwy.

2.2 Ar 1 Ebrill 2025, bydd Cynllun Twf Uchelgais Gogledd Cymru yn dod yn rhan o Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC y Gogledd), math newydd o gorff cyhoeddus rhanbarthol statudol yng Nghymru. Rydym yn dal i gael ein hadnabod fel Uchelgais Gogledd Cymru, gan sicrhau ein bod yn adeiladu ar y gwaith cydweithredol a'r enw da sydd eisoes ar waith, ond CBC y Gogledd yw ein henw cyfreithiol.

2.3 Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cynrychioli'r ymrwymiad ar y cyd sy'n cynnwys saith awdurdod lleol gogledd Cymru, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, i adeiladu ar gryfderau sectoraidd y rhanbarth, ei gyfraniad i'r economi genedlaethol, sylfaen addysg a sgiliau, ac ansawdd uchel ei amgylchedd.

2.4 Y weledigaeth twf ar gyfer gogledd Cymru yw i ogledd Cymru ddod yn "rhanbarth hyderus, cydlynol sydd â thwf economaidd cynaliadwy, sy'n elwa i'r eithaf o lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel a'n cysylltiad ag economïau Pwerdy'r Gogledd ac Iwerddon".

2.5 Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn defnyddio dull cynhwysfawr o gyflawni'r nodau strategol o fod yn rhanbarth mwy Gwydn, Blaengar a Chysylltiedig – bydd hyn yn cynnwys gwella cysylltedd digidol, creu cyfleoedd swyddi, cadw pobl ifanc, ac arloesi a datblygu cynhyrchion gwerth uchel wrth gryfhau cadwyni cyflenwi. Y nod yw i'r prosiectau hyn gynhyrchu ychydig neu ddim allyriadau carbon a sicrhau dyfodol hirdymor i genedlaethau olynol. Wrth wraidd yr uchelgais hon y mae'r CBC a'i nod craidd yw hyrwyddo cydweithredu rhanbarthol a darparu arweinyddiaeth ranbarthol.

2.6 Bydd gan yr SDP rôl uniongyrchol i'w chwarae wrth hwyluso cyflawni'r pum rhaglen o fewn y cynllun twf - Bwyd Amaeth a Thwristiaeth, Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel, Ynni Carbon Isel, Cysylltedd Digidol, a Thir ac Eiddo. Gall hefyd edrych y tu hwnt i'r amserlen ar gyfer y Cynllun Twf ac ystyried dyfodol economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol tymor hwy gogledd Cymru.

2.7 Bydd yr SDP yn chwarae rhan hanfodol wrth alinio strategaethau rhanbarthol ar draws rhanbarth Uchelgais Gogledd Cymru ac mae'n hanfodol ar gyfer hyrwyddo twf cynaliadwy a gwydn. Trwy ddarparu fframwaith cydlynol, mae'r SDP yn sicrhau bod sectorau allweddol - megis defnydd tir, trafnidiaeth, tai, a datblygu economaidd - yn cael eu hystyried mewn ffordd integredig yn hytrach nag ar wahân.

2.8 Mae'r aliniad hwn o bolisïau yn cefnogi cynllunio hirdymor sy'n cydbwyso twf economaidd â chynaliadwyedd amgylcheddol a thegwch cymdeithasol. Trwy weledigaeth a rennir, bydd yr

SDP yn galluogi'r rhanbarth i wneud penderfyniadau strategol sydd nid yn unig yn diwallu anghenion presennol ond hefyd yn rhagweld heriau yn y dyfodol, gan gynnwys newid hinsawdd, gwelliannau isadeiledd, a galw cynyddol am dai.

2.9 Yr un mor bwysig, bydd yr SDP yn gyrru cydweithredu rhwng gwahanol ardaloedd o'r rhanbarth, gan symud y ffocws o ddull sero-swm - lle mae enillion un ardal yn cael eu gweld fel colled un arall - i bersbectif o fudd i'r ddwy ochr. Trwy nodi a chydbwyso cyfaddawdau strategol yn dryloyw, bydd yr SDP yn sicrhau bod twf rhanbarthol yn cael ei gydlynu ac yn gynaliadwy, gan optimeiddio'r defnydd o adnoddau a rennir a manteisio ar gyfleoedd er budd y rhanbarth cyfan. I gloi, mae'r SDP yn hanfodol ar gyfer alinio strategaethau'r rhanbarth a sicrhau bod twf Uchelgais Gogledd Cymru nid yn unig yn gydlynol ac wedi'i gydgysylltu ond hefyd wedi'i anelu at greu dyfodol gwydn, teg, ffyniannus a chynaliadwy i bawb.

Y Cyfle a gynigir gan Gyd-destun Polisi CBC

2.10 Ym mis Mehefin 2022, trosglwyddwyd y gofyniad i awdurdodau lleol gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol (SDP) i'r pedwar CBC rhanbarthol gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Sefydlodd y Ddeddf bedwar CBC yng Nghymru: Gogledd, Canolbarth, De-orllewin a De-ddwyrain Cymru.

2.11 Roedd y Ddeddf yn ymateb i'r angen am ymagwedd strategol at ddefnydd tir a chynllunio trafnidiaeth, gan weithio mewn ffordd ranbarthol fwy cyfunol nag a gyflawnwyd o'r blaen, ac yn cyd-fynd yn dynn ag uchelgeisiau ynghylch datblygu economaidd.

2.12 I'r perwyl hwnnw, mae angen Cyd-bwyllgorau Corfforedig trwy offeryn statudol i hyrwyddo lles economaidd, cynllunio gofodol a chynllunio trafnidiaeth ranbarthol. Mae'r Ddeddf yn nodi y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cefnogi integreiddio cynllunio trafnidiaeth a defnydd tir trwy eu tair swyddogaeth eang, sef paratoi:

- Fframwaith Economaidd Rhanbarthol;
- Cynllun Datblygu Strategol (SDP); a
- Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP).

2.13 Trwy'r trawsnewidiad arfaethedig i'r math newydd hwn o gorff cyhoeddus rhanbarthol, bydd gennym gyfle unigryw i ddatblygu polisi a phrosiectau rhanbarthol trawsnewidiol. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy sicrhau cysylltedd ar draws lles economaidd, cynllunio gofodol a thrafnidiaeth, er mwyn sicrhau ein bod yn harneisio eu potensial llawn.

2.14 Mae ein ffocws ar greu lleoedd a gyrru twf cynhwysol yn y rhanbarth yn dibynnu ar allu creu cydlyniant rhwng y pwerau statudol newydd ac mae Uchelgais Gogledd Cymru yn datblygu ei bortffolio o strategaethau a chynlluniau i gyflawni hyn.

2.15 Mae'r canllawiau statudol ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig (a gyhoeddwyd ar 25 Ionawr 2022), yn cydnabod cytundeb dyletswyddau lles economaidd, lle mae gan gynghorau

cyfansoddol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig yr un pwerau yn fras. Yn yr achos hwn, byddai'r CBC, "yn ceisio cytuno ar broses gyda'i gynghorau cyfansoddol sy'n nodi sut y bydd arfer swyddogaethau cydamserol yn cael ei reoli."

2.16 Fodd bynnag, ar gyfer y pwerau nad ydynt yn gydamserol o gynllunio gofodol strategol a chynllunio trafnidiaeth ranbarthol, bydd "cyflawni swyddogaethau ar y lefel leol yn dibynnu ar y penderfyniadau a wneir yn rhanbarthol gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig; mae hynny yn nhermau natur y penderfyniad ac amseriad pryd y gwneir penderfyniadau".

2.17 Roedd y canllawiau yn canolbwyntio ar y trefniadau statudol a chyfansoddiadol ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig, yn hytrach na manylion penodol ar y swyddogaethau i'w harfer. I'r perwyl hwnnw, mae'n ofynnol i Uchelgais Gogledd Cymru ddatblygu SDP ac RTP ar ôl cyhoeddi canllawiau ar wahân yn benodol ar gyfer y dyletswyddau hyn nad ydynt yn gydamserol.

2.18 Gan fod cynllunio strategol a thrafnidiaeth yn elfennau allweddol wrth greu lleoedd, mae hefyd yn bwysig bod yr RTP a'r SDP wedi'u halinio'n agos. Fodd bynnag, nid yw ailadroddiad cyntaf yr SDP i fod i gael ei ddatblygu o fewn amserlen yr RTP cyntaf. Mae'n debygol na fydd yr ailadroddiad cyntaf o'r RTP yn gallu ystyried cynllunio datblygu strategol yn llawn ond dylai sefydlu mecanweithiau fel y gellir cyflawni hyn wrth symud ymlaen, gan ategu nodau cyffredinol ar gyfer lles economaidd.

3 Rôl y Cytundeb Cyflawni (DA) a'r Cynllun Cynnwys Cymunedol (CIS)

3.1 Mae'r Cytundeb Cyflawni (DA) a'r Cynllun Cynnwys Cymunedol (CIS) yn nodi dechrau ffurfiol y broses baratoi'r SDP. Un o amcanion craidd y system cynllun datblygu yng Nghymru yw cynnwys y gymuned yn gynnar, effeithiol ac ystyrlon, sydd â'r bwriad o adeiladu consensws eang ar y strategaeth ofodol, polisïau strategol, a chynigion yn yr SDP. Mae'r dull cyfranogol hwn yn sicrhau cynhwysiant ac adlewyrchiad o anghenion a dyheadau'r gymuned.

Cydrannau'r Cytundeb Cyflawni (DA)

3.2 Mae'r DA yn ddatganiad cyhoeddus sy'n cynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedol (CIS), sy'n nodi sut a phryd y gall rhanddeiliaid a'r gymuned gymryd rhan yn y broses o wneud cynlluniau. Mae hyn yn sicrhau tryloywder a chynhwysiant o'r cychwyn cyntaf. Mae hefyd yn cynnwys amserlen gynhwysfawr ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol (SDP) sy'n nodi amserlenni a cherrig milltir clir ar gyfer gwahanol gamau'r broses.

Swyddogaethau'r DA:

- **Atgyfnerthu rôl yr SDP:** Yn tynnu sylw at yr SDP fel offeryn rhanbarthol hanfodol o fewn ardal y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC).
- **Ymgysylltu â'r Gymuned a Rhanddeiliaid:** Yn hysbysu pryd a sut y gallant fod yn rhan o'r broses SDP.
4.11 Rhoddwyd ystyriaeth i'r effaith y gall y penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio a hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol. Wrth ddatblygu'r penderfyniad a geisir, rhoddwyd ystyriaeth i'r ddyletswydd llesiant sy'n codi dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yng ngoleuni'r gwaith gwerthuso a gynhaliwyd yn yr arfarniad Llesiant Integredig, mae Swyddogion yn credu bod y penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn yn cwrdd â'r gofynion dyletswydd llesiant. Mae'r arfarniad llesiant integredig yn ymdrin â goblygiadau cydraddoldeb ac yn cefnogi'r penderfyniad, yn ogystal â dangos sut bydd polisïau'r RTP yn cyfrannu at les, gyda chefnogaeth asesiadau effaith sy'n ystyried materion fel yr amgylchedd, iechyd a chydraddoldeb.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Bydd costau'n cael eu tynnu o gyllidebau presennol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd gyda'r gefnogaeth angenrheidiol gan dimau Cyfreithiol a Chyllid Cyngor Gwynedd.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 yn nodi'r ddyletswydd ar y CBC i ddatblygu polisïau ar gyfer hyrwyddo ac annog trafnidiaeth ddiogel, integredig, effeithlon ac economaidd. Wrth weithredu'r swyddogaeth hon, cânt y dasg o ddatblygu a gweithredu polisïau trafnidiaeth ar gyfer eu hardal hwy o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae datblygu a gweithredu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn swyddogaeth statudol a weithredir gan y CBC.

ATODIADAU CRAIDD:

Atodiad 1:	Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol
Atodiad 2:	Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (Atodiad A heb ei olygu) (Eithriedig)
Atodiad 3:	Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (Atodiad A wedi'i olygu)
Atodiad 4:	Arfarniad Llesiant Integredig, Crynodeb Anhechnegol
Atodiad 5:	Arfarniad Llesiant Integredig, Datganiad Ôl-fabwysiadu
Atodiad 6:	Cynllun Monitro a Gwerthuso
Atodiad 7:	Adroddiad Ymgynghori
Atodiad 8:	Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol – Hawdd ei Ddeall gan Anabledd Dysgu Cymru
Atodiad 9:	Llythyr Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru dyddiedig 27 Mehefin 2025 (Saesneg yn unig)
Atodiad 10:	Llythyr CBC y Gogledd i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru dyddiedig 09 Gorffennaf 2025

ATODIADAU TECHNEGOL (Wedi'u cynnwys ar gyfer cyfeirio)

Atodiad 11:	RTDP Atodiad A [Offeryn Rhyngweithiol] (Eithriedig)
Atodiad 12:	RTDP Atodiad B1 [Offeryn Rhyngweithiol] Persbectif Cyflawn (Eithriedig)
Atodiad 13:	RTDP Atodiad B2 [Offeryn Rhyngweithiol] Persbectif Cyflawni Awdurdodau Lleol (Eithriedig)
Atodiad 14:	RTDP Atodiad B3 [Offeryn Rhyngweithiol] Persbectif Ffynhonnell Ariannu (Eithriedig)
Atodiad 15:	RTDP Atodiad B4 [Offeryn Rhyngweithiol] Persbectif y Cwsmer (Eithriedig)
Atodiad 16:	Adroddiad Arfarniad Llesiant Integredig
Atodiad 17:	Cynllun Monitro a Gwerthuso Atodiad A1 [Offeryn Rhyngweithiol]

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro.

Mae hon yn garreg filltir allweddol i'r CBC wrth iddo weithredu ei ddyletswyddau statudol. Mae'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth wedi darparu ei argymhelliad ar gymeradwyo'r RTP i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Wrth ddod i'r penderfyniad hwnnw, dylai'r CJC roi sylw arbennig i ganlyniadau'r broses ymgynghori yn ogystal â'r materion perthnasol eraill y dylid eu hystyried. Mae hwn yn benderfyniad sy'n cael ei gadw i'r CJC ac rwy'n fodlon fod y broses a ddilynwyd yn briodol.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

“Mae datblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn swyddogaeth statudol graidd i’r CBC. O ganlyniad, mae adnoddau wedi’u cymeradwyo ar gyfer y swyddogaeth hon yng

nghyllideb 2025/26. Cedwir y gyllideb hon dan adolygiad a bydd adroddiad arni i'r CBC yn ystod y flwyddyn. Bydd yr adnoddau y barnwyd eu bod yn ofynnol ar gyfer datblygiad pellach y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael eu hystyried fel rhan o'r cylch gyllidebu ar gyfer y blynyddoedd i ddod."

Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Gorffennaf 2025








Croeso i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (2025-2030) ar gyfer Gogledd Cymru, sy'n nodi ein cynlluniau i wella ein rhwydwaith trafnidiaeth a chefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y rhanbarth.

Rhagair

Rydym yn deall yn uniongyrchol y rôl hanfodol y mae systemau trafnidiaeth yn eu chwarae yn ein cymunedau. Yn ogystal â gweithio ar ran Gogledd Cymru, rydym wedi ymdrochi yn ein cymunedau lleol ac hefyd yn gweld sut mae cysylltiadau ac opsiynau trafnidiaeth yn effeithio'n uniongyrchol ar bobl a'r economi leol. Mae'r cynllun hwn yn cael ei arwain gan weledigaeth i greu rhwydwaith trafnidiaeth integredig diogel, cynaliadwy, fforddiadwy, gwydn ac effeithiol sy'n cefnogi ein heconomi i ffynnu.

Yn y pen draw, mae systemau trafnidiaeth effeithiol yn rhoi cyfleoedd i bobl. Maent yn eu cysylltu â'r gwasanaethau hanfodol sydd eu hangen i fyw eu bywydau bob dydd. Mae systemau trafnidiaeth integredig ac effeithlon yn cysylltu busnesau â gweithwyr, marchnadoedd, cyflenwyr a chwsmeriaid, sy'n hanfodol i ddatblygu economi ffyniannus i Ogledd Cymru.

Mae cysylltiadau trafnidiaeth da yn denu ymwelwyr ac yn gwella eu profiad, gan roi hwb i economïau lleol a chefnogi busnesau bach i ffynnu. Mae gwasanaethau trafnidiaeth rheolaidd a dibynadwy yn lleihau unigedd mewn ardaloedd anghysbell a gwledig, gan ganiatáu i bobl gael mynediad at ofal meddygol, addysg, a gwasanaethau hanfodol eraill. Maent yn cysylltu pobl â chanolfannau siopa, gweithgareddau hamdden a digwyddiadau diwylliannol. Mae gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a chymunedol yn darparu opsiynau i'r preswylwyr a'r ymwelwyr hynny nad ydynt yn berchen ar gar neu sydd â mynediad i gar, gan gynnwys yr henoed, yr anabl a phobl ar incwm isel, i fwynhau mynediad cyfartal i'r holl gyfleoedd hyn.

Ar hyn o bryd, mae dros 74% o gymudwyr yng Ngogledd Cymru yn dibynnu ar y car preifat, ond drwy gydweithio i ddatblygu trafnidiaeth gyhoeddus ddeniadol ac opsiynau teithio llesol, gallwn leihau'r ddibyniaeth hon a gwella'r opsiynau sydd ar gael i gymudwyr. Yn ei dro, mae hyn yn cefnogi lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr niweidiol a llygredd aer, gan wella ansawdd bywyd ac amodau amgylcheddol. Bydd buddsoddiad pellach i hyrwyddo'r defnydd o gerbydau trydan a datblygu llwybr tuag at gerbydau sy'n cael eu pweru gan hydrogen yn cefnogi Gogledd Cymru i drosglwyddo i sero net a bod yn falch o'r etifeddiaeth yr ydym yn ei throsglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.

Mae'r cynllun hwn yn crynhoi'r heriau a'r cyfleoedd unigryw i Ogledd Cymru ac yn amlinellu ein polisïau ac ymyraethau strategol ar draws gwahanol ddulliau o deithio, gan gynnwys rheilffyrdd, ffyrdd, bws, cerdded a beicio. Rydym yn cydnabod bod cael mynediad at wybodaeth gywir a chyfredol ar gyffyrddiad botwm yn gallu moderneiddio a thrawsnewid profiad cymudwyr felly mae arwyddocâd cysylltedd digidol yn cael ei gynyddu yn ein cynllun.

Mae ein hamcanion yn glir: gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol, gwella hygyrchedd a'r dewis o drafnidiaeth, galluogi datgarboneiddio trwy'r newid i fflyd dim allyriadau, a meithrin twf economaidd cynaliadwy a chynhwysol.

Cryfder ein partneriaeth Uchelgais Gogledd Cymru yw un o'n hasedau mwyaf fel rhanbarth yng Nghymru. Mae'r cynllun hwn yn cynrychioli ymdrechion cyfunol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth, a'n partneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru ac Arup – sydd wedi darparu cyngor arbenigol i lywio ei ddatblygiad. Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd. Mae eich mewnwelediad, adborth, her a chefnogaeth wedi bod yn amhrisiadwy wrth lunio cynllun trafnidiaeth sy'n adlewyrchu anghenion a dyheadau ein cymunedau a'n busnesau ledled Gogledd Cymru.

Wrth i ni symud ymlaen, rydym wedi ymrwymo i weithio ar y cyd i weithredu'r cynllun hwn a chyflawni ein gweledigaeth ar y cyd ar gyfer Gogledd Cymru fywiog, cynaliadwy a gwydn. Rydym yn eich gwahodd i ymuno â ni ar y daith hon, wrth i ni ymdrechu i greu system drafnidiaeth integredig sydd o fudd i bawb ac sy'n cefnogi dyfodol ffyniannus a llewyrchus i Ogledd Cymru a thu hwnt.



Cynghorydd Goronwy Edwards

Cadeirydd Is-Bwyllgor
Trafnidiaeth Gogledd Cymru



Alwen Williams

Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro
Cydbwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru

Cyflwyniad

Uchelgais Gogledd Cymru a Chyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd


Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CJCs) yn sefydliadau llywodraeth leol corfforaethol rhanbarthol newydd sydd â phwerau a dyletswyddau tebyg i awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae ein Cyd-bwyllgor Corfforedig yma yn y Gogledd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r chwe chyngor sef Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, a Wrecsam, yn ogystal ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer materion cynllunio.

Mae gan ein Cyd-bwyllgor Corfforedig yn y Gogledd ddwy brif ddyletswydd statudol: datblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol; a Chynllun Datblygu Strategol. Mae'r cynlluniau hyn yn hanfodol ar gyfer cynllunio gofodol ar lefel strategol, gan sicrhau bod ein hisadeiledd trafnidiaeth a'n defnyddiau tir yn cyd-fynd ag anghenion ein cymunedau, economi a'r amgylchedd.

Mae cyfle cryf ar gyfer dull rhanbarthol o ddatblygu yng Ngogledd Cymru, gyda thrafnidiaeth, defnydd tir, a thwf economaidd, oll yn dod at ei gilydd fel system daclus. Mae'r cydrannau hyn yn creu un system gydlynol gyda'r amcan o sicrhau bod y Gogledd mewn safle da i ddarparu'r sgiliau, y gyflogaeth a'r cyfleoedd economaidd sy'n hanfodol ar gyfer dyfodol llewyrchus.

Uchelgais Gogledd Cymru yw'r brand sy'n cynrychioli Cyd-bwyllgorau Corfforedig Gogledd Cymru a'i is-bwyllgor Llesiant Economaidd yw'r strwythur gwneud penderfyniadau ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru – cytundeb, ochr yn ochr â Llywodraethau Cymru a'r DU i gyflawni buddsoddiad cyfanswm o dros £1 biliwn mewn prosiectau cyfalaf ar gyfer Gogledd Cymru a fydd yn cynhyrchu dros 4000 o swyddi newydd erbyn 2036.

Wrth symud ymlaen, edrychwn ymlaen atoch chi glywed llawer mwy am Uchelgais Gogledd Cymru a gwaith y Cyd-bwyllgor Corfforedig wrth i ni helpu i lunio dyfodol mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn i Ogledd Cymru.



© Tîm Twristiaeth Sir Ddinbych

Ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

Mae trafnidiaeth yn rhan hanfodol o'n bywydau yng Ngogledd Cymru. Mae ein system drafnidiaeth yn ein cysylltu â swyddi, addysg, gofal iechyd, siopa a hamdden. Mae'n hanfodol i'n heconomi leol gan ei fod yn cysylltu busnesau â'u cwsmeriaid, yn caniatáu i dwristiaid ymweld ag atyniadau a chyrchfannau gwyliau lleol, ac mae'n hwyluso cludo nwyddau. Mae ein dewis o drafnidiaeth yn effeithio arnom ni fel unigolion ac ar ein hamgylchedd ehangach.

Mae Llwybr Newydd, strategaeth drafnidiaeth Llywodraeth Cymru, yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer sut y gall trafnidiaeth helpu i gyflawni'r blaenoriaethau i Gymru, gan helpu i greu cymdeithas fwy ffyniannus, gwyrdd a chyfartal. Bydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn yn ein helpu i ymdrin â materion trafnidiaeth lleol a rhanbarthol yn awr ac yn y dyfodol dros y 5 mlynedd nesaf (2025-2030) drwy ddarparu fframwaith ar gyfer penderfyniadau ar fuddsoddiad yn y dyfodol. Mae'n nodi sut y gall trafnidiaeth gefnogi'r gwaith o ddarparu Llwybr Newydd a chyfrannu at lwyddiant, adfywio a datblygiad ein rhanbarth.

Mae'r Cynllun hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall Gogledd Cymru gyfrannu at gyflawni strategaethau a blaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r Adroddiad Achos dros Newid, sydd wedi'i baratoi i ddarparu'r sylfaen dystiolaeth i gefnogi'r Cynllun hwn, yn nodi'r cysylltiadau â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yn ystyried cynlluniau ac astudiaethau perthnasol, ac yn amlinellu heriau a chyfleoedd trafnidiaeth allweddol. Mae'r Cynllun hwn yn adeiladu ar y gwaith helaeth sydd eisoes wedi'i wneud sy'n cysylltu â chynlluniau a pholisïau strategol cenedlaethol a rhanbarthol perthnasol, megis:

- Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru
- Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol
- Rhwydwaith Gogledd Cymru
- Adroddiadau Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru
- Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Ffyrdd
- Adolygiad Cysylltedd Undeb
- Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru
- Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan
- Strategaeth Diogelwch Ffyrdd i Gymru
- Strategaeth Cludo Nwyddau Cymru
- Canllawiau Deddf Teithio Llesol a Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol
- Bws Cymru: cysylltu pobl â lleoedd
- Un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn
- Rheilffordd i Gymru
- Strategaeth Buddsoddi Isadeiledd Cymru
- Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol
- Polisi Cynllunio Cymru
- Cynlluniau Datblygu Lleol
- Asesiadau llesiant a chynlluniau llesiant lleol
- Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Adroddiad Mewnfuddsoddi Uchelgais Gogledd Cymru
- Cymru Sero Net a'i Chyllidebau Carbon
- Cymru Iachach
- Cynllun Aer Glân i Gymru
- Cynllun Gweithredu Sŵn a Seinwedd i Gymru
- Canol trefi: datganiad sefyllfa


Dylid darllen y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn ochr yn ochr â'n Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol, sy'n nodi'r ymyraethau fydd ein hawdurdodau lleol yn eu datblygu dros gyfnod y cynllun.

Dylid darllen y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn hefyd ochr yn ochr â'n Harfarniad Llesiant Integredig, sy'n dangos sut y bydd ein cynlluniau'n cyfrannu at lesiant, gyda chefnogaeth yr asesiadau effaith yr ydym wedi'u cynnal i ystyried materion fel iechyd, cydraddoldeb a bioamrywiaeth.

Rhaid i'n Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gynnwys polisïau i gefnogi gweledigaeth ac uchelgeisiau Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, a chyd-fynd â'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol. Ar ben hynny, rhaid i'n cynlluniau wneud y cyfraniadau mwyaf posibl i'r mesurau a nodir yn Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae hynny'n helpu i sicrhau ein bod yn diwallu ein targedau trafnidiaeth a newid hinsawdd. Er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn cyrraedd ein targedau, rydym wedi paratoi ein Cynllun Monitro a Gwerthuso fydd yn ein helpu i gael y canlyniadau yr ydym eu heisiau.

Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn hefyd yn llunio ein Cynllun Datblygu Strategol, gan ystyried y polisïau a'r ymyraethau a amlinellir yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn a'i ddiweddariadau dilynol. Er bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn wedi ystyried polisïau cynllunio lleol a chenedlaethol cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg, a nodi meysydd i'w datblygu, bydd angen ystyried unrhyw gynigion trafnidiaeth sydd â gofynion tir fel rhan o'n polisïau trafnidiaeth rhanbarthol yn y cynlluniau defnydd tir sy'n dod i'r amlwg ar lefelau rhanbarthol a lleol.

Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol (SDPs) yng Nghymru yn gynlluniau rhanbarthol sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â materion sy'n croesi ffiniau awdurdodau lleol. Byddant yn eistedd rhwng y cynllun cenedlaethol (Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040) a chynlluniau datblygu lleol (CDLl).


Polisïau a Blaenoriaethau Awdurdodau Lleol
Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru
Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru
Cynllun hirdymor Rhwydwaith Gogledd Cymru (gan gynnwys Rhaglen y Metro)
Yr Achos dros Newid ar gyfer Cynllun Trafnidieath Rhanbarthol Gogledd Cymru
Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
Gwerthusiad Lles Integredig
Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol
Cynllun Monitro a Gwerthuso


Ein rhwydwaith trafnidiaeth a gyrwyr dros newid

Sut ydym yn teithio

Mae'r cyfleoedd ar gyfer teithio yng Ngogledd Cymru yn eang, fel y dangosir yn y cynllun hwn o Ogledd Cymru a'r rhanbarthau cysylltiedig. Mae trafnidiaeth yn ein helpu i gysylltu â'r lleoedd yr ydym am ymweld â nhw yn ein rhanbarth a thu hwnt â gweddill Cymru, Lloegr ac Iwerddon. Gallwn symud o gwmpas trwy ddulliau gwahanol o deithio ac mae cael dewis ynghylch sut ydym yn cael mynediad i'r lleoedd rydym yn gweithio, yn prynu ein nwyddau, treulio ein hamser hamdden, ac yn cael mynediad i wasanaethau, yn bwysig wrth ystyried bod gan bob un ohonom anghenion a chyfleoedd gwahanol.



Tud. 200


Liverpool-Belfast
Liverpool City Region
Manchester
Liverpool-Dublin
Liverpool
Mersey-Deeside
cross-border
economic zone
Runcorn
Rhyl
Ellesmere Port
Cheshire Science
Corridor
A55
M56
Flintshire-Wrexham
Investment Zone
Chester
A51
Crewe
wydian Range
nd Dee Valley
Wrexham
A494
A483
Pontcysyllte
Aqueduct
A5
A494
Links to Mid Wales

Cerdded, olwyno a beicio

Rydym yn cerdded, olwyno a beicio ar gyfer ystod o deithiau, gan gynnwys cymudo, i fynd i'r ysgol neu'r coleg, i ddefnyddio gwasanaethau lleol, ac ar gyfer gweithgareddau hamdden. Rydym hefyd yn uno â gwahanol rannau o'n teithiau fel hyn, er enghraifft trwy gerdded, olwyno neu feicio i ac o orsaf reilffordd. Mae Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol wedi'u paratoi ac yn parhau i gael eu datblygu gan awdurdodau lleol sy'n gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru, sy'n nodi'r holl ddyheadau presennol ac yn y dyfodol ar gyfer y rhwydwaith cerdded a beicio yng Nghymru.

Mae cyfran y bobl sy'n cerdded am fwy na 10 munud fel modd o deithio o leiaf unwaith y mis yn amrywio o hanner poblogaeth Gwynedd, i 7 o bob 10 o bobl yn Ynys Môn. Fel arfer, darperir llwybrau cerdded yn ein hardaloedd trefol ar ffurf llwybrau troed a chroesfannau yn ein dinasoedd a'n trefi. Yn ein hardaloedd gwledig, rydym yn aml yn dibynnu mwy ar lwybrau cyhoeddus, llwybrau ceffyl a lonydd lleol. Gallwn hefyd fwynhau 60 milltir o olygfeydd môr o Lwybr Arfordir Gogledd Cymru (rhan o lwybr hir Llwybr Arfordir Cymru) gan ddechrau o Gaer ac, ym Mhrestatyn, ymuno â Llwybr Clawdd Offa, heneb hiraf Prydain sy'n Llwybr Cenedlaethol hefyd, cyn parhau i Fangor.

Ar gyfartaledd, mae tua 10% ohonom yn teithio ar feic yn amlach nag unwaith y mis yng Ngogledd Cymru. Mae llwybrau'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (NCN) yn rhedeg trwy Ogledd Cymru, sy'n cynnwys cysylltiadau ar y ffordd yn bennaf, gan hefyd gysylltu cymysgedd o lonydd gwledig, dyffrynnoedd afonydd, llwybrau di-draffig a ffyrdd mynydd. Yn gyffredinol, mae parcio beiciau ar gael mewn gorsafoedd rheilffordd a chyfleusterau cymunedol allanol.

Yng Nghymru, mae teithio llesol yn cyfeirio at wneud teithiau trwy ddulliau corfforol, fel cerdded, beicio, neu ddefnyddio cadair olwyn. Cefnogir y cysyniad hwn gan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, sy'n anelu at hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw a lleihau'r effaith amgylcheddol trwy annog mwy o bobl i gerdded a beicio ar eu teithiau dyddiol. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu canllawiau i awdurdodau lleol gynllunio a dylunio rhwydweithiau o lwybrau cerdded a beicio, gan sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn hygyrch.

Ein rhwydwaith bysiau a choetsis

Ar hyn o bryd, mae 24 o weithredwyr bysiau yn darparu gwasanaethau ar draws Gogledd Cymru, cyfanswm o 188 o lwybrau bysiau. Dros wythnos, maent yn teithio tua hanner miliwn cilomedr, sy'n cyfateb i fws sy'n teithio o gwmpas y byd 12 gwaith.

Ar hyn o bryd, mae mesurau isadeiledd blaenoriaeth bysiau cyfyngedig iawn, mae'r unig ddarpariaeth bresennol yn Wrecsam, sy'n cynnwys dwy lôn fysiau a lôn wrth-lif (lôn bwrpasol ar stryd unffordd sy'n caniatáu bysiau i deithio i'r cyfeiriad arall i'r traffig). Wrecsam ac ardaloedd trefol ar arfordir Gogledd Cymru sydd â'r galw mwyaf am deithiau bws, ac ar draws Cymru defnyddir bysiau yn fwyaf cyffredin ar gyfer teithiau lleol.

Er enghraifft, mae data teithwyr yn awgrymu bod y rhan fwyaf o deithiau teithwyr ar wasanaethau TrawsCymru yn gymharol leol yn hytrach na phellter hir. Mae data ar gyfer 2024 yn dangos cynnydd sylweddol o 70% mewn defnydd sy'n helpu i ddangos gwerth gwasanaeth a reoleiddir yn y Gogledd, lle mae teithiwyr yn cael y flaenoriaeth. Mae tua thraean o'r teithiau ar fws yn llai na 5km o bellter (mae hynny'n llai o bellter na rhwng gorsaf Cyffordd Llandudno a Sw Mynydd Cymru ym Mae Colwyn).

Mae'r rhan fwyaf o deithiau bws o fewn yr un ardal awdurdod lleol neu i ardal gyfagos, ac mae gan lawer o deithiau sy'n dechrau mewn ardaloedd gwledig gyrchfannau mewn ardaloedd trefol cyfagos. Er bod hyd teithiau yn hirach mewn ardaloedd gwledig, maent yn dal i fod yn deithiau byr yn gyffredinol.

Mae gwasanaethau bws math cyflym (express) yn gymharol anghyffredin yng Nghymru o gymharu â rhannau eraill o'r DU ac Iwerddon, ac nid oes unrhyw wasanaethau bws wedi'u trefnu (ac eithrio teithiau bws preifat sy'n arbenigo mewn teithiau gwyliau a theithiau dydd) ar hyn o bryd yn gweithredu ar hyd coridor yr A55. Fel arfer, mae prisiau bws tua thraean pris y rheilffyrdd, sy'n dangos pan fydd gwasanaethau ar gael, gallant helpu i ddenu pobl i deithio gyda thocynnau rhatach, yn enwedig myfyrwyr a siopwyr sy'n defnyddio dinasoedd mwy yn Lloegr.



© Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru

Mae gwasanaethau cludiant cymunedol (bysiau mini fel arfer) yn arbennig o werthfawr i'r rhai sydd â heriau symudedd, neu breswylwyr mewn ardaloedd mwy gwledig, nad oes ganddynt fynediad at geir ac mewn ardaloedd lle mae trafnidiaeth gyhoeddus wedi lleihau gwasanaethau neu nad yw ar gael. Mae'r gwasanaethau hyn fel arfer yn cael eu cydlynu ar lefel awdurdod lleol. Yng Ngogledd Cymru, rydym hefyd yn elwa o amrywiaeth o wasanaethau ffonio a theithio a pharcio a theithio ar-alw.

Un stori o lwyddiant yng nghefn gwlad Gogledd Cymru oedd gwasanaethau bws Sherpa'r Wyddfa, sy'n darparu ffordd o deithio'n gynaliadwy yn Eryri unwaith y bydd ymwelwyr wedi cyrraedd y Parc Cenedlaethol. Ym mis Awst 2024, defnyddiodd mwy na 72,000 o bobl y gwasanaeth Sherpa, cynnydd o bron i 80% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a dyma'r tro cyntaf i nifer y teithwyr fod yn fwy na 70,000 mewn mis.

72,000

defnyddiodd o pobl y gwasanaeth Sherpa ym mis Awst 2024

Ein rheilffyrdd

Mae'r rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol yng Ngogledd Cymru yn cael ei reoli a'i gynnal gan Network Rail, gyda gwasanaethau i deithwyr yn cael eu gweithredu gan Trafnidiaeth Cymru ac AvantiWest Coast. Mae 66 o orsafoedd yng Ngogledd Cymru, wedi'u lleoli ar Reilffordd Arfordir Gogledd Cymru, Lein Yr Amwythig i Gaer, Rheilffordd Dyffryn Conwy, Lein Wrecsam i Lerpwl (Lein y Gororau gynt), a Lein y Cambrian. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau i weithio ar lein Wrecsam i Lerpwl fel y cam cyntaf o gyflwyno gwasanaethau Metro uniongyrchol rhwng y ddwy ddinas. Mae cynigion hefyd i ddyblu'r gwasanaethau rhwng Wrecsam a Chaer.

Mae tair prif reilffordd gyswllt bwysig, sef Prif Lein Gogledd Cymru, Lein Wrecsam i Lerpwl a Lein Amwythig-Wrecsam-Caer. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn cysylltu rhwng ardaloedd mwyaf poblog y rhanbarth, gan gefnogi llawero deithiau domestig a thrawsffiniol. Mae Prif Lein Gogledd Cymru yn cysylltu Crewe yn y dwyrain a Chaergybi yn y gorllewin, gan ganiatáu cysylltiadau â Manceinion a Llundain. Mae Lein Wrecsam i Lerpwl yn cysylltu Wrecsam â Lerpwl trwy newid yn Bidston, ac mae lein Amwythig-Wrecsam-Caer yn cysylltu Wrecsam â chymunedau ar hyd y ffin, gyda chysylltiadau ymlaen i Birmingham a De Cymru. Mae Lein y Cambrian yn arbennig o bwysig i gymunedau yng Ngwynedd, gyda Lein Arfordir y Cambrian yn cysylltu teithiau cerdded arfordirol a lleoedd i ymweld â nhw ar hyd llwybr arfordirol Cymru, tra bod Prif Lein y Cambrian o'r Amwythig yn cysylltu Lein yr Arfordir â Chanolbarth Lloegr a gweddill y DU.

Fel arfer, mae gan orsafoedd rheilffordd Caergybi, Llanfairpwll, Bangor, Cyffordd Llandudno, Bae Colwyn ac Abergele o leiaf un trên yr awr. Mae hyn yn golygu nad yw'r rhanbarth yn arbennig o hygyrch ar y rheilffyrdd, yn enwedig i'r rhai nad ydynt yn byw yn agos at orsaf reilffordd. Fodd bynnag, ar gyfer pobl sy'n gallu cael mynediad haws at wasanaethau rheilffordd, wrth ystyried traffig yn ystod cyfnodau teithio prysur, mae amseroedd teithio ar y rheilffordd ac yn y car yn weddol gymaradwy. Er enghraifft, 10 munud yn hirach ar y trên yn unig yw taith rhwng Caergybi a'r Amwythig.

Er nad yw yng Ngogledd Cymru, mae Gorsaf Caer yn orsaf bwysig i sawl defnyddiwr rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru gan fod yr holl wasanaethau sy'n defnyddio Prif Lein Gogledd Cymru yn pasio trwodd.

Mae data a gasglwyd gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd (ORR) yn dangos mai Bangor yw'r orsaf drenau a ddefnyddir fwyaf yng Ngogledd Cymru gyda bron i 700,000 o gofrestriadau cyrraedd a gadael yr orsaf bob blwyddyn.



© Unsplash

Ein ffyrdd a'n strydoedd

Mae perchnogaeth ceir yng Ngogledd Cymru yn uchel, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, a'r car preifat yw'r prif ddull o deithio i'r gwaith. Mae Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn esbonio sut mae'r pellter sy'n cael ei yrru gan geir wedi cynyddu 13% dros y ddegawd ddiwethaf, tra bod yr allyriadau o'r ceir hyn wedi gostwng 9%. Erbyn hyn, mae dros 7,000 o gerbydau trydan yng Ngogledd Cymru. Mae llai na 2% o geir ag allyriadau isel iawn neu ddim allyriadau yng Nghymru.

Mae nifer ohonom yn dibynnu ar ein ffyrdd A i fynd o gwmpas. Mae'r rhwydwaith cefnffyrdd yn ein rhanbarth yn cynnwys yr A5, A55, A458, A470, A483, A487, A489, A494, a'r A550. Yn benodol, mae Ffordd Gyflym yr A55 yng ngogledd Cymru yn goridor trafnidiaeth mawr ac yn elfen allweddol o rwydwaith ffyrdd strategol y DU ac Ewrop sy'n darparu'r brif wythïen economaidd ar gyfer Gogledd Cymru. Mae'r llwybr yn rhedeg i Gaer ac yn cysylltu â Lerpwl trwy'r M53 a'r A533. Mae'n ymestyn o Gaergybi ar draws Gogledd Cymru a Gogledd Lloegr i dir mawr Ewrop trwy wasanaethau fferi o Borthladd Immingham. Mae'r A55 hefyd yn gyswllt pwysig i drefi a chymunedau lleol ac mae'n darparu cysylltiad â'r A470 â De a Chanolbarth Cymru. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn adolygu cynigion i godi trydedd bont dros y Fenai er mwyn gwella'r capasiti a'r amseroedd teithio rhwng Ynys Môn a'r tir mawr.

Mae'r A55 yn goridor prysur, gan ddod â llif traffig teithwyr a chludo nwyddau o Gaergybi i weddill y rhanbarth. Yn ôl data a gyhoeddwyd gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, mae'r defnydd o'r A55 yn dychwelyd i lefelau cyn Covid.

Mae cyfnodau prysur o dagfeydd sylweddol ar yr A55 yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst o draffig gwyliau, gan gyfrannu at lygredd aer a sŵn. Er bod ansawdd aer cyffredinol yn dda yng Ngogledd Cymru, coridor yr A55 yw'r cyfrannwr unigol mwyaf at lygredd aer a sŵn yn y rhanbarth.

Mae dadansoddiad o ddata rhwydwaith ffonau symudol sy'n cwmpasu cyfnod prysuraf y bore (07:00 – 10:00) gan Trafnidiaeth Cymru yn amlygu pwysigrwydd teithiau yn y car rhwng Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr (30% o'r holl deithiau rhyngranbarthol os cyfunir y ddau gyfeiriad). Mae teithiau trawsffiniol sy'n dechrau yng Ngogledd Cymru fwy nag 20 gwaith yn uwch na'r teithiau rhyngranbarthol sy'n digwydd o Ogledd Cymru i ranbarthau eraill yng Nghymru.

Mae parcio ceir yn dylanwadu ar sut mae pobl yn dewis teithio, ac mae awdurdodau cynllunio lleol angen safonau da o ddylunio meysydd parcio, nad ydynt yn caniatáu i gerbydau ddominyddu'r stryd neu anghyfleustra i bobl gerdded a beicio. Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol yn cefnogi strydoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda, sy'n ymateb i ofynion pobl i helpu i greu lleoedd cynaliadwy a chynyddu cerdded, beicio a'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.

Rydym yn ymwybodol o'r heriau sy'n wynebu ein hawdurdodau lleol ar draws Gogledd Cymru o ran cadw ein ffyrdd i safon dda, a'r effaith y mae digwyddiadau tywydd mwy eithafol yn ei chael ar wynebu ffyrdd ledled Cymru a'r DU. Rydym yn deall y pwysau cynyddol sy'n wynebu ein hawdurdodau lleol, sy'n gyfrifol am gynnal ffyrdd lleol o fewn eu hawdurdodaeth, sy'n cynnwys trwsio tyllau a mathau eraill o ddifrod i'r ffyrdd.

Er mwyn helpu i wneud ein strydoedd yn lleoedd mwy diogel a deniadol i bobl eu defnyddio, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi 20 mya fel y terfyn cyflymder diofyn newydd ar gyfer y rhan fwyaf o strydoedd ac mae'n cymryd mesurau i atal parcio ar balmentydd. Mae'n gweithio ar gynlluniau a fyddai'n caniatáu i'n hawdurdodau lleol ddefnyddio mesurau gorfodaeth yng nghyswllt parcio ar balmentydd pan fydd yn achosi rhwystr, gyda'r nod o wneud strydoedd yn fwy diogel i bawb. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r rhai sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu bramiau ac sydd â'u symudedd wedi'i rwystro gan bobl sy'n blocio ein palmentydd, gan gydnabod hefyd y gall parcio anghyfreithlon rwystro symudiad gwasanaethau cludiant cyhoeddus, a all achosi oedi diangen.

Mae canllawiau newydd wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru i Gynghorau ar ffyrdd 'eithrio', lle gall y llwybrau symud yn ôl i 30mya. Ymhellach i ymgynghoriadau awdurdodau lleol, roedd dwy ffordd yn Wrecsam (y B5605/Stryd Fawr, yn Johnstown a'r A525 Ffordd Bryn-y-Grog) y cyntaf yn y Gogledd i ddychwelyd i 30mya yn sgil y newid diofyn i gyflymder o 20mya.

13%

pellter a yrrir gan ceir wedi cynyddu dros y degawd diwethaf

7,000

cerbydau trydan plug-in yng Ngogledd Cymru



© Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru

Ein porthladdoedd

Mae Porthladd Caergybi yn borthladd masnachol a fferi yn Ynys Môn ac yn cael ei gydnabod yng Nghymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol fel porth strategol pwysig rhwng Iwerddon a Chymru ac fel y prif lwybr cludo ar gyfer nwyddau sy'n symud rhwng Prydain Fawr ac Iwerddon. Mae'r porthladd wedi'i leoli ar ddechrau ffordd ddeuol yr A55, ac mae adeilad terminws y fferi yn cael ei rannu gyda gorsaf reilffordd Caergybi, sef terminws Lein Arfordir Gogledd Cymru gyda gwasanaethau uniongyrchol i Gaer a Llundain Euston. Cafodd dros 1.6 miliwn o deithwyr eu cludo trwy Borthladd Caergybi trwy wasanaeth fferi Caergybi-Dulyn yn 2023, a dyma'r ail borthladd 'roll-on / roll-off (Ro-Ro)' mwyaf yn y DU.

Yn 2018, defnyddiodd tua 150,000 o lorïau'r llwybr rhwng Dulyn a Chaergybi, sy'n cysylltu busnesau Gwyddelig â marchnadoedd allforio Ewropeaidd. Fodd bynnag, ers Brexit, mae Porthladd Caergybi wedi gweld gostyngiad o tua 20% mewn symudiadau cludo nwyddau. Ar yr un pryd, mae Stena wedi cofnodi cynnydd mewn symudiadau teithwyr a chludo nwyddau ar ei lwybr fferi Rosslare-Cherbourg, gyda'r nifer uchaf erioed o deithwyr yn Haf 2023.

Ym mis Hydref 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n buddsoddi £40 miliwn i adnewyddu Morglawdd Caergybi, sy'n amddiffyn seilwaith y porthladd ac yn caniatáu i longau ddocio'n ddiogel yng Nghaergybi. Bydd y cymorth buddsoddi gan Lywodraeth Cymru yn helpu i sicrhau dyfodol y porthladd ac yn agor cyfleoedd newydd sy'n gysylltiedig â menter Porthladd Rhydd Ynys Môn ac yn y farchnad mordeithiau. Mae Porthladd Mostyn hefyd wedi'i ddatblygu gydag ehangiadau diweddar i ddod yn un o borthladdoedd pwysicaf Ewrop ar gyfer y sector ynni adnewyddadwy ar y môr.

Mae Porthladd Lerpwl a Gogledd Cymru yn rhannu perthynas hanesyddol a pharhaus yn sgil lleoliad Lerpwl ar arfordir gorllewinol Lloegr, gan wasanaethu fel porth pwysig ar gyfer masnach a thrafnidaieth i ac o'r Gogledd.

Bydd Ynys Môn nawr yn elwa o statws Porthladd Rhydd lle bydd tollau a rheolau masnach symlach, gan ddarparu mwy o gymhellion ar gyfer buddsoddi a masnach. Yn y dyfodol, ni fydd nwyddau sy'n mynd i mewn i Borthladd Rhydd Ynys Môn yn gaeth i drefn dreth a thollau arferol y DU, gan gefnogi buddsoddiad busnes tymor hir, a hybu ffyniant Ynys Môn a Gogledd Cymru. Bydd y Porthladd Rhydd yn lleihau'r angen i gludwyr gludo nwyddau o amgylch pen deheuol y DU, proses sy'n niweidiol i'r amgylchedd ac yn economaidd aneffeithlon. Bydd y Porthladd Rhydd hefyd yn cyflymu'r gwaith o adfywio safleoedd penodol gan gynnwys Parc Ffyniant yng Nghaergybi, a'r nifer sy'n manteisio ar gynhyrchu ynni cynaliadwy trwy adeiladu ar fentrau sero-net presennol sy'n arwain y diwydiant ar arfordir yr Ynys. Bydd hyn yn atgyfnerthu 'Rhaglen Ynys Ynni' bresennol y Cyngor Sir ac yn cynhyrchu cyflenwadau ynni sydd eu hangen yn fawr ar gyfer gweddill y DU.

Ein meysydd awyr

Yng Ngogledd Cymru, mae gennym Faes Awyr Môn, sydd wedi'i leoli ger yr A55 sy'n darparu mynediad hawdd i'r ffordd, a Maes Awyr Penarlâg, sy'n chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi gweithrediadau Airbus gyda'i ffatri ym Mrychdyn, yn Sir y Fflint. Yn gwasanaethu poblogaeth a busnesau ehangach Gogledd Cymru sydd â chysylltiadau rhyngwladol, yn cynnwys meysydd awyr Lerpwl, Manceinion a Birmingham.

Maes Awyr John Lennon yn Lerpwl yw'r 12fed maes awyr prysuraf yn y DU, gyda mwy na 4 miliwn o deithwyr yn 2023 ac mae'n gwasanaethu dros 60 o gyrchfannau ledled Ewrop. Mae'r maes awyr yn borth rhyngwladol i Ranbarth Dinas Lerpwl, Gogledd-orllewin Lloegr, ac i'r rhai sy'n teithio o Ogledd Cymru.

Mae data o arolwg yr Awdurdod Hedfan Sifil 2017, sef y tro diwethaf i Faes Awyr Lerpwl gael ei arolygu, yn dangos bod cyfran uwch o deithwyr yn teithio i ac o Faes Awyr Lerpwl gan ddefnyddio dulliau trafnidiaeth gyhoeddus o'i gymharu â meysydd awyr o faint tebyg, sef 27%. Fodd bynnag, mae hyn yn is na meysydd awyr sydd â chysylltiad rheilffordd uniongyrchol, fel meysydd awyr Stansted a Gatwick yn Llundain.

Un o amcanion Strategaeth Mynediad Arwyneb Maes Awyr Lerpwl yw ehangu dalgylch y maes awyr i farchnadoedd yng Ngogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr trwy wella cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd hyn yn her yn y cyd-destun bod trafnidiaeth gyhoeddus yn anghystadleuol gyda'r car preifat: mae amseroedd teithio rhwng Caergybi a Maes Awyr Lerpwl yn cymryd dros dair awr ar drafnidiaeth gyhoeddus, o'i gymharu â llai na dwy awr mewn car preifat yn ystod amseroedd nad ydynt yn oriau brig (tu allan i'r oriau prysuraf).

Mae Maes Awyr Manceinion yn elwa o gysylltiad rheilffordd uniongyrchol bob awr o Brif Lein Gogledd Cymru. Yn 2023, bu'r maes awyr yn gwasanaethu mwy na 28 miliwn o deithwyr, gan ei wneud y prysuraf y tu allan i Lundain, ac fel cyflogwr mawr mae'n chwarae rhan sylweddol yn yr economi ranbarthol. Mae Maes Awyr Birmingham hefyd yn un o brif feysydd awyr y DU, ac mae'n gwasanaethu dros 13 miliwn o deithwyr bob blwyddyn. Mae'n elwa o fynediad rhwydd ar y rheilffyrdd a'r ffyrdd o Wrecsam a'r ardaloedd cyfagos yn y Gogledd.

27%

teithwyr yn teithio i Faes Awyr Lerpwl ac oddi yno gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus

Ein hanghenion a'n dyheadau yn y dyfodol

Ym mis Mai 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun gwerth £2.1bn i drawsnewid rhwydwaith rheilffyrdd y Gogledd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £13m cychwynnol gyda chyllid pellach sylweddol gan Lywodraeth y DU i'w gytuno. Bydd Bwrdd Rhwydwaith Gogledd Cymru newydd yn goruchwylio'r cynlluniau a'r cyllid.

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gydag aelodau eraill y bwrdd i helpu i fwrw ymlaen â'r cynlluniau sy'n ceisio gwneud gwelliannau sylweddol i drafnidiaeth cyhoeddus ledled y Gogledd a'r tu hwnt.

Gan adeiladu ar ein Hadroddiad Achos dros Newid sy'n nodi'r materion, yr heriau a'r cyfleoedd allweddol y dylai'r Cynllun hwn eu hystyried, mae yna yrwyr allweddol ar gyfer newid sy'n ein helpu i siapio ein hanghenion a'n dyheadau ar gyfer y system drafnidiaeth a'r rhwydwaith yr ydym eisiau ei weld yng Ngogledd Cymru:

- Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** Llywodraeth Cymru yn amlinellu nodau cyfreithiol rhwymol i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Fel cyfran o'r defnydd cyffredinol o ynni yng Nghymru, mae Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol yn amlygu bod defnydd ynni sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth wedi cynyddu, ac un o'r ffynonellau mwyaf o allyriadau nwyon tŷ gwydr a llygredd aer yng Nghymru yw cludiant.
- Mae **Adolygiad Cysylltedd Undeb** Llywodraeth y DU yn argymell creu rhwydwaith trafnidiaeth strategol i gefnogi twf economaidd hirdymor, swyddi, tai a chydlyniant cymdeithasol ledled y Deyrnas Unedig. Mae cyfweliadau manwl ac arolwg ledled y DU yn tynnu sylw at farn y cyhoedd ac yn darparu cefnogaeth ar gyfer buddsoddi pellach mewn coridorau aml-ddull i wella cysylltedd trafnidiaeth.
- Mae **Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru** yn amlinellu naw cynllun bach i helpu i ddarparu system drafnidiaeth fwy hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon ledled Cymru. Mae sicrhau rhwydweithiau bysiau a rheilffyrdd cyflymach, mwy dibynadwy yn thema ganolog yn ogystal â ffocws ar ymgysylltu cymunedol a theithio llesol. Mae'r strategaeth yn cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb a chanllawiau ar amddiffyn diwylliant ac iaith Cymru. Mae hefyd yn esbonio sut y bydd Cymru'n defnyddio'r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy a nodir mewn polisi cynllunio cenedlaethol i lywio penderfyniadau am isadeiledd newydd a rhoi blaenoriaeth i gerdded a beicio a chludiant cyhoeddus, ac yna allyriadau isel iawn ac yn olaf cerbydau preifat.
- Cynllun yw **Rhwydwaith Gogledd Cymru** sydd â'r nod o wella cysylltedd rhwn Gogledd Cymru a'r 'Northern Arc', coridor economaidd allweddol sy'n cysylltu Gogledd Cymru â dinasoedd a rhanbarthau yng ngogledd Lloegr. Mae'r cynlluniau yn cynnwys gwasanaeth bws a rheilffordd 'troi fyny a mynd', gan ymestyn o Hull i Gaergybi.
- Mae'r **Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol** yn nodi sut y bydd pob un ohonom yn cyflawni yn erbyn y blaenoriaethau a'r uchelgeisiau a amlinellir yn Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys y rhaglenni, y prosiectau a'r polisïau newydd y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cyflawni yn y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2022 a 2027.
- Mae Cyllideb Carbon 2 **Cymru Sero Net** yn amlinellu'r camau ar gyfer yr ail gyfnod cyllideb carbon (2021-2025), gyda'r nod o leihau allyriadau 37% erbyn 2025. Nod y weledigaeth hirdymor yw sicrhau ansawdd bywyd gwell ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae targedau newid moddol (gyda'r nod o symud i ffwrdd o ddefnyddio ceir preifat i ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, yn cynnwys teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer y mwyafrif o deithiau) yn her sylweddol i gefnogi datgarboneiddio'r system drafnidiaeth.
- Y **enhadaeth economaidd** mae blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach yn amlinellu meysydd blaenoriaeth cenedlaethol sy'n cynnwys systemau trafnidiaeth ar gyfer cysylltiadau gwell, cysylltu pobl â chyfleoedd a gwasanaethau cyhoeddus, ehangu marchnadoedd llafur, gan alluogi cyfatebu pobl yn well â swyddi, a chaniatáu gwell mynediad at fwy o gyfleoedd hyfforddi.

- Mae **Cynllun Twf Gogledd Cymru** yn cefnogi ffyniant rhanbarthol ac mae angen cefnogi isadeiledd a gwasanaethau trafnidiaeth i gysylltu'r rhanbarth yn well yng Nghymru a thros y ffin, er enghraifft i farchnadoedd yng ngogledd-orllewin Lloegr a chanolbarth Lloegr. Gyda chefnogaeth y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol, mae yna ymgyrch i annog partneriaethau cryf rhwng cymunedau, busnesau a chynghorau, gan alluogi canol trefi ac ailddiffinio'r stryd fawr leol. Cydnabyddir bod coridor yr A483/A55 o bwysigrwydd allweddol i'r rhanbarth fel catalydd ar gyfer twf economaidd ehangach.
- Mae Adroddiad **Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru** yn amlygu'r annigonolrwydd yn y rhwydwaith trafnidiaeth presennol sy'n cyfrannu at salwch, mynediad cyfyngedig at gyflogaeth ac effeithiau amgylcheddol negyddol. Mae'r argymhellion yn cynnwys trydaneiddio rheilffyrdd, gwelliannau i Lein Wrecsam i Lerpwl, gorsafoedd newydd, gwell cyfnewidfeydd, datblygiad parhaus llwybrau teithio llesol, ac ystyried llwybrau bysiau posibl rhwng y gogledd a'r de ac yn draws-ffiniol. I gefnogi hyn, cyhoeddwyd 'cronfa arloesedd' trydaneiddio gwerth miliynau o bunnoedd ym mis Mai 2025 i helpu i ddatblygu cynllun i ddadgarboneiddio'r rheilffyrdd yn y Gogledd a galluogi gwasanaethau metro mwy cyson a gorsafoedd ychwanegol.
- Mae **Rhaglen Metro Gogledd Cymru** yn fenter gynhwysfawr gyda'r nod o drawsnewid mynediad i drafnidiaeth gan ganolbwyntio ar gryfhau cysylltiadau rheilffordd â Gogledd-orllewin Lloegr.

  Bydd hyn nawr yn cael ei ddatblygu drwy fuddsoddiad Rhwydwaith Gogledd Cymru mewn gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'n adeiladu ar y gwaith datblygu sydd eisoes wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru.

  Bydd y rhaglen yn mabwysiadu dull trawsffiniol i drawsnewid trafnidiaeth gyhoeddus yn ardal Mersi a'r Ddyfrdwy. Bydd hyn yn cynnwys amlder gwasanaeth metro ar Brif Linell Gogledd Cymru a chysylltiad rheilffordd newydd, uniongyrchol rhwng Wrecsam a Lerpwl drwy Linell Wrecsam i Lerpwl. Bydd cyfleusterau gwell i deithwyr mewn gorsafoedd yng ngogledd-ddwyrain Cymru yn cefnogi'r gwelliannau hyn ymhellach. Unwaith y bydd y newidiadau hyn yn cael eu gweithredu, bydd trafnidiaeth gyhoeddus, yn ogystal â cherdded, olwyno a beicio, yn dod yn fwy cyfleus a deniadol ar gyfer llawer o deithiau hirach ar draws Gogledd Cymru.
- Bydd y **Cynlluniau Ynni Ardal Leol a'r Cynllun Ynni Rhanbarthol** sy'n dod i'r amlwg yn ffurfio'r fframwaith ar gyfer trosglwyddo Gogledd Cymru i economi carbon isel, gan helpu i adnabod y llwybrau mwyaf effeithiol ar gyfer lleihau allyriadau carbon a hyrwyddo datrysiad ynni cynaliadwy. Mae hyn yn hanfodol wrth gefnogi datgarboneiddio ein system drafnidiaeth.

Mae tanategu a chefnogi'r gyrwyr hyn ar gyfer newid yn cynnwys yr heriau a'r meysydd gwella lleol a rhanbarthol y gall trafnidiaeth helpu i fynd i'r afael â nhw, yn ogystal â'r pethau yr ydym yn eu gwneud yn dda yr ydym am ei diogelu, a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

Economi	Cymdeithasol a Diwylliannol	Yr Amgylchedd
Cyfran uchel o weithwyr â sgiliau isel	Un o'r cyfrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru gyda 42% yn siarad Cymraeg, ac yng Ngwynedd mae hyn hyd yn oed yn uwch ar tua 70%	Nifer o safleoedd pwysig ac ardaloedd gwarchodedig sy'n denu twristiaeth
Mae GVA y pen wedi'i ledaenu, gyda 4 o bob 6 awdurdod lleol yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru	Dim ond traean o drigolion Gogledd Cymru sydd â mynediad i wasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus bob awr	Ansawdd aer da yn gyffredinol, heb unrhyw Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer
Mae'r gyfran o gyflogaeth mewn sectorau gwerth uchel yn isel	Cyfran sylweddol uwch o oedran pensiwn ac anabl, gyda lefelau uchel o amddifadedd wedi'u canoli mewn ardaloedd trefol arfordirol	Ystyrir lefelau sain fel rhai 'ar gyfartaledd' ac ni nodwyd unrhyw broblemau mawr
Profiad y Cwsmer	**Isadeiledd**	**Y Galw am Deithio**
Dibynadwyedd amser teithio gwael oherwydd oedi bws	Tua 400 o bwyntiau gwefru cerbydau trydan cyhoeddus	Mae lefel uchel o all-gymudo o Ogledd Cymru i Ranbarth Dinas Lerpwl a Chaer
Ffyrdd wedi'u dominyddu gan geir gydag amseroedd teithio bws anghystadleuol a mwy o amser yn cael ei dreulio mewn tagfeydd, a diffyg darpariaeth teithio llesol	Mae gwasanaethau rheilffyrdd yn gyfyngedig o ran amlder ac oriau gweithredu oherwydd cyfyngiadau isadeiledd a dim ond 9% sy'n byw o fewn hanner milltir i orsaf reilffordd lle mae gwasanaethau'n rhedeg o leiaf unwaith yr awr	Mae'r galw presennol yn isel ar gyfer teithio ar fysiau, gyda dim ond hanner y safleoedd bysiau yng Ngogledd Cymru ag amlder o fws bob 2 awr neu lai
Hygyrchedd gwael i gyfleoedd, gwasanaethau a chyfleusterau allweddol drwy ddulliau cynaliadwy, yn benodol oherwydd cyd-destun gwledig	Mae tua hanner y boblogaeth yn byw o fewn 600m i safle bws a diffyg isadeiledd teithio llesol cydlynol, uniongyrchol a diogel i safleoedd bws a mwynderau, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig	Mae dibyniaeth uchel ar geir ar gyfer teithiau i'r gwaith ac mae gwasanaethau bysiau yn gyffredinol yn anghystadleuol gyda'r car

O ystyried ein hamcanion a'r tueddiadau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol, mae'r cyfleoedd allweddol ar gyfer trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru yn cynnwys:

- **Galluogi newid i ddulliau trafnidiaeth carbon isel a cherbydau allyriadau isel** drwy helpu pobl i leihau'r angen i deithio ac annog mwy o deithiau drwy gerdded, olwyno a beicio, drwy gynllunio ar y cyd yn well ar gyfer trafnidiaeth, defnydd tir, a datblygu economaidd. Bydd hyn yn helpu i leihau tagfeydd traffig a llygredd sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, gan gynnwys ar goridor yr A55, sef y cyfrannwr mwyaf at ansawdd aer gwael yng Ngogledd Cymru. Yn ei dro, bydd hyn yn helpu i ddod â manteision iechyd a lles cysylltiedig. Mae Gogledd Cymru yn elwa o tua 400 o bwyntiau gwefru cerbydau trydan cyhoeddus ac mae angen mynd i'r afael â heriau'r cyflenwad mewn ardaloedd gwledig i gynyddu'r broses o gyflwyno cerbydau trydan. Wrth ystyried y cyfleoedd i leihau'r angen i deithio, roedd 28.1% o weithlu Gogledd Cymru yn gweithio o bell yn rheolaidd yn 2022-23, sy'n rhoi cyfle cryf i'n rhanbarth gyfrannu at y targed cenedlaethol o 30% erbyn 2030.
- **Yr angen cynyddol i ystyried sut rydym yn cynllunio ar gyfer newid hinsawdd** yn y ffordd yr ydym yn cynnal a gwella ein hisadeiledd trafnidiaeth presennol a newydd yn y dyfodol. Mae nifer o ardaloedd risg llifogydd uchel o'r môr ar draws Gogledd Cymru, yn enwedig o amgylch Arfordir y Gogledd, y Fenai a thua'r ffin rhwng Cymru a Lloegr, ac mewn ardaloedd ar hyd coridorau afonydd. Mae cyfle na allwn fforddio ei golli wrth sicrhau bod ein hisadeiledd yn gallu gwrthsefyll newid hinsawdd a digwyddiadau tywydd eithafol. Mae cyfle hefyd i ddatgarboneiddio ein cerbydau preifat, ein fflyd cludo llwythi a chludiant cyhoeddus, yn ogystal â lleihau faint ydym yn teithio, i leihau effaith allyriadau trafnidiaeth.
- **Uno aneddleoedd allweddol gyda datblygiadau ac ardaloedd twf rhanbarthol** megis y clwstwr cenedlaethol pwysig o fusnesau gweithgynhyrchu uwch yn Sir y Fflint a Wrecsam (gyda Pharth Buddsoddi newydd). Ac eithrio Gwynedd, mae gan Ogledd Cymru gyfran is o'i phoblogaeth yn gyflogedig mewn galwedigaethau sgiliau uchel o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, gyda chyfrannau uwch mewn gwaith sgiliau isel, ac mae cyfle i ddatgloi twf economaidd lleol a gwella mynediad at gyfleoedd cyflogaeth i drigolion yng Ngogledd Cymru. Mae cyfle hefyd i gael mwy o bobl i gerdded, olwyno a beicio fel rhan o ddatblygiadau newydd a rhwng aneddleoedd allweddol presennol.
- **Gwella integreiddio a chysylltedd traws-ffiniol** rhwng cysylltiadau trafnidiaeth strategol yng nghoridor trafnidiaeth Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr, o Borthladd Rhydd Ynys Môn yng Nghaergybi i Faes Awyr John Lennon yn Lerpwl. Mae symudiadau traws-ffiniol sylweddol (tua 13% o gyfanswm y teithiau) gyda'r llifoedd mwyaf rhwng Glannau Dyfrdwy a Chaer a Sir y Fflint a Chaer ond dim ond 6% o deithiau traws-ffiniol sy'n cael eu gwneud ar drafnidiaeth gyhoeddus, sy'n rhoi cyfle i alluogi mwy o deithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus a gwella'r rhanbarthau. Wrth i ni gysylltu cymunedau sy'n siarad Cymraeg â marchnadoedd Lloegr, rhaid i ni ddiogelu a gwella cyfleoedd Cymraeg drwy ein polisïau a'n camau gweithredu.

- Bydd **Uchelgais Gogledd Cymru** yn gweithio i ddatblygu system drafnidiaeth sy'n dda ar gyfer diwylliant a'r Gymraeg drwy greu amgylchedd lle gall y Gymraeg ffynnu.
- **Gwella symudedd gwledig ac arfordirol** drwy ddarparu cysylltiadau strategol rhwng aneddleoedd gwledig, ardaloedd cyflogaeth a gwasanaethau mewn lleoliadau mwy trefol. Er bod perchnogaeth car yn uchel yn y rhanbarth, mae'r rhai nad ydynt yn berchen ar gar yn dibynnu ar wasanaethau rhannu car a system drafnidiaeth gyhoeddus o ansawdd da ac mae cyfle i wella cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus i helpu'r rhai mewn cymunedau gwledig ac arfordirol i gael swyddi, cyfleusterau cymunedol a gwasanaethau o ansawdd uwch. Yn ogystal, gyda 23 o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig ledled Cymru wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru, a gyda lefelau uchel o amddifadedd wedi'u canoli mewn ardaloedd trefol arfordirol fel Rhyl a Bae Colwyn, mae angen gwella mynediad at wasanaethau i leihau amddifadedd.
- **Gwella'r rhwydwaith bysiau, cyfleusterau a gweithredu isadeiledd blaenoriaeth bysiau** sy'n cynnig cyfle i ategu gwelliannau amlder a gynigir fel rhan o'r rhwydwaith trawsnewid bysiau yn y dyfodol, a sicrhau mynediad da i bawb i safleoedd bws. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau gwell amseroedd teithio, dibynadwyedd ac, yn y pen draw, newid moddol gydag integreiddio effeithiol â gwasanaethau rheilffyrdd trwy alluogi cyfnewid. Mae cyfran y preswylwyr dros 65 oed yng Ngogledd Cymru yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru (yn enwedig yng Nghonwy ac Ynys Môn) tra bod nifer y bobl sy'n cael eu diffinio fel pobl anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn amrywio ond mae gan Sir Ddinbych a Chonwy gyfraddau uwch na'r cyfartaledd. Mae'r grwpiau hyn fel arfer yn fwy dibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus effeithiol na demograffeg eraill, gan dynnu sylw at bwysigrwydd rhwydwaith bysiau a rheilffyrdd effeithiol, a'r angen i wella hygyrchedd i bobl â symudedd cyfyngedig.
- **Cryfhau safle Gogledd Cymru fel cyrchfan dwristiaeth ryngwladol** drwy wella cysylltedd trafnidiaeth ac uno cynllunio defnydd tir, trafnidiaeth ac adfywio economaidd yn well, megis ym Mhorth Wrecsam. Mae gwyliau mynydd ac arfordirol yn atyniad mawr i dwristiaid i Ogledd Cymru a bydd helpu i wella mynediad mwy cynaliadwy i gyrchfannau ymwelwyr hefyd yn gwella cysylltedd i bawb i feysydd hamdden, ymarfer corff a lles. Mae angen cydbwyso'r angen i ddiogelu a gwella ein hamgylchedd o ansawdd uchel gan gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri, Pen Llŷn, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Gallai gwella cysylltedd trwy ddulliau trafnidiaeth gynaliadwy gynnig ffordd newydd i ymwelwyr archwilio'r rhanbarth, ac apelio at y rhai sy'n ymwybodol o effaith eu gwyliau ar yr amgylchedd.

Ymgysylltu

O ystyried yr ystod eang o faterion a'r buddion sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, bydd ymgysylltu â rhan-ddeiliaid ac ymgynghori â'r cyhoedd yn hanfodol i lwyddiant a gweithrediad y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn. Cymerwyd agwedd gydweithredol a chyfranogol gan ystyried y pum ffordd o weithio a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac mae ymgysylltu wedi ein helpu i ddeall anghenion a dyheadau ein rhan-ddeiliaid, gan adeiladu ar wybodaeth a phrofiad cynlluniau trafnidiaeth lleol a rhanbarthol blaenorol. Rydym yn parhau i weithio'n agos ar ein cynlluniau gyda'n hawdurdodau lleol, awdurdodau cyfagos, Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru, defnyddwyr a gweithredwyr trafnidiaeth.

Rydym wedi gwrando'n ofalus ar yr adborth a ddarparwyd gan ran-ddeiliaid i Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru, a helpodd i lunio eu hargymhellion ar gyfer gwelliannau ar draws ein rhanbarth. Rydym hefyd wedi ystyried yr adborth gan weithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus ac awdurdodau lleol yr ymgynghorwyd â hwy gan Trafnidiaeth Cymru yn helaeth ers 2021 ynghylch rhwystrau i, a chyfleoedd ar gyfer, trafnidiaeth gynaliadwy yng Ngogledd Cymru. Mae hyn wedi helpu i sicrhau ein bod yn adeiladu ar y gwaith rhagorol a wneir gan eraill sydd â phwrpas cyffredin er budd pobl, busnesau ac ymwelwyr Gogledd Cymru.

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn hefyd yn cael ei lywio gan Arfarniad Llesiant Integredig, wedi'i lywio gan asesiadau effaith eang, sydd wedi elwa o ymgynghoriad gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a Cadw, ymhlith eraill.

Fe wnaethom ymgynghori ar ein cynlluniau am 12 wythnos rhwng 20 Ionawr 2025 a 14 Ebrill 2025. Mae ein Adroddiad Ymgynghori yn esbonio sut mae'r adborth wedi llywio ein hasesiadau a'n cynlluniau terfynol.



© Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru

Gweledigaeth ar gyfer ein rhwydwaith trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru

O ystyried ein Hachos dros Newid, ein rhwydwaith trafnidiaeth presennol ac anghenion a dyheadau yn y dyfodol, rydym wedi datblygu datganiad gweledigaeth. Bydd hyn yn helpu i fframio llwyddiant y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn.

Bydd gan Ogledd Cymru rwydwaith trafnidiaeth integredig sy'n ddiogel, yn gynaliadwy, yn fforddiadwy, yn wydn ac yn effeithiol sy'n cefnogi twf economaidd, ffyniant i bawb, cynhwysedd a lles.

Cefnogir ein gweledigaeth gan bedwar amcan, a fydd yn ein helpu i fonitro a gwerthuso llwyddiant ein Cynllun:

Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol

Byddwn yn galluogi 30% neu fwy o bobl yng Ngogledd Cymru i weithio o bell erbyn 2030 trwy gynllunio defnydd tir yn well a gwella cysylltedd digidol, a ddylai leihau'r angen cyffredinol i deithio a galluogi teithiau byrrach sy'n fwy addas ar gyfer dulliau cynaliadwy.

Gwell hygyrchedd a dewis o drafnidiaeth

Byddwn yn datblygu isadeiledd a gwasanaethau sy'n rhoi dewis i bobl sut maent yn teithio ar gyfer pob taith ac yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy trwy wella mynediad i aneddleoedd allweddol, cyflogaeth, safleoedd addysgol ac atyniadau twristaidd. Dylid gwella hygyrchedd pob atyniad taith allweddol, gan gefnogi'r targed rhaniad modd cenedlaethol o 45% o deithiau i'w gwneud trwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus erbyn 2040.

Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy

Byddwn yn datblygu rhwydwaith trafnidiaeth gwydn, diogel, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac effeithlon sy'n sicrhau twf economaidd cynaliadwy drwy wella hygyrchedd i feysydd cyflogaeth presennol a rhai sydd wedi'u cynllunio. Bydd o leiaf 50% o aelwydydd yng Ngogledd Cymru yn gallu teithio'n bellach o fewn un awr ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gefnogi mynediad i safleoedd cyflogaeth allweddol a chanolfannau rhanbarthol erbyn 2030.

Galluogi datgarboneiddio drwy drawsnewid i fflyd allyriadau sero

Byddwn yn datblygu seilwaith ategol ac yn cefnogi cymhellion i alluogi o leiaf 50% o gerbydau modur a phob bws cyhoeddus sy'n gweithredu yng Ngogledd Cymru i fod yn ddi-allyriadau erbyn 2030.

Mae'r amcanion hyn yn rhai Penodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Perthnasol ac yn Rhwym o Amser (SMART), ac maent wedi'u datblygu ymhellach i 15 uchelgais cychwynnol y cytunwyd arnynt gydag awdurdodau lleol Gogledd Cymru, y manylir arnynt yn yr Achos dros Newid. Maent yn adlewyrchu'r targedau cenedlaethol ar gyfer newid moddol a datgarboneiddio trafnidiaeth, a fydd yn helpu i sicrhau bod cynnydd a llwyddiannau ein rhanbarth yn cyfrannu'n gadarnhaol at ganlyniadau cenedlaethol.

Themâu trawsbynciol

Rydym wedi nodi pum thema drawsbynciol a fydd yn ein helpu i ddilyn ein dyletswyddau a'n hymrwymiadau ehangach a chyfrannu at y llwybrau cyflawni trawsbynciol a nodir yn Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Bydd y rhain yn hanfodol wrth ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth a'n hamcanion mewn ffordd gymdeithasol ac amgylcheddol gyfrifol, a darparu gwerth am arian:

Gwerth cymdeithasol

Cydnabod bod manteision trafnidiaeth yn ymestyn y tu hwnt i ystyriaeth gul o welliannau amser teithio meintiol. Mae cydnabod effeithiau a manteision cymdeithasol a llesiant y mae systemau trafnidiaeth yn eu cynnig i gymunedau yn bwysig, yn enwedig i gymunedau gwledig ac ynysig yn gymdeithasol.

Tegwch

Mae tegwch neu gydraddoldeb opsiynau trafnidiaeth yn golygu sicrhau bod pawb yng Ngogledd Cymru yn cael mynediad teg at opsiynau trafnidiaeth. Mae'n cydnabod bod gan wahanol bobl anghenion gwahanol, yn enwedig y rhai sy'n perthyn i grwpiau difreintiedig, neu'r rhai mewn cymunedau gwledig.

Arwain gan y gymuned

Grymuso cymunedau lleol a grwpiau eiriolaeth i gymryd rhan a chymryd perchnogaeth o hyrwyddo a datblygu datrysiadau trafnidiaeth, yn ogystal â gweithredu gwasanaethau yn y gymuned.

Integreiddio

Cydnabod bod newid moddol yn gofyn am ddull cyfannol, integredig o gynllunio teithiau, gan weithio ar draws gwahanol ddulliau a sectorau i'w gwneud yn haws i bobl deithio o ddrws i ddrws gan ddefnyddio dulliau trafnidiaeth gynaliadwy.

Fforddiadwyedd

Cydnabod heriau cyflawni yn y cyd-destun ariannol a masnachol presennol i'r sector cyhoeddus ac economi'r DU.

Themâu polisi

Mae ein gweledigaeth a'n hamcanion yn cydfynd yn agos â pholisïau a strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol allweddol, fel y nodir yn yr Achos dros Newid, gan gynnwys blaenoriaethau ac uchelgeisiau llesiant Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y gallwn ddangos cynnydd rhanbarthol o ran cyflawni'r blaenoriaethau a'r uchelgeisiau cenedlaethol, wrth gyflawni ein hamcanion rhanbarthol. Er mwyn helpu i fframio ein polisïau a'n hymyraethau fel rhan o'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn, rydym wedi ystyried cyfres o themâu polisi yn seiliedig ar naw cynllun bach Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ar gyfer pob dull o deithio, wedi'u haddasu ar gyfer Gogledd Cymru.

Mae'r rhain yn cynrychioli meysydd ffocws allweddol ar gyfer ein polisïau ac ymyraethau trafnidiaeth, sy'n gosod y fframwaith ar gyfer cyflwyno cynlluniau gan awdurdodau lleol Gogledd Cymru yn ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr hyn yr ydym yn ei gyflawni yn cyfrannu'n uniongyrchol at flaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae ein themâu polisi yn cynnwys:

- Uchelgeisiau'r rheilffyrdd
- Uchelgeisiau'r ffyrdd strategol
- Galluogi newidiadau i ymddygiad teithio
- Bws
- Trafnidiaeth coetsis, trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw a thrafnidiaeth gymunedol
- Cerdded, olwyno a beicio
- Integreiddio rhwng dulliau
- Porthladdoedd a chludo llwythi
- Ffyrdd, strydoedd a pharcio
- Mynediad ar y ddaear i awyrennau
- Cysylltedd digidol
- Cynllunio defnydd tir



Ein polisïau ac ymyraethau trafnidiaeth

Atodiad A

Mae Atodiad A yn dangos sut y byddwn yn cyflawni ein hamcanion, a sut mae ein polisïau yn cyd-fynd â'r deilliannau yr ydym eu heisiau.

Mae adolygiad cynhwysfawr o ddata, tystiolaeth a chynlluniau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn y gorffennol a'r presennol wedi helpu i lywio rhestr hir o bolisïau ac ymyraethau.
Mae proses gydweithredol sy'n cynnwys gweithdai rhan-ddeiliaid, asesiadau effaith a thrafodaethau â ffocws gydag awdurdodau lleol, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru wedi helpu i gytuno ar y polisïau a'r ymyraethau a nodir yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn.

Cymerwyd agwedd yn seiliedig ar y rhwydwaith ar gyfer ein cynigion, lle mae'r ffocws allweddol ar roi mwy o ddewis i bob grŵp o bobl ynghylch pryd a sut maent yn teithio. O ystyried yr adroddiad ar gyfer Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru: 'Arfer gorau ac arloesedd rhyngwladol mewn trafnidiaeth sy'n uniongyrchol berthnasol i ddatblygu polisi yng Ngogledd Cymru', mae ymyraethau yn ceisio ymateb i ardaloedd daearyddol a phoblogaethau amrywiol Gogledd Cymru, gan ystyried rhannau mwy trefol a gwledig y rhanbarth, gan geisio trafnidiaeth gwbl integredig. Er mwyn helpu i gyflawni hyn:

Tud. 222

Polisïau

Mae polisïau yn cyd-fynd â'n themâu polisi rhanbarthol ac yn adlewyrchu cyd-destun deddfwriaethol a pholisi Cymru ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Maent yn gosod y cyfeiriad teithio, gyda chefnogaeth gan:

- **Raglenni** fel ymyraethau lefel uchel sy'n gofyn am reoli prosiectau cysylltiedig yn gydlynol.
- **Prosiectau** fel ymyraethau sydd wedi'u diffinio'n gliriach a fydd yn debygol o ofyn am un neu fwy o gynlluniau i'w gweithredu, a allai ei gwneud yn ofynnol i un neu fwy o awdurdod cyfrifol neu bartneriaeth symud ymlaen a chyflawni. Nodir prosiectau fel rhai sy'n cael effaith ranbarthol neu isranbarthol, ar y graddfeydd gofodol a ganlyn:
  - Pob rhan o Ogledd Cymru
  - Trefi mawr gyda phoblogaeth o dros 10,000
  - Trefi bychain a chyrion trefi mawr
  - Pentrefi
  - Pentrefannau ac anheddau anghysbell.

Cynlluniau

Yna, amlinellir cynlluniau yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol ategol, sy'n cynnwys ymyraethau penodol i'w darparu gan awdurdodau lleol yn unig (ac o'r herwydd nid ydynt yn cynnwys cynlluniau sy'n ymwneud â'r rhwydwaith rheilffyrdd neu gefnffyrdd). Maent yn ceisio gweithredu'r rhaglenni a'r prosiectau a gyfarwyddir gan ein polisïau. Enghraifft yw:

Polisi

Gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys y sector masnachol i gyflwyno cynllun llogi beiciau ac e-feiciau cyhoeddus mewn cyfnewidfeydd trafnidiaeth mawr neu leoliadau addas eraill, ac mewn lleoliadau lle mae cynllun o'r fath yn cefnogi'r economi ymwelwyr.

Rhaglen

Llogi Beiciau a Darpariaeth Parcio

Prosiect

Strategaeth parcio beiciau ranbarthol mewn cyfnewidfeydd allweddol gan gynnwys canolfannau trefol, gorsafoedd rheilffordd a gorsafoedd bysiau

Cynllun

Strategaeth beicio Môn a'i gweithredu

Mae ein Harfarniad Llesiant Integredig yn esbonio sut y bydd ein polisïau yn effeithio ar bobl a chymunedau, yr amgylchedd, lleoedd a'r economi, diwylliant a'r Gymraeg.

Uchelgeisiau'r rheilffyrdd

Nid yw'r isadeiledd rhwydwaith rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru wedi'i ddatganoli, sy'n golygu mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU ydyw drwy Network Rail. Mae lefelau gwasanaeth yn cael eu pennu i raddau helaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Trafnidiaeth Cymru, a'r Adran Drafnidiaeth, gan weithio gyda'r Cwmnïau Gweithredu Trenau (Trafnidiaeth Cymru ac Avanti West Coast ar hyn o bryd). Mae Cwmnïau Gweithredu Cludo Llwythi yn gwasanaethu anghenion cwsmeriaid, sy'n golygu bod gwasanaethau cludo llwythi yn cael eu harwain yn fasnachol. Darperir y trac ar gyfer cludo teithwyr a llwythi ar y rheilffyrdd gan Network Rail, gyda rheoliadau gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd. Golyga hyn nad oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru unrhyw ddylanwad uniongyrchol dros wasanaethau neu isadeiledd rheilffyrdd, felly nid oes polisïau penodol yn y Cynllun hwn, na chynlluniau sy'n ymwneud â rheilffyrdd yn ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn yn nodi dyheadau rhanbarthol ar gyfer rheilffyrdd gan fod y rhain yn allweddol i gefnogi ein dyheadau ehangach ar gyfer gwell cysylltedd ledled Gogledd Cymru a thu hwnt. Ein huchelgais polisi ar gyfer rheilffyrdd yw:


Drwy gydweithio â Trafnidiaeth Cymru a Network Rail, byddwn yn gweithio tuag at rwydwaith rheilffyrdd mwy effeithlon, integredig sy'n canolbwyntio ar deithwyr. Bydd gwasanaethau rheilffyrdd effeithlon ac effeithiol yn caniatáu i bobl a nwyddau symud o ddrws i ddrws yn hawdd trwy wasanaethau ac isadeiledd trafnidiaeth hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon.

Rydym yn cydnabod bod gan Ogledd Cymru gysylltiadau da ar gyfer teithio pellter hirach, gan elwa o wasanaethau rheilffordd uniongyrchol i Lerpwl, Manceinion, Birmingham, Llundain a Chaerdydd. Rydym hefyd yn cydnabod y gwelliannau parhaus sy'n cael eu gwneud, megis cynlluniau clustnodedig ar gyfer gwasanaethau ychwanegol yr awr o orsafoedd fel Bangor a Chyffordd Llandudno, a fflyd newydd o drenau modern a fydd yn arwain at fwy o seddi.


Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi moderneiddio trenau, a gweld gwelliannau i ddiogelwch, cyfleusterau a mynediad i bawb yn ein gorsafoedd. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru a defnyddio'r cyllid Mynediad i Bawb sydd ar gael i wella hygyrchedd mewn gorsafoedd rheilffyrdd ledled y Gogledd, fel rhan o fenter ehangach i greu llwybrau heb rwystrau o fynedfeydd gorsafoedd i blatfformau, gan wneud teithio yn haws i deithwyr ag anableddau, materion symudedd, neu'r rheini sydd â bagiau trwm neu goetsys.

Mae Trafnidiaeth Cymru eisoes wedi cychwyn cynlluniau i weithredu mynediad heb risiau yng Ngorsafoedd Shotton a Rhiwabon. Lle mae achos cryf am orsafoedd neu seilwaith rheilffyrdd newydd a fydd yn gwella mynediad i'r rhwydwaith rheilffyrdd heb effeithio'n andwyol ar wasanaethau presennol ac annog teithio cynaliadwy, bydd Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i fwrw ymlaen â'r rhain.

Bydd y gwaith hwn hefyd yn ystyried opsiynau ehangach ar gyfer gwella cyswllt rhwng cymunedau â gorsafoedd rheilffyrdd. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn parhau i ymgysylltu â Thrafnidiaeth Cymru, gan adnabod lleoliadau lle mae cefnogaeth leol am orsaf newydd. Ar hyn o bryd, nid yw gorsaf newydd yn Greenfield, Treffynnon wedi'i andabod fel blaenoriaeth ar gyfer Trafnidiaeth Cymru, ond byddwn yn parhau i helpu i adnabod lle mae cefnogaeth leol am orsaf newydd.



© Unsplash



Ategir ein huchelgais polisi gan ddyheadau rheilffyrdd mwy penodol, sy'n cynnwys gwasanaethau rheilffyrdd a rhaglenni a phrosiectau gorsafoedd ar draws ac sy'n cysylltu Gogledd Cymru, sy'n cael eu hystyried fel a ganlyn:

Prif Lein Gogledd Cymru a Gorsaf Caer

Dyhead rheilffyrdd 1

Bydd cysylltiadau rheilffordd i gyrchfannau allweddol gan gynnwys Llundain Euston, Manceinion (a'i faes awyr), Lerpwl (a'i faes awyr), Caerdydd, Birmingham (a'i faes awyr), Crewe (ar gyfer cysylltiadau pellach), a Warrington (ar gyfer cysylltiad yn y dyfodol â Rheilffordd Pwerdy'r Gogledd) yn cael eu cynnal a'u gwella.

Mae Prif Lein Gogledd Cymru sy'n cysylltu Crewe yn y dwyrain a Chaergybi yn y gorllewin, yn chwarae rhan hanfodol wrth gysylltu cymunedau ar hyd yr arfordir â'i gilydd, ac yn darparu cysylltiadau allweddol i ardaloedd cyflogaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau i ddod â chyflwyno 50% yn fwy o wasanethau ar draws Prif Lein Gogledd Cymru ymlaen o fis Rhagfyr 2026, gan gynnwys gwasanaeth newydd o Landudno i Lerpwl ac ymestyn gwasanaeth Maes Awyr Manceinion i Gaergybi yn lle Llandudno. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd Rhaglen Trawsffurfio Manceinion a Gogledd Orllewin Lloegr, sy'n gynllun pwysig wedi'i anelu at roi sylw i faterion tagfeydd rheilffordd presennol ym Manceinion a'r cyffiniau.

Rydym hefyd yn cefnogi cynlluniau ar gyfer y Rhaglen TriLink fel menter flaengar yn canolbwyntio ar welliannau i Brif Lein Arfordir y Gorllewin (WCML) i'r gogledd o Crewe. Gyda'i gilydd, gall y cynlluniau hyn helpu i gyflawni gwell cysylltedd rheilffyrdd gyda Gogledd Cymru.

Dyhead rheilffyrdd 2

Y lefel gwasanaeth a ffafrir ar Brif Lein Gogledd Cymru yw pum trên yr awr gan gynnwys gwasanaeth cyflym.

Mae pwysigrwydd Prif Lein Gogledd Cymru o ran hwyluso teithio cynaliadwy ar gyfer teithiau pellter hirach i'n rhanbarth a chyda'n rhanbarth yn golygu bod yna ddyheadau am bum trên yr awr ar y lein, gan gynnwys gwasanaeth cyflym.

Mae gwelliannau i isadeiledd rheilffyrdd sy'n ofynnol cyn y gellir cyflawni'r lefel gwasanaeth hon. Mae'r rhain yn cael eu hystyried yn eu tro isod.



Dyhead rheilffyrdd 3

Dylid gwneud gwelliannau yng Ngorsaf Caer a fydd yn caniatáu gweithredu lefelau gwasanaeth a ffafrir ar Brif Lein Gogledd Cymru.

Er nad yw yng Ngogledd Cymru, mae Gorsaf Caer yn hynod bwysig i'n defnyddwyr rheilffyrdd, fel lleoliad cyrchfan a chyfnewid, ac mae'n ofynnol i'r holl wasanaethau sy'n defnyddio Prif Lein Gogledd Cymru basio drwodd. Mae cynllun gorsaf Caer yn gyfyngiad ar gyfer gwasanaethau ar hyd Prif Lein Gogledd Cymru yn ogystal â leiniau rheilffordd cyfagos, gan gynnwys lein Amwythig-Wrecsam-Caer. Mae'r cynllun yn cyfyngu ar symud gwasanaethau drwy'r orsaf, yn enwedig i wasanaethau Gogledd Cymru i Crewe ar hyd Prif Lein Gogledd Cymru. Er y gallai'r lefelau gwasanaeth a ffafrir weithredu ar y cynllun presennol, mae hyn yn her sylweddol a byddai'n arwain at lai o ddibynadwyedd gwasanaeth. Byddai'r gwelliannau yng ngorsaf Caer sydd eu hangen i gefnogi'r lefelau gwasanaeth a ddymunir yn cynnwys:


- Gwell signalau rhwng Crewe a Chaer
- Platfform newydd yng Nghaer
- Nifer cynyddol o draciau yn mynd i'r orsaf
- Croesfannau newydd ar lwybrau i'r orsaf

Dyhead rheilffyrdd 4

Dylid gwneud gwelliannau seilwaith Prif Lein Gogledd Cymru a fydd yn galluogi gweithredu pum trên yr awr a lleihau amseroedd teithio, gan flaenoriaethu'r rhannau rhwng Crewe a Chyffordd Llandudno.

Mae astudiaethau a gynhaliwyd gan Trafnidiaeth Cymru wedi nodi y gellir sicrhau'r manteision mwyaf i ddefnyddwyr yn y tymor byr trwy ganolbwyntio i ddechrau ar welliannau sydd eu hangen rhwng Crewe a Chyffordd Llandudno i gyflawni lefelau gwasanaeth gwell. Mae uwchraddio angenrheidiol i ganiatáu'r lefelau gwasanaeth hyn yn cynnwys uwchraddio croesffyrdd rheilffordd, platfform newydd yng Nghyffordd Llandudno, a gwelliannau i draciau, switshys a chroesfannau, a signalau.

Cydnabyddir bod cyflawni gwelliannau i'r isadeiledd i'r gorllewin o Gyffordd Llandudno yn fwy heriol. Yn ogystal ag uwchraddio pellach i groesffyrdd rheilffordd a gwelliannau i draciau, switshys a chroesfannau, a signalau sy'n angenrheidiol ar gyfer trenau trydan. Fel rhan o ddyheadau tymor hwy, mae gwelliannau sylweddol i'r isadeiledd hefyd, yn cynnwys ail-signalu rhwng Cyffordd Llandudno a Bangor, darparu platfform ychwanegol ym Mangor, a mynd i'r afael â chyfyngiadau capasiti ar Bont Britannia. Edrychir ar raglen fforddiadwy o uwchraddiadau er mwyn gweithredu'r gwelliannau hyn yn effeithiol.



Lein Wrecsam i Lerpwl a Padeswood

Dyhead rheilffyrdd 5

Dylid rhoi blaenoriaeth i welliannau isadeiledd ar Lein Wrecsam i Lerpwl, gan gynnwys dileu'r cyfyngiad capasiti rheilffordd yng Ngwaith Sment Padeswood, er mwyn caniatáu lefelau gwasanaeth o bedwar trên yr awr, gan gynnwys dau yn uniongyrchol i Lerpwl.

Mae Lein Wrecsam i Lerpwl yn cysylltu Wrecsam â Bidston ar Gilgwri gyda rhwydwaith Merseyrail. Ar hyn o bryd, mae gwasanaeth bob 45 munud ac mae'r llwybr wedi'i ddynodi'n 'isadeiledd tagfeydd' gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd oherwydd cyfyngiadau ar y lleoedd isadeiledd ar amserlennu, sy'n effeithio ar y gallu i weithredu gwasanaeth 30 munud ym mhob awr oherwydd llwybrau cludo sy'n gwrthdaro. Mae potensial sylweddol i gynyddu nawdd ar Lein Wrecsam i Lerpwl os bydd lefelau gwasanaeth yn cael eu gwella. Mae dyheadau'n cynnwys gwasanaethau uniongyrchol i Lerpwl gan gyd-fynd ag uchelgais Rhanbarth Dinas Lerpwl am well cysylltedd dros y ffin gyda Gogledd Cymru, a lefel gwasanaeth o hyd at bedwar trên yr awr, a allai gydag amseroedd teithio byrrach:

- Ddarparu cyswllt uniongyrchol o Wrecsam a Gogledd Ddwyrain Cymru i Lerpwl
- Gwella cysylltiadau â Phrif Lein Gogledd Cymru yn Shotton
- Gwella mynediad i Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy

Ym mis Mai 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymu gynlluniau, yn dilyn cwblhau gwaith ar y rheilffordd yn Padeswood, i gyflawni cynnydd mewn gwasanaethau tren rhwng Wrecsam a Bidston o ddau drên yr awr o fewn y tair blynedd nesaf, gyda phedwar trên yr awr yn rhedeg yn uniongyrchol rhwng Wrecsam a Lerpwl erbyn 2035.

Mae'r gwelliannau i'r isadeiledd sydd eu hangen ar lein Wrecsam i Lerpwl i'r lefelau gwasanaeth hyn yn cynnwys gwaith ar gilffyrdd Padeswood ac ail-signalu, gwelliannau i groesfannau rheilffordd, a gwelliannau cyflymder lein.

Y prif gyfyngiad i ddarparu cynnydd yn amlder y gwasanaeth ar lein Wrecsam i Lerpwl yw traffig cludo llwythi yng Ngwaith Sment Padeswood. Ni ellir gweithredu unrhyw gynnydd yn amlder y gwasanaeth rheilffordd ar hyd y lein nes mynd i'r afael â'r cyfyngiad capasiti hwn. Mae'r gwelliannau angenrheidiol yn gofyn am ddarparu mynediad uniongyrchol i'r cilffyrdd o'r brif lein, gan ddileu symudiadau siynt ar y brif lein. Byddai'r gwelliannau hefyd yn cefnogi gweithrediadau cludo llwythi rheilffordd mwy effeithlon a defnyddio llwythi rheilffordd ar gyfer cerbydau sment o'r safle gan leihau traffig HGV ar ffyrdd lleol.

Cyfnewidfa Gorsaf Shotton

Dyhead rheilffyrdd 6

Dylid gwella Gorsaf Shotton i greu cyfnewidfa o ansawdd uchel a hollol hygyrch rhwng Lein Wrecsam i Lerpwl a Phrif Lein Gogledd Cymru gyda theithio llesol da a mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus.

Mae Gorsaf Shotton yn gyfleuster strategol pwysig yng Ngogledd Cymru gan ei bod yn cael ei gwasanaethu gan Brif Lein Gogledd Cymru a Lein Wrecsam i Lerpwl. O'r herwydd, mae'n rhoi cyfle i deithwyr gyfnewid rhwng y ddwy lein. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth bresennol i gerddwyr rhwng y platfformau yn is-safonol ac nid yw'n darparu mynediad heb risiau. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar Shotton a'r cyfleoedd cyfnewid, mae'n hanfodol bod cyfleusterau yn yr orsaf yn cael eu gwella, gan nodi bod pobl eisiau croesi'r rheilffordd rhwng Stryd Fawr Shotton a Pharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.

Gorsaf newydd ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy


Dyhead rheilffyrdd 7

Dylid bwrw ymlaen â mynediad newydd a gwell at wasanaethau rheilffordd ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy ar Lein Wrecsam i Lerpwl gyda theithio llesol ategol a mynediad trafnidiaeth gyhoeddus i'r orsaf.

Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy yw un o ardaloedd cyflogaeth mwyaf y DU gyda thua 9,000 o weithwyr. Mae'n ganolbwynt cenedlaethol ar gyfer gweithgynhyrchu uwch, ac mae'n cynnwys sawl gorsaf bŵer, y gwaith gwastraff-i-ynni rhanbarthol a nifer o fentrau diwydiannol a logisteg mawr, canolig a bach. Mae'r Parc Diwydiannol yn darparu cyflogaeth o ansawdd uchel, nid yn unig yn lleol, ond hefyd i bobl o bob rhan o Ogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr. Er gwaethaf yr arwyddocâd hwn, mae cysylltiad gwael iawn ar gludiant cyhoeddus i'r safle o'r orsaf bresennol ym Mhont Penarlâg, ac mae cyfran fawr o weithwyr yn teithio mewn car. Byddai gorsaf newydd yng

Nglannau Dyfrdwy, sydd wedi'i lleoli ar Lein Wrecsam i Lerpwl i Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy rhwng Pont Penarlâg a Neston yn:

- Darparu cyfleoedd cyflogaeth yng Nglannau Dyfrdwy i bobl nad ydynt yn teithio mewn car
- Darparu dewis o ddull ar gyfer cymudo i Lannau Dyfrdwy
- Lleihau traffig ar goridor yr A494



Lein Amwythig – Wrecsam – Caer

Dyhead rheilffyrdd 8

Dylid mynd i'r afael â chyfyngiadau capasiti ar lein Amwythig – Wrecsam – Caer er mwyn sicrhau bod dau drên yr awr yn aml, yn ogystal ag amseroedd teithio llai lle bo hynny'n bosibl.

Mae Lein Amwythig–Wrecsam–Caer yn cysylltu Gogledd a De Cymru fel rhan o lein hirach Llinell y Mers, felly mae'n hanfodol ar gyfer cysylltedd yng Nghymru. Mae achos i gynyddu amlder y gwasanaeth teithwyr ar hyd y lein hon i ddau drên yr awr, ond mae angen goresgyn y capasiti signalau cyntaf yn Gobowen, ac mae angen goresgyn y cyfyngiad capasiti rhwng Wrecsam a Chaer (lle mae'r lein ar hyn o bryd yn un trac).

Leiniau Dyffryn Conwy ac Arfordir Cambria

Dyhead rheilffyrdd 9

Dylid ystyried gwelliannau capasiti leiniau, amlder gwasanaeth uwch a gwella capasiti trenau ar Leiniau Dyffryn Conwy ac Arfordir Cambrian, gyda chymorth mesurau bysiau cyflenwol.

Mae Leiniau Dyffryn Conwy ac Arfordir y Cambrian yn chwarae rhan bwysig wrth alluogi teithiau trwy ddulliau cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig, lle maent yn darparu cysylltiad â'r ardaloedd cyfagos sy'n bwysig i bobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig. Maent hefyd yn arwyddocaol o ran cefnogi'r economi ymwelwyr yn yr ardaloedd y maent yn eu gwasanaethu, er enghraifft cysylltu lleoedd yng Ngogledd Cymru â marchnadoedd mawr yn Lloegr. Ar gyfer Dyffryn Conwy, dyma'r pentrefi prydferth gerllaw Eryri fel Betws y Coed; ar gyfer Arfordir y Cambrian, mae hyn yn cynnwys trefi gwyliau fel Pwllheli. Felly, mae capasiti, dibynadwyedd, gwytnwch ac amser teithio yn bwysig ar y ddwy lein hyn, yn enwedig yn sgil digwyddiadau llifogydd diweddar ar y leiniau sydd wedi lleihau pa mor ddibynadwy yw'r gwasanaethau.

Uchelgeisiau'r ffyrdd strategol

Mae'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN) yng ngogledd Cymru yn cynnwys ffyrdd A mawr, sy'n cael eu rheoli a'u cynnal a'u cadw gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Llywodraeth Cymru. Yn yr un modd â'r rheilffyrdd, mae hyn yn golygu nad oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru unrhyw ddylanwad uniongyrchol dros y rhwydwaith ffyrdd strategol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn yn nodi opsiynau I fynd i'r afael â phroblemau yn ymwneud â thrafnidiaeth ar y rhwydwaith ffyrdd strategol ac amlygu dyheadau rhanbarthol ar gyfer ffyrdd strategol gan fod y rhain yn allweddol i gefnogi ein dyheadau ehangach ar gyfer cysylltedd ehangach i ogledd Cymru. Ein dyhead polisi ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd strategol yw:"

Drwy gydweithio ag Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Llywodraeth Cymru, byddwn yn gweithio tuag at rwydwaith ffyrdd strategol mwy effeithlon, integredig a gwydn. Bydd ffyrdd strategol effeithlon ac effeithiol yn galluogi pobl a nwyddau i symud yn rhwydd rhwng canolfannau cyflogaeth mawr, iechyd, addysg a chyfleusterau a seilwaith cymunedol arall. Bydd ein ffyrdd strategol yn wydn yn erbyn digwyddiadau tywydd garw ac yn gwella bioamrywiaeth.

Ategir ein huchelgais polisi gan ddyheadau rhwydwaith ffyrdd strategol mwy penodol, sy'n cynnwys rhaglenni cynnal a chadw priffyrdd, capasiti a phrosiectau gwella diogelwch ar draws ac yn cysylltu gogledd Cymru, sy'n cael eu hystyried fel a ganlyn:

Cynlluniau cynnal a chadw a gwella priffyrdd mawr

Dyhead SRN 1

Dylid cynnal a chadw'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol i sicrhau bod llwybrau'n parhau i fod yn ddiogel ac yn ddibynadwy.

Mae'n hanfodol cynnal a chadw ein ffyrdd A mawr i safon diogel a dibynadwy i gefnogi ein hiechyd a'n llesiant economaidd. Rydym hefyd angen i'n rhwydwaith ffyrdd strategol fod yn wydn i effeithiau newid hinsawdd a'r risg llifogydd o ddigwyddiadau tywydd eithafol, sy'n gofyn am gynnal a chadw a gwelliannau parhaus i'r draenio. Rydym yn parhau i gefnogi ein Hasiant Cefnffyrdd a'r gwasanaethau brys gan ymdrin â digwyddiadau ac oedi mor effeithlon ac effeithiol â phosib er mwyn helpu i gadw ein pobl a'n nwyddau i symud.



Dyhead SRN 2

Dylid amnewid Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494 er mwyn sicrhau dibynadwyedd parhaus symudiadau traws-ffiniol hanfodol.

Mae amnewid y bont ar draws Afon Dyfrdwy ar yr A494 wedi'i nodi fel blaenoriaeth yn Rhaglen Adnewyddu Asedau Mawr Llywodraeth Cymru. Dylai hyn gynnwys gwell darpariaeth ar gyfer cerdded, olwyno a beicio.

Dyhead SRN 3

Dylid adolygu'r achos dros gyflawni cynlluniau priffyrdd strategol, yn enwedig lle gall y cynlluniau hyn ddarparu manteision ehangach a gwella cyfleusterau ar gyfer teithio cynaliadwy. Coridor yr A494/A55/Sir y Fflint a'r A483 Wrecsam yw'r llwybrau blaenoriaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau nad yw'r cynlluniau blaenorol ar gyfer Gwelliannau Coridor Sir y Fflint ar yr A55/A494/A548 yn cael eu datblygu yn dilyn argymhellion yr Adolygiad Ffyrdd ac ar hyn o bryd mae wrthi'n comisiynu gwaith newydd i ddatblygu Strategaeth Llwybrau ar gyfer yr A55/A494 a fydd yn nodi'r heriau a'r problemau ar hyd y coridor ynghyd ag ymyriadau posibl i fynd i'r afael â nhw. Mae hyn yn cynnwys cadarnhad gan Lywodraeth Cymru ei bod wedi comisiynu astudiaeth (Camau 1 a 2 WelTAG) i ystyried heriau gweithredol y rhwydwaith, gwydnwch a diogelwch ffyrdd rhwng Cyffyrdd 14 a 18 ar yr A55.

Ar yr A483 yn Wrecsam, roedd gwelliannau a gyflwynwyd yn flaenorol yn ceisio mynd i'r afael â diffyg capasiti yng Nghyffyrdd 4 a 5 a materion diogelwch gweithredol tra'n cefnogi'r gwaith o ddarparu safleoedd datblygu Porth y Gorllewin a Lower Berse Farm. Mae gwaith datblygu yn archwilio integreiddio ehangach cyfleoedd, er enghraifft fel rhan o'r Porth Gorllewinol sy'n ystyried pob dull o deithio.

Ers tro, mae dyheadau wedi bod am welliannau priffyrdd strategol dethol yng ngogledd Cymru, sydd wedi cael eu bwrw ymlaen drwy waith arfarnu ac achos busnes. Un o'r rhain yw ffordd osgoi Llanbedr, ac mae Cyngor Gwynedd yn cydweithio â phartneriaid I adnabod pecyn o ddatrysiadau trafnidiaeth cynaliadwy I wella mynediad a lleddfu probvlemau trafnidiaeth yn Llanbedr. Mae hyn yn cael ei brosesu drwy'r broses WelTAG yn unol ag Adolygiad Ffyrdd Llywodraeth Cymru.



Gwytnwch Croesiadau'r Fenai

Dyhead SRN 4

Dylid bwrw ymlaen â'r achos am drydydd Croesiad dros y Fenai. Gallai hyn wella dibynadwyedd amser siwrne, gwella capasiti, darparu gwell cyfleusterau i ddefnyddwyr dulliau cynaliadwy.

Mae Croesiadau'r Fenai sy'n cysylltu Ynys Môn â thir mawr gogledd Cymru yn hynod bwysig i bobl a busnesau ar ddwy ochr y Fenai. Gall digwyddiadau sy'n arwain at gau'r croesiadau a thagfeydd difrifol arnynt gael effaith andwyol sylweddol ar gymunedau a busnesau. Y ffactorau pwysig i'w hystyried yw:

- Mae pobl yn teithio i'r gwaith i'r ddau gyfeiriad ac maent angen bod yn medru dibynnu ar eu siwrne
- Mae gwasanaethau allweddol i drigolion Ynys Môn, ac yn amlwg, Ysbyty Gwynedd, wedi'u lleoli ar draws y Fenai
- Mae busnesau angen dibynadwyedd i gynllunio symudiad nwyddau a phobl
- Gall mynediad fod yn annibynadwy i'r porthladd, Porthladd Rhydd, a'r safle datblygu yn Wylfa

Am y rhesymau hynny, mae gan ein cymunedau yng ngogledd Cymru ddyhead am drydedd croesiad dros y Fenai fydda'n gwella gwytnwch a chynyddu capasiti, tra hefyd yn darparu cyfleusterau o ansawdd uchel am deithio llesol a chludiant cyhoeddus. Mae cyfle i weithio gyda datblygwyr posib yn Wylfa i gydweithio ar welliannau trafnidiaeth a datblygiadau cysylltiadau pŵer.

Dyhead SRN 5

Dylid bwrw ymlaen â mesurau fydd yn gwella gwytnwch Croesiadau'r Fenai.

Yn y tymor byrrach, mae'n hanfodol bwrw ymlaen gydag argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru i wella gwytnwch croesiadau'r Fenai. Mae'r pecyn o ymyraethau sy'n cael eu hargymell yn cynnwys cludiant cyhoeddus a gwelliannau seilwaith teithio llesol, allwyrwyr gwynt, gwelliannau i gyffyrdd a mesurau rheoli traffig.



© Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru

Galluogi newidiadau i ymddygiad teithio

O ystyried ein daearyddiaeth unigryw, ein poblogaeth a'n cyrchfannau ledled gogledd Cymru, rydym am sicrhau bod gan ein trigolion a'n hymwelwyr ddewis ynghylch sut maent yn teithio. Bydd hyn yn cynnwys creu amodau ffafriol fydd yn rhoi rhyddid i bobl a busnesau wneud penderfyniadau, ac ar yr un pryd, rydym angen amser i ystyried effeithiau teithio ar ein heconomi, ein hamgylchedd, ein cymdeithas a'n diwylliant. Mae newid mewn ymddygiad a dewisiadau teithio yn perthyn yn agos i bolisïau, rhaglenni a phrosiectau ehangach ar gyfer defnydd tir, cysylltedd digidol, cludo a logisteg, integreiddio ac ymyraethau dulliau penodol, sydd oll yn cael eu hystyried yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn. Mae ein polisïau a'n hymyraethau ar gyfer helpu pobl i wneud dewisiadau teithio mwy cynaliadwy yn cynnwys:

Tud. 234



Rhoi dewisiadau i bobl ynghylch sut maent yn teithio i'r gwaith

Polisi CB1

Bydd gwelliannau pellach i wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau teithio llesol sy'n rhoi mynediad i safleoedd cyflogaeth mawr yn cael eu hadnabod a'u datblygu lle mae cyllid ar gael. Dylai gwelliannau ystyried patrymau gwaith shifft, patrymau gwaith tymhorol a lle gellir cyflawni'r fwyaf o effaith.

Mae llesiant economaidd gogledd Cymru yn gofyn am system trafnidiaeth sy'n darparu mynediad dibynadwy a chyfleus i gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. Mae nifer ohonom yn cymudo mewn car, naill ai drwy ddewis, neu oherwydd diffyg dewis amgen deniadol arall. Mae hyn yn cyfrannu at dagfeydd traffig, allyriadau carbon a phroblemau ansawdd aer ar hyd coridorau allweddol, megis yr A55. Hefyd, mae'n creu heriau cymdeithasol a busnes drwy gyfyngu ar fynediad i gyfleoedd ar gyfer y trigolion hynny sydd ddim yn gyrru, neu sydd heb gar, ac mae diffyg dewisiadau trafnidiaeth yn dylanwadu ar gyflogaeth a recriwtio. Gall rhwydwaith cludiant cyhoeddus a theithio llesol deniadol, effeithlon chwarae rhan hanfodol i leihau amddifadedd drwy ddarparu mynediad i gyfleoedd swyddi, hyfforddiant, iechyd a llesiant ac addysg.

Un ffordd y gall busnesau a sefydliadau gefnogi a bwydo i mewn fyddai drwy Gynlluniau Teithio Gweithle, sy'n cysylltu â rhai o'n polisïau eraill, yn cynnwys rhoi gwybodaeth i bobl wneud dewisiadau teithio mwy cynaliadwy, clybiau ceir a rhannu ceir.

Polisi CB2

Bydd dull partneriaeth yn cael ei ddefnyddio i adnabod a datblygu cynlluniau a mentrau sy'n annog teithio cynaliadwy i'r gwaith mewn safleoedd cyflogaeth sy'n agos at y ffin, megis Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, Parc Diwydiannol Wrecsam, Airbus Brychdyn, Parc Busnes Caer, a chanol dinasoedd Wrecsam a Chaer.

Mae cysylltiadau cryf rhwng cymunedau ac economïau gogledd-ddwyrain Cymru a gogledd-orllewin Lloegr. Adlewyrchir hyn yn y nifer o deithiau dros y ffin bob dydd, yn enwedig ar gyfnodau brig pan fo nifer uchel o bobl yn teithio ar gyfer gwaith. Gall hyn arwain at dagfeydd yn ystod oriau brig ar lwybrau allweddol megis yr A55, A494 a'r A483.

Mae nifer o safleoedd cyflogaeth arwyddocaol ar y ddwy ochr i'r ffin, gan gynnwys Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, canol dinasoedd Wrecsam a Chaer, Airbus Brychdyn, Parc Busnes Caer a Stad Ddiwydiannol Wrecsam. Bydd lleihau nifer y bobl sy'n cymudo i'r lleoliadau hyn mewn car yn cael effeithiau amgylcheddol positif, ond hefyd yn lleihau effaith tagfeydd ac oedi ar deithiau pellach ar y rhwydwaith priffyrdd. Er mwyn gwella'r cysylltiadau teithio cynaliadwy i'r safleoedd hyn ar gyfer trigolion gogledd Cymru, a thrigolion Lloegr sy'n gweithio yng ngogledd Cymru, bydd angen i'r awdurdodau lleol ar y naill ochr i'r ffin weithio mewn partneriaeth, ynghyd â Thrafnidiaeth Cymru a gweithredwyr trafnidiaeth.



Polisi CB3

Gweithio gydag Awdurdodau Lleol a Chyfunol cyfagos, gan gynnwys Gorllewin Swydd Gaer a Chaer, a Rhanbarth Dinas Lerpwl i sicrhau dull ategol i Gynllunio Trafnidiaeth, yn enwedig yn Is-ranbarth Mersi a'r Ddyfrdwy. Dylai hyn ystyried teithiau cymudo a symudiadau cludo llwythi.

Y tu hwnt i'r safleoedd cyflogaeth hyn y cyfeirir atynt ym Mholisi CB2 ac yn agos at y ffin, mae mannau deniadol am deithiau hwy eraill yn Lloegr gan eu bod yn fannau deniadol i weithio i drigolion gogledd Cymru, ac mae canolfannau poblogaeth uchel lle y mae cyflogwyr gogledd Cymru yn mynd ati i recriwtio gweithwyr ohonynt. Dylid rhoi dewis i gymudwyr sy'n teithio ar y siwrneion hyn ynghylch sut maent yn teithio i'r gwaith, a hynny er mwyn lleihau'r defnydd o gar, ac i sicrhau bod rhagor o gyfleoedd cyflogaeth yn hygyrch i gymunedau.

Polisi CB4

Dylai cymudwyr i Barth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam fedru cael mynediad at swyddi gan ddefnyddio isadeiledd seiclo a cherdded ansawdd uchel, gwell gorsafoedd rheilffordd cyfagos, neu wasanaethau bws sy'n ddeniadol ac yn adlewyrchu patrymau gwaith y cyflogwyr yn y Parth Buddsoddi.

Mae Llywodraethau'r DU a Chymru wedi cyfleu eu cefnogaeth i Barth Buddsoddi sy'n cefnogi gweithgynhyrchu uwch yn Sir y Fflint a Wrecsam. Mae hwn yn gyfle a allai gynnwys £160m o gyllid ar gyfer y rhanbarth dros y 10 mlynedd nesaf. Mae hyn yn gyfle mawr i'n pobl a'n busnesau, yn enwedig ein cymunedau yn ardaloedd Sir y Fflint a Wrecsam. Bydd y Parth Buddsoddi yn cefnogi creu swyddi ac yn helpu â chadw gweithwyr yn y rhanbarth. Mae hyn yn peri her i'n rhwydwaith trafnidiaeth ac yn gyfle i'w wella. Bydd trafnidiaeth yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi llwyddiant y Parth Buddsoddi drwy sicrhau bod modd i bobl sy'n byw yng ngogledd Cymru gael mynediad at y cyfleoedd cyflogaeth presennol a newydd. Mae helpu pobl sydd heb fynediad at gar preifat i gyrraedd ein safleoedd cyflogaeth mawr ar gyfer gwaith neu hyfforddiant yn fater â blaenoriaeth ar gyfer Cynghrair Arweinyddiaeth Wrecsam.



Polisi CB5

Pan fo'n bosibl, byddwn yn chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio cyllid y Parth Buddsoddi ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth cynaliadwy sy'n gwella mynediad at gyflogaeth a chefnogi'r gwaith darparu a llwyddiant y Parth Buddsoddi.

Mae posibilrwydd i'r cyllid o'r Parth Buddsoddi roi cyfle i wella prosiectau, gan geisio datgloi cyllid cyfalaf a refeniw fyddai'n cefnogi cyflawniad gwell mynediad cynaliadwy at gyflogaeth.

Polisi CB6

Bydd dull partneriaeth yn cael ei ddefnyddio i adnabod a datblygu cynlluniau a mentrau dewisiadau doethach sy'n hwyluso cymudo mwy cynaliadwy i safleoedd cyflogaeth yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

Mae cyflogaeth sy'n cael ei arwain gan y sector cyhoeddus yn ardal Bangor, Caernarfon ac Ynys Môn, ynghyd â Phorthladd Rhydd Caergybi ac unrhyw gynigion sydd ar y gweill yn Wylfa, yn rhoi cyfle gwirioneddol i hwyluso symudiad at gymudo cynaliadwy. Mae'r heriau yma yn wahanol i rai'r dwyrain yn sgil natur fwy gwledig yr ardal o amgylch. Gellir ymdrin â hyn drwy gydweithio rhwng awdurdodau lleol ar ddwy ochr y Fenai, Trafnidiaeth Cymru, gweithredwyr preifat, a chyflogwyr mawr.

Polisi CB7

Bydd creu Partneriaethau Trafnidiaeth Strategol yn cael eu hymchwilio mewn lleoliadau cyflogaeth mawr.

Mae Partneriaeth Trafnidiaeth Strategol, fel yr argymhellir gan Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru, yn bartneriaeth fyddai'n dod â'r cyflogwyr mawr ynghyd yn yr is-ranbarthau, ynghyd ag awdurdodau lleol a Thrafnidiaeth Cymru, i adnabod y mesurau y gellir eu rhoi yn eu lle i leihau'r defnydd o geir ar gyfer cymudo mewn ardaloedd a chlystyrau cyflogaeth allweddol. Argymhellodd y Comisiwn y dylai'r rhain ganolbwyntio yn y lle cyntaf ar Lannau Dyfrdwy a Wrecsam (lle mae clwstwr o gyflogwyr sector preifat), ac yn ardal y Fenai lle mae dominyddiaeth sector cyhoeddus o ran cyfleoedd cyflogaeth. Gallai cyfnod prawf am gyfnod cychwynnol i'w gytuno, helpu i adnabod y dull strategol mwyaf priodol a'r cydlynu adnoddau sydd ei angen.



Rhoi dewisiadau i bobl ynghylch sut maent yn cael mynediad at wasanaethau

Polisi CB8

Rhoddir blaenoriaeth i ariannu cynlluniau a gwasanaethau sy'n gwella mynediad cynaliadwy at wasanaethau hanfodol sy'n cyfoethogi bywyd, megis addysg, gofal iechyd, canol trefi a chyfleusterau cymunedol. Unwaith y bydd yn ei le, dylid blaenoriaethu unrhyw isadeiledd sy'n cefnogi mynediad at y gwasanaethau hyn ar gyfer cynnal a chadw pan fo'n briodol.

Bydd cael rhwydwaith teithio teg a chyfiawn yng ngogledd Cymru yn golygu y dylai trigolion ac ymwelwyr gael dewis ynghylch sut maent yn teithio ar gyfer pob siwrne. Mae'n hanfodol bwysig bod pob trigolyn yn cael mynediad at wasanaethau hanfodol a chyfleusterau cymunedol megis meddygfeydd meddygon teulu, deintyddion, ysbytai, ysgolion, colegau, prifysgolion, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, siopau ac addoldai. Bydd mynediad rhwydd a dibynadwy i gyrchfannau o'r fath yn gwneud cyfraniad positif i'n llesiant.

Lle bo'n bosib ac yn briodol, dylid rhoi blaenoriaeth i wella mynediad at wasanaethau ac asedau presennol.

Polisi CB9

Ymchwilir i gyflwyno Contract Gwasanaethau Cyffredinol yn un o'r ardaloedd awdurdod lleol yng ngogledd Cymru, gyda golwg ar gyflwyno'n ehangach ar draws y rhanbarth pe byddai'n llwyddiannus.

Darperir cludiant i nifer o wasanaethau hanfodol gan awdurdodau lleol drwy gontractau am gludiant ysgol, gwasanaethau cymdeithasol a chludiant cleifion nad ydynt yn rhai brys. Argymhellodd Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru y dylid ymchwilio i 'gontract gwasanaethau trafnidiaeth cynhwysfawr'. Mae hwn yn gysyniad newydd i ogledd Cymru, a byddai'n gontract sy'n cyfuno'r holl wasanaethau hyn i roi gwell gwasanaeth i'r cyhoedd a lleihau dyblygu adnoddau.



Rhoi dewisiadau i bobl ynghylch sut maent yn cael mynediad at addysg

Polisi CB10

Bydd gwelliannau pellach i wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau teithio llesol sy'n rhoi mynediad i sefydliadau addysg yn cael eu hadnabod a'u datblygu lle mae cyllid ar gael. Mae hyn yn cynnwys: Safleoedd Addysg Uwch (prifysgolion ym Mangor a Wrecsam, ond hefyd y rhai yng ngogledd orllewin Lloegr); Safleoedd Addysg Bellach (yn cynnwys Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Cambria); Ysgolion Uwchradd; ac Ysgolion Cynradd.

Mae rhwydwaith trafnidiaeth deniadol ac effeithlon yn chwarae rhan hanfodol o ran lleihau amddifadedd drwy roi mynediad at hyfforddiant ac addysg. I annog meddylfryd hirdymor o ddewis teithio llesol ar gyfer siwrneion addas, mae'n bwysig bod pobl ifanc yn dod i arfer â gwneud hyn o oed cynnar. Bydd dewis cerdded neu feicio i'r ysgol yn helpu gyda hyn, ac yn cefnogi buddion ehangach, megis:

- Ffordd o fyw iachach
- Llai o dagfeydd a phroblemau parcio yn ystod amser ysgol
- Gwell ansawdd aer ger ysgolion
- Llai o allyriadau cerbydau

Dylai cynllun teithio llesol i ysgolion gael ei gyflwyno ar gyfer pob ysgol, i helpu i ddarparu rhestr o gamau gweithredu y mae pob ysgol yn ymrwymo iddynt. Dylai anelu at ysbrydoli myfyrwyr, rhieni, gwarcheidwaid a staff i gerdded, olwyno neu feicio i'r ysgol.

Polisi CB11

Dylai awdurdodau lleol ymestyn eu gwaith gydag ysgolion a rhieni i annog a chefnogi teithio cynaliadwy ar gyfer plant, rhieni a staff.

Mae'n hanfodol ein bod yn annog pobl ifanc i ddewis dulliau teithio llesol wrth deithio i'r ysgol, lle bo modd, ac mae cludiant o'r cartref i'r ysgol yn fater penodol bwysig i nifer o rieni a phlant, ac yn sicrhau mynediad diogel a chyfleus at ddysgu. Mae ymgyrchoedd cenedlaethol presennol fel Kerbcraft, sef strategaeth genedlaethol ar gyfer diogelwch cerddwyr plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn cynnig enghreifftiau o arfer gorau, yn enwedig o fewn ac o amgylch ysgolion, i hyrwyddo teithio llesol.

Polisi CB12

Bydd awdurdodau lleol yn parhau i ddefnyddio setiau data lleol a pholisïau megis Mesur Teithio gan Ddysgwyr i flaenoriaethu llwybrau i'r ysgol ar gyfer gwelliannau diogelwch.

Os ydym ni am annog pobl ifanc a'u rhieni i ddewis teithio llesol ar gyfer eu siwrne i'r ysgol, mae'n bwysig bod gwybodaeth a seilwaith addas yn eu lle fel eu bod yn medru teithio'n gynaliadwy ac yn ddiogel.



Rhoi dewisiadau i bobl mewn ardaloedd gwledig a lled-drefol

Polisi CB13

Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gyflawni'r gwelliannau trafnidiaeth angenrheidiol cymdeithasol sy'n atal ynysu gwledig. Dylai hyn flaenoriaethu gwell cysylltiad cymunedau gwledig i: gymunedau cyfagos, trefi cyfagos, cyfleusterau cymunedol cyfagos a gwasanaethau allweddol megis iechyd, siopau, addysg, a chyfnewidfeydd trafnidiaeth er mwyn teithio ymhellach.

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn yn cydnabod bod angen hwyluso peth symudiad moddol draw o ddefnyddio car preifat ac yn nodi sut ellir cyflawni hyn yng ngogledd Cymru drwy well cludiant cyhoeddus a theithio llesol yn, a rhwng, ein trefi a'n dinasoedd. Tra'n cydnabod bod lleihau'r defnydd o geir mewn cymunedau gwledig yn fwy heriol, mewn ardaloedd gwledig, rydym yn cydnabod:

- Bod gwasanaethau a swyddi yn aml ymhellach i ffwrdd o ble mae pobl yn byw
- Y gall cerdded a beicio ar lwybrau gwledig deimlo'n llai diogel
- Bod gwasanaethau bws rheolaidd yn llai cyffredin ac yn aml nid ydynt yn gweithredu yn fasnachol

Mae hyn yn rhoi cyfle i ni roi opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy gwell i drigolion cymunedau gwledig a darparu'r cysylltiadau sy'n atal teimladau ynysig, ac yn ei dro, mae'n gadael i drigolion gael mynediad diogel at y gwasanaethau y maent eu hangen. Mae hyn yn golygu bod modd ystyried dulliau mwy arloesol o wasanaethu cymunedau gwledig er mwyn darparu'r gwasanaethau a'r seilwaith sydd ei angen yn gymdeithasol. Ymysg yr enghreifftiau sy'n cael eu hystyried fel rhan o'r cynllun trafnidiaeth gymunedol a'r polisïau a'r ymyraethau teithio llesol yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, mae:

- Trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw sy'n gwasanaethu ardaloedd sydd ddim yn cael eu gwasanaethu gan wasanaethau bws llwybr penodol, megis gwasanaethau Fflecsi
- Mentrau trafnidiaeth cymunedol, megis gwasanaethau galw a theithio
- Cynlluniau clybiau car, sy'n rhoi ffordd rwydd a fforddiadwy i bobl rannu'r buddion o ddefnyddio car heb y gost o fod yn berchen ar un
- Cyflawni cyfleusterau i gerddwyr fel llwybrau anffurfiol sy'n cysylltu cymunedau, lle gall gwirfoddolwyr lleol adeiladu llwybrau gyda chytundebau â thirfeddianwyr lleol

Mae Fflecsi yn wasanaeth trafnidiaeth ymateb i'r galw yng Nghymru, sy'n cael ei weithredu gan Drafnidiaeth Cymru ar y cyd ag awdurdodau lleol a gweithredwyr bws. Yn wahanol i wasanaethau bws traddodiadol, nid yw Fflecsi yn dilyn llwybrau neu amserlenni penodol. Yn lle hynny, mae'n codi ac yn gollwng teithwyr mewn lleoliadau y maent wedi gofyn amdanynt, o fewn parth dynodedig. Mae'r gwasanaeth yn addasu ei lwybrau mewn amser real, yn seiliedig ar archebion teithwyr, gan ei wneud yn fwy addasadwy i anghenion teithio unigol. Gall teithwyr archebu taith ar ap neu dros y ffôn.

Mae'r diffyg opsiynau teithio sydd gan drigolion mewn cymunedau gwledig yn golygu y bydd y car preifat yn aml yn ddull teithio angenrheidiol sy'n cael ei ddewis ar gyfer nifer o siwrneion y teithir arnynt mewn ardaloedd gwledig. Gellid lleihau effaith amgylcheddol y siwrneiau hyn drwy annog neu hwyluso symudiad i gerbydau trydan neu Gerbydau Allyriadau Isel Iawn i drigolion gwledig, neu gyda chlybiau rhannu car i leihau'r defnydd o geir preifat. Mae hyn yn cael ei ystyried ymhellach fel rhan o ffyrdd, strydoedd a pharcio yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn.



© Unsplash



Rhoi gwybodaeth i bobl i wneud dewisiadau teithio mwy cynaliadwy

Polisi CB14

Bydd ymgyrchoedd Marchnata a Chyfathrebu yn cael eu datblygu sy'n ystyrlon ac yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o fanteision teithio cynaliadwy. Bydd ymgyrchoedd yn defnyddio technegau arloesol i dargedu'r gynulleidfa gywir, yn enwedig y grwpiau hynny sy'n anoddach i'w cyrraedd. Dylid cymryd dull rhanbarthol at hyn pan fo'n briodol.

Mae darparu'r seilwaith a'r gwasanaethau sy'n galluogi pobl i wneud dewisiadau teithio cynaliadwy yn bwysig ond ni all fod yn effeithiol oni bai bod pobl yn ymwybodol ohonynt a'r buddion o'u defnyddio. Mae ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu yn hanfodol ac yn gallu cael eu teilwra i ganolbwyntio ar grwpiau defnyddwyr targed penodol, megis trigolion a defnyddwyr hamdden, cymudwyr, pobl ifanc, neu bobl hŷn. Mae prosiectau ledled gogledd Cymru i gefnogi ymgyrch hyrwyddo a rhaglenni cynllunio teithio, yn cynnwys:

- Cefnogi'r digwyddiad Diwrnod Di-gar y Byd blynyddol mewn rhai o'n trefi mwy
- Deunyddiau ymwybyddiaeth iechyd cyhoeddus ac ansawdd aer
- Adnoddau ar-lein ynghylch cludiant cynaliadwy a chanllawiau cynllunio teithio
- Hyrwyddo apiau sy'n cynnig talebau arbed arian ar gyfer defnyddio cludiant cyhoeddus, cerdded neu feicio
- Eirioli ar ran Siarter Teithio Iach Gogledd Cymru ac annog sefydliadau sector cyhoeddus, preifat a
- thrydydd sector i gofrestru i ymrwymo i waith tuag at gamau sy'n cyfrannu at hyrwyddo teithio iach i'w staff a'u defnyddwyr gwasanaeth
- Cydweithio â darparwyr gwasanaeth addysg i hwyluso dewisiadau teithio cartref i'r ysgol cynaliadwy, a hyfforddiant teithio annibynnol

Bydd yr ymyraethau hyn yn ein helpu i brofi strydoedd sy'n rhydd o draffig, ynghyd â gwneud teithio'n haws i'r rhai sy'n dibynnu ar gerbydau preifat am resymau iechyd a symudedd. Ynghyd â rhoi cyfle i ail-ddychmygu ein ffyrdd a'n strydoedd o amgylch pobl, byddwn yn grymuso pobl i wneud dewisiadau teithio mwy cynaliadwy drwy well mynediad at wybodaeth. Mae hyn yn cysylltu'n dda i'n polisïau a'n ymyraethau ar gyfer mynediad at addysg, a chysylltedd digidol, fel rhan o'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Helpu pobl i fwynhau ein hatyniadau i ymwelwyr a chefnogi'r diwydiant twristiaeth

Polisi CB15

Gweithio gyda phartneriaid a rhan-ddeiliaid yn y sector twristiaeth i archwilio dulliau i annog ymwelwyr i ogledd Cymru i deithio'n gynaliadwy tra'n gwella'r profiad i ymwelwyr a hybu'r economi ymwelwyr.

Mae'r economi ymwelwyr yn hynod bwysig i ogledd Cymru. Mae ein rhanbarth yn elwa o amgylchedd o ansawdd uchel ac mae'n gartref i rai o atyniadau gorau'r DU i ymwelwyr sy'n apelio at y rhai sy'n ymgymryd ag arosiadau byrrach neu hwy. Mae'r cynnig i ymwelwyr yn cynnwys heicio a mwynhau gwifren wib gyflymaf y byd ym Mharc Cenedlaethol Eryri, gweld Traphont Pontcysyllte, ymweld â'n Hamgueddfa Lechi Genedlaethol, gan grwydro yng nghestyll Biwmares, Conwy, Caernarfon a Harlech, antur Eidalaidd ym Mhortmeirion, taith ar Reilffordd Treftadaeth Porthmadog, a dringo Pen y Gogarth, i enwi ond rhai. Er ein bod angen amddiffyn a gwella mannau prydferth naturiol megis Penrhyn Llŷn, Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (sy'n cael ei ystyried fel Parc Cenedlaethol newydd), mae'n hanfodol bod ein rhwydwaith trafnidiaeth yn cefnogi llwyddiant parhaus a thwf ein diwydiant twristiaeth. Tra'n sicrhau bod ein gwasanaethau trafnidiaeth a'n seilwaith yn helpu pobl i gyrraedd y mannau y maent am fynd iddynt, mae cyfle i wneud y mwyaf o'r defnydd o ddulliau cynaliadwy i gael mynediad at atyniadau a gwneud ein cyrchfannau i ymwelwyr yn hygyrch i bob grŵp o bobl.

Un ffordd o'r fath a argymhellwyd gan Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru yw cerdyn gwesteion neu system gwobr sy'n cynnig pecyn o gynigion arbennig i ymwelwyr a phobl leol sy'n teithio'n gynaliadwy i atyniadau, yn cynnwys lleihau costau mynediad i atyniadau a llai o gostau teithio.

Polisi CB16

Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gefnogi'r economi ymweld drwy reoli parcio i fysiau a chartrefi modur yn agos at atyniadau yng ngogledd Cymru. Dylai hyn ystyried cyfleoedd gwefru ar gyfer cerbydau di-allyriadau.

Mae'r isadeiledd priffyrdd a ddefnyddir gan gerbydau sy'n cael mynediad i ac yn gadael y porthladd wedi'i gyfyngu, yn enwedig cysylltiad Ffordd Llundain/Black Bridge o'r A55. Gan fod hyn yn effeithio'n benodol ar HGVs sy'n defnyddio'r porthladd, mae yna effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd lleol, ac effeithir ar amser teithio a dibynadwyedd symud llwythi. Drwy wella mynediad i'r porthladd, bydd mwy o gyfleoedd i weithwyr ac ymwelwyr fynd o gwmpas yn fwy cynaliadwy, gan roi mwy o sicrwydd i fusnesau am eu gweithrediadau a'u danfoniadau. Mae Black Bridge hefyd yn gyfle i ddatrys y rhwystr presennol i isadeiledd teithio llesol rhwng ardal Morawelon, y porthladd a chanol y dref.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi tasglu newydd i gynnal sefydlogrwydd hirdymor ar gyfer Porthladd Caergybi. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cydweithio â'r tasglu i uchafu cyfleoedd ar gyfer symudiadau porthladd a nwyddau cynaliadwy ynghyd â chefnogi cynlluniau ar gyfer datgarboneiddio.

Cludo llwythi ar y ffyrdd

Polisi PF3

Gweithio gyda phartneriaid i wella cyfleusterau ar gyfer gyrwyr HGV, yn enwedig wrth gyrraedd porthladd Caergybi.

Mae teithiau cludo llwythi ar y ffyrdd yng ngogledd Cymru yn canolbwyntio'n bennaf ar hyd yr arfordir. Mae'r porthladdoedd ym Mostyn ac, yn enwedig Caergybi, yn atyniad naturiol i HGVs ac mae lefelau uwch o draffig yng Nglannau Dyfrdwy a Wrecsam sy'n gysylltiedig â phrif safleoedd gweithgynhyrchu a dosbarthu gyda chyflogwyr mawr gan gynnwys Airbus, JCB ac Iceland. Er gwaethaf pwysigrwydd cludo llwythi yng ngogledd Cymru, cyfleusterau cyfyngedig sydd ar gyfer parcio a gorffwys i yrwyr HGV. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn agos i Gaergybi, lle gall digwyddiadau gyda llongau fferi neu'r pontydd dros y Fenai arwain at amseroedd aros estynedig i nifer fawr o HGVs.

Er bod yr A55 yn gefnffordd a reolir gan Lywodraeth Cymru ac Asiant Cefnffyrdd, bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gefnogi'r gwaith o adnabod safleoedd a seilwaith yn rhagweithiol ar gyfer gwefru cerbydau nwyddau, yn arbennig ar hyd coridor yr A55 lle mae cyfle gwych i helpu i ddatgarboneiddio HGVs.



HGVs allyriadau isel

Polisi PF4

Gweithio gyda phartneriaid i chwilio am gyfleoedd i ategu datblygiad canolfannau hydrogen yng ngogledd Cymru trwy gefnogi newid i danwydd hydrogen ar gyfer gweithredwyr cludo llwythi yn y rhanbarth.

Ar hyn o bryd nid oes cyfleusterau yng ngogledd Cymru a fyddai'n cefnogi cludwyr yn y rhanbarth sy'n ceisio newid i gerbydau allyriadau isel. Byddai cefnogi cludwyr i wneud y newid hwn yn lleihau effaith leol HGVs yng ngogledd Cymru. Mae Menter Môn yn bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu Hwb Hydrogen yng Nghaergybi. Cynigir hyn fel cyfleuster i gyflenwi hydrogen ar gyfer trafnidiaeth. Mae Caergybi yn safle ardderchog ar gyfer cyfleuster cynhyrchu gan ei bod yn ganolfan drafnidiaeth brysur sy'n agos at ffynonellau ynni adnewyddadwy. Mae cynigion hefyd ar gyfer cynhyrchu hydrogen yng Nglannau Dyfrdwy.

Bydd cyflawni'r polisi hwn yn gweithio law yn llaw â strategaeth Ynni Rhanbarthol Uchelgais Gogledd Cymru sydd â'r nod o annog cynhyrchu ynnig glân a lleihau defnydd ynni ledled y Gogledd.

Danfoniadau lleol

Polisi PF5

Gweithio gyda phartneriaid i nodi cyfleoedd i drydaneiddio cerbydau ar gyfer danfoniadau lleol.

Rydym i gyd yn dibynnu ar ddanfoniadau o ddydd i ddydd i ardaloedd lleol, gan gynnwys y rhai i'n cartrefi, gweithleoedd a busnesau canol trefi. Mae'r danfoniadau hynny wedi deillio o gynnydd mewn siopa ar-lein. Mae effaith amgylcheddol leol a achosir gan allyriadau o gerbydau danfon, a'u maint. Bydd helpu i newid i gerbydau allyriadau isel iawn neu ddi-allyriadau yn lleihau effeithiau danfoniadau lleol ar ein hinsawdd, o fudd i ansawdd yr aer ac yn lleihau llygredd sŵn.

Polisi PF6

Gweithio gyda phartneriaid i adnabod datrysiadau i effeithiau lleol symudiadau HGV. Mae hyn yn cynnwys datblygu rhwydwaith o ganolfannau cyfuno cludo llwythi pe dangosid y byddai un i wasanaethu'r gogledd yn hyfyw yn economaidd.



Polisi PF7

Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol ystyried gofynion tir ar gyfer rhwydwaith o ganolfannau cyfuno cludo llwythi.

Mae Canolfannau Cyfuno Cludo Llwythi yn ganolfannau dosbarthu sydd wedi'u lleoli'n agos at ganol tref, canolfan siopa neu safleoedd adeiladu. Mae nifer o lwythi yn cael eu gollwng yn y ganolfan i gael eu cyfuno i un lori i'w trosglwyddo i'w cyrchfan derfynol. Gallai hyn leihau tagfeydd a lefelau traffig HGV yng nghanol tref. Dylai unrhyw safleoedd a allai ddod ymlaen osgoi effeithiau negyddol i integredd ardaloedd sy'n amgylcheddol sensitif.

Polisi PF8

Gweithio gyda phartneriaid a'r sector dosbarthu i ganfod atebion arloesol i leihau effaith amgylcheddol danfoniadau lleol.

Mae mesurau eraill a all helpu i leihau effaith danfoniadau lleol ar gymunedau, yn cynnwys beiciau e-gargo, cynlluniau danfon a gwasanaethu ardaloedd, canolfannau micro-gyfuno, a loceri danfon mewn lleoliadau allweddol fel canolfannau trafnidiaeth a/neu symudedd.

Cludo llwythi ar y rheilffordd

Polisi PF9

Gweithio gyda phartneriaid yn y diwydiant rheilffyrdd i gefnogi newid i'r rheilffyrdd ar gyfer cludo llwythi, gan gynnwys logisteg ysgafn sy'n seiliedig ar y rheilffyrdd.

Mae llif pennaf cludo llwythi ar y rheilffyrdd yng ngogledd Cymru yn cynnwys sment o waith sment Padeswood, pren i ffatri fordiau Kronospan yn y Waun a charreg o Gyffordd Llandudno.

Mae cryn botensial i leihau effaith cludo llwythi ar ein ffyrdd, ardaloedd trefol a'r amgylchedd naturiol trwy logisteg a rhwydweithiau cludo llwythi ar y rheilffyrdd yng ngogledd Cymru, gyda'r gallu i gynyddu faint o lwythi a gludir ar Brif Reilffordd Gogledd Cymru yn sylweddol. Mae'r lefelau gwasanaeth a ddymunir sydd wedi eu nodi yn ein huchelgeisiau rheilffyrdd yn cynnwys llwybr cludo llwythi bob awr. Ar Lein Wrecsam i Lerpwl, mae Padeswood Sidings yn creu rhwystr sylweddol i fwy o symudiadau cludo llwythi, yn ogystal â gwell gwasanaethau i deithwyr. Bydd ein huchelgeisiau rheilffyrdd yn hwyluso cynnydd mewn symud llwythi.



Ffyrdd, strydoedd a pharcio

Er ein bod am i drigolion gogledd Cymru a'r bobl sy'n ymweld â'n rhanbarth gael eu hannog i deithio mewn ffyrdd cynaliadwy, rydym yn cydnabod y bydd llawer o deithiau yn parhau i gael eu gwneud gan geir preifat, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig lle mae pobl yn dibynnu mwy ar eu ceir. Ar ben hynny, rydym yn cydnabod pwysigrwydd ein ffyrdd a'n strydoedd i gerdded, olwyno, beicio a theithio ar fysiau. Mae hyn yn golygu ei bod yn hanfodol bod gennym rwydwaith priffyrdd sy'n wydn, yn cael ei gynnal i safon briodol, ac sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Gwneir y defnydd gorau o asedau presennol trwy sicrhau bod priffyrdd yn cael eu cynnal a'u cadw'n ddigonol o fewn cyfyngiadau cyllidebol awdurdodau lleol, a bydd newid i ddulliau allyriadau is ar gyfer teithio yn cael ei hwyluso a'i annog i leihau effeithiau amgylcheddol ein ceir. Mae ein polisïau a'n hymyriadau yn cynnwys:

Cynnal a chadw

Polisi RS1

Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau cyllid digonol ar gyfer cynnal a chadw arwynebau a strwythurau sy'n sicrhau gweithrediad parhaus a gwytnwch asedau priffyrdd presennol.

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynnal ffyrdd lleol, tra bod Llywodraeth Cymru yn goruchwylio traffyrdd a chefnffyrdd. Y peth pwysicaf y gellir ei wneud i gefnogi gwytnwch y rhwydwaith priffyrdd lleol yng ngogledd Cymru yw cynnal a chadw ein ffyrdd a'n strydoedd i safon dda, gan gydnabod cyfyngiadau cyllideb awdurdodau lleol.

Polisi RS2

Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau cyllid i addasu'r isadeiledd ffyrdd presennol i ymdopi'n well â newid yn yr hinsawdd a gwella bioamrywiaeth.

Os yw'r rhwydwaith priffyrdd am barhau i fod yn weithredol yn y dyfodol, mae angen i awdurdodau priffyrdd lleol fod â digon o adnoddau i ymateb i heriau newid hinsawdd a pherygl llifogydd o ddigwyddiadau tywydd eithafol, sy'n gofyn am gynnal a chadw a gwelliannau draenio parhaus.



Diogelwch ffyrdd

Polisi RS3

Cefnogi dull Gweledigaeth Sero Llywodraeth Cymru tuag at ddiogelwch ar y ffyrdd a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau cyllid digonol ar gyfer mesurau diogelwch ar y ffyrdd ar draws gogledd Cymru.

Polisi RS4

Bydd y dull o ymdrin â diogelwch ffyrdd yn cynnwys cyflwyno cynlluniau gwella priffyrdd sy'n cynyddu diogelwch neu ganfyddiadau o ddiogelwch i bob defnyddiwr ffyrdd, a rhaglenni addysg parhaus gyda'r nod o annog defnydd mwy diogel o'r rhwydweithiau priffyrdd a thrafnidiaeth.

Mae diogelwch ar y ffyrdd yn ystyriaeth hanfodol ar gyfer rheoli'r rhwydwaith priffyrdd. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ddull Gweledigaeth Sero tuag at ddiogelwch ar y ffyrdd. Mae gan hyn nod hirdymor ar gyfer system traffig ffyrdd sydd yn y pen draw yn rhydd o farwolaeth ac anafiadau difrifol, yn seiliedig ar egwyddor 'foesol' arweiniol i drin marwolaethau ffyrdd fel rhai annerbyniol ac y gellir eu hosgoi, yn hytrach na damweiniau y dylem eu goddef. Mae'n golygu newid pwysig o geisio atal pob gwrthdrawiad i atal marwolaeth a lliniaru anafiadau difrifol mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd.

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol yn adnabod, datblygu a chyflawni ymyriadau diogelwch ar y ffyrdd sy'n cymhwyso'r dull 'system ddiogel' i anelu at ddim marwolaethau ar y rhwydwaith ffyrdd. Bydd ymyriadau yn cyd-fynd â phum piler yr amgylchedd ffyrdd sy'n lleihau'r risg: Defnyddwyr / Ymddygiadau Ffyrdd Diogel; Cyflymderau Diogel; Ffyrdd Diogel; Cerbydau Diogel; a'r Ymateb Ôl-wrthdrawiad. Bydd cynlluniau hyfforddi ac addysgu Diogelwch ar y Ffyrdd yn cael eu blaenoriaethu i gefnogi'r dull hwn.

Bydd mentrau a chynlluniau addysgol yn ystyried y defnyddwyr ffyrdd sydd mewn mwyaf o berygl o niwed yn ofalus, a all gynnwys pobl ifanc, yr henoed a beicwyr modur. Bydd hyn yn helpu i wneud ein ffyrdd yn fwy diogel i bawb.

Parcio cyhoeddus mewn trefi a dinasoedd

Polisi RS5

Ystyrir codi tâl am barcio a rheolaeth parcio wrth geisio rheoli'r galw am leoedd parcio ac annog pobl i beidio â defnyddio car yn ddiangen gyda dim ond un unigolyn ynddo.

Mae'r awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru yn rheoli ac yn gweithredu ystod o feysydd parcio cyhoeddus sy'n gwasanaethu canol trefi a dinasoedd yn ein rhanbarth. Yr awdurdodau lleol sy'n penderfynu faint o barcio sydd ar gael a'r tâl am barcio a rhaid iddynt ystyried y cydbwysedd rhwng faint o barcio sydd ei angen i gefnogi busnesau lleol, gan annog newid i deithio mwy cynaliadwy, a chost weithredol y gwasanaeth parcio.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddatblygu strategaeth integredig ar barcio i gefnogi polisïau trafnidiaeth a lleoliadol cyffredinol eu cynlluniau datblygu lleol. Dylai awdurdodau lleol ystyried materion parcio ar y cyd ag awdurdodau cyfagos. Dylid defnyddio safonau parcio gyda hyblygrwydd, gan geisio lefelau is o barcio i gefnogi datblygiad lleoedd o ansawdd uchel. Dylai awdurdodau lleol weithredu polisïau codi tâl ar gyfer parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd, lle mae ganddynt reolaeth dros hynny, i gyd-fynd â'u polisïau cynllunio lleol a hyrwyddo defnyddio cerbydau trydan.

Rhoddir ystyriaeth ychwanegol i fannau parcio Bathodyn Glas i ddarparu ar gyfer y darpariad gostyngol ar gyfer mannau hygyrch er gwaethaf y cynnydd yn y galw.



© Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru



Polisi RS6

Gweithio gyda phartneriaid i chwilio am opsiynau ar gyfer ailddyrannu gofod parcio ceir ac ar ffyrdd presennol yn ein trefi allweddol i wella'r amgylchedd lleol, creu mannau mwy deniadol i bobl fyw, a'i gwneud yn haws i bobl gerdded a beicio.

Weithiau gall darparu meysydd parcio dra-arglwyddiaethu ar ein trefi a'n dinasoedd, gyda meysydd parcio a pharcio ar y stryd yn meddiannu llawer iawn o le. Weithiau gellid defnyddio'r gofod hwn yn well i gyfoethogi creu lleoedd a gwella'r amgylchedd lleol. Mae Siarter Creu Lleoedd Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd creu lleoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda, yn gynaliadwy ac yn gynhwysol. Mae'n annog awdurdodau lleol a datblygwyr i ystyried effeithiau ehangach parcio ceir ac i flaenoriaethu egwyddorion creu lleoedd wrth gynllunio trefi.

Ochr yn ochr â hyn, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth' i'r graddau y mae'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny yn briodol. Wrth wneud hynny, rhaid i awdurdodau cyhoeddus hefyd geisio 'hyrwyddo gwytnwch ecosystemau'.

Gallai trawsnewid ardaloedd parcio sy'n cael eu tanddefnyddio neu newid y ffordd y mae pobl yn cyrchu ein lleoedd mewn car arwain at fwy o leoedd yn dod i ddefnydd cymunedol gwell fel parciau neu erddi, a all wella bioamrywiaeth drefol, darparu mannau hamdden a gwella ansawdd aer.

Gall lleihau parcio ar y stryd greu mwy o fannau sy'n addas i gerddwyr, gan annog cerdded a beicio, a all roi hwb i fusnesau lleol a chreu cymuned fwy bywiog. Trwy ailfeddwl sut mae parcio ceir wedi'i integreiddio yn ein trefi a'n dinasoedd yng ngogledd Cymru, gallwn greu cyfleoedd i fod o fudd i'n hamgylcheddau lleol, hyrwyddo teithio cynaliadwy, a chreu mannau cyhoeddus mwy deniadol ac Ymarferol. Gellid ystyriaeth y dull hwn ar gyfer gosafoedd a depos bysiau, gan gydfynd â Strategaeth Ynni Gogledd Cymru.

Cerbydau allyriadau isel

Polisi RS7

Cefnogi'r trosglwyddo at gerbydau trydan yng ngogledd Cymru, trwy sicrhau bod isadeiledd gwefru teg ar gael mewn ardaloedd trefol a helpu i hwyluso gosod preifat neu osodiadau wedi'u harwain gan y gymuned mewn ardaloedd gwledig.

Polisi RS8

Pan fo'n bosib, byddwn yn chwilio am gyfleoedd i uno darparwyr gwefru cerbydau trydan - neu'r apiau ac aelodaeth angenrheidiol - ar draws gogledd Cymru er mwyn gwneud gwefru cerbydau trydan yn fwy cyfleus.

Ar draws gogledd Cymru mae darpariaeth gynyddol o'r isadeiledd a'r gefnogaeth i'r gyrwyr hynny sy'n ceisio newid i gerbydau trydan. Mae hyn yn gynyddol bwysig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell lle mae gan breswylwyr lai o ddewis yn aml ynghylch sut maen nhw'n teithio, gan wneud defnyddio cerbydau preifat yn angenrheidiol ar gyfer llawer o deithiau.

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu fframwaith caffael cenedlaethol ar gyfer seilwaith gwefru cerbydau trydan i safoni a gwella safonau'r diwydiant, gan sicrhau seilwaith gwefru cyson ac integredig ledled Cymru.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cefnogi Fframwaith Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan Transport for the North a'i adroddiad State of Play, gan gydnabod sut y gall partneriaid gynyddu defnydd mewn dull trawsffiniol, tra'n helpu i rannu arfer gorau. Byddwn yn cefnogi rhanddeiliaid gyda'u hymrwymiad i gerbydau allyriadau isel, gan gynnig cefnogaeth ar gyfer ail-bwrpasu seilwaith gosafoedd Gwasanaeth a thanwydd, perchnogaeth gymunedol o wefru cerbydau trydan, a'r angen am wybodaeth fwy gwrthrychol am gerbydau allyriadau isel i breswylwyr. Caiff hyn ei adlewyrchu yn Strategaeth Ynni Gogledd Cymru, sy'n galw am fwy o ynni adnewyddadwy i ateb y galw yn y dyfodol i gyrraedd sero net erbyn 2025.



Polisi RS9

Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ymgyrch gyfathrebu gynhwysfawr i annog pobl i ddefnyddio cerbydau trydan, gan ddysgu o'r arfer orau.

Rhan bwysig arall o hwyluso'r newid i gerbydau di-allyriadau yw newid meddylfryd preswylwyr, a mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau neu'r rhwystrau canfyddedig i newid cerbydau, megis cost prynu, pryder pellter, diffyg isadeiledd gwefru, amser gwefru, ac ansicrwydd cyffredinol.

Polisi RS10

Gweithio gyda phartneriaid a'r Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu i chwilio am gyfleoedd i wella capasiti'r grid mewn lleoliadau lle mae rhwystr i gyflwyno gwefrydd cerbydau trydan. Dylai hyn hefyd fod yn ystyriaeth allweddol i'r Cynllun Datblygu Strategol wrth gydnabod datblygiadau newydd.

Mae mynd i'r afael â chapasiti presennol y grid trydan mewn rhai lleoliadau ar draws gogledd Cymru yn fater pwysig i hwyluso'r broses o gyflwyno gwefrwyr yn y dyfodol, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol gogledd Cymru yn cydweithio i gydlynu gwaith cynllunio trafnidiaeth a systemau ynni parhaus ar y lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae hyn yn cydnabod yr ymdrechion sydd eu hangen ar y system drafnidiaeth i symud i ffwrdd o danwydd ffosil hylifol i fod yn llawer mwy dibynnol ar y rhwydwaith trydanol.

Polisi RS11

Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol fynnu bod datblygiadau preswyl a di-breswyl newydd yn darparu digon o bwyntiau gwefru cerbydau trydan i gwrdd â'r galw yn y dyfodol ac ysgogi'r defnydd o gerbydau trydan.

I sicrhau bod defnydd cerbydau allyriadau isel yn gynyddol gyfleus yn y dyfodol, mae'n hanfodol bod cartrefi newydd yn cael eu hadeiladu gyda darpariaeth ddigonol i gefnogi preswylwyr sy'n dewis gyrru cerbyd trydan. Mae hyn yn rhywbeth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ystyried fel rhan o'i diweddariad ehangach arfaethedig i Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 18: Trafnidiaeth sy'n rhoi arweiniad ar ddylunio datblygiad ac integreiddio defnydd tir a chynllunio trafnidiaeth yng Nghymru. Dylid ystyried unrhyw ofynion neu ganllawiau yn ofalus a'u cynnwys yn y polisïau cynllunio lleol a rhanbarthol datblygol ac yn y nodyn cyngor cenedlaethol.

Clybiau ceir a rhannu ceir

Polisi RS12

Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gynyddu'r nifer o glybiau ceir yng ngogledd Cymru trwy weithio ar y cyd â darparwyr clybiau ceir, gan gynnwys darparwyr clybiau ceir cymunedol mewn ardaloedd gwledig a threfol; ac mewn gorsafoedd, mewn mannau gwaith a chanolfannau symudedd.

Ar gyfer gyrwyr nad ydynt yn berchen ar gar, gall clybiau ceir ddarparu mynediad i gar i wneud y teithiau hynny nad ydynt yn bosib ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae clybiau ceir yn cefnogi gostyngiad mewn lefelau perchenogaeth ceir, gan ddarparu opsiwn i bobl nad ydynt yn defnyddio eu car yn aml, neu efallai nad ydynt angen ail gar mwyach. Mae llai o berchnogaeth ceir yn lleihau nifer y teithiau mewn car ac yn cynyddu nifer y teithiau a wneir trwy ddulliau eraill. Mewn ardaloedd mwy trefol, mae cyfleoedd i glybiau ceir gael eu lleoli mewn gorsafoedd rheilffordd, gweithleoedd a chanolfannau symudedd, gan ganiatáu i bobl gael mynediad at gar ar gyfer taith neu ran bellach o daith nad yw'n bosib trwy ddulliau mwy cynaliadwy.

Mae nifer o glybiau ceir yng ngogledd Cymru megis yng Ngwynedd wledig (Arloesi Gwynedd Wledig, Car-n-arfon), ac yn ne Sir Ddinbych (sy'n cael ei redeg gan Bartneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych). Darperir Clwb Ceir Partneriaeth Ogwen (yn Nyffryn Ogwen) gan TrydaNi nawr, sy'n elwa o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru i edrych ar suti sefydlu ac ehangu clybiau ceir ledled Cymru. Mae'r enghreifftiau hyn o ardaloedd gwledig yn dangos y gall clybiau ceir fod yn effeithiol.

Polisi RS13

Dylid defnyddio'r broses cynllunio teithio i annog rhannu ceir ar gyfer cymudo.

Cyfle arwyddocaol arall i leihau nifer y milltiroedd sy'n cael eu gyrru gan geir preifat yw cynyddu rhannu ceir, a datblygu safleoedd parcio a rhannu. Trwy rannu teithiau ar gyfer eu taith gyfan neu ran o'u taith, gall teithwyr leihau cost teithio mewn ceir, lleihau milltiroedd cerbydau, a lleihau tagfeydd lleol. Gellir cefnogi lleihau nifer y bobl sy'n gyrru ar eu pen eu hunain i'r gwaith trwy nifer cynyddol o gynlluniau rhannu ceir. Mae gan gyflogwyr, trwy eu cynlluniau teithio, rôl i'w chwarae wrth hyrwyddo a hwyluso rhannu ceir. Dylid annog cyflogwyr i hyrwyddo a chydlynu'r cynlluniau hyn a chymell y rhai sy'n dewis teithio mewn cerbydau aml-deithiwr.



Mynediad ar y ddaear at awyrennau

Mae tri maes awyr rhyngwladol yn Lloegr sydd â chysylltiadau cryf â gogledd Cymru oherwydd eu hagosrwydd. Maes Awyr John Lennon Lerpwl, Maes Awyr Manceinion a Maes Awyr Birmingham yw'r rhain. Yng ngogledd Cymru mae gennym Faes Awyr Môn, a oedd yn arfer cynnal cysylltiad â Chaerdydd; a Maes Awyr Penarlâg, sy'n chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi gweithrediadau Airbus yn Sir y Fflint. Er nad oes hediadau masnachol yn gweithredu o Faes Awyr Môn ers 2025, mae'r maes awyr yn parhau'n bwysig yn strategol ar gyfer gweithrediadau milwrol, y gwasanaethau brys ac mae'n cynnig cyfleoedd cysylltedd rhanbarthol posib yn y dyfodol. Mae ein polisïau a'n hymyriadau yn cynnwys:

Polisi AV1

Cefnogi'r gwelliannau i fynediad ar y ddaear at feysydd awyr domestig a rhyngwladol, gan ganolbwyntio ar wella gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus.

Mae mynediad i feysydd awyr yn fater pwysig i bobl yng ngogledd Cymru am dri phrif reswm:

- Cysylltu busnesau â chleientiaid a marchnadoedd rhyngwladol
- Cysylltu ymwelwyr rhyngwladol ag atyniadau gogledd Cymru
- Mynediad i gyfleoedd hamdden rhyngwladol i breswylwyr

Rydym am weld cysylltiadau teithio cynaliadwy rhwng gogledd Cymru a meysydd awyr cyfagos sy'n ddeniadol i drigolion, busnesau ac ymwelwyr rhyngwladol â'n rhanbarth. Rydym yn cydnabod, os ydym am wneud y gorau o weithgarwch economaidd a photensial twristiaeth gogledd Cymru, ei bod yn bwysig bod gennym gysylltiadau cyfleus, deniadol a dibynadwy gyda meysydd awyr allweddol sy'n gwasanaethu ein rhanbarth. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer teithio ar fysiau, coetsys a threnau gyda gwasanaethau mwy hygyrch, dibynadwy a rheolaidd yn cysylltu ein cymunedau allweddol â meysydd awyr rhanbarthol.

Cysylltedd digidol

Mae Llywodraeth Cymru yn annog cynnydd mewn gweithio o bell ac mae wedi gosod uchelgais hirdymor i 30% o weithlu Cymru weithio i ffwrdd o swyddfa draddodiadol, i'w chyflawni trwy roi mwy o ddewisiadau a dewis i bobl o ran eu gweithle. Bwriad yr uchelgais hon yw helpu canol trefi, lleihau tagfeydd a lleihau allyriadau carbon. Mae datblygiadau mewn cysylltedd digidol a chyfleoedd i gael mynediad at wasanaethau a gweithio o bell yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi teithio cynaliadwy a lleihau'r angen i deithio. Mae ein polisïau a'n hymyriadau yn cynnwys:

Polisi DC1

Dylid chwilio am gyfleoedd i weithio gyda chymunedau a busnesau i hyrwyddo a hwyluso canolfannau gweithio o bell.

Mae pwysigrwydd cyfleoedd i weithio o bell wedi cynyddu'n sylweddol ers pandemig Covid, wedi lleihau nifer y bobl sy'n cymudo yn ystod yr amseroedd prysuraf, ac wedi lleihau'r nifer o weithiau y mae rhai pobl yn cymudo bob wythnos. Gellid cynyddu'r effaith gadarnhaol hon trwy i ganolfannau gweithio o bell fod ar gael mewn cymunedau. Mae'r canolfannau hyn yn darparu amgylchedd proffesiynol gydag amwynderau fel rhyngrwyd cyflym, ystafelloedd cyfarfod, a mannau cydweithredol. Mae dwy enghraifft yng ngogledd Cymru o wahanol raddfeydd y gallai pob awdurdod lleol a darparwr sector preifat eu hystyried yn cynnwys:

- M-SParc: Wedi'i leoli ym Mangor a Phwllheli, sy'n cynnig cyfleusterau modern fel rhan o Barc Gwyddoniaeth Menai.
- Costigan's: Wedi'i leoli yn y Rhyl, gan ddarparu gofod cydweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ddinbych.
- Partneriaeth Ogwen: Wedi'i lleoli yn Nyffryn Ogwen, yn darparu mannau cydweithio.



Polisi DC2

Dylai addysg a hyfforddiant llythrennedd ddigidol fod ar gael yn helaeth i helpu trigolion gogledd Cymru i fynd ar-lein a dod o hyd i'r wybodaeth y mae arnynt ei hangen i wneud dewisiadau teithio cynaliadwy.

Mae gan bob un ohonom ran bwysig i'w chwarae wrth hysbysu pobl am y dewisiadau sydd ar gael i deithio ar gyfer pob siwrne. Gall hynny gynnwys gwefannau gweithredwyr, Trafnidiaeth Cymru a Traveline Cymru ac apiau symudol ar gyfer cynllunio teithiau, yn ogystal â gwybodaeth gan awdurdodau lleol sydd ar gael ar-lein am drafnidiaeth gymunedol a gwasanaethau lleol eraill. Mae'n hanfodol bod trigolion yn cael y cyfle i wella eu llythrennedd digidol, fel eu bod yn gwybod ble i gael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i helpu i wneud dewisiadau teithio.

Mae llythrennedd digidol pobl yn ogystal â busnesau a darparwyr gwasanaethau hefyd yn bwysig i helpu i leihau'r angen i deithio. Er enghraifft, gall addysg, gofal iechyd a darparwyr gwasanaethau eraill weithio i hwyluso mynediad o bell i wybodaeth ac apwyntiadau i osgoi teithiau diangen.

Polisi DC3

Bydd dull partneriaeth yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf a digidol am wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, gan flaenoriaethu arddangosfeydd digidol mewn cyfnewidfeydd trafnidiaeth allweddol, a gweithio tuag at y wybodaeth ddiweddaraf mewn safleoedd bysiau ar draws gogledd Cymru.

Mae cysylltedd digidol hefyd yn allweddol i ddarparu gwybodaeth am deithiau i deithwyr trafnidiaeth gyhoeddus wrth iddynt deithio. Mae gwybodaeth amser go iawn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i deithwyr, gan roi mwy o hyder i bobl deithio ar fws neu reilffordd. Gan weithio gyda gweithredwyr gwasanaethau a gorsafoedd gan gynnwys Trafnidiaeth Cymru a Network Rail, rydym am weld gwell Wi-Fi i deithwyr ar wasanaethau bysiau a rheilffyrdd yn ogystal ag mewn cyfnewidfeydd trafnidiaeth, i'w gwneud hi'n haws ac yn fwy deniadol i bobl ganfod eu ffordd o gwmpas a gwella'r profiad teithio. Dylai'r wybodaeth sydd ar gael i bobl gael ei hintegreiddio hefyd, fel y gall y cyhoedd gael mynediad at yr holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth mewn un lle. Mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn annog Trafnidiaeth Cymru i helpu gydag o ar draws y rhanbarth a gweddill Cymru.



Cynllunio defnydd tir

Yn ogystal â'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn, mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gyfrifol am ddatblygu'r Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer gogledd Cymru. Bydd hynny'n gosod y cynigion ar gyfer cynllunio defnydd tir a fydd yn siapio lleoliadau ar gyfer tai a chyflogaeth ar draws gogledd Cymru yn y tymor canolig i'r tymor hir. Rhaid i bolisi cynllunio ystyried datblygiad canol trefi yn gyntaf yn hytrach nag adeiladu safleoedd newydd y tu allan i drefi. Mae alinio dulliau cynllunio datblygu economaidd rhanbarthol, trafnidiaeth a defnydd tir trwy'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn a'n Cynllun Datblygu Strategol datblygol yn gyfle i fanteisio ar y cyd-ddibyniaethau rhyngddynt, gan gynnwys ystyried sut y bydd canol ein trefi yn cyfrannu at yr agendâu pwysig hyn.

Mae trafnidiaeth yn chwarae rhan hanfodol yn hwyluso datblygiadau newydd, ac yn gwneud datblygiadau presennol yn fwy cynaliadwy. Adlewyrchir hyn yn rhannol yn y ffordd y mae rhai o'n polisïau ac ymyriadau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol mewn cysylltiad â themâu polisi eraill yn gysylltiedig ac mae ganddo oblygiadau ar gyfer cynllunio defnydd tir a chreu lleoedd, gan gynnwys cymorth i sicrhau canol trefi ffyniannus a llwyddiannus. Yn benodol, y rhain yw:

Polisi CB19

Bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn ystyried gofynion tir ar gyfer cyfleusterau cyfnewidfa mewn safleoedd porth i Barc Cenedlaethol Eryri.

Polisi RS10

Gweithio gyda'r Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu i chwilio am gyfleoedd i wella capasiti'r grid mewn lleoliadau lle mae rhwystr i gyflwyno gwefrydd cerbydau trydan. Dylai hyn hefyd fod yn ystyriaeth allweddol i'r Cynllun Datblygu Strategol wrth gydnabod datblygiadau newydd.

Polisi RS11

Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol fynnu bod datblygiadau preswyl a di-breswyl newydd yn darparu digon o bwyntiau gwefru cerbydau trydan i gwrdd â'r galw yn y dyfodol ac ysgogi'r defnydd o gerbydau trydan.

Polisi IN6

Dylid ystyried safleoedd parcio a rhannu strategol yn y Cynllun Datblygu Strategol.

Polisi RS6

Gweithio gyda phartneriaid i chwilio am opsiynau ar gyfer ailddyrannu gofod parcio ceir ac ar ffyrdd presennol yn ein trefi allweddol i wella'r amgylchedd lleol, creu mannau mwy deniadol i bobl fyw, a'i gwneud yn haws i bobl gerdded a beicio.



Mae ein polisïau ac ymyriadau cynllunio defnydd tir sy'n canolbwyntio ar drafnidiaeth yn cynnwys:

Datblygu sy'n seiliedig ar dramwy

Polisi LU1

Cefnogi egwyddor Datblygu sy'n Seiliedig ar Dramwy ar gyfer datblygiadau newydd yng ngogledd Cymru.

Os ydym am annog pobl sy'n byw neu'n gweithio mewn datblygiadau newydd i deithio'n gynaliadwy, mae'n hanfodol bod trafnidiaeth gynaliadwy yn ystyriaeth allweddol wrth gynllunio datblygu. Dylai datblygiadau defnydd cymysg gyfuno mannau preswyl, masnachol a hamdden o fewn pellter cerdded hawdd i orsafoedd bysiau a rheilffyrdd. Bydd adeiladu mwy o gartrefi yn agosach at orsafoedd yn cynyddu hygyrchedd ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar geir preifat. Rhaid i hyn gael ei gefnogi gan bolisïau ac ymyriadau ehangach sy'n ymwneud â gwella amlder, dibynadwyedd ac argaeledd gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i'w gwneud yn ddewis amgen ymarferol yn lle teithio mewn ceir, a gwneud i'n ffyrdd, strydoedd a mannau cyhoeddus deimlo'n ddiogel ac yn gyfleus ar gyfer cerdded, olwyno a beicio. Bydd y dull hwn hefyd yn cryfhau gweithrediad y polisi Canol Trefi yn Gyntaf ar draws gogledd Cymru.

Mae Datblygu sy'n Seiliedig ar Dramwy yn strategaeth gynllunio drefol sy'n canolbwyntio ar greu datblygiad dwysedd uchel, defnydd cymysg, o amgylch canolfannau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae hyn yn helpu i greu mwy o alw am wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus lleol a lleihau'r ddibyniaeth ar geir preifat trwy integreiddio lleoedd y mae pobl yn byw ac yn gweithio ynddynt gyda chanolfannau trafnidiaeth gyhoeddus.



Polisi LU2

Bydd yr Hierarchaeth Drafnidiaeth Gynaliadwy yn cael ei defnyddio i helpu sicrhau bod datblygiadau yn cefnogi cerdded a beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau gydag allyriadau isel iawn dros gerbydau modur preifat eraill.

Polisi LU3

Bydd cysylltiadau trafnidiaeth cynaliadwy yn cael eu cyflwyno i ardaloedd allweddol ar gyfer twf a gweithgarwch economaidd yn y dyfodol.

Mae'n bwysig bod y polisïau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn yn cael eu hystyried ac yn gyson â'r cynllunio gofodol datblygol ar lefel ranbarthol a lleol yng ngogledd Cymru i helpu i gydlynu trafnidiaeth, cynllunio defnydd tir a datblygu economaidd. Gan adeiladu ar Gymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol, bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn nodi cynigion ar gyfer datblygu safleoedd ardaloedd rhanbarthol strategol ar gyfer twf yng ngogledd Cymru, gan gynnwys safleoedd cyflogaeth allweddol ym Mhorthladd Rhydd Ynys Môn, Wylfa, a Pharth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam.

Yn ogystal â chanolfannau economaidd ar gyfer twf, dylai ein Cynlluniau Datblygu Lleol datblygol a'r Cynllun Datblygu Strategol hefyd ystyried unrhyw anghenion mynediad cynaliadwy pellach i Fryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy pe bai'n dod yn Barc Cenedlaethol newydd yn y dyfodol, gan gydnabod bod angen i'n rhwydwaith trafnidiaeth gefnogi llwyddiant a thwf parhaus ein diwydiant twristiaeth.

Gan adeiladu hefyd ar bolisi Canol Trefi yn Gyntaf, mae Cynlluniau Creu Lleoedd yng Nghymru yn ffordd o greu gweledigaeth ar gyfer dyfodol ardal, ac adnabod camau gweithredu a all ei gwella. Anogir cynlluniau creu lleoedd ym mhob tref a chanolfannau mwy trefol eraill yng ngogledd Cymru i ddarparu dull trosfwaol o ymdrin â sut y dylai lle edrych, teimlo a gweithredu nawr ac yn y dyfodol, a dylent ymgorffori ystyriaethau ynghylch darparu trafnidiaeth, yn enwedig cyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol.



Dileu'r ddibyniaeth ar geir preifat trwy ddatblygu cynaliadwy

Polisi LU4

Dim ond pan maent yn hyrwyddo cysylltedd teithio llesol trwy ddiogelu, gwella ac ehangu ar y Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol y dylai datblygiadau gael eu cefnogi.

I sicrhau bod yr isadeiledd cywir wedi'i gynnwys mewn cynigion ar gyfer datblygiadau newydd, mae'n hanfodol bod llwybrau cerdded a beicio o ansawdd da, sy'n ddeniadol, cyfleus a diogel yn cael eu hystyried fel rhan o unrhyw gynigion. Bydd hynny'n helpu i leihau'r ddibyniaeth ar geir preifat ar gyfer teithiau byr, a gwneud teithio llesol y dewis a ffefrir i gael mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau lleol.

Polisi LU5

Dylid annog datblygiadau sy'n agos at gyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus, a dylai datblygiadau gael eu dylunio i helpu hwyluso a gwella cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd trefol a gwledig.

Gan adeiladu ar egwyddorion datblygu sy'n seiliedig ar dramwy, mae hefyd yn hanfodol bod datblygiadau newydd yn cael eu gwasanaethu gan wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus cyfleus a deniadol. Mae hyn ar ei fwyaf effeithiol pan fydd datblygiad wedi'i leoli'n agos at orsaf reilffordd neu pan all gwasanaeth bws presennol ei wasanaethu.

Byddwn yn cefnogi awdurdodau cynllunio lleol i annog y defnydd o gyllid Adran 106 neu Ardoll Seilwaith Cymunedol ar ddatblygiadau tai a chyflogaeth newydd i helpu i ariannu gwelliannau ymlaen llaw mewn opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod datblygwyr yn cyfrannu at wella seilwaith trafnidiaeth a mentrau teithio.

Polisi LU6

Cefnogi lleihau'r safonau parcio ar gyfer datblygiadau newydd (fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru), yn enwedig mewn ardaloedd trefol lle byddwn yn mynd ati i wella dewisiadau amgen trafnidiaeth gynaliadwy.

Mae'n hanfodol nad yw datblygiadau newydd yn annog defnydd diangen o geir. Dylai datblygiadau gael eu gwasanaethu gan lefel briodol o ddarpariaeth parcio a cheisio lleihau dibyniaeth ar geir preifat, ar y cyd â darparu dewisiadau amgen teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.



© © Tîm Twristiaeth Sir Ddinbych

Ein cynlluniau ar gyfer cyflawni, monitro a gwerthuso

Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn yn nodi'r polisïau a'r ymyriadau sy'n amlinellu sut y byddwn yn gweithio tuag at gyflawni ein gweledigaeth a'n hamcanion. Yn cyd-fynd â hyn bydd ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol, sy'n nodi rhestr flaenoriaethau o'r cynlluniau y bydd Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru yn eu datblygu dros y pum mlynedd nesaf, gyda chefnogaeth Uchelgais Gogledd Cymru, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â phartneriaid eraill fel y bo'n addas.

Gan weithio gyda'n hawdurdodau lleol a Thrafnidiaeth Cymru, rydym wedi ystyried rhestr hir o gynlluniau a'u cyfraniad i'n hamcanion, effeithiau tebygol ar lesiant, statws a chyflawniad. Mae hyn er enghraifft wedi ein helpu i feddwl sut y gallai cynllun helpu i gyfrannu at newid dulliau teithio, datgarboneiddio, a beth allai ei gostau a'i fuddion fod. Drwy weithredu'r dull hwn, rydym wedi nodi ein blaenoriaethau buddsoddi dros y blynyddoedd nesaf, yn y tymor byr, canolig a thymor hwy.

Er y byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu'r polisïau ar y cyd, gan gynnwys rhaglenni a phrosiectau, yn cynnwys ein dyheadau ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd a rheilffyrdd a nodir yn y Cynllun hwn, bydd cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu a chyflawni cynlluniau trafnidiaeth gan ein hawdurdodau lleol yn cael ei ddyrannu yn seiliedig ar y cynlluniau sydd wedi eu cynnwys yn ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Mae Cymru'n wynebu heriau ariannol sylweddol dros y blynyddoedd nesaf, gyda bylchau cyllid llywodraeth leol a phwysau ar wasanaethau cyhoeddus, tra bod angen buddsoddiad sylweddol mewn isadeiledd, gan gynnwys trafnidiaeth, i gefnogi twf economaidd a chynaliadwyedd. Bydd sicrhau cyllid ar gyfer ein prosiectau yn parhau i fod yn her dros gyfnod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn. Mae'r heriau hyn yn amlygu'r angen am gynllunio strategol a blaenoriaethu ar draws ein rhanbarth i helpu i sicrhau ein bod yn buddsoddi yn y lleoedd iawn ar yr adeg iawn.

Yn bwysig, mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'i chynlluniau ar gyfer proses foderneiddio grantiau, sy'n ceisio dod â nifer o grantiau trafnidiaeth lleol ynghyd, gan alinio'r ffrydiau ariannu hyn gyda'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a'u Cynlluniau Cyflenwi Trafnidiaeth Rhanbarthol. Ar hyn o bryd mae llawer o ffynonellau cyllid gwahanol, megis y Gronfa Teithio Llesol, y Gronfa Drafnidiaeth Leol, y Gronfa Ffyrdd Cydnerth, a'r Gronfa trawsnewid cerbydau allyriadau isel iawn yng Nghymru. Mae yna hefyd ffynonellau cyllid Llywodraeth y DU. At ei gilydd, bydd y broses foderneiddio grantiau yn rhoi mwy o allu i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig rhanbarthol (gan gynnwys gogledd Cymru) wneud penderfyniadau o ran sut y caiff cyllid grant trafnidiaeth leol ei wario.

Drwy ddyrannu cyllid i drafnidiaeth ranbarthol, bydd hyn hefyd yn helpu i leihau'r baich gweinyddol ar ein hawdurdodau lleol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i adnabod ffynonellau cyllid ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol a'r DU i ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer rhwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy o ansawdd uchel ledled gogledd Cymru.

Monitro a gwerthuso

Cefnogir y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn gan ein Cynllun Monitro a Gwerthuso, a fydd yn helpu i ddangos ein cynnydd rhanbarthol o ran cyflawni'r blaenoriaethau a'r uchelgeisiau cenedlaethol a nodir yn Strategaeth Trafnidiaeth Cymru. Mae'n nodi sut y bydd llwyddiant y Cynllun hwn yn cael ei fonitro, ei fesur a'i werthuso, gan ystyried yr amcanion yr ydym wedi eu gosod ar gyfer trafnidiaeth a chanlyniadau llesiant cysylltiedig. Er enghraifft, bydd hyn yn ein helpu i ddangos cyfraniad ein rhanbarth at ddatgarboneiddio cenedlaethol a thargedau newid dulliau teithio.

Mae'r Cynllun Monitro a Gwerthuso yn cynnwys set o fesurau gyda gwybodaeth waelodlin ar gyfer pob un, a lle bo'n briodol mae'n gosod targedau ar gyfer gwelliannau i'w gwneud dros gyfnod y Cynllun hyd at 2030, gan adlewyrchu ein hamcanion SMART i raddau helaeth. Er enghraifft, ceisio galluogi 30% neu fwy o bobl yng ngogledd Cymru i weithio o bell erbyn 2030, gan gefnogi'r targed rhannu dull cenedlaethol o 45% o deithiau i'w gwneud trwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus erbyn 2040, er mwyn galluogi o leiaf 50% o gerbydau modur a phob bws cyhoeddus sy'n gweithredu yng ngogledd Cymru i fod yn ddi-allyriadau erbyn 2035, a gweld o leiaf 50% o aelwydydd yng ngogledd Cymru gydag ystod gynyddol o deithio o fewn awr ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gefnogi mynediad i safleoedd cyflogaeth allweddol a chanolfannau rhanbarthol.

Mae ein mesurau monitro a gwerthuso hefyd yn ymateb i'n hamcanion ar gyfer llesiant fel a nodir yn ein Harfarniad Llesiant Integredig, ac rydym yn defnyddio Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru gyda data gwaelodlin cyhoeddedig Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru lle bo hynny'n briodol.

Bydd cyfarfodydd chwarterol pwyllgorau gogledd Cymru yn cael eu cynnal lle bydd diweddariadau cynnydd yn cael eu darparu gan swyddogion trafnidiaeth awdurdodau lleol ar gynnydd gweithredu'r polisïau yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r cynlluniau a nodir yn ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Bydd hyn hefyd yn helpu i ystyried unrhyw sbardun cyfnewidiol ar gyfer newid a blaenoriaethau, megis datblygiadau strategol newydd neu gyfleoedd ariannu a allai fod heb eu rhagweld ar adeg paratoi'r Cynllun.

Byddwn yn cyflwyno adroddiadau perfformiad blynyddol ar ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn. Mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol, byddwn yn monitor gwariant grant a chynnydd cynlluniau yn ystod y flwyddyn, a fydd yn cyfateb i'r monitor grantiau chwarterol a gynhelir gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd. Mae gofynion a strwythur adrodd Llywodraeth Cymru yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses moderneiddio grantiau.

Yna bydd gwerthusiad cynhwysfawr yn cael ei baratoi ar ôl tair blynedd i asesu a yw ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cyflawni'r canlyniadau yr ydym eu heisiau ac yn bwriadu eu cael, yn darparu gwerth am arian, ac a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n gofyn am newid mewn dull gweithredu. Bydd y canlyniadau'n bwydo i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol dilynol o 2030 ymlaen, a'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth dilynol.

Atodiad A

Sut y byddwn yn cyflawni ein hamcanion

Sut mae ein polisïau ymddygiad teithio yn cyd-fynd â'n hamcanion

	Aliniad i'r amcanion			
Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol	**Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol**	**Gwell hygyrchedd a dewis trafnidiaeth**	**Galluogi datgarboneiddio drwy bontio i fflyd dim allyriadau**	**Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy**
Polisi CB1: Bydd gwelliannau pellach i wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau teithio llesol sy'n rhoi mynediad i safleoedd cyflogaeth mawr yn cael eu adnabod a'u datblygu lle mae cyllid ar gael. Dylai gwelliannau ystyried patrymau gwaith shifft, patrymau gwaith tymhorol a lle gellir cyflawni'r fwyaf o effaith.		■		■
Polisi CB2: Bydd dull partneriaeth yn cael ei ddefnyddio i adnabod a datblygu cynlluniau a mentrau sy'n annog teithio cynaliadwy i'r gwaith mewn safleoedd cyflogaeth sy'n agos at y ffin, megis Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, Parc Diwydiannol Wrecsam, Airbus Brychdyn, Parc Busnes Caer, a chanol dinas Wrecsam a Chaer.	■	■		■
Polisi CB3: Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol a Chyfunol cyfagos, gan gynnwys Gorllewin Swydd Gaer a Chaer, a Rhanbarth Dinas Lerpwl i sicrhau dull ategol i Gynllunio Trafnidiaeth, yn enwedig yn Is-ranbarth Mersi a'r Ddyfrdwy. Dylai hyn ystyried teithiau cymudo a symudiadau cludo llwythi.		■		■
Polisi CB4: Dylai cymudwyr i Barth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam fedru cael mynediad at swyddi gan ddefnyddio isadeiledd seiclo a cherdded ansawdd uchel, gwell gorsafoedd rheilffordd cyfagos, neu wasanaethau bws sy'n ddeniadol ac yn adlewyrchu patrymau gwaith y cyflogwyr yn y Parth Buddsoddi.		■		■
Polisi CB5: Polisi CB5: Pan fo'n bosibl, byddwn yn chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio cyllid y Parth Buddsoddi ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth cynaliadwy sy'n gwella mynediad at gyflogaeth a chefnogi'r gwaith darparu a llwyddiant y Parth Buddsoddi.		■		■
Polisi CB6: Bydd dull partneriaeth yn cael ei ddefnyddio i adnabod a datblygu cynlluniau a mentrau dewisiadau doethach sy'n hwyluso cymudo mwy cynaliadwy i safleoedd cyflogaeth yng Ngwynedd ac Ynys Môn.		■		■
Polisi CB7: Bydd creu Partneriaethau Trafnidiaeth Strategol yn cael eu hymchwilio mewn lleoliadau cyflogaeth mawr.	■	■	■	■

	Aliniad i'r amcanion			
Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol	**Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol**	**Gwell hygyrchedd a dewis trafnidiaeth**	**Galluogi datgarboneiddio drwy bontio i fflyd dim allyriadau**	**Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy**
Polisi CB8: Rhoddir blaenoriaeth i ariannu cynlluniau a gwasanaethau sy'n gwella mynediad cynaliadwy at wasanaethau hanfodol sy'n cyfoethogi bywyd, megis addysg, gofal iechyd, canol trefi a chyfleusterau cymunedol. Unwaith y bydd yn ei le, dylid blaenoriaethu unrhyw isadeiledd sy'n cefnogi mynediad at y gwasanaethau hyn ar gyfer cynnal a chadw pan fo'n briodol.		■		■
Polisi CB9: Ymchwilir i gyflwyno Contract Gwasanaethau Cyffredinol yn un o'r ardaloedd awdurdod lleol yng ngogledd Cymru, gyda golwg ar gyflwyno'n ehangach ar draws y rhanbarth pe byddai'n llwyddiannus.		■		
Polisi CB10: Bydd gwelliannau pellach i wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau teithio llesol sy'n rhoi mynediad i sefydliadau addysg yn cael eu adnabod a'u datblygu lle mae cyllid ar gael. Mae hyn yn cynnwys: Safleoedd Addysg Uwch (prifysgolion ym Mangor a Wrecsam, ond hefyd y rhai yng ngogledd orllewin Lloegr); Safleoedd Addysg Bellach (gan gynnwys Grŵp Llandrillo-Menai a Choleg Cambria); Ysgolion Uwchradd; ac Ysgolion Cynradd.		■		
Polisi CB11: Dylai awdurdodau lleol ymestyn eu gwaith gydag ysgolion a rhieni i annog a chefnogi teithio cynaliadwy ar gyfer plant, rhieni a staff.		■		
Polisi CB12: Bydd awdurdodau lleol yn parhau i ddefnyddio setiau data lleol a pholisïau megis Mesur Teithio gan Ddysgwyr i flaenoriaethu llwybrau i'r ysgol ar gyfer gwelliannau diogelwch.	■	■		
Polisi CB13: Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gyflawni'r gwelliannau trafnidiaeth angenrheidiol cymdeithasol sy'n atal ynysu gwledig. Dylai hyn flaenoriaethu gwell cysylltiad cymunedau gwledig i: • Gymunedau cyfagos • Trefi cyfagos • Cyfleusterau cymunedol cyfagos a gwasanaethau allweddol, megis iechyd, siopau ac addysg • Cyfnewidfeydd trafnidiaeth ar gyfer teithio pellach		■		

	Aliniad i'r amcanion			
Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol	**Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol**	**Gwell hygyrchedd a dewis trafnidiaeth**	**Galluogi datgarboneiddio drwy bontio i fflyd dim allyriadau**	**Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy**
Polisi CB14: Bydd ymgyrchoedd Marchnata a Chyfathrebu yn cael eu datblygu sy'n ystyrlon ac yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o fanteision teithio cynaliadwy. Bydd ymgyrchoedd yn defnyddio technegau arloesol i dargedu'r gynulleidfa gywir, yn enwedig y grwpiau hynny sy'n anoddach i'w cyrraedd. Dylid cymryd dull rhanbarthol at hyn pan fo'n briodol.	■	■		
Polisi CB15: Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid yn y sector twristiaeth i ymchwilio i ddulliau ar gyfer annog ymwelwyr â gogledd Cymru i deithio yn gynaliadwy wrth hefyd ehangu ar brofiad yr ymwelydd a gwella'r economi ymweld.	■	■		
Polisi CB16: Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gefnogi'r economi ymweld drwy reoli parcio i fysiau a chartrefi modur yn agos at atyniadau yng ngogledd Cymru. Dylai hyn ystyried cyfleoedd gwefru ar gyfer cerbydau allyriadau sero.			■	■
Polisi CB17: Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i wneud gwasanaeth bws Sherpa'r Wyddfa yn barhaol, gyda chyllid hirdymor; ac ymchwilio i sut y gellir integreiddio gwasanaethau ymhellach gyda'r rhwydweithiau bws a rheilffordd ehangach.		■		
Polisi CB18: Drwy weithio â phartneriaeth, bydd gwelliannau pellach yn cael eu cyflwyno i annog ymwelwyr ag Eryri i deithio drwy ddull ar wahân i gar. Bydd y rhain yn cynnwys gwella'r dewisiadau amgen, rheolaeth o gyfleusterau a gwell gwybodaeth ac addysg. Gellir ariannu'r rhain drwy ffynonellau arloesol o ariannu.		■		
Polisi CB19: Bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn ystyried gofynion tir ar gyfer cyfleusterau cyfnewid mewn safleoedd porth i Barc Cenedlaethol Eryri.		■		■
Polisi CB20: Bydd datrysiadau arloesol ar gyfer rhoi mynediad i atyniadau mewn ardaloedd gwledig yn cael eu hadnabod. Dylai hyn ystyried, heb fod yn gyfyngedig i, wasanaethau bws tymhorol, llogi e-feiciau a dulliau micro-symudedd eraill, ynghyd ag ymgyrchoedd gwybodaeth.	■	■	■	■

	Aliniad i'r amcanion			
Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol	**Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol**	**Gwell hygyrchedd a dewis trafnidiaeth**	**Galluogi datgarboneiddio drwy bontio i fflyd dim allyriadau**	**Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy**
Polisi CB21: Bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal i fanteision gwasanaethau bws tymhorol a thwristiaid yng ngogledd Cymru i gefnogi'r economi ymweld a hyrwyddo integreiddiad â rhwydweithiau rheilffordd a bws ehangach. Dylai hyn ystyried nid yn unig y daith i'r gyrchfan, ond teithio ymlaen i atyniadau.		■		■
Polisi CB22: Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid yn y sector twristiaeth ar yr arfordir i adnabod mesurau fydd yn cefnogi newid at ddulliau cynaliadwy o gael mynediad at atyniadau poblogaidd tra'n parhau i sicrhau bod gogledd Cymru yn parhau i fod yn gyrchfan o ddewis ar gyfer gwyliau a theithiau dydd.	■	■		■
Polisi CB23: Bydd dull partneriaeth yn cael ei ddefnyddio i gynllunio ar gyfer gwelliannau pellach i wasanaethau rheilffordd yng ngogledd Cymru sy'n cefnogi'r economi ymweld yn well.		■		■

Sut mae ein polisïau bysiau, coetsys a thrafnidiaeth gymunedol yn cyd-fynd â'n hamcanion

	Aliniad i'r amcanion			
Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol	**Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol**	**Gwell hygyrchedd a dewis trafnidiaeth**	**Galluogi datgarboneiddio drwy bontio i fflyd dim allyriadau**	**Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy**
Polisi PT1: Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig a phartneriaid yn gweithio gyda TC a Llywodraeth Cymru i gefnogi cyflwyno masnachfreinio bws yng ngogledd Cymru, a ddylai gynnwys cyllid aml-flwyddyn fydd yn darparu sicrwydd ar gyfer y cyhoedd sy'n teithio, awdurdodau a gweithredwyr.	■			
Polisi PT2: Dylai pob bws newydd sy'n cael ei gyflwyno yng ngogledd Cymru fod yn ddi-allyriadau. Lle mae bysiau newydd yn welliant hirdymor, dylid chwilio am gyfle i ail-bweru'r fflyd gyfredol.	■	■		
Polisi PT3: Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid i chwilio am gyfleoedd i ategu'r datblygiad o ganolfannau hydrogen yng ngogledd Cymru drwy ymchwilio i gyflwyno fflyd bws hydrogen.			■	■
Polisi PT4: Bydd y Rhwydwaith Trawsnewid Gwasanaeth Bws yn cael ei gyflwyno yng ngogledd Cymru. Bydd hyn yn cynnwys rhwydwaith craidd o wasanaethau rhwng ac o fewn aneddleoedd mawr a safleoedd cyflogaeth gydag amlder o ddau i bedwar bws yr awr, yn ymestyn i gyda'r nos.		■		■
Polisi PT5: Bydd gwasanaethau bws y dyfodol yng ngogledd Cymru yn cynnwys y canlynol: • amlder uchel ac oriau gweithredu hir • amseroedd ymadael rheolaidd/cyson • amserlenni ar ddydd Sul mor agos at amlder dyddiau'r wythnos â phosib i gefnogi cymudo, hamdden ac anghenion yr economi ymweld • cael eu cydlynu i ddarparu amserlen wedi'i rhannu'n dda • lleihau amseroedd teithio rhwng y tarddiad a'r cyrchfannau gyda'r mwyaf o angen • cymryd llwybrau uniongyrchol sy'n aros yr un fath drwy'r dydd • cael eu llwybro drwy gyfnewidfeydd trafnidiaeth a gorsafoedd rheilffordd • cael eu hintegreiddio gyda gwasanaethau bws lleol a thrafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw deinamig • cyfforddus ar gyfer teithiau hir		■		■

	Aliniad i'r amcanion			
Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol	**Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol**	**Gwell hygyrchedd a dewis trafnidiaeth**	**Galluogi datgarboneiddio drwy bontio i fflyd dim allyriadau**	**Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy**
Polisi PT6: Bydd dull partneriaeth yn cynnwys awdurdodau priffyrdd lleol, Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (ACGChC) a TC yn cael ei gymryd i adnabod a gweithredu mesurau blaenoriaeth bws sy'n cefnogi cyflwyno'r rhwydwaith trawsnewid bws yng ngogledd Cymru. Gall hyn gynnwys ail-ddyrannu lle ar y ffordd.		■		
Polisi PT7: Bydd yr holl gyfleusterau aros mewn safle bws yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda cyn belled â bod modd cyflawni hyn drwy gyllidebau refeniw awdurdodau lleol.		■		
Polisi PT8: Bydd safleoedd bysiau allweddol, megis y rhai ynghanol pentrefi, rhai sy'n cael eu defnyddio lawer, a rhai lle mae cyfnewid rhwng dulliau neu wasanaethau yn gyffredin, yn cael eu blaenoriaethu i'w gwella er mwyn cynnwys: • Cyrbiau wedi'u gostwng i gael mynediad at y safle • Cyrbiau wedi'u codi i helpu i fynd ar y bws • Goleuo (amgylcheddol sensitif) • Llochesi • Lle i eistedd • Gwybodaeth ddiweddaraf a gwybodaeth am siwrne gyswllt • Storfa feiciau	■	■		
Mae awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru wedi cydweithio i ddarparu'r data a'r dystiolaeth angenrheidiol i boblogi meini prawf gwerthuso a chelloedd data yr offeryn. Mae ffeil waith a rennir y mae gan swyddogion lleol fynediad ati wedi helpu i sicrhau dull cyson o arfarnu, gan elwa hefyd o opsiynau gwerth safonol ar gyfer meini prawf fel amserlenni ac ystodau o gostau cyfalaf.

Mae'r dull o arfarnu gan ddefnyddio'r offeryn wedi'i grynhoi yn **Atodiad 1**.

3. Ein blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth

Deall ein blaenoriaethau

Yn ôl yr angen, mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn yn rhestru'r cynlluniau penodol a fydd yn helpu i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, wedi'u rhestru a'u dilyniannu i'w cyflawni.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn mynnu bod blaenoriaeth yn seiliedig ar yr effaith fwyaf wrth gyflawni blaenoriaethau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru). Rydym hefyd wedi seilio blaenoriaeth ar y sgoriau cyffredinol fel allbynnau o'r ymarfer offeryn blaenoriaethu, gan ystyried materion cyflawnadwyedd yn ogystal ag aliniad ag amcanion y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n adlewyrchu'r targedau cenedlaethol ar gyfer newid moddol a datgarboneiddio.

Mae ein cynlluniau yn cael eu rhestru fel blaenoriaeth uwch, canolig neu is o fewn amserlenni ar gyfer cyflawni (gweler blaenoriaethau dros amser, isod). Mae trothwyon wedi'u cymhwyso i sgoriau perfformiad yn seiliedig ar allbynnau yr offeryn blaenoriaethu, mewn cytundeb â'n hawdurdodau lleol i helpu i flaenoriaethu safle yn y tri chategori hyn.

Cynlluniau uwch yw'r rhai y mae awdurdodau lleol yn bwriadu buddsoddi ynddynt i gyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol fel blaenoriaeth.

Mae'n bwysig nodi nad yw cydnabod cynllun fel blaenoriaeth ganolig neu is ar y raddfa ranbarthol hon yn nodi nad yw o bwysigrwydd lleol, neu na ddylid ei ddatblygu. Yn hytrach, mae yna gynlluniau eraill ledled y rhanbarth sy'n debygol o gael mwy o effaith wrth gyflawni'r blaenoriaethau a'r uchelgeisiau rhanbarthol a chenedlaethol, ac felly dylid eu blaenoriaethu ar raddfa ranbarthol ar gyfer buddsoddi dros y cyfnodau amser a ragwelir.

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cydweithio ag awdurdodau lleol i gyflwyno'r cynlluniau uwch dros gyfnod y cynllun fel blaenoriaeth, gyda chynlluniau blaenoriaeth canolig ac is i ddod ymlaen yn amodol ar argaeledd cyllid neu pe na bai cynllun blaenoriaeth uwch yn dod ymlaen o fewn cyfnod y cynllun fel y disgwyliwyd. Yn yr achosion hynny, bydd y sgoriau perfformiad yn seiliedig ar allbynnau yr offeryn blaenoriaethu yn helpu Uchelgais Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol i gytuno pa gynlluniau blaenoriaeth canolig ac yna blaenoriaeth is a allai ddod ymlaen unwaith y bydd y cynlluniau uwch wedi'u cyflawni.

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cydweithio â'r awdurdodau lleol i greu rhaglenni blynyddol o gynlluniau i gadarnhau pa gynlluniau fydd yn dod ymlaen bob blwyddyn. Bydd hyn yn cael ei lywio gan safle blaenoriaeth cynlluniau sydd wedi ystyried amserlenni ar gyfer cyflawni, sydd wedi helpu i roi eglurder ar hyn o bryd ynghylch pa gynlluniau fydd yn dod ymlaen ym mhob blwyddyn o gyfnod y cynllun.

Blaenoriaethau dros amser

Mae ein cynlluniau wedi'u trefnu o amgylch amserlenni disgwyliedig i'w cyflawni, dros y canlynol:

- Tymor byr: cynlluniau a fydd ar y gweill neu sydd â'r potensial i ddechrau cyflawni ar ddechrau'r rhaglen 5 mlynedd pe bai cyllid ar gael ym Mlwyddyn Ariannol 2026/27
- Tymor canolig: cynlluniau gyda'r potensial i ddechrau eu cyflawni pe bai cyllid ar gael rhwng Blwyddyn Ariannol 2027/28 a Blwyddyn Ariannol 2029/30
- Tymor hir: cynlluniau gyda'r potensial i ddechrau cyflawni ar ddiwedd y rhaglen 5 mlynedd pe bai'r cyllid ym mlwyddyn ariannol 2030/31
- Uchelgeisiol: Nid oes unrhyw amserlen wedi'i ragweld ar hyn o bryd na chyflawni yn debygol y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol 2030/31
- Neilltuwyd: Ar hyn o bryd nid yw'n cael ei symud ymlaen ond gyda photensial i ddychwelyd gyda gwaith datblygu pellach

Blaenoriaethau yn ôl modd

Cyflwynir blaenoriaethau hefyd yn ôl themâu polisi gan gynnwys dull trafnidiaeth, i helpu rhanddeiliaid i ddeall ble i ddisgwyl gweld buddsoddiad mewn gwahanol fathau o drafnidiaeth. Mae hyn yn cynnwys:

- Teithio llesol
- Bysiau a choetsis
- Trafnidiaeth gymunedol a thacsis ar alw
- Cludo a logisteg
- Integreiddio
- Porthladdoedd
- Ffyrdd, strydoedd a pharcio.

Mae'r dull hwn hefyd yn helpu i ddangos cyfraniad y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol i'r polisïau a nodir yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae'r dull hwn hefyd wedi ceisio helpu i sicrhau bod ystod o ddulliau yn cael eu blaenoriaethu, gan geisio sicrhau darparu rhwydwaith o systemau yn hytrach na gweld buddsoddiad yn llifo'n bennaf i un neu nifer cyfyngedig o ddulliau, a allai berfformio'n uchel yn yr offeryn blaenoriaethu.

Buddsoddi a chyllid

O fewn ein blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth, fe wnaethom nodi costau cyfalaf a gweithredu a ragwelir sy'n gysylltiedig, ochr yn ochr â ffynonellau cyllid tebygol. Mae hyn hefyd yn ein helpu i nodi sut y bydd awdurdodau lleol yn cwrdd â chanlyniadau refeniw y cynlluniau.

Bydd cyllid Llywodraeth Cymru ar gael ar gyfer cynlluniau awdurdodau lleol unwaith y bydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar waith, ar y sail y bydd unrhyw gynlluniau a gynigir ar gyfer cymorth yn cael eu nodi a'u blaenoriaethu mewn Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol cymeradwy. Gall hyn gynnwys drwy drefniadau cyllido presennol neu'r rhai sy'n ddarostyngedig i'r broses foderneiddio grantiau, sy'n ceisio dod â nifer o grantiau trafnidiaeth lleol at ei gilydd, gan alinio'r ffrydiau cyllido hyn â'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a'u Cynlluniau Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol ar draws rhanbarthau Cymru.

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft, ymgysylltodd Llywodraeth Cymru â'r CBC i helpu i egluro lefelau cyllid rhanbarthol Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r Cynlluniau Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n dod i'r amlwg ar draws y pedwar rhanbarth, gan ystyried y broses foderneiddio grantiau parhaus.

Yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru, cyfanswm cost cynlluniau o fewn y rhaglen 5 mlynedd sy'n gofyn am gyllid trafnidiaeth ranbarthol yw oddeutu £150m. Mae hwn yn ffigur hyblyg sy'n ystyried y pum mlynedd diwethaf o ddyfarniadau grant yng Ngogledd Cymru, gydag amcangyfrif o lwfans yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi egluro y bydd y rhaglen 5 mlynedd yn cwmpasu blynyddoedd ariannol 2026/2027 i 2030/2031, yn dilyn dyfarniadau grant awdurdodau lleol 2025/2026.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno y bydd y ffynonellau cyllido canlynol yn rhan o'r gronfa drafnidiaeth ranbarthol newydd yn amodol ar y broses foderneiddio grantiau:

- Cronfa Teithio Llesol
- Cronfa Trafnidiaeth Leol
- Cronfa Ffyrdd Gwydn
- Cronfeydd Cyfalaf a Refeniw Diogelwch ar y Ffyrdd
- Cronfa Bolisi 20mya
- Cronfa Llwybrau Diogel mewn Cymunedau
- Cronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn
- Cronfa Ffyrdd heb eu mabwysiadu

Bydd rhai o'r cynlluniau a adnabuwyd gan awdurdodau lleol sy'n denu gofynion buddsoddi sylweddol yn debygol o fod yn destun cymysgedd o ffynonellau cyllido sy'n debygol o gynnwys ffynonellau neu gytundebau y tu allan i'r cyllid trafnidiaeth rhanbarthol. Efallai y bydd gan gynlluniau o'r fath fwy o ansicrwydd ariannu ar hyn o bryd.

Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn yn adnabod lle mae cynlluniau yn cyd-fynd â'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol, sy'n helpu ymhellach i ddarparu hyder yng nghyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer ymyriadau trafnidiaeth.

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol Gogledd Cymru yn parhau i fod yn greadigol wrth geisio cyllid ychwanegol ar gyfer buddsoddi mewn trafnidiaeth. Gallai hyn gynnwys cyllid sector preifat neu drydydd parti, cyllid Llywodraeth y DU, neu ffynonellau eraill. Er enghraifft, mae Uchelgais Gogledd Cymru ar hyn o bryd yn archwilio cyfleoedd ar gyfer cyllid trafnidiaeth mewn cysylltiad â:

- Cynllun Twf: Cytundeb a fydd yn cynhyrchu cyfanswm buddsoddiad o dros £1 biliwn i Ogledd Cymru er mwyn creu dros 4000 o swyddi newydd a chynyddu GVA £2.4 biliwn. Gan dargedu sectorau twf economaidd allweddol, gan gynnwys gweithgynhyrchu gwerth uchel ac ynni carbon isel, mae hefyd yn canolbwyntio ar arloesi digidol a gwelliannau seilwaith i gysylltu'r rhanbarth yn well. Yn ogystal, mae'n cefnogi datblygu safleoedd ac adeiladau allweddol i ysgogi'r farchnad datblygwyr. Ymhellach, mae gan y Cynllun Twf nod o gefnogi diwydiannau hanfodol fel twristiaeth ac amaethyddiaeth, gan eu helpu i ddatblygu yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.
- Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam: Buddsoddiad o hyd at £160m dros 10 mlynedd. Fel ymrwymiad ar y cyd gan Lywodraethau'r DU a Chymru, nod y parth buddsoddi yw gwella a thyfu clwstwr gweithgynhyrchu datblygedig sy'n arwyddocaol yn fyd-eang. Bydd yn rhyddhau potensial pellach i Sir y Fflint a Wrecsam, sydd eisoes yn gartref i weithrediadau gweithgynhyrchu gwerth uchel a safleoedd diwydiannol strategol, drwy gynnig cyfuniad unigryw o gefnogaeth, seilwaith a chymhellion wedi'u targedu sydd wedi'u cynllunio i ddenu a chynnal busnes. Bydd y buddion yn bellgyrhaeddol, yn ymestyn ar draws Gogledd Cymru a thu hwnt.
- Porthladd Rhydd Ynys Môn: Dod ag adfywio a chreu swyddi o ansawdd uchel, masnach, mewnfuddsoddiad o hyd at £1bn ac arloesedd i Ynys Môn a Gogledd Cymru. Bydd yn adeiladu ar y rhaglen Ynys Ynni (EIP), cydweithrediad presennol rhwng rhanddeiliaid cyhoeddus, preifat a thrydydd sector. Gweledigaeth yr EIP yw 'creu cyfle unwaith mewn oes ar gyfer swyddi, twf economaidd a ffyniant drwy fanteisio ar nifer o brosiectau

trawsnewidiol yn Ynys Môn'. Mae hefyd yn cyd-fynd yn llawn â nodau Strategaeth Twf Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Gweledigaeth Porthladd Rhydd Ynys Môn yw dod yn ganolfan ar gyfer arloesi, ynni carbon isel a masnach ryngwladol.

- Rhwydwaith Gogledd Cymru: Rhaglen waith hynod uchelgeisiol a thrawsnewidiol i gysylltu cymunedau'n well, gyda mwy o wasanaethau rheilffyrdd a bysiau, gorsafoedd newydd, llwybrau trafnidiaeth newydd, trenau newydd, bysiau newydd a thechnoleg newydd. Wrth ei galon fydd gwasanaethau metro Gogledd Cymru. Bydd hwn yn cymryd dull trawsffiniol o drawsnewid trafnidiaeth gyhoeddus yn ardal Mersi-Dyfrdwy, gan gynnwys gwasanaethau ar ffurf metro ar brif linell Gogledd Cymru a chysylltiad rheilffordd uniongyrchol newydd rhwng Wrecsam a Lerpwl. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo buddsoddiad o dros £13m i ddechrau cyflawni ar unwaith a bydd yn defnyddio ffrydiau cyllido eraill i wireddu'r weledigaeth. Mae'r cynlluniau'n cynnwys:
    - Dechrau gwaith ar y llinell rhwng Wrecsam a Lerpwl fel cam cyntaf hanfodol o ddarparu gwasanaethau metro yn uniongyrchol rhwng y ddwy ddinas.
    - Dyblu gwasanaethau trên rhwng Wrecsam a Chaer fis Mai nesaf.
    - Cyflwyno 50% yn fwy o wasanaethau ar draws prif linell Gogledd Cymru o fis Rhagfyr 2026 i fis Mai nesaf – gan arwain at wasanaeth newydd o Landudno i Lerpwl ac ymestyn gwasanaeth Maes Awyr Manceinion i Gaergybi yn lle Llandudno.
    - Ar ôl cwblhau'r gwaith rheilffordd yn Padeswood, cynyddu gwasanaethau trên rhwng Wrecsam a Bidston i 2 drên yr awr o fewn y tair blynedd nesaf, cyn cyflwyno 4 trên yr awr a fydd yn rhedeg yn uniongyrchol rhwng Wrecsam a Lerpwl erbyn 2035.
    - Bydd Llinell bresennol y Gororau hefyd yn cael ei hailenwi'n linell Wrecsam – Lerpwl.
    - Bydd gorsafoedd allweddol ar linell Wrecsam – Lerpwl yn cael eu gwella yn ystod y 12 mis nesaf.
    - Bydd trenau sy'n gweithredu ar linell Wrecsam – Lerpwl yn cael eu lapio i adlewyrchu'r cymunedau a'r clybiau pêl-droed maen nhw'n eu gwasanaethu.
    - Cyflwyno technoleg Talu wrth Fynd tapio mewn tapio allan - sy'n cwmpasu cysylltiadau rhwng Gobowen a'r Rhyl, ac ar hyd hyd llawn llinell Wrecsam-Lerpwl
    - Gweithio gyda Network Rail i benderfynu ar ddichonoldeb cyflawni gorsaf reilffordd brawf newydd ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, i fesur y galw am wasanaethau parhaol i'r parc.
    - Cronfa arloesi trydaneiddio newydd gwerth miliynau o bunnoedd i ddatblygu cynllun i ddatgarboneiddio'r rheilffordd yng Ngogledd Cymru a galluogi gwasanaethau metro amlach a gorsafoedd ychwanegol
    - Arian cyfatebol ar gyfer mynediad heb risiau yng ngorsafoedd Shotton a Rhiwabon.
    - Gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau ar gyfer cyfnewidfeydd amlfoddol Porth yng Nghaergybi, Bangor, Caernarfon a Wrecsam.
    - Gwasanaeth bws T13 newydd - yn cysylltu'r Rhyl, Rhuthun, Dinbych a Wrecsam.
    - Archwilio opsiynau i ailagor gorsafoedd ac adeiladu gorsafoedd newydd i wasanaethu ardaloedd twf cyflogaeth.
    - Rhwydwaith bysiau newydd wedi'i gynllunio'n benodol i gysylltu cymunedau ag ystadau diwydiannol ym Mharth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam.

Fforddiadwyedd

Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi cydweithio â Llywodraeth Cymru i ystyried fforddiadwyedd y blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn. Mae ymarfer wedi'i gynnal gydag awdurdodau lleol i adolygu ac adnewyddu amcangyfrifon Capex ac Opex ochr yn ochr â ffynonellau cyllid tebygol ac amserlenni ar gyfer cyflawni. Bydd hyn yn parhau yn ystod cyfnod y cynllun i helpu i sicrhau bod costau'n cael eu hystyried yn ofalus a'u rhagweld mor gywir â phosibl.

Cydnabyddir bod proses moderneiddio grantiau Llywodraeth Cymru yn parhau, ac er bod y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys cynlluniau gwerth cyfanswm o oddeutu £150m dros ei gyfnod o 5 mlynedd yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru, nid yw swm y cyllid a fydd yn cael ei ddarparu i Uchelgais Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol bob blwyddyn wedi'i gadarnhau eto.

Er bod canllaw i'r proffil gwariant posibl wedi'i ddarparu yn nhabl crynodeb y Cynllun Cyflawni isod, bydd y gofyniad am raglenni blynyddol o gynlluniau yn hwyluso Uchelgais Gogledd Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol i gytuno ar y flaenoriaeth uwch ac unrhyw gynlluniau eraill wrth iddynt ddod ymlaen i geisio cyllid trafnidiaeth ranbarthol Llywodraeth Cymru pan fydd cyllidebau yn hysbys ar gyfer pob blwyddyn o gyfnod y cynllun 5 mlynedd.

Fel rhan o'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn, mae angen hyder gan Lywodraeth Cymru yn fforddiadwyedd y cynlluniau awdurdodau lleol â blaenoriaeth uwch sy'n gofyn am fuddsoddiad o fewn cyfnod y cynllun a lle bydd cyllid rhanbarthol Llywodraeth Cymru yn brif ffynhonnell ariannu.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi gweithio gydag awdurdodau lleol i gadarnhau bod y lefelau gofynnol o gyllid ar gyfer y cynlluniau hynny yn dod i gyfanswm o oddeutu £150m gan gynnwys y cyllid a ddyrannwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2025/26. Felly, gall Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill fod â llawer o hyder bod y blaenoriaethau yn fforddiadwy.

Mae hyn yn caniatáu hyblygrwydd i rai cynlluniau blaenoriaeth canolig ac is ddod ymlaen dros gyfnod y cynllun, gan gydnabod hefyd na fydd angen cyllid gan Lywodraeth Cymru ar rai cynlluniau, tra bod ffynonellau cyllid eraill hefyd ar gael fel y'u nodir yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn.

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cydweithio â'r awdurdodau lleol i greu rhaglenni blynyddol o gynlluniau, gan gynnwys y rhai sy'n ceisio cyllid gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn hwyluso adolygiadau parhaus o flaenoriaethau a fforddiadwyedd, a fydd yn ymateb i unrhyw gyllidebau blynyddol y gall Llywodraeth Cymru roi eglurder amdanynt dros gyfnod y cynllun.

Rheoli newid

Efallai y bydd blaenoriaethau yn newid dros amser, er enghraifft gall buddsoddiad annisgwyl, cyfle ariannu neu ddigwyddiad fod angen blaenoriaethau i newid. Mae Cynllun Monitro a Gwerthuso ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn esbonio sut y bydd cyfarfodydd pwyllgor chwarterol Gogledd Cymru yn cael eu cynnal lle bydd swyddogion trafnidiaeth awdurdodau lleol yn darparu diweddariadau cynnydd ar gynnydd gweithredu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Bydd hyn hefyd yn helpu i ystyried unrhyw flaenoriaethau sy'n newid.

Gall blaenoriaethau sy'n newid hefyd gael eu gyrru gan argaeledd cyllid. Bydd hyn yn cael ei fonitro'n agos gan Uchelgais Gogledd Cymru, a fydd yn cydweithio ag awdurdodau lleol i ystyried a chytuno ar raglenni blynyddol cynlluniau sy'n ystyried y blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol, ac unrhyw ffactorau allanol neu annisgwyl a allai fod angen newid.

Fel y nodir uchod, bydd y sgoriau perfformiad yn seiliedig ar allbynnau yr offeryn blaenoriaethu yn helpu Uchelgais Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol i gytuno pa gynlluniau blaenoriaeth canolig ac yna is a all ddod ymlaen unwaith y bydd cynlluniau uwch wedi'u cyflawni.

Byddwn hefyd yn cyflwyno adroddiadau perfformiad blynyddol ar ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn ac yna bydd gwerthusiad cynhwysfawr yn cael ei baratoi ar ôl tair blynedd i asesu a yw ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cyflawni'r canlyniadau yr ydym eu heisiau a'u bwriadu, gan ddarparu gwerth am arian ac a oes unrhyw faterion annisgwyl neu ganlyniadau anfwriadol sy'n gofyn am newid ymagwedd. Bydd y canlyniadau'n bwydo i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol dilynol o 2030 ymlaen, a'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth dilynol.

Cynllun Cyflawni

Cyflwynir ein cynlluniau blaenoriaeth uwch dros gyfnod y cynllun 5 mlynedd isod, wedi'u trefnu yn ôl amserlen ar gyfer gwaith a gynlluniwyd (yn amodol ar argaeledd cyllid). Mae prif ffynonellau cyllid tebygol wedi'u hadnabod a'u codio yn ôl lliw yn unol â hynny.

Cynllun Rhif	Enw'r Cynllun	Thema Polisi	Awdurdod Lleol Arweiniol	Amserlen	Ffynhonnell Ariannu Bosibl	Blaenoriaeth
76	Llwybrau Diogel mewn cymunedau/ cludiant o'r cartref i'r ysgol, Conwy	Teithio Llesol	Conwy	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
81	Ffordd Nant Hall, Prestatyn	Teithio Llesol	Sir Ddinbych	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
82	Brook Street/Maes Pengwern	Teithio Llesol	Sir Ddinbych	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
83	Lôn Hylas/ Stryd y Castell, Rhuddlan	Teithio Llesol	Sir Ddinbych	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
89	Lenten Pool, Dinbych	Teithio Llesol	Sir Ddinbych	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
100	Gweithredu rhwydwaith trawsnewid bysiau Gwynedd	Bws a Choets	Gwynedd	Tymor byr	Arall	Uwch
147	Gwelliannau i Drafnidiaeth Llanbedr	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Gwynedd	Tymor byr	Arall	Uwch
159	Cynnal a gwella priffyrdd (gan gynnwys treialon cynnal a chadw arloesol), Wrecsam	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Wrecsam	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
162	Cynnal a gwella priffyrdd, Gwynedd	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Gwynedd	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch

Cynllun Rhif	Enw'r Cynllun	Thema Polisi	Awdurdod Lleol Arweiniol	Amserlen	Ffynhonnell Ariannu Bosibl	Blaenoriaeth
168	Cludiant Tanwydd Amgen (Hydrogen yng Nghaergybi)	Porthladdoedd	Ynys Môn	Tymor byr	Cyllid Llywodraeth y DU Uwch	Uwch
175	Teithio Llesol Bae Penrhyn	Teithio Llesol	Conwy	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
177	Teithio Llesol Dolgarrog	Teithio Llesol	Conwy	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
188	Gwella diogelwch llwybrau'r A548	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Conwy	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
193	A470 Pont Dros y Rheilffordd Cyffordd Llandudno	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Conwy	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
196	Promenâd Bae Colwyn - Ffordd Rotari i Borth Eirias	Teithio Llesol	Conwy	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
197	Bagillt i Faes-glas	Teithio Llesol	Sir y Fflint	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
199	Lower Aston Hall Lane	Teithio Llesol	Sir y Fflint	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
202	Gwelliannau Teithio Llesol Cylchfan Ewloe	Teithio Llesol	Sir y Fflint	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
203	Gwelliannau teithio llesol cylchfan Wylfa	Teithio Llesol	Sir y Fflint	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
239	Llwybr Teithio Llesol Chwilog i Afonwen	Teithio Llesol	Gwynedd	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
250	Llwybr Teithio Llesol Tywyn i Aberdyfi	Teithio Llesol	Gwynedd	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
253	Prosiect Ffordd Cydnerthedd yr A5 (Pentre Berw)	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Ynys Môn	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
256	Teithio Llesol Llanfairpwll (Lôn Refail i Lôn Graig)	Teithio Llesol	Ynys Môn	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
257	Teithio Llesol Malltraeth i Niwbwrch	Teithio Llesol	Ynys Môn	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch

Cynllun Rhif	Enw'r Cynllun	Thema Polisi	Awdurdod Lleol Arweiniol	Amserlen	Ffynhonnell Ariannu Bosibl	Blaenoriaeth
258	Teithio Llesol Benllech	Teithio Llesol	Ynys Môn	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
276	Seilwaith RTI mewn gwahanol ganolfannau bysiau, Sir Ddinbych	Integreiddio	Sir Ddinbych	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
103	Rhwydwaith bysiau a choetsis gwledig rhanbarthol, Sir y Fflint	Bws a Choets	Sir y Fflint	Tymor byr	Arall	Uwch
105	Rhwydwaith bysiau a choetsis gwledig rhanbarthol Gwynedd	Bws a Choets	Gwynedd	Tymor byr	Arall	Uwch
268	Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan mewn meysydd parcio cyhoeddus a chydlynu gwybodaeth, Wrecsam	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Wrecsam	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
163	Pwyntiau gwefru Cerbydau Trydan mewn meysydd parcio cyhoeddus a chydlynu gwybodaeth, Sir y Fflint	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Sir y Fflint	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
164	Pwyntiau gwefru Cerbydau Trydan mewn meysydd parcio cyhoeddus a chydlynu gwybodaeth, Ynys Mon	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Ynys Môn	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
165	Gwella pwyntiau gwefru cerbydau trydan cyhoeddus a chydlynu gwybodaeth, Gwynedd	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Gwynedd	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
166	Pwyntiau gwefru cyhoeddus mewn meysydd parcio cyhoeddus a chydgysylltu gwybodaeth, Conwy	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Conwy	Tymor byr	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
9 (A&B)	Integreiddio â gwasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus strategol: Gwell mynediad i Orsaf Rhiwabon a Gorsaf Gwersyllt	Integreiddio	Wrecsam	Tymor canolig	Cyllid Llywodraeth y DU Uwch	Uwch

Cynllun Rhif	Enw'r Cynllun	Thema Polisi	Awdurdod Lleol Arweiniol	Amserlen	Ffynhonnell Ariannu Bosibl	Blaenoriaeth
10	Integreiddio â gwasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus strategol: Gwelliannau i'r isadeiledd trafnidiaeth gyhoeddus, Sir y Fflint	Integreiddio	Sir y Fflint	Tymor canolig	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
34	Cyfnewidfa Garden City	Integreiddio	Sir y Fflint	Tymor canolig	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
43	Cysylltu'r ddwy bont â chymunedau lleol gyda rhwydweithiau teithio llesol cynhwysfawr a chyfforddus	Teithio Llesol	Ynys Môn	Tymor canolig	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
55	Teithio Llesol Parc Caia	Teithio Llesol	Wrecsam	Tymor canolig	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
61	Coridor Teithio Llesol Ffordd yr Wyddgrug, Gwersyllt	Teithio Llesol	Wrecsam	Tymor canolig	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
74	Llwybrau Diogel mewn cymunedau/ cludiant o'r cartref i'r ysgol, Gwynedd	Teithio Llesol	Gwynedd	Tymor canolig	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
87	Pont H, Y Rhyl	Teithio Llesol	Sir Ddinbych	Tymor canolig	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
98	Gweithredu Rhwydwaith Trawsnewid Bysiau, Sir y Fflint	Bws a Choets	Sir y Fflint	Tymor canolig	Arall	Uwch
99	Gweithredu rhwydwaith trawsnewid bysiau Ynys Môn	Bws a Choets	Ynys Môn	Tymor canolig	Arall	Uwch
154	Prosiect Porth Caernarfon	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Gwynedd	Tymor canolig	Arall	Uwch
178	Môr i'r Mynydd/ Llwybr Teithio Llesol Strategol o'r Arfordir i'r Dyffryn	Teithio Llesol	Conwy	Tymor canolig	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
185		Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Conwy	Tymor canolig	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch

Cynllun Rhif	Enw'r Cynllun	Thema Polisi	Awdurdod Lleol Arweiniol	Amserlen	Ffynhonnell Ariannu Bosibl	Blaenoriaeth
190	Pontydd Hen Golwyn/Llanddulas yr A547	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Conwy	Tymor canolig	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
205	Gwelliannau i wasanaeth bws parcio a theithio Glannau Dyfrdwy - datgarboneiddio	Bws a Choets	Sir y Fflint	Tymor canolig	Anhysbys	Uwch
218	Gwella'r Lôn Las. Gwella llwybrau beicio oddi ar y ffordd presennol, Lôn las Ogwen, Lôn Las Menai a Lôn Eifion	Teithio Llesol	Gwynedd	Tymor canolig	Cyllid Llywodraeth y DU Uwch	Uwch
220	Llwybr Teithio Llesol Llanberis i Gaernarfon	Teithio Llesol	Gwynedd	Tymor canolig	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
262	Gweithredu'r rhwydwaith trawsnewid bysiau Wrecsam	Bws a Choets	Wrecsam	Tymor canolig	Arall	Uwch
272	Ffordd Rhuthun, Ffordd Ystrad, Dinbych	Teithio Llesol	Sir Ddinbych	Tymor canolig	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
167	Pwyntiau gwefru Cerbydau Trydan mewn meysydd parcio cyhoeddus a chydlynu gwybodaeth, Sir Ddinbych	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Sir Ddinbych	Tymor canolig	Arall	Uwch
71	Teithio llesol fel cludiant o'r cartref i'r ysgol, Wrecsam	Teithio Llesol	Wrecsam	Tymor hir	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch
207	Gwella Teithio Llesol Lleol mewn prif aneddiadau (Bangor, Porthmadog, Caernarfon, Pwllheli, Tywyn, Y Bala, Blaenau Ffestiniog, Dolgellau, Y Felinheli, Bethesda, Abermaw)	Teithio Llesol	Gwynedd	Tymor hir	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Uwch

Cyflwynir amserlen lawn o 247 o gynlluniau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun cyflawni er gwybodaeth yn **Atodiad A**[1] wedi'u grwpio mewn categorïau blaenoriaeth uwch, canolig ac is. **Mae Atodiad A** ar gael fel taenlen ryngweithiol gydag opsiynau hidlo i helpu pawb sy'n gysylltiedig i nodi a chynllunio ar gyfer rhaglenni blynyddol manwl.

Mae ein cynllun cyflawni hefyd yn cael ei gyflwyno trwy ystod o ddiagramau gweledol yn **Atodiad B**. Mae hyn yn helpu i ddangos ein blaenoriaethau o wahanol safbwyntiau, drwy ddangos y data trwy wahanol lensys. Mae hyn yn ein galluogi i gyflwyno ein blaenoriaethau mewn ffyrdd mwy technegol ac annhechnegol, wedi'u hanelu at wahanol lefelau o ddiddordeb ac arbenigedd mewn cynllunio trafnidiaeth. Gallwch weld ein blaenoriaethau fel a ganlyn:

- Atodiad B1: Persbectif cyflawn (gall hyn fod o fwyaf o ddiddordeb i Lywodraeth Cymru, gan roi golwg ar flaenoriaethau fesul amserlen ar gyfer cyflawni, cost cyfalaf, ffynhonnell ariannu, a modd)
- Atodiad B2: Persbectif cyflawni awdurdodau lleol (gall hyn fod o ddiddordeb mwyaf i'r awdurdodau lleol, gan roi golwg ar flaenoriaethau yn ôl awdurdod cyfrifol arweiniol, cost cyfalaf ac amserlen ar gyfer cyflawni)
- Atodiad B3: Persbectif ffynhonnell ariannu (gall hyn fod o ddiddordeb mwyaf i Trafnidiaeth Cymru, gan roi darlun ar flaenoriaethau yn ôl ffynhonnell ariannu, cost gyfalaf ac amserlen ar gyfer cyflawni)
- Atodiad B4: Persbectif y cwsmer (gall hyn fod o ddiddordeb mwyaf i'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau trafnidiaeth, gan ddarparu golwg ar flaenoriaethau yn ôl modd, amserlen ar gyfer cyflawni a chost cyfalaf)

Mae'r diagramau Atodiad B yn dangos:

- Mae clwstwr mwy o 33 o gynlluniau tymor byr blaenoriaeth uwch, sy'n canolbwyntio ar welliannau teithio llesol cost isel i uwch, cynlluniau bysiau, nwyddau a ffyrdd a strydoedd. Mae cynlluniau wedi'u gwasgaru ar draws ardaloedd awdurdodau gogledd Cymru. Mae ffynonellau cyllid yn cysylltu â'r dulliau hyn, gan ganolbwyntio ar Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Llywodraeth Cymru, ffynonellau Llywodraeth y DU a ffynonellau eraill.
- Mae clwstwr canolig o 20 o gynlluniau tymor canolig blaenoriaeth uwch, sy'n canolbwyntio ar gynlluniau teithio llesol cost isel i ganolig, wedi'u hategu gan fysiau, ffyrdd a strydoedd, a chynlluniau integreiddio, wedi'u gwasgaru ar draws ardaloedd awdurdod Gogledd Cymru. Mae ffynonellau cyllido yn cysylltu â'r dulliau hyn, gan ganolbwyntio ar Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a ffynonellau eraill, a ffynonellau nad ydynt wedi'u diffinio eto.
- Mae clwstwr bach o 2 gynllun hirdymor blaenoriaeth uwch, sy'n canolbwyntio ar gynlluniau teithio llesol cost isel i ganolig, wedi'u gwasgaru ar draws ardaloedd awdurdodau Wrecsam a Gwynedd. Mae ffynonellau cyllid yn cysylltu â Chronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Llywodraeth Cymru.
- Mae clwstwr bach o 7 cynllun uchelgeisiol â blaenoriaeth uwch, sy'n canolbwyntio ar gynlluniau bysiau cost isel i ganolig, wedi'u hategu gan ffyrdd a strydoedd, tacsis a hurio preifat, a chynlluniau teithio llesol, wedi'u gwasgaru ar draws ardaloedd awdurdodau Gogledd Cymru. Mae ffynonellau cyllid yn cysylltu â'r dulliau hyn, gan ganolbwyntio ar Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Llywodraeth Cymru a ffynonellau eraill.

[1] Dyrannwyd rhif cyfeirnod unigryw i bob cynllun fel y dangosir yn Atodiad A, ac nid yw rhai rhifau wedi'u defnyddio ymhellach i uno neu ddileu fel rhan o waith datblygu ac adborth ymgynghori.

I grynhoi, mae ein blaenoriaethau (a'u Capex amcangyfrifedig dros gyfnod y cynllun) wedi'u dosbarthu dros amser fel a ganlyn:

Lefel blaenoriaeth / Amserlen	Uwch
Nifer Tymor byr (BA 2026/27)	33 (£163.m)
Nifer Tymor canolig (BAs 2027-30)	20 (£96.9m)
Nifer Tymor hir (BA 2030/31)	2 (£9.5m)
CYFANSWM	55 (269.5m)

O'r cyfansymiau Capex a gyflwynir uchod, mae'r tabl canlynol yn darparu'r swm disgwyliedig o gyllid trafnidiaeth ranbarthol Llywodraeth Cymru sydd ei angen i fodloni'r ffigurau Capex cyffredinol a nodir uchod:

Lefel Blaenoriaeth / Amserlen	Uwch
Tymor byr (BA 2026/27)	£113.5m (69.6%)
Tymor Canolig (BAs 2027-30)	£28.9m (29.8%)
Tymor Hir (BA 2030/31)	£9.3m (97.9%)
CYFANSWM	£151.7m (56.3%)

Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael ar gyfer ein cynlluniau blaenoriaeth canolig ac is, yn ogystal ag ar gyfer amserlenni uchelgeisiol neu neilltuwyd yn **Atodiad C**.

Er bod y wybodaeth a ddangosir uchod yn dangos y gallai'r mwyafrif o gynlluniau ddechrau yn y tymor byr, cydnabyddir y bydd gwariant ar gyfer y cynlluniau hynny yn parhau yn y tymor canolig a hyd yn oed yn y tymor hir, yn enwedig ar gyfer cynlluniau cyllideb fwy. Hefyd, cydnabyddir efallai na fydd cyllid trafnidiaeth rhanbarthol Llywodraeth Cymru yn cael ei lwytho ymlaen llaw nac yn seiliedig ar sawl blwyddyn, o leiaf yn y dyfodol agos. Felly, byddai'r weithdrefn a nodir uchod mewn perthynas â rhaglenni blynyddol cynlluniau yn ceisio addasu gwariant mewn amserlenni i adlewyrchu proffiliau gwariant cynlluniau gwirioneddol sy'n cael eu halinio â dyfarniadau blynyddol clir gan Lywodraeth Cymru, a fydd, pan fyddant yn hysbys, yn sicrhau bod y cynlluniau uwch yn parhau i ddod ymlaen dros y cyfnod o 5 mlynedd fel y cynlluniwyd.

Monitro a Gwerthuso

Mae ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael ei gefnogi gan ein Cynllun Monitro a Gwerthuso, a fydd yn helpu i ddangos ein cynnydd rhanbarthol wrth gyflawni'r blaenoriaethau a'r uchelgeisiau cenedlaethol a nodir yn Strategaeth Trafnidiaeth Cymru. Mae'n nodi sut y bydd llwyddiant y Cynllun hwn yn cael ei fonitro, ei fesur a'i werthuso, gan ystyried yr amcanion yr ydym wedi eu gosod ar gyfer trafnidiaeth a chanlyniadau llesiant cysylltiedig. Er enghraifft, bydd hyn yn ein helpu i ddangos cyfraniad ein rhanbarth at ddatgarboneiddio cenedlaethol a thargedau newid dulliau teithio.

Fel rhan o'r broses monitro a gwerthuso, bydd cyfarfodydd chwarterol pwyllgorau gogledd Cymru yn cael eu cynnal lle bydd diweddariadau cynnydd yn cael eu darparu gan swyddogion trafnidiaeth awdurdodau lleol ar gynnydd gweithredu'r polisïau yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r cynlluniau a nodir yn ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Bydd hyn hefyd yn helpu i ystyried unrhyw sbardun cyfnewidiol ar gyfer newid a blaenoriaethau, megis datblygiadau strategol newydd neu gyfleoedd ariannu a allai fod heb eu rhagweld ar adeg paratoi'r Cynllun.

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru fel CBC y Gogledd a'i Is-bwyllgor Trafnidiaeth yn ystyried cynnydd polisïau ac ymyraethau yn y cynlluniau sydd wedi'u cymeradwyo mewn cysylltiad â rheoli perfformiad cyllid datganoledig gan Lywodraeth Cymru i'r CBC ochr yn ochr â dyfarniadau cyllid eraill o ffynonellau amgen, y gellir eu dyfarnu'n uniongyrchol i awdurdodau lleol. Felly, bydd Uchelgais Gogledd Cymru ar y cyd ag awdurdodau lleol yn cynnal gwaith i fonitro gwariant grantiau a chynnydd y cynllun yn ystod y flwyddyn, a fydd yn cyfateb i'r monitro grantiau chwarterol a wneir gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd. Mae gofynion a strwythur adrodd Llywodraeth Cymru yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses foderneiddio grantiau.

Byddwn yn cyflwyno adroddiadau perfformiad blynyddol ar ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn. Yna bydd gwerthusiad cynhwysfawr yn cael ei baratoi ar ôl tair blynedd i asesu a yw ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cyflawni'r canlyniadau yr ydym eu heisiau ac yn bwriadu eu cael, yn darparu gwerth am arian, ac a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n gofyn am newid mewn dull gweithredu. Bydd y canlyniadau'n bwydo i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol dilynol o 2030 ymlaen, a'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth dilynol.

Atodiad A - Atodlen y cynlluniau (WEDI'I OLYGU)

Tud. 331

A.1 Cynlluniau blaenoriaeth uwch

Cynllun Rhif	Enw'r Cynllun	Disgrifiad o'r Cynllun	Thema Polisi	Aliniad Polisi	Awdurdod Lleol Arweiniol	Amserlen	Amcangyfrif Lefel Cost CAPEX	Amcangyfrif Lefel Cost OPEX	Ffynhonnell Ariannu Bosibl	Sut mae costau refeniw yn cael eu talu (lle mae gwybodaeth ar gael)	Aliniad NTDP	Blaenoriaeth
9 (a & b)	Integreiddio â gwasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus strategol: Gwell mynediad i Orsaf Rhiwabon a Gorsaf Gwersyllt	Pecyn o fesurau wedi'u hanelu at wella hygyrchedd i wasanaethau rheilffordd er mwyn mynd i'r afael â'r galw ar hyn o bryd a'r galw a ragwelir am deithio ar y rheilffyrdd o'r lleoliad strategol hwn. Mae'r mesurau'n cynnwys capasiti parcio ychwanegol, gwell cyfleusterau cyfnewid teithwyr bysiau, gwell mynediad i'r anabl i blatfformau rhwng y gogledd a'r de, gwell mynediad drwy gerdded a beicio Bydd gorsafoedd yn cael eu cyflawni'n annibynnol ar ei gilydd.	Integreiddio	IN3	Wrecsam	Tymor canolig	[redacted]	[redacted]	Cyllid Llywodraeth y DU		Rheilffordd 5 -Ychwanegu lifftiau yn Rhiwabon a Whitchurch, Swydd Amwythig yn ystod NR CP7 (2025 - 2027 a thu hwnt wedi'i ariannu gan eraill)	Uwch
10	Integreiddio â gwasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus strategol: Gwelliannau i'r isadeiledd trafnidiaeth gyhoeddus, Sir y Fflint	Gwelliannau parhaus i'r isadeiledd bysiau, gan gynnwys mesurau blaenoriaeth bysiau, gwelliannau i gyfleusterau mynd ar fysiau, arwyddion, arosfannau bysiau a darpariaeth lloches.	Integreiddio	IN3	Sir y Fflint	Tymor canolig	[redacted]	[redacted]	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru		N/A	Uwch
34	Cyfnewidfa Garden City	Darparu cyfnewidfa newydd yn Garden City i gysylltu Gorsaf Pont Penarlâg, Datblygiad Porth y Gogledd, Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy a'r rhwydwaith bysiau craidd. Byddai'r cyfleuster hefyd o fudd i ffordd meingefn Porth y Gogledd.	Integreiddio	IN1	Sir y Fflint	Tymor canolig	[redacted]	[redacted]	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Cyllideb Graidd Cyngor Sir y Fflint	NWM 3E1-3 - Datblygu, dylunio a chyflawni hybiau Cyfnewidfa Trafnidiaeth Gyhoeddus pellach (2025-2027 a thu hwnt)	Uwch
43	Cysylltu'r ddwy bont â chymunedau lleol gyda rhwydweithiau teithio llesol cynhwysfawr a chyfforddus	Datblygu rhwydwaith teithio llesol cynhwysfawr, cyfforddus, deniadol a diogel sy'n ymestyn o ddau ben y ddwy bont i gysylltu cymunedau a chyrchfannau pwysig yn Ynys Môn gyda gogledd Gwynedd.	Teithio Llesol	AT1	Ynys Môn	Tymor canolig	[redacted]	[redacted]	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Cyllideb Refeniw Cynnal a Chadw Priffyrdd Cyngor Sir Ynys Môn	N/A	Uwch
55	Teithio Llesol Parc Caia	Gwelliannau ardal teithio llesol Parc Caia.	Teithio Llesol	AT1	Wrecsam	Tymor canolig	[redacted]	[redacted]	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru		N/A	Uwch
61	Coridor Teithio Llesol Ffordd yr Wyddgrug, Gwersyllt	Gwelliannau Coridor Teithio Llesol Ffordd yr Wyddgrug, Gwersyllt.	Teithio Llesol	AT1	Wrecsam	Tymor canolig	[redacted]	[redacted]	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru		N/A	Uwch

Cynllun Rhif	Enw'r Cynllun	Disgrifiad o'r Cynllun	Thema Polisi	Aliniad Polisi	Awdurdod Lleol Arweiniol	Amserlen	Amcangyfrif Lefel Cost CAPEX	Amcangyfrif Lefel Cost OPEX	Ffynhonnell Ariannu Bosibl	Sut mae costau refeniw yn cael eu talu (lle mae gwybodaeth ar gael)	Aliniad NTDP	Blaenoriaeth
68	Ffordd Holt a Ffordd Borras - Teithio Llesol Wrecsam	Holt - Cyswllt Teithio Llesol Wrecsam.	Teithio Llesol	AT1	Wrecsam	Uchelgeisiol	[redacted]	[redacted]	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru		N/A	Uwch
71	Teithio llesol fel cludiant o'r cartref i'r ysgol, Wrecsam	Teithio llesol i gefnogi cludiant o'r cartref i'r ysgol.	Teithio Llesol	AT1	Wrecsam	Tymor hir	[redacted]	[redacted]	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru		AT 10 - Datblygu a chyflwyno cynlluniau ysgolion/teithio llesol (2022-2027 a thu hwnt)	Uwch
74	Llwybrau Diogel mewn cymunedau/ cludiant o'r cartref i'r ysgol, Gwynedd	Llwybrau diogel mewn cymunedau/ cludiant o'r cartref i'r ysgol ar draws y sir.	Teithio Llesol	AT1	Gwynedd	Tymor canolig	[redacted]	[redacted]	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru		AT 10 - Datblygu a chyflwyno cynlluniau ysgolion/teithio llesol (2022-2027 a thu hwnt)	Uwch
76	Llwybrau Diogel mewn cymunedau/ cludiant o'r cartref i'r ysgol, Conwy	Llwybrau diogel mewn cymunedau/ cludiant o'r cartref i'r ysgol ar draws y sir.	Teithio Llesol	AT1	Conwy	Tymor byr	[redacted]	[redacted]	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru		AT 10 - Datblygu a chyflwyno cynlluniau ysgolion/teithio llesol (2022-2027 a thu hwnt)	Uwch
81	Ffordd Nant Hall, Prestatyn	Llwybr sy'n cysylltu ardaloedd preswyl ac ysgol gynradd â Chanol y Dref gan gynnwys Gorsafoedd Bysiau a Rheilffordd.	Teithio Llesol	AT1	Sir Ddinbych	Tymor byr	[redacted]	[redacted]	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Cyllideb Refeniw Cyngor Sir Ddinbych	N/A	Uwch
82	Brook Street/Maes Pengwern	Llwybr sy'n cysylltu ardaloedd preswyl ac ysgolion â Chanol y Dref.	Teithio Llesol	AT1	Sir Ddinbych	Tymor byr	[redacted]	[redacted]	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Cyllideb Refeniw Cyngor Sir Ddinbych	N/A	Uwch
83	Lôn Hylas/ Stryd y Castell, Rhuddlan	Llwybr i wella mynediad teithio llesol i ysgol gynradd Ysgol y Castell.	Teithio Llesol	AT1	Sir Ddinbych	Tymor byr	[redacted]	[redacted]	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Cyllideb Refeniw Cyngor Sir Ddinbych	AT 10 - Datblygu a chyflwyno cynlluniau ysgolion/teithio llesol (2022-2027 a thu hwnt)	Uwch
87	Pont H, Y Rhyl	Darparu llwybr teithio llesol diogel dros reilffordd Caer-Caergybi, gan gysylltu'r rhwydweithiau Teithio Lleol presennol ar y naill ochr i'r rheilffordd.	Teithio Llesol	AT1	Sir Ddinbych	Tymor canolig	[redacted]	[redacted]	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Cyllideb Refeniw Cyngor Sir Ddinbych	N/A	Uwch
89	Lenten Pool, Dinbych	Gwelliannau i gyffordd y gylchfan fechan bresennol i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr heb gerbyd ei defnyddio.	Teithio Llesol	AT5	Sir Ddinbych	Tymor byr	[redacted]	[redacted]	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Cyllideb Refeniw Cyngor Sir Ddinbych	N/A	Uwch
98	Gweithredu Rhwydwaith Trawsnewid Bysiau, Sir y Fflint	Byddai gan y Rhwydwaith Trawsnewid Bysiau a gefnogir gan gyllid aml-flwyddyn amlderau uwch ac oriau gweithredu hwy, a fydd yn caniatáu nifer uwch o deithiau sy'n cyd-fynd yn well ag anghenion teithio pobl a bydd hynny'n fwy deniadol ar gyfer teithio bob dydd. Gwneir gwelliannau i lwybrau Traws Cymru, amlder gwasanaeth ac oriau gweithredu yn y tymor byr.	Bws a Choets	PT1	Sir y Fflint	Tymor canolig	[redacted]	[redacted]	Arall		Bws 12 - Cyflwyno dyluniad rhwydwaith bysiau newydd ledled Cymru (2026-2027 a thu hwnt)	Uwch

Cynllun Rhif	Enw'r Cynllun	Disgrifiad o'r Cynllun	Thema Polisi	Aliniad Polisi	Awdurdod Lleol Arweiniol	Amserlen	Amcangyfrif Lefel Cost CAPEX	Amcangyfrif Lefel Cost OPEX	Ffynhonnell Ariannu Bosibl	Sut mae costau refeniw yn cael eu talu (lle mae gwybodaeth ar gael)	Aliniad NTDP	Blaenoriaeth
99	Gweithredu rhwydwaith trawsnewid bysiau Ynys Môn	Byddai gan y Rhwydwaith Trawsnewid Bysiau a gefnogir gan gyllid aml-flwyddyn amlderau uwch ac oriau gweithredu hwy, a fydd yn caniatáu nifer uwch o deithiau sy'n cyd-fynd yn well ag anghenion teithio pobl a bydd hynny'n fwy deniadol ar gyfer teithio bob dydd. Gwneir gwelliannau i lwybrau Traws Cymru, amlder gwasanaeth ac oriau gweithredu yn y tymor byr.	Bws a Choets	PT1	Ynys Môn	Tymor canolig	[redacted]	[redacted]	Arall	Cyfuniad o Gronfeydd Craidd Cyngor Sir Ynys Môn (33% ar hyn o bryd), Grantiau gan Lywodraeth Cymru / TC (67% ar hyn o bryd)	Bws 12 - Cyflwyno dyluniad rhwydwaith bysiau newydd ledled Cymru (2026-2027 a thu hwnt)	Uwch
100	Gweithredu rhwydwaith trawsnewid bysiau Gwynedd	Byddai gan y Rhwydwaith Trawsnewid Bysiau a gefnogir gan gyllid aml-flwyddyn amlderau uwch ac oriau gweithredu hwy, a fydd yn caniatáu nifer uwch o deithiau sy'n cyd-fynd yn well ag anghenion teithio pobl a bydd hynny'n fwy deniadol ar gyfer teithio bob dydd. Gwneir gwelliannau i lwybrau Traws Cymru, amlder gwasanaeth ac oriau gweithredu yn y tymor byr.	Bws a Choets	PT1	Gwynedd	Tymor byr	[redacted]	[redacted]	Arall		Bws 12 - Cyflwyno dyluniad rhwydwaith bysiau newydd ledled Cymru (2026-2027 a thu hwnt)	Uwch
101	Gweithredu rhwydwaith trawsnewid bysiau Conwy	Byddai gan y Rhwydwaith Trawsnewid Bysiau a gefnogir gan gyllid aml-flwyddyn amlderau uwch ac oriau gweithredu hwy, a fydd yn caniatáu nifer uwch o deithiau sy'n cyd-fynd yn well ag anghenion teithio pobl a bydd hynny'n fwy deniadol ar gyfer teithio bob dydd. Gwneir gwelliannau i lwybrau Traws Cymru, amlder gwasanaeth ac oriau gweithredu yn y tymor byr.	Bws a Choets	PT1	Conwy	Uchelgeisiol	[redacted]	[redacted]	Arall	Wedi'i wrthbwyso gan refeniw tocynnau	Bws 12 - Cyflwyno dyluniad rhwydwaith bysiau newydd ledled Cymru (2026-2027 a thu hwnt)	Uwch
102	Gweithredu rhwydwaith trawsnewid bysiau Sir Ddinbych	Byddai gan y Rhwydwaith Trawsnewid Bysiau a gefnogir gan gyllid aml-flwyddyn amlderau uwch ac oriau gweithredu hwy, a fydd yn caniatáu nifer uwch o deithiau sy'n cyd-fynd yn well ag anghenion teithio pobl a bydd hynny'n fwy deniadol ar gyfer teithio bob dydd. Gwneir gwelliannau i lwybrau Traws Cymru, amlder gwasanaeth ac oriau gweithredu yn y tymor byr.	Bws a Choets	PT1	Sir Ddinbych	Uchelgeisiol	[redacted]	[redacted]	Arall	Cronfa Trafnidiaeth Leol (LTF)	Bws 12 - Cyflwyno dyluniad rhwydwaith bysiau newydd ledled Cymru (2026-2027 a thu hwnt)	Uwch

Cynllun Rhif	Enw'r Cynllun	Disgrifiad o'r Cynllun	Thema Polisi	Aliniad Polisi	Awdurdod Lleol Arweiniol	Amserlen	Amcangyfrif Lefel Cost CAPEX	Amcangyfrif Lefel Cost OPEX	Ffynhonnell Ariannu Bosibl	Sut mae costau refeniw yn cael eu talu (lle mae gwybodaeth ar gael)	Aliniad NTDP	Blaenoriaeth
103	Rhwydwaith bysiau a choetsis gwledig rhanbarthol, Sir y Fflint	Cyflwyno rhwydwaith o wasanaethau Fflecsi gwledig rhanbarthol gydag amlder gwasanaeth bob awr yn ymestyn i mewn i'r nosweithiau sy'n cysylltu aneddiadau gwledig ac sy'n cael eu gweithredu gan fflyd o fysiau a choetsis Fflecsi sy'n gyfforddus ar gyfer teithiau hwy.	Bws a Choets	PT11	Sir y Fflint	Tymor byr	[redacted]	[redacted]	Arall		Bws 24 - Gwerthuso'r cynlluniau peilot Fflecsi presennol sy'n digwydd ledled Cymru a chynhyrchu canllawiau a fframwaith cyflawni ar gyfer cynlluniau pellach, a fydd yn cefnogi cynlluniau masnachfreinio yn y dyfodol. Ehangu gwasanaethau Fflecsi mewn ardaloedd lle byddant yn darparu'r budd mwyaf. (2022-2025) Bws 25 - Cyflwyno gwasanaethau fflecsi ychwanegol lle bo hynny'n briodol yn seiliedig ar ganfyddiadau peilot a datblygu fframwaith cyflawni (2024-2027 a thu hwnt).	Uwch
105	Rhwydwaith bysiau a choetsis gwledig rhanbarthol Gwynedd	Cyflwyno rhwydwaith o wasanaethau Fflecsi gwledig rhanbarthol gydag amlder gwasanaeth bob awr yn ymestyn i mewn i'r nosweithiau sy'n cysylltu aneddiadau gwledig ac sy'n cael eu gweithredu gan fflyd o fysiau a choetsis Fflecsi sy'n gyfforddus ar gyfer teithiau hwy. Bydd cyllid hefyd yn cefnogi llwybrau bysiau Sherpa'r Wyddfa a'r gwasanaeth G23, sy'n cynnig gwasanaethau ar hyd llwybr Abermawr-Harlech-Porthmadog.	Bws a Choets	PT11	Gwynedd	Tymor byr	[redacted]	[redacted]	Arall		Bws 24 - Gwerthuso'r cynlluniau peilot Fflecsi presennol sy'n digwydd ledled Cymru a chynhyrchu canllawiau a fframwaith cyflawni ar gyfer cynlluniau pellach, a fydd yn cefnogi cynlluniau masnachfreinio yn y dyfodol. Ehangu gwasanaethau Fflecsi mewn ardaloedd lle byddant yn darparu'r budd mwyaf. (2022-2025) Bws 25 - Cyflwyno gwasanaethau fflecsi ychwanegol lle bo hynny'n briodol yn seiliedig ar ganfyddiadau peilot a datblygu fframwaith cyflawni (2024-2027 a thu hwnt).	Uwch
107	Rhwydwaith bysiau a choetsis gwledig rhanbarthol Conwy	Cyflwyno rhwydwaith o wasanaethau Fflecsi gwledig rhanbarthol gydag amlder gwasanaeth bob awr yn ymestyn i mewn i'r nosweithiau sy'n cysylltu aneddiadau gwledig ac sy'n cael eu gweithredu gan fflyd o fysiau a choetsis Fflecsi sy'n gyfforddus ar gyfer teithiau hwy.	Bws a Choets	PT11	Conwy	Uchelgeisiol	[redacted]	[redacted]	Arall	Wedi'i wrthbwyso gan refeniw tocynnau	Bws 24 - Gwerthuso'r cynlluniau peilot Fflecsi presennol sy'n digwydd ledled Cymru a chynhyrchu canllawiau a fframwaith cyflawni ar gyfer cynlluniau pellach, a fydd yn cefnogi cynlluniau masnachfreinio yn y dyfodol. Ehangu gwasanaethau Fflecsi mewn ardaloedd lle byddant yn darparu'r budd mwyaf. (2022-2025) Bws 25 - Cyflwyno gwasanaethau fflecsi ychwanegol lle bo hynny'n briodol yn seiliedig ar ganfyddiadau peilot a datblygu fframwaith cyflawni (2024-2027 a thu hwnt).	Uwch

Cynllun Rhif	Enw'r Cynllun	Disgrifiad o'r Cynllun	Thema Polisi	Aliniad Polisi	Awdurdod Lleol Arweiniol	Amserlen	Amcangyfrif Lefel Cost CAPEX	Amcangyfrif Lefel Cost OPEX	Ffynhonnell Ariannu Bosibl	Sut mae costau refeniw yn cael eu talu (lle mae gwybodaeth ar gael)	Aliniad NTDP	Blaenoriaeth
108	Rhwydwaith bysiau a choetsis gwledig rhanbarthol Sir Ddinbych	Cyflwyno rhwydwaith o wasanaethau Fflecsi gwledig rhanbarthol gydag amlder gwasanaeth bob awr yn ymestyn i mewn i'r nosweithiau sy'n cysylltu aneddiadau gwledig ac sy'n cael eu gweithredu gan fflyd o fysiau a choetsis Fflecsi sy'n gyfforddus ar gyfer teithiau hwy.	Bws a Choets	PT11	Sir Ddinbych	Uchelgeisiol	[redacted]	[redacted]	Arall	Cronfa Trafnidiaeth Leol (LTF)	Bws 24 - Gwerthuso'r cynlluniau peilot Fflecsi presennol sy'n digwydd ledled Cymru a chynhyrchu canllawiau a fframwaith cyflawni ar gyfer cynlluniau pellach, a fydd yn cefnogi cynlluniau masnachfreinio yn y dyfodol. Ehangu gwasanaethau Fflecsi mewn ardaloedd lle byddant yn darparu'r budd mwyaf. (2022-2025) Bws 25 - Cyflwyno gwasanaethau fflecsi ychwanegol lle bo hynny'n briodol yn seiliedig ar ganfyddiadau peilot a datblygu fframwaith cyflawni (2024-2027 a thu hwnt).	Uwch
115	Teithiau tacsi â chymhorthdal mewn ardaloedd gwledig i lenwi "bylchau" mewn trafnidiaeth gyhoeddus yn Sir Ddinbych	Gwasanaethau tacsi â chymhorthdal i lenwi bylchau yn y gwasanaeth, fel system wrth gefn sy'n caniatáu i ddefnyddwyr gael mynediad at dacsis am gost isel iawn i ddarparu ar gyfer "bylchau" gofod ac amser. Gall y bylchau fod yn adegau o'r dydd pan nad yw trafnidiaeth gyhoeddus ar gael neu ardaloedd gwledig anghysbell nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan drafnidiaeth gyhoeddus eto.	Trafnidiaeth gymunedol a thacsis ar alw	PT13	Sir Ddinbych	Uchelgeisiol	[redacted]	[redacted]	Arall	Cronfa Trafnidiaeth Leol (LTF)	N/A	Uwch
147	Gwelliannau i Drafnidiaeth Llanbedr	Mae Cyngor Gwynedd yn cydweithio gyda phartneriaid i nodi datrysiadau trafnidiaeth i wella mynediad a lliniaru problemau trafnidiaeth yn Llanbedr. Mae hyn yn cael ei ddatblygu drwy'r broses WelTAG.	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	RS1	Gwynedd	Tymor byr	[redacted]	[redacted]	Arall		N/A	Uwch
154	Prosiect Porth Caernarfon	Fel rhan o raglen adfywio ehangach, adolygu seilwaith yn ardal Penllyn, Caernarfon i gynnwys trosffordd, maes parcio aml-lawr a chyfnewidfa fysiau. Y bwriad yw gweithredu prosiect sy'n ail-ddiffinio'r ardal fel porth allweddol, deniadol, cyfoes i gael mynediad i'r dref.	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	RS6	Gwynedd	Tymor canolig	[redacted]	[redacted]	Arall		N/A	Uwch
156	Safleoedd Lairds Ffordd Biwmares	Mae cynllun Lairds Ffordd Biwmares yn cynnwys gwelliannau i ffordd y B5109, sy'n cysylltu Llangoed â Biwmares.	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	RS1	Ynys Môn	Uchelgeisiol	[redacted]	[redacted]	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Cyllideb Refeniw Cynnal a Chadw Priffyrdd Cyngor Sir Ynys Môn	N/A	Uwch

Cynllun Rhif	Enw'r Cynllun	Disgrifiad o'r Cynllun	Thema Polisi	Aliniad Polisi	Awdurdod Lleol Arweiniol	Amserlen	Amcangyfrif Lefel Cost CAPEX	Amcangyfrif Lefel Cost OPEX	Ffynhonnell Ariannu Bosibl	Sut mae costau refeniw yn cael eu talu (lle mae gwybodaeth ar gael)	Aliniad NTDP	Blaenoriaeth
159	Cynnal a gwella priffyrdd (gan gynnwys treialon cynnal a chadw arloesol), Wrecsam	Cynnal a Gwella Priffyrdd: Ystod o gynlluniau sy'n cynnwys gwella capasiti a diogelwch / gwella mannau cul a gwella cydnerthedd y Rhwydwaith Trafnidiaeth, gyda mesurau penodol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i adnewyddu goleuadau stryd a lliniaru perygl llifogydd. Mae gwaith cynnal a chadw yn rhagosod costau sylweddol i bob awdurdod lleol yn y rhanbarth a bydd Cyngor Wrecsam yn treialu dulliau ail-wynebu sy'n fwy gwyrdd ac yn ein helpu i leihau ein cyfraniad carbon. Gallai hyn ein helpu i fynd i'r afael â phroblemau ar ffyrdd gwledig a allai gael eu hanwybyddu ar hyn o bryd yn seiliedig ar yr angen i flaenoriaethu llwybrau strategol. Bydd Wrecsam hefyd yn treialu jet-patcher, a fydd yn caniatáu cynnal a chadw ychwanegol heb orfod gwneud cynllun ail-wynebu llawn, a fyddai'n caniatáu mwy o waith cynnal a chadw o fewn blwyddyn nodweddiadol. Gallai'r datblygiadau arloesol hyn, os byddant yn llwyddiannus, ddod ag effeithlonrwydd ar draws y rhanbarth, dros gyfnod y cynllun a thu hwnt iddo.	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	RS2	Wrecsam	Tymor byr	[redacted]	[redacted]	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru		N/A	Uwch
264	Gwelliannau capasiti a diogelwch / gwelliannau mannau cyfyng: Gwella capasiti cyffordd a diogelwch yr A5152 Ffordd Smithfield, yn enwedig ar gyfer teithio llesol a bws	Newidiadau i'r gyffordd gylchfan bresennol i wella diogelwch a thraffig drwy wneud defnydd mwy effeithlon o'r gofod ffordd sydd ar gael.	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	RS4	Wrecsam	Tymor hir	[redacted]	[redacted]	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru		N/A	Isaf
267	Gwell cysylltiadau â chyflogaeth: Gwell mynediad i Stad Ddiwydiannol Llai	Gwella hygyrchedd cyffredinol Ystâd Ddiwydiannol Llai, tra'n lleddfu, cyn belled ag y bo'n ymarferol, ardrawiad symudiadau cerbydau trwm ar gymunedau lleol. Mae'r mesurau fel a ganlyn: Seilwaith newydd sy'n cysylltu'r ystâd â'r rhwydwaith cerdded a beicio ehangach presennol, gwelliannau i gyffordd bresennol Croesffyrdd y Goron i wella capasiti a darpariaeth ar gyfer symudiadau cerdded a beicio cynaliadwy, a mesurau rheoli traffig a chyflymder i liniaru'r effeithiau ar gymunedau lleol o symudiadau HGV rhwng yr ystâd a'r rhwydwaith strategol.	Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	RS1	Wrecsam	Uchelgeisiol	[redacted]	[redacted]	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru		N/A	Isaf
270	Ffordd Uchaf Dinbych, Llanelwy	Cyflwyno croesi dan reolaeth a lledu'r droedffordd.	Teithio Llesol	AT1	Sir Ddinbych	Tymor canolig	[redacted]	[redacted]	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Cyllideb Refeniw Cyngor Sir Ddinbych	N/A	Isaf
271	Stryd y Parc, Lôn Dewi Sant, Dinbych	Gwelliannau i'r gyffordd a rhannau newydd o'r Llwybr Teithio Llesol.	Teithio Llesol	AT1	Sir Ddinbych	Tymor canolig	[redacted]	[redacted]	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Cyllideb Refeniw Cyngor Sir Ddinbych	N/A	Isaf

Cynllun Rhif	Enw'r Cynllun	Disgrifiad o'r Cynllun	Thema Polisi	Aliniad Polisi	Awdurdod Lleol Arweiniol	Amserlen	Amcangyfrif Lefel Cost CAPEX	Amcangyfrif Lefel Cost OPEX	Ffynhonnell Ariannu Bosibl	Sut mae costau refeniw yn cael eu talu (lle mae gwybodaeth ar gael)	Aliniad NTDP	Blaenoriaeth
273	Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan	Gwelliannau i'r gyffordd a rhannau newydd o'r Llwybr Teithio Llesol.	Teithio Llesol	AT1	Sir Ddinbych	Uchelgeisiol	[redacted]	[redacted]	Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Cymru	Cyllideb Refeniw Cyngor Sir Ddinbych	N/A	Isaf
282	Gwella cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus ac opsiynau teithio ar gyfer Parc Busnes Llanelwy	Pecyn o fesurau i wella cysylltedd a hygyrchedd opsiynau cludiant cyhoeddus ar gyfer Parc Busnes Llanelwy i gefnogi Strategaeth Economaidd newydd y Cyngor.	Bws a Choets	PT4	Sir Ddinbych	Tymor canolig	[redacted]	[redacted]	Arall	Cronfa Trafnidiaeth Leol (LTF)	N/A	Isaf

Atodiad B - Diagramau Blaenoriaeth y Cynllun Cyflawni (WEDI'I OLYGU)

Cynlluniau blaenoriaeth uwch

Mae'r diagramau'n dangos bod clwstwr mwy o 33 o gynlluniau tymor byr blaenoriaeth uwch, sy'n canolbwyntio ar welliannau teithio llesol cost isel-uchel, a chynlluniau bysiau, cludo nwyddau a ffyrdd a strydoedd. Mae cynlluniau wedi'u gwasgaru ar draws ardaloedd awdurdodau gogledd Cymru. Mae ffynonellau cyllid yn cysylltu â'r dulliau hyn, gan ganolbwyntio ar Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Llywodraeth Cymru, ffynonellau Llywodraeth y DU a ffynonellau eraill.

Mae'r diagramau'n dangos bod clwstwr canolig o 20 o gynlluniau tymor canolig â blaenoriaeth uwch, sy'n canolbwyntio ar gynlluniau teithio llesol cost isel i ganolig, wedi'u hategu gan gynlluniau bysiau, ffyrdd a strydoedd, ac integreiddio, wedi'u gwasgaru ar draws ardaloedd awdurdod Gogledd Cymru. Mae ffynonellau cyllido yn cysylltu â'r dulliau hyn, gan ganolbwyntio ar Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a ffynonellau eraill, a ffynonellau nad ydynt wedi'u diffinio eto.

Mae'r diagramau'n dangos bod clwstwr bach o 2 gynllun tymor hir blaenoriaeth uwch, sy'n canolbwyntio ar gynlluniau teithio llesol cost isel i ganolig, wedi'u gwasgaru ar draws ardaloedd awdurdod Wrecsam a Gwynedd. Mae ffynonellau cyllid yn cysylltu â Chronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Llywodraeth Cymru.

Mae'r diagramau'n dangos bod clwstwr bach o 7 cynllun uchelgeisiol blaenoriaeth uwch, sy'n canolbwyntio ar gynlluniau bysiau cost isel i ganolig, wedi'u hategu gan ffyrdd a strydoedd, tacsi a llogi preifat, a chynlluniau teithio llesol, wedi'u gwasgaru ar draws ardaloedd awdurdodau gogledd Cymru. Mae ffynonellau cyllid yn cysylltu â'r dulliau hyn, gan ganolbwyntio ar Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Llywodraeth Cymru a ffynonellau eraill.

Cynlluniau blaenoriaeth canolig

Mae'r diagramau'n dangos bod clwstwr canolig o 22 cynllun tymor byr â blaenoriaeth ganolig, sy'n canolbwyntio ar welliannau teithio llesol cost isel i ganolig, wedi'u hategu gan ffyrdd a strydoedd, tacsi a llogi preifat, a chynlluniau integreiddio, wedi'u gwasgaru ar draws ardaloedd awdurdodau gogledd Cymru. Mae ffynonellau cyllido yn cysylltu â'r dulliau hyn, gan ganolbwyntio ar Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU neu ffynonellau eraill.

Mae'r diagramau'n dangos bod clwstwr mawr o 49 o gynlluniau tymor canolig â blaenoriaeth ganolig, sy'n canolbwyntio ar gynlluniau teithio llesol isel i gost uchel, cynlluniau ffyrdd a strydoedd, bysiau ac integreiddio, wedi'u gwasgaru ar draws ardaloedd awdurdodau gogledd Cymru. Mae ffynonellau cyllido yn cysylltu â'r dulliau hyn, gan ganolbwyntio ar Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a ffynonellau eraill.

Mae'r diagramau'n dangos bod clwstwr canolig o 14 o gynlluniau tymor canolig â blaenoriaeth uwch, sy'n canolbwyntio ar gynlluniau teithio llesol cost isel i ganolig, wedi'u hategu gan gynlluniau bysiau, ffyrdd a strydoedd, ac integreiddio, wedi'u gwasgaru ar draws ardaloedd awdurdodau gogledd Cymru. Mae ffynonellau cyllido yn cysylltu â'r dulliau hyn, gan ganolbwyntio ar Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Llywodraeth Cymru a ffynonellau sydd eto i'w diffinio.

Mae'r diagramau'n dangos bod clwstwr canolig o 20 o gynlluniau uchelgeisiol tymor canolig â blaenoriaeth uwch, sy'n canolbwyntio ar gynlluniau teithio llesol cost isel i ganolig, wedi'u hategu gan gynlluniau bysiau, ffyrdd a strydoedd, ac integreiddio, wedi'u gwasgaru ar draws ardaloedd awdurdodau gogledd Cymru. Mae ffynonellau cyllido yn cysylltu â'r dulliau hyn, gan ganolbwyntio ar Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Llywodraeth Cymru, trydydd parti, ffynonellau eraill sydd eto i'w diffinio.

Mae'r diagramau'n dangos bod clwstwr canolig o 3 o gynlluniau tymor canolig sydd wedi'u rhoi o'r neilltu ac sydd â blaenoriaeth ganolig, a allai ddod ymlaen yn ystod cyfnod y cynllun, sy'n canolbwyntio ar gynlluniau cost isel i ganolig ar ffyrdd a strydoedd, a bysiau, wedi'u gwasgaru ledled ardaloedd awdurdodau Sir y Fflint (1) ac Ynys Môn (2), yn gysylltiedig â ffynonellau ariannu eraill.

Cynlluniau blaenoriaeth is

Mae'r diagramau'n dangos bod clwstwr llai o 6 o gynlluniau tymor byr blaenoriaeth is, sy'n canolbwyntio ar welliannau teithio llesol cost isel i ganolig, a chynlluniau bysiau, cludo nwyddau a ffyrdd a strydoedd, wedi'u lledaenu ar draws ardaloedd awdurdodau gogledd Cymru. Mae ffynonellau cyllid yn cysylltu â'r dulliau hyn, gan ganolbwyntio ar Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Llywodraeth Cymru a ffynonellau Llywodraeth y DU.

Mae'r diagramau'n dangos bod clwstwr mwy o 23 o gynlluniau tymor canolig â blaenoriaeth is, sy'n canolbwyntio ar welliannau teithio llesol cost isel i ganolig, a chynlluniau bws, cludo nwyddau a ffyrdd a strydoedd, wedi'u lledaenu dros ardaloedd awdurdodau gogledd Cymru. Mae ffynonellau cyllid yn cysylltu â'r dulliau hyn, gan ganolbwyntio ar Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Llywodraeth Cymru, ffynonellau Llywodraeth y DU a ffynonellau sydd eto i'w diffinio

Mae'r diagramau'n dangos bod clwstwr bach o 20 o gynlluniau tymor hir â blaenoriaeth is, sy'n canolbwyntio ar gynlluniau teithio llesol cost isel i ganolig, wedi'u hategu gan gynlluniau ffyrdd a strydoedd, ac integreiddio, wedi'u gwasgaru ar draws ardaloedd awdurdodau Gogledd Cymru. Mae ffynonellau cyllid yn cysylltu â'r dulliau hyn, gan ganolbwyntio ar Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Llywodraeth Cymru, ffynonellau trydydd parti a Llywodraeth y DU.

Mae'r diagramau'n dangos bod clwstwr mwy o 39 o gynlluniau uchelgeisiol â blaenoriaeth is, sy'n canolbwyntio ar gynlluniau teithio llesol ac integreiddio cost isel i uchel, wedi'u hategu gan gynlluniau ffyrdd a strydoedd, cludo nwyddau a bysiau, wedi'u gwasgaru ar draws ardaloedd awdurdod gogledd Cymru. Mae ffynonellau cyllid yn cysylltu â'r dulliau hyn, gan ganolbwyntio ar Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a ffynonellau eraill.

B.1 Diagram Blaenoriaeth – Persbectif Cyflawn

B.2 Diagram Blaenoriaeth – Persbectif cyflawni awdurdodau lleol

B.3 Diagram Blaenoriaeth – Persbectif ffynhonnell ariannu

B.4 Diagram Blaenoriaeth – Persbectif y cwsmer

Tud. 379

Atodiad C Cynlluniau a chostau dros amser

Mae ein blaenoriaethau (a'u Capex amcangyfrifedig dros gyfnod y cynllun) yn cael eu dosbarthu dros amser fel a ganlyn:

Lefel blaenoriaeth / Amserlen	Isaf	Canolig	**Uwch**
Nifer Tymor byr (FY 2026/27)	6 (£24.78m)	22 (£50.38m)	**33** **(£163.58m)**
Nifer Tymor canolig (FYs 2027-30)	23 (£182.2m)	47 (£234.4m)	**20** **(£96.9m)**
Nifer Tymor hir (FY 2030/31)	10 (£47.93m)	14 (£9.35m)	**2** **(£9.5m)**
Nifer Uchelgeisiol (FY 2031/32+)	39 (£243.9m)	19 (£70.24m)	7 (£16.3m)
Nifer neilltuwyd	0	3 (£45.5m)	0

O'r cyfansymiau Capex a gyflwynir uchod, mae'r tabl canlynol yn darparu'r swm disgwyliedig o gyllid trafnidiaeth ranbarthol Llywodraeth Cymru sydd ei angen i fodloni'r ffigurau Capex cyffredinol a nodir uchod:

Lefel Blaenoriaeth / Amserlen	Isaf	Canolig	**Uwch**
Tymor byr (FY 2026/27)	£21.78m (87.9%)	£43.53m (86.4%)	**£113.51m (69.6%)**
Tymor Canolig (FYs 2027-30)	£23.15m (12.7%)	£93.35m (39.8%)	**£28.9m (29.8%)**
Tymor Hir (FY 2030/31)	£5.43m (11.3%)	£8.85m (94.6%)	**£9.25m (97.3%)**
Uchelgeisiol (FY 2031/32+)	£232.9m (95.5%)	£54.65m (77.8%)	£8m (49%)
Neilltuwyd	0	0	0

Atodiad 1 Y dull o arfarnu gan ddefnyddio'r offeryn blaenoriaethu

Cam 1: Diffinio amcanion a mesurau'r cynllun

Yn seiliedig ar bedwar amcan (SMART) y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, dewiswyd metrigau perthnasol i helpu i alluogi dadansoddiad GIS ar gyfer pob cynllun. Mae Tabl 0-1 yn dangos y metrigau a ddewiswyd a'u cymhwyso.

Tabl 0-1: Metrig ar gyfer Amcanion (SMART) Trafnidiaeth Ranbarthol 01

Tabl 0-1: Metrig ar gyfer Amcanion (SMART) Trafnidiaeth Ranbarthol 01

Amcan	Disgrifiad Amcan	Mesurau		
OB1	Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol	Cyflymder Band Eang (Ofcom2[2])	Pellter a deithiwyd i'r gwaith (Cyfrifiad3[3])	Math o fodd ar gyfer teithio gwaith (Cyfrifiad)
OB2	Gwell hygyrchedd a dewis trafnidiaeth	Mynediad at Iechyd (WIMD4[4])	Mynediad at Gyflogaeth (WIMD)	Mynediad at Wasanaethau (WIMD)
OB3	Galluogi datgarboneiddio drwy bontio i fflyd dim allyriadau	Lefelau llygredd aer o'r sector trafnidiaeth (data Trafnidiaeth Cymru)	Lefelau presennol o Seilwaith EV (ZapMap5[5])	Lefelau perchnogaeth allyriadau isel iawn (data Llywodraeth y DU)
OB4	Galluogi twf economaidd cynaliadwy	Mynediad at Gyflogaeth (WIMD)	Math o fodd ar gyfer teithio gwaith (Cyfrifiad)	Statws Gweithgarwch Economaidd (Cyfrifiad)

Cam 2: Llenwch ddisgrifiad a chrynodeb y cynllun

Ychwanegir disgrifiadau a chrynodebau o bob cynllun at y ddalen ddisgrifiad a sgrinio Cynllun gan ddefnyddio'r gwymplen priodol ym mhob colofn. Bydd y daflen yn cynnwys rhif a disgrifiad y cynllun ochr yn ochr â manylion o fewn y categorïau gan gynnwys:

- Crynodeb o'r gwaith a wnaed hyd yma
- Rhyng-ddibyniaethau'r cynllun
- Cysylltedd
- Amserlen cyflawni a ragwelir
- Awdurdod Lleol (arweiniol / eraill)
- Dulliau Trafnidiaeth
- Lefel Cost Gwariant cyfalaf (CapEx)
- Lefel Cost Treuliau Gweithredu (OpEx)
- Ffynonellau Cyllid Posibl

Mae amcangyfrif o gyfalaf y cynllun a chostau gweithredu parhaus yn cael eu hychwanegu yn ystod y cam hwn. Nid yw'r costau amcangyfrifedig yn cael eu defnyddio fel metrig uniongyrchol i lywio'r blaenoriaeth gyffredinol, fodd bynnag, ystyrir y bydd effaith cynlluniau drutach a chymhleth yn cael ei hadlewyrchu yn yr arfarniad yn erbyn y meini prawf cyflawni yng Ngham 5.

[2] Ofcom yw'r rheoleiddiwr ar gyfer y gwasanaethau cyfathrebu.

[3] Mae'r cyfrifiad yn gyfrif cyfnodol swyddogol o boblogaeth gan gynnwys gwybodaeth ddemograffig gyffredinol.

[4] Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bychain yng Nghymru.

[5] Mae Zapmap yn fap ledled y DU o bwyntiau gwefru ceir trydan.

Cam 3: Hidlo Lefel Uchel Cyntaf

Defnyddir y cam hwn i hidlo'r cynlluniau a allai gael effaith andwyol fawr ar yr amcanion neu nad oes modd eu cyflawni oherwydd cyfyngiadau amgylcheddol neu gyfreithiol. Mae cynlluniau yn cael eu sgorio ar hyn o bryd gan ddefnyddio barn broffesiynol wedi'i lywio gan y mewnbynnau tystiolaeth, gyda rhagor o fanylion yn y golofn cyfiawnhad.

Cam 4: Dadansoddiad GIS ac arfarniad gwrthrychol

Mae Cam 4 yn cynnwys cynnal dadansoddiad GIS o'r metrigau meintiol a adnabuwyd ar gyfer pob un o'r pedwar amcan a adnabuwyd yng Ngham 1.

Mae pob ymyrraeth yn cael ei werthuso yn erbyn pob amcan. Mae'r arfarniad yn cael ei ategu gan ddata lle mae'n berthnasol, a darperir cyfiawnhad ysgrifenedig cyffredinol i gyd-fynd â'r sgoriau gan ddefnyddio graddfa saith pwynt, fel y mae dull cyfarwydd a gymhwysir yng Nghanllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG).

Defnyddir y setiau data a'r dadansoddiad GIS i ategu sgôr cyfiawnhad arfarnu. Mae cymhwyso'r data yn ddewisol ar sail cynllun wrth gynllun yn dibynnu ar a yw dadansoddiad gofodol yn briodol ar gyfer gwahanol fathau o gynlluniau, er enghraifft efallai na fydd ar gyfer cynlluniau nad ydynt yn cynnwys datblygiad y gellir ei gyfyngu i bwyntiau, llinellau neu polygonau. Lle na ellir cymhwyso GIS, cynhelir arfarniad ansoddol yn seiliedig ar farn broffesiynol.

Mae cynnal dull cyson o bob cynllun o fewn yr offeryn yn bwysig a defnyddir proses adolygu gan gymheiriaid i gymharu a dilysu sgoriau gwerthuso tebyg i gynnal cysondeb.

Cam 5: Arfarniad cyflawni

Defnyddir y daflen arfarnu cyflawnadwy i werthuso pob cynllun gan ddefnyddio meini prawf cyflawnadwyedd allweddol. Defnyddir yr un peth yng Ngham 3 *Hidlo Lefel Uchel Cyntaf*; y gwahaniaeth allweddol rhwng Cam 5 a Cham 3 yw bod angen cyfiawnhad clir o'r sgôr i gwblhau'r tab Cyflawnadwyedd.
Mae'r meini prawf yn cynnwys:

- Effaith/materion amgylcheddol
- Materion tir
- Caniatâd Cynllunio a chyfreithiol
- Derbynioldeb rhanddeiliaid
- Ymgynghoriad
- Adeiladadwyedd
- Aflonyddwch

Cam 6: Blaenoriaethu cynlluniau

Mae crynodeb o'r sgoriau gwerthuso wedi'i gynnwys mewn taflen Crynodeb Arfarnu. Darperir sgoriau ar wahân ar gyfer amcanion a pherfformiad cyflawnadwyedd. Gellir defnyddio'r rhain i lywio rhestr wedi'i blaenoriaethu o gynlluniau. Mae'r sgôr blaenoriaethu canlyniadol yn cael ei gefnogi gan gyfiawnhad sy'n crynhoi'r arfarniad cyffredinol.

Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Arfarniad Llesiant Integredig Crynodeb Annhechnegol

Gorffennaf 2025








Arfarniad Llesiant Integredig

Crynodeb Annhechnegol

Cynnwys

1.	Crynodeb Annhechnegol	1
1.1	Pwrpas y Crynodeb Annhechnegol	1
1.2	Beth yw Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWRTP)?	1
1.3	Beth yw'r Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA)?	2
1.4	Ymgysylltu ac ymgynghori	2
1.5	Cwmpas yr IWBA	3
1.6	Amcanion IWBA	3
1.7	Sgorio'r arfarniad	7
1.8	Deilliannau'r arfarniad	7
1.9	Uchelgeisiau Llesiant Cymru	13
1.10	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Pum Ffordd o Weithio	21
1.11	Argymhellion	22
1.12	Monitro a gwerthuso	25

1. Crynodeb Annhechnegol

1.1 Pwrpas y Crynodeb Annhechnegol

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno crynodeb, mewn iaith annhechnegol, o Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA) Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft Gogledd Cymru (NWRTP).

1.2 Beth yw Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWRTP)?

Nod y NWRTP yw datrys problemau trafnidiaeth yn ardal Gogledd Cymru dros y pum mlynedd nesaf (2025 - 2030). Bydd yn llywio penderfyniadau ar ble i fuddsoddi i ymdrin â materion trafnidiaeth lleol a rhanbarthol yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r cynllun yn dangos sut all trafnidiaeth gefnogi'r gwaith o gyflawni Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, ac annog twf ac adfywiad yn y rhanbarth.

Mae'r NWRTP yn cynnwys polisïau i gefnogi gweledigaeth ac uchelgeisiau Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Mae Cynllun Monitro a Gwerthuso wedi'i ddatblygu ochr yn ochr â'r NWRTP i helpu i sicrhau bod targedau trafnidiaeth a newid hinsawdd yn cael eu diwallu, tra hefyd yn cyfrannu at y mesurau a amlinellir yn Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Dylid darllen y NWRTP ochr yn ochr â'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTDP) sy'n amlinellu cynlluniau'r awdurdod lleol fydd yn cael eu datblygu i helpu i gyflawni'r NWRTP.

1.2.1 Y weledigaeth

Mae'r weledigaeth a ddatblygwyd ar gyfer y NWRTP yn datgan:

'Bydd gan Ogledd Cymru rwydwaith trafnidiaeth integredig diogel, cynaliadwy, fforddiadwy, gwydn ac effeithiol sy'n cefnogi twf economaidd, ffyniant i bawb, cynhwysiant a lles'.

Cefnogir y weledigaeth gan bedwar amcan, a fydd yn helpu i fonitro a gwerthuso llwyddiant NWRTP:

1. Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol: Byddwn yn galluogi 30% neu fwy o bobl yng Ngogledd Cymru i weithio o bell erbyn 2030 trwy gynllunio defnydd tir yn well a gwella cysylltedd digidol, a ddylai leihau'r angen cyffredinol i deithio a galluogi teithiau byrrach sy'n fwy addas ar gyfer dulliau cynaliadwy.
2. Gwell hygyrchedd a dewis trafnidiaeth**:** Byddwn yn datblygu isadeiledd a gwasanaethau sy'n rhoi dewis i bobl sut maent yn teithio ar gyfer pob taith ac yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy trwy wella mynediad i aneddleoedd allweddol, cyflogaeth, safleoedd addysgol ac atyniadau twristaidd. Dylid gwella hygyrchedd pob atyniad taith allweddol, gan gefnogi'r targed rhannu modd cenedlaethol o 45% o deithiau i'w gwneud trwy gerdded, olwyno, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus erbyn 2040.
3. Galluogi datgarboneiddio drwy newid i fflyd dim allyriadau: Byddwn yn datblygu isadeiledd ategol a chefnogi cymhellion i alluogi o leiaf 50% o gerbydau modur a phob bws cyhoeddus sy'n gweithredu yng Ngogledd Cymru i fod yn ddi-allyriadau erbyn 2035.
4. Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy**:** Byddwn yn datblygu rhwydwaith trafnidiaeth gwydn, diogel, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, ac effeithlon sy'n darparu twf economaidd cynaliadwy drwy wella hygyrchedd i ardaloedd cyflogaeth presennol a rhai sydd wedi'u cynllunio. Bydd o leiaf 50% o aelwydydd Gogledd Cymru yn gallu teithio'n bellach o fewn un awr ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gefnogi mynediad i safleoedd cyflogaeth allweddol a chanolfannau rhanbarthol erbyn 2030.

1.2.2 Polisïau trafnidiaeth

Mae'r polisïau drafft sydd wedi'u datblygu ar gyfer NWRTP yn seiliedig ar themâu polisi sy'n cynnwys:

- Galluogi newidiadau i ymddygiad teithio
- Bws
- Coetsis, trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw a thrafnidiaeth gymunedol
- Cerdded, olwyno a beicio
- Integreiddio rhwng dulliau
- Porthladdoedd a chludo llwythi
- Ffyrdd, strydoedd, a pharcio
- Mynediad ar y ddaear at awyrennau
- Cysylltedd digidol
- Cynllunio defnydd tir

Mae dwy thema bolisi arall sy'n cynnwys rheilffyrdd a'r rhwydwaith ffyrdd strategol (gan gynnwys ffyrdd A). Fodd bynnag, nid oes gan Uchelgais Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol reolaeth uniongyrchol dros y meysydd hyn felly nid oes polisïau penodol yn y NWRTP, dim ond dyheadau.

1.3 Beth yw'r Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA)?

Rhaid i unrhyw bolisïau, cynlluniau a rhaglenni trafnidiaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru gynnwys arfarniad llesiant integredig sy'n dangos sut y bydd yn hyrwyddo llesiant yng Nghymru, gan gyfrannu at y pedwar uchelgais llesiant a'r targedau penodol ar gyfer trafnidiaeth. Mae'r canllawiau IWBA a nodir fel rhan o Ganllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) yn nodi cyfres o bedwar cwestiwn i'w gofyn wrth ddatblygu polisïau neu brosiectau. Mae'r rhain wedi'u rhestru isod ynghyd â phynciau sy'n cael eu hystyried o dan bob un o'r cwestiynau:

1. Sut bydd o fudd i **bobl** a **chymunedau**? (cydraddoldeb, iechyd, diogelwch a hyder)
2. Sut bydd o fudd i'r **amgylchedd**? (lleihau allyriadau carbon, buddiol i fioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau a lleihau gwastraff)
3. Sut bydd o fudd i **leoedd** a'r **economi**? (creu lleoedd, arloesi, cludo llwythi)
4. Sut bydd o fudd i **ddiwylliant** a'r **iaith Gymraeg**? (y celfyddydau a chwaraeon, yr amgylchedd hanesyddol a chyfleoedd i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg)

Gellir defnyddio IWBA ar gyfer asesu effeithiau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol posib cynllun, ac mae'n gosod datblygu cynaliadwy yng nghanol y broses gwneud penderfyniadau. Nid yw'n disodli'r angen am asesiadau statudol (fel y rhai sy'n ofynnol gan y gyfraith) ac felly cefnogir yr IWBA gan wahanol asesiadau effaith gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r amgylchedd, llesiant, yr iaith Gymraeg, hawliau plant, cydraddoldeb, adnoddau naturiol, iechyd, prawfesur gwledig, newid hinsawdd ac ecoleg / cynefinoedd.

1.4 Ymgysylltu ac ymgynghori

Mae'r NWRTP yn mabwysiadu agwedd gydweithredol a chyfranogol, gan ystyried gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae ymgysylltu â rhan-ddeiliaid wedi helpu i lunio'r NWRTP, er enghraifft mae Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a Trafnidiaeth Cymru wedi dweud wrthym am yr hyn y maent am ei weld ar gyfer y system drafnidiaeth yng Ngogledd Cymru.


Paratowyd adroddiad cwmpasu IWBA ac fe'i cyflwynwyd i ymgyngoreion statudol (gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw) am gyfnod o 5 wythnos rhwng 15 Hydref tan 19 Tachwedd 2024. Amlinellodd yr adroddiad cwmpasu ddull o ymdrin â'r asesiadau effaith fel rhan o'r IWBA, y data gwaelodlin, cynlluniau rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol perthnasol, polisïau ac amcanion cynaliadwyedd, a'r fethodoleg asesu. Roedd hefyd yn awgrymu amcanion IWBA i osod fframwaith ar gyfer asesu (y Fframwaith IWBA).

Cyflwynwyd IWBA drafft ochr yn ochr â NWRTP drafft i'w ymgynghori am gyfnod o 12 wythnos (rhwng 20 Ionawr ac 14 Ebrill 2025).

Mae'r sylwadau a dderbyniwyd wedi'u hystyried yn ofalus a, lle bo'r angen, gwnaed newidiadau i ymdrin â'r sylwadau. Bydd y dogfennau NWRTP terfynol yn cael eu mabwysiadu a'u cyhoeddi ochr yn ochr â Datganiad Ôl-Fabwysiadu sy'n egluro sut mae'r IWBA a'r adborth wedi siapio'r dogfennau.

1.5 Cwmpas yr IWBA

Mae cwmpas daearyddol yr IWBA yn cyd-fynd â rhanbarth Gogledd Cymru, h.y. ardaloedd awdurdod lleol Ynys Môn, Wrecsam, Conwy, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, a Gwynedd (gweler Ffigwr 1).



Ffigwr **1**: Awdurdodau Lleol a gynhwysir yng Nghynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (gyda Pharc Cenedlaethol Eryri mewn gwyrdd)

Rhoddir ystyriaeth hefyd i ardaloedd cyfagos Cymru a Lloegr, yn enwedig Caer a Lerpwl gan fod ymfudo sylweddol y ddwy ffordd dros y ffin mewn perthynas â chyflogaeth, gwasanaethau (e.e. iechyd) ac addysg. Mae presenoldeb ardaloedd arfordirol yn ardal yr astudiaeth hefyd yn dangos fod effeithiau daearol a morol perthnasol yn bosib a bydd angen eu hystyried yn yr IWBA.

O ran amserlenni, mae'r NWRTP yn gosod y cynllun 5 mlynedd ar gyfer y rhanbarth (2025-2030) sydd yn 'fyrdymor' o safbwynt arfarniad llesiant. Mae'r arfarniad wedi nodi y byddai effeithiau sy'n deillio o bolisïau'r NWTRP yn debygol o arwain at effeithiau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r amserlen pum mlynedd hon ac sydd wedi'u nodi fel rhai 'hirdymor'.

1.6 Amcanion IWBA

Mae'r Fframwaith IWBA yn cynnwys cyfres o amcanion sydd wedi'u datblygu i asesu cynaliadwyedd y polisïau (neu grŵp o bolisïau) a amlinellir yn y NWRTP drafft. Mae'r rhain yn ategu pedwar amcan NWRTP ac mae'n ofynnol i amcanion IWBA ddarparu modd y gellir asesu perfformiad amgylcheddol y cynllun.

Nodwyd amcanion yr IWBA, a restrir yn Nhabl 1 ochr yn ochr â'r cwestiynau gwerthuso, i ddechrau ar y cam cwmpasu ac maent wedi'u creu i ystyried y canlynol: Tabl 1

- **Cyd-destun NWRTP**: mae themâu allweddol o adolygiad o Gynlluniau, Rhaglenni ac Amcanion [cynaliadwyedd] (PPO) (Adroddiad IWBA, Adran 3.2) a'r materion a'r cyfleoedd cynaliadwyedd

allweddol o'r adolygiad data gwaelodlin (Adroddiad IWBA, Adran 4.2), wedi'u defnyddio i ddatblygu amcanion arfarniad sy'n benodol i'r NWRTP.

- **Nodau Llesiant**: Mae uchelgeisiau llesiant Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (WTS) wedi'u cysylltu'n glos â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn pwysleisio lles hirdymor, diogelu'r amgylchedd, a chynnydd cymdeithasol.
- **Asesiadau statudol** - mae amcanion yr arfarniad wedi'u datblygu i gwmpasu gofynion yr asesiadau statudol a amlinellwyd yn Adran 1.3 uchod a'u rheoliadau perthnasol. 1.3

I grynhoi, mae Fframwaith IWBA yn darparu dull strwythuredig i sicrhau bod NWRTP yn cyd-fynd â nodau llesiant ehangach ac yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy yng Ngogledd Cymru.

Mae pob un o'r cwestiynau a amlinellwyd yn Adran 1.3 wedi cael eu hateb gan ystyried amcanion yr IWBA i ystyried ystod eang o effeithiau posibl polisïau NWRTP.
Mae Tabl 1 yn nodi pa amcan IWBA sy'n berthnasol i bob un o'r pynciau IWBA a gafodd eu cwmpasu yn yr arfarniad, yn ogystal â pha uchelgais Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (WTS) maent yn anelu i fynd i'r afael ag ef.

Tabl 1 - Amcanion yr IWBA, cwestiynau'r arfarniad a sut maent yn cyd-fynd â phob pwnc a thema gyffredinol yr IWBA

Amcanion IWBA	Sut y byddwn yn profi p'un a yw'r amcan wedi'i ddiwallu? A fydd y NWRTP yn.....	Pwnc IWBA Perthnasol	Cyd-fynd ag uchelgais WTS
1. Cefnogi'r gwaith o ddarparu tai a gwasanaethau lleol i ddiwallu anghenion cymunedau lleol	• Cefnogi creu cymunedau sy'n cynnig opsiynau trafnidiaeth hyfyw a chynaliadwy mewn a rhwng lleoliadau? • Gwella mynediad at wasanaethau lleol?	Poblogaeth Iechyd pobl Seilwaith Economi	Pobl a Chymunedau
2. Lleihau anghydraddoldeb a hyrwyddo cydlyniant cymunedol	• Gwella amodau amgylcheddol ac ansawdd bywyd i'r cymunedau mwyaf difreintiedig? • Cefnogi anghenion aelodau'r gymdeithas sydd â nodweddion gwarchodedig? • Gwella hygyrchedd cludiant cyhoeddus a theithio llesol i bob aelod o'r gymuned? • Ymgysylltu â rhan-ddeiliaid, partneriaid a chymunedau lleol? • Creu cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad cymunedol? • Cefnogi anghenion cludiant plant?	Poblogaeth Iechyd pobl Treftadaeth ddiwylliannol Cludiant Economi	Pobl a chymunedau

Amcanion IWBA	Sut y byddwn yn profi p'un a yw'r amcan wedi'i ddiwallu? A fydd y NWRTP yn.....	Pwnc IWBA Perthnasol	Cyd-fynd ag uchelgais WTS
3. Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth leol, gan gynnwys mewn perthynas ag iechyd corfforol a meddyliol	• Annog y defnydd o deithio llesol? • Gwella cysylltedd rhwng cymunedau lleol, yn enwedig mewn ardaloedd lleol? • Lleihau ynysu cymdeithasol? • Lleihau difrod ffisegol a gwella diogelwch gwasanaethau a seilwaith trafnidiaeth? • Gwella mynediad at wasanaethau iechyd allweddol? • Gwella mynediad at wasanaethau hamdden? • Mynediad cyhoeddus at ofodau gwyrdd?	Poblogaeth Iechyd pobl Defnydd tir a thirwedd Ansawdd aer Sŵn Economi	Pobl a chymunedau
4. Cadw, gwarchod a gwella buddiannau bioamrywiaeth a daearamrywiaeth, gan gynnwys drwy ddiogelu safleoedd, rhywogaethau a chynefinoedd pwysig.	• Achosi niwed neu unrhyw ddirywiad yng nghyflwr unrhyw safleoedd dynodedig? • Arwain at golli cynefinoedd gwerthfawr? • Cyflawni cyfleoedd i adfer neu greu cynefinoedd lled-naturiol? • Cyflawni budd net i fioamrywiaeth a chyfrannu at wytnwch ecosystemau?	Bioamrywiaeth Amodau'r ddaear Yr amgylchedd dŵr	Yr Amgylchedd
5. Gwarchod a gwella cymeriad y dirwedd, dynodiadau a mwynderau gweledol yn yr ardal leol	• Achosi niwed i unrhyw dirweddau dynodedig neu warchodedig? • Arwain at wella amodau a chymeriad unrhyw dirweddau gwarchodedig neu ddynodedig? • Lleihau effeithiau andwyol traffig y ffordd a pharcio ar dirweddau a dynodiadau? • O ganlyniad, collir darn o'r tir Gorau a Mwyaf Aml-bwrpas (BMV)? • Cyfrannu at reoli teithio mewn ardaloedd twristiaeth yn effeithlon yn ystod cyfnodau prysur?	Defnydd tir a thirwedd Treftadaeth ddiwylliannol Economi	Lleoedd a'r economi
6. Gwarchod a gwella'r dreftadaeth ddiwylliannol leol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg	• Achosi niwed uniongyrchol neu anuniongyrchol i asedau treftadaeth dynodedig? • Gwella cyflwr neu leoliad asedau treftadaeth dynodedig? • Darparu mesurau i osgoi a/neu liniaru niwed i asedau treftadaeth heb eu dynodi? • Cefnogi cymunedau Cymraeg? • Cynnwys mentrau i weithredu ac annog defnydd o'r Gymraeg?	Poblogaeth Treftadaeth ddiwylliannol	Diwylliant a'r Iaith Gymraeg

Amcanion IWBA	Sut y byddwn yn profi p'un a yw'r amcan wedi'i ddiwallu? A fydd y NWRTP yn.....	Pwnc IWBA Perthnasol	Cyd-fynd ag uchelgais WTS
7. Gwarchod a gwella iechyd dŵr daear, cyrff dŵr wyneb ac arfordirol, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr.	• Cael effaith negyddol ar adnoddau dŵr a ddefnyddir ar gyfer echdynnu dŵr? • Cael effaith negyddol ar ansawdd adnoddau dŵr? • Cael effaith negyddol ar iechyd cyffredinol cyrff dŵr? • Helpu i gyflawni mesurau corff dŵr WFD a chefnogi cyrff dŵr WFD i gyflawni statws ecolegol 'da'?	Amodau'r ddaear Yr amgylchedd dŵr	Yr Amgylchedd
8. Cefnogi trosglwyddiad tuag at sector trafnidiaeth gydag allyriadau carbon is (gan gynnwys dim allyriadau) a gwella gwytnwch y seilwaith trafnidiaeth i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd.	• Helpu i gyrraedd targedau Cymru i fod yn 'sero net' erbyn 2050? • Cynyddu symudiad moddol o geir preifat i gludiant cyhoeddus a theithio llesol. • Cynnwys cyfleoedd i gefnogi datgarboneiddio'r adran drafnidiaeth? • Cefnogi defnydd o danwydd glanach ar gyfer trafnidiaeth, gan gynnwys cerbydau trydan? • Cynnwys mesurau i gynyddu gwytnwch seilwaith presennol a newydd i effeithiau newid hinsawdd? • Lleihau effaith digwyddiadau tywydd eithafol ar y rhwydwaith trafnidiaeth? • Lleihau'r angen i deithio i gael mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau allweddol?	Ffactorau hinsawdd Cludiant	Yr Amgylchedd
9. Gwarchod a gwella ansawdd aer lleol.	• Gwella ansawdd aer i gymunedau? • Achosi dirywiad mewn ansawdd aer? • Cynnwys mentrau i annog pobl i fanteisio ar deithio llesol a chludiant cyhoeddus?	Iechyd pobl Ansawdd aer	Yr Amgylchedd
10. Lleihau aflonyddwch o sŵn sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth a dirgryniad i gymunedau lleol.	• Gwella'r seinluniau lleol? • Arwain at ostyngiad mewn llygredd sŵn? • Cynnwys mentrau i annog pobl i fanteisio ar deithio llesol a chludiant cyhoeddus?	Iechyd pobl Sŵn	Pobl a chymunedau
11. Ymgorffori egwyddorion yr economi gylchol i leihau'r defnydd o ddeunyddiau crai.	• Defnyddio deunyddiau o ffynonellau cynaliadwy a sicrhau bod deunyddiau ac adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon? • Cynnwys mentrau trafnidiaeth a seilwaith sy'n golygu bod modd casglu ailgylchu a gwastraff, ei gludo, ei ddidoli a'i reoli'n effeithiol? • Cefnogi trosglwyddo'r fflyd casglu gwastraff i danwydd glanach, megis defnyddio EV? • Annog y defnydd o ddeunyddiau lleol?	Adnoddau a gwastraff Economi	Yr Amgylchedd

Amcanion IWBA	Sut y byddwn yn profi p'un a yw'r amcan wedi'i ddiwallu? A fydd y NWRTP yn.....	Pwnc IWBA Perthnasol	Cyd-fynd ag uchelgais WTS
12. Creu system drafnidiaeth integredig sy'n hwyluso symudiad effeithlon a diogel pobl a chludo nwyddau, gan gyfrannu at fwy o ffyniant economaidd yn y rhanbarth.	• Cynyddu'r tir sydd ar gael ar gyfer datblygu cyflogaeth? • Cefnogi mynediad teg i gyfleoedd cyflogaeth, addysg a hyfforddiant? • Gwella dibyniaeth a gwytnwch y rhwydwaith trafnidiaeth i gefnogi busnesau a gweithwyr yn well? • Annog adfywiad a buddsoddiad, yn enwedig mewn ardaloedd mwy difreintiedig? • Gwella mynediad rhwng Lloegr a Gogledd Cymru a gwella mynediad rhwng Gogledd a De Cymru? • Annog mynediad cynaliadwy i gyfleusterau ac atyniadau i dwristiaid? • Cefnogi'r economi wledig? • Gwarchod a gwella harddwch naturiol yr ardal?	Poblogaeth Economi Cludiant	Lleoedd a'r economi

1.7 Sgorio'r arfarniad

Bydd opsiynau NWRTP yn cael eu hasesu yn erbyn amcanion IWBA gan ddefnyddio'r cwestiynau cyfatebol a nodwyd yn Nhabl 2.

Mae sgôr wedi'i neilltuo i bob amcan gan ddefnyddio'r meini prawf a amlinellir yn Nhabl 2 yn dibynnu ar y math a'r lefel o effaith y mae'r polisi NWRTP, neu grŵp o bolisïau, yn debygol o gael ar yr amcan. Mae arfarniad ansoddol (an-rhifol) yn cyd-fynd â hyn sy'n disgrifio'r effeithiau tebygol a nodwyd, gan ddarparu cyfeiriadau lle bo hynny'n briodol.

Tabl 2: Meini Prawf Sgorio IWBA2

Sgôr IWBA	Diffiniad
++	Effaith gadarnhaol sylweddol debygol
+	Effaith gadarnhaol bosibl fychan
0	Effaith ddibwys debygol
-	Effaith negyddol fechan debygol
--	Effaith negyddol sylweddol debygol
?	Effaith debygol yn ansicr
+/-	Yn debygol o fod yn gymysgedd o effeithiau cadarnhaol a negyddol

1.8 Deilliannau'r arfarniad

Mae'r Adroddiad IWBA a'i atodiadau yn cyflwyno'r canlyniadau asesu llawn a manwl ar gyfer y NWRTP. Cyflwynir crynodeb o sgoriau asesu'r IWBA yn Nhabl 3 ac yna naratif asesu mewn ymateb i bedair uchelgais WTS yn Adran 1.9.

Tabl 3 - Sgoriau IWBA ar gyfer pob polisi/grŵp polisi yn erbyn pob Amcan IWBA

Amcanion IWBA	1. Cyflawniad tai a gwasanaethau lleol	2. Lleihau anghydraddoldeb a hyrwyddo cydlyniant	3. Iechyd a Llesiant	4. Bioamrywiaeth	5. Ardaloedd cymeriad y dirwedd a safleoedd dynodedig	6. Diwylliant a'r iaith Gymraeg	7. Iechyd dŵr	8. Datgarboneiddio	9. Ansawdd aer	10. Sŵn a seinluniau lleol	11. Economi gylchol a llai o ddefnydd ar ddeunydd crai	12. Ffyniant economaidd
Uchelgais WTS / Grŵp polisi	Pobl a chymunedau	Pobl a chymunedau	Pobl a chymunedau	Yr Amgylchedd	Lleoedd a'r Economi	Diwylliant a'r iaith Gymraeg	Yr Amgylchedd	Yr Amgylchedd	Yr Amgylchedd	Pobl a chymunedau	Yr Amgylchedd	Lleoedd a'r Economi
Galluogi newidiadau i ymddygiad teithio												
Polisi CB1 – CB7: Rhoi dewis i bobl ynghylch sut maent yn cymudo	++	?	++	?	+/-	+	+	+	+	+	+	++
Polisi CB8 – CB12: Rhoi dewisiadau i bobl ynghylch sut maent yn cael mynediad at wasanaethau ac addysg	++	++	++	?	0	+	+	++	+	+	+	+
Polisi CB13: Rhoi dewisiadau i bobl mewn ardaloedd gwledig a lled-wledig	+	++	++	+	0	+	+	+	+	+	+	+
Polisi CB14 - CB23: Rhoi gwybodaeth i bobl i wneud dewisiadau teithio mwy cynaliadwy a chefnogi'r sector twristiaeth	0	++	+	+	+	+	+	+	+	+	+	+
Bws, coets a chludiant cymunedol												
Polisi PT1: Masnachfreinio Bysiau	+	++	+	+	+	+	+	+	+	+	+	++

Amcanion IWBA	1. Cyflawniad tai a gwasanaethau lleol	2. Lleihau anghydraddoldeb a hyrwyddo cydlyniant	3. Iechyd a Llesiant	4. Bioamrywiaeth	5. Ardaloedd cymeriad y dirwedd a safleoedd dynodedig	6. Diwylliant a'r iaith Gymraeg	7. Iechyd dŵr	8. Datgarboneiddio	9. Ansawdd aer	10. Sŵn a seinluniau lleol	11. Economi gylchol a llai o ddefnydd ar ddeunydd crai	12. Ffyniant economaidd
Uchelgais WTS / Grŵp polisi	Pobl a chymunedau	Pobl a chymunedau	Pobl a chymunedau	Yr Amgylchedd	Lleoedd a'r Economi	Diwylliant a'r iaith Gymraeg	Yr Amgylchedd	Yr Amgylchedd	Yr Amgylchedd	Pobl a chymunedau	Yr Amgylchedd	Lleoedd a'r Economi
Polisi PT2 - PT3: Datgarboneiddio'r fflyd bysiau	0	+	+	+	0	0	+/-	++	+	0	+	0
Polisi PT4 – PT5: Rhwydwaith Trawsnewid Bysiau	+	++	+	+	+	+	+	+	+	+	+	++
Polisi PT6 – PT8: Gwella'r seilwaith bysiau	+	++	+	+	+	+	+/-	+	+	+	+	+
Polisi PT9 – PT10: Gwneud teithio ar fws yn haws	+	++	+	+	+	+	+	+	+	+	+	+
Coetsis, trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw a thrafnidiaeth gymunedol												
Polisi PT11 – PT12: Gwasanaethau Fflecsi a Galw a Theithio	++	++	+	+	0	+	+	?	?	+	+	+
Polisi PT13: Tacsi	+	+	+	+	0	+	0	+	+	0	+	+
Polisi PT14: Gwasanaethau coets sy'n teithio ymhellach	0	+	+	0	0	+	+	+	+	+	+	+

Amcanion IWBA	1. Cyflawniad tai a gwasanaethau lleol	2. Lleihau anghydraddoldeb a hyrwyddo cydlyniant	3. Iechyd a Llesiant	4. Bioamrywiaeth	5. Ardaloedd cymeriad y dirwedd a safleoedd dynodedig	6. Diwylliant a'r iaith Gymraeg	7. Iechyd dŵr	8. Datgarboneiddio	9. Ansawdd aer	10. Sŵn a seinluniau lleol	11. Economi gylchol a llai o ddefnydd ar ddeunydd crai	12. Ffyniant economaidd
Uchelgais WTS / Grŵp polisi	Pobl a chymunedau	Pobl a chymunedau	Pobl a chymunedau	Yr Amgylchedd	Lleoedd a'r Economi	Diwylliant a'r iaith Gymraeg	Yr Amgylchedd	Yr Amgylchedd	Yr Amgylchedd	Pobl a chymunedau	Yr Amgylchedd	Lleoedd a'r Economi
Polisi PT15: Ymglymiad cymunedol mewn rheilffyrdd	+	+	+	+	0	+	0	+	+	0	+	+
Cerdded, Olwyno a Beicio												
Polisi AT1 – AT2: Mynd ati ymhellach i wella'r seilwaith	+	++	++	+/-	0	+	+	++	+	+	+	+
Polisi AT4 – AT6: Gwneud teithio llesol yn fwy deniadol	+	++	++	+/-	0	+	+	++	+	+	?	+
Polisi AT7 – AT11: Arweinyddiaeth a chyllid	+	+	+	0	0	+	+	+	+	+	+	+
Polisi AT12 – AT14: Llogi beiciau, e-feiciau ac e-sgwteri	+	++	+	0	0	+	0	0	0	0	0	+
Integreiddio rhwng dulliau												
Polisi IN1 – IN3: Canolfannau symudedd a gorsafoedd porth	+	+	+	+	+	+	+	+	+	+	+	+
Polisi IN4: Integreiddio	+	++	++	+	+	+	+	+	+	+	+	++

Amcanion IWBA	1. Cyflawniad tai a gwasanaethau lleol	2. Lleihau anghydraddoldeb a hyrwyddo cydlyniant	3. Iechyd a Llesiant	4. Bioamrywiaeth	5. Ardaloedd cymeriad y dirwedd a safleoedd dynodedig	6. Diwylliant a'r iaith Gymraeg	7. Iechyd dŵr	8. Datgarboneiddio	9. Ansawdd aer	10. Sŵn a seinluniau lleol	11. Economi gylchol a llai o ddefnydd ar ddeunydd crai	12. Ffyniant economaidd
Uchelgais WTS / Grŵp polisi	Pobl a chymunedau	Pobl a chymunedau	Pobl a chymunedau	Yr Amgylchedd	Lleoedd a'r Economi	Diwylliant a'r iaith Gymraeg	Yr Amgylchedd	Yr Amgylchedd	Yr Amgylchedd	Pobl a chymunedau	Yr Amgylchedd	Lleoedd a'r Economi
Polisi IN5 – IN6: Cynlluniau Parcio a Theithio neu Barcio a Rhannu	+	+/-	0	+/-	+	+	+	+	0	0	+	+/-
Porthladdoedd a Chludo Llwythi												
Polisi PF1 – PF2: Porthladdoedd	+	+	+/-	--	+	+	?	+/-	+/-	+/-	-	++
Polisi PF3: Cludo llwythi ar y ffyrdd	+	+	+	?	?	+	-	?	+/-	+	0	0
Polisi PF4: HGVs Allyriadau Isel	0	+	+	0	0	0	+/-	++	+	0	+	+
Polisi PF5 – PF8: Danfoniadau lleol	+	+	+/-	?	?	?	+/-	+	+	+	+	+
Polisi PF9: Cludo llwythi ar y rheilffordd	0	+/-	+	0	0	0	+	+	+	+	+	+
Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio												
Polisi RS1 – RS2: Cynnal a chadw	+	+	+	+	+	+	0	+	0	+	0	+
Polisi RS3 – RS4: Diogelwch Ffyrdd	++	+	+	0	0	0	0	+	+	+	+	+

Amcanion IWBA	1. Cyflawniad tai a gwasanaethau lleol	2. Lleihau anghydraddoldeb a hyrwyddo cydlyniant	3. Iechyd a Llesiant	4. Bioamrywiaeth	5. Ardaloedd cymeriad y dirwedd a safleoedd dynodedig	6. Diwylliant a'r iaith Gymraeg	7. Iechyd dŵr	8. Datgarboneiddio	9. Ansawdd aer	10. Sŵn a seinluniau lleol	11. Economi gylchol a llai o ddefnydd ar ddeunydd crai	12. Ffyniant economaidd
Uchelgais WTS / Grŵp polisi	Pobl a chymunedau	Pobl a chymunedau	Pobl a chymunedau	Yr Amgylchedd	Lleoedd a'r Economi	Diwylliant a'r iaith Gymraeg	Yr Amgylchedd	Yr Amgylchedd	Yr Amgylchedd	Pobl a chymunedau	Yr Amgylchedd	Lleoedd a'r Economi
Polisi RS5 – RS6: Parcio cyhoeddus mewn trefi a dinasoedd	+/-	+/-	+/-	+	+	0	+	+	+	+	+	+
Polisi RS7 – RS11: Cerbydau allyriadau isel	+	+	+	+	0	0	+	+	+	0	+	+
Polisi RS12 – RS13: Clybiau ceir / rhannu ceir	+	++	+	0	0	0	0	+	+	0	+	+
Mynediad ar y ddaear at awyrennau												
Polisi AV1: Mynediad ar y ddaear at awyrennau	+	+	0	0	0	0	0	--	+	0	+	+
Cysylltedd Digidol												
Polisi DC1: Cysylltedd digidol	+	+	+	+	0	+	+	++	+	+	+	+
Cynllunio defnydd tir												
Polisi CB19 – LU6	Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd hefyd yn gyfrifol am Gynllun Datblygu Strategol ar gyfer Gogledd Cymru. Fodd bynnag, gan y bydd yn gofyn am amryw o asesiadau statudol ei hun, nid yw hyn wedi'i gynnwys yn yr IWBA hwn.											

1.9 Uchelgeisiau Llesiant Cymru

Mae'r uchelgeisiau llesiant a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cyfrannu at y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae pob un o'r amcanion yn yr arfarniad yn cyfrannu at y pedwar uchelgais llesiant. Mae'r rhain yn cael eu hystyried mewn mwy o fanylder yn yr adran hon. Mae arfarniadau llawn a chyfeiriadau cysylltiedig wedi'u cynnwys yn yr adroddiad IWBA a'r atodiadau cysylltiedig.

1.9.1 Sut bydd y NWRTP o fudd i bobl a chymunedau?

Mae Amcanion IWBA 1, 2, 3 a 10 yn asesu effeithiau'r NWRTP ar gydraddoldeb, iechyd a diogelwch, ac yn darparu'n uniongyrchol i lesiant pobl a chymunedau. Mae'r polisïau'n chwarae rhan allweddol wrth greu system drafnidiaeth sy'n hyrwyddo gwell deilliannau iechyd ac yn meithrin mwy o gydraddoldeb ledled Cymru, sy'n cyd-fynd ag Amcanion Cludiant Cyhoeddus Hygyrch a Chynhwysol Llywodraeth Cymru[1], y blaenoriaethau a nodir yn fframwaith Gweithredu ar Anabledd[2] a strategaethau Cysylltu Cymunedau[3] a Chymru Oed Gyfeillgar[4] .

Amcan 1 - Cefnogi cyflawniad tai a gwasanaethau lleol i gwrdd ag anghenion cymunedau lleol

Mae'r arfarniad yn nodi y byddai polisïau (AT1-AT14) yn hyrwyddo isadeiledd teithio llesol, gan annog ffyrdd iachach o fyw drwy ei wneud yn haws cerdded a beicio i wasanaethau hanfodol megis gofal iechyd ac addysg. Mae mwy o weithgarwch corfforol drwy deithio llesol hefyd yn helpu i leihau cyfraddau gordewdra a thros 20 o gyflyrau cronig fel clefyd coronaidd y galon, strôc, clefyd siwgr math 2 mewn cymunedau lleol, gan helpu i fodloni ymrwymiadau yn unol â Strategaeth 'Pwysau Iach: Cymru Iach'[5].

Mae gwell systemau cyflenwi lleol a llai o dagfeydd (PF1-PF9) o fudd i'r amgylchedd a mwynderau lleol, ac yn cyfrannu at well iechyd y cyhoedd o ganlyniad i well ansawdd aer, llai o sŵn a llai o orbryder a achosir gan ffyrdd prysur.

Byddai gwelliannau (PT1-PT15) yn cyfrannu at fynediad mwy dibynadwy at wasanaethau hanfodol, ac o fudd yn benodol i ardaloedd difreintiedig a chymunedau gwledig. Mae gwell tocynnau, amseroedd teithio a dibynadwyedd gwasanaeth yn gwneud cludiant cyhoeddus yn fwy hygyrch. Byddai datrysiadau hyblyg a arweinir gan y gymuned yn cael eu dylunio i ddiwallu anghenion lleol penodol, gan feithrin cynhwysiad a chydlyniant cymdeithasol.

Mae polisïau (DC1-DC2) yn annog gweithio o bell a mynediad at wasanaethau, gan gynyddu cyfleoedd cyflogaeth, (yn enwedig ar gyfer grwpiau sy'n llai abl i deithio i'r gwaith (e.e. pobl anabl, gofalwyr, a phobl heb fynediad at drafnidiaeth breifat) a llythrennedd digidol, sy'n helpu mwy o bobl i ddefnyddio cludiant cyhoeddus yn hyderus.

---

[1] Llywodraeth Cymru, Datganiad Polisi: Amcanion Cludiant Cyhoeddus Hygyrch a Chynhwysol, Rhagfyr 2017. Ar gael ar-lein yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2017-12/policy-statement-accessible-and-inclusive-public-transport-objectives.pdf [Cyrchwyd 02/12/2024]

[2] Llywodraeth Cymru, Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol, 2019. Ar gael ar-lein yn: action-on-disability-the-right-to-independent-living-framework-and-action-plan.pdf [Cyrchwyd 02/12/2024]

[3] Llywodraeth Cymru, Strategaeth Cysylltu Cymunedau, 2020. Ar gael ar-lein yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2020-02/connected-communities-strategy-document.pdf [Cyrchwyd 02/12/2024]

[4] Llywodraeth Cymru, Cymru Oed Gyfeillgar: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio, 2021. Ar gael ar-lein yn: https://www.gov.wales/age-friendly-wales-our-strategy-ageing-society-html [Cyrchwyd 02/12/2024]

[5] Llywodraeth Cymru, Strategaeth Pwysau Iach, 2019. Ar gael ar-lein yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-10/healthy-weight-healthy-wales_0.pdf [Cyrchwyd 02/12/2024]

Mae gwelliannau i'r seilwaith ffyrdd (RS1-RS13) yn gwneud ffyrdd yn wydn o ran yr hinsawdd ac yn fwy diogel, gan leihau'r risg o ddamweiniau a chostau cysylltiedig. Nod annog opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy trwy daliadau parcio rheoledig ac ail-ddynodi lle o barcio (RS5-RS6) yw lleihau'r ddibyniaeth ar gerbydau preifat, a allai leihau cyfraddau damweiniau.

Yn gyffredinol, nod y polisïau hyn yw creu system drafnidiaeth mwy cynhwysol, iach a diogel drwy wella cludiant cyhoeddus, llwybrau teithio llesol a seilwaith ffyrdd, gan ymdrin ag anghenion penodol cymunedau lleol ar yr un pryd.

Amcan 2 - Lleihau anghydraddoldeb a hyrwyddo cydlyniant cymunedol

Canfu'r arfarniad y byddai gwella gwasanaethau cludiant cyhoeddus yn creu system drafnidiaeth sy'n hyrwyddo iechyd, cydraddoldeb a diogelwch. Mae'r polisïau hyn yn canolbwyntio ar wella mynediad at wasanaethau hanfodol, cyflogaeth, addysg a chyfleoedd hamdden, sy'n benodol o fudd i bobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol, unigolion iau a hŷn, pobl anabl, a'r rhai o grwpiau mwyafrif ethnig byd-eang. Trwy feithrin rhwydwaith trafnidiaeth integredig ac annog dulliau teithio llesol fel cerdded, olwyno a beicio, mae'r polisïau hyn yn gwella rhyngweithio cymdeithasol, yn lleihau unigedd, ac yn gwella lles cymunedol.

Mae'r polisïau'n blaenoriaethu cysylltu ardaloedd gwledig â gwasanaethau hanfodol, a thrwy hynny leihau anghydraddoldeb cyfleoedd i gymunedau gwledig. Mae datrysiadau trafnidiaeth hyblyg, a arweinir gan y gymuned a hyrwyddo gwasanaethau tacsis diogel yn cefnogi poblogaethau bregus ymhellach megis pobl hŷn, plant a phobl anabl. Maent hefyd o fudd i'r grwpiau hynny sydd â risg uwch o droseddau casineb megis merched, grwpiau sy'n dioddef hiliaeth a phobl o'r gymuned LHDTC+ ac sy'n fwy tebygol o ddefnyddio tacsis gan eu bod yn cael eu hystyried yn fwy diogel na chludiant cyhoeddus safonol.

Byddai gwelliannau mewn seilwaith teithio llesol a thrafnidiaeth aml-foddol yn gwneud cerdded, olwyno, beicio a chludiant cyhoeddus yn fwy hygyrch i bawb, gan leihau anghydraddoldeb trafnidiaeth. At hynny, byddai polisïau sy'n hyrwyddo datblygiad porthladdoedd ac yn gwella gwasanaethau cludiant cyhoeddus i'r porthladdoedd hyn yn hybu ffyniant economaidd i gymunedau arfordirol yng Ngogledd Cymru, sy'n wynebu lefelau uwch o amddifadedd o'i gymharu â rhannau eraill o'r rhanbarth. Byddai hyrwyddo cerbydau allyriadau isel yn cynnig buddion iechyd, yn enwedig i grwpiau bregus sy'n sensitif i lygredd aer (e.e. plant, merched beichiog, pobl hŷn, pobl â chlefyd anadlol).

At ei gilydd, byddai polisïau NWRTP yn cyfrannu at wella cysylltiadau cymunedol, hyrwyddo datblygiad economaidd a gwella cyfle cyfartal i gymunedau ledled Gogledd Cymru.

Amcan 3 - Gwella iechyd a lles y boblogaeth leol, gan gynnwys mewn perthynas ag iechyd corfforol a meddyliol

Mae'r arfarniad yn tynnu sylw at y ffaith bod y polisïau'n anelu at ddatblygu system drafnidiaeth sy'n gwella iechyd a diogelwch drwy wella cludiant cyhoeddus a llwybrau teithio llesol. Mae hyn yn annog gweithgarwch corfforol a thrwy hynny'n lleihau'r risg o ordewdra a chlefydau cronig eraill. Mae'r polisïau'n canolbwyntio ar greu trafnidiaeth gynaliadwy, hygyrch sy'n lleihau unigedd cymdeithasol ac yn gwella cysylltedd â gofal iechyd, hamdden a chyfleusterau cymunedol. Byddai'r gwelliannau hyn yn arwain at fuddion iechyd i bawb ond byddent o fudd arbennig i grwpiau mwy bregus sy'n dibynnu mwy ar gludiant cyhoeddus, megis pobl hŷn, pobl anabl a phobl sy'n profi amddifadedd economaidd-gymdeithasol.

Byddai gwelliannau i'r rhwydwaith bysiau a thrafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw mewn ardaloedd gwledig hefyd yn darparu opsiynau trafnidiaeth mwy cynaliadwy ac yn gwella mynediad i'r rhai heb gerbyd preifat yn yr ardaloedd hyn at wasanaethau hanfodol. Byddai hyn yn gwella cysylltedd cymdeithasol ac yn hyrwyddo gweithgarwch corfforol, gan arwain at well deilliannau iechyd corfforol a meddyliol.

Mae rhwydweithiau trafnidiaeth integredig yn symleiddio'r trosglwyddo rhwng dulliau, gan annog pobl i fanteisio ar gludiant cyhoeddus gyda systemau tocynnau gwell a'i wneud yn haws i'w ddefnyddio tra hefyd yn lleihau costau i deithwyr. Byddai hyn yn helpu pobl sy'n deithwyr mwy nerfus, neu'r rhai sy'n gweld systemau presennol yn rhy gymhleth a ddim yn hawdd eu defnyddio. Byddai'r gwelliannau mewn fforddiadwyedd hefyd o fudd anghymesur i bobl sy'n profi amddifadedd economaidd-gymdeithasol, a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy gwledig, gan leihau unigedd cymdeithasol a chynyddu mynediad at gyflogaeth a hyfforddiant sy'n benderfynyddion cryf ar iechyd corfforol a meddyliol.

Mae polisïau datblygu porthladdoedd yn debygol o arwain at ddeilliannau iechyd cymysg, gan gydbwyso opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy, a gwell cysylltedd i gyflogaeth, gyda phroblemau ansawdd aer posib o ganlyniad i fwy o HGVs yn yr ardal. Mae polisïau ffyrdd a strydoedd yn gwella diogelwch ac yn cefnogi mentrau cludiant cyhoeddus, tra bod polisïau cysylltedd digidol yn lleihau anghenion teithio, lleddfu straen a gwella mynediad i gyflogaeth, yn enwedig i bobl â chyfrifoldebau gofalu (fel rhieni plant ifanc) neu bobl ag anableddau.

Amcan 10 - Lleihau aflonyddwch o sŵn sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth a dirgryniad i gymunedau lleol.

Nod polisïau NWRTP yw gwella opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy a gwella hygyrchedd a chysylltedd, gan arwain at newid o ddefnyddio'r car preifat i deithio llesol a chludiant cyhoeddus. Disgwylir i'r newid hwn leihau traffig ac yna leihau lefelau sŵn a dirgryniad, gan fod o fudd i barthau blaenoriaethu sŵn ac ardaloedd preswyl (yn enwedig ardaloedd preswyl ar hyd rhannau o'r A55, A47, A4087, A547, A5119, A494, A550, A483 a'r A5152).

Gallai gwelliannau i gyfleusterau porthladd a chynnydd dilynol mewn symudiadau cludo llwythi gynyddu sŵn yn lleol, er y gallai dewis safleoedd yn ofalus liniaru hyn. Mae polisïau sydd â'r nod o wella cyfleusterau i HGVs (a'u gyrwyr) yn cynnwys datblygu canolfannau cyfuno cludo llwythi ac ardaloedd parcio/gwasanaethau penodol ar gyfer HGVs sydd oddi wrth canol trefi ac ardaloedd preswyl. Byddai hyn, yn ogystal ag annog mwy o gludo llwythi ar y rheilffyrdd, yn lleihau traffig HGV mewn canol trefi a fyddai, ynghyd â defnydd cynyddol o Gerbydau Trydan, yn lleihau aflonyddwch sŵn ymhellach. Byddai polisïau cynnal a chadw a diogelwch ffyrdd yn lleihau sŵn sy'n gallu bod yn broblem ar hyd ffyrdd sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n wael. Yn ogystal, bydd mentrau cysylltedd digidol yn lleihau'r angen i deithio, yn enwedig ar gyfer gwaith, ac yn gwella mynediad i wybodaeth cludiant cyhoeddus. Mae hyn yn hyrwyddo teithio cynaliadwy ac yn lleihau'r defnydd o gerbyd preifat, gan gyfrannu at system drafnidiaeth ddistawach, iachach a mwy diogel.

1.9.2 Sut y bydd y NWRTP o fudd i'r Amgylchedd?

Mae Amcanion 4, 7, 8, 9 ac 11 IWBA yn asesu effeithiau'r NWRTP ar yr amgylchedd, gan ymgorffori agweddau sy'n ymwneud â lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth, sydd o fudd i fioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau a lleihau gwastraff. Nod y polisïau yw cynyddu'r defnydd o deithio llesol a chludiant cyhoeddus, a/neu gynyddu'r defnydd o gerbydau allyriadau isel; byddai hyn yn arwain at leihad mewn allyriadau a llygredd oddi ar y ffyrdd, dau beth sy'n gallu effeithio'n andwyol ar rywogaethau a chynefinoedd. Mae'r polisïau yn cynnwys mentrau datgarboneiddio sy'n

lleihau'r defnydd o ddeunyddiau crai (h.y. tanwydd), sy'n arwain at well ansawdd aer a gwytnwch hinsawdd, gan gyfrannu at dargedau Newid Hinsawdd Cymru a chyllidebau carbon.[6]

Amcan 4 - Cadw, gwarchod a gwella buddiannau bioamrywiaeth a daearamrywiaeth, gan gynnwys drwy ddiogelu safleoedd, rhywogaethau a chynefinoedd pwysig

Nod polisïau NWRTP yw lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, cynnal bioamrywiaeth a gwella gwytnwch ecosystemau drwy hyrwyddo teithio llesol, cludiant cyhoeddus a cherbydau allyriadau isel.

Mae'r polisïau hyn yn annog symud oddi wrth y defnydd o gar preifat, gan leihau'r allyriadau traffig a llygredd a achosir gan yr hyn sydd ar y ffordd, ac felly lliniaru effeithiau andwyol ansawdd aer a dŵr gwael ar rywogaethau a chynefinoedd. Byddai gwell opsiynau teithio cynaliadwy i ardaloedd ac atyniadau twristaidd o gymorth i atal y niwed ecolegol allai ddeillio o barcio amhriodol, sy'n broblem benodol ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Fodd bynnag, mae'n bosib y gallai hefyd gynyddu pwysau ymwelwyr i'r ardaloedd hyn gan arwain at niwed i gynefinoedd ecolegol.

Ar hyn o bryd, nid yw'n glir a fydd gwelliannau isadeiledd trafnidiaeth angen tir ychwanegol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r polisïau seilwaith porthladd a chludo llwythi, oherwydd gallai datblygiad fygwth bioamrywiaeth ar safleoedd gwarchodedig megis Ardal Gwarchodaeth Arbennig Morwenoliaid Ynys Môn ac Ardal Cadwraeth Arbennig Gogledd Môn Forol. Gallai gweithgareddau datblygu yn yr ardaloedd hyn gynyddu'r pwysau ar y cynefinoedd sensitif hyn. Felly, byddai cynllunio gofalus ar lefel prosiect yn hanfodol er mwyn osgoi effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth a daearamrywiaeth o aflonyddwch ffisegol pan fydd/os bydd angen tir.

Byddai polisïau sy'n ceisio gwella creu lleoedd mewn canolfannau trefol trwy ddisodli mannau parcio gyda gwelliannau ecolegol yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at fudd net ar gyfer bioamrywiaeth, cyn belled eu bod wedi'u dylunio'n sensitif yn defnyddio gwaith plannu rhywogaethau priodol.

Amcan 7 - Gwarchod a gwella iechyd dŵr daear, cyrff dŵr wyneb ac arfordirol, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr

Nod polisïau NWRTP yw lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwarchod buddion iechyd dŵr a bioamrywiaeth drwy hyrwyddo llwybrau cludiant cyhoeddus a theithio llesol, gan annog symud oddi wrth gerbydau preifat. Mae polisïau megis PF9 yn cefnogi cludo llwythi ar y rheilffyrdd, tra bod DC1-DC3 yn canolbwyntio ar gysylltedd digidol i leihau'r angen i deithio ar gyfer cyflogaeth, a thrwy hynny'n lleihau traffig ar y ffyrdd a'i lygryddion cysylltiedig. Mae ecosystemau dyfrol yn elwa o'r lleihad hwn drwy leihau faint o lygryddion olew, saim ac sydd yn yr awyr sy'n mynd i ddyfrffyrdd. Fodd bynnag, gallai rhai polisïau, megis PF3, sy'n gwella seilwaith HGV, gynyddu traffig, llygredd ac allyriadau carbon HGV mewn ardaloedd penodol megis y llwybrau sy'n darparu mynediad i'r porthladdoedd. Yn ogystal, gallai datblygu canolfannau hydrogen (PF4) ac ehangu porthladdoedd (PF1-PF9) gael effaith negyddol ar adnoddau ac ansawdd dŵr os na chaiff ei reoli'n briodol oherwydd y cyfaint mawr o ddŵr sydd ei angen i gynhyrchu hydrogen.

[6] Llywodraeth Cymru, Targedau newid hinsawdd a chyllidebau carbon, 2021. Ar gael ar-lein yn: https://www.gov.wales/climate-change-targets-and-carbon-budgets [Cyrchwyd 02/12/2024]

Amcan 8 - Cefnogi trosglwyddiad tuag at sector trafnidiaeth gydag allyriadau carbon is (gan gynnwys dim allyriadau) a gwella gwytnwch y seilwaith trafnidiaeth i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd

Nod polisïau NWRTP yw creu system drafnidiaeth gynaliadwy sy'n lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac yn gwneud y rhwydwaith yn fwy gwydn o ran effeithiau newid hinsawdd megis llifogydd. Drwy annog newid i gludiant cyhoeddus a theithio llesol, ynghyd ag integreiddio cerbydau dim allyriadau i'r fflyd cludiant cyhoeddus, byddai'r polisïau hyn yn lleihau allyriadau carbon. Mae polisïau eraill fyddai'n cyfrannu at ddatgarboneiddio'r sector trafnidiaeth yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â datblygu mentrau trafnidiaeth dan arweiniad y gymuned, canolfannau hydrogen, gwella opsiynau cludo llwythi ar y rheilffyrdd, hyrwyddo cerbydau trydan gan gynnwys gwell seilwaith gwefru cerbydau trydan a beiciau e-cargo ar gyfer danfoniadau lleol.

Yn ogystal, mae polisïau cysylltedd digidol yn hyrwyddo gweithio o bell ac yn gwella mynediad i wybodaeth cludiant cyhoeddus, gan leihau'r angen i deithio ac annog newid i ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy; dau beth sy'n gymorth i leihau allyriadau.

Amcan 9 - Gwarchod a gwella ansawdd aer lleol

Nod polisïau NWRTP yw lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwella ansawdd aer drwy hyrwyddo teithio llesol, cludiant cyhoeddus a cherbydau allyriadau isel.

Mae polisïau CB1-CB23, PT1-PT10, AT1-AT6, ac IN1-IN6 yn annog newid o geir preifat i drafnidiaeth gynaliadwy, gan wella ansawdd aer. Mae polisïau PT11-PT13 a DC1-DC3 yn gwella hygyrchedd a chysylltedd, gan gefnogi'r newid hwn i ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy ymhellach. Mae polisïau PT2-PT3, AT12-AT14, PF4, a RS7-RS11 yn cefnogi'r trosglwyddiad i gerbydau dim allyriadau, sydd o fudd i ansawdd aer, yn enwedig mewn canolfannau trefol megis Wrecsam a Bangor ond hefyd mewn canolfannau trefol eraill. Mae polisïau porthladdoedd a chludo llwythi (PF1-PF9) yn hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy a gorsafoedd rheilffordd, er y gallai mwy o symudiadau HGV a anogir gan welliannau i seilwaith porthladd gael effaith andwyol ar ansawdd aer lleol. Byddai polisïau DC1-DC3 yn cyfrannu at leihad mewn allyriadau drwy hwyluso gweithio o bell a gwella mynediad digidol i wybodaeth cludiant cyhoedd fyddai'n ei gwneud yn haws ac yn fwy cyfleus i bobl ddefnyddio cludiant cyhoeddus.

Amcan 11 - Ymgorffori egwyddorion yr economi gylchol i leihau'r defnydd o ddeunyddiau crai

Nid oes unrhyw bolisi yn y NWRTP sy'n ymgorffori egwyddorion economi gylchol yn uniongyrchol. Fodd bynnag, er diben yr amcan IWBA hwn, mae tanwydd wedi cael ei ystyried fel deunydd crai. Nod y polisïau a gynigir yn y NWRTP yw gwella opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy a gwella eu hygyrchedd, gan annog newid o ddefnyddio'r car preifat i deithio llesol a chludiant cyhoeddus. Byddai hyn, yn ogystal â pholisïau sy'n lleihau'r angen i deithio (e.e. gwell cysylltedd digidol sy'n galluogi gweithio o bell) yn lleihau'r defnydd o danwydd a byddai'n cael ei wella ymhellach trwy gludiant cyhoeddus ei hun yn defnyddio niferoedd cynyddol o gerbydau allyriadau isel/dim allyriadau.

Byddai hyrwyddo tanwydd glanach megis datblygu canolfannau hydrogen yng Nglannau Dyfrdwy a Chaergybi hefyd yn cefnogi'r defnydd o ddeunyddiau o ffynonellau lleol. Er y gallai fod angen defnydd materol ar gyfer datblygu seilwaith, nid oes unrhyw wybodaeth benodol ar gael ar hyn o bryd ac felly mae'r effaith yn ansicr ar hyn o bryd.
Gallai twf mewn porthladdoedd gynyddu symudiadau HGV a defnydd o danwydd, ond gallai polisïau sy'n cefnogi tanwydd glanach a seilwaith Cerbydau Trydan helpu i liniaru unrhyw effeithiau andwyol cysylltiedig.

1.9.3 Sut bydd y NWRTP o fudd i leoedd a'r economi?

Mae Amcanion 5 a 12 IWBA yn asesu effeithiau'r NWRTP ar leoedd a'r economi, gan werthuso sut mae polisïau yn cyfrannu at greu lleoedd, arloesedd a symudiadau cludo llwythi cynaliadwy. Gall mentrau a amlinellwyd yn y polisïau hyn leihau tagfeydd a phwysau parcio a achosir gan dwristiaeth, a thrwy hynny liniaru effeithiau andwyol parcio amhriodol ar fwynderau gweledol yn yr ardaloedd hyn a chynnal cyfanrwydd tirweddau lleol. Mae gwell cysylltedd trafnidiaeth cynaliadwy i ganolfannau economaidd ac atyniadau twristaidd yn annog adfywiad a buddsoddiad mewn ardaloedd mwy difreintiedig a gwledig. Mae mentrau polisi hefyd yn cyfrannu at wella mynediad rhwng Lloegr a Gogledd Cymru a Gogledd a De Cymru ar gyfer cyflogaeth a thwristiaeth a gwella symudiad cludo llwythi, gan gyfrannu at ffyniant economaidd.

Amcan 5 - Gwarchod a gwella cymeriad y dirwedd, dynodiadau a mwynderau gweledol yn yr ardal leol

Mae polisïau CB1-CB23 a PT1-PT15 yn canolbwyntio ar wella gwasanaethau cludiant cyhoeddus a llwybrau teithio llesol, sy'n cyfrannu at liniaru effeithiau andwyol traffig cynyddol, yn enwedig mewn ardaloedd sensitif megis Parc Cenedlaethol Eryri. Drwy hyrwyddo opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy, gall y polisïau hyn helpu i leihau tagfeydd a phwysau parcio a achosir gan dwristiaeth, a thrwy hynny liniaru effeithiau andwyol parcio amhriodol ar fwynderau gweledol yn yr ardaloedd hyn a chynnal cyfanrwydd tirweddau lleol.

Gallai gwelliannau i isadeiledd trafnidiaeth arwain at effeithiau andwyol ar ddynodiadau a thirweddau lle mae angen newidiadau ffisegol (e.e. adeiladu ffordd, ehangu porthladd a seilwaith parcio neu deithio llesol) felly bydd cynllunio a gweithredu gofalus yn hanfodol ar lefel prosiect i sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiadau cysylltiedig yn effeithio ar werth golygfaol a diwylliannol yr ardal.

Tra bod polisïau AT1-AT14 yn cefnogi gwelliannau i seilwaith teithio llesol, gan wneud teithio llesol yn fwy hygyrch, hyd yn oed i dwristiaid, mae'r polisïau yn annhebygol o leihau'r defnydd o gerbydau mewn ardaloedd mwy diarffordd sy'n adnabyddus am eu cymeriad tirwedd arbennig. Mae polisïau IN1 - IN6 yn hyrwyddo'r datblygiad o ganolfannau symudedd ac integreiddio cludiant cyhoeddus yn well, gan hwyluso'r trawsnewidiadau rhwng dulliau trafnidiaeth a chefnogi newid moddol o gerbydau preifat i drafnidiaeth gynaliadwy. Disgwylir i'r newid hwn leddfu effeithiau andwyol tagfeydd traffig a phwysau parcio ar gyrchfannau twristaidd poblogaidd, gan wella mwynderau gweledol.

Gallai ailddyrannu gofod ffyrdd a pharcio ac annog defnydd car un ddeiliadaeth trwy daliadau parcio sy'n cael eu hyrwyddo trwy bolisïau RS5 – RS6, arwain at lai o draffig ar y ffyrdd a phwysau parcio, gan wella mwynderau gweledol trefi a dinasoedd. Byddai hyn yn cael ei wella ymhellach wrth i fannau parcio gael eu hailddyrannu i ddatblygu lleoedd o ansawdd uchel.

Amcan 12 - Creu system drafnidiaeth integredig sy'n hwyluso symudiad effeithlon a diogel pobl a chludo nwyddau, gan gyfrannu at fwy o ffyniant economaidd yn y rhanbarth

Mae polisïau sy'n ymwneud â galluogi newidiadau i ymddygiad teithio (CB1-CB23) yn canolbwyntio ar wella gwasanaethau cludiant cyhoeddus a llwybrau teithio llesol i safleoedd cyflogaeth mawr (megis Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, Stad Ddiwydiannol Wrecsam a Pharc Busnes Caer), addysg a chyrchfannau teithio. Mae hyn yn cefnogi mynediad teg i gyfleoedd cyflogaeth, addysg a hyfforddiant, gan fod o fudd penodol i gymunedau mewn trefi arfordirol sy'n profi lefelau uwch o amddifadedd cymdeithasol yn ogystal â chymudwyr i barthau buddsoddi.

Mae mentrau trafnidiaeth a arweinir gan y gymuned yn gwella dibyniaeth a gwytnwch y rhwydwaith trafnidiaeth, gan gefnogi busnesau a gweithwyr ac annog twristiaeth gynaliadwy. Mae gwell

cysylltedd trafnidiaeth cynaliadwy i ganolfannau economaidd ac atyniadau twristaidd yn annog adfywiad a buddsoddiad mewn ardaloedd mwy difreintiedig a gwledig.

Mae mentrau polisi sy'n gwella cysylltedd trafnidiaeth cynaliadwy hefyd yn cyfrannu at wella mynediad rhwng Lloegr a Gogledd Cymru a Gogledd a De Cymru ar gyfer cyflogaeth a thwristiaeth, gan wella ffyniant economaidd ymhellach.

Mae'r polisïau sy'n ymwneud â bysus, coetsis a chludiant cymunedol (PT1- PT10, IN4) yn canolbwyntio ar wella gwasanaethau bws, gan hwyluso teithio ar gludiant cyhoeddus rhwng ardaloedd cyflogaeth mawr yng Ngogledd Cymru ac ardaloedd cyfagos Gogledd Lloegr, yn cynnwys Caer a Glannau Dyfrdwy, a chanolbwyntio ar fannau targed sy'n peri pryder fel croesfannau'r Fenai.

Drwy feithrin cysylltedd rhwng cymunedau a'r canolfannau cyflogaeth hyn, mae'r polisïau yn ceisio darparu mynediad teg i gyfleoedd swyddi, addysg a gwasanaethau hanfodol, sydd o fudd yn benodol i bobl sy'n profi amddifadedd economaidd-gymdeithasol ac unigolion sy'n dibynnu mwy ar ddulliau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae polisïau yn cynnwys mentrau i ddylunio llwybrau a gwasanaethau i ddiwallu anghenion cwsmeriaid, sy'n gwella cysylltedd a mynediad i gyfleoedd a gwasanaethau.

Mae polisïau PT11- PT15 yn canolbwyntio ar ddatrysiadau trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw sy'n gwella diogelwch, hygyrchedd a hyblygrwydd. Mae'r polisïau yn cefnogi'r economi leol drwy wella mynediad i weithleoedd i bobl heb fynediad i gar preifat ac yn ehangu daearyddiaeth twristiaeth sy'n hygyrch ar gludiant cyhoeddus. Gall hyn annog adfywiad a buddsoddiad ymhellach mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Mae integreiddio cerbydau allyriadau isel yn cryfhau gwytnwch y rhwydwaith trafnidiaeth sy'n lliniaru risgiau o amhariadau tanwydd ffosil.

Mae polisïau sy'n cefnogi gwelliannau i seilwaith teithio llesol (AT1-AT14, IN1-IN2) yn debygol o annog teithio mwy cynaliadwy (gan gynnwys mwy o ddefnydd trafnidiaeth gyhoeddus) i gael mynediad at gyfleoedd addysgol, hyfforddiant a chyflogaeth sydd o fudd i ffyniant economaidd hirdymor y rhanbarth. Mae AT12 - AT14 yn cefnogi llogi beiciau/e-feiciau sy'n cynhyrchu incwm ar gyfer y busnesau hyn ac yn hwyluso teithio llesol i ac o ganol dinasoedd ymhlith twristiaid, gan gefnogi economïau lleol.

Mae polisïau IN5-IN6 yn ymwneud â gwelliannau i gynlluniau Parcio a Theithio a Pharcio a Rhannu, a fyddai'n cyfrannu at lai o dagfeydd mewn canolfannau trefol. Er bod tagfeydd is yn lleihau amser teithio (ac felly'n rhyddhau amser ar gyfer gwaith neu hyfforddiant mwy cynhyrchiol) a gall annog busnesau i leoli mewn ardal (oherwydd mwynderau lleol gwell), gall gael effaith cwbl groes os oes angen cymorthdaliadau gan yr economi leol, a bydd felly'n rhwystro twf economaidd[7]. Fodd bynnag, dangoswyd hefyd bod prosiectau Parcio a Theithio yn fwyaf llwyddiannus pan fyddant yn benodol ar gyfer darparu mwy o barcio am resymau twf economaidd neu reoli traffig, yn hytrach na gwella symudedd cynaliadwy[8]. Felly, byddai deilliannau economaidd yn dibynnu ar leoliad a bwriad y cyfleusterau Parcio a Theithio a Pharcio a Rhannu.

Mae polisïau PF1-PF2 yn cefnogi twf datblygiadau porthladd sy'n darparu mwy o gyfleoedd cyflogaeth ac yn cyfrannu at dwf economaidd. Byddai hyn yn annog adfywiad a buddsoddiad mewn ardaloedd o gwmpas porthladdoedd Caergybi, Ynys Môn a Mostyn, a fyddai o fudd i gymunedau mwy difreintiedig yn yr ardaloedd. Mae'r polisïau hefyd yn canolbwyntio ar gludo llwythi a gwella cysyllted tu hwnt i'r porthladdoedd, sy'n hybu datblygiad economaidd ymhellach. Drwy gefnogi datblygiad canolfannau hydrogen, mae PF4 yn cyfrannu at fwy o gyfleoedd cyflogaeth yng Ngogledd

[7] Asesiad egwyddorion cyntaf Parcio a Theithio, Prifysgol Leeds

[8] Parkhurst, G. a Meek, S. (2014). Effeithiolrwydd parcio a theithio fel mesur polisi ar gyfer symudedd mwy cynaliadwy. Pennod 9 yn Ison, S. a Mulley, C. (Eds) Parking Issues and Policies. Emerald, 185-211.

Cymru. Ymhellach, gallai cyflwyno canolfannau cyfuno cludo llwythi drwy PF6 - PF7 greu cyfleoedd cyflogaeth newydd. Byddai newid i gludo llwythi ar y rheilffyrdd (PF9) yn gwella dibyniaeth a gwytnwch y rhwydwaith trafnidiaeth (drwy wella dibynadwyedd, capasiti ac amlder cludo llwythi ar y rheilffyrdd, a hefyd leihau tagfeydd ar y ffyrdd) gan gefnogi busnesau a gweithwyr yn well ac annog buddsoddiad yn y rhanbarth.

Mae polisïau RS1- RS11 sy'n ymwneud â ffyrdd, strydoedd a pharcio yn hyrwyddo cysylltiadau trafnidiaeth diogel, gwydn o ran yr hinsawdd a dibynadwy i wella mynediad at gyflogaeth, addysg a thwristiaeth. Gallai seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy fel cynlluniau Parcio a Theithio, Parcio a Rhannu a seilwaith gwefru Cerbydau Trydan, wella amodau ffyrdd a theithio, gan gynnig costau teithio is ac opsiynau trafnidiaeth i'r rhai heb geir, annog twristiaeth a chefnogi'r economïau lleol. Byddai gwell cysylltedd rhanbarthol a thraws-gwlad hefyd yn annog adfywio a buddsoddi, yn enwedig mewn ardaloedd mwy difreintiedig sy'n gysylltiedig â rhwydweithiau priffyrdd.

Gallai gwella mynediad cludiant cyhoeddus i feysydd awyr (AV1) hwyluso cyfleoedd busnes rhyngwladol. Bydd gwell cysylltedd digidol (DC1- DC3) yn cefnogi cyfleoedd gweithio o bell, gan hwyluso gweithgarwch economaidd drwy annog ychwanegiadau i'r marchnadoedd swyddi drwy gynnig amserlenni gweithio hyblyg a lleihad yn yr angen i deithio. Mae hefyd yn helpu i wella dibyniaeth ar y rhwydwaith trafnidiaeth, cefnogi gwell cynllunio teithiau trwy drafnidiaeth gynaliadwy, cefnogi gweithwyr sy'n cymudo ac annog twristiaeth gynaliadwy.

1.9.4 Sut y bydd NWRTP o fudd i ddiwylliant a'r Gymraeg?

Mae Amcan 6 IWBA yn asesu effeithiau'r NWRTP ar ddiwylliant a'r iaith Gymraeg, sy'n cynnwys y celfyddydau, chwaraeon, a'r amgylchedd hanesyddol. Mae mentrau polisïau o'r NWRTP yn cyd-fynd â Cymraeg 2050[9] drwy gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn mannau cyhoeddus megis gwasanaethau trafnidiaeth, cyfnewidfeydd a gwybodaeth ddigidol.

Yn ogystal, maent yn cefnogi nodau Cynllun Cenedlaethol Cymru'r Dyfodol 2040[10], drwy gryfhau'r berthynas rhwng trafnidiaeth, twf economaidd a'r iaith Gymraeg.

Mae'r NWRTP yn cynnwys cyfleoedd i wella mynediad cynaliadwy i atyniadau treftadaeth yng Ngogledd Cymru, yn unol â Chroeso i Gymru - Blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Ymweld 2020-2025[11].

Amcan 6 - Gwarchod a gwella'r dreftadaeth ddiwylliannol leol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg

Byddai polisïau'r NWRTP sydd â'r nod o wella gwasanaethau cludiant cyhoeddus a seilwaith teithio llesol (CB1- CB23; PT1 - PT15; AT1 -AT14; IN1 - IN6), yn hwyluso gwell cysylltedd rhwng cymunedau a safleoedd diwylliannol allweddol, yn ogystal â chyfleusterau addysgol cyfrwng Cymraeg. Drwy leihau tagfeydd traffig a gwella hygyrchedd, mae'r mentrau hyn yn ei gwneud hi'n haws i unigolion, yn enwedig y rhai heb gerbydau preifat, ymweld â lleoliadau diwylliannol, safleoedd treftadaeth, a gwella cysylltedd rhwng cymdogaethau Cymraeg lleol. Mae mwy o ymwelwyr i'r atyniadau diwylliannol yn cefnogi eu hyfywedd economaidd.

---

[9] Llywodraeth Cymru, 2024. Cymraeg 2050: Cynllun gweithredu strategaeth yr iaith Gymraeg 2024 i 2025. Ar gael ar-lein yn: https://www.gov.wales/cymraeg-2050-welsh-language-strategy-action-plan-2024-2025-html [Cyrchwyd 13/11/24]

[10] Llywodraeth Cymru (2021), Cymru'r Dyfodol: Cynllun Datblygu Cenedlaethol 2040. Ar gael ar-lein yn: https://www.gov.wales/future-wales-national-plan-2040-0 [Cyrchwyd 03/12/2024]

[11] Llywodraeth Cymru (2020), Croeso i Gymru - Blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Ymweld 2020-2025. Ar gael ar-lein yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2020-02/welcome-to-wales-priorities-for-the-visitor-economy-2020-2025.pdf [Cyrchwyd 03/12/2024]

Mae gwell cysylltedd rhwng cymunedau Cymraeg eu hiaith ac adnoddau addysgol ar gyfer dysgu'r Gymraeg, yn hanfodol er mwyn hyrwyddo'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg. Mae'r polisïau yn cefnogi mentrau sy'n creu cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned a gwella mynediad at gyfleoedd cymdeithasol i gymunedau Cymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd yng Ngwynedd ac Ynys Môn sy'n cynnwys y gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg. Byddai'r polisïau hefyd yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn mannau cymdeithasol a chymunedol fel cyfnewidfeydd trafnidiaeth, mannau aros bysiau, safleoedd bws a bysiau eu hunain mewn fformatau llafar ac ysgrifenedig.[9]**Error! Bookmark not defined.**

Yn gyffredinol, mae polisïau'r NWRTP ar y cyd yn cyfrannu at gadwraeth a hybu treftadaeth ddiwylliannol leol heb achosi risgiau i asedau treftadaeth dynodedig.

1.10 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Pum Ffordd o Weithio

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi'r pum ffordd o weithio – Meddwl am yr hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithredu a Chyfranogiad. Rhaid i gyrff cyhoeddus ddangos ystyriaeth o'r egwyddorion hyn wrth wneud penderfyniadau i ddangos eu bod yn gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, a ddiffinnir fel 'gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'. Mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi ystyried y ffyrdd hyn o weithio yn y ffyrdd a ganlyn:

Meddwl am yr hirdymor: Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cwmpasu'r cyfnod 2025-2030. Mae'n ystyried aliniad â chynlluniau strategol a chenedlaethol eraill, gan gynnwys Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (hyd at 2041), y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol (hyd at 2027), Cymru'r Dyfodol (hyd at 2040) a'r Cynlluniau Datblygu Strategol newydd (cynllun 25 mlynedd). Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ymdrin â materion, anghenion a chyfleoedd allweddol hyd at 2030/31, yn ogystal â chynlluniau uchelgeisiol a allai symud ymlaen y tu hwnt i 5 mlynedd. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd osgoi datrysiad tymor byr trwy ystyried lles cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae'r cynllun yn cydbwyso anghenion uniongyrchol gyda'r angen i ddiogelu buddiannau hirdymor. Mae'r IWBA hefyd yn ystyried materion a chyfleoedd presennol ac yn y dyfodol, gan ystyried effaith polisïau a chynlluniau ar les yn y tymor hir.

Atal: Mae'r Achos dros Newid yn amlinellu'r heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r materion allweddol yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Trwy weithredu'n gynnar ac ar y cyd, nod y polisïau a'r ymyraethau arfaethedig yw ymdrin ag achosion sylfaenol cyn iddynt waethygu, gan arwain at well canlyniadau i unigolion, cyrff cyhoeddus a chymdeithas. Mae'r dull rhagweithiol hwn yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio i atal problemau rhag digwydd neu waethygu, gan gyfrannu at amcanion lles Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Mae'r IWBA hefyd yn nodi effeithiau posibl ar les sy'n gysylltiedig â gwahanol bolisïau ac yn darparu argymhellion i liniaru'r effeithiau hyn ac yn cynnig awgrymiadau ar gyfer manteision cadarnhaol.

Integreiddiad: Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn integreiddio strategaethau ar draws defnydd tir, trafnidiaeth a datblygu economaidd, gan sicrhau dull cydlynol o integreiddio dulliau trafnidiaeth. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi ei aliniad â chynlluniau strategol a chenedlaethol eraill fel y disgrifir uchod, sy'n helpu i integreiddio cynlluniau a blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol (yn ogystal â lleol). Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hefyd yn ystyried cysylltedd trawsffiniol ac yn helpu i ymdrin â datblygu economaidd, cynllunio defnydd tir a

chynllunio trafnidiaeth mewn ffordd gyfunol a chyfannol ar draws rhanbarthau. Mae'r IWBA yn mabwysiadu fframwaith cynhwysfawr sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Llywodraeth Cymru, gan ystyried pob agwedd ar les mewn modd integredig, gan gwmpasu pobl, lleoedd a'r amgylchedd.

Cyfranogiad: Mae ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ac IWBA yn pwysleisio pwysigrwydd cynnwys ystod amrywiol o randdeiliaid i lunio penderfyniadau a gwasanaethau sy'n effeithio ar eu bywydau. Trwy ymgysylltu ag awdurdodau lleol, defnyddwyr a gweithredwyr trafnidiaeth, a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos, rydym yn sicrhau bod ein cynlluniau yn adlewyrchu anghenion a dyheadau'r gymuned. Mae'r dull cydweithredol hwn, sy'n cael ei arwain gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), yn ein helpu i adeiladu ar ymdrechion blaenorol a chreu system drafnidiaeth gynaliadwy ar gyfer Gogledd Cymru. Mae rhagor o fanylion am y dull hwn ar gael yn adran ymgysylltu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Cydweithredu: Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi cydweithio'n agos â Cyd-bwyllgorau Corfforedig eraill, Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, a rhanddeiliaid allweddol sy'n cynrychioli'r economi, cymdeithas, diwylliant a'r amgylchedd ledled y rhanbarth, gan ymgorffori adborth gan Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru ac ymgynghoriadau cyhoeddus. Mae'r IWBA hefyd yn hyrwyddo cydweithrediad rhagweithiol â chymunedau lleol wrth weithredu polisïau a chynlluniau. Mae'r dull cydweithredol hwn yn sicrhau bod y defnydd gorau posibl o adnoddau ac arbenigedd yn cael ei wneud i gyflawni amcanion llesiant yr holl bartïon dan sylw.

1.11 Argymhellion

Yn seiliedig ar ganlyniadau'r IWBA, nodwyd cyfres o argymhellion yn Nhabl 4, a fyddai'n helpu i liniaru unrhyw effeithiau andwyol posibl.

Tabl 4 Argymhellion lliniaru ar gyfer polisïau a allai gael effeithiau negyddol

Polisïau	Argymhellion
Amcan 1: Cefnogi'r gwaith o ddarparu tai a gwasanaethau lleol i ddiwallu anghenion cymunedau lleol	
Rhyngweithiad rhwng dulliau (IN1 – IN3)	Yn ystod cam gweithredu'r polisïau, bydd yn hanfodol sicrhau eu bod yn diwallu gwir anghenion y cymunedau. Byddai ymgynghori â'r gymuned ac ymgysylltu gyda sefydliadau lleol a chymunedol yn hwyluso gwell dealltwriaeth o beth yw'r anghenion hynny fel y gellir eu diwallu. Dylai hyn gael ei arwain gan awdurdodau lleol dan oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru.
Amcan 2: Lleihau anghydraddoldeb a hyrwyddo cydlyniant cymunedol	
Bws (PT1)	Dylid defnyddio ymgysylltu cymunedol i lunio llwybrau ac amserlenni. Byddai hyn yn cynyddu'r synnwyr o gydlyniant cymunedol ac yn creu rhwydwaith sy'n diwallu anghenion lleol. Dylid ymgorffori hygyrchedd i ddyluniad gwasanaethau, seilwaith a cherbydau newydd (lefel prosiect). Byddai hyn yn cefnogi mynediad teg at gludiant cyhoeddus a theithio llesol, tra hefyd yn annog mwy o bobl i newid i'r dulliau hyn. Dylai hyn gael ei arwain gan ddylunwyr a chynllunwyr y cynllun, dan oruchwyliaeth perchennog y cynllun, sy'n debygol o fod yn awdurdodau lleol mewn partneriaeth â gweithredwyr a than oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru.

Polisïau	Argymhellion
Cerdded, olwyno a beicio (AT4 -AT6)	Byddai ymgysylltu â rhan-ddeiliaid cymunedol, yn enwedig y rhai sy'n cynrychioli Nodweddion Gwarchodedig/Grwpiau Bregus, yn sicrhau bod pryderon hygyrchedd, syniadau a phrofiadau bywyd yn cael eu hymgorffori yn y dyluniadau. Dylai hyn gael ei arwain gan awdurdodau lleol dan oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru.
Rhyngweithiad rhwng dulliau (IN5-IN6)	Pan fydd polisïau yn ymwneud â chyfleusterau Parcio a Theithio a Pharcio a Rhannu yn cael eu gweithredu, dylid cynnal adolygiad i sicrhau nad yw buddsoddiad yn y cyfleusterau hyn ar draul buddsoddiad mewn cludiant cyhoeddus confensiynol ac nad ydynt o fudd i fodurwyr yn unig (h.y. dylai unigolion nad ydynt yn fodurwyr allu dal i elwa o unrhyw wasanaeth hefyd). Mae ymgynghoriad â rhanddeiliaid yn argymell edrych ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn sydd ag is-grŵp sy'n treialu gwahanol ddulliau yn Niwbwrch lle bydd dysgu defnyddiol ar gael i ardaloedd a chymunedau eraill. Maent yn eirioli i hyn fod yn ddull drwy Ynys Môn i gyd sy'n cynnwys gwell teithio llesol lle mae'r dewis amgen hwnnw ar gael. Dylai hyn gael ei arwain gan awdurdodau lleol dan oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru.
Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio (RS5 - RS6)	Mae'n bwysig bod ailddyrannu ffyrdd a mannau parcio yn cael ei weithredu ynghyd â mentrau i ddarparu gwell isadeiledd cludiant cyhoeddus neu bwlio ceir i atal unrhyw effeithiau andwyol anfwriadol ar hygyrchedd i wasanaethau hanfodol megis gofal iechyd, hamdden a gofodau gwyrdd. Dylid hefyd cynnwys adolygiad o ofynion parcio anabl yn y lleoliadau hyn gydag unrhyw ail-ddyraniad. Dylai hyn gael ei arwain gan awdurdodau lleol dan oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru.
Cysylltedd Digidol (DC1 - DC3)	Dylai hyfforddiant ac addysg ddigidol a gyflawnir gan DC2 ymgorffori gwahanol anghenion dysgu pobl gydag anableddau corfforol neu feddyliol er mwyn goresgyn rhwystrau i gynhwysiad digidol. Dylai hyn gael ei arwain gan awdurdodau lleol dan oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru.
Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio (RS3 - RS4)	Dylid hefyd rhoi ystyriaeth i ddefnydd posib lonydd beicio a llwybrau cerddwyr ar wahân a fyddai'n gwneud teithio llesol yn ddull mwy deniadol o deithio i bobl ac yn cynyddu diogelwch. Dylai hyn gael ei arwain gan awdurdodau lleol dan oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru.
Amcan 4: Cadw, gwarchod a gwella buddiannau bioamrywiaeth a daearamrywiaeth, gan gynnwys drwy ddiogelu safleoedd, rhywogaethau a chynefinoedd pwysig.	
Bws (PT4 - PT5)	Ar lefel prosiect, mae angen ystyried safleoedd gwarchodedig/ardaloedd o gynefinoedd naturiol lle mae datblygiadau isadeiledd angen tir. Dylid ymgorffori mesurau lliniaru drwy arolygu a dylunio priodol yn y cam hwnnw. Dylai hyn gael ei arwain gan ddylunwyr a chynllunwyr y cynllun, dan oruchwyliaeth perchennog y cynllun, sy'n debygol o fod yn awdurdodau lleol mewn partneriaeth â gweithredwyr a than oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru.

Polisïau	Argymhellion
Porthladdoedd a Chludo Nwyddau (PF1 - PF2)	Dylai mesurau lliniaru fod yn eu lle i warchod buddiannau bioamrywiaeth a daearamrywiaeth. Rhaid dilyn Adroddiad Sgrinio ac argymhellion y HRA. Dylai hyn gael ei arwain gan ddylunwyr a chynllunwyr y cynllun, dan oruchwyliaeth perchennog y cynllun, sy'n debygol o fod yn awdurdodau lleol mewn partneriaeth â gweithredwyr a than oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru.
Porthladdoedd a Chludo Nwyddau (PF3)	Rhaid osgoi cynefinoedd gwarchodedig os oes angen ardaloedd newydd o dir. Rhaid dilyn Adroddiad Sgrinio ac argymhellion y HRA. Dylai hyn gael ei arwain gan ddylunwyr a chynllunwyr y cynllun, dan oruchwyliaeth perchennog y cynllun, sy'n debygol o fod yn awdurdodau lleol mewn partneriaeth â gweithredwyr a than oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru.
Amcan 8: Cefnogi trosglwyddiad tuag at sector trafnidiaeth gydag allyriadau carbon is (gan gynnwys dim allyriadau) a gwella gwytnwch y seilwaith trafnidiaeth i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd.	
Trafnidiaeth coetsis, trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw a thrafnidiaeth gymunedol (PT14)	Gallai'r defnydd o gerbydau dim allyriadau ar gyfer gwasanaethau coets sy'n teithio ymhellach gyfrannu at ddatgarboneiddio i'r sector trafnidiaeth. Dylid annog hyn. Dylai hyn gael ei arwain gan awdurdodau lleol mewn partneriaeth â gweithredwyr a than oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru.
Amcan 7: Gwarchod a gwella iechyd dŵr daear, cyrff dŵr wyneb ac arfordirol, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr.	
Porthladdoedd a Chludo Nwyddau (PF3)	Dylid gosod draeniad priodol mewn unrhyw gyfleusterau newydd fyddai'n profi dwysâd o ddefnydd gan HGVs. Dylai hyn gael ei arwain gan ddylunwyr a chynllunwyr y cynllun, dan oruchwyliaeth perchennog y cynllun, sy'n debygol o fod yn awdurdodau lleol mewn partneriaeth â gweithredwyr a than oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru.
Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio (RS3 - RS4)	Dylid ymgorffori mesurau lliniaru llifogydd mewn cynnal a chadw priffyrdd. Dylai hyn gael ei arwain gan awdurdodau lleol dan oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru.
Amcan 10: Lleihau aflonyddwch o sŵn a dirgryniad sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth	
Porthladdoedd a Chludo Nwyddau (PF3)	Dylai unrhyw wasanaethau (a'u mynediad) newydd ar gyfer parcio HGV gael eu lleoli oddi wrth ardaloedd preswyl a chynefinoedd gwarchodedig. Dylai hyn gael ei arwain gan ddylunwyr a chynllunwyr y cynllun, dan oruchwyliaeth perchennog y cynllun, sy'n debygol o fod yn awdurdodau lleol mewn partneriaeth â gweithredwyr a than oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru.
Amcan 12: Creu system drafnidiaeth integredig sy'n hwyluso symudiad effeithlon a diogel pobl a chludo nwyddau, gan gyfrannu at fwy o ffyniant economaidd yn y rhanbarth.	

Polisïau	Argymhellion
Bws (PT6 -PT7)	Yr A55, "Ffordd Gyflym Gogledd Cymru", yw'r ffordd brysuraf yng Ngogledd Cymru, ffordd ddeuol sy'n cysylltu Caer i Gaergybi yn bennaf, ar hyd arfordir Gogledd Cymru ac sy'n mynd heibio Cyffordd Llandudno, Conwy a Bangor. Dyma un o ffyrdd pwysicaf Cymru sy'n rhedeg drwodd i borthladd Caergybi. Mae croesi'r Fenai i Ynys Môn yn bwysig yn lleol ac yn strategol, er eu bod wedi'u gwahanu gan y Fenai ac mewn ardaloedd awdurdod lleol gwahanol, mae'r trefi ar ddwy ochr y Fenai yn ffurfio ardal economaidd sengl. Gallai canolbwyntio ar y llwybrau hyn wrth wella'r rhwydwaith bysiau, polisi PT6, wella'r cyfraniad at fwy o ffyniant economaidd.
Rhyngweithiad rhwng dulliau (IN1 – IN3)	Dylai gwasanaethau trafnidiaeth gynnwys cymaint o integreiddiad â phosib, gan ystyried anghenion lleol ac anghenion gwahanol yr amrywiaeth o grwpiau mewn cymunedau. Er enghraifft, mae anghenion trafnidiaeth person sy'n mynd i weithio (yn teithio o A i B) yn debygol o fod yn wahanol i riant sy'n gwneud sawl taith yn ystod eu diwrnod (yn teithio A-B-D-C-A). Dylid ystyried anghenion pob defnyddiwr. Dylai hyn gael ei arwain gan awdurdodau lleol mewn partneriaeth â gweithredwyr a than oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru.

1.12 Monitro a gwerthuso

Mae Cynllun Monitro a Gwerthuso wedi cael ei baratoi ar gyfer y NWRTP ac mae'n cynnwys cyfres o fesurau yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Genedlaethol Cymru, sydd wedi'u haddasu ar gyfer amcanion SMART ac IWBA y NWRTP. Mae pob mesur yn gosod targedau ar gyfer gwelliannau dros gyfnod y Cynllun hyd at 2030. Mae'r Cynllun Monitro a Gwerthuso yn amlinellu sut fydd llwyddiant y NWRTP yn cael ei fesur, gan ganolbwyntio ar amcanion trafnidiaeth a deilliannau lles cysylltiedig, ac yn amlygu cyfraniad y rhanbarth i'r targedau datgarboneiddio a newid moddol cenedlaethol.

Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Datganiad Ôl-fabwysiadu ar gyfer yr Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA)

Gorffennaf 2025








Datganiad Ôl-fabwysiadu ar gyfer yr Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA)

Cynnwys

1 Cyflwyniad 3

1.1 Trosolwg 3

1.2 Diben y Datganiad Ôl-fabwysiadu (PAS) hwn 4

2 Sut ymgorfforwyd yr ystyriaethau amgylcheddol yng Nghynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWRTP) 6

2.1 Trosolwg 6

2.2 Ystyriaeth amgylcheddol o fewn Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWRTP) 6

3 Sut y cafodd yr Arfarniad Llesiant Integredig ei ystyried yn ystod gwaith paratoi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWRTP) 10

3.1 Trosolwg 10

3.2 Cyfleoedd a nodwyd yn ystod asesiad Cwmpasu'r IWBA 10

3.3 Canlyniad drwy amcanion amgylcheddol yr IWBA 15

4 Sut yr ystyriwyd y sylwadau a ddaeth i law trwy'r ymgynghoriad ar y NWRTP drafft a'r adroddiad IWBA 26

4.1 Trosolwg 26

4.2 Crynodeb o'r ymgynghoriad cyhoeddus 26

5 Y rhesymau dros ddewis y NWRTP, fel y'i mabwysiadwyd, yng ngoleuni unrhyw ddewisiadau rhesymol eraill a ystyriwyd 27

6 Y mesurau a gymerir i fonitro unrhyw effeithiau amgylcheddol a llesiant arwyddocaol yn sgil gweithredu'r NWRTP 28

Tablau

Tabl 2-1: Amcanion IWBA sy'n cyfrannu at Uchelgeisiau Amgylcheddol Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (WTS)7

Tabl 3-1: Materion a chyfleoedd cynaliadwyedd sy'n berthnasol i'r NWRTP10

Ffigyrau

Ffigwr 1-1: Camau'r IWBA (wedi'i halinio â'r broses SEA) a datblygiad y NWRTP5

Atodiadau

1. Crynodeb o Ymatebion yr Ymgynghoriad oedd yn ymwneud â'r IWBA a'r Camau a 30

2. Crynodeb o Ymateb Ymgynghoriad CNC a'r Camau a Gymerwyd33

1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ffurfio'r Datganiad Ôl-fabwysiadu (PAS)[1] ar gyfer Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA) i gyd-fynd â fersiwn derfynol Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWRTP) 2025-2030. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion mabwysiadu cynlluniau a rhaglenni Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 (Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA)).

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cyhoeddi'r PAS hwn ochr yn ochr â'r NWRTP a'i IWBA ar ôl iddo gael ei fabwysiadu, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, fel y gall cyrff ymgynghori, a'r rhai sy'n ymwneud â'r broses ymgynghori mewn perthynas â datblygu'r NWRTP, ei ystyried. Dylid darllen y PAS hwn ynghyd â'r NWRTP, ei IWBA, ei Gynllun Cyflawni, a'i Gynllun Monitro a Gwerthuso (MaG).

1.1 Trosolwg

1.1.1 Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer creu Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC) a ffurfiwyd i hyrwyddo cydweithredu rhanbarthol trwy fframwaith cyson a reolir yn ddemocrataidd. Mae'n ofynnol i CBC gydymffurfio â holl ddyletswyddau cyrff cyhoeddus a chânt gyfrifoldeb statudol dros baratoi Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol[2] y mae'n rhaid iddynt nodi polisïau trafnidiaeth i weithredu'r Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021[3], yn darparu gweledigaeth hirdymor ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru'n nodi'r weledigaeth ar gyfer system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon yng Nghymru. Y mecanweithiau cyflawni i wireddu'r uchelgeisiau hyn yw Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol Cymru 2022-2027 ac ar lefel ranbarthol, y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

1.1.2 Arfarniad Llesiant Integredig

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ar Gynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol[4] yn nodi bod angen Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA) ar gyfer y NWRTP, a dylai gwybodaeth ategol gynnwys asesiadau effaith statudol manylach, astudiaethau technegol, crynodebau ymgynghori ac ymgysylltu, neu wybodaeth arall a ddefnyddiwyd i lywio'r broses o ddatblygu'r NWRTP neu'r IWBA. Mae'n esbonio sut y nodir y canllawiau cyfredol ar IWBA yng nghanllawiau arfarnu trafnidiaeth Cymru (WelTAG)[5].

Mae'n ofyn cyfreithiol i awdurdodau cyfrifol ymgymryd ag Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) o gynlluniau a rhaglenni sy'n amodol ar gael eu paratoi a/neu mabwysiadu gan awdurdod ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol ac sy'n ofynnol gan ddarpariaethau deddfwriaethol, rheoleiddio neu weinyddol ac yn arwain at ddatblygiad a allai gael effeithiau amgylcheddol sylweddol.

[1] Gelwir hefyd yn Ddatganiad o Fanylion

[2] Mae'r CBC hefyd yn gyfrifol am baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol

[3] Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021 – Ar gael ar-lein yn: https://www.gov.wales/llwybr-newydd-wales-transport-strategy-2021

[4] Cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol: canllawiau ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig. Ar gael ar-lein yn https://www.gov.wales/regional-transport-plans-guidance-corporate-joint-committees

[5] Canllawiau arfarnu trafnidiaeth Cymru (WelTAG). Ar gael ar-lein yn: https://www.gov.wales/welsh-transport-appraisal-guidance-weltag

Mae'r NWRTP yn gynllun sy'n ofynnol gan ddarpariaethau deddfwriaethol (Rheoliadau CBC[6] yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021[7]) ac sy'n debygol o arwain at brosiectau a allai gael effeithiau amgylcheddol sylweddol. Felly, mae SEA yn ofyn statudol, a defnyddiwyd y broses SEA fel sail i'r IWBA oherwydd ei bod yn broses gydnabyddedig a systematig ar gyfer gwerthuso canlyniadau amgylcheddol cynlluniau a rhaglenni.

Drwy ehangu'r broses SEA i gynnwys gofynion asesiadau eraill (fel yr eglurir uchod ac a restrir yn Adran 2.2), mae'r IWBA yn darparu un asesiad cydlynol gan ddefnyddio dull cydweithredol ar draws gwahanol agweddau cynaliadwyedd, yn hwyluso gwybodaeth a rennir ac yn nodi'r croestoriadedd rhwng y pynciau a ystyriwyd.

Mae'r dull hwn yn dileu ailadrodd diangen ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol. Mae hefyd yn galluogi asesiad trylwyr a thryloyw sy'n nodi materion a chyfleoedd datblygu cynaliadwy, y gellir eu bwydo'n ôl yn sylweddol i ddatblygiad y NWRTP.

Mae Ffigwr 11 isod yn nodi prif gamau yr IWBA fel mae yn alinio gyda datblygiad y NWRTP. Mae'r dull hwn yn dileu ailadrodd diangen ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol. Mae hefyd yn galluogi asesiad trylwyr a thryloyw sy'n nodi materion a chyfleoedd o ran datblygiad cynaliadwy, y gellir ei fwydo'n ôl yn gyson i ddatblygiad y NWRTP.

1.2 Diben y Datganiad Ôl-fabwysiadu (PAS) hwn

Mae Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Cynlluniau a Rhaglenni 2004 (Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Strategol (SEA)) yn ei gwneud yn ofynnol bod Datganiad o Fanylion (nid term diffiniedig) ar gael cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl mabwysiadu'r cynllun. Rhaid i'r datganiad hwn ddangos:

1. Sut gafodd ystyriaethau amgylcheddol[8] eu hymgorffori i'r NWRTP (cyfeiriwch at Adran 02);
2. Sut y cafodd yr Arfarniad Llesiant Integredig ei ystyried yn ystod gwaith paratoi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWRTP) (cyfeiriwch at Adran 0);
3. Sut yr ystyriwyd y sylwadau a ddaeth i law trwy'r ymgynghoriad ar yr Adroddiad IWBA (cyfeiriwch at Adran 04);
4. Y rhesymau dros ddewis y NWRTP, fel y'i mabwysiadwyd, yng ngoleuni unrhyw ddewisiadau rhesymol eraill a ystyriwyd (cyfeiriwch at Adran 5); a
5. Y mesurau a gymerir i fonitro unrhyw effeithiau amgylcheddol a llesiant arwyddocaol yn sgil gweithredu'r NWRTP (cyfeiriwch at Adran 6).


Mae'r Datganiad Ôl-fabwysiadu (PAS) hwn yn bodloni'r gofyn am Ddatganiad o Fanylion, ac yn cwmpasu Cam D: Ymgynghori ac asesu newidiadau sylweddol a Mabwysiadu o Ffigwr 1-1 isod.

[6] Ymgynghoriad ar y Cyd-bwyllgorau Corfforedig: canllawiau statudol drafft, 2021. Llywodraeth Cymru. Ar gael ar-lein yn: https://www.gov.wales/consultation-corporate-joint-committees-draft-statutory-guidance-html [Cyrchwyd 14/05/24]

[7] Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Ar gael ar-lein yn: https://www.legislation.gov.uk/asc/2021/1/contents [Cyrchwyd 14/05/24].

[8] Mae'r IWBA yn dangos sut mae llesiant wedi cael ei ystyried wrth ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys cyfraniad at lesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol, a sut y paratowyd ar gyfer defnyddio'r pum ffordd o weithio a hyrwyddir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Er bod y PAS hwn yn canolbwyntio ar yr ystyriaethau amgylcheddol yn unig, mae llesiant wedi cael ei ystyried fel gofyn ehangach o fewn yr IWBA.

Ffigwr 1-1: Camau'r IWBA (wedi'i halinio â'r broses SEA) a datblygiad y NWRTP1



2 Sut ymgorfforwyd yr ystyriaethau amgylcheddol yng Nghynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWRTP)

2.1 Trosolwg

Mae'r NWRTP yn cynnwys pedwar amcan SMART allweddol (Penodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Perthnasol ac Amserol). Mae pedwar amcan SMART yn sefydlu targedau ac yn helpu i sicrhau cysondeb rhwng blaenoriaethau a nodau llesiant yr RTP a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, fel sy'n ofynnol gan Ganllawiau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Llywodraeth Cymru. Maent yn hyrwyddo ystyriaethau amgylcheddol trwy uchelgeisiau i leihau'r angen i deithio, annog newid moddol i drafnidiaeth gynaliadwy, a galluogi datgarboneiddio. Maent wedi hysbysu ac arwain y NWRTP a'i IWBA.

Amcanion SMART Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

1. *Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol: Byddwn yn galluogi 30% neu fwy o bobl yng Ngogledd Cymru i weithio o bell erbyn 2030 trwy gynllunio defnydd tir yn well a gwella cysylltedd digidol, a ddylai leihau'r angen cyffredinol i deithio a galluogi teithiau byrrach sy'n fwy addas ar gyfer dulliau cynaliadwy.*
2. *Gwell hygyrchedd a dewis o drafnidiaeth: Byddwn yn datblygu isadeiledd a gwasanaethau sy'n rhoi dewis i bobl sut maent yn teithio ar gyfer pob taith ac yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy trwy wella mynediad i aneddleoedd allweddol, cyflogaeth, safleoedd addysgol ac atyniadau twristaidd. Dylid gwella hygyrchedd pob atyniad taith allweddol, gan gefnogi'r targed rhaniad modd cenedlaethol o 45% o deithiau i'w gwneud trwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus erbyn 2040.*
3. *Galluogi datgarboneiddio drwy newid i fflyd dim allyriadau: Byddwn yn datblygu isadeiledd ategol a chefnogi cymhellion i alluogi o leiaf 50% o gerbydau modur a phob bws cyhoeddus sy'n gweithredu yng Ngogledd Cymru i fod yn ddi-allyriadau erbyn 2035.*
4. *Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy: Byddwn yn datblygu rhwydwaith trafnidiaeth gwydn, diogel, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac effeithlon sy'n sicrhau twf economaidd cynaliadwy drwy wella hygyrchedd i feysydd cyflogaeth presennol a rhai sydd wedi'u cynllunio. Bydd o leiaf 50% o aelwydydd Gogledd Cymru yn gallu teithio'n bellach o fewn un awr ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gefnogi mynediad i safleoedd cyflogaeth allweddol a chanolfannau rhanbarthol erbyn 2030.*

2.2 Ystyriaeth amgylcheddol o fewn Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWRTP)

Mae'r IWBA yn dangos sut mae llesiant wedi cael ei ystyried wrth ddatblygu'r NWRTP, yn cynnwys cyfraniad at lesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol, a sut y paratowyd ar gyfer defnyddio'r pum ffordd o weithio a hyrwyddir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hefyd yn cynnwys asesiadau effaith, gan ystyried, er enghraifft, sut y mae'r Cynllun wedi ystyried a chyfrannu at ddeilliannau ansawdd iechyd ac amgylcheddol ehangach.

Mae'r IWBA yn bennaf yn ansoddol ei natur. Er bod y NWRTP yn canolbwyntio ar drafnidiaeth, mae ganddo'r potensial i gefnogi targedau ehangach ac mae ganddo fuddion pellgyrhaeddol gan gynnwys cynyddu gweithgarwch corfforol y boblogaeth, creu cynefinoedd, gwella tegwch mynediad at addysg a chyflogaeth, ysgogi gweithgaredd economaidd a hybu twristiaeth. Un o brif swyddogaethau'r IWBA felly yw dal y manteision ehangach hyn a'u hintegreiddio i ddatblygiad y NWRTP.

Er mwyn dileu ailadrodd diangen a sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ofynion cyfreithiol, mae'r IWBA yn darparu asesiad sengl, cydlynol trwy ddull cydweithredol ar draws gwahanol agweddau ar gynaliadwyedd. Mae'r broses SEA estynedig (fel y rhestrir isod) wedi'i mabwysiadu fel sylfaen ar gyfer yr IWBA, gan ei fod yn ddull cydnabyddedig a systematig ar gyfer gwerthuso canlyniadau amgylcheddol cynlluniau a rhaglenni.

Lle bo angen, gellir defnyddio IWBA i ddangos sut mae'r gofynion deddfwriaethol isod yn cael eu bodloni:

- Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Cynlluniau a Rhaglenni (OS 2004/1656) (Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Strategol (SEA))
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg
- Asesiad Effaith ar Hawliau Plant (CRIA), fel sy'n ofynnol gan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- Asesiad Effaith Cydraddoldeb (EqIA), fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cydraddoldeb (2010)
- Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) a'r Polisi Adnoddau Naturiol (NRP) fel sy'n ofynnol gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 fel y'u diwygiwyd (a elwir yn Reoliadau Cynefinoedd 2017).

Gellir defnyddio IWBA hefyd i ymgorffori gofynion anneddfwriaethol asesiadau sy'n ymwneud â:

- Prawfesur gwledig
- Effeithiau iechyd
- Newid hinsawdd

Mae 12 amcan IWBA wedi'u nodi sy'n cynnwys ystyriaethau o faterion amgylcheddol a amlinellir yn rheoliadau'r SEA ar gyfer asesu effeithiau posib y NWRTP ac i osod datblygu cynaliadwy yng nghanol y broses gwneud penderfyniadau. Mae'r asesiadau statudol ac anstatudol (fel y rhestrir uchod) wedi'u hymgorffori yn adroddiad IWBA.

Mae amcanion IWBA yn hyrwyddo ystyriaethau llesiant a datblygu cynaliadwy wrth gyflawni polisïau NWRTP. Mae amcanion IWBA wedi'u rhestru yn Nhabl 2-1 isod. Maent yn rhychwantu ystod eang o ystyriaethau amgylcheddol, o iechyd, bioamrywiaeth, tirwedd, treftadaeth ddiwylliannol, dŵr, carbon, ansawdd aer, sŵn, deunyddiau a gwastraff. Bydd yr amcanion hyn yn llywio cyflawni polisïau NWRTP.

Tabl 2-1: Amcanion IWBA sy'n cyfrannu at Uchelgeisiau Amgylcheddol Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (WTS)21

Cyf.	Amcanion Fframwaith IWBA
1	Cefnogi cyflawniad tai a gwasanaethau lleol i gwrdd ag anghenion cymunedau lleol
2	Lleihau anghydraddoldeb a hyrwyddo cydlyniant cymunedol
3	Gwella iechyd a lles y boblogaeth leol, gan gynnwys mewn perthynas â iechyd corfforol a meddyliol
4	Cadw, gwarchod a gwella buddiannau bioamrywiaeth a daearamrywiaeth, gan gynnwys drwy ddiogelu safleoedd, rhywogaethau a chynefinoedd pwysig.
5	Gwarchod a gwella cymeriad y dirwedd, dynodiadau a mwynderau gweledol yn yr ardal leol
6	Gwarchod a gwella'r dreftadaeth ddiwylliannol leol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg
7	Gwarchod a gwella iechyd dŵr daear, cyrff dŵr wyneb ac arfordirol, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr.
8	Cefnogi trosglwyddiad tuag at sector trafnidiaeth gydag allyriadau carbon is (gan gynnwys sero) a gwella gwytnwch yr isadeiledd trafnidiaeth i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd
9	Gwarchod a gwella ansawdd aer lleol
10	Lleihau aflonyddwch o sŵn sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth a dirgryniad i gymunedau lleol
11	Ymgorffori egwyddorion yr economi gylchol i leihau'r defnydd o ddeunyddiau crai
12	Creu system drafnidiaeth integredig sy'n hwyluso symudiad effeithlon a diogel pobl a chludo nwyddau, gan gyfrannu at fwy o ffyniant economaidd yn y rhanbarth

2.2.1 Asesiadau Effaith

Gall trafnidiaeth gael effaith ar ddefnydd tir a allai arwain at effeithiau ar gynefinoedd gwarchodedig. Am y rheswm hwn, rhoddir ystyriaeth i sut y gallai'r NWRTP effeithio ar gynefinoedd naturiol ac ecosystemau. Mae ymarfer sgrinio ARhC ar wahân wedi'i gynnal (Atodiad C o adroddiad IWBA). Mae casgliadau'r ymarfer sgrinio ARhC wedi llywio'r NWRTP.

Yn ogystal â'r ymarfer sgrinio ARhC, paratowyd adroddiad Cwmpasu IWBA, yn nodi cwmpas sut y byddai pob un o'r asesiadau yn cael eu cofnodi o fewn proses integredig, cyd-destun yr asesiadau a'r NWRTP, sefydlu'r waelodlin, adolygu'r cynlluniau, y rhaglenni a'r amcanion cynaliadwyedd allweddol sy'n berthnasol i'r NWRTP, a nodi'r amcanion gwerthuso ar gyfer y fframwaith gwerthuso. Cyflwynwyd yr Adroddiad Cwmpasu Asesiad Effaith ar gyfer ymgynghori ag Ymgyngoreion Statudol (Cadw a Chyfoeth Naturiol Cymru) yn ogystal â'i rannu â Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru ac awdurdodau lleol Gogledd Cymru am unrhyw sylwadau rhwng 15 Hydref 2024 ac 19 Tachwedd 2024. Mae barn cwmpasu'r ymgynghoreion statudol fel a ganlyn:

- Cadarnhaodd Cadw fod Treftadaeth Ddiwylliannol wedi'i chynnwys yn briodol yn yr adroddiad cwmpasu. Fe wnaethant hefyd anfon papur Cadw ar yr Amgylchedd Hanesyddol a Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol i'r tîm asesu. Yn unol â hynny, mae'r fframwaith arfarnu wedi'i fireinio i gynnwys y ffactorau a argymhellir i'w hystyried yn yr asesiad.
- Ni ddarparwyd unrhyw farn gan CNC.

Nodwyd y prif faterion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sy'n berthnasol i'r NWRTP yn ystod y cam Cwmpasu gan ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd o'r adolygiad o gynlluniau, rhaglenni ac amcanion cynaliadwyedd perthnasol, yr adolygiad gwaelodlin, a'r ddealltwriaeth bresennol o gwmpas cyffredinol y NWRTP.

Mae'r tueddiadau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol sy'n cael eu rhagweld (gan dybio na fydd y NWRTP yn cael ei weithredu), wedi cael eu pennu drwy ddadansoddi'r cynlluniau, rhaglenni ac amcanion cynaliadwyedd presennol, ar y cyd â data gwaelodlin presennol a phatrymau hanesyddol. Bydd y tueddiadau hyn yn gwasanaethu fel 'gwaelodlin i'r dyfodol' a bydd y NWRTP yn cael ei werthuso yn eu herbyn.

Yn ogystal, mae'r cyfleoedd i'r NWRTP wneud cyfraniad positif i gynaliadwyedd wedi cael eu hadnabod. Bydd y problemau a'r cyfleoedd hyn yn gwasanaethu fel canllaw i ddatblygu'r NWRTP, gan sicrhau bod yr effeithiau negyddol yn cael eu cadw i'r lleiafswm a bod y cyfleoedd i wneud y mwyaf o'r buddion yn cael eu hintegreiddio i'r cynllun. O ystyried natur strategol y NWRTP, mae'r cyfleoedd a'r problemau sydd wedi'u nodi yn rhai lefel uchel ar hyn o bryd. Fodd bynnag, maent eisoes yn adlewyrchu'r buddion ehangach y gellir eu cyflawni drwy gydweithio ar draws sectorau ac awdurdodaethau.

Nid oes unrhyw rai o'r pynciau IWBA wedi'u sgopio allan o'r asesiad. Mae hyn oherwydd bod gan gynllunio trafnidiaeth amrediad eang o effeithiau arwyddocaol tebygol, ar draws pob pwnc. Yn ogystal, yn sgil y dull asesu integredig, sy'n cynnwys asesiadau statudol penodol, nid yw'n ddichonadwy sgopio pynciau penodol allan.

Cyhoeddwyd NWRTP drafft ac adroddiad IWBA cysylltiedig rhwng 20 Ionawr 2025 ac 14 Ebrill 2025 ar gyfer ymgynghoriad, yn unol â rheoliadau'r SEA. Anfonwyd copïau at CNC a Cadw fel ymgynghoreion statudol ochr yn ochr â rhanddeiliaid eraill fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus. Yn benodol, mae'r IWBA drafft wedi:

- Nodi, disgrifio a gwerthuso effeithiau amgylcheddol gweithredu'r Cynllun;
- Nodi camau gweithredu i osgoi, lleihau neu unioni unrhyw effeithiau andwyol mor llawn â phosib;
- Darparu cyfle cynnar ac effeithiol i gymryd rhan trwy ymgynghoriad wrth baratoi'r Cynllun;
- Cynnig mesurau i fonitro a gwerthuso effeithiau amgylcheddol gweithrediad y cynllun.

Denodd yr ymarfer ymgynghori ymateb gan CNC, ond ni chynigiodd Cadw sylwadau pellach yn dilyn yr ymarfer ymgynghori cwmpasu. Gwnaeth rhanddeiliaid eraill ac aelodau o'r cyhoedd sylwadau ar y cynlluniau drafft hefyd, gan gynnwys yr IWBA.

Mae'r broses ymgynghori, yr ymatebion, a sut maent wedi'u hystyried, wedi'u nodi yn yr Adroddiad Ymgynghori. Dylid darllen y ddogfen honno ochr yn ochr â'r Datganiad Ôl-fabwysiadu hwn i gael rhagor o wybodaeth a manylion am yr ymgynghoriad a'r adborth.

Ar ôl ymgynghori, mae adroddiad yr IWBA wedi'i adolygu, gan ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad a bydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r NWRTP terfynol a'r Datganiad Ôl-fabwysiadu hwn yn dilyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

3 Sut y cafodd yr Arfarniad Llesiant Integredig ei ystyried yn ystod gwaith paratoi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWRTP)

3.1 Trosolwg

Mae'r IWBA a'r NWRTP wedi bod yn rhedeg yn gyfochrog, gan alluogi integreiddio argymhellion IWBA o ddechrau datblygiad y NWRTP. Mae'r IWBA yn ansoddol ei natur ac mae wedi cefnogi'r gwaith o baratoi'r NWRTP yn gyson ym mhob cam. Mae Adrannau 3.2 a 3.3 isod yn disgrifio sut mae cyfleoedd a nodwyd yn ystod Asesiad Cwmpasu IWBA wedi'u hymgorffori yn y NWRTP.

3.2 Cyfleoedd a nodwyd yn ystod asesiad Cwmpasu'r IWBA

Mae'r cyfleoedd i'r NWRTP wneud cyfraniad positif i ystyriaethau cynaliadwy wedi cael eu hadnabod. Bydd y problemau a'r cyfleoedd hyn yn gwasanaethu fel canllaw i ddatblygu'r NWRTP, gan sicrhau bod yr effeithiau negyddol yn cael eu cadw i'r lleiafswm a bod y cyfleoedd i wneud y mwyaf o'r buddion yn cael eu hintegreiddio i'r NWRTP. O ystyried natur strategol y NWRTP, mae'r cyfleoedd a'r problemau sydd wedi'u nodi yn rhai lefel uchel ar hyn o bryd. Fodd bynnag, maent eisoes yn adlewyrchu'r buddion ehangach y gellir eu cyflawni drwy gydweithio ar draws sectorau ac awdurdodaethau.

Mae'r adran hon yn crynhoi'r materion cynaliadwyedd a'r cyfleoedd a nodwyd yn ystod y cyfnod Sgrinio a Cwmpasu (cyfeiriwch at Ffigwr 11 am ddisgrifiad llawn o'r camau). Mae'r materion a'r cyfleoedd cynaliadwyedd manwl wedi'u cofnodi yn adroddiad IWBA. Wrth gynnal asesiad cwmpasu IWBA, nodwyd y cyfleoedd lliniaru a gwella cynaliadwyedd, ac fe'u cofnodir yn Nhabl 3-1.

Tabl 3-1: Materion a chyfleoedd cynaliadwyedd sy'n berthnasol i'r NWRTP3

Pwnc IWBA	Materion sy'n berthnasol i'r NWRTP	Cyfleoedd NWRTP a nodwyd
Poblogaeth (cymunedau)	• Gallai lleihau maint y boblogaeth rhanbarthol effeithio ar effeithiolrwydd neu hyfywedd ariannol rhai o opsiynau'r NWRTP. • Mae poblogaeth sy'n heneiddio yng Ngogledd Cymru fydd yn effeithio ar anghenion trafnidiaeth, megis patrymau teithio a chymudo. • Mae llai o amrywiaeth o ethnigrwydd, crefydd, ieithoedd a phoblogaethau LHBTQ+ na'r cyfartaledd, bydd angen i'r NWRTP sicrhau ei fod yn darparu ar gyfer y grwpiau hyn. • Mae lefel prentisiaeth uchel a chyflawniad addysgiadol pur gryf ledled y rhanbarth, felly mae angen i'r NWRTP sicrhau bod anghenion teithio pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn briodol. • Ar hyn o bryd, mae diffyg cysylltedd gwledig.	• Helpu i leihau pa mor ynysig y mae cymunedau gwledig drwy ddarparu cysylltiadau trafnidiaeth priodol i gysylltu cymunedau mwy ynysig, gyda'i gilydd ac i hybiau a gwasanaethau trefol. • Datblygu ac integreiddio system trafnidiaeth effeithlon, sy'n cwrdd ag anghenion pob dinesydd, hyrwyddo cyfleoedd cyfartal, a chefnogi'r newidiadau i'r boblogaeth sy'n cael eu rhagweld. • Datblygu mentrau trafnidiaeth sy'n cefnogi creu cymunedau diogel, cynaliadwy, cytbwys a chydlynol. • Darparu gwasanaethau trafnidiaeth sy'n cefnogi newidiadau mewn ffyrdd o fyw a phatrymau teithio mewn cymdeithas ar ôl y pandemig. • Creu opsiynau trafnidiaeth mwy cynhwysol sydd hefyd yn darparu mynediad mwy cyfartal at wasanaethau a llefydd.

Pwnc IWBA	Materion sy'n berthnasol i'r NWRTP	Cyfleoedd NWRTP a nodwyd
Iechyd pobl	• Angen cynyddol i ddatblygu gwasanaethau trafnidiaeth i gefnogi poblogaeth sy'n heneiddio. • Mae angen ystyried sut mae argaeledd trafnidiaeth yn effeithio ar iechyd meddwl. • Gall cynnydd mewn traffig gael effaith andwyol ar iechyd corfforol a meddyliol a llesiant trigolion. Gall hyn fod yn sgil datgysylltedd, materion ansawdd aer a llai o dawelwch (sŵn). • Mae anghyfartaledd iechyd yn amlwg drwy'r rhanbarth ac fe allai hyn gael ei waethygu o ganlyniad i opsiynau trafnidiaeth gwael (yn enwedig i bobl sy'n profi anfantais cymdeithasol-economaidd.	• Gwella cysylltedd cymunedau a gwasanaethau iechyd allweddol i leihau unigedd ac ynysigrwydd; gwella diogelwch traffig. • Creu cludiant cyhoeddus mwy hygyrch a darparu mwynderau cyhoeddus (megis meinciau a llochesi cyhoeddus). • Cynnwys mesurau hybu iechyd megis rhai sy'n hyrwyddo gweithgarwch corfforol (e.e. teithio llesol, isadeiledd cerdded a beicio) a chydlyniant cymdeithasol (e.e. gwell mynediad at wasanaethau a chyfleusterau cymunedol). • Cyfleoedd i wella'r rhwydwaith cludiant a'r isadeiledd ar gyfer y boblogaeth sydd â nam corfforol / colled synhwyraidd, niwroamrywiaeth ac anghenion anabledd (dyluniad cynhwysol). • Mae cyfle i'r NWRTP ymdrin â'r anfanteision cymdeithasol-economaidd (gan gynnwys materion diweithdra, llai o gyrhaeddiad addysgiadol, ansicrwydd tai ac ansicrwydd ariannol) drwy hyrwyddo cyflwyno rhwydwaith ac isadeiledd trafnidiaeth cynhwysol, cost effeithiol a chynaliadwy sy'n cysylltu cyfleoedd cyflogaeth i ardaloedd gydag amddifadedd uchel i hyrwyddo gwell iechyd meddyliol a chorfforol.
Bioamrywiaeth	• Mae safleoedd dynodedig sy'n bresennol drwy'r dalgylch a allai gael eu heffeithio gan leoliad ymyraethau, gan gynnwys drwy golli cynefin a diraddio. • Gallai cynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig ac wedi'u blaenoriaethu gael eu heffeithio gan leoliad ymyraethau, yn cynnwys drwy newidiadau i gynefinoedd a tharfu.	• Gallai'r ymyraethau sydd wedi'u hadeiladu ymgorffori mesurau i adfer, adennill, ailgysylltu a gwella cynefinoedd presennol i helpu i leihau colled bioamrywiaeth a darnio cynefinoedd ymhellach a chyflawni budd net i Fioamrywiaeth. • Mae cyfle i ddefnyddio dull cyfalaf naturiol i helpu i hysbysu datblygiad ymyraethau. • Gallai'r ymyraethau sydd wedi'u hadeiladu gyfrannu at greu cynefinoedd sy'n fwy gwydn rhag newid hinsawdd.
Defnydd tir a thirwedd	• Bydd angen i unrhyw ymyrraeth yn ardal yr astudiaeth fod yn ymwybodol o gymeriad a dynodiadau'r dirwedd, megis Parc Cenedlaethol Eryri, AHNE Môn, AHNE Llŷn, AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, i leihau unrhyw effaith andwyol.	• Gall dyluniad sympathetig sy'n cael ei arwain gan y gymuned gynnig cyfle i wella'r dirwedd ymhellach a chymeriad gwahanol ardaloedd a newid y ffordd mae cymunedau yn rhyngweithio â nhw. • Lleihau effaith negyddol traffig ar osodiad dynodiadau tirwedd drwy gynnwys mesurau i wella cludiant cyhoeddus ac isadeiledd teithio llesol i gael mynediad at asedau allweddol megis Parc Cenedlaethol Eryri. • Gwella mynediad i'r dirwedd wledig drwy rwydweithiau teithio llesol; rhwydwaith beicio/Hawliau Tramwy a chludiant cyhoeddus. • Gwarchod a chadw adnoddau pridd.

Pwnc IWBA	Materion sy'n berthnasol i'r NWRTP	Cyfleoedd NWRTP a nodwyd
Treftadaeth ddiwylliannol	• Potensial i asedau treftadaeth ddiwylliannol gael eu heffeithio'n uniongyrchol ac anuniongyrchol gan newidiadau ffisegol i'r amgylchedd adeiledig. Mae hyn yn cynnwys effeithiau andwyol posib ar osodiad yr asedau treftadaeth yn sgil newidiadau yng nghyfaint a chyfansoddiad y traffig sy'n cael ei brofi yn eu hardal leol. • Cyfran uchel o siaradwyr Cymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol gref.	• Gwella agweddau dwyieithog y NWRTP a'i gynigion. • Cysylltu cymunedau sy'n siarad Cymraeg, cryfhau'r synnwyr o berthyn diwylliannol a'r cysylltiadau ieithyddol yn y rhanbarth. • Gwella ac integreiddio'r rhwydwaith ledled y rhanbarth a gwella ei wytnwch ar gyfer y dyfodol fel bod mynediad gwell a mwy cynhwysol at safleoedd diwylliannol arwyddocaol. • Annog cadwraeth a gwella'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys gosodiad asedau treftadaeth. • Osgoi gwaith fyddai'n addasu cymeriad neu oroesiad ffisegol asedau treftadaeth (yn cynnwys archeoleg).
Amodau'r ddaear (priddoedd a daeareg)	• Peryglon daearegol, megis erydiad arfordirol, cael y potensial i amharu ar yr isadeiledd trafnidiaeth a'i ddifrodi.	• Gwarchod a gwella ansawdd a swm yr adnoddau dŵr daear.
Yr amgylchedd dŵr	• Gallai'r ymyraethau sy'n gysylltiedig â'r NWTP gyfrannu at y dirywiad yn statws WFD cyrff dŵr (gan gynnwys dŵr daear), megis drwy newidiadau i'r isadeiledd adeiledig a draenio o'r rhwydwaith trafnidiaeth. • Gallai'r isadeiledd trafnidiaeth gael ei effeithio'n andwyol gan lifogydd (afonol, dŵr daear ac arfordirol) ac erydiad arfordirol.	• Dylid ystyried cyfleoedd i gwrdd â'r amcanion ar gyfer ardaloedd gwarchodedig a chyflawni statws cyffredinol dda Y Gyfarwydded Fframwaith Dŵr (WFD) ar gyfer dŵr wyneb a dŵr daear, gan gynnwys lliniaru yn erbyn effeithiau andwyol y sector trafnidiaeth. Dylai hyn alinio â'r mesurau lleol a amlinellir yn y Cynlluniau Rheoli Basn Afon a chrynodeb dalgylch y dalgylchoedd cyfle yn ardal yr astudiaeth (h.y. Ynys Môn, Conwy, Clwyd a Dyfrdwy). • Lle bo modd, dylai'r NWTP geisio gweithredu mesurau i adfer a gweithio â phrosesau naturiol i uchafu'r buddion a'r deilliannau amgylcheddol dŵr ehangach.
Ffactorau hinsawdd	• Mae newid hinsawdd yn y dyfodol yn debygol o gynyddu difrifoldeb ac amlder digwyddiadau tywydd eithafol gan gynnwys llifogydd a sychder ac achosi hafau poethach a gaeafau gwlypach. Mae gan hyn y potensial i effeithio'n andwyol ar isadeiledd trafnidiaeth a tharfu ar deithio. • Mae newidiadau yn yr hinsawdd yn debygol o effeithio ar y dewisiadau teithio y mae pobl yn eu gwneud. Er enghraifft, gall gaeafau gwlypach atal pobl rhag dewis opsiynau cludiant cyhoeddus os nad oes lloches ar gael i aros neu os yw'r gwasanaethau'n annibynadwy.	• Cyfle i leihau allyriadau o drafnidiaeth drwy weithredu atebion carbon isel neu ddi-garbon gan gynnwys lleihau teithiau ceir, pontio i fflyd dim allyriadau a chreu rhwydweithiau trafnidiaeth gwydn ac effeithlon. • Ymgorffori mesurau i sicrhau bod y rhwydwaith trafnidiaeth yn gallu gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd yn y dyfodol.

Pwnc IWBA	Materion sy'n berthnasol i'r NWRTP	Cyfleoedd NWRTP a nodwyd
Ansawdd aer	• Ar y cyfan mae ansawdd aer yn dda ac nid yw'n broblem fawr yn ardal NWTP o ystyried ei fod yn wledig ei natur yn bennaf. • Gall hyrwyddo trosglwyddiad i gerbydau trydan gefnogi gostyngiadau mewn llygredd aer sy'n gysylltiedig â charbon deuocsid, carbon monocsid ac ocsidau nitraidd (fel NO_2). Fodd bynnag, mae cerbydau trydan yn dal i ryddhau llygredd mater gronynnol (PM_{10} a $PM_{2.5}$) sy'n gysylltiedig â theiars a brêcs yn gwisgo. • Mae perygl y gallai datblygiadau newydd yn yr ardal (fel Porthladd Rhydd Ynys Môn ac Ardal Fuddsoddi Wrecsam) gynyddu nifer y cludo nwyddau sy'n teithio yn yr ardal, gan arwain at gynyddu llygredd aer a gwaethygu ansawdd aer lleol.	• Er mwyn cael yr effaith fwyaf ar ansawdd aer, dylai ymyriadau ganolbwyntio ar leihau nifer y cerbydau ar y ffordd drwy gefnogi'r newid i deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus lle bynnag y bo modd. • Gall creu cysylltiadau teithio llesol sydd wedi'u gwahanu'n ddigonol oddi wrth draffig ffyrdd helpu i leihau faint o lygredd y mae cerddwyr a beicwyr yn agored iddo ac yn cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar deithio llesol drwy greu opsiynau teithio llesol diogel. • Dylai'r NWRTP gynnwys mentrau trafnidiaeth perthnasol ar gyfer busnesau (e.e. hyrwyddo cludo nwyddau ar y rheilffordd, a beiciau e-cargo ar gyfer busnesau bach mewn prif drefi) i sicrhau nad yw iechyd cymunedau a chynefinoedd lleol yn cael eu heffeithio'n niweidiol.
Sŵn	• Mae llygredd sŵn sy'n gysylltiedig â ffyrdd yn bryder allweddol yn ardal NWRTP, yn enwedig ar hyd prif lwybrau fel yr A55. • Mae perygl y gallai datblygiadau newydd yn yr ardal (fel Porthladd Rhydd Ynys Môn ac Ardal Fuddsoddi Wrecsam) gynyddu nifer y cludo nwyddau sy'n teithio yn yr ardal, gan arwain at gynyddu llygredd sŵn ac effaith ar drigolion lleol.	• Mae gan y NWRTP gyfle i leihau llygredd sŵn sy'n cael ei brofi gan gymunedau lleol drwy leihau nifer y cerbydau ar y ffyrdd (drwy hyrwyddo'r trosglwyddiad i ddefnyddio cludiant cyhoeddus a theithio llesol) a chefnogi'r trosglwyddiad i gerbydau trydan. • Dylai'r NWRTP gynnwys mentrau trafnidiaeth perthnasol (e.e. hyrwyddo cludo nwyddau ar y rheilffordd), i sicrhau nad yw iechyd cymunedau a chynefinoedd lleol yn cael eu heffeithio'n niweidiol. • Gall lleihau sŵn traffig ffordd (a sicrhau nad yw hyn yn cynyddu) o gwmpas Parc Cenedlaethol Eryri helpu i gynnal a gwella tawelwch yr ardal a chefnogi iechyd a llesiant defnyddwyr. • Dylai'r NWRTP alinio â Chynllun Seinwedd Cymru lle bo modd.

Pwnc IWBA	Materion sy'n berthnasol i'r NWRTP	Cyfleoedd NWRTP a nodwyd
Isadeiledd	• Efallai y bydd angen darparu dros 1,000 o dai yng Ngogledd Cymru bob blwyddyn i gwrdd â'r galw am dai. • Mae cyfraddau adeiladu tai yn amrywio ledled y gogledd, gyda'r cyfraddau cwblhau uchaf yn Sir Ddinbych, Conwy ac Ynys Môn, a'r isaf yng Ngwynedd. • Mae isadeiledd hydrogen yn y dyfodol, gan gynnwys canolfannau cynhyrchu a rhwydweithiau trawsyriant, wedi'u cynllunio ar gyfer Gogledd Cymru fydd yn cysylltu â Gogledd-orllewin Lloegr. • Mae dau leoliad yng Ngogledd Cymru wedi cael eu hadnabod ar gyfer datblygiadau ynni gwynt ar y tir ar raddfa fawr. • Mae Gogledd Cymru yn cynnig amrywiaeth o sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, gan gynnwys Prifysgol Bangor.	• Mae Porthladd Caergybi yn chwarae rhan hanfodol yn symudiad rhyngwladol mewnforiadau ac allforiadau ac fel porthladd mordeithiau a dylai'r NWRTP gynnwys ymyraethau priodol i gefnogi'r ased hwn. • Gwella cysylltedd cludiant cyhoeddus y sefydliadau addysg uwch a phellach, cyfleusterau iechyd, ac isadeiledd cyhoeddus arall (e.e. llyfrgelloedd, cyfleusterau cymdeithasol, crefyddol a hamdden), i gymunedau lleol a rhanbarthol.
Cludiant	• Mae rhannau gwledig o ogledd Cymru sy'n fwy dibynnol ar ddefnyddio ceir preifat ac mae yno lai o gyfle i elwa o ddulliau eraill o gludiant cyhoeddus a mentrau teithio llesol. • Mae cyfran fach iawn o bobl yng Ngogledd Cymru yn byw yn agos at orsafoedd rheilffordd sydd â gwasanaethau cyson. • Mae gwasanaethau cludo nwyddau cyfyngedig ar y rhwydwaith rheilffyrdd. • Mae digwyddiadau ar y pontydd dros y Fenai i Ynys Môn yn cael effaith andwyol ar gysylltedd, dibynadwyedd teithiau ac amseroedd croesi. • Pellteroedd hir at wasanaethau allweddol, gan arwain at gyfraddau uchel o berchnogaeth car a lefelau isel o gerdded a beicio. • Ar hyn o bryd, ychydig o ddarpariaeth sydd yng Ngogledd Cymru i weithredwyr cludo nwyddau ar y ffyrdd sy'n ceisio newid i danwydd glanach. • Mae parcio ceir yn fater dadleuol mewn mannau prydferth allweddol gan gynnwys ym Mharc Cenedlaethol Eryri.	• Er mwyn gwella gwasanaethau rheilffyrdd, y prif flaenoriaethau ar gyfer gwelliannau yw Llinell y Gororau, cynyddu capasiti yng Ngorsaf Caer, a lefelau gwasanaeth uwch ar Brif Reilffordd Gogledd Cymru. Dylid ystyried pwysigrwydd cysylltiadau â chanolfannau allweddol megis Llundain, Caerdydd, Manceinion (gan gynnwys y maes awyr), Lerpwl, Crewe, a Warrington (ar gyfer Northern Powerhouse Rail). Hefyd, dylid ystyried cysylltiadau teithio cynaliadwy i gyfleusterau cyfnewidfa mewn gorsafoedd rheilffordd. • Dylanwadu ar wasanaethau bysiau fel bod amserlenni, llwybrau a phrisiau yn diwallu anghenion a galw lleol yn well. • Cefnogi mentrau i ddatgarboneiddio'r rhwydweithiau cludo nwyddau a logisteg yng Ngogledd Cymru, e.e. drwy gynyddu cyfran y cludo nwyddau a gludir ar Brif Linell Gogledd Cymru. • Gall y NWTP helpu i weithredu mesurau i gynyddu'r ddarpariaeth a'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol. • Isadeiledd trafnidiaeth wedi'i gynllunio ar gyfer y dyfodol. • Dylai'r NWTP gynnwys ymyraethau i gefnogi a gwella cysylltiadau cludiant cyhoeddus â Chaer gan fod hwn yn borth pwysig i Ogledd Cymru ac yn gyswllt allweddol ar gyfer economi gogledd-ddwyrain Cymru. • Gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus a mynediad at deithio llesol i atyniadau i dwristiaid.

Pwnc IWBA	Materion sy'n berthnasol i'r NWRTP	Cyfleoedd NWRTP a nodwyd
Adnoddau a gwastraff	• Mae cronfeydd mwynau i'w cael yng Nghymru eisoes, ond bydd rhai ardaloedd yn profi diffygion yn y deunydd sydd ar gael yn y dyfodol oni bai bod dyraniadau newydd yn cael eu hadnabod. Dylai isadeiledd adeiledig sy'n ofynnol fel rhan o'r NWTP ddarparu adnoddau mor lleol â phosibl i leihau allyriadau, cludo nwyddau a chefnogi'r economi leol.	• Dylai'r NWRTP ymgorffori egwyddorion economi gylchol. Mae hyn yn cynnwys lleihau'r angen i adeiladu isadeiledd yn y lle cyntaf, ailddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu a lleihau'r defnydd o ddeunyddiau crai. • Gwella effeithiolrwydd ynni ar draws y rhwydwaith trafnidiaeth.

3.3 Canlyniad drwy amcanion amgylcheddol yr IWBA

Roedd y cyfleoedd a nodwyd yn ystod y cam Sgrinio a Chwmpasu yn llywio'r NWRTP. Nododd yr IWBA effeithiau cadarnhaol sylweddol cyffredinol polisïau NWRTP yn erbyn pob un o amcanion yr IWBA. Cyflwynir crynodeb o'r canlyniadau isod.

Ar ben hynny, dogfennodd IWBA drafft a oedd ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ochr yn ochr â'r NWRTP drafft effeithiau buddiol ac andwyol posib amcan, blaenoriaethau a mesurau arfaethedig y cynllun a'r cyfleoedd lliniaru a gwella a nodwyd.

Amcan 1: Cefnogi cyflawniad tai a gwasanaethau lleol i gwrdd ag anghenion cymunedau lleol

Mae polisïau sy'n ymwneud â galluogi newidiadau i ymddygiad teithio (CB1-CB15) yn pwysleisio gwella gwasanaethau cludiant cyhoeddus a llwybrau teithio llesol, sy'n hanfodol ar gyfer gwella mynediad i safleoedd cyflogaeth a gwasanaethau hanfodol megis gofal iechyd, addysg a chyfnewidfeydd teithio. Drwy ganolbwyntio ar anghenion cymunedau lleol, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â lefelau uchel o amddifadedd, nod y mentrau hyn yw darparu opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy sy'n gwella cysylltedd tra'n lleihau dibyniaeth ar gerbydau preifat, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae'r dull hwn nid yn unig yn mynd i'r afael ag anghenion teithio uniongyrchol ond mae ganddo'r potensial i hyrwyddo twf tai hirdymor mewn ardaloedd lle mae mynediad at wasanaethau'n cael ei wella. Ar ben hynny, byddai'r dull cynllunio cydweithredol ledled Gogledd Cymru a chyda awdurdodau cyfagos yn sicrhau bod datrysiadau trafnidiaeth wedi'u teilwra i anghenion cymunedol, gan feithrin mwy o gynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant.

Mae polisïau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus (PT1-PT15) yng Ngogledd Cymru yn tynnu sylw at ddull cynhwysfawr o wella trafnidiaeth gyhoeddus drwy wella tocynnau, gwell amseroedd teithio ac aros a gwasanaethau hygyrch, dibynadwy. Mae hyn yn sicrhau mynediad dibynadwy at wasanaethau hanfodol fel cyflogaeth, addysg a chyfleoedd cymdeithasol. Byddai hyn yn arbennig o fuddiol mewn ardaloedd sy'n fwy difreintiedig lle gall pobl fod yn fwy dibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys ardaloedd fel Tref Caergybi, Marchog, Peblig, Glyn a'r Rhyl sydd o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig.

Nod y polisïau yw gwella cysylltedd trwy gefnogi opsiynau trafnidiaeth hyfyw i ddiwallu anghenion cymunedol amrywiol, sy'n benodol o fudd i drigolion ardaloedd gwledig trwy ddatrysiadau trafnidiaeth diogel, hyblyg a arweinir gan y gymuned. Gan fod y polisïau hyn yn galluogi gwasanaethau hyblyg sydd wedi'u cynllunio trwy gyfranogiad cymunedol ac yn cael eu rhedeg a'u rheoli'n lleol, byddent yn gwella mynediad at wasanaethau lleol ac yn helpu i ddiwallu anghenion penodol a nodwyd gan y gymuned. Mae polisïau sy'n ymwneud â theithio llesol (AT1-AT14) yn canolbwyntio ar wella isadeiledd teithio llesol i hyrwyddo ffyrdd o fyw iachach a mynediad cyfartal i wasanaethau megis gofal iechyd, addysg a chyfnewidfeydd teithio. Byddai polisïau trafnidiaeth integredig (IN1-IN6) hefyd yn hwyluso gwell hygyrchedd i wasanaethau a gwell fforddiadwyedd i deithio aml-ddull. Byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy integreiddio rhwydweithiau bysiau a rheilffyrdd yn well drwy ddatblygu canolfannau symudedd, gwell hygyrchedd teithio llesol i drafnidiaeth pellach a chynlluniau Parcio a Theithio / Parcio a Rhannu. Byddai'n arbennig o fuddiol lle mae opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus yn brin neu ddim yn addas.

Mae'r polisïau ynglŷn â datblygiadau porthladd a chludo nwyddau (PF1-PF9), yn cefnogi cyflwyno gwasanaethau lleol drwy wella mynediad i adnoddau hanfodol ar gyfer cymunedau lleol, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig megis Caergybi a Mostyn. Byddai'r polisïau hefyd yn gwella cyfleoedd cyflogaeth yn y porthladdoedd wrth iddynt ehangu a bydd canolbwyntio ar gysylltedd trafnidiaeth gynaliadwy â datblygiadau porthladdoedd a gorsafoedd rheilffordd yn gwella hygyrchedd i gymunedau lleol i'r cyfleoedd economaidd hynny. Mae polisïau PF1-PF9 hefyd yn cefnogi anghenion cymunedau lleol drwy wella'r system gyflenwi leol (eu gwneud yn haws ac yn gyflymach i'w defnyddio) a chyfrannu at leihau tagfeydd sydd o fudd i'r amgylchedd a mwynderau lleol.

Mae polisïau sy'n ymwneud â ffyrdd, strydoedd a pharcio (RS1-RS13) yn cefnogi gwelliannau isadeiledd ffyrdd sy'n wydn o ran yr hinsawdd, gan hwyluso cyflawniad tai a mynediad i wasanaethau presennol ac yn y dyfodol. Maent hefyd yn cyfrannu at liniaru effeithiau andwyol megis oedi o ran teithio a achosir gan ddifrod i isadeiledd nad yw'n cael ei gynnal a'i gadw'n rheolaidd. Mae gwelliannau i isadeiledd ffyrdd hefyd yn helpu i leihau'r risg o ddamweiniau sydd â chostau economaidd uchel a phersonol yn gysylltiedig â hwy.

Anogir opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy drwy daliadau parcio rheoledig ac ail-ddynodi lle o barcio (RS5 - RS6) sydd â'r nod o wella mwynderau lleol ac annog mwy o bobl i ddefnyddio cludiant cyhoeddus a theithio llesol. Fodd bynnag, efallai y bydd effeithiau andwyol os nad yw llai o daliadau parcio/mwy o daliadau parcio yn cael ei gydbwyso gan opsiynau teithio llesol/cludiant cyhoeddus amgen, digonol ac addas oherwydd byddai hyn yn lleihau hygyrchedd i wasanaethau. Mae gwell argaeledd gwasanaethau trafnidiaeth gynaliadwy yn gwella hygyrchedd i wasanaethau hanfodol i'r rhai sy'n dibynnu mwy ar drafnidiaeth gyhoeddus yn ogystal â'r rhai a fyddai'n well ganddynt ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ond sy'n teimlo nad oes ganddynt ddewis arall rhesymol i'r car ar hyn o bryd.

Mae polisïau sy'n gwella cysylltedd digidol (DC1-DC2) yn hwyluso gweithio o bell ac yn gwella mynediad at wasanaethau, gan gynnwys mwy o fynediad at gyfleoedd cyflogaeth gyda llai o angen i deithio. Maent hefyd yn galluogi mwy o aelodau o gymunedau i deithio drwy ddefnyddio cludiant cyhoeddus yn fwy hyderus trwy fentrau llythrennedd digidol.

Yn bennaf, mae'r asesiad yn datgelu nad yw pob polisi yn cael effaith sylweddol ar ddarparu gwasanaethau tai, er y byddai polisïau sy'n ymwneud â gwelliannau a/neu hyrwyddo teithio llesol, yn cyfrannu at ddarparu unrhyw dai newydd gyda chysylltedd teithio llesol priodol i wasanaethau presennol.

Amcan 2: Lleihau anghydraddoldeb a hyrwyddo cydlyniant cymunedol

Mae gwella gwasanaethau cludiant cyhoeddus, wedi'u cefnogi'n benodol gan Bolisïau PT1-PT10, yn cefnogi mynediad i wasanaethau, cyflogaeth, cyfleoedd hyfforddiant ac addysg hanfodol, yn ogystal â chyfleoedd hamdden. Mae hyn o fudd i bawb ond yn benodol i bobl sy'n fwy dibynnol ar gludiant cyhoeddus a/neu deithio llesol, gan gynnwys pobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol, pobl ifanc, pobl hŷn, pobl anabl a phobl o grwpiau mwyafrif ethnig byd-eang[9].

Mae'r polisïau hyn yn canolbwyntio ar greu rhwydwaith trafnidiaeth fwy integredig sy'n hwyluso symudiad haws rhwng cymunedau ac yn annog dulliau teithio llesol fel cerdded a beicio. Disgwylir i'r dull hwn feithrin rhyngweithio cymdeithasol, gan leihau unigedd cymdeithasol a gwella lles cymunedol yn gyffredinol.

Ymhellach, drwy flaenoriaethu cysylltu ardaloedd gwledig â chymunedau cyfagos a chyfleusterau cymunedol, mae'r polisi yn gwella mynediad i wasanaethau hanfodol megis iechyd, addysg a chyflogaeth mewn ardaloedd gwledig a lled-drefol, gan leihau anghydraddoldeb cyfleoedd a allai godi o ganlyniad i ddiffyg cysylltedd trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig. Nid yw gwella gwasanaethau yn sôn yn benodol am welliannau hygyrchedd, sy'n arwain at effaith ansicr yn hyn o beth. Er enghraifft, nid oes unrhyw bolisi yn diffinio'n benodol pa safonau hygyrchedd y dylid eu dilyn i sicrhau hygyrchedd i bob defnyddiwr.

[9] Llywodraeth Cymru (2014) Arolwg Cenedlaethol Cymru - Trafnidiaeth. Ar gael ar-lein yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Transport

Mae polisïau PT11 – PT15 yn pwysleisio datrysiadau trafnidiaeth gyhoeddus hyblyg, a arweinir gan y gymuned sy'n darparu ar gyfer poblogaethau bregus ac ynysig fel pobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, pobl hŷn a phobl ag anableddau, gan wella symudedd a rhyngweithio cymdeithasol. Byddai hyrwyddo gwasanaethau tacsi sy'n hyrwyddo teithio diogel i deithwyr yn arbennig o fuddiol i grwpiau agored i niwed sydd â risg uwch o brofi troseddau casineb, fel y gymuned LGBTQ+ a grwpiau sy'n dioddef hiliaeth[10].

Nod polisïau sy'n ymwneud â cherdded, beicio ac olwyno (AT1 – AT14) yw gwella isadeiledd teithio llesol, gan wneud cerdded a beicio yn fwy hygyrch i bobl ag anableddau neu nam symudedd, pobl hŷn a defnyddwyr cadair olwyn eraill a phobl â babanod mewn pramiau, ac i bobl sy'n profi amddifadedd nad oes ganddynt fynediad i gerbyd/beic. Mae hyn yn lleihau anghydraddoldeb mynediad i drafnidiaeth fel y mae gwella trafnidiaeth aml-ddull (IN1 – IN6) sy'n helpu i wella cysylltedd i leoliadau canolog. Fodd bynnag, gallai Polisïau IN5 – IN6 arwain at eithrio cymdeithasol pellach pan fydd cyfleusterau Parcio a Theithio (neu Barcio a Rhannu) yn cael eu datblygu ar draul buddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus gonfensiynol ac os yw gwasanaethau wedi'u hanelu at fodurwyr yn unig (h.y. dim ond pan fyddant wedi parcio eu car y gall pobl ddefnyddio'r gwasanaeth bws, oherwydd mae hyn yn eithrio pobl sydd ddim yn berchen ar gar)[11].

Trwy wella opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy i borthladdoedd, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig, mae'r polisïau hyn yn creu gwell mynediad i gyfleoedd cyflogaeth mewn datblygiadau porthladdoedd (ac o fewn ardaloedd ar lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus y porthladdoedd), a fyddai'n cyfrannu at leihau anghydraddoldeb economaidd rhwng ardaloedd yng Ngogledd Cymru. Byddai gwell diogelwch ar y ffyrdd a mwynderau lleol o ganlyniad i ailgyfeirio Cerbydau Trwm (HGVs) i leoliadau gorffwys mwy addas o fudd i gymunedau sy'n agos at y porthladd ac sy'n profi mwy o amddifadedd economaidd-gymdeithasol nag ardaloedd eraill yng Ngogledd Cymru.

Byddai annog y newid i gerbydau allyriadau isel, a newid moddol i gludiant cyhoeddus/teithio llesol, yn cyfrannu at ostyngiad mewn allyriadau aer, yn enwedig i gymunedau ar hyd arfordir Gogledd Cymru. Byddai hyn yn arwain at fuddion iechyd, yn enwedig i grwpiau bregus sy'n fwy sensitif i newidiadau mewn llygredd aer, yn cynnwys plant, pobl hŷn, pobl â chlefyd anadlol a merched beichiog.

Gallai gostyngiad mewn cerbydau cludo nwyddau ffyrdd gyda newid i'r rheilffordd, a gefnogir gan Bolisi PF9, arwain at golli cyflogaeth i yrwyr HGV a fyddai'n effeithio'n anghymesur ar ddynion sy'n fwy tebygol o gael eu cyflogi yn y sector cludo ar y ffyrdd.

Mae polisïau DC1-DC3 yn canolbwyntio ar wella isadeiledd digidol a llythrennedd, cefnogi cyfleoedd ar gyfer gweithio o bell tra hefyd yn gwella hygyrchedd gwybodaeth ddigidol sy'n helpu pobl i gynllunio teithiau gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus (h.y. mynediad digidol at wybodaeth gwasanaeth amser real).

Byddai hyn yn cefnogi pobl sy'n llai abl i deithio am waith fel pobl anabl, merched beichiog, pobl â chyfrifoldebau gofal a phobl ifanc, tra hefyd yn cefnogi pobl sy'n fwy tebygol o fod yn anllythrennog yn ddigidol (pobl hŷn).

Yn gyffredinol, mae polisïau yn gefnogol i gryfhau cysylltiadau cymunedol a meithrin cymdeithas fwy teg a chynhwysol.

[10] Out in London: LGBTQ+ People's Safety on London's Transport Network. London Travel Watch, 2023. Ar gael ar-lein yn: https://www.diversitytrust.org.uk/2023/11/new-study-lgbtq-people-feel-threatened-and-face-abuse-on-london-public-transport/ [Cyrchwyd 15/11/24]

[11] Parkhurst, G. Social inclusion implications of park-and-ride. *Municipal Engineer 156,* 2003

Amcan 3: Gwella iechyd a lles y boblogaeth leol, gan gynnwys mewn perthynas â iechyd corfforol a meddyliol

Mae polisïau CB1 - CB23 yn canolbwyntio ar wella gwasanaethau cludiant cyhoeddus a llwybrau teithio llesol i wella cysylltedd rhwng ardaloedd preswyl a safleoedd cyflogaeth allweddol, canol dinasoedd a rhanbarthau traws-ffiniol. Byddai'r gwelliannau hyn yn annog newid moddol, gan annog lefelau mwy o weithgarwch corfforol sy'n hyrwyddo deilliannau iechyd gwell yn cynnwys lleihau'r risgiau o glefydau cronig megis gordewdra, problemau cardiofasgwlaidd a chlefyd siwgr, tra hefyd yn gwella llesiant meddyliol[12] [13]. Byddai'r polisïau hyn yn cyflawni hyn trwy gyfrannu at well mynediad at opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy, sy'n helpu i liniaru ynysu cymdeithasol, yn enwedig ymhlith grwpiau agored i niwed fel pobl hŷn, pobl ifanc, difreintiedig economaidd-gymdeithasol, a phobl anabl sy'n fwy dibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus. Ar ben hynny, gwell mynediad at wasanaethau gofal iechyd hanfodol, mannau hamdden, a chyfleusterau cymunedol, sy'n golygu y gall pobl gael mynediad haws at y gofal iechyd a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt tra hefyd yn meithrin cydlyniant cymunedol, gan gyfrannu at well iechyd a lles yn gyffredinol.

Mae polisïau PT1-PT10 yn canolbwyntio ar wella'r rhwydwaith bysiau a byddai'n hanfodol ar gyfer cysylltu unigolion â gwasanaethau iechyd allweddol, gweithgareddau hamdden a mannau gwyrdd. Mae hyn yn cynyddu gwell mynediad (symlach) at gyfleoedd ar gyfer ymarfer corff (campfeydd, parciau, ardaloedd naturiol, ac ati) gan gyfrannu at well deilliannau iechyd i bawb, ond yn enwedig i grwpiau sy'n dibynnu mwy ar drafnidiaeth gyhoeddus. Byddai rhwydwaith bws gwell gyda chanolfannau trafnidiaeth hefyd yn annog gweithgarwch corfforol, oherwydd byddai defnyddwyr yn fwy tebygol o gerdded neu feicio i'r canolfannau trafnidiaeth yma. Mae'r polisïau hefyd yn cyfrannu at lai o lygredd aer a diogelwch ffyrdd gwell, gan ddarparu buddion iechyd i gymunedau mewn ardaloedd difreintiedig ac incwm isel. Mae polisïau PT11 i PT15 yn cynnwys datrysiadau trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw gyda ffocws benodol ar ddiwallu anghenion trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig. Byddai hyn yn cyfrannu at well iechyd i gymunedau gwledig oherwydd byddai ganddynt fwy o allu i gael mynediad i ofal iechyd ynghyd â chyfleoedd hamdden, cyflogaeth, addysg a rhyngweithio cymdeithasol. Mae polisïau fel PT13 yn canolbwyntio ar gerbydau allyriadau isel a fyddai'n cyfrannu at liniaru effeithiau iechyd andwyol a achosir gan lygredd aer megis heintiau anadlol, clefyd y galon a strôc[14].

Byddai'r Polisïau teithio llesol (AT1 i AT14) yn creu amgylcheddau cefnogol ar gyfer teithio llesol trwy fuddsoddi mewn isadeiledd a fyddai'n gwneud teithio llesol yn fwy deniadol, yn fwy diogel ac yn hygyrch i ystod ehangach o'r boblogaeth gan gynnwys pobl â babanod mewn pramiau, pobl mewn cadeiriau olwyn, a phobl anabl (yn enwedig pobl â symudedd anodd). Byddai'r buddsoddiadau hyn yn hyrwyddo gwell mynediad at deithio llesol, gan gynyddu dewis teithio, asiantaeth, ymgysylltu â'r gymuned a mynediad at isadeiledd cymdeithasol sy'n cyfrannu at well canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol.

Mae polisïau IN1 i IN6 yn cefnogi rhwydwaith trafnidiaeth integredig sy'n symleiddio trosglwyddiadau rhwng sawl dull. Mae hyn yn cynnwys tocynnau symlach ac integredig, creu lleoedd a chyfeirio pobl, a gwell cyfleustra wrth bontio rhwng dulliau trafnidiaeth (e.e. o feic i fws neu drên neu o drên i fws). Byddai hyn yn gwella cysylltedd rhwng cymunedau lleol ac aneddleoedd mwy, gan leihau ynysu cymdeithasol mewn ardaloedd llai cysylltiedig (yn enwedig ardaloedd gwledig). Gyda'i gilydd, mae'r mentrau hyn yn cyfrannu at gymdeithas iachach, fwy cydlynus drwy flaenoriaethu diogelwch, hygyrchedd a chynhwysiant mewn trafnidiaeth.

---

[12] Cycling and walking for individual and population health benefits: A rapid evidence review for health and care system decision makers. Public Health England, 2018. Ar gael ar-lein yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/757756/Cycling_and_walking_for_individual_and_population_health_benefits.pdf [Cyrchwyd 12/11/24]

[13] Health benefits from recreation, natural capital, UK - Office for National Statistics

[14] Asiantaeth yr Amgylchedd Ewropeaidd, Effeithiau llygredd aer ar iechyd 2022; Ar gael ar-lein yn: Health impacts of air pollution in Europe, 2022 — European Environment Agency (Cyrchwyd 27/11/2024)

Mae gan bolisïau sy'n ymwneud â datblygiadau porthladd (PF1 - PF9) effeithiau cymysg ar iechyd. Er eu bod yn cefnogi iechyd a llesiant y boblogaeth leol drwy ddarparu opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy i gyfleoedd cyflogaeth ym mhorthladdoedd Caergybi a Mostyn, mae'r cynnydd a ragwelir mewn symudiadau cerbydau nwyddau trwm (HGV) oherwydd ehangiad y porthladd yn peri risgiau i ansawdd aer a lefelau sŵn lleol, a fyddai'n gallu cael effaith andwyol ar gymunedau ar hyd llwybrau ffyrdd i'r Porthladdoedd. Byddai unrhyw ostyngiadau mewn ansawdd aer yn cael mwy o effaith ar grwpiau bregus sy'n cynnwys plant, pobl â chlefyd anadlol a phobl hŷn. I'r gwrthwyneb, byddai newid i danwydd hydrogen ar gyfer cludo nwyddau ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd, yn ogystal â chyflwyno canolfannau cyfuno cludo llwythi a Cherbydau Trydan (EV) ar gyfer danfoniadau lleol, yn cyfrannu at lai o draffig a gwell ansawdd aer ar gyfer cymunedau lleol Pan fydd mwy o ddefnydd o feiciau e-cargo ar gyfer danfoniadau lleol, gallai hyn achosi gorbryder i rai cerddwyr os ydynt yn cael eu reidio mewn gofodau a rennir a gall beicwyr e-feiciau eu hunain brofi lefelau mwy o orbryder wrth feicio mewn ardaloedd trefol prysur.[15].

Mae polisïau PF1-PF9 yn cefnogi iechyd a lles gyrwyr HGV gyda'r ddarpariaeth o gyfleusterau gorffwys, lleihau blinder a gorbryder ymhlith gyrwyr a lleihau risgiau o ddamweiniau a gwella diogelwch cyffredinol ar y ffyrdd.

Mae polisïau RS1-RS13 sy'n ymwneud â ffyrdd a strydoedd yn cyfrannu at greu isadeiledd ffyrdd sy'n cael ei gynnal yn well, yn fwy diogel i gerddwyr, beicwyr a modurwyr, ac yn gallu cefnogi anghenion newidiol cerbydau trydan (EV). Felly, mae'r polisïau hyn yn cefnogi cysylltedd parhaus rhwng cymunedau a gwasanaethau hanfodol, yn cynnwys gofal iechyd, cyflogaeth, addysg a chyfleusterau hamdden. Mae isadeiledd a gynhelir yn well hefyd yn fwy gwydn i ddigwyddiadau tywydd eithafol sy'n golygu y byddai llai o aflonyddwch yn ystod digwyddiadau o'r fath, gan gynnal mynediad at isadeiledd cymdeithasol. Er y byddai llai o barcio ceir a thaliadau uwch yn annog ail-ddynodi lle i ddefnyddiau a allai annog mwy o weithgarwch corfforol (e.e. gwell ardaloedd i gerddwyr, mannau gwyrdd trefol), gall hefyd achosi pryder i rai pobl os ydynt yn poeni am y gallu i ddod o hyd i barcio addas neu am y gost uwch o barcio. Byddai hyn o bosibl yn atal mynediad i ardaloedd trefol gan effeithio'n negyddol ar iechyd corfforol a meddyliol wrth i fynediad at wasanaethau ddod yn fwy heriol.

Byddai polisïau (DC1 – DC3) sy'n canolbwyntio ar wella cysylltedd digidol a llythrennedd digidol yn anelu i hwyluso gweithio o bell a gwell cysylltedd rhwng cymunedau, gan gynnwys ardaloedd mwy gwledig.

Drwy leihau'r angen i deithio, gallai'r polisïau hyn liniaru straen sy'n ymwneud â chymudo, gwneud cyfleoedd cyflogaeth yn hygyrch i bobl a fyddai fel arall yn cael trafferth dod o hyd i gyflogaeth addas (e.e. pobl gyda chyfrifoldebau gofalu neu bobl gydag anableddau). Mae mwy o gyfleoedd fel hyn ochr yn ochr â gwell cysylltedd yn hyrwyddo deilliannau iechyd meddyliol a chorfforol gwell.

Amcan 4: Cadw, gwarchod a gwella buddiannau bioamrywiaeth a daearamrywiaeth, gan gynnwys drwy ddiogelu safleoedd, rhywogaethau a chynefinoedd pwysig.

Tra bod polisïau'r NWRTP yn anelu i gynyddu'r defnydd o deithio llesol a chludiant cyhoeddus, a/neu gynyddu'r defnydd o gerbydau allyriadau isel, byddai hyn yn arwain at leihad mewn allyriadau a llygredd oddi ar y ffyrdd, dau beth sy'n gallu effeithio'n andwyol ar rywogaethau a chynefinoedd. Mae hyn yn cynnwys polisïau sydd yn anelu i wella opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy fel bod yna newid moddol (teithio llesol a chludiant cyhoeddus) (Polisïau CB1-CB23, PT1-PT10, AT1-AT6, IN1-IN6), ynghyd â pholisïau sydd yn anelu i wella hygyrchedd a chysylltedd yr opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy hynny (PT11-PT13 a DC1-DC3). Yn y ddau achos, mae'n debygol y byddai newid moddol oddi wrth y car preifat yn arwain at effeithiau cadarnhaol ar fioamrywiaeth. Mae gwell opsiynau teithio cynaliadwy i gael mynediad i atyniadau twristiaeth, yn cynnwys parciau cenedlaethol ac ardaloedd arfordirol, yn helpu i atal difrod ecolegol a achosir gan barcio amhriodol. Ar y cam hwn, ni wyddys p'un a fydd angen cymryd unrhyw dir ffisegol ar gyfer gwelliannau isadeiledd. Er enghraifft, mae isadeiledd teithio llesol a chynlluniau Parcio a Theithio a

[15] Pejhan, S., Agelin-Chaab, M., Yusuf, M., & Eng, D. Analysis of ebike dynamics and cyclists' anxiety levels and interactions with road vehicles that influence safety. *Accident Analysis & Prevention*, Volume 159, 2021.

Pharcio a Rhannu (IN5-IN6) yn peri risgiau i fioamrywiaeth a daearamrywiaeth, os nad ydynt wedi'u dylunio'n sensitif, o ystyried statws anhysbys lleoliadau datblygu a gofynion cymryd tir. Bydd angen cynllunio gofalus ar lefel prosiect i liniaru effeithiau negyddol posib ar fioamrywiaeth.

Mae polisïau IN1 i IN6 yn hwyluso pontio di-dor rhwng dulliau trafnidiaeth, gan annog newid moddol i drafnidiaeth gynaliadwy, tra'n diogelu safleoedd ecolegol.

Fodd bynnag, mae polisïau sydd â'r nod o wella isadeiledd porthladdoedd a chludo llwythi (PF1 - PF9) yn peri risgiau posib i fioamrywiaeth lle mae hyn yn cynyddu'r angen am ddatblygu a chymryd tir. Byddai hyn yn arbennig o wir am safleoedd dynodedig fel Ardal Gwarchodaeth Arbennig Morwenoliaid Ynys Môn ac Ardal Cadwraeth Arbennig Gogledd Môn Forol lle gall gweithgareddau datblygu gynyddu pwysau ar y cynefinoedd sensitif hyn. Gan fod gofynion tir a lleoliadau unrhyw ddatblygiad mewn porthladdoedd (neu sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd fel canolfannau cyfuno cludo llwythi a chyfleusterau gorffwys ar gyfer gyrwyr HGV) a amlinellir mewn polisïau yn anhysbys, mae'r effaith ar fuddiannau bioamrywiaeth yn yr achosion hyn yn ansicr.

Mae polisïau RS1 – RS13 yn cyfrannu at wella bioamrywiaeth lle mae'r polisïau'n arwain at le sydd ar hyn o bryd wedi'i neilltuo i barcio yn cael ei ddisodli gan greu lleoedd o ansawdd uchel sy'n cynnwys gwella ecolegol (budd net i fioamrywiaeth). Mae polisi RS2 yn canolbwyntio'n benodol ar wella buddiannau bioamrywiaeth i gyfrannu at wydnwch hinsawdd ac ecosystemau.

Er nad yw polisïau cysylltedd digidol (DC1 – DC3) yn ymdrin yn uniongyrchol â bioamrywiaeth, gallant hwyluso llai o anghenion teithio, gan arwain at allyriadau is a llai o aflonyddwch ar gynefinoedd naturiol.

Amcan 5: Gwarchod a gwella cymeriad y dirwedd, dynodiadau a mwynderau gweledol yn yr ardal leol

Ni ragwelir y bydd y polisïau gyda'r NWRTP yn effeithio ar y tir amaethyddol gorau a mwyaf aml-bwrpas (BMV). Fodd bynnag, lle mae datblygiadau isadeiledd yn cael eu cynnig, nid oes unrhyw wybodaeth ychwanegol am leoliadau a chymryd tir, ac sy'n arwain at effaith ansicr. Felly, argymhellir cynllunio ac ystyried yn ofalus wrth weithredu.

Mae polisïau CB1-CB23 a PT1-PT15 yn canolbwyntio ar wella gwasanaethau cludiant cyhoeddus a llwybrau teithio llesol, sy'n cyfrannu at liniaru effeithiau andwyol traffig cynyddol, yn enwedig mewn ardaloedd sensitif megis Parc Cenedlaethol Eryri. Drwy hyrwyddo opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy, gall y polisïau hyn helpu i leihau tagfeydd a phwysau parcio a achosir gan dwristiaeth, a thrwy hynny liniaru effeithiau andwyol parcio amhriodol ar fwynderau gweledol yn yr ardaloedd hyn a chynnal cyfanrwydd tirweddau lleol. Gallai gwelliannau i isadeiledd trafnidiaeth arwain at effeithiau andwyol ar ddynodiadau a thirweddau lle mae angen newidiadau ffisegol (e.e. adeiladu ffordd, ehangu porthladd ac isadeiledd parcio neu deithio llesol) felly bydd cynllunio a gweithredu gofalus yn hanfodol ar lefel prosiect i sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiadau cysylltiedig yn effeithio ar werth golygfaol a diwylliannol yr ardal.

Tra bod polisïau AT1 - AT14 yn cefnogi gwelliannau i isadeiledd teithio llesol, gan wneud teithio llesol yn fwy hygyrch, hyd yn oed i dwristiaid, mae'r polisïau yn annhebygol o leihau'r defnydd o gerbydau mewn ardaloedd mwy diarffordd sy'n adnabyddus am eu cymeriad tirwedd arbennig. Mae polisïau IN1 - IN6 yn hyrwyddo'r datblygiad o ganolfannau symudedd ac integreiddio cludiant cyhoeddus yn well, gan hwyluso'r trawsnewidiadau rhwng dulliau trafnidiaeth a chefnogi newid moddol o gerbydau preifat i drafnidiaeth gynaliadwy. Disgwylir i'r newid hwn leddfu effeithiau andwyol tagfeydd traffig a phwysau parcio ar gyrchfannau twristaidd poblogaidd, gan wella mwynderau gweledol.

Amcan 6: Gwarchod a gwella'r dreftadaeth ddiwylliannol leol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg

Byddai polisïau'r NWRTP sydd â'r nod o wella gwasanaethau cludiant cyhoeddus ac isadeiledd teithio llesol (CB1 - CB23; PT1 - PT15; AT1 - AT14; IN1 - IN6), yn hwyluso gwell cysylltedd rhwng cymunedau a safleoedd diwylliannol allweddol, yn ogystal â chyfleusterau addysgol cyfrwng Cymraeg. Drwy leihau tagfeydd traffig a

gwella hygyrchedd, mae'r mentrau hyn yn ei gwneud hi'n haws i unigolion, yn enwedig y rhai heb gerbydau preifat, ymweld â lleoliadau diwylliannol, safleoedd treftadaeth, a gwella cysylltedd rhwng cymdogaethau Cymraeg lleol. Mae mwy o ymwelwyr i'r atyniadau diwylliannol yn cefnogi eu hyfywedd economaidd.

Mae gwell cysylltedd rhwng cymunedau Cymraeg eu hiaith ac adnoddau addysgol ar gyfer dysgu'r Gymraeg, yn hanfodol er mwyn hyrwyddo'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg.

Mae'r polisïau yn cefnogi mentrau sy'n creu cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned a gwella mynediad at gyfleoedd cymdeithasol i gymunedau Cymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd yng Ngwynedd ac Ynys Môn sy'n cynnwys y gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg.

Byddai'r polisïau hefyd yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn mannau cymdeithasol a chymunedol fel cyfnewidfeydd trafnidiaeth, mannau aros bysiau, safleoedd bws a bysiau eu hunain mewn fformatau llafar ac ysgrifenedig.[16]

Yn gyffredinol, mae'r polisïau ar y cyd yn cyfrannu at gadwraeth a hybu treftadaeth ddiwylliannol leol heb achosi risgiau i asedau treftadaeth dynodedig.

Amcan 7: Gwarchod a gwella iechyd dŵr daear, cyrff dŵr wyneb ac arfordirol, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr.

Byddai polisïau'r NWRTP sydd â'r nod o wella gwasanaethau cludiant cyhoeddus a llwybrau teithio llesol, ac felly'n annog newid moddol oddi wrth gerbydau preifat, yn lleihau lefel y traffig ar y ffyrdd. Byddai lefel y traffig ar y ffyrdd hefyd yn cael ei leihau gan Bolisi PF9 sy'n cefnogi newid i gludo llwythi ar y rheilffyrdd, a Pholisïau DC1 – DC3 sy'n canolbwyntio ar gysylltedd digidol i leihau'r angen i deithio drwy gefnogi cyfleoedd gweithio o bell ac annog defnydd o gludiant cyhoeddus. Byddai'r gostyngiad hwn mewn traffig ffyrdd, yn enwedig HGVs, yn arwain at sawl budd amgylcheddol: mae llai o gerbydau yn golygu llai o olew, saim, a llygryddion eraill sy'n mynd i ddyfrffyrdd yn ystod cyfnodau glawog, a thrwy hynny'n gwella ansawdd afonydd, llynnoedd a nentydd ac yn diogelu ecosystemau dyfrol.

Yn ogystal, mae llai o draffig yn lleihau llygryddion aer sy'n gallu setlo ar arwynebau ac yna golchi i mewn i gyrff dŵr, gan gynnwys ocsidau nitrogen niweidiol a sylffwr deuocsid sy'n cyfrannu at lygredd maetholion[17]. I'r gwrthwyneb, mae Polisi PF3 yn cefnogi darparu isadeiledd i wella symudiadau HGV a darparu cyfleusterau HGV penodol a fyddai'n arwain at ddwysâd o ddefnydd gan HGVs mewn rhai lleoliadau. Felly, gallai hynny olygu dwysâd o lygredd ac allyriadau carbon o HGVs sy'n arwain at lygryddion ffyrdd mewn dŵr ffo yn mynd i gyrff dŵr.

Yn ogystal, mae gan unrhyw waith datblygu sydd ei angen i gyflwyno isadeiledd ffisegol newydd (e.e. gwaith peirianneg ffyrdd er mwyn cyflwyno lonydd bysiau) y potensial i arwain at effeithiau andwyol yn ystod y cyfnod adeiladu os nad yw wedi'i liniaru'n briodol. Mae gan bolisi PF4 hefyd y potensial i gael effaith negyddol ar adnoddau dŵr gan y byddai'r gwaith o ddatblygu canolfannau hydrogen angen dŵr i gynhyrchu hydrogen, yn ogystal â gwasanaethau eraill fel gwasanaeth oeri. Mae risgiau i fywyd dynol a dyfrol yn gysylltiedig â gollyngiad posib o'r amonia a ddefnyddir i gynhyrchu hydrogen[18].

Mae gan bolisïau sy'n ymwneud â datblygu porthladdoedd (PF1 – PF9) y potensial i effeithio'n andwyol ar ansawdd cyrff dŵr gerllaw (drwy ddŵr ffo aflan). Fodd bynnag, ar y cam hwn, nid oes digon o wybodaeth

[16] Llywodraeth Cymru, 2024. Cymraeg 2050: Cynllun gweithredu strategaeth yr iaith Gymraeg 2024 i 2025. Ar gael ar-lein yn: https://www.gov.wales/cymraeg-2050-welsh-language-strategy-action-plan-2024-2025-html [Cyrchwyd 13/11/24]

[17] Asiantaeth yr Amgylchedd 2019, 2021 Cynlluniau rheoli basn afon - Llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth. Ar gael ar-lein yn: https://consult.environment-agency.gov.uk/++preview++/environment-and-business/challenges-and-choices/user_uploads/pollution-from-towns--cities [Cyrchwyd 25/11/24]

[18] Hydrogen: A renewable energy perspective. Adroddiad a baratowyd ar gyfer yr 2ll Gyfarfod Gweinidogol ar Ynni Hydrogen yn Tokyo, Siapan. 2019. International Renewable energy Agency. Ar gael ar-lein yn: https://www.irena.org/-/media/Files/IRENA/Agency/Publication/2019/Sep/IRENA_Hydrogen_2019.pdf [Cyrchwyd 12/11/24]

ynghylch ehangiad y porthladd ac felly mae unrhyw effaith yn ansicr. Ymhellach, trwy hyrwyddo newid moddol o'r ffordd i'r rheilffordd ar gyfer cludo llwythi, mae'r polisïau yn anelu i leihau nifer y cerbydau llwythi trwm (Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch mwy o weithgarwch porthladdoedd a datblygu canolfannau cyfuno cludo llwythi, yn enwedig o dan Bolisi PF3, a allai arwain at gynnydd mewn traffig HGV a llygredd cysylltiedig. Ni ragwelir y bydd polisi AV1 sy'n ymwneud â mynediad ar y ddaear at awyrennau yn effeithio ar ansawdd dŵr.

Amcan 8: Cefnogi trosglwyddiad tuag at sector trafnidiaeth gydag allyriadau carbon is (gan gynnwys sero) a gwella gwytnwch yr isadeiledd trafnidiaeth i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd

Byddai polisïau o fewn y NWRTP sy'n canolbwyntio ar wella opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy megis cludiant cyhoeddus a theithio llesol yn hwyluso newid moddol oddi wrth gerbydau preifat, gan arwain at lai o allyriadau carbon a ddaw o drafnidiaeth. Mae hyn yn cynnwys Polisïau CB1-CB23, PT1-PT10, AT1-AT14 ac IN1-IN6. Drwy integreiddio cerbydau dim allyriadau i systemau trafnidiaeth gyhoeddus (PT2- PT3) a gwella gwytnwch isadeiledd i dywydd garw, mae'r polisïau hyn yn anelu i liniaru effeithiau newid hinsawdd ar rwydweithiau trafnidiaeth.

Er enghraifft, cynnig cysylltiadau i wasanaethau cludiant cyhoeddus amgen pan fydd llwybr(au) penodol wedi'i effeithio gan ddigwyddiadau tywydd eithafol megis llifogydd. Disgwylir i'r mentrau hyn gyfrannu'n gadarnhaol at gyflawni targedau sero net Cymru erbyn 2050, tra hefyd yn gwella gallu isadeiledd trafnidiaeth i addasu yn wyneb heriau sy'n ymwneud â hinsawdd. Yn ogystal, gyda newid i danwydd glanach a cherbydau dim allyriadau, mae polisïau yn cefnogi datgarboneiddio'r sector trafnidiaeth a gwella gwytnwch hinsawdd y rhwydwaith trafnidiaeth, gyda llai o ddibyniaeth ar danwydd ffosil ac amhariadau cysylltiedig a achosir i'w cadwyn gyflenwi drwy newid hinsawdd. [1919].

Mae polisïau PT11 - PT15 yn rhoi pwyslais ar fentrau trafnidiaeth a arweinir gan y gymuned, megis y Fflecsi, Trafnidiaeth sy'n Ymateb i'r Galw Dynamig, a theithio ar y rheilffyrdd, sy'n helpu i leihau dibyniaeth ar gerbydau preifat a lleihau allyriadau mewn ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, ni wyddys a fydd gan drafnidiaeth gymunedol allyriadau sero/isel, ac felly mae'r effaith yn ansicr.

Mae polisïau PF1 – PF9 yn anelu i gefnogi twf porthladdoedd rhanbarthol ac isadeiledd gysylltiedig sy'n hygyrch drwy opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy (wedi'u datgarboneiddio). Fodd bynnag, gallai mentrau'r polisi arwain at fwy o draffig HGV sy'n llai tebygol o gael eu datgarboneiddio ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae cyflwyno canolfannau hydrogen i gefnogi cludwyr yn y rhanbarth i newid i gerbydau allyriadau isel (PF4), ynghyd â newid i gludo llwythi ar y rheilffyrdd (PF9), yn cynnig dulliau addawol i leihau allyriadau.

Mewn perthynas â danfoniadau lleol, mae Polisïau PF5-PF8 yn cefnogi'r defnydd o gerbydau trydan a beiciau e-cargo, sy'n cyfrannu at ddatgarboneiddio a lliniaru'r effeithiau amgylcheddol a achosir gan ddanfoniadau lleol. Cefnogir newid ehangach i Gerbydau Trydan (EV) yn fwy cyffredinol gan Bolisïau RS7-RS11 sy'n anelu at wella isadeiledd gwefru EV ledled y rhanbarth, gan gyfrannu at ddatgarboneiddio'r sector trafnidiaeth.

Mae Polisi AV1 yn gwella cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus â meysydd awyr, a allai arwain yn anuniongyrchol at fwy o allyriadau teithio awyr, gan fod yn effaith andwyol ar y nod o leihau allyriadau. Mae polisïau DC1-DC3 yn canolbwyntio ar gysylltedd digidol ac felly'n cefnogi lleihau carbon trwy hwyluso gweithio o bell, gan leihau'r angen i deithio. Yn ogystal, byddai gwell mynediad digidol at wybodaeth trafnidiaeth gyhoeddus, yn ei gwneud hi'n haws teithio gan ddefnyddio dulliau trafnidiaeth gynaliadwy, gan leihau allyriadau carbon hefyd.

[19] International Renewable Energy Agency (IRENA), Bracing for Climate Impact: Renewables as a Climate Change Adaptation Strategy, August 2021; Ar gael ar-lein yn: Bracing for Climate Impact: Renewables as a Climate Change Adaptation Strategy (Cyrchwyd 25/11/2024)

Amcan 9: Gwarchod a gwella ansawdd aer lleol

Tra bod polisïau'r NWRTP yn anelu i gynyddu'r defnydd o deithio llesol a chludiant cyhoeddus, a/neu gynyddu'r defnydd o gerbydau allyriadau isel, byddai hyn yn arwain at leihad mewn allyriadau a allai effeithio'n andwyol ar ansawdd aer. Mae hyn yn cynnwys polisïau sydd yn anelu i wella opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy fel bod yna newid moddol (teithio llesol a chludiant cyhoeddus) (Polisïau CB1-CB23, PT1-PT10, AT1-AT6, IN1-IN6), ynghyd â pholisïau sydd yn anelu i wella hygyrchedd a chysylltedd yr opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy hynny (PT11-PT13 a DC1-DC3). Yn y ddau achos, mae'n debygol y byddai newid moddol oddi wrth y car preifat yn arwain at lai o allyriadau a gwelliannau dilynol mewn ansawdd aer. Yn ogystal, byddai Polisïau sy'n ceisio cefnogi'r trosglwyddiad i gerbydau (dim) allyriadau isel o fudd i ansawdd aer (PT2-PT3, AT12-AT14, PF4, a RS7-RS11).

Byddai gwell ansawdd aer o fudd i bawb, ond byddai grwpiau bregus sy'n fwy sensitif i newidiadau mewn ansawdd aer, gan gynnwys plant, pobl â chlefyd anadlol, merched beichiog a phobl hŷn[20,21] , yn elwa'n anghymesur ac yn wahanol. Mae mwy o ganolfannau trefol sydd â mwy o drafnidiaeth ffyrdd fel Wrecsam a Bangor, yn ogystal â'r priffyrdd a'r llwybrau gyda thagfeydd traffig trwm fel yr A5, yr A55 a'r A4807, yn lleoliadau lle mae gwelliannau mewn ansawdd aer yn fwy tebygol o gael eu profi. Mae'r ardaloedd hyn yn aml yn cyfateb i ardaloedd lle mae pobl yn profi amddifadedd economaidd-gymdeithasol.

Mae'r polisïau sy'n canolbwyntio ar ddatblygu porthladdoedd a chludo llwythi (PF1 - PF9) yn hyrwyddo opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy i borthladdoedd a gorsafoedd rheilffordd, sy'n helpu i leihau allyriadau traffig a gwella ansawdd aer mewn ardaloedd o gwmpas Caergybi a Mostyn.

Fodd bynnag, gallai'r polisïau arwain at gynnydd symudiadau HGV sy'n debygol o gyfrannu at effeithiau andwyol ar ansawdd aer i gymunedau lleol wrth ymyl ardaloedd datblygu porthladdoedd. Byddai gan Bolisi PF3 y potensial i wella ansawdd aer i rai ardaloedd o ganlyniad i lai o dagfeydd a achosir gan HGVs, ond yn lleihau ansawdd aer yn yr ardaloedd lle cyfeirir HGVs iddynt (e.e. byddai parcio penodol i HGVs yn ymgasglu nifer fawr o HGVs mewn un lleoliad). Byddai newid i danwydd hydrogen a rheilffyrdd ar gyfer cludo nwyddau a cherbydau dim allyriadau ar gyfer danfoniadau lleol yn cyfrannu at well amodau ansawdd aer i gymunedau lleol.

Mae polisïau DC1-DC3 yn canolbwyntio ar gysylltedd digidol ac felly'n cefnogi lleihad mewn allyriadau trwy hwyluso gweithio o bell, gan leihau'r angen i deithio. Yn ogystal, byddai gwell mynediad digidol i wybodaeth trafnidiaeth gyhoeddus, yn ei gwneud hi'n haws teithio gan ddefnyddio dulliau trafnidiaeth gynaliadwy, gan leihau allyriadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth hefyd.

Amcan 10: Lleihau aflonyddwch o sŵn sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth a dirgryniad i gymunedau lleol

Mae polisïau'r NWRTP sydd yn anelu i wella opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy (Polisïau CB1-CB23, PT1-PT10, AT1-AT6, IN1-IN6), yn ogystal â pholisïau sydd yn anelu i wella hygyrchedd a chysylltedd yr opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy hynny (PT11-PT13 a DC1-DC3), yn debygol o arwain at newid moddol oddi wrth y car preifat (i deithio llesol a defnyddio cludiant cyhoeddus) gan arwain at lai o draffig a llai o sŵn a dirgryniad sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth.

Byddai hyn yn arbennig o fuddiol mewn ardaloedd a nodwyd fel parthau blaenoriaethu sŵn megis ar hyd yr A55 a'r A483, a hefyd yn gwella seinweddau a thawelwch lleol yn fwy cyffredinol mewn ardaloedd preswyl.

Mae polisïau PF1-PF9 yn ymwneud ag ehangu cyfleusterau porthladd a chyfleusterau ar gyfer gyrwyr cludo llwythi. Gallai mwy o weithgarwch economaidd yn y porthladd a'r ardaloedd datblygu gerllaw arwain at

[20] Sefydliad Iechyd y Byd, Effeithiau llygredd aer ar iechyd poblogaethau, Mehefin 2024; Ar gael ar-lein yn: Effeithiau llygredd aer ar iechyd [Cyrchwyd 14/11/2024]

[21] Effeithiau llygredd aer ar iechyd yn Ewrop, 2022 - Asiantaeth yr Amgylchedd Ewropeaidd. Ar gael ar-lein yn: https://www.eea.europa.eu/publications/air-quality-in-europe-2022/health-impacts-of-air-pollution [Cyrchwyd 27/11/24]

gynnydd mewn sŵn o drafnidiaeth, gan gynnwys mewn ardaloedd preswyl y tu allan i'r porthladd. Byddai gwelliannau mewn cyfleusterau HGV (mannau gorffwys a pharcio) yn cynyddu sŵn yn y lleoliadau a ddewiswyd ar gyfer y datblygiadau hyn. Fodd bynnag, rhagwelir y byddai'r dasg o ddewis safle yn cynnwys ystyriaeth o effeithiau sŵn ar breswylwyr, a fyddai'n lliniaru'r effaith andwyol hon. Byddai llai o draffig HGV mewn canol trefi, wedi'i gefnogi drwy ganolfannau cyfuno cludo llwythi a newid i gludo llwythi ar y rheilffyrdd, ynghyd â mwy o bobl yn defnyddio Cerbydau Trydan, hefyd yn cyfrannu at leihau aflonyddwch sŵn sy'n gysylltiedig â thraffig.

Mae polisïau RS1-RS13 yn cefnogi cynnal a chadw a diogelwch ffyrdd a fyddai'n helpu i leihau sŵn a dirgryniad a achosir gan ffyrdd sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n wael.

Gallai llai o draffig ffyrdd o ganlyniad i'r mentrau a gefnogir gan DC1 - DC3 arwain at lai o aflonyddwch o sŵn a dirgryniad sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth i gymunedau lleol sy'n byw wrth ymyl priffyrdd. Mae polisïau DC1-DC3 yn canolbwyntio ar gysylltedd digidol ac felly'n cyfrannu at lai o angen i deithio, yn enwedig mewn perthynas â chyflogaeth. Yn ogystal, byddai gwell mynediad digidol at wybodaeth trafnidiaeth gyhoeddus, yn ei gwneud hi'n haws teithio gan ddefnyddio dulliau trafnidiaeth gynaliadwy, gan arwain at newid moddol a llai o ddefnydd o gerbydau preifat. Byddai'r ddau beth yma'n lleihau sŵn sy'n gysylltiedig â symudiadau trafnidiaeth.

Amcan 11: Ymgorffori egwyddorion yr economi gylchol i leihau'r defnydd o ddeunyddiau crai

Mae polisïau PT2, PT3 a PF4 (symudiadau cludo llwythi) yn cefnogi'r trosglwyddiad i danwydd glanach ochr yn ochr â'r datblygiad o ganolfannau hydrogen yng Nglannau Dyfrdwy a Chaergybi, a fyddai'n cefnogi'r defnydd o ddeunyddiau ac adnoddau o ffynonellau lleol.

Mae polisïau'r NWRTP sydd yn anelu i wella opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy (Polisïau CB1-CB23, PT1-PT10, AT1-AT6, IN1-IN6), yn ogystal â pholisïau sydd yn anelu i wella hygyrchedd a chysylltedd yr opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy hynny (PT11-PT13 a DC1-DC3), yn debygol o arwain at newid moddol oddi wrth y car preifat (i deithio llesol a defnyddio cludiant cyhoeddus) gan arwain at lai o ddefnydd o geir tanwydd, ac felly leihad yn y defnydd o adnoddau. Mae polisïau DC1-DC3 yn canolbwyntio ar gysylltedd digidol ac felly'n cyfrannu at lai o angen i deithio, yn enwedig mewn perthynas â chyflogaeth a fyddai hefyd yn cyfrannu at lai o ddefnydd o danwydd.

Byddai polisïau sy'n awgrymu cefnogaeth i ddatblygiad isadeiledd (e.e. AT4 – AT6, PF1) yn debygol o fod angen defnydd o ddeunyddiau. Fodd bynnag, nid oes gwybodaeth ddigonol ar y cam hwn ac felly mae unrhyw effaith yn ansicr.

Mae polisïau PF1 - PF2 yn cefnogi twf yn y porthladdoedd a allai arwain at gynnydd mewn symudiadau HGV o gwmpas ardaloedd lleol Caergybi a Mostyn. Byddai hyn yn arwain at fwy o ddefnydd o ddeunyddiau crai (h.y. tanwydd). Yn ogystal, byddai Polisïau RS7 – RS11 yn cefnogi'r newid i danwydd glanach, megis y defnydd o Gerbydau Trydan (EV) drwy ddarparu isadeiledd gwefru EV gwell ar draws lleoliadau. Byddai hyn hefyd yn cyfrannu at lai o ddefnydd o ddeunyddiau crai (tanwydd ffosil).

Amcan 12: Creu system drafnidiaeth integredig sy'n hwyluso symudiad effeithlon a diogel pobl a chludo nwyddau, gan gyfrannu at fwy o ffyniant economaidd yn y rhanbarth

Mae polisïau sy'n ymwneud â galluogi newidiadau i ymddygiad teithio (CB1-CB23) yn canolbwyntio ar wella gwasanaethau cludiant cyhoeddus a llwybrau teithio llesol i safleoedd cyflogaeth mawr (Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, Stad Ddiwydiannol Wrecsam a Pharc Busnes Caer), addysg a chyrchfannau teithio. Mae hyn yn cefnogi mynediad teg i gyfleoedd cyflogaeth, addysg a hyfforddiant, gan fod o fudd penodol i gymunedau mewn trefi arfordirol sy'n profi lefelau uwch o amddifadedd cymdeithasol yn ogystal â chymudwyr i barthau buddsoddi. Mae mentrau trafnidiaeth a arweinir gan y gymuned yn gwella dibyniaeth a gwytnwch y rhwydwaith trafnidiaeth, gan gefnogi busnesau a gweithwyr ac annog twristiaeth gynaliadwy. Mae gwell cysylltedd trafnidiaeth cynaliadwy i ganolfannau economaidd ac atyniadau twristaidd yn annog adfywiad a buddsoddiad mewn ardaloedd mwy difreintiedig a gwledig. Mae mentrau polisi sy'n gwella

cysylltedd trafnidiaeth cynaliadwy hefyd yn cyfrannu at wella mynediad rhwng Lloegr a Gogledd Cymru a Gogledd a De Cymru ar gyfer cyflogaeth a thwristiaeth, gan wella ffyniant economaidd ymhellach.

Mae'r polisïau sy'n ymwneud â bysus, coetsis a chludiant cymunedol (PT1 - PT10, IN4) yn canolbwyntio ar wella gwasanaethau bws, gan hwyluso teithio ar gludiant cyhoeddus rhwng ardaloedd cyflogaeth mawr yng Ngogledd Cymru ac ardaloedd cyfagos Gogledd Lloegr, yn cynnwys Caer a Glannau Dyfrdwy, a chanolbwyntio ar fannau targed sy'n peri pryder fel croesfannau'r Fenai. Drwy feithrin cysylltedd rhwng cymunedau a'r canolfannau cyflogaeth hyn, mae'r polisïau yn ceisio darparu mynediad teg i gyfleoedd swyddi, addysg a gwasanaethau hanfodol, sydd o fudd yn benodol i bobl sy'n profi amddifadedd economaidd-gymdeithasol ac unigolion sy'n dibynnu mwy ar ddulliau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae polisïau yn cynnwys mentrau i ddylunio llwybrau a gwasanaethau i ddiwallu anghenion cwsmeriaid, sy'n gwella cysylltedd a mynediad i gyfleoedd a gwasanaethau.

Mae polisïau PT11 - PT15 yn canolbwyntio ar ddatrysiadau trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw sy'n gwella diogelwch, hygyrchedd a hyblygrwydd. Mae'r polisïau yn cefnogi'r economi leol drwy wella mynediad i weithleoedd i bobl heb fynediad i gar preifat ac yn ehangu daearyddiaeth twristiaeth sy'n hygyrch ar gludiant cyhoeddus. Gall hyn annog adfywiad a buddsoddiad ymhellach mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Mae integreiddio cerbydau allyriadau isel yn cryfhau gwytnwch y rhwydwaith trafnidiaeth sy'n lliniaru risgiau o amhariadau tanwydd ffosil.

Mae polisïau sy'n cefnogi gwelliannau i isadeiledd teithio llesol (AT1 - AT14, IN1-IN2) yn debygol o annog teithio mwy cynaliadwy (gan gynnwys mwy o ddefnydd trafnidiaeth gyhoeddus) i gael mynediad at gyfleoedd addysgol, hyfforddiant a chyflogaeth sydd o fudd i ffyniant economaidd hirdymor y rhanbarth. Mae AT12 - AT14 yn cefnogi llogi beiciau/e-feiciau sy'n cynhyrchu incwm ar gyfer y busnesau hyn ac yn hwyluso teithio llesol i ac o ganol dinasoedd ymhlith twristiaid, gan gefnogi economïau lleol.

Mae polisïau IN5-IN6 yn ymwneud â gwelliannau i gynlluniau Parcio a Theithio a Parcio a Rhannu, a fyddai'n cyfrannu at lai o dagfeydd mewn canolfannau trefol. Er bod tagfeydd is yn lleihau amser teithio (ac felly'n rhyddhau amser ar gyfer gwaith mwy cynhyrchiol) a gall annog busnesau i leoli mewn ardal (oherwydd mwynderau lleol gwell), gall gael effaith cwbl groes os oes angen cymorthdaliadau gan yr economi leol, a bydd felly'n rhwystro twf economaidd[22]. Fodd bynnag, dangoswyd hefyd bod prosiectau Parcio a Theithio yn fwyaf llwyddiannus pan fyddant yn benodol ar gyfer darparu mwy o barcio am resymau twf economaidd neu reoli traffig, yn hytrach na gwella symudedd cynaliadwy[23]. Felly, byddai deilliannau economaidd yn dibynnu ar leoliad a bwriad y cyfleusterau Parcio a Theithio a Pharcio a Rhannu.

Mae polisïau PF1-PF2 yn cefnogi twf datblygiadau porthladd sy'n darparu mwy o gyfleoedd cyflogaeth ac yn cyfrannu at dwf economaidd. Byddai hyn yn annog adfywiad a buddsoddiad mewn ardaloedd o gwmpas porthladdoedd Caergybi, Ynys Môn a Mostyn, a fyddai o fudd i gymunedau mwy difreintiedig yn yr ardaloedd. Mae'r polisïau hefyd yn canolbwyntio ar gludo llwythi a gwella cysyllted tu hwnt i'r porthladdoedd, sy'n hybu datblygiad economaidd ymhellach.

Drwy gefnogi datblygiad canolfannau hydrogen, mae PF4 yn cyfrannu at fwy o gyfleoedd cyflogaeth yng Ngogledd Cymru. Ymhellach, gallai cyflwyno canolfannau cyfuno cludo llwythi drwy PF6 - 7 greu cyfleoedd cyflogaeth newydd. Byddai newid i gludo llwythi ar y rheilffyrdd (PF9) yn gwella dibyniaeth a gwytnwch y rhwydwaith trafnidiaeth (drwy wella dibynadwyedd, capasiti ac amlder cludo llwythi ar y rheilffyrdd, a hefyd leihau tagfeydd ar y ffyrdd) gan gefnogi busnesau a gweithwyr yn well ac annog buddsoddiad yn y rhanbarth.

[22] Asesiad egwyddorion cyntaf Parcio a Theithio, Prifysgol Leeds

[23] Parkhurst, G. a Meek, S. (2014). Effeithiolrwydd parcio a theithio fel mesur polisi ar gyfer symudedd mwy cynaliadwy. Pennod 9 yn Ison, S. a Mulley, C. (Eds) Parking Issues and Policies. Emerald, 185-211.

4 Sut yr ystyriwyd y sylwadau a ddaeth i law trwy'r ymgynghoriad ar y NWRTP drafft a'r adroddiad IWBA

4.1 Trosolwg

Fel yr amlinellwyd mewn adrannau blaenorol, cyhoeddwyd y NWRTP drafft a'r adroddiad IWBA cysylltiedig ar gyfer ymgynghoriad rhwng 20 Ionawr 2025 ac 14 Ebrill 2025. Mae'r adroddiad IWBA wedi cael ei adolygu, gan ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad a bydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r NWRTP terfynol a'r Datganiad Ôl-fabwysiadu (PAS) hwn ar gyfer yr IWBA, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

Gweler crynodeb manwl o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar yr adroddiad IWBA yn Atodiad A.1 ac A.2. Mae'r rhain yn amlinellu pob ymateb a dderbyniwyd, yn crynhoi'r sylwadau ac yn amlinellu'r camau a gymerwyd i ymdrin â'r sylwadau. Mae crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd i gwestiynau penodol yr IWBA a ofynnwyd, a'r camau a gymerwyd, wedi'u nodi isod yn Adran 4.2.

Mae'r Adroddiad Ymgynghori ar wahân yn darparu adroddiad ehangach o'r broses ymgynghori a'r ymatebion a dderbyniwyd, gan nodi hefyd sut mae adborth wedi llywio'r gwaith o gwblhau'r NWRTP a dogfennau cysylltiedig, gan gynnwys yr IWBA.

4.2 Crynodeb o'r ymgynghoriad cyhoeddus

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus i helpu i geisio cael adborth ar y NWRTP drafft a'i ddogfennau cysylltiedig, gan gynnwys yr IWBA. Mae'r adborth a dderbyniwyd ar y dogfennau drafft fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi cael ei ddadansoddi, ei adolygu a'i ystyried, i helpu i sicrhau bod y CTRh wedi ystyried y sylwadau. Mae Adroddiad Ymgynghori'r NWRTP yn darparu manylion yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd fel rhan o'r gwaith o baratoi'r NWRTP.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi neu'n niwtral ynglŷn â dull yr IWBA drafft. Pan holwyd "*I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r dull a ddilynwyd gennym yn ein Hasesiad Llesiant Integredig drafft*?" rhannodd 193 o gyfranogwyr eu barn ar y cwestiwn hwn. Nododd 48% eu bod naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf, dywedodd 33% eu bod yn niwtral. Nododd 19% eu bod naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf. Yn ogystal, pan holwyd "*Dywedwch wrthym beth yw eich barn am ein IWBA drafft neu gwnewch awgrymiadau eraill*", darparodd 66 o gyfranogwyr eu hymateb i'r cwestiwn hwn. Yn gryno, darparwyd sylwadau gan y rhai oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf ynglŷn ag effeithiau posibl y NWRTP.

Mynegwyd peth pryder ymhlith ymatebwyr ynglŷn â bregusrwydd ffordd arfordirol Gogledd Cymru a choridor y rheilffordd i newid hinsawdd. Er nad oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r awdurdodau lleol reolaeth uniongyrchol dros y rhwydweithiau ffyrdd neu reilffyrdd strategol, mae'r RTP yn amlinellu'r dyheadau rhanbarthol ar gyfer y rhwydweithiau hyn oherwydd eu pwysigrwydd wrth gefnogi cysylltedd ledled Gogledd Cymru. Ar ben hynny, mae'r IWBA yn ymdrin â ffactorau hinsawdd yn Adran 9 Atodiad B ac yn cynnwys Amcan 8: "*Cefnogi trosglwyddiad tuag at sector trafnidiaeth gydag allyriadau carbon is (gan gynnwys sero) a gwella gwytnwch yr isadeiledd trafnidiaeth i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd*".

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo nad oedd yr IWBA yn dangos yn ddigonol sut y dyluniwyd manteision neu gynlluniwyd effeithiau niweidiol, yn enwedig mewn perthynas â difrod i'r hinsawdd a natur. Fe wnaethant awgrymu y byddai'n ddefnyddiol gweld graddfa'r effaith a ragwelir, megis allyriadau carbon amcangyfrifedig. Nododd eraill ddiffyg pwyslais ar ddatgarboneiddio a gwytnwch hinsawdd o fewn themâu trawsbynciol. Mae bioamrywiaeth hefyd yn cael ei ystyried yn yr IWBA, gyda chyd-destun sylfaenol yn Atodiad B, Adran 4. Mae Amcan 4 yn canolbwyntio ar: "*Cadw, gwarchod a gwella buddiannau bioamrywiaeth a daearamrywiaeth, gan gynnwys drwy ddiogelu safleoedd, rhywogaethau a chynefinoedd pwysig*" ac mae Atodiad C yn ystyried y Rheoliadau Cynefinoedd.

Ochr yn ochr ag ymatebion cyhoeddus i'r ymgynghoriad, derbyniwyd ymatebion sefydliadol hefyd fel y rhestrwyd a'u hystyried yn yr Adroddiad Ymgynghori. Mae hyn yn cynnwys CNC a gafodd eu hysbysu ac anfonwyd copïau atynt o'r dogfennau ymgynghori yn unol â rheoliadau'r SEA. Digwyddodd yr un peth i Cadw, na ddarparodd sylwadau pellach ar y cam hwn.

Awgrymodd CNC y gallai hyrwyddo ymwybyddiaeth o Siarter Teithio Iach Gogledd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru o fewn yr RTP annog mwy o sefydliadau i fabwysiadu ei ymrwymiadau, a thrwy hynny gefnogi teithio llesol i staff a chleientiaid. Mae hyn yn cyd-fynd â Pholisi CB14 yr RTP, sy'n eirioli dros ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu ystyrlon i hyrwyddo teithio cynaliadwy. Mae mentrau rhanbarthol sy'n cefnogi hyn yn cynnwys annog sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector i lofnodi'r Siarter ac ymrwymo i gamau gweithredu sy'n hyrwyddo teithio iach.

Cododd CNC sylwadau am reoli perygl llifogydd a pheryglon llifogydd sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, gan gyfeirio at lifogydd ac erydiad arfordirol yr A55 yn 2015. Fe wnaethant argymell adolygu cynlluniau CNC perthnasol. Mewn ymateb, mae gwaelodlin yr IWBA wedi'i diweddaru i gynnwys adran ar erydiad arfordirol, gan gyfeirio at Grŵp Arfordirol Gorllewin Cymru a Chynllun Rheoli Traethlin Grŵp Arfordirol Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru.

5 Y rhesymau dros ddewis y NWRTP, fel y'i mabwysiadwyd, yng ngoleuni unrhyw ddewisiadau rhesymol eraill a ystyriwyd

Mae'r NWRTP wedi cael ei baratoi yn unol â'r gofynion statudol a amlinellwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a'r Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) cysylltiedig. Mae'r rheoliadau hyn yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar CBC Gogledd Cymru i lunio Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol[24] sy'n cyd-fynd â'r strategaeth drafnidiaeth genedlaethol, Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021[25], ac yn cyfrannu at gyflawni ei weledigaeth hirdymor ar gyfer y 5 mlynedd nesaf.

O ystyried y rheidrwydd statudol hwn, ni ystyriwyd bod senario 'gwneud dim' yn opsiwn amgen rhesymol. Mae'r gofyn i lunio Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn fandadol ac felly, mae ffocws yr IWBA wedi bod ar siapio a mireinio cynnwys y Cynllun yn hytrach na gwerthuso opsiynau strategol sy'n sylfaenol wahanol.

Roedd y NWRTP drafft, yn cynnwys ei bolisïau a'i ymyraethau arfaethedig, yn destun IWBA cynhwysfawr a ymgorfforodd y broses SEA. Mae'r arfarniad hwn, ochr yn ochr â'r ymgynghoriad helaeth gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid, wedi llywio datblygiad y Cynllun terfynol. Mae'r adborth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi'i ystyried wrth fireinio blaenoriaethau'r Cynllun a sicrhau aliniad gydag anghenion rhanbarthol ac amcanion cynaliadwyedd.

[24] Mae gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig hefyd gyfrifoldeb am baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol

[25] Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021 – Ar gael ar-lein yn: https://www.gov.wales/llwybr-newydd-wales-transport-strategy-2021

6 Y mesurau a gymerir i fonitro unrhyw effeithiau amgylcheddol a llesiant arwyddocaol yn sgil gweithredu'r NWRTP

Drwy'r IWBA, nid oes unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol wedi'u nodi.

Mae'r Canllawiau i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ar Gynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol[26] yn amlinellu y dylai'r NWRTP a'i IWBA gael ei gefnogi gan Gynllun Monitro a Gwerthuso, a ddylai ystyried y mesurau yn Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (WTS), yn cynnwys newid moddol a thargedau datgarboneiddio.

Mae Cynllun Monitro a Gwerthuso'r NWRTP yn ceisio helpu i ddangos cynnydd rhanbarthol o ran cyflawni'r blaenoriaethau a'r uchelgeisiau cenedlaethol a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae'n manylu sut y bydd llwyddiant y NWRTP yn cael ei fonitro, ei fesur a'i werthuso, gan ystyried yr amcanion a osodwyd ar gyfer trafnidiaeth a chanlyniadau llesiant cysylltiedig. Bydd hyn yn gymorth i ddangos cyfraniad y rhanbarth at dargedau datgarboneiddio cenedlaethol a newid moddol.

Mae'r Cynllun Monitro a Gwerthuso yn cynnwys cyfres o fesurau yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, sydd wedi'u haddasu ar gyfer amcanion SMART ac IWBA y NWRTP. Darperir gwybodaeth sylfaenol i bob mesur, a ddyluniwyd o'r Fframwaith IWBA, ac maent yn gosod targedau, ble bo'n briodol, ar gyfer gwelliannau dros gyfnod y Cynllun hyd at 2030. Er enghraifft, nod y cynllun yw galluogi 30% neu fwy o bobl yng Ngogledd Cymru i weithio o bell erbyn 2030, gan gefnogi'r targed rhaniad modd cenedlaethol o 45% o deithiau i'w gwneud trwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus erbyn 2040, er mwyn galluogi o leiaf 50% o gerbydau modur a phob bws cyhoeddus sy'n gweithredu yng ngogledd Cymru i fod yn ddi-allyriadau erbyn 2035, a gweld o leiaf 50% o aelwydydd yng ngogledd Cymru gydag ystod gynyddol o deithio o fewn awr ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gefnogi mynediad i safleoedd cyflogaeth allweddol a chanolfannau rhanbarthol.

Mae'r mesurau monitro a gwerthuso hefyd yn ymdrin â'r amcanion llesiant a amlinellwyd yn yr Arfarniad Llesiant Integredig. Mae'r mesurau yn defnyddio Fframwaith Fonitro WTS a data gwaelodlin cyhoeddedig gan Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru. Er enghraifft, i sicrhau bod o leiaf 50% o gerbydau modur a phob bws cyhoeddus yng Ngogledd Cymru yn ddi-allyriadau erbyn 2035, mae'r cynllun monitro a gwerthuso yn cynnwys mesurau megis cyfansoddiad y fflyd (cyfran pob modd yn ôl math yr injan). Mae'r mesurau hyn yn cyd-fynd ag amcanion IWBA: 8 (cefnogi newid tuag at sector trafnidiaeth gyda llai o (yn cynnwys dim) allyriadau carbon a gwella gwytnwch isadeiledd trafnidiaeth i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd), 9 (diogelu a gwella ansawdd aer lleol), 10 (lleihau aflonyddwch o sŵn a dirgryniad sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth i gymunedau lleol), a 12 (creu system drafnidiaeth integredig sy'n hwyluso symud pobl a llwythi yn effeithlon a diogel, gan gyfrannu at fwy o ffyniant economaidd yn y rhanbarth).

Bydd cyfarfodydd chwarterol pwyllgorau Gogledd Cymru yn darparu diweddariadau cynnydd gan swyddogion trafnidiaeth awdurdodau lleol ar weithrediad y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (yn cynnwys IWBA) a'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Bydd y cyfarfodydd hyn hefyd yn ystyried unrhyw sbardunau cyfnewidiol ar gyfer newid a blaenoriaethau, megis datblygiadau strategol newydd neu gyfleoedd ariannu annisgwyl.

Am ragor o wybodaeth fanylach, cyfeiriwch at y Cynllun Monitro a Gwerthuso manwl a gyflwynir ochr yn ochr â'r NWRTP, ei Gynllun Cyflawni a'r IWBA.

[26] Cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol: canllawiau ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig. Ar gael ar-lein yn https://www.gov.wales/regional-transport-plans-guidance-corporate-joint-committees

Atodiadau

1. Crynodeb o Ymatebion yr Ymgynghoriad oedd yn ymwneud â'r IWBA a'r Camau a Gymerwyd

Thema ymatebion	Disgrifiad o'r sylw	Ymateb / Cam a Gymerwyd
Llesiant	Mae rhai ymatebwyr yn mynegi barn wahanol mewn perthynas â'r Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA) drafft. Er bod rhai ymatebion o'r farn bod yr IWBA yn gadarn ac yn dyfynnu mesurau ymarferol ac addasadwy i gyflawni'r amcanion, mae eraill o'r farn nad yw rhai pobl eisiau i'w dewisiadau iechyd a lles gael eu pennu iddynt yn dilyn pandemig Covid, tra'n tynnu sylw at y ffaith bod nodau lles yn amrywio rhwng pobl. Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y dylai llesiant fod yn sail i bolisi trafnidiaeth er mwyn tynnu sylw at fanteision iechyd defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae rhai ymatebwyr yn cwestiynu a allai'r IWBA edrych ymhellach ar y rhesymau pam y gallai pobl â nodweddion gwarchodedig penodol fod yn fwy neu lai yn debygol o ddewis mathau penodol o drafnidiaeth. Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod yr IWBA yn ystyried y cwestiynau cywir o safbwynt sut y bydd y rhaglen neu'r prosiectau o fudd i gymunedau, yr amgylchedd, lleoedd a'r economi, diwylliant a'r Gymraeg a'r effeithiau cadarnhaol a negyddol yn y cyd-destun hwn.	Mae'r Arfarniad Llesiant Integredig yn dangos sut y bydd ein cynlluniau yn cyfrannu at lesiant, gyda chefnogaeth yr asesiadau effaith yr ydym wedi'u cynnal i ystyried materion fel iechyd, cydraddoldeb a bioamrywiaeth. Mae wedi cael ei ddiweddaru i fynd i'r afael â sylwadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill, er enghraifft gyda mwy o wybodaeth sylfaenol.

Thema ymatebion	Disgrifiad o'r sylw	Ymateb / Cam a Gymerwyd
	Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at bryder am fregusrwydd coridor ffyrdd/rheilffyrdd ar hyd arfordir gogledd Cymru i newid yn yr hinsawdd.	Nid oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig nac awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru ddylanwad uniongyrchol ar y rhwydwaith ffyrdd strategol na'r rhwydwaith rheilffyrdd. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi dyheadau rhanbarthol ar gyfer ffyrdd strategol a'r rhwydwaith rheilffyrdd gan fod y rhain yn allweddol i gefnogi ein dyheadau cysylltedd ehangach ar gyfer gogledd Cymru. Mae'r Arfarniad Llesiant Integredig yn ystyried Ffactorau Hinsawdd (adran 9), ac mae newid yn yr hinsawdd yn cael ei gynnwys yn Amcan 8 IWBA (Cefnogi trawsnewidiad tuag at sector trafnidiaeth gyda llai o (gan gynnwys dim) allyriadau carbon a gwella gwytnwch isadeiledd trafnidiaeth i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd).
	Mae rhai ymatebwyr yn darparu ystod eang o dystiolaeth ac ystadegau am drafnidiaeth ac anghenion pobl ddall a rhannol ddall.	Mae'r uchelgeisiau rheilffyrdd yn y cynllun wedi'u diweddaru i bwysleisio pwysigrwydd gorsafoedd i bawb, gan ystyried anghenion pobl ddall a rhannol ddall. Mae Gwaelodlin Atodiad B wedi'i ddiweddaru.
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu nad yw'r IWBA wedi arwain at ddylunio buddion wrth ddylunio unrhyw effeithiau a allai fod yn niweidiol mewn perthynas â'r hinsawdd a natur, gan ystyried y byddai'n ddefnyddiol gweld graddfa effaith gwahanol bolisïau ac amcanion h.y. beth yw'r effaith a ragwelir o ran carbon. Mae rhai ymatebwyr o'r farn nad oes cydnabyddiaeth ac ymgorfforiad digonol o allyriadau carbon, gwytnwch hinsawdd, difrod i natur neu welliant gyda themâu trawsbynciol nad ydynt yn cynnwys datgarboneiddio neu gwytnwch hinsawdd ac yn credu y dylent eu hymgorffori.	Mae'r Arfarniad Llesiant Integredig yn ystyried Ffactorau Hinsawdd (mae cyd-destun sylfaenol i'w weld yn Atodiad B adran 9), ac mae newid hinsawdd yn cael ei gofnodi yn Amcan 8 IWBA (Cefnogi trawsnewidiad tuag at sector trafnidiaeth gyda llai o allyriadau carbon (gan gynnwys sero) a gwella gwytnwch isadeiledd trafnidiaeth i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd). Mae'r Arfarniad Llesiant Integredig yn ystyried Bioamrywiaeth (mae cyd-destun sylfaenol i'w weld yn adran 4 Atodiad B), ac mae bioamrywiaeth yn cael ei ddal yn Amcan 4 IWBA (Gwarchod, diogelu a gwella buddiannau bioamrywiaeth a daearamrywiaeth, gan gynnwys drwy ddiogelu safleoedd, rhywogaethau a chynefinoedd pwysig). Mae Atodiad C yn ystyried y Rheoliadau Cynefinoedd.

Thema ymatebion	Disgrifiad o'r sylw	Ymateb / Cam a Gymerwyd
	Mae rhai o'r farn, er bod yr arfarniad yn ystyried llesiant defnyddwyr, nid yw'n asesu'n ddigonol unrhyw effeithiau niweidiol i gymunedau lleol a allai gael eu heffeithio gan ddatblygu isadeiledd ffyrdd.	Mae'r Arfarniad Llesiant Integredig yn ystyried polisïau'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, gan gynnwys ar gyfer ffyrdd, strydoedd a pharcio. Nid oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru ddylanwad uniongyrchol ar y rhwydwaith ffyrdd strategol. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi dyheadau rhanbarthol ar gyfer ffyrdd strategol gan fod hyn yn allweddol i gefnogi ein dyheadau cysylltedd ehangach ar gyfer Gogledd Cymru.

2. Crynodeb o Ymateb Ymgynghoriad CNC a'r Camau a Gymerwyd

Sefydliad/Unigolyn sy'n Ymateb	Disgrifiad o'r sylw	Ymateb / Cam a Gymerwyd
Siarter Teithio Iach Gogledd Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru	Byddai codi ymwybyddiaeth o fewn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol o Siarter Teithio Iach Gogledd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru yn annog sefydliadau i arwyddo'r ymrwymiadau o fewn y siarter a gwella ac annog teithio llesol i staff a chleientiaid. Mae gan bob un o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru is-grwpiau i gefnogi'r gwaith hwn.	I gefnogi Polisi CB14 Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (Datblygir ymgyrchoedd Marchnata a Chyfathrebu sy'n ystyrlon ac yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o fanteision teithio cynaliadwy), cydnabyddir bod prosiectau ledled Gogledd Cymru i gefnogi ymgyrchoedd hyrwyddo a rhaglenni cynllunio teithio yn cynnwys hyrwyddo Siarter Teithio Iach Gogledd Cymru ac annog y cyhoedd, sefydliadau preifat a thrydydd sector sy'n cofrestru i ymrwymo i weithio tuag at gamau gweithredu sy'n cyfrannu at hyrwyddo teithio iach i'w staff a'u defnyddwyr gwasanaeth.
Uchelgeisiau Ffyrdd Strategol (Tudalen 38)	O ran y 3ydd croesfan arfaethedig ar draws y Fenai, y Bont sy'n croesi'r afon Dyfrdwy, y 'Llwybr Coch' a'r A483, bydd CNC yn atal gwneud unrhyw sylwadau hyd nes y bydd cynigion manwl wedi'u cyflwyno ar gyfer ystyriaethau cynllunio statudol. Fodd bynnag, byddwn yn ailadrodd y gofyn ei bod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru a'r holl awdurdodau cyhoeddus ymateb yn briodol i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 sy'n gosod dyletswydd i wella gwytnwch Bioamrywiaeth a'r ddyletswydd y mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi na ddylai datblygiadau achosi unrhyw golled sylweddol o rywogaethau cynefin neu boblogaeth, yn lleol neu'n genedlaethol ac na ddylid darparu budd net i fioamrywiaeth. Mae gofyn i gynlluniau hefyd gysylltu â'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.	Mae'r asesiad IWBA yn cynnwys amcan sy'n canolbwyntio ar fioamrywiaeth, gan sicrhau nad yw polisïau yn achosi unrhyw golled sylweddol o gynefinoedd neu boblogaethau o rywogaethau. Cyfeirir hefyd at Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ledled Gogledd Cymru yn yr IWBA. O ran Dyheadau Rhwydwaith Ffyrdd Strategol a chyfeiriadau at welliannau penodol, mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru i fod yn gliriach ynglŷn â'r safbwynt sydd gan Uchelgais Gogledd Cymru fel rhan o'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, a ble mae'n ceisio cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru a'r Asiant Cefnffyrdd i ymdrin â phroblemau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth ar gefnffyrdd o fewn ac yn cysylltu Gogledd Cymru.

Sefydliad/Unigolyn sy'n Ymateb	Disgrifiad o'r sylw	Ymateb / Cam a Gymerwyd
Rheoli Risg Llifogydd (FRM)	O ran yr adran sy'n ymwneud ag ystyriaethau llifogydd, mae CNC yn teimlo bod lle i wella ar y waelodlin. Rydym yn cyfeirio at y materion trafnidiaeth o ganlyniad i'r llifogydd ar yr A55 yn 2015 (Llifogydd Gogledd Cymru - Newyddion BBC) a dylai'r NWRTP drafft adolygu'r gwaith a wnaed gan ymgynghorwyr ar ran Llywodraeth Cymru. Cyfeiriodd yr ymgynghoriad at y cynlluniau a'r polisïau FRM perthnasol ar gyfer ardal y cynllun fel y'u rhestrwyd yn rhannau 1.1 i 1.5 (tudalennau 64-77 o 503); fodd bynnag, bydd angen i'r cynllun ystyried erydiad arfordirol hefyd. Y Cynllun Rheoli Traethlin (SMP) sy'n cynnwys ardal y cynllun Trafnidiaeth hwn fyddai Grŵp Arfordirol Gorllewin Cymru a Grŵp Arfordirol Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru. Gellir cael rhagor o fanylion drwy ein gwefannau yn Cyfoeth Naturiol Cymru / Cynlluniau Rheoli Traethlin.	Mae gwaelodlin yr IWBA yn Atodiad B wedi'i diweddaru i gynnwys adran ar erydiad arfordirol, gan gyfeirio at Grŵp Arfordirol Gorllewin Cymru a Chynllun Rheoli Traethlin Grŵp Arfordirol Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru.
Atodiad B - Gwaelodlin (tudalen 122)	Pennod 7 Amodau'r Ddaear (priddoedd a daeareg): 7.2.6 Yn cyfeirio at lifogydd dŵr daear. Ni chyfeirir at y 12 Ardal ddraenio fewnol yn ardal y cynllun sy'n agored i lifogydd dŵr daear. Gweler- Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwneud cais am ganiatâd draenio tir.	Mae gwaelodlin yr IWBA yn Atodiad B wedi'i diweddaru i gynnwys adran ar Ardaloedd Draenio Mewnol yng Ngogledd Cymru, yn cynnwys y 12 ardal sy'n agored i lifogydd dŵr daear.
Atodiad B - Gwaelodlin (tudalen 122)	Pennod 8 Yr Amgylchedd Dŵr: Dim ond un paragraff a geir sy'n ymwneud â llifogydd (tud.179/503) sy'n bryderus. Er ei fod yn rhoi cyngor ar lifogydd o bob ffynhonnell, ni chrybwyllir risg llifogydd o'r môr. Ymddengys bod Ffigwr 8-3 â'r disgrifiad anghywir a dylid ei labelu fel Parthau Llifogydd 2 a 3 o Afonydd. Efallai y bydd hi hefyd yn briodol cynnwys ffigwr/ffigyrau arall yn dangos Llifogydd 2 a 3 o'r Môr, ynghyd â disgrifiad o ffynhonnell y data a nodi bod y ffigyrau yn dangos y risg llifogydd presennol h.y. Mapiau Asesiad Risg Llifogydd Cymru (FRAW). Petai mapiau newid hinsawdd yn cael eu defnyddio, yna byddai'r map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn briodol. Mae'r mapiau FRAW hefyd yn dangos haenau eraill megis risg o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr/cronfeydd dŵr bach ac ati. Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwiriwch eich risg llifogydd ar fap (Map Asesu Risg Llifogydd Cymru) / Cyfoeth Naturiol Cymru / Map llifogydd ar gyfer cynllunio / map cyngor datblygu.	Mae Ffigwr 8-3 IWBA wedi cael ei ddiweddaru a'i labelu fel Parthau Llifogydd 2 a 3 o Afonydd. Mae ffigwr ychwanegol wedi'i ychwanegu yn dangos Parthau Llifogydd 2 a 3 o'r Môr.

Sefydliad/Unigolyn sy'n Ymateb	Disgrifiad o'r sylw	Ymateb / Cam a Gymerwyd
Mynediad	Mae CNC yn cytuno bod angen ystyried canolfannau trafnidiaeth a chysylltiadau da wrth gynllunio ar gyfer datblygiadau newydd. Mae hyn er mwyn ei gwneud hi'n haws i bobl deithio heb ddibyniaeth ar gar ac yn cysylltu pobl â gwasanaethau hanfodol. Dylai hyn fod yn flaenoriaeth uchel i Awdurdodau Lleol wrth ystyried datblygiadau newydd. Mae CNC wedi codi materion mynediad mewn ymgynghoriadau blaenorol gan Awdurdodau Lleol i dynnu sylw at y diffyg trefniadau mynediad mewn trefi a phentrefi gwledig. Mae hynny er bod gan yr ardaloedd hyn rwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus sylweddol a all fod yn hygyrch yn ystod oriau golau dydd. Am chwe mis o'r flwyddyn trwy'r Hydref i'r Gwanwyn, mae mynediad wedi'i gyfyngu i ddarnau sydd ag ychydig iawn o olau. Mae hyn yn cyfyngu ar fynediad diogel i bawb yn yr ardaloedd hyn. O ran effaith ar safleoedd gwarchodedig, bydd rhaid i awdurdodau lleol gynnal asesiadau o'u cynlluniau a'u prosiectau ar gyfer effeithiau posibl (Asesiadau Rheoleiddio Cynefinoedd) ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a byddai'n rhaid iddynt sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Nodwn fod trafnidiaeth a mynediad yn faterion mawr sy'n effeithio ar rai cymunedau ledled Gogledd Cymru, oherwydd cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn dilyn Covid. Mae gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn is-grŵp sy'n treialu gwahanol ddulliau yn Niwbwrch lle bydd dysgu defnyddiol ar gael i ardaloedd a chymunedau eraill. Dylai hyn fod yn ddull ar draws Ynys Môn sy'n cynnwys gwell teithio llesol a lle mae'r dewis arall hwnnw ar gael.	Mae sicrhau mynediad at drafnidiaeth dda mewn trefi a phentrefi gwledig, yn enwedig o ran goleuadau ar hyd HTC yn cael ei ystyried yn yr asesiad IWBA. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn parhau i ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru, gan gynnwys Gwynedd ac Ynys Môn i helpu i rannu dysgu ac arfer gorau.

Sefydliad/Unigolyn sy'n Ymateb	Disgrifiad o'r sylw	Ymateb / Cam a Gymerwyd
	Yn ei Raglen ar gyfer y Llywodraeth (2021-2026), mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei ymrwymiad i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd i Gymru. Fel yr awdurdod dynodi ar gyfer unrhyw Barc Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol newydd yng Nghymru, mae CNC wedi bod yn asesu'r achos am Barc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Cynhaliodd CNC gyfnod ymgynghori cyhoeddus o ddeg wythnos rhwng 7 Hydref 2024 ac 16 Rhagfyr 2024 ar Ardal Ymgeisiol (ffin drafft) ar gyfer Parc Cenedlaethol. Arweiniodd yr ymgynghoriad at lefelau sylweddol o ymateb ac mae CNC wedi comisiynu *Resources for Change* i gynnal dadansoddiad manwl o'r ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd yr Adroddiad Ymgynghori Cyhoeddus yn cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2025, byddwn yn trefnu i anfon copi ymlaen pan fydd ar gael. Fe wnaeth y rhyngwyneb rhwng cynnydd disgwyliedig yn nifer yr ymwelwyr, goblygiadau i'r rhwydwaith trafnidiaeth a'r isadeiledd cysylltiedig a'r angen am reolaeth ofalus i osgoi effaith ar gymunedau a'r amgylchedd naturiol amlygu'i hun fel thema allweddol. Roedd sawl elfen gysylltiedig â'r ymateb gan gynnwys: Cynnydd disgwyliedig yn lefel y traffig ar hyd y priffyrdd sy'n darparu mynediad i'r Ardal Ymgeisiol;Goblygiadau i'r rhwydwaith ffyrdd o fewn yr Ardal Ymgeisiol;Effaith ar, ac argaeledd isadeiledd cysylltiedig megis parcio ceir;Pwysigrwydd cludiant cyhoeddus a mynediad i'r llai abl;Cynnal a chadw'r rhwydwaith llwybrau cyhoeddus ar draws yr Ardal Ymgeisiol a'r angen i reoli ymddygiad amhriodol yn well.Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol sydd yn yr arfaeth yn darparu fframwaith strategol i helpu i gynllunio'n rhagweithiol ar gyfer, a rheoli'r pwysau a'r cyfleoedd sy'n deillio o Barc Cenedlaethol newydd. Byddem yn hapus i gyfarfod i drafod ac ymhelaethu ar y materion a amlinellir uchod.	Mae materion traffig gan ymwelwyr, parcio ceir, rhwydwaith ffyrdd ac amodau diogelwch yn ogystal â thrafnidiaeth gyhoeddus hygyrch a llwybrau teithio llesol yn cael eu trafod yn yr IWBA. Wrth ystyried Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol CB15 (Gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid yn y sector twristiaeth i ymchwilio i ddulliau ar gyfer annog ymwelwyr â gogledd Cymru i deithio'n gynaliadwy tra hefyd yn gwella profiad ymwelwyr a rhoi hwb i'r economi ymwelwyr), mae'r cynllun yn nodi bod angen i ni warchod a gwella ein mannau harddwch naturiol fel Pen Llŷn, a Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (sy'n cael ei ystyried fel Parc Cenedlaethol newydd) mae'n hanfodol bod ein rhwydwaith trafnidiaeth yn cefnogi llwyddiant a thwf parhaus ein diwydiant twristiaeth. Wrth ystyried Polisi LU3, mae'r cynllun yn nodi, yn ogystal â chanolfannau economaidd ar gyfer twf, dylai ein Cynlluniau Datblygu Lleol sy'n dod i'r amlwg a'r Cynllun Datblygu Strategol hefyd ystyried unrhyw anghenion mynediad cynaliadwy pellach i Fryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy pe bai'n dod yn Barc Cenedlaethol newydd yn y dyfodol, gan gydnabod bod anghenion ein rhwydwaith trafnidiaeth i gefnogi llwyddiant a thwf parhaus ein diwydiant twristiaeth.

Coetsis a chludiant cymunedol (tudalen 7)	Byddem yn cefnogi'r cyfleoedd ar gyfer coetsis Parcio a Theithio a chyfnewidfa gymunedol a fyddai'n caniatáu parcio a theithio i ac o gyrchfannau twristiaeth poblogaidd ledled Gogledd Cymru, er enghraifft, gorsaf drenau Bangor a hefyd cysylltu â Pharc Cenedlaethol Eryri ac ati. Byddai'r cyfleuster hwn yn annog pobl i adael eu ceir naill ai gartref neu'r tu allan i'r Parc Cenedlaethol neu'r ardal Tirwedd Genedlaethol a defnyddio cludiant cyhoeddus i grwydro Gogledd Cymru. Byddai'n cyd-fynd yn dda â'r adolygiad trafnidiaeth a pharcio a gynhaliwyd gan Bartneriaeth Eryri. Dylai cerdded ac olwyno gael eu cynnwys mewn ymdrechion i integreiddio rhwng gwahanol ddulliau o deithio. Mae gofyn i'r diffiniad o Deithio Llesol yn y cynllun fod yn ehangach i gynnwys teithio ar gyfer hamdden, cysylltu pobl â'r llefydd maent yn mwynhau ymweld â hwy yn hytrach na chyfeirio at deithio i'r gwaith neu'r ysgol yn unig. Dylai'r rhain gynnwys cysylltiadau rhwng adnoddau cyhoeddus lleol megis pyllau nofio a chanolfannau hamdden, yn ogystal â llefydd lleol ar gyfer natur megis gwarchodfeydd natur, traethau a choedwigoedd. Dylai hefyd ystyried cysylltiadau â phrif drenau a phorthladdoedd a theithio trawsffiniol i alluogi gwell cysylltedd ar gyfer teithio llesol dros bellter hir gan ddefnyddio sawl opsiwn teithio. Dylai trenau fod â chyfleusterau ar gyfer beiciau sy'n diwallu anghenion beicwyr modern fel storio a gwefru. Mae cyfleusterau storio presennol ar drenau ar gyfer beiciau yn aml yn wael ac yn hen, ac yn achosi anghydfod rhwng grwpiau defnyddwyr. Wrth ystyried gwasanaethau bws cyhoeddus, mae'n werth gwerthuso'r cysylltiad Gogledd De. Mae angen mwy o ddealltwriaeth o ba mor bwysig yw'r gwasanaethau cludiant hyn i symudedd, mynediad i wasanaethau a gweithgarwch economaidd.	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r IWBA yn ystyried buddion Parcio a Theithio ac opsiynau cludiant cymunedol i annog defnydd o drafnidiaeth cyhoeddus cynaliadwy a lleihau'r defnydd o gerbydau preifat, yn enwedig mewn tirweddau parc cenedlaethol. Yn ogystal, mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r IWBA hefyd yn ystyried manteision gosod cyfleusterau storio a gwefru beiciau yn ogystal â hawliau tramwy cyhoeddus hygyrch i annog dulliau teithio llesol, i gysylltu â dulliau trafnidiaeth eraill hefyd.

Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Cynllun Monitro a Gwerthuso

Gorffennaf 2025








Cynllun Monitro a Gwerthuso

Cynnwys

1. Cyflwyniad a dull gweithredu 2

1.1 Cyd-destun a phwrpas y Cynllun Monitro a Gwerthuso hwn 2

1.2 Canllaw Arfarnu Trafnidiaeth Cymru ar fonitro a gwerthuso 3

1.3 Arweiniad Llywodraeth Cymru i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ar fonitro a gwerthuso 4

2. Cyd-fynd ag amcanion cenedlaethol a rhanbarthol 5

2.1 Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 5

2.2 Fframwaith monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 6

2.3 Amcanion Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 7

2.4 Nodau Fframwaith Asesiad Llesiant Integredig (IWBA) Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 8

3. Beth fydd yn cael ei fonitro a'i werthuso a sut 10

3.1 Themâu polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 10

3.2 Mesurau a dangosyddion polisi trafnidiaeth 11

3.3 Mesurau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 11

3.4 Dangosyddion Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 13

3.5 Cyflawni cynlluniau a monitro cynnydd 15

ATODIADAU 17

A.1 Offeryn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru (ar gael fel offeryn rhyngweithiol) 18

A.2 Rhestr hir o bolisïau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 19

A.3 Sut mae mesurau'r RTP yn cyd-fynd â'r amcanion a'r polisïau cenedlaethol a rhanbarthol 28

1. Cyflwyniad a dull gweithredu

1.1 Cyd-destun a phwrpas y Cynllun Monitro a Gwerthuso hwn

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer creu Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC) sy'n cael eu ffurfio i hyrwyddo cydweithredu rhanbarthol trwy fframwaith cyson a reolir yn ddemocrataidd. Mae'n ofynnol i CBC gydymffurfio â holl ddyletswyddau cyrff cyhoeddus a chânt gyfrifoldeb statudol dros baratoi Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP)[1] y mae'n rhaid iddynt nodi polisïau trafnidiaeth i weithredu'r Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021[2], gan ddarparu gweledigaeth hirdymor ar gyfer y 5 mlynedd nesaf.

Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru'n nodi'r weledigaeth ar gyfer system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon yng Nghymru. Y mecanweithiau cyflawni i wireddu'r uchelgeisiau hyn yw Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol Cymru 2022-2027, ac ar lefel ranbarthol, y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Paratowyd y Cynllun Monitro a Gwerthuso hwn i gefnogi'r gwaith o weithredu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 2025-2030 yn llwyddiannus, ynghyd â'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTDP) a'r Arfarniad Lles Integredig (IWBA), y dylid eu darllen ar y cyd â'r ddogfen hon.

Bydd y Cynllun hwn yn cael ei fabwysiadu yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (a'i RTDP cefnogol ar gyfer cynlluniau awdurdodau lleol, ac IWBA). Dylai'r gwaith gwerthuso a monitro ddechrau ar y dyddiad y mabwysiadir y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.


Uchelgais Gogledd Cymru fydd berchen y cynllun fel Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ac UGC fydd hefyd yn atebol am ei gyflawni. Y CBC a'i awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am gyflawni'r hyn sydd yn y cynllun.

Gall unigolion barhau i ymgysylltu ag Uchelgais Gogledd Cymru yn ystod cyfnod gweithredu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a thu hwnt, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt canlynol: info@ambitionnorth.wales

Mae CBC y Gogledd yn cynnwys cynrychiolwyr o chwe ardal awdurdod lleol Ynys Môn, Wrecsam, Conwy, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, a Gwynedd fel y gwelir yn Ffigwr 1, ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer materion cynllunio.

[1] Mae gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig hefyd gyfrifoldeb am baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol

[2] Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021 – Ar gael ar-lein yn: https://www.gov.wales/llwybr-newydd-wales-transport-strategy-2021



Ffigwr 1 – Awdurdodau Lleol sydd yng Nghynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (gyda Pharc Cenedlaethol Eryri mewn gwyrdd)

1.2 Canllaw Arfarnu Trafnidiaeth Cymru ar fonitro a gwerthuso

Mae'r Canllaw diweddaraf ar Werthuso Trafnidiaeth Cymru[3] (WELTAG) a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2024, yn darparu canllawiau ar bum cam cynllunio a gwerthuso trafnidiaeth, pum dimensiwn achos busnes ar gyfer ymyraethau trafnidiaeth, a rôl yr arfarniad lles integredig (IWBA). Mae'n berthnasol i raglenni a pholisïau trafnidiaeth strategol, yn ogystal â phrosiectau trafnidiaeth unigol yng Nghymru. Mae'n defnyddio dull cam-wrth-gam i gynllunio prosiectau lle mae monitro a gwerthuso yn cael ei ystyried fel Cam 5, sydd hefyd yn berthnasol i ddatblygu polisïau.

Waeth beth yw maint, cwmpas a chymhlethdod prosiect – WelTag byr, WelTAG safonol neu WelTAG manwl – mae'r WelTAG yn gofyn i bob prosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru fonitro'n rheolaidd a darparu adroddiadau cynnydd blynyddol. Mae'n datgan:

"Bydd adroddiad cynnydd blynyddol yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn y mae'r rhaglen neu brosiect wedi'i gyflawni. Mae adroddiad cynnydd blynyddol yn fersiwn llai manwl o'r adroddiad gwerthuso llawn. Mae'n darparu manylion y prosiect, unrhyw newidiadau a sut mae'r cynllun ymgysylltu wedi'i roi ar waith. Mae'n egluro pa wahaniaeth mae'r prosiect wedi'i wneud i bobl, beth weithiodd yn dda a beth oedd ddim cystal, a'r gwersi a ddysgwyd."

Mae'n cydnabod y gall fod yna risgiau nad oeddynt wedi'u rhagweld a bod y modd o gyflawni'r rhaglen neu brosiect yn gallu newid. Bydd monitro a diweddariadau rheolaidd yn helpu i ganfod unrhyw broblemau yn ystod y camau cynnar. Efallai y bydd angen i raglenni a phrosiectau mwy cymhleth gyflwyno gwerthusiad cynhwysfawr ar ôl ei weithredu i egluro sut y maent yn cyflawni gwerth am arian.

[3] Canllaw Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG), 2024. Ar gael ar-lein yn: https://www.gov.wales/welsh-transport-appraisal-guidance-weltag

1.3 Arweiniad Llywodraeth Cymru i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ar fonitro a gwerthuso

Mae Arweiniad Llywodraeth Cymru ar Gynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig[4] yn amlinellu'r isod:

1. Rhaid i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gynnwys Cynllun Monitro a Gwerthuso sy'n dangos sut y bydd cynnydd yn rhanbarthol o ran cyflawni blaenoriaethau ac uchelgeisiau cenedlaethol Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cael ei fonitro, ei fesur a'i werthuso. Rhaid i hyn gynnwys cyfraniad y rhanbarth i dargedau datgarboneiddio a newid moddol cenedlaethol.

2. Dylai'r Cynllun Monitro a Gwerthuso gynnwys cyfres o fesurau gyda gwybodaeth waelodlin ar gyfer pob un. Gall y mesurau gynnwys deilliannau ansoddol a mesurau meintiol.

3. Dylai'r mesurau fod yn seiliedig ar y fframwaith o fesurau a ddefnyddir yn yr Arfarniad Lles Integredig (IWBA) a dylid eu diweddaru os oes angen, gan ddefnyddio Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ar gyfer anghenion rhanbarthol. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi cyhoeddi data gwaelodlin ar gyfer Fframwaith Monitro WTS ac mae'n adolygu a diweddaru hyn yn barhaus.

4. Rhaid i CBC gyflwyno adroddiadau perfformio blynyddol ar Gynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol i Lywodraeth Cymru pob blwyddyn.

5. Dylid paratoi gwerthusiad cynhwysfawr ar ôl tair blynedd i asesu p'un a yw'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cyflawni ei ddeilliannau, yn darparu gwerth am arian a ph'un a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Dylai hyn ddilyn canllawiau cyhoeddedig ac arfer gorau ar werthuso.

6. Bydd canlyniadau'r gwerthusiad cynhwysfawr hwn yn bwydo i mewn i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol dilynol ar gyfer pob Cyd-bwyllgor Corfforedig, a'r NTDP dilynol.

Mae Atodiad 4 i'r Arweiniad ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (Fframwaith y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol) hefyd yn egluro y dylai Cynllun Monitro a Gwerthuso ddisgrifio sut y bydd pob ymyrraeth, a'i effeithiau, yn cael ei fonitro ac y dylai hyn ddilyn canllawiau WelTAG fel sy'n briodol.

[4] Cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol: arweiniad ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig, 2023. Ar gael ar-lein yn: https://www.gov.wales/regional-transport-plans-guidance-corporate-joint-committees

2. Cyd-fynd ag amcanion cenedlaethol a rhanbarthol

Mae Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (WTS) yn nodi gweledigaeth Cymru i ddarparu system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac sy'n rhoi pobl ac ymdrin â newid hinsawdd wrth galon gwneud penderfyniadau.

Y weledigaeth ar gyfer Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWRTP) yw y bydd gan Gogledd Cymru rwydwaith trafnidiaeth integredig ddiogel, cynaliadwy, fforddiadwy, gwydn ac effeithiol sy'n cefnogi twf economaidd, ffyniant a llesiant.

Cefnogir y gweledigaethau hyn gan amcanion sy'n darparu arweiniad i'r Cynllun Monitro a Gwerthuso hwn ac mae angen iddo gyd-fynd â'r amcanion trafnidiaeth rhanbarthol a chenedlaethol cyffredinol i sicrhau ei fod yn cyfrannu at eu diwallu.

2.1 Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

Cyhoeddwyd Llwybr Newydd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021. Mae'r Strategaeth yn nodi'r weledigaeth ar gyfer Trafnidiaeth yng Nghymru yn y dyfodol, ei blaenoriaethau yn y pum mlynedd nesaf a'i huchelgais dros yr 20 mlynedd nesaf.

Mae Llwybr Newydd yn manylu ar y tair blaenoriaeth a'r pedwar uchelgais canlynol, sy'n sail i'w gweledigaeth:

- Blaenoriaeth 1 – Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio;
- Blaenoriaeth 2 – Caniatáu pobl a nwyddau i symud yn hawdd o ddrws i ddrws trwy wasanaethau a seilwaith trafnidiaeth hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon; a
- Blaenoriaeth 3 – Annog pobl i newid i fathau mwy cynaliadwy o drafnidiaeth.

- Uchelgais 1 – Da i bobl a chymunedau;
- Uchelgais 2 – Da i'r amgylchedd;
- Uchelgais 3 – Da i'r economi a'r lleoedd yng Nghymru; ac
- Uchelgais 4 – Da i ddiwylliant a'r iaith Gymraeg

2.2 Fframwaith monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

Mae Fframwaith monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru[5] wedi cael ei ddylunio i helpu i dracio cynnydd wrth gyflawni'r blaenoriaethau ac uchelgeisiau cenedlaethol. Mae'r fframwaith monitro yn cynnwys chwe mesur trawsbynciol allweddol (M1 i M6), sy'n ymwneud â themâu a nodau allweddol fel rhan o Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (Datganiad Llesiant 2021-2026[6]) sy'n ymestyn y tu hwnt i ddim ond trafnidiaeth. Mae yna 27 o fesurau ategol hefyd (S1 i S27) sydd wedi'u dylunio i gefnogi a darparu cyd-destun ychwanegol i'r mesurau allweddol. Ystyrir mai'r mesurau allweddol yw rhan bwysicaf y fframwaith o ran cefnogi nodau cyffredinol Llywodraeth Cymru o ddatgarboneiddio a newid moddol. Mae Tabl 2-1 yn rhestru'r holl fesurau allweddol ac ategol yn y fframwaith monitro.

Tabl 2-1 Fframwaith monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a mesurau allweddol ac ategol2

Cyf.	Mesurau Allweddol	Cyf.	Mesurau Ategol
M1	% y teithiau wrth gerdded, beicio a chludiant cyhoeddus	S1	Amser teithio cyfartalog i wasanaethau addysg, iechyd a hamdden
M2	% y cerbydau sydd ag allyriadau isel iawn neu ddim allyriadau	S2	% y bobl sy'n fodlon â'u gallu i gael mynediad at wasanaethau yn eu hardal leol
M3	Cyfanswm y cilomedrau y mae cerbydau wedi'u teithio	S3	% y bobl sydd o fewn pellter cerdded i ddulliau cludiant cynaliadwy
M4	Pellter cyfartalog a deithiwyd fesul person	S4	% y bobl sy'n cerdded neu feicio o leiaf unwaith yr wythnos fel modd o deithio
M5	% y gweithlu sy'n gweithio o bell ar sail reolaidd	S5	% y teithiau i orsaf drenau wrth gerdded, beicio neu ar y bws
M6	Allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector trafnidiaeth	S6	% y teithiau i atyniadau ymwelwyr drwy ddulliau teithio cynaliadwy
		S7	% Rhwydwaith rheilffyrdd sydd wedi'i drydaneiddio
		S8	% Nwyddau ar y tir sy'n cael eu cludo ar y rheilffyrdd
		S9	% gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd ar amser
		S10	Nifer y pwyntiau gwefru cerbydau trydan sydd ar gael i'r cyhoedd
		S11	% y bobl sy'n fodlon â'u siwrne
		S12	% y bobl sy'n fodlon â'u gallu i gael mynediad at gludiant cyhoeddus yn annibynnol
		S13	% Gorsafoedd rheilffordd sydd heb stepiau
		S14	% Bysiau a threnau sydd â gwybodaeth sain-weledol

[5] Adroddiad Technegol Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, 2022. Ar gael ar-lein yn: https://tfw.wales/sites/default/files/2022-06/Wales%20Transport%20Strategy%20Monitoring%20Framework%20Technical%20Report%2l02022.pdf

[6] Llywodraeth Cymru: Datganiad Llesiant 2021-2026. Ar gael ar-lein yn https://www.gov.wales/programme-for-government-2021-to-2026-well-being-statement-html

Cyf.	Mesurau Allweddol	Cyf.	Mesurau Ategol
		S15	% y siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio gwasanaethau iaith Gymraeg yn y sector trafnidiaeth
		S16	% Oedi cyfartalog fesul cilomedr a deithiwyd
		S17	% Cost gyfartalog fesul cilomedr a deithiwyd ar drafnidiaeth gyhoeddus
		S18	% y bobl sy'n teimlo na allant fforddio teithio ar gludiant cyhoeddus
		S19	Pobl sydd wedi'u lladd neu'u hanafu ar y rhwydwaith trafnidiaeth
		S20	% y bobl sy'n teimlo'n ddiogel a bod croeso iddynt wrth deithio
		S21	% y seilwaith trafnidiaeth sydd mewn cyflwr da
		S22	% y seilwaith trafnidiaeth sydd mewn perygl o lifogydd
		S23	Lefel y llygryddion aer o'r sector trafnidiaeth
		S24	% y bobl sy'n cael eu poeni'n rheolaidd gan sŵn o'r tu allan i'r cartref a achosir gan drafnidiaeth
		S24	Hectarau o gynefin ar yr ystâd drafnidiaeth gaiff eu cynnal neu eu gwella er budd bioamrywiaeth
		S26	% y gwastraff a gynhyrchir gan y sector trafnidiaeth sy'n cael ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu
		S27	% Asedau hanesyddol dynodedig ar yr ystâd drafnidiaeth sydd mewn cyflwr sefydlog neu'n gwella

Mae'r fframwaith monitro yn cyflwyno data sy'n darparu gwaelodlin ar gyfer y mesurau yn y fframwaith monitro, ac mae Trafnidiaeth Cymru yn ceisio diweddaru'r data yn flynyddol o 2023.

2.3 Amcanion Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn amlinellu pedwar amcan SMART allweddol (Penodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Perthnasol ac Amserol) ar gyfer monitro a gwerthuso llwyddiant y Cynllun. Nod yr amcanion SMART hyn yw sefydlu targedau a sicrhau cysondeb rhwng y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a blaenoriaethau a nodau llesiant y WTS, fel sy'n ofynnol yn Arweiniad Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Llywodraeth Cymru. Y rhain yw:

1. Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol: Byddwn yn galluogi 30% neu fwy o bobl yng Ngogledd Cymru i weithio o bell erbyn 2030 trwy gynllunio defnydd tir yn well a gwella cysylltedd digidol, a ddylai leihau'r angen cyffredinol i deithio a galluogi teithiau byrrach sy'n fwy addas ar gyfer dulliau cynaliadwy.
2. Gwell hygyrchedd a dewis o drafnidiaeth: Byddwn yn datblygu isadeiledd a gwasanaethau sy'n rhoi dewis i bobl sut maent yn teithio ar gyfer pob taith ac yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy trwy wella mynediad i aneddleoedd allweddol, cyflogaeth, safleoedd addysgol ac atyniadau twristaidd. Dylid gwella

hygyrchedd pob atyniad taith allweddol, gan gefnogi'r targed rhaniad modd cenedlaethol o 45% o deithiau i'w gwneud trwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus erbyn 2040.

3. Galluogi datgarboneiddio drwy newid i fflyd dim allyriadau: Byddwn yn datblygu isadeiledd ategol a chefnogi cymhellion i alluogi o leiaf 50% o gerbydau modur a phob bws cyhoeddus sy'n gweithredu yng Ngogledd Cymru i fod yn ddi-allyriadau erbyn 2035.
4. Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy: Byddwn yn datblygu rhwydwaith trafnidiaeth gwydn, diogel, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, ac effeithlon sy'n darparu twf economaidd cynaliadwy drwy wella hygyrchedd i ardaloedd cyflogaeth presennol a rhai sydd wedi'u cynllunio. Bydd o leiaf 50% o aelwydydd Gogledd Cymru yn gallu teithio'n bellach o fewn un awr ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gefnogi mynediad i safleoedd cyflogaeth allweddol a chanolfannau rhanbarthol erbyn 2030.

2.4 Nodau Fframwaith Asesiad Llesiant Integredig (IWBA) Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru


Mae'r IWBA yn dangos sut mae llesiant wedi cael ei ystyried wrth ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, yn cynnwys y cyfraniad at lesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol, a sut y paratowyd ar gyfer defnyddio'r pum ffordd o weithio a hyrwyddir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hefyd yn cynnwys asesiadau effaith, gan ystyried, er enghraifft, sut y mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi ystyried a chyfrannu at ddeilliannau ansawdd, iechyd ac amgylcheddol ehangach.

Mae 12 amcan IWBA wedi'u nodi yn unol â'r rheoliadau SEA ar gyfer asesu effeithiau posib y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ac i osod datblygu cynaliadwy yng nghanol y broses gwneud penderfyniadau. Mae Tabl 2-2 yn rhestru'r 12 Amcan IWBA.

Cyf.	Amcanion y Fframwaith IWBA
1	Cefnogi'r gwaith o ddarparu tai a gwasanaethau lleol i ddiwallu anghenion cymunedau lleol
2	Lleihau anghydraddoldeb a hyrwyddo cydlyniant cymunedol
3	Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth leol, gan gynnwys mewn perthynas ag iechyd corfforol a meddyliol
4	Cadw, gwarchod a gwella buddiannau bioamrywiaeth a daearamrywiaeth, gan gynnwys drwy ddiogelu safleoedd, rhywogaethau a chynefinoedd pwysig
5	Gwarchod a gwella cymeriad y dirwedd, dynodiadau a mwynderau gweledol yn yr ardal leol
6	Gwarchod a gwella'r dreftadaeth ddiwylliannol leol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg
7	Gwarchod a gwella iechyd dŵr daear, cyrff dŵr wyneb ac arfordirol, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr.
8	Cefnogi trosglwyddiad tuag at sector trafnidiaeth gydag allyriadau carbon is (yn cynnwys sero) a gwella gwytnwch yr isadeiledd trafnidiaeth i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd
9	Gwarchod a gwella ansawdd aer lleol
10	Lleihau aflonyddwch o sŵn a dirgryniad sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth i gymunedau lleol
11	Ymgorffori egwyddorion yr economi gylchol i leihau'r defnydd o ddeunyddiau crai
12	Creu system drafnidiaeth integredig sy'n hwyluso symudiad effeithlon a diogel pobl a nwyddau, gan gyfrannu at fwy o ffyniant economaidd yn y rhanbarth

Tabl 2-2 Amcanion IWBA2

Ffigwr 2: Y rhyng-berthynas rhwng Gweledigaeth Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, amcanion (SMART) ac amcanion IWBA, a sut maent yn cyd-fynd â Blaenoriaethau ac Uchelgeisiau Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.



Ffigwr 2: Y rhyng-berthynas rhwng Gweledigaeth Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, amcanion (SMART) ac amcanion IWBA, a sut maent yn cyd-fynd â Blaenoriaethau ac Uchelgeisiau Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Gan ystyried WelTAG a chanllawiau Llywodraeth Cymru i CBC, mae'r Cynllun Monitro a Gwerthuso hwn yn cynnwys cyfres o fesurau, gyda gwybodaeth waelodlin, yn seiliedig ar y fframwaith o fesurau a ddefnyddir yn yr IWBA gan ystyried ei amcanion, a thynnu ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a'i fesurau.

Mae gweddill adrannau'r Cynllun hwn yn canolbwyntio ar beth fydd yn cael ei fonitro a'i werthuso, a sut.

3. Beth fydd yn cael ei fonitro a'i werthuso a sut

Fel yr amlinellir yn adran 2, mae angen i'r Cynllun Monitro a Gwerthuso hwn gyd-fynd ag amcanion trafnidiaeth rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau ei fod yn cyfrannu at eu cyflawni. Felly, bydd y gwaith monitro a gwerthuso yn canolbwyntio ar gyd-fynd ag amcanion SMART ac IWBA y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ogystal â blaenoriaethau ac uchelgeisiau Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Yn y Cynllun Monitro a Gwerthuso hwn, trefnir y mesurau a'r dangosyddion yn ôl themâu polisi'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'i bolisïau o fewn y themâu hynny, er mwyn medru tracio cynnydd yn haws tuag at y nod ehangach o ddatgarboneiddio a thargedau newid moddol.

3.1 Themâu polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Mae gweledigaeth ac amcanion Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, fel y'u disgrifir yn adran 1.4 y Cynllun Monitro a Gwerthuso hwn, yn cyd-fynd yn agos â pholisïau a strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol allweddol, yn cynnwys blaenoriaethau ac uchelgeisiau llesiant Llwybr Newydd, sef Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Er mwyn helpu i fframio'r polisïau a'r ymyraethau fel rhan o'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, mae cyfres o themâu polisi wedi'u hadnabod, yn seiliedig ar naw cynllun bach Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ar gyfer pob dull trafnidiaeth. Mae'r rhain yn cynrychioli meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt ar gyfer polisïau trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru. Mae polisïau'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, wedi'u cefnogi gan raglenni a phrosiectau, yn gosod y fframwaith i'r cynlluniau i'w cyflawni gan Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Bydd hyn yn sicrhau bod yr hyn a gaiff ei gyflawni trwy'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cyfrannu'n uniongyrchol at flaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae'r themâu polisi (gweler **Atodiad A2** am ragor o wybodaeth) yn cynnwys:

Cynllunio defnydd tir	Bws[7]	Porthladdoedd a chludo nwyddau
Cysylltedd Digidol	Coetsis, trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw a thrafnidiaeth gymunedol	Ffyrdd, strydoedd a pharcio
Cerdded, olwyno a beicio	Integreiddio rhwng dulliau	Uchelgeisiau'r rheilffyrdd
Mynediad ar y ddaear at awyrennau	Galluogi newid i ymddygiad teithio	Uchelgeisiau ffyrdd strategol

Nid yw'r isadeiledd rhwydwaith rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru wedi'i ddatganoli, sy'n golygu mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU ydyw drwy Network Rail. Mae lefelau gwasanaeth yn cael eu pennu i raddau helaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru, a'r Adran Drafnidiaeth, gan weithio gyda'r Cwmnïau Gweithredu Trenau (Trafnidiaeth Cymru ac Avanti West Coast ar hyn o bryd). Mae Cwmnïau Gweithredu Cludo Nwyddau yn gwasanaethu anghenion cwsmeriaid, sy'n golygu bod gwasanaethau cludo

[7] *Noder: Mae'r gwasanaethau bws, coetsis, ymateb i'r galw a chymudo yn cael eu grwpio dan un thema polisi yn y Cynllun Monitro a Gwerthuso hwn oherwydd eu natur trawsbynciol. Mae'r categoreiddio hwn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod y gwasanaethau hyn yn rhannu mesurau a dangosyddion tebyg, sy'n hwyluso gwerthusiad cydlynol a chynhwysfawr.*

nwyddau yn cael eu harwain yn fasnachol. Darperir y trac ar gyfer cludo teithwyr a nwyddau ar y rheilffyrdd gan Network Rail, gyda rheoliadau gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd.

Golyga hyn nad oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru unrhyw ddylanwad uniongyrchol dros wasanaethau neu isadeiledd rheilffyrdd, felly nid oes polisïau penodol yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, na chynlluniau sy'n ymwneud â rheilffyrdd yn ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Yn sgil hynny, maent hefyd tu allan i gwmpas y Cynllun Monitro a Gwerthuso hwn.

3.2 Mesurau a dangosyddion polisi trafnidiaeth

Mae mesurau polisi trafnidiaeth yn strategaethau a chamau gweithredu i reoli, rheoleiddio a gwella systemau trafnidiaeth. Gall mesurau polisi anelu i wella symudedd, lleihau tagfeydd, gwella diogelwch, lleihau'r effaith amgylcheddol a hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

Mae dangosyddion polisi trafnidiaeth yn fetrigau neu newidynnau i asesu, monitro a gwerthuso effeithiolrwydd polisïau trafnidiaeth a'u heffeithiau. Yn wahanol i fesurau polisi, sy'n gamau gweithredu neu strategaethau penodol i gyflawni nodau polisi, mae dangosyddion yn offer i fesur canlyniadau, cynnydd neu berfformiad y camau gweithredu hynny. Mae dangosyddion polisi trafnidiaeth yn darparu adborth hanfodol sy'n caniatáu i lunwyr polisi ddeall a yw eu mesurau'n cyflawni'r effeithiau a fwriadwyd, neu a oes angen gwneud addasiadau. Er enghraifft, efallai y byddai mesur polisi trafnidiaeth yn ceisio lleihau allyriadau ceir drwy hyrwyddo cludiant cyhoeddus, tra byddai dangosydd yn olrhain y gwir allyriadau neu'r nifer sy'n defnyddio cludiant i gadarnhau bod y polisi'n gweithio yn unol â'r bwriad.

Yn gryno, y mesurau yw'r strategaethau neu'r camau gweithredu sydd eu hangen i ddylanwadu ar ddeilliannau trafnidiaeth, a'r dangosyddion sy'n olrhain ac yn adrodd ar effeithiau neu gynnydd y mesurau hynny. Mae'r naill a'r llall yn hanfodol wrth greu fframwaith monitro a gwerthuso sy'n ymatebol ac atebol.

Mae adran nesaf y Cynllun hwn yn amlinellu'r mesurau a'r dangosyddion polisi trafnidiaeth a argymhellir ar gyfer monitro a gwerthuso Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, sut y maent wedi'u trefnu, a'u perthnasedd i'r themâu polisi trafnidiaeth.

3.3 Mesurau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Mae mesurau polisi trafnidiaeth (neu'n syml, 'mesurau' yn y Cynllun Monitro a Gwerthuso hwn) yn seiliedig ar Fframwaith Monitro'r WTS, wedi'u haddasu i ystyried amcanion SMART ac IWBA y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae'r angen i ystyried ystod mor eang o amcanion wedi'i gydbwyso yn erbyn yr angen i fod yn realistig ynghylch y gallu i gyflawni gwaith monitro a gwerthuso yng nghyd-destun y pwysau sydd ar adnoddau awdurdodau lleol, a'r angen i sicrhau bod ymdrechion yn canolbwyntio ar sicrhau llwyddiant y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ac unrhyw fersiynau ohono yn y dyfodol. I flaenoriaethu'r mesurau a'r adnoddau dan sylw, maent wedi'u categoreiddio'n fras fel a ganlyn, sy'n adlewyrchu strwythur Fframwaith Monitro'r WTS:

Mesurau Allweddol: Mae'r mesurau hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol i brif themâu a nodau Llywodraeth Cymru, fel yr amlinellir yn Fframwaith Monitro'r WTS, yn cynnwys datgarboneiddio a newid moddol cenedlaethol. Gan fod gan Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ei uchelgeisiau a'i amcanion rhanbarthol ei hun hefyd, mae'r mesurau allweddol yn cael eu dewis i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r ddwy gyfres o nodau (yn cynnwys y Fframwaith IWBA hefyd). Felly, bydd y mesurau allweddol hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni uchelgeisiau a blaenoriaethau WTS, yn ogystal ag amcanion SMART ac IWBA y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Maent wedi'u rhestru yn Atodiad A3 ac maent yn cynnwys y 15 mesur a ganlyn:

- LUP-3: Agosrwydd i gludiant cyhoeddus
- DC-5: Gweithio o bell
- WC-5: Pobl sy'n teithio'n llesol pob wythnos
- BC-1: Prydlondeb bysus a choetsis
- BC-6: Cyfansoddiad y fflyd (cyfran y bws yn ôl math o injan)
- IM-2: Teithiau i orsaf drenau wrth gerdded, beicio neu ar fws
- EBC-1: Cyfran modd ar gyfer cludiant cyhoeddus
- EBC-2: Teithiau i atyniadau ymwelwyr ar gludiant cyhoeddus
- EBC-4: Y galw a'r cyflenwad ar gyfer gwefru cerbydau trydan
- PF-2: Cyfansoddiad y fflyd (cyfran y cerbydau cludo nwyddau yn ôl math o injan)
- RSP-1: Cyfran o gyfanswm y km yn ôl math o gerbyd
- RSP-2: Pellter a deithiwyd fesul person
- RSP-5: Damweiniau ffordd
- RSP-6: Cerbydau sydd ag allyriadau isel iawn neu ddim allyriadau
- AD-1: Allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector trafnidiaeth

Mesurau ategol: Mae'r mesurau ategol wedi'u dylunio i gefnogi a darparu cyd-destun ychwanegol i'r mesurau allweddol. Dangosir cydberthynas a chymhwysedd pob mesur i'r amcanion a pholisïau'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (wedi'u trefnu yn ôl y themâu polisi) yn **Atodiad A3.**

Mae'r ffigwr yn dangos bod angen dull integredig o fonitro ar CBC y Gogledd er mwyn mynd i'r afael â'r holl amcanion; ni all un mesur fynd i'r afael â nhw i gyd.

Ar ben hynny, mae rhai mesurau yn cael effaith gref ar amcanion penodol ond yn cael effaith eilaidd neu rannol ar eraill.

Dylid blaenoriaethu'r mesurau allweddol gan mai'r rhain fydd yn cael yr effaith gryfaf wrth fonitro a gwerthuso'r amcanion a'u bod yn cyd-fynd yn agos â Fframwaith Monitro'r WTS, a fydd o fudd i'r adnoddau angenrheidiol sydd eu hangen i ymgymryd â gweithgareddau monitro a gwerthuso.

3.4 Dangosyddion Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

I ddatblygu Cynllun Monitro a Gwerthuso mae angen defnyddio ystod eang o ddata a chyfrifiadau i gefnogi dangosyddion i olrhain cynnydd yn erbyn sefyllfa waelodlin, gyda diweddariadau rheolaidd i ddeall a yw amcanion yn cael eu cyflawni dros amser.

I helpu i wneud hyn yn haws a sicrhau cysondeb yn y dull lle gall awdurdodau lleol fewnbynnu data lefel lleol i gyfrannu at ddarlun rhanbarthol, datblygwyd offeryn olrhain ar Excel (Offeryn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru) sy'n amlinellu'r mesurau a'r dangosyddion, yn cynnwys dulliau cyfrifo a data. Mae hyn wedi'i gynnwys yn **Atodiad A1**.

Mae gweddill yr adran hon yn crynhoi'r fethodoleg a argymhellir ar gyfer casglu data ac adrodd ar ddata ac yn diffinio'r rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer monitro a gwerthuso i helpu i gyflawni'r targedau a'r deilliannau a osodir gan yr amcanion rhanbarthol a chenedlaethol.

3.4.1 Casglu data

Mae Llwybr Newydd yn cydnabod pwysigrwydd casglu data i ddeall y dewisiadau trafnidiaeth mae pobl yn eu gwneud a'r ffactorau sy'n dylanwadu arnynt. Er mwyn cael man cychwyn cyson a safonol ar gyfer olrhain cynnydd Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru tuag at amcanion rhanbarthol a chenedlaethol, dylid casglu setiau data gan ddilyn methodoleg gyson pan fo hynny'n bosib, fydd hefyd yn galluogi meincnodi a chymharu cynhwysfawr rhwng awdurdodau lleol a Gogledd Cymru fel rhanbarth yn erbyn y waelodlin genedlaethol. Mae rhywfaint o ddata yn cael ei gasglu ar lefel leol, ar lefel Cymru a lefel y DU, ac ystyrir hyn yn Offeryn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru yn Atodiad A1.

Pan fo data ond ar gael ar lefel genedlaethol, mae'n rhoi darlun o'r sefyllfa bresennol ac yn cynnig procsi ar gyfer Gogledd Cymru, lle bydd mesurau a setiau data amgen yn darparu cymharwyr ategol. Defnyddiwyd y dull hwn wrth ddiffinio mesurau ***allweddol*** ac ***ategol*** fel y disgrifir yn fanylach isod.

Dylai CBC y Gogledd flaenoriaethu monitro a gwerthuso'r mesurau ***allweddol*** ac mae data monitro Trafnidiaeth Cymru ar gael fel rhan o Fframwaith Monitro'r WTS i ddarparu gwaelodlin ddibynadwy. Yn gyffredinol, mae hyn yn seiliedig ar gyhoeddiadau'r Adran Drafnidiaeth (er enghraifft yr Arolwg Teithio Cenedlaethol) wedi'i ategu gan setiau data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (megis yr Arolwg Llafurlu) a data awdurdodau lleol (er enghraifft mae'r awdurdodau lleol perthnasol yn cofnodi cerbydau tacsi a cherbydau preifat trwyddedig). Nodir hyn yn glir yn Offeryn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru fel mesurau sy'n "seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru". Mae rhywfaint o ddata yn dod i'r amlwg a bydd yn cael ei gasglu gan Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, sy'n cael ei ystyried yn yr adran isod fel rhan o gasglu data yn y dyfodol.

Mae Adroddiad Technegol Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, 2022[8] yn amlinellu ffynonellau data a dulliau cyfrifo ar gyfer ei fesurau - mae rhai o'r rhain wedi newid ers mis Awst 2023, a byddant yn cael eu hadlewyrchu mewn adroddiad ar 2023. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Technegol ar gyfer 2023 sy'n cynnwys disgrifiad llawn o'r dull cyfrifo a ddefnyddir ar gyfer pob un o'r mesurau, gan gynnwys eu diffiniad technegol a gwybodaeth am eu ffynonellau data a'r amlder. Oherwydd newidiadau a gwiriadau parhaus i ddata a dulliau technegol yn y Fframwaith Monitro, bydd Trafnidiaeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad technegol wedi'i ddiweddaru yng ngwanwyn 2025. Byddant yn diweddaru eu gwefan i ddatgan hyn. Gellir anfon unrhyw ymholiadau am ffynonellau data neu fethodolegau cyfrifo at WTSMonitoring@tfw.wales.

[8] Adroddiad Technegol Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, 2022. Ar gael ar-lein yn: https://tfw.wales/sites/default/files/2022-06/Wales%20Transport%20Strategy%20Monitoring%20Framework%20Technical%20Report%202022.pdf

Bydd monitro a gwerthuso'r mesurau ***ategol*** yn helpu i greu darlun cynhwysfawr o'r system drafnidiaeth a'i pherfformiad yng Ngogledd Cymru. Mae rhai o'r mesurau'n deillio'n uniongyrchol o Fframwaith Monitro'r WTS, neu'n cynnwys mesurau pwrpasol sy'n deillio o'r Fframwaith IWBA.

Mae Offeryn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru yn darparu argymhellion ar gyfer casglu data gan gynnwys enw'r set ddata, dolen i'r set ddata, perchennog y data a ffynhonnell y data.

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i gysylltu'r mesurau ***allweddol*** i ddangosyddion sy'n cynnwys data sydd ar gael i'r cyhoedd, gan helpu i gynorthwyo awdurdodau lleol a CBC y Gogledd i gasglu data ac ymgymryd â'r ymarfer monitro a gwerthuso. Gall y gwaith casglu data sydd ei angen i gefnogi mesurau ***ategol*** gynnwys dadansoddiad mwy cymhleth, ac i fod o gymorth, mae Offeryn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru yn darparu dulliau a fformiwla cyfrifo. Os nad yw rhai o'r setiau data a argymhellir ar gael yn y dyfodol, awgrymir y dylai CBC y Gogledd ar y cyd â'i awdurdodau lleol a Thrafnidiaeth Cymru gytuno ar set(iau) data arall/eraill. Bydd hyn yn arbennig o angenrheidiol pan ddaw setiau data newydd ar gael, gan gynnwys Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru.

3.4.2 Casglu data yn y dyfodol ac Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru[9]

Arolwg Teithio Cenedlaethol 2012 oedd yr un olaf a oedd yn cwmpasu Cymru, gyda fersiynau diweddarach yn cwmpasu Lloegr yn unig. Lansiwyd Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru (W-NTS) newydd ym mis Mawrth 2025. Mae'r arolwg yn casglu data ar agweddau ac ymddygiad teithio gan sampl ar hap o bobl sy'n byw yng Nghymru bob blwyddyn. Bydd yr arolwg yn gynrychioliadol o bobl Cymru ac yn hygyrch iddynt a gellir ei gwblhau naill ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg. Bydd y data a gesglir yn caniatáu cynnydd tuag at dargedau a osodir yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Chymru Sero Net Cyllideb Garbon. Bydd yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau a gwella'r sylfaen o dystiolaeth am drafnidiaeth yng Nghymru, gan ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth o anghenion ein defnyddwyr. Mae'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Gymdeithasol (National Centre for Social Research) yn gweithredu'r arolwg ar ran Trafnidiaeth Cymru. Maent yn bwriadu cyhoeddi data rhagarweiniol sy'n cwmpasu'r 6 mis cyntaf yr arolwg ym mis Mawrth 2026. Cyhoeddir data blynyddol o'r flwyddyn arolwg lawn gyntaf yn ystod tymor y Hydref 2026.

Pan gaiff ei gyhoeddi gan Drafnidiaeth Cymru, bydd hyn yn cynorthwyo'r CBC Gogledd Cymru a'i awdurdodau lleol ymhellach i fonitro cynnydd tuag at y targedau cenedlaethol a rhanbarthol yn ddibynadwy. Dylai CBC Gogledd Cymru ddiweddaru ei setiau data o'r dyddiad cyhoeddi'r W-NTS yn unol â hynny.

3.4.3 Gosod gwaelodlin a thargedau ar gyfer cynnydd

Dylid cyfrifo gwerthoedd gwaelodlin i ddangos man cychwyn y gellir mesur unrhyw gynnydd yn y dyfodol yn ei erbyn. O fewn Offeryn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru, mae gwerthoedd gwaelodlin wedi'u darparu ar gyfer pob un o'r mesurau ***allweddol*** yn erbyn blynyddoedd sylfaen er mwyn eu cymharu'n y dyfodol.

Fel y disgrifir uchod, mae Trafnidiaeth Cymru wedi cyhoeddi data gwaelodlin ar gyfer Fframwaith Monitro'r WTS. Felly, darperir gwerthoedd gwaelodlin gyda blynyddoedd sylfaen cyfatebol ar gyfer yr holl fesurau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â Fframwaith Monitro'r WTS.

Ar gyfer gwerthoedd gwaelodlin ar gyfer y mesurau sy'n seiliedig ar IWBA a rhai mesurau ***ategol*** dylid casglu data gwaelodlin ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf sydd ar gael, gyda chasglu data i ddechrau o pan fydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael ei fabwysiadu. Unwaith caiff y gwerthoedd eu cyfrifo a phennir y flwyddyn sylfaen, dylid eu cofnodi'n glir yn Offeryn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru a'u defnyddio fel gwaelodlin ar gyfer pob blwyddyn fonitro wedi hynny.

[9] Trafnidiaeth Cymru: Arolwg Teithio Cymru, 2012. Ar gael ar-lein yn: https://tfw.wales/projects/wales-national-travel-survey

Bydd targedau yn helpu i fonitro a gwerthuso perfformiad y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn erbyn y mesurau a'r dangosyddion. Pan fo hynny'n briodol, mae targedau wedi'u gosod yn Offeryn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru ar gyfer y mesurau ***allweddol*** yn seiliedig ar amcanion SMART, sy'n cynnig dyheadau meintiol ar gyfer newid, yn cyd-fynd â thargedau Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Ar gyfer y mesurau ***ategol***, argymhellir y gallai CBC y Gogledd ystyried gosod targedau ar gyfer mesurau ar lefel awdurdod lleol, neu i gyd-fynd â thargedau cenedlaethol ehangach fel y rhai sydd eisoes wedi'u gosod fel rhan o fesurau Fframwaith Monitro'r WTS cysylltiedig. Bydd gosod targedau dan arweiniad awdurdodau lleol yn helpu i integreiddio'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol â chynlluniau corfforaethol lleol a thargedau cysylltiedig, er enghraifft yn ymwneud â'r Gymraeg, neu mewn perthynas â'r camau gweithredu yn ei strategaeth newid hinsawdd yn cynnwys cyflwyno seilwaith gwefru cerbydau trydan.

Gall adnabod lle mae rhai ardaloedd penodol yn methu ddangos bod angen blaenoriaethu buddsoddiad yn yr ardaloedd hyn. Yn yr un modd, gall tueddiadau sy'n dangos bod cynnydd yn gadarnhaol mewn ardal benodol roi'r cyfle i wersi gael eu dysgu a'u rhannu, gan helpu i sefydlu diwylliant o arfer gorau a chydweithio rhanbarthol.

3.4.4 Adrodd ar ddata

Mae'r mesurau a'u dangosyddion yn amrywio ar raddfeydd gofodol fel y disgrifir uchod, ac felly mae Offeryn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru yn nodi'n glir "fanylder y monitro" i ystyried y graddfeydd adrodd lleol a rhanbarthol sydd eu hangen, a "cyfrifoldeb monitro" i'w gwneud yn glir p'un ai awdurdodau lleol neu CBC y Gogledd ddylai fod yn gyfrifol am y cyfrifiadau a'r adroddiadau sy'n gysylltiedig â'r dangosyddion, gan ystyried graddfeydd geo-ofodol monitro a gwerthuso ar gyfer gwahanol fesurau.

Mae'r cyfrifoldeb cyffredinol am oruchwylio'r gwaith o gasglu, adrodd a rheoli perfformiad data yn unol â'r Cynllun Monitro a Gwerthuso hwn yn eistedd gydag Uchelgais Gogledd Cymru fel CBC y Gogledd, gyda chefnogaeth ei Is-bwyllgor Trafnidiaeth. Maent yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun Monitro a Gwerthuso unwaith y bydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael ei fabwysiadu.

Yn unol â Chanllawiau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Llywodraeth Cymru, dylai CBC y Gogledd gyflwyno adroddiad perfformiad blynyddol ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i Lywodraeth Cymru. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr adran "amlder monitro" yn Offeryn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru. Dylid blaenoriaethu hyn ar gyfer y mesurau ***allweddol***, ond i gael darlun mwy cynhwysfawr o'r system drafnidiaeth a pherfformiad y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, dylai'r mesurau ***ategol*** hefyd gael eu monitro'n flynyddol pan fo hynny'n bosib ac yn ymarferol, gan roi gadw mewn cof y galw am adnoddau awdurdodau lleol, neu o leiaf ar ôl tair blynedd i asesu p'un ai yw'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cyflawni ei ddeilliannau, yn darparu gwerth am arian a ph'un a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

Bydd canlyniadau'r gwerthusiad cynhwysfawr ar ôl tair blynedd yn cael eu bwydo i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol dilynol, a'r NTDP dilynol.

Mae'r Cynllun Monitro a Gwerthuso hwn wedi'i sefydlu yn gynnar iawn yn oes y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ond caiff ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol ac yn cyfrif am unrhyw newidiadau.

3.5 Cyflawni cynlluniau a monitro cynnydd

Tra bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi polisïau ar gyfer trafnidiaeth yn rhanbarth Gogledd Cymru, ceir gwybodaeth fwy penodol am sut y bydd y polisïau hynny'n cael eu cyflawni gan awdurdodau lleol yn ei Gynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae hyn ar ffurf rhestr o gynlluniau sydd wedi cael eu gwerthuso a'u blaenoriaethu o ran yr effaith ar gyflawni yn erbyn yr amcanion rhanbarthol a chenedlaethol, ar y cyd â meini prawf cyflawni ehangach. Mae'r rhain yn cynrychioli'r cynlluniau y mae awdurdodau trafnidiaeth lleol yng Ngogledd Cymru, a Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyllido eraill pan fo hynny'n

berthnasol, yn bwriadu buddsoddi ynddynt er mwyn cyflawni Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Bydd CBC y Gogledd a'i Is-bwyllgor Trafnidiaeth yn ystyried cynnydd polisïau ac ymyraethau yn y cynlluniau sydd wedi'u cymeradwyo mewn cysylltiad â rheoli perfformiad cyllid datganoledig gan Lywodraeth Cymru i'r CBC ochr yn ochr â dyfarniadau cyllid eraill o ffynonellau amgen, y gellir eu dyfarnu'n uniongyrchol i awdurdodau lleol.

Felly, bydd Uchelgais Gogledd Cymru ar y cyd ag awdurdodau lleol yn cynnal gwaith i fonitro gwariant grantiau a chynnydd y cynllun yn ystod y flwyddyn, a fydd yn cyfateb i'r monitro grantiau chwarterol a wneir gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd. Mae gofynion a strwythur adrodd Llywodraeth Cymru yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses foderneiddio grantiau.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi ymrwymo i ymgymryd â'i gyfrifoldebau monitro a gwerthuso ar draws ei gynlluniau mewn ffordd ar y cyd, lle bo'n briodol ac yn berthnasol. Bydd cyfarfodydd CBC y Gogledd yn cael eu cynnal yn chwarterol lle bydd swyddogion trafnidiaeth awdurdodau lleol yn rhoi diweddariadau ar gynnydd y gwaith o weithredu'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (ar ôl ei fabwysiadu), ynghlwm â pherfformiad cyffredinol y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol o ran cyfrannu at y mesurau a nodir yn y Cynllun Monitro a Gwerthuso hwn.

ATODIADAU

A.1 Offeryn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru (ar gael fel offeryn rhyngweithiol)

A.2 Rhestr hir o bolisïau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Thema Polisi	Cyf.	Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol
Cynllunio Defnydd Tir	LU1	Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cefnogi'r egwyddor o Ddatblygu sy'n Seiliedig ar Dramwy ar gyfer datblygiadau newydd yng Ngogledd Cymru.
	LU2	Bydd yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy yn cael ei defnyddio i helpu sicrhau bod datblygiadau yn cefnogi cerdded a beicio, cludiant cyhoeddus a cherbydau gydag allyriadau isel iawn dros gerbydau modur preifat eraill.
	LU3	Bydd cysylltiadau trafnidiaeth cynaliadwy i ardaloedd allweddol ar gyfer twf a gweithgarwch economaidd yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno.
	LU4	Dylai datblygiadau ond gael eu cefnogi pan maent yn hyrwyddo cysylltedd teithio llesol drwy ddiogelu, gwella ac ehangu'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol.
	LU5	Dylid annog datblygiadau sy'n agos at gyfleusterau cludiant cyhoeddus, a dylid dylunio datblygiadau i helpu i hwyluso a gwella cysylltedd cludiant cyhoeddus mewn ardaloedd trefol a gwledig.
	LU6	Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cefnogi lleihau'r safonau parcio ar gyfer datblygiadau newydd (fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru), yn enwedig mewn ardaloedd trefol lle byddwn yn gweithredu i wella dewisiadau amgen o drafnidiaeth gynaliadwy.
Cysylltedd Digidol	DC1	Dylid chwilio am gyfleoedd i weithio gyda chymunedau a busnesau i hyrwyddo a hwyluso canolfannau gweithio o bell.
	DC2	Dylai addysg a hyfforddiant llythrennedd ddigidol fod ar gael yn helaeth i helpu trigolion gogledd Cymru i fynd ar-lein a dod o hyd i'r wybodaeth y mae arnynt ei hangen i wneud dewisiadau teithio cynaliadwy.
	DC3	Bydd dull partneriaeth yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf a digidol am wasanaethau cludiant cyhoeddus, gan flaenoriaethu arddangosfeydd digidol mewn cyfnewidfeydd trafnidiaeth allweddol, a gweithio tuag at y wybodaeth ddiweddaraf mewn safleoedd bysiau ar draws Gogledd Cymru.
Cerdded, Olwyno a Beicio	AT1	Bydd ansawdd a graddfa'r isadeiledd a ddarperir ar gyfer cerdded, beicio ac olwyno yng Ngogledd Cymru yn parhau i gael ei wella yn unol â'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol. Gallai'r rhain fod yn gyfleusterau newydd neu gyfleusterau presennol wedi'u huwchraddio a gallant gynnwys ail-ddyrannu lle ar y ffordd i flaenoriaethu dulliau cynaliadwy.
	AT2	Mewn ardaloedd nad ydynt yn wledig, rhoddir blaenoriaeth i uwchraddio isadeiledd teithio llesol lle mae'r potensial mwyaf ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r rhwydwaith.
	AT3	Pan fo'n bosib, dylai isadeiledd cerdded a beicio fod yn hygyrch i bawb, gan gynnwys pobl sydd ag amhariadau symudedd, pobl mewn cadeiriau olwyn a phobl sy'n gwthio pramiau.

Thema Polisi	Cyf.	Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol
	AT4	Mewn ardaloedd gwledig, bydd gwella isadeiledd teithio llesol yn canolbwyntio ar fudd cymunedol cynlluniau; gwella diogelwch a llwybrau sy'n cysylltu cymunedau llai gydag aneddleoedd a gwasanaethau mwy.
	AT5	Lle mae budd teithio llesol, bydd llwybrau sy'n ffurfio rhan o'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cael eu gwella i safon sy'n addas ar gyfer teithiau teithio llesol bob dydd.
	AT6	Byddwn yn ymchwilio i gyflwyno Lonydd Tawel yng ngogledd Cymru yn unol â chanllawiau cenedlaethol.
	AT7	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid i edrych ar sefydlu Uned Teithio Llesol Gogledd Cymru
	AT8	Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cefnogi cytundebau cyllid aml-flwyddyn ar gyfer isadeiledd teithio llesol fydd yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu a chyflawni rhaglen aml-flwyddyn o welliannau.
	AT9	Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cefnogi newidiadau i feini prawf cyllid teithio llesol fydd yn rhoi mwy o bwyslais ar gynlluniau mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd preswyl.
	AT10	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ymchwilio i ffrydiau ariannu ychwanegol at y Gronfa Teithio Llesol sy'n cefnogi cyflawni gwelliannau isadeiledd teithio llesol mewn ardaloedd gwledig.
	AT11	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu templedi a phecynnau cymorth i gefnogi cymunedau lleol i ddatblygu a gweithredu eu prosiectau eu hunain lle mae'r llywodraeth yn chwarae rôl hwyluso a chefnogi, yn hytrach na rôl o wneud a chyflawni.
	AT12	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys y sectorau cymunedol a gwirfoddol, i gefnogi cynlluniau llogi beiciau ac e-feiciau cymunedol sy'n cefnogi mynediad at gyflogaeth neu addysg.
	AT13	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys y sector masnachol, i gyflwyno cynllun llogi beiciau ac e-feiciau cyhoeddus mewn cyfnewidfeydd trafnidiaeth mawr neu leoliadau addas eraill, ac mewn lleoliadau lle mae cynllun o'r fath yn cefnogi'r economi ymweld.
	AT14	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu dulliau i gynyddu perchnogaeth e-feiciau, gan gynnwys cynlluniau benthyca a grantiau.
Mynediad ar y Ddaear i Awyrennau	AV1	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cefnogi'r gwelliannau i fynediad ar y ddaear at feysydd awyrennau rhyngwladol a domestig, gan ganolbwyntio ar wella gwasanaethau cludiant cyhoeddus
Bysus, Coetsis a	PT1	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig a phartneriaid yn gweithio gyda TC a Llywodraeth Cymru i gefnogi dechrau masnachfreinio bysiau yng ngogledd Cymru, a ddylai gynnwys cyllid aml-flwyddyn fydd yn darparu sicrwydd ar gyfer y cyhoedd sy'n teithio, awdurdodau a gweithredwyr.

Thema Polisi	Cyf.	Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol
Chludiant Cymunedol	PT2	Dylai pob bws newydd sy'n cael ei gyflwyno yng ngogledd Cymru fod yn ddi-allyriadau. Pan fo bysiau newydd yn welliant hirdymor, dylid chwilio am gyfle i ail-bweru'r fflyd gyfredol.
	PT3	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid i chwilio am gyfleoedd i ategu'r datblygiad o ganolfannau hydrogen yng ngogledd Cymru drwy ymchwilio i gyflwyno fflyd bysiau hydrogen.
	PT4	Bydd y Rhwydwaith Trawsnewid Gwasanaeth Bws yn cael ei gyflwyno yng Ngogledd Cymru. Bydd hyn yn cynnwys rhwydwaith craidd o wasanaethau rhwng ac o fewn aneddleoedd mawr a safleoedd cyflogaeth gydag amlder o ddau i bedwar bws yr awr, yn ymestyn i'r nos.
	PT5	Bydd gwasanaethau bws y dyfodol yng ngogledd Cymru yn cynnwys yr isod: • amlder uchel ac oriau gweithredu hir • amseroedd ymadael rheolaidd/cyson • amserlenni ar ddydd Sul mor agos at amlder dyddiau'r wythnos â phosib i gefnogi'r galw gan gymudo, hamdden a'r economi ymweld • wedi'u cydlynu i ddarparu amserlen synhwyrol • lleihau amseroedd teithio rhwng y tarddiad a'r cyrchfannau gyda'r galw uchaf • defnyddio llwybrau uniongyrchol sy'n aros yr un fath drwy'r dydd • bydd y llwybr yn mynd drwy gyfnewidfeydd trafnidiaeth a gorsafoedd rheilffordd • wedi'u hintegreiddio gyda gwasanaethau bws lleol a thrafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw deinamig • yn gyfforddus ar gyfer teithiau hir
	PT6	Bydd dull partneriaeth sy'n cynnwys awdurdodau priffyrdd lleol, Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru yn cael ei roi ar waith i adnabod a gweithredu mesurau blaenoriaeth bws sy'n cefnogi cyflwyno'r rhwydwaith trawsnewid bysus yng Ngogledd Cymru. Gall hyn gynnwys ail-ddyrannu lle ar y ffordd.
	PT7	Bydd yr holl gyfleusterau aros mewn safle bws yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda cyn belled â bod modd cyflawni hyn drwy gyllidebau refeniw awdurdodau lleol.
	PT8	Bydd safleoedd bysiau allweddol, megis y rhai yng nghanol pentrefi, rhai sy'n cael eu defnyddio llawer, a rhai lle mae cyfnewidfa rhwng dulliau neu wasanaethau yn gyffredin, yn cael eu blaenoriaethu i'w gwella, gan gynnwys: • Cyrbiau wedi'u gostwng i gael mynediad at y safle • Cyrbiau wedi'u codi i helpu i fynd ar y bws • Golau, neu oleuadau stryd gerllaw • Llochesi • Seddi • Y wybodaeth ddiweddaraf a gwybodaeth am y siwrne gyswllt • Storio beiciau

Thema Polisi	Cyf.	Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol
	PT9	Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cefnogi Gweledigaeth Llywodraeth Cymru o 'Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn' ar gyfer system fysiau sy'n cael ei llywodraethu a'i chynllunio i wasanaethu budd y cyhoedd, gyda'r cwmpas daearyddol ehangaf posibl, cysylltiadau cwbl integredig rhwng gwahanol wasanaethau, yr amleddau gwasanaeth uchaf posibl, a thocynnau a gwybodaeth hawdd eu defnyddio, unedig, syml.
	PT10	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys gweithredwyr ac awdurdodau lleol, i wneud teithio ar fws yn fwy hygyrch i bobl gydag anableddau neu symudedd cyfyngedig. Dylai gwelliannau dynnu oddi ar arferion da ar draws y byd, ond dylai'r gwelliannau gynnwys: • Cyrbiau wedi'u gostwng i gael mynediad at y safle • Cyrbiau wedi'u codi i helpu i fynd ar y bws • Llochesi a Seddi mewn safleoedd • Cyhoeddiadau Clyweledol • Gwybodaeth ar y bws mewn ffurfiau hygyrch
	PT11	Dylai gwasanaethau peilot Fflecsi llwyddiannus fod yn barhaol, a dylai gwasanaethau Fflecsi ychwanegol gael eu dylunio gyda'r gymuned leol a'u cyflwyno mewn ardaloedd eraill, yn unol â chynigion rhwydwaith trawsnewid bysus.
	PT12	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig, awdurdodau lleol a TrC yn cydweithio â chymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, i helpu i ariannu a darparu gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol sy'n diwallu anghenion sydd heb eu diwallu fel arall.
	PT13	Byddwn yn gweithio gyda darparwyr cerbydau hurio preifat a thacsis i hyrwyddo diogelwch ar gyfer teithwyr a gyrwyr a helpu i gynyddu argaeledd cerbydau gydag allyriadau isel neu gerbydau heb foduron.
	PT14	Pan fo cyllid ar gael, cymerir cyfleoedd i symud ymlaen â theithiau coetsis pellter hirach, i gysylltu Gogledd Cymru a De Cymru, a hefyd o'r dwyrain i'r gorllewin i gysylltu â chanolfannau economaidd yn Lloegr.
	PT15	Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cefnogi grwpiau cymunedol sy'n anelu i wella profiad teithio ar reilffordd ar gyfer teithwyr newydd a phresennol.
Integreiddio rhwng dulliau	IN1	Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cefnogi datblygiad a chyflwyniad Canolfannau Symudedd a Gorsafoedd Porth i'w gwneud hi'n haws newid rhwng dulliau trafnidiaeth cynaliadwy ar daith.
	IN2	Bydd creu lleoedd a chyfeirio pobl mewn gorsafoedd ac arosfannau bysiau allweddol yn cael ei wella. Dylai hyn ystyried cysylltiadau ymlaen i atyniadau allweddol a bydd hyn yn cael ei wneud mewn ymgynghoriad â sefydliadau lleol a chymunedol, gan gynnwys grwpiau sy'n cynrychioli cymunedau â nodweddion gwarchodedig.

Thema Polisi	Cyf.	Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol
	IN3	Bydd gwelliannau Isadeiledd Teithio Llesol a nodwyd ar Gynlluniau Rhwydwaith Gorsafoedd yn cael eu cyflawni, a bydd Cynlluniau Rhwydwaith Gorsafoedd yn cael eu datblygu ar gyfer y gorsafoedd hynny nad oes ganddynt un ar hyn o bryd.
	IN4	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cefnogi'r broses o gyflwyno tocynnau integredig ar draws dulliau trafnidiaeth sy'n darparu'r gwerth gorau i deithwyr.
	IN5	Dylai unrhyw gynlluniau teithio a pharcio newydd geisio annog cyflawni'r daith gyfan trwy fodd cynaliadwy, dylent gael eu lleoli i leihau milltiroedd cerbydau preifat, a chael eu lleoli mewn man sy'n medru derbyn gwasanaethau cludiant cyhoeddus gydag r effaith leiaf.
	IN6	Dylid ystyried safleoedd parcio a rhannu strategol yn y Cynllun Datblygu Strategol.
Galluogi Newid i Ymddygiad Teithio	CB1	Bydd gwelliannau pellach i wasanaethau cludiant cyhoeddus a llwybrau teithio llesol sy'n rhoi mynediad i safleoedd cyflogaeth mawr yn cael eu hadnabod a'u datblygu os oes cyllid ar gael. Dylai gwelliannau ystyried patrymau gwaith shifft, patrymau gweithio tymhorol, a ble gellir cyflawni'r effaith fwyaf.
	CB2	Bydd dull partneriaeth yn cael ei ddefnyddio i adnabod a datblygu cynlluniau a mentrau sy'n annog teithio cynaliadwy i'r gwaith mewn safleoedd cyflogaeth sy'n agos at y ffin, megis Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, Parc Diwydiannol Wrecsam, Airbus Brychdyn, Parc Busnes Caer, a chanol dinas Wrecsam a Chaer.
	CB3	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol a Chyfunol cyfagos, gan gynnwys Gorllewin Swydd Gaer a Chaer, a Rhanbarth Dinas Lerpwl i sicrhau dull ategol i Gynllunio Trafnidiaeth, yn enwedig yn Is-ranbarth Merswy-Dyfrdwy. Dylai hyn ystyried teithiau cymudo a symudiadau cludo nwyddau.
	CB4	Dylai cymudwyr i Barth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam fedru cael mynediad at swyddi gan ddefnyddio isadeiledd seiclo a cherdded o ansawdd uchel, gwell gorsafoedd rheilffordd cyfagos, neu wasanaethau bws sy'n ddeniadol ac yn adlewyrchu patrymau gwaith y cyflogwyr yn y Parth Buddsoddi.
	CB5	Pan fo'n bosibl, byddwn yn chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio cyllid y Parth Buddsoddi ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth gynaliadwy sy'n gwella mynediad at gyflogaeth ac yn cefnogi cyflwyniad a llwyddiant y Parth Buddsoddi.
	CB6	Bydd dull partneriaeth yn cael ei ddefnyddio i adnabod a datblygu cynlluniau a mentrau dewisiadau doethach sy'n hwyluso cymudo mwy cynaliadwy i safleoedd cyflogaeth yng Ngwynedd ac Ynys Môn.
	CB7	Byddwn yn ymchwilio i greu Partneriaethau Trafnidiaeth Strategol mewn lleoliadau cyflogaeth mawr.

Thema Polisi	Cyf.	Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol
	CB8	Rhoddir blaenoriaeth i ariannu cynlluniau a gwasanaethau sy'n gwella mynediad cynaliadwy at wasanaethau hanfodol sy'n cyfoethogi bywyd, megis addysg, gofal iechyd, canol trefi a chyfleusterau cymunedol. Unwaith y bydd yn ei le, dylid blaenoriaethu unrhyw isadeiledd sy'n cefnogi mynediad at y gwasanaethau hyn ar gyfer cynnal a chadw pan fo'n briodol.
	CB9	Byddwn yn ymchwilio i gyflwyno Contract Gwasanaethau Cyffredinol yn un o'r ardaloedd awdurdod lleol yng ngogledd Cymru, gyda golwg ar gyflwyno'n ehangach ar draws y rhanbarth pe byddai'n llwyddiannus.
	CB10	Bydd gwelliannau pellach i wasanaethau cludiant cyhoeddus a llwybrau teithio llesol sy'n rhoi mynediad i sefydliadau addysg yn cael eu hadnabod a'u datblygu os oes cyllid ar gael. Mae hyn yn cynnwys: Safleoedd Addysg Uwch (prifysgolion ym Mangor a Wrecsam, ond hefyd y rhai yng ngogledd orllewin Lloegr); Safleoedd Addysg Bellach (yn cynnwys Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Cambria); Ysgolion Uwchradd; ac Ysgolion Cynradd.
	CB11	Dylai awdurdodau lleol ymestyn eu gwaith gydag ysgolion a rhieni i annog a chefnogi teithio cynaliadwy ar gyfer plant, rhieni a staff.
	CB12	Bydd awdurdodau lleol yn parhau i ddefnyddio setiau data lleol a pholisïau megis y Mesur Teithio gan Ddysgwyr i flaenoriaethu llwybrau i'r ysgol ar gyfer gwelliannau diogelwch.
	CB13	Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gyflawni'r gwelliannau trafnidiaeth angenrheidiol cymdeithasol sy'n atal ynysu gwledig. Dylai hyn flaenoriaethu cysylltu cymunedau gwledig yn well i: • Gymunedau cyfagos • Trefi gerllaw • Cyfleusterau cymunedol cyfagos a gwasanaethau allweddol, megis iechyd, siopau ac addysg • Cyfnewidfeydd trafnidiaeth ar gyfer teithio pellach
	CB14	Bydd ymgyrchoedd Marchnata a Chyfathrebu yn cael eu datblygu sy'n ystyrlon ac yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o fanteision teithio cynaliadwy. Bydd ymgyrchoedd yn defnyddio technegau arloesol i dargedu'r gynulleidfa gywir, yn enwedig y grwpiau hynny sy'n anoddach i'w cyrraedd. Dylid gwneud hyn ar sail ranbarthol pan fo'n briodol.
	CB15	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid yn y sector twristiaeth i ymchwilio i ddulliau ar gyfer annog ymwelwyr i ogledd Cymru i deithio yn gynaliadwy wrth hefyd ehangu ar brofiad yr ymwelydd a gwella'r economi ymweld.
	CB16	Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gefnogi'r economi ymweld drwy reoli parcio i fysiau a chartrefi modur yn agos at atyniadau yng ngogledd Cymru. Dylai hyn ystyried cyfleoedd gwefru ar gyfer cerbydau allyriadau sero.
	CB17	Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i wneud gwasanaeth bws Sherpa'r Wyddfa yn barhaol, gyda chyllid hirdymor; ac ymchwilio i sut y gellir integreiddio gwasanaethau ymhellach gyda'r rhwydweithiau bws a rheilffordd ehangach.

Thema Polisi	Cyf.	Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol
	CB18	Trwy weithio mewn partneriaeth, bydd gwelliannau pellach yn cael eu cyflwyno i annog ymwelwyr ag Eryri i deithio trwy ddulliau heblaw'r car. Bydd y rhain yn cynnwys gwella dewisiadau amgen, rheoli cyfleusterau, a gwell gwybodaeth ac addysg. Gallai'r rhain gael eu hariannu gan ffynonellau cyllid arloesol.
	CB19	Bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn ystyried gofynion tir ar gyfer cyfleusterau cyfnewidfa ar safleoedd porth i Barc Cenedlaethol Eryri.
	CB20	Bydd datrysiadau arloesol ar gyfer rhoi mynediad i atyniadau mewn ardaloedd gwledig yn cael eu hadnabod. Dylai hyn ystyried, ond heb fod yn gyfyngedig i, gwasanaethau bysiau tymhorol, llogi e-feiciau a dulliau micro-symudedd eraill, ynghyd ag ymgyrchoedd gwybodaeth.
	CB21	Byddwn yn ymchwilio i fanteision gwasanaethau bws tymhorol a thwristiaid yng ngogledd Cymru i gefnogi'r economi ymweld a hyrwyddo integreiddio â rhwydweithiau rheilffordd a bws ehangach. Dylai hyn ystyried nid yn unig y daith i'r gyrchfan, ond teithio ymlaen i atyniadau.
	CB22	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid a rhan-ddeiliaid yn y sector twristiaeth ar yr arfordir i adnabod mesurau fydd yn cefnogi newid at ddulliau cynaliadwy o gael mynediad at atyniadau poblogaidd tra'n parhau i sicrhau bod gogledd Cymru yn parhau i fod yn gyrchfan o ddewis ar gyfer gwyliau a theithiau dydd.
	CB23	Bydd dull partneriaeth yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu cynllun ar gyfer gwella gwasanaethau rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru ymhellach sy'n cefnogi'r economi ymwelwyr yn well.
Porthladdoedd a Chludo Nwyddau	PF1	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid i gefnogi twf ein porthladdoedd a safleoedd datblygu cyfagos yng ngogledd Cymru, gan gydnabod eu rôl fel catalydd ar gyfer cydleoli gweithgynhyrchu, ynni, dosbarthu hamdden a thwristiaeth. Yn benodol, byddwn yn blaenoriaethu cysylltiadau trafnidiaeth cynaliadwy i Borthladd Rhydd Ynys Môn a phorthladdoedd yng Nghaergybi a Mostyn ac yn cefnogi eu cynlluniau ar gyfer datgarboneiddio.
	PF2	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid i adnabod gwelliannau mynediad cerbydau i Borthladd Caergybi. Dylai hyn wella mynediad i'r porthladd ar gyfer pob cerbyd, gan gynnwys cludiant nwyddau, ond hefyd wella mynediad cynaliadwy i'r porthladd a'r orsaf reilffordd.
	PF3	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid i wella cyfleusterau ar gyfer gyrwyr HGV, yn enwedig wrth gyrraedd Porthladd Caergybi.
	PF4	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid i chwilio am gyfleoedd i ategu datblygiad canolfannau hydrogen yng ngogledd Cymru drwy gefnogi newid i danwydd hydrogen ar gyfer gweithredwyr cludo nwyddau yn y rhanbarth.
	PF5	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid i adnabod cyfleoedd i drydaneiddio cerbydau ar gyfer danfoniadau lleol.

Thema Polisi	Cyf.	Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol
	PF6	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid i adnabod datrysiadau i effeithiau lleol symudiadau HGV. Mae hyn yn cynnwys datblygu rhwydwaith o ganolfannau cyfuno cludo nwyddau pe byddai'n ymddangos y bydd un i wasanaethu Gogledd Cymru yn economaidd hyfyw.
	PF7	Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol ystyried gofynion tir ar gyfer rhwydwaith o ganolfannau cyfuno cludo nwyddau.
	PF8	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid a'r sector dosbarthu i adnabod datrysiadau arloesol i leihau'r effaith amgylcheddol o ddanfoniadau lleol.
	PF9	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid yn y diwydiant rheilffyrdd i gefnogi newid i reilffyrdd ar gyfer symud nwyddau, gan gynnwys logisteg ysgafn ar y rheilffordd.
Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	RS1	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau cyllid digonol ar gyfer cynnal a chadw strwythurau ac arwynebau sy'n sicrhau gweithrediad parhaus a gwytnwch asedau priffyrdd presennol.
	RS2	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau cyllid i addasu'r isadeiledd ffyrdd presennol i ymdopi'n well â newid yn yr hinsawdd a gwella bioamrywiaeth.
	RS3	Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cefnogi dull Gweledigaeth Sero Llywodraeth Cymru o ddiogelwch ar y ffyrdd a bydd yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau cyllid digonol ar gyfer mesurau diogelwch ar y ffyrdd ledled Gogledd Cymru.
	RS4	Bydd y dull o ymdrin â diogelwch ar y ffyrdd yn cynnwys cyflwyno cynlluniau gwella priffyrdd sy'n cynyddu diogelwch neu ganfyddiadau o ddiogelwch i holl ddefnyddwyr y ffordd, a rhaglenni addysg parhaus gyda'r nod o annog defnydd diogel o'r rhwydweithiau priffyrdd a thrafnidiaeth.
	RS5	Bydd rôl taliadau a rheolaethau parcio yn cael ei ystyried wrth geisio rheoli'r galw am barcio ac atal defnydd diangen o geir gyda dim ond un person ynddynt.
	RS6	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid i chwilio am opsiynau ar gyfer ail-ddyrannu mannau parcio ceir a lle ar ffyrdd presennol yn ein trefi allweddol er mwyn gwella'r amgylchedd lleol, creu mannau mwy deniadol i bobl fyw, a'i gwneud yn haws i bobl gerdded a beicio.
	RS7	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cefnogi'r trawsnewid i gerbydau trydan yng Ngogledd Cymru drwy sicrhau bod isadeiledd gwefru teg ar gael mewn ardaloedd trefol ac yn helpu i hwyluso gosod isadeiledd preifat neu gymunedol mewn ardaloedd gwledig.
	RS8	Pan fo'n bosib, byddwn yn chwilio am gyfleoedd i uno darparwyr gwefru cerbydau trydan - neu'r apiau ac aelodaeth angenrheidiol - ar draws gogledd Cymru er mwyn gwneud gwefru cerbydau trydan yn fwy cyfleus.

Thema Polisi	Cyf.	Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol
	RS9	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ymgyrch gyfathrebu gynhwysfawr i annog pobl i ddefnyddio EV, gan ddysgu o'r arfer orau.
	RS10	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig a phartneriaid yn gweithio gyda'r Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu i chwilio am gyfleoedd i gynyddu capasiti'r grid mewn lleoliadau lle mae rhwystr i gyflwyno gwefru cerbydau trydan. Dylai hyn hefyd fod yn ystyriaeth allweddol i'r Cynllun Datblygu Strategol wrth adnabod datblygiadau newydd.
	RS11	Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol fynnu bod datblygiadau preswyl a di-breswyl newydd yn darparu digon o bwyntiau gwefru cerbydau trydan i gwrdd â'r galw yn y dyfodol a chymell y defnydd o gerbydau trydan.
	RS12	Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gynyddu nifer y clybiau ceir yng Ngogledd Cymru drwy weithio ar y cyd â darparwyr clybiau ceir, gan gynnwys darparwyr clybiau ceir cymunedol mewn ardaloedd gwledig a threfol; ac mewn gorsafoedd, mewn mannau gwaith a chanolfannau symudedd.
	RS13	Dylid defnyddio'r broses cynllunio teithio i annog rhannu ceir ar gyfer cymudo.

A.3 Sut mae mesurau'r RTP yn cyd-fynd â'r amcanion a'r polisïau cenedlaethol a rhanbarthol

Thema Polisi Gogledd Cymru: Defnydd Tir a Chynllunio

Mesurau Monitro RTP	Categori mesur	Statws	Cyfraniad mesurau i bolisïau'r RTP	Cyfraniad at Amcanion Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA)	Cyfraniad at Amcanion 'SMART' RTP				Cyfraniad at Flaenoriaethau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru			Cyfraniad at Uchelgeisiau Llesiant Strategaeth Trafnidiaeth Cymru			
					Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol	Gwella hygyrchedd a dewis o ran trafnidiaeth	Galluogi datgarboneiddio drwy drawsnewid i fflyd sero allyriadau	Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy	Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio	Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn hawdd o ddrws i ddrws drwy drafnidiaeth hygyrch a chynaliadwy	Annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy	Yn dda i bobl a chymunedau	Yn dda i'r amgylchedd	Yn dda ar gyfer diwylliant a'r iaith Gymraeg	Yn dda ar gyfer yr economi a lleoedd yng Nghymru
Mentrau datblygiad sy'n seiliedig ar Systemau Trafnidiaeth (TOD)	Ategol	Newydd/ yn seiliedig ar IWBA	LU1	1, 2, 3, 5, 8, 9, 10, 12											
Dwysedd datblygiadau defnydd cymysg	Ategol	Newydd/ yn seiliedig ar IWBA	LU2, LU3, LU4, LU5	1, 2, 3, 8, 9, 10, 12											
Agosrwydd at drafnidiaeth gyhoeddus	**Allweddol**	**Yn seiliedig ar WTS MF**	AT1, AT7, AT9, LU2, LU3, LU5	1,2, 3, 8, 9 , 10, 12											
Mynediad i fannau gwyrdd	Ategol	Newydd/ yn seiliedig ar IWBA	AT1, LU2, LU4, AT6	2, 3, 8											
Amser teithio i wasanaethau addysg, iechyd a hamdden	Ategol	**Yn seiliedig ar WTS MF**	PT5, PT6, CB8, LU5	1, 2, 3, 8, 12											
Bodlon gyda mynediad i'r gwasanaeth	Ategol	**Yn seiliedig ar WTS MF**	AT1, LU2	1, 2, 3, 8, 12											

Allwedd	
Cyfraniad tuag at amcanion "Yn gryf"	
Cyfraniad tuag at amcanion yn "Rhannol"	
Dim cyfraniad	

Thema Polisi Gogledd Cymru: Cysylltedd Digidol

Mesurau Monitro RTP	Categori mesur	Statws	Cyfraniad mesurau i bolisïau'r RTP	Cyfraniad at Amcanion Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA)	Cyfraniad at Amcanion 'SMART' RTP				Cyfraniad at Flaenoriaethau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru			Cyfraniad at Uchelgeisiau Llesiant Strategaeth Trafnidiaeth Cymru			
					Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol	Gwella hygyrchedd a dewis o ran trafnidiaeth	Galluogi datgarboneiddio drwy drawsnewid i fflyd sero allyriadau	Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy	Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio	Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn hawdd o ddrws i ddrws drwy drafnidiaeth hygyrch a chynaliadwy	Annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy	Yn dda i bobl a chymunedau	Yn dda i'r amgylchedd	Yn dda ar gyfer diwylliant a'r iaith Gymraeg	Yn dda ar gyfer yr economi a lleoedd yng Nghymru
Sylw Wi-fi mewn canolfannau trafnidiaeth	Ategol	Newydd/ yn seiliedig ar IWBA	DC2, DC3, IN1	1, 2, 3, 8, 9, 10, 12											
Argaeledd gwybodaeth amser real	Ategol	Newydd/ yn seiliedig ar IWBA	DC3	1, 2, 3, 8, 9, 10, 12											
Mabwysiadu gwasanaethau digidol	Ategol	Newydd/ yn seiliedig ar IWBA	DC2, CB14	1, 2, 3, 8, 9, 10, 12											
Mynediad digidol mewn ardaloedd gwledig	Ategol	Newydd/ yn seiliedig ar IWBA	DC1, DC2, DC3, CB14	1, 2, 3, 8, 12											
Gweithio o bell	**Allweddol**	**Yn seiliedig ar WTS MF**	DC1	8, 12											

Allwedd	
Cyfraniad tuag at amcanion "Yn gryf"	
Cyfraniad tuag at amcanion yn "Rhannol"	
Dim cyfraniad	

Thema Polisi Gogledd Cymru: Cerdded, Olwynio a Beicio

Mesurau Monitro RTP	Categori mesur	Statws	Cyfraniad mesurau i bolisïau'r RTP	Cyfraniad at Amcanion Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA)	Cyfraniad at Amcanion 'SMART' RTP				Cyfraniad at Flaenoriaethau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru			Cyfraniad at Uchelgeisiau Llesiant Strategaeth Trafnidiaeth Cymru			
					Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol	Gwella hygyrchedd a dewis o ran trafnidiaeth	Galluogi datgarboneiddio drwy drawsnewid i fflyd sero allyriadau	Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy	Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio	Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn hawdd o ddrws i ddrws drwy drafnidiaeth hygyrch a chynaliadwy	Annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy	Yn dda i bobl a chymunedau	Yn dda i'r amgylchedd	Yn dda ar gyfer diwylliant a'r iaith Gymraeg	Yn dda ar gyfer yr economi a lleoedd yng Nghymru
Rhwydwaith cerdded a beicio	Ategol	Newydd/ yn seiliedig ar IWBA	AT2, AT5, LU4, LU2, CB1, CB4, CB8, CB10, CB12, CB13, CB20	1, 2, 3, 8, 9, 10, 12											
Argaeledd cyfleusterau parcio beiciau	Ategol	Newydd/ yn seiliedig ar IWBA	AT1, AT12, AT13	1, 2, 3, 5, 8, 9, 10, 12											
Hygyrchedd gorsafoedd	Ategol	**Yn seiliedig ar WTS MF**	AT1, AT3, AT4, AT11, IN3, CB13, CB14	1, 2, 3, 8, 12											
Damweiniau ffordd i ddefnyddwyr teithio llesol	Ategol	Newydd/ yn seiliedig ar IWBA	AT1, AT4, LU4, LU2, CB1, CB12, CB13, CB14	1, 2, 3, 8, 9, 10, 12											
Cyfranogwyr teithio llesol wythnosol	**Allweddol**	**Yn seiliedig ar WTS MF**	AT1, AT2, AT4, AT5, AT12, AT13, AT14, LU4, LU2, CB1, CB10, CB13	1, 2, 3, 8, 9, 10, 12											
Cynnydd mewn defnyddwyr teithio llesol	Ategol	Newydd/ yn seiliedig ar IWBA	AT1, AT2, AT4, AT5, AT6, LU4, LU2, CB1, CB10, CB13	1, 2, 3, 8, 9, 10, 12											

Allwedd	
Cyfraniad tuag at amcanion "Yn gryf"	
Cyfraniad tuag at amcanion yn "Rhannol"	
Dim cyfraniad	

Thema Polisi Gogledd Cymru: Mynediad ar y Ddaear i'r Diwydiant Awyrennau

Mesurau Monitro RTP	Categori mesur	Statws	Cyfraniad mesurau i bolisïau'r RTP	Cyfraniad at Amcanion Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA)	Cyfraniad at Amcanion 'SMART' RTP				Cyfraniad at Flaenoriaethau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru			Cyfraniad at Uchelgeisiau Llesiant Strategaeth Trafnidiaeth Cymru			
					Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol	Gwella hygyrchedd a dewis o ran trafnidiaeth	Galluogi datgarboneiddio drwy drawsnewid i fflyd sero allyriadau	Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy	Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio	Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn hawdd o ddrws i ddrws drwy drafnidiaeth hygyrch a chynaliadwy	Annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy	Yn dda i bobl a chymunedau	Yn dda i'r amgylchedd	Yn dda ar gyfer diwylliant a'r iaith Gymraeg	Yn dda ar gyfer yr economi a lleoedd yng Nghymru
Hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus i feysydd awyr	Ategol	Newydd/ yn seiliedig ar IWBA	LU2, LU3, LU5, AV1, PT5, CB15, CB16, IN1, IN4	1, 2, 8, 9, 12											

Allwedd	
Cyfraniad tuag at amcanion "Yn gryf"	
Cyfraniad tuag at amcanion yn "Rhannol"	
Dim cyfraniad	

Thema Polisi Gogledd Cymru: Bws, Choets a Thrafnidiaeth Gymunedol

Mesurau Monitro RTP	Categori mesur	Statws	Cyfraniad mesurau i bolisïau'r RTP	Cyfraniad at Amcanion Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA)	Cyfraniad at Amcanion 'SMART' RTP				Cyfraniad at Flaenoriaethau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru			Cyfraniad at Uchelgeisiau Llesiant Strategaeth Trafnidiaeth Cymru			
					Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol	Gwella hygyrchedd a dewis o ran trafnidiaeth	Galluogi datgarboneiddio drwy drawsnewid i fflyd sero allyriadau	Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy	Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio	Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn hawdd o ddrws i ddrws drwy drafnidiaeth hygyrch a chynaliadwy	Annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy	Yn dda i bobl a chymunedau	Yn dda i'r amgylchedd	Yn dda ar gyfer diwylliant a'r iaith Gymraeg	Yn dda ar gyfer yr economi a lleoedd yng Nghymru
Perfformiad ar amser	Allweddol	Yn seiliedig ar WTS MF	PT1, PT4, PT6, CB1, CB2, CB8, CB10, CB13	1, 2, 3, 8, 9, 10, 12											
Mynegai amser taith bws o'i gymharu â cherbyd preifat	Ategol	Newydd/ yn seiliedig ar IWBA	PT1, PT5, PT6, CB1, CB2, CB6, CB8, CB10, CB13	1, 2, 3, 8, 9, 10, 12											
Cost fesul cilomedr (Trafnidiaeth gyhoeddus)	Ategol	Wedi ei ddiwygio o'r WTS MF	PT1, PT9, CB1, CB6, CB8, CB10, CB13, CB21, CB22, IN4	1, 2, 3, 8, 9, 10, 12											
Fforddiadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus	Ategol	Yn seiliedig ar WTS MF	LU2, LU3, LU4, PT1, PT9, CB2, CB5, CB6, CB7, CB8, CB14, IN4	1, 2, 3, 8, 12											
Cyfradd twf teithwyr	Ategol	Newydd/ yn seiliedig ar IWBA	PT1, PT4, PT5, PT8, PT9, PT10, CB1, CB2, CB5, CB6, CB8, CB10, CB17	1, 2, 3, 8, 9, 10, 12											
Cyfansoddiad fflyd (cyfran o fws yn ôl math o injan)	Allweddol	Newydd/ yn seiliedig ar IWBA	PT2, PT3, PT13, CB16	8, 9, 10, 12											
Amser ymateb cyfartalog ar gyfer Trafnidiaeth Ymatebol i'r Galw (DRT)	Ategol	Newydd/ yn seiliedig ar IWBA	PT12	1, 2, 3, 12											
Teithwyr misol ar gyfer Trafnidiaeth Ymatebol i'r Galw (DRT)	Ategol	Newydd/ yn seiliedig ar IWBA	PT11, PT12, PT13, CB1, CB2, CB4, CB5, CB6, CB8, CB10, CB13, CB14, CB20	1, 2, 3, 8, 12											
Cyfansoddiad fflyd (cyfran o Drafnidiaeth Ymatebol i'r Galw (DRT) yn ôl math o injan)	Ategol	Newydd/ yn seiliedig ar IWBA	RS10, RS11, PT13, CB16	8, 9, 10, 12											

Thema Polisi Gogledd Cymru: Integreiddio rhwng Dulliau

Mesurau Monitro RTP	Categori mesur	Statws	Cyfraniad mesurau i bolisïau'r RTP	Cyfraniad at Amcanion Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA)	Cyfraniad at Amcanion 'SMART' RTP				Cyfraniad at Flaenoriaethau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru			Cyfraniad at Uchelgeisiau Llesiant Strategaeth Trafnidiaeth Cymru			
					Gwella cysylltedd digidol a gwasanaetha u lleol	Gwella hygyrchedd a dewis o ran trafnidiaeth	Galluogi datgarboneid dio drwy drawsnewid i fflyd sero allyriadau	Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy	Dod â gwasanaetha u i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio	Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn hawdd o ddrws i ddrws drwy drafnidiaeth hygyrch a chynaliadwy	Annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy	Yn dda i bobl a chymunedau	Yn dda i'r amgylchedd	Yn dda ar gyfer diwylliant a'r iaith Gymraeg	Yn dda ar gyfer yr economi a lleoedd yng Nghymru
Datblygiad canolfannau aml-foddol	Ategol	Newydd/ yn seiliedig ar IWBA	IN1, IN2, DC3	1, 2, 3, 8, 12											
Teithiau i orsaf drên wrth gerdded, beicio, neu fws	**Allweddol**	**Yn seiliedig ar WTS MF**	AT1, AT2, AT4, AT5, AT12, AT13, LU4, LU2, IN3, IN4	1, 2, 3, 8, 9, 10, 12											
Boddhad cwsmeriaid gyda'u taith	Ategol	**Yn seiliedig ar WTS MF**	AT3, AT4, AT11, AT12, AT13, PT5, PT6, PT7, PT8, PT9, PT10, IN2, IN3, IN4, CB1, CB5, CB7, CB8, CB10, CB12, CB13, CB14, CB18, DC3	1, 2, 3, 8, 12											
Boddhad cwsmeriaid â diogelwch wrth deithio	Ategol	**Yn seiliedig ar WTS MF**	AT4, AT11, PT7, PT8, PT10, IN2, CB12, CB13, CB14	1, 2, 3, 8, 12											

Allwedd	
Cyfraniad tuag at amcanion "Yn gryf"	
Cyfraniad tuag at amcanion yn "Rhannol"	
Dim cyfraniad	

Thema Polisi Gogledd Cymru: Galluogi Newid i Ymddygiad Teithio

Mesurau Monitro RTP	Categori mesur	Statws	Cyfraniad mesurau i bolisïau'r RTP	Cyfraniad at Amcanion Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA)	Cyfraniad at Amcanion 'SMART' RTP				Cyfraniad at Flaenoriaethau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru			Cyfraniad at Uchelgeisiau Llesiant Strategaeth Trafnidiaeth Cymru			
					Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol	Gwella hygyrchedd a dewis o ran trafnidiaeth	Galluogi datgarboneiddio drwy drawsnewid i fflyd sero allyriadau	Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy	Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio	Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn hawdd o ddrws i ddrws drwy drafnidiaeth hygyrch a chynaliadwy	Annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy	Yn dda i bobl a chymunedau	Yn dda i'r amgylchedd	Yn dda ar gyfer diwylliant a'r iaith Gymraeg	Yn dda ar gyfer yr economi a lleoedd yng Nghymru
Cyfran modd trafnidiaeth cyhoeddus	Allweddol	Yn seiliedig ar WTS MF	AT1, AT2, AT5, AT12, AT13, AT14, LU2, LU3, LU5, PT5, PT8, PT9, CB7, CB17, CB19, CB21	1, 2, 3, 8, 12											
Teithiau i atyniadau ymwelwyr ar drafnidiaeth gyhoeddus	Allweddol	Yn seiliedig ar WTS MF	AT13, PT5, PT8, PT9, PT15, CB15, CB17, CB18, CB19, CB20, CB21, CB22, CB23	1, 2, 3, 8, 12											
Teithio i'r gwaith	Ategol	Newydd/ yn seiliedig ar IWBA	IN5, IN6, RS5, RS6, RS12, RS13	1, 8, 9, 12											
Galw a chyflenwad gwefru Cerbydau Trydan	Allweddol	Newydd/ yn seiliedig ar IWBA	LU2, RS7, RS8, RS9, RS10, RS11, CB16	8, 9, 10, 12											
Bysiau gyda gwybodaeth glyweledol	Ategol	Yn seiliedig ar WTS MF	PT8, PT10, CB14, DC3	1, 2, 3, 12											
Boddhad cwsmeriaid gyda'u gallu i gael mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus yn annibynnol	Ategol	Yn seiliedig ar WTS MF	PT7, PT8, PT10, CB14	1, 2, 3, 8, 12											

Allwedd	
Cyfraniad tuag at amcanion "Yn gryf"	
Cyfraniad tuag at amcanion yn "Rhannol"	
Dim cyfraniad	

Thema Polisi Gogledd Cymru: Porthladdoedd a Chludiant Nwyddau

Mesurau Monitro RTP	Categori mesur	Statws	Cyfraniad mesurau i bolisïau'r RTP	Cyfraniad at Amcanion Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA)	Cyfraniad at Amcanion 'SMART' RTP				Cyfraniad at Flaenoriaethau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru			Cyfraniad at Uchelgeisiau Llesiant Strategaeth Trafnidiaeth Cymru			
					Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol	Gwella hygyrchedd a dewis o ran trafnidiaeth	Galluogi datgarboneiddio drwy drawsnewid i fflyd sero allyriadau	Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy	Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio	Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn hawdd o ddrws i ddrws drwy drafnidiaeth hygyrch a chynaliadwy	Annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy	Yn dda i bobl a chymunedau	Yn dda i'r amgylchedd	Yn dda ar gyfer diwylliant a'r iaith Gymraeg	Yn dda ar gyfer yr economi a lleoedd yng Nghymru
Cludiant nwyddau'r tir trwy reilffyrdd	Ategol	Yn seiliedig ar WTS MF	PF9, CB3	8, 9, 10, 12											
Cyfansoddiad fflyd (cyfran o gerbydau cludo nwyddau yn ôl math o injan)	Allweddol	Newydd/ yn seiliedig ar IWBA	PF4, PF5	8, 9, 10, 12											

Allwedd	
Cyfraniad tuag at amcanion "Yn gryf"	
Cyfraniad tuag at amcanion yn "Rhannol"	
Dim cyfraniad	

Thema Polisi Gogledd Cymru: Ffordd, Strydoedd a Pharcio

Mesurau Monitro RTP	Categori mesur	Statws	Cyfraniad mesurau i bolisïau'r RTP	Cyfraniad at Amcanion Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA)	Cyfraniad at Amcanion 'SMART' RTP				Cyfraniad at Flaenoriaethau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru			Cyfraniad at Uchelgeisiau Llesiant Strategaeth Trafnidiaeth Cymru			
					Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol	Gwella hygyrchedd a dewis o ran trafnidiaeth	Galluogi datgarboneiddio drwy drawsnewid i fflyd sero allyriadau	Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy	Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio	Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn hawdd o ddrws i ddrws drwy drafnidiaeth hygyrch a chynaliadwy	Annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy	Yn dda i bobl a chymunedau	Yn dda i'r amgylchedd	Yn dda ar gyfer diwylliant a'r iaith Gymraeg	Yn dda ar gyfer yr economi a lleoedd yng Nghymru
Cyfran o'r cyfanswm cilomedr yn ôl math o gerbyd	Allweddol	Yn seiliedig ar WTS MF	AT1, AT2, PT1, PT4	8, 9, 10, 12											
Pellter a deithiwyd fesul person	Allweddol	Yn seiliedig ar WTS MF	LU2, AT2, AT12, AT13, AT14, PT4, PT5, CB1, CB5, CB7	8, 9, 10, 12											
Sgôr cyflwr ffyrdd a chynnal a chadw	Ategol	Yn seiliedig ar WTS MF	LU4, AT3, AT12, AT13, AT14, RS1	3, 5, 8, 12											
Lefel y tagfeydd ar y prif lwybrau	Ategol	Newydd/ yn seiliedig ar IWBA	PT6, CB7, CB22, RS12	3, 5, 8, 12											
Damweiniau ffordd	Allweddol	Yn seiliedig ar WTS MF	AT1, RS3, RS4	3, 8, 12											
Cerbydau sydd ag allyriadau isel iawn neu sero allyriadau	Allweddol	Wedi ei ddiwygio o'r WTS MF	RS7, RS8, RS9, RS10, RS11, CB16	8, 9, 10, 12											

Allwedd	
Cyfraniad tuag at amcanion "Yn gryf"	
Cyfraniad tuag at amcanion yn "Rhannol"	
Dim cyfraniad	

Mesurau Ychwanegol

Mesurau Monitro RTP	Categori mesur	Statws	Cyfraniad mesurau i bolisïau'r RTP	Cyfraniad at Amcanion Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA)	Cyfraniad at Amcanion 'SMART' RTP				Cyfraniad at Flaenoriaethau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru			Cyfraniad at Uchelgeisiau Llesiant Strategaeth Trafnidiaeth Cymru			
					Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol	Gwella hygyrchedd a dewis o ran trafnidiaeth	Galluogi datgarboneiddio drwy drawsnewid i fflyd sero allyriadau	Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy	Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio	Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn hawdd o ddrws i ddrws drwy drafnidiaeth hygyrch a chynaliadwy	Annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy	Yn dda i bobl a chymunedau	Yn dda i'r amgylchedd	Yn dda ar gyfer diwylliant a'r iaith Gymraeg	Yn dda ar gyfer yr economi a lleoedd yng Nghymru
Allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector trafnidiaeth	Allweddol	Yn seiliedig ar WTS MF	RS7, RS8, RS9, RS10, RS11, CB13, CB14, CB16, PF8	3, 8, 9, 10, 12											
Lefel y llygryddion aer o'r sector trafnidiaeth	Ategol	Yn seiliedig ar WTS MF	PT2, PT3, RS7, RS8, RS9, RS10, RS11, CB10	3, 8, 9, 10, 12											
Pobl sy'n cael eu poeni'n rheolaidd gan sŵn a achosir gan drafnidiaeth	Ategol	Yn seiliedig ar WTS MF	AT6	3, 10											
Seilwaith trafnidiaeth sydd mewn perygl o lifogydd	Ategol	Yn seiliedig ar WTS MF	PF2, PF3	2, 3, 7, 8, 12											
Gwella a chynnal cynefinoedd	Ategol	Yn seiliedig ar WTS MF	RS2, PT15, C21, C22, C23	4, 7											
Asedau hanesyddol dynodedig ar ystad drafnidiaeth i'w gwella	Ategol	Yn seiliedig ar WTS MF	CB17, CB18, CB19, CB20	5, 6											
Gwastraff a gynhyrchir gan y sector trafnidiaeth sy'n cael ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu	Ategol	Yn seiliedig ar WTS MF	PT3, PF4	8, 9, 11											
Gwasanaethau Cymraeg yn y sector trafnidiaeth	Ategol	Yn seiliedig ar WTS MF	PT8, PT10, CB14, DC2, DC3	2, 3, 6											

Allwedd	
Cyfraniad tuag at amcanion "Yn gryf"	
Cyfraniad tuag at amcanion yn "Rhannol"	
Dim cyfraniad	


Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Adroddiad Ymgynghori

Gorffennaf 2025








Adroddiad Ymgynghori

Cynnwys

1. CYFLWYNIAD 4

1.1 Trosolwg 4

1.2 Alinio â gweithdrefnau statudol 4

1.3 Strwythur 5

2. DULL O YMGYNGHORI CYHOEDDUS 6

2.1 Trosolwg 6

2.2 Dull a arweinir yn ddigidol ac ystafell arddangos rithwir ar-lein 7

2.3 Lleoliadau cadw dogfennau 7

2.4 Digwyddiadau lleol 7

2.5 Ffyrdd y gallai pobl ymateb 9

2.6 Cyhoeddusrwydd 9

3. YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS 11

3.1 Trosolwg 11

3.2 Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol 13

3.3 Cynllun Monitro a Gwerthuso 17

3.4 Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol 19

3.5 Arfarniad Llesiant Integredig 22

3.6 Unrhyw sylwadau eraill 24

3.7 Ymateb i'r Ymgyrch 26

3.8 Ymatebion sefydliadol 28

4. SUT MAE ADBORTH WEDI'I YSTYRIED 28

Tablau

TABL 1: LLEOLIAD YMATEBWYR HOLIADUR (YMGYSYLLTIAD RHITHWIR WEDI'I GYNNWYS) YN SEILIEDIG AR Y COD POST A DDARPARWYD. 11

TABL 2: LLEOLIAD YMATEBWYR I'R YMGYRCH YN SEILIEDIG AR Y COD POST A DDARPARWYD. 12

Ffigyrau

Ffigwr 1: Lleoliad ymatebwyr ystafell Ymgysylltiad Rhithwir (detholiad sy'n canolbwyntio ar ogledd Cymru). 12

Ffigwr 2: Lleoliad ymatebwyr i'r ymgyrch yn seiliedig ar y cod post a ddarparwyd (detholiad sy'n canolbwyntio ar ogledd Cymru).13

Ffigwr 3:Ymatebion i 'I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r weledigaeth a'r amcanion a nodir yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol?'14

Ffigwr 4: Atebion i 'I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r polisïau a'r ymyraethau a nodir yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft?' 14

Ffigwr 5: Themâu allweddol a godwyd gan ymatebwyr mewn ymateb i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft.15

Ffigwr 6: Ymatebion i 'I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r dull a ddilynwyd gennym yn ein Cynllun Monitro a Gwerthuso drafft?' 17

Ffigwr 7: Themâu allweddol a godwyd gan ymatebwyr mewn ymateb i'r Cynllun Monitro a Gwerthuso drafft.18

Ffigwr 8: Ymatebion i 'I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r dull a ddilynwyd gennym yn ein Cynllun Monitro a Gwerthuso drafft?'20

Ffigwr 9: Themâu allweddol a godwyd gan ymatebwyr mewn ymateb i'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft.20

Ffigwr 10: Ymatebion i 'I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r dull a ddilynwyd gennym yn ein Harfarniad Llesiant Integredig drafft?'22

Ffigwr 11: Themâu allweddol a godwyd gan ymatebwyr mewn ymateb i'r Arfarniad Llesiant Integredig drafft.22

Ffigwr 12: Themâu allweddol a godwyd gan ymatebwyr mewn ymateb i unrhyw gwestiynau eraill.25

Atodiadau[11]

A.1 HOLIADUR YMGYNGHORI (CYMRAEG A SAESNEG)**2**

A.2 BYRDDAU ARDDANGOS YR ARDDANGOSFA (CYMRAEG A SAESNEG)**3**

A.3 SGRINLUNIAU YMGYSYLLTIAD RHITHWIR**4**

A.4 LLEOLIADAU CADW**5**

A.5 ENGHREIFFTIAU O GYHOEDDUSRWYDD**12**

A.6 'FE WNAETHOCH CHI DDWEUD, FE WNAETHON NI WNEUD'**21**

1. Cyflwyniad

1.1 Trosolwg

Mae'r Adroddiad Ymgynghori hwn yn rhoi crynodeb o'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd mewn cysylltiad â datblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWRTP). Fe'i cynhaliwyd am gyfnod o 12 wythnos, o'r 20fed Ionawr i'r 14eg Ebrill 2025.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus i helpu i geisio cael adborth ar yr NWRTP drafft a'i ddogfennau cysylltiedig, gan gynnwys:

- NWRTP drafft: nodi'r weledigaeth hirdymor ar gyfer system drafnidiaeth y rhanbarth, ochr yn ochr ag amcanion, polisïau ac ymyraethau ar gyfer gwella'r isadeiledd a'r gwasanaethau trafnidiaeth. Helpodd 'Hawdd ei Ddeall' (Anabledd Dysgu Cymru) a chopïau 'Hawdd eu Deall' i bawb gyda diddordeb yn y cynigion i ymgysylltu.
- Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol Drafft (RTDP): yn nodi cynlluniau'r awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r amcanion, y polisïau a'r ymyraethau a nodir yn yr NWRTP drafft. Mae dogfennau diagramau PDF rhyngweithiol cefnogol ar wahân yn helpu i ddangos y cynlluniau a'u manylion.
- Cynllun Monitro a Gwerthuso: amlinellu sut y bydd yr NWRTP yn cael ei fonitro, ei fesur a'i werthuso, gan geisio sicrhau y bydd yn helpu i gyflawni'r blaenoriaethau a'r uchelgeisiau cenedlaethol yn Strategaeth Trafnidiaeth Cymru (WTS). Mae'n cynnwys cyfraniad y rhanbarth at dargedau datgarboneiddio cenedlaethol a newid moddol.
- Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA): yn dangos sut y bydd polisïau'r NWRTP yn cyfrannu at lesiant, gyda chefnogaeth asesiadau effaith sy'n ystyried materion fel yr amgylchedd, iechyd, cydraddoldeb a bioamrywiaeth. Mae Crynodeb Nad yw'n Dechnegol yn cefnogi'r IWBA.

Helpodd holiadur bobl i gyflwyno eu sylwadau ar y dogfennau ymgynghori. Mae'r adborth a dderbyniwyd wedi'i ddadansoddi a'i ystyried yn ofalus, sydd wedi helpu i lywio newidiadau a gwelliannau i'r copïau terfynol yn barod i'w hystyried a'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

1.2 Alinio â gweithdrefnau statudol

Mae'r NWRTP yn mabwysiadu agwedd gydweithredol a chyfranogol, gan ystyried gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi helpu i lunio'r NWRTP, er enghraifft mae Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a Thrafnidiaeth Cymru wedi dweud wrthym am yr hyn y maent am ei weld ar gyfer y system drafnidiaeth yng ngogledd Cymru.

Mae'n ofyniad cyfreithiol i awdurdodau cyfrifol ymgymryd ag Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) o gynlluniau a rhaglenni sy'n amodol ar gael eu paratoi a/neu eu mabwysiadu gan awdurdod ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol ac sy'n ofynnol gan ddarpariaethau deddfwriaethol, rheoleiddio neu weinyddol ac yn arwain at ddatblygiad a allai gael effeithiau amgylcheddol sylweddol. Mae'r NWRTP yn gynllun sy'n ofynnol gan ddarpariaethau deddfwriaethol (Rheoliadau CBC yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021) ac sy'n debygol o arwain at brosiectau a allai gael effeithiau amgylcheddol sylweddol. Felly, mae SEA yn ofyn statudol, a defnyddiwyd y broses SEA fel sail i'r IWBA oherwydd ei bod yn broses gydnabyddedig a systematig ar gyfer gwerthuso canlyniadau amgylcheddol cynlluniau a rhaglenni. Trwy ehangu'r broses SEA i gynnwys gofynion asesiadau eraill (gan gynnwys Rheoliadau Cynefinoedd, Deddf Cydraddoldeb, ac ati), mae ein IWBA yn darparu un asesiad cydlynol gan ddefnyddio dull cydweithredol ar draws gwahanol agweddau cynaliadwyedd, yn hwyluso gwybodaeth a rennir ac yn nodi'r croestoriad rhwng y pynciau a ystyriwyd.

Paratowyd adroddiad cwmpasu IWBA a'i gyflwyno i ymgyngoreion statudol (gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw) am gyfnod o bump wythnos rhwng 15fed Hydref a'r 19eg Tachwedd 2024. Amlinellodd yr adroddiad cwmpasu ddull o ymdrin â'r asesiadau effaith fel rhan o'r IWBA, y data gwaelodlin, cynlluniau rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol perthnasol, polisïau ac amcanion cynaliadwyedd, a'r fethodoleg asesu. Roedd hefyd yn awgrymu amcanion IWBA i osod fframwaith ar gyfer asesu (y Fframwaith IWBA).

Cyflwynwyd yr IWBA ochr yn ochr â dogfennau drafft yr NWRTP ar gyfer ymgynghoriad fel a ddisgrifir uchod, gydag hysbysiadau wedi'u hanfon yn uniongyrchol at Gyfoeth Naturiol Cymru a Cadw yn gofyn am adborth ar y dogfennau ymgynghori.

Cyflwynodd Cyfoeth Naturiol Cymru eu hymateb i'r ymgynghoriad o fewn y cyfnod ymgynghori, ond ni ddarparodd Cadw unrhyw sylwadau pellach y tu hwnt i'w hymateb cwmpasu. Mae sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru a sylwadau eraill a dderbyniwyd gan unigolion a sefydliadau mewn cysylltiad â'r IWBA wedi'u hystyried yn ofalus a, lle bo hynny'n angenrheidiol neu'n briodol, gwnaed newidiadau i fynd i'r afael ag adborth. Mae Datganiad Ôl-fabwysiadu ar gyfer yr IWBA wedi'i baratoi ochr yn ochr â'r Adroddiad Ymgynghori hwn ac ar wahân iddo, sy'n esbonio sut mae'r adborth wedi siapio'r IWBA a sut mae'r IWBA wedi llywio dogfennau'r NWRTP yn unol â hynny.

1.3 Strwythur

Cyflwynir yr Adroddiad Ymgynghori hwn fel a ganlyn:

Adran 2: Dull o ymgynghori cyhoeddus – crynodeb o sut y gallai unrhyw unigolyn neu sefydliad ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys dulliau ymgysylltu, gweithgareddau a chyhoeddusrwydd.

Adran 3:Ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus – crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, gan ddarparu ystadegau a themâu allweddol o adborth mewn perthynas â'r sylwadau a dderbyniwyd.

Adran 4:Sut mae adborth wedi'i ystyried – darparu ymateb ‘Fe Wnaethoch chi Ddweud, Fe Wnaethon ni Wneud’ i'r adborth a dderbyniwyd, i ddangos sut mae sylwadau wedi'u hystyried a sut maent wedi llywio ein cynlluniau terfynol.

2. Dull o Ymgynghori Cyhoeddus

2.1 Trosolwg

Oherwydd natur strategol y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a chwmpas daearyddol eang y rhai a allai fod â diddordeb mewn trafnidiaeth o fewn ac yn cysylltu'r rhanbarthau, cytunodd y CBCau i gymryd agwedd ddigidol tuag at eu hymgynghoriadau cyhoeddus. Trafododd a chytunodd Uchelgais Gogledd Cymru fel CBC Gogledd Cymru gyda'i bwyllgorau perthnasol a'i grwpiau swyddogion i gynnal ymgynghoriad ar-lein gyda holiadur ar-lein, wedi'i ategu gan ddulliau mwy traddodiadol o ymgynghori drwy sicrhau bod dogfennau ar gael i bobl eu darllen mewn lleoliadau cyhoeddus, llinell gyswllt ffôn, a chyfeiriad post yn ogystal ag e-bost i bobl anfon eu hymatebion. Gwahoddwyd awdurdodau lleol i drefnu digwyddiadau lleol yn ôl eu disgresiwn.

2.1.1 Holiadur

Cynlluniwyd holiadur i helpu ymatebwyr gyflwyno eu sylwadau ar y dogfennau ymgynghori. Roedd hwn ar gael i'w gwblhau ar-lein mewn ystafell arddangos rithwir, ac ar bapur ar ôl ei argraffu, ac ar gael mewn digwyddiadau lleol, neu drwy gopïau a ddarparwyd trwy'r post ar gais.

Roedd yr holiadur yn cynnwys cwestiynau ansoddol a meintiol, gyda dewisiadau opsiynol, gan ei gwneud mor hawdd â phosib i bobl ddweud eu dweud trwy ymateb i unrhyw gwestiwn ac mewn cyn lleied neu gymaint o fanylion ag yr oeddent yn ei ddewis.

Cynhyrchwyd copi 'Hawdd ei Ddeall' (Anabledd Dysgu Cymru) o'r holiadur ynghyd â chopi 'Hawdd ei Ddeall' o'r NWRTP drafft i helpu pawb i ddweud eu dweud.

Roedd copi argraffadwy i'w lawrlwytho hefyd ar gael, gan geisio lleihau effaith amgylcheddol yr ymgynghoriad trwy dynnu delweddau a defnyddio cynnwys du a gwyn yn hytrach na lliw.

Gellid darparu gwybodaeth bersonol fel rhan o'r holiadur, gan helpu i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd fel rhan o'r broses, yn ogystal â helpu i nodi demograffeg ymatebwyr (e.e. oedran, lleoliad, cyflogaeth neu statws addysgol) a sicrhau bod ystod amrywiol o safbwyntiau yn cael eu cynrychioli, yn ogystal â helpu i ystyried a yw'r ymgynghoriad wedi cyrraedd grwpiau rhanddeiliaid neu gymunedau allweddol.

Darperir copi o'r holiadur a'i fersiwn Hawdd ei Ddeall yn Atodiad 1.

2.1.2 Data

Darparwyd datganiad data i bob darpar gyfranogwr yn yr ymgynghoriad wedi'i wneud yn eglur ar yr holiadur yn ogystal â thrwy neges groeso a gafwyd yn yr ystafell arddangos rithwir. Roedd yn cadarnhau bod Arup yn cynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar ran Uchelgais Gogledd Cymru, gyda dolen i'r we wedi'i darparu i bolisi data Uchelgais Gogledd Cymru. Eglurai bod Arup yn gweithredu fel Prosesydd Data ar ran Uchelgais Gogledd Cymru, ac ar ddiwedd yr ymgynghoriad y bydd yr holl wybodaeth bersonol yn cael ei throsglwyddo i Uchelgais Gogledd Cymru. Nid yw gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw y tu hwnt i'r cyfnod hwn. Pan fyddwn yn storio gwybodaeth dros dro, caiff ei storio'n ddiogel yn ein hisadeiledd cwmwl sydd wedi'i leoli yn yr UE.

2.1.3 Cwestiynau Cyffredin

Yn cefnogi'r ymgynghoriad cyhoeddus roedd dogfen Cwestiynau Cyffredin (FAQ), a helpodd i nodi gwybodaeth allweddol a phwysig gyda'r nod o helpu pobl i ymgysylltu ac ymateb. Roedd hyn yn

cynnwys diffiniadau, swyddogaethau a disgrifiadau o'r CBC, Uchelgais Gogledd Cymru, a'r dogfennau ymgynghori. Roedd hefyd yn nodi sut y gallai pobl ddweud eu dweud, beth fyddai'n digwydd i unrhyw wybodaeth bersonol, y camau nesaf ar ôl yr ymgynghoriad, a phwy i gysylltu â nhw os byddai unrhyw gwestiynau neu ymholiadau.

2.2 Dull a arweinir yn ddigidol ac ystafell arddangos rithwir ar-lein

Creodd Arup ar ran Uchelgais Gogledd Cymru ystafell arddangos rithwir ar-lein bwrpasol gan ddefnyddio eu platfform Ymgysylltu Rhithwir. Roedd hyn ar gael am gyfnod yr ymgynghori trwy'r wefan a hysbysebwyd: https://northwalesregionaltransportplan.virtual-engage.com/[1].

Nod yr ystafell arddangos rithwir oedd, cyn belled ag y bo modd, adlewyrchu lleoliad 'neuadd y dref' traddodiadol, gan helpu i arddangos gwybodaeth trwy fyrddau arddangos yr arddangosfa, caniatáu i bartïon â diddordeb weld a lawrlwytho'r dogfennau ymgynghori, a darparu eu hadborth gan ddefnyddio holiadur ar-lein.

Roedd y dull hwn yn darparu gwasanaeth 24/7, gan ganiatáu i unrhyw un gael mynediad at yr wybodaeth oedd ar gael, at y dogfennau, a chael dweud eu dweud ar unrhyw adeg o'r dydd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Roedd y byrddau arddangos yn cyflwyno'r ymgynghoriad, yn amlinellu'r polisïau a'r ymyraethau allweddol, ac yn nodi sut y gallai pobl ddweud eu dweud ochr yn ochr â'r camau nesaf (gweler Atodiad 2).

Darparwyd datganiad data a manylion cyswllt ffôn, e-bost a rhadbost yn yr ystafell i helpu pobl i ofyn cwestiynau, gofyn am gopïau papur o ddogfennau neu'r holiadur, a chyflwyno adborth.

Darparwyd yr holl wybodaeth a deunyddiau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn debyg iawn i gofrestr mewn amgylchedd neuadd bentref draddodiadol, mae'r platfform Ymgysylltu Rhithwir yn caniatáu i bobl gofrestru ar y wefan ac mae'n casglu data ar safbwyntiau ac ymweliadau (gweler adran 3.1 am fanylion). 0

Gellir dod o hyd i sgrinluniau o'r ystafell Ymgysylltu Rhithwir yn Atodiad 3.

2.3 Lleoliadau cadw dogfennau

Gan gydnabod bod yn well gan rai pobl ymweld a darllen dogfennau ymgynghori yn bersonol, neu gael mynediad i'r rhyngrwyd o leoliadau cymunedol, gadawyd copïau papur mewn adeiladau cyhoeddus ledled gogledd Cymru. Roedd hyn yn cynnwys llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol a chanolfannau addysgol lle gallai pobl gael mynediad i'r rhyngrwyd i weld y cynigion ar gais. Darperir rhestr o leoliadau cadw yn Atodiad 4.

2.4 Digwyddiadau lleol

Gwahoddwyd awdurdodau lleol i drefnu digwyddiadau lleol yn ôl eu disgresiwn, i helpu pobl i drafod yr NWRTP drafft a'i ymgynghoriad, yn ogystal ag annog cyfranogiad.

[1] Mae'r wefan ymgynghori hon bellach wedi cau. Gallwch ddarganfod mwy am Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yma: https://ambitionnorth.wales/

- Awgrymiadau, er bod llawer yng ngogledd Cymru yn ystyried meysydd awyr Lerpwl a Manceinion fel meysydd awyr allweddol, y gall Birmingham fod yn faes awyr haws i'w gyrraedd ar y rheilffordd o orsaf reilffordd Wrecsam.

2.5 Ffyrdd y gallai pobl ymateb

Mae Uchelgais Gogledd Cymru o'r farn ei bod yn bwysig cynyddu cyfranogiad a thrwy hynny ei gwneud mor hawdd â phosib i bobl ddweud eu dweud a chyflwyno eu hadborth. Yn unol â hynny, hwyluswyd ystod o ddulliau adborth ar-lein a rhai mwy traddodiadol fel y disgrifir isod.

2.5.1 Cyfeiriad e-bost yr ymgynghoriad

Sefydlwyd cyfeiriad e-bost prosiect pwrpasol northwalesregionaltransportplan@arup.com, yn cael ei gynnal a'i fonitro gan Arup, ar gyfer yr ymgynghoriad. Roedd y cyfeiriad e-bost yn caniatáu i'r cyhoedd a phartïon eraill â diddordeb ofyn cwestiynau penodol am y cynigion, yr ymgynghoriad, gofyn am gopïau o ddogfennau trwy e-bost neu drwy'r post, a/neu gyflwyno eu hadborth. Pan dderbyniwyd ymatebion e-bost i'r ymgynghoriad, roedd rhai yn cynnwys copi atodedig o holiadur wedi'i gwblhau, ac roedd eraill yn cynnwys gohebiaeth ysgrifenedig atodedig trwy lythyr neu destun rhydd arall (heb ei gyflwyno ar ffurf holiadur).

2.5.2 Gwasanaeth ffôn a negeseuon rhadffôn yr Ymgynghoriad

Roedd gwasanaeth peiriant ateb i adael neges llais a oedd hefyd yn cael ei gynnal a'i fonitro gan Arup, gan ddarparu neges ddwyieithog. Roedd hyn yn helpu pobl a allai gael trafferth cael mynediad i'r rhyngrwyd a/neu a allai fod yn dymuno siarad ag aelodau o dîm y prosiect yn uniongyrchol i ofyn cwestiynau neu drafod eu pryderon. Roedd y gwasanaeth neges llais yn helpu unrhyw un i adael neges a oedd yn cynnwys cais am gopi papur neu gais am alwad yn ôl gyda manylion cyswllt, er enghraifft.

2.5.3 Cyfeiriad rhadbost yr ymgynghoriad

Er mwyn darparu ar gyfer ymatebion papur i'r ymgynghoriad, sefydlwyd cyfeiriad rhadbost gyda'r Post Brenhinol i ganiatáu i unrhyw un anfon ymateb i'r ymgynghoriad drwy'r post heb unrhyw gost postio iddynt (gyda'r ffi wedi'i thalu gan Uchelgais Gogledd Cymru). Roedd hyn yn cyfeirio ymatebion yn uniongyrchol i swyddfa Arup i'w prosesu. Hyrwyddwyd yr e-bost, y ffôn a'r cyfeiriad rhadbost trwy'r wybodaeth ymgynghori (Atodiad 2) a'r cyhoeddusrwydd cysylltiedig (Atodiad 5).

2.6 Cyhoeddusrwydd

Arweiniodd Uchelgais Gogledd Cymru a'i dîm cyfathrebu gyhoeddusrwydd yr ymgynghoriad, gan geisio gwneud cymaint o unigolion a sefydliadau â phosib yn ymwybodol o'r cyfle i ddweud eu dweud. Fe wnaethant weithio gyda phartneriaid a'u hadrannau cyfathrebu eu hunain (gan gynnwys awdurdodau lleol gogledd Cymru, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru) ar y cyd i helpu i hysbysebu'r ymgynghoriad drwy wahanol sefydliadau a chyfryngau fel y crynhoir isod. Roedd yr holl gyhoeddusrwydd yn ddwyieithog.

2.6.1 Datganiadau i'r wasg

Cyhoeddodd Uchelgais Gogledd Cymru ddatganiadau i'r wasg ar gerrig milltir ymgynghori allweddol, gan gynnwys yn ystod lansiad yr ymgynghoriad, i gynorthwyo i godi ymwybyddiaeth. Cyhoeddodd sawl ffynhonnell o'r cyfryngau fanylion o'r datganiadau i'r wasg; cyflwynir enghreifftiau o'r rhain yn Atodiad 5.

2.6.2 Gwefan

Diweddarwyd gwefan Uchelgais Gogledd Cymru gyda thudalen ymgynghori bwrpasol i ddarparu gwybodaeth am yr ymgynghoriad, i sicrhau bod dogfennau ymgynghori allweddol ar gael i'w lawrlwytho, a nodi'r camau nesaf. Roedd yn cynnwys dolen i'r ystafell arddangos rithwir, gan annog pobl i lenwi'r holiadur ar-lein neu ddweud eu dweud trwy'r dulliau amgen oedd ar gael. Gellir dod o hyd i sgrinluniau o'r diweddariadau gwefan a gyhoeddwyd yn Atodiad 5.

2.6.3 Hysbysiadau e-bost

Cynhaliodd Uchelgais Gogledd Cymru gronfa ddata rhanddeiliaid o gysylltiadau allweddol lle roedd manylion cyswllt yn y parth cyhoeddus neu lle gofynnodd sefydliadau am gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau. Anfonwyd negeseuon e-bost uniongyrchol yn rheolaidd yn ystod yr ymgynghoriad i annog ymgysylltu ac ymatebion.

2.6.4 Postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol

Gwnaed postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol trwy gydol y cyfnod ymgynghori trwy wefan Facebook, X (Twitter gynt) a LinkedIn Uchelgais Gogledd Cymru, i gyhoeddi lansiad yr ymgynghoriad, ac annog cyfranogiad yn rheolaidd ar adegau trwy gydol y cyfnod ymgynghori. Bu awdurdodau a sefydliadau eraill oedd â diddordeb hefyd yn rhannu neu'n postio o'u cyfrifon eu hunain, er enghraifft yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Awdurdodau Lleol a chynghorau tref/cymuned. Gellir dod o hyd i sgrinluniau gydag enghreifftiau yn Atodiad 5.

2.6.5 Posteri

Paratowyd a dangoswyd posteri gan Uchelgais Gogledd Cymru i hyrwyddo'r ymgynghoriad yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno (Sarn Mynach) trwy'r cyfnod.

2.6.6 Digwyddiadau, gweithdai a chyfarfodydd ffocws y diwydiant

Mynychodd Uchelgais Gogledd Cymru a chymryd rhan fel siaradwyr gwadd mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau, gweithdai a chyfarfodydd ffocws y diwydiant gyda'r bwriad o drafod yr NWRTP drafft a'i ymgynghoriad, gan annog adborth hefyd. Ymhlith yr enghreifftiau roedd Sefydliad y Cyfarwyddwyr Gogledd Cymru ar 19eg Mawrth 2025, Cangen CBI Gogledd Cymru ar 21ain Mawrth 2025, Digwyddiad Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Chludiant (CIHT) Cymru Wales a Grŵp Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru ar wahân ar 4ydd Ebrill 2025. Cynhaliwyd gweithdy trafnidiaeth rhanbarthol gyda Chomisiwn Dylunio Cymru ar 7fed Ebrill 2025. Trwy gydol datblygiad y Cynllun drafft, cyfarfu Uchelgais Gogledd Cymru hefyd â swyddogion ac aelodau awdurdodau lleol gogledd Cymru, yn ogystal ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri drwy ei gyfrifoldebau CBC mewn cysylltiad â thrafnidiaeth a chynllunio strategol. Cyfarfu hefyd ag Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru mewn cysylltiad â'r rhwydwaith ffyrdd strategol, a Thrafnidiaeth Cymru mewn cysylltiad â'r rhwydwaith rheilffyrdd. Cynhaliwyd cyfarfodydd o leiaf yn fisol hefyd gyda Llywodraeth Cymru am yr NWRTP a'i ymgynghoriad, sydd wedi arwain at adborth gan swyddogion y tu allan i'r ymgynghoriad, sydd wedi llywio'r cynlluniau.

3. Ymatebion i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus

3.1 Trosolwg

Er bod unigolion a sefydliadau yn cael eu hannog i gyflwyno ymatebion ffurfiol gan ddefnyddio'r holiadur adborth a ddarparwyd, darparodd rhai ymatebion ar ffurf e-bost neu radbost. Mae pob un wedi'i ystyried pan gafodd ei dderbyn yn ystod y cyfnod ymgynghori. Derbyniwyd tri ymateb ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Roedd un o'r rheiny gan sefydliad a oedd yn esbonio mater technolegol a derbyniodd Uchelgais Gogledd Cymru yr ymateb hwyr gan ddefnyddio ei ddisgresiwn. Ni dderbyniwyd y ddau ymateb hwyr arall ond maent wedi cael eu hystyried y tu allan i'r Adroddiad Ymgynghori hwn gan Uchelgais Gogledd Cymru, ac mae gohebiaeth uniongyrchol wedi parhau i helpu i fynd i'r afael ag adborth.

Cafwyd cyfanswm o 1,684 o ymatebion ac fe'u derbyniwyd. O'r rhai hynny,

- cafwyd 199 o ymatebion trwy'r ystafell arddangos ar-lein (Ymgysylltiad Rhithwir).
- Cafwyd 51 o ymatebion e-bost (gan gynnwys dau gan ddefnyddio'r ffurflen holiadur Hawdd ei Ddeall).
- Ymatebodd 13 o gyfranogwyr gan ddefnyddio'r holiadur adborth papur trwy'r post.
- Roedd 1,421 yn gysylltiedig ag ymateb i ymgyrch gydlynol gan Ymddiriedolaethau Natur Cymru.

O'r 199 o ymatebion Ymgysylltiad Rhithwir, 49 o ymatebion e-bost a 15 ymateb trwy'r post a ddarparodd ddata personol fel rhan o'u cyflwyniad:

- roedd 7% o dan 25, 17% rhwng 25-39, 42% rhwng 40-60 a 33% yn 60+.
- Nododd 53% eu bod yn ddynion a 47% yn fenywod.
- Nododd 87% nad oedd ganddynt anabledd a nododd 13% eu bod yn anabl.
- Nododd 70% eu bod mewn cyflogaeth a nododd 13% eu bod mewn addysg/hyfforddiant.

Cadarnhaodd y rhai a ddarparodd ddata personol fel rhan o'u hymateb i'r holiadur eu cod post, sy'n helpu i adnabod eu lleoliad. Mae'r canlyniadau wedi'u nodi yn Nhabl 1 a Ffigwr 1 isod.

Tabl 1: Lleoliad ymatebwyr holiadur (ymgysylltiad rhithwir wedi'i gynnwys) yn seiliedig ar y cod post a ddarparwyd.

Awdurdod Lleol	Conwy	Sir Ddinbych	Sir y Fflint	Gwynedd	Ynys Môn	Wrecsam	Cymru Arall	Y tu allan i Gymru
Cyfanswm nifer yr ymatebwyr	36	14	62	26	26	11	3	3




Ffigwr 1: Lleoliad ymatebwyr ystafell Ymgysylltiad Rhithwir (detholiad sy'n canolbwyntio ar ogledd Cymru).

Rhoddodd mwyafrif y rhai a gyflwynodd ymateb i ymgyrch Ymddiriedolaethau Natur Cymru enw a chod post. Mae hyn hefyd yn ein helpu i nodi eu lleoliad. Dylid nodi nad oedd modd dod o hyd i rai codau post, a allai fod wedi bod yn wall defnyddiwr. Mae'r canlyniadau wedi'u nodi yn Nhabl 2 a Ffigwr 2 isod.

Tabl 2: Lleoliad ymatebwyr i'r ymgyrch yn seiliedig ar y cod post a ddarparwyd.

Awdurdod Lleol	Conwy	Sir Ddinbych	Sir y Fflint	Gwynedd	Ynys Môn	Wrecsam	Cymru Arall	Y tu allan i Gymru
Cyfanswm nifer yr ymatebwyr	139	101	245	113	70	55	67	618



Ffigwr 2: Lleoliad ymatebwyr i'r ymgyrch yn seiliedig ar y cod post a ddarparwyd (detholiad sy'n canolbwyntio ar ogledd Cymru).

Cafodd yr ymatebion eu gwirio i wneud yn siŵr nad oedd unrhyw ymatebion dyblyg wedi'u cyfrif. Ar ôl adolygu'r data, dilëwyd unrhyw gofnodion a ailadroddwyd.

Mae'r adrannau isod yn rhoi trosolwg o bob cwestiwn a ofynnwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus. Lle roedd ymatebwyr yn gallu darparu ymateb ansoddol, cynhaliwyd ymarfer codio a dadansoddi i ddarparu themâu adborth ar gyfer pob cwestiwn a chymhwyso barn broffesiynol.

Rhoddwyd ymateb llawn i'r holl sylwadau yn Adran 4.0


O ystyried bod yr holiadur yn caniatáu i unrhyw un lenwi unrhyw gwestiwn, dewisodd rhai ateb pob cwestiwn, tra dewisodd eraill ateb un neu fwy. Oherwydd hyn, wedi ei gynnwys yn y dadansoddiad o bob cwestiwn mae hefyd werth rhifiadol o faint o ymatebion a dderbyniwyd mewn perthynas â phob cwestiwn, er mwyn helpu i ddarparu cyd-destun.

3.2 Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

3.2.1 I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r weledigaeth a'r amcanion a nodir yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft?

Rhoddodd 213 o gyfranogwyr eu barn ar y cwestiwn hwn. Mae Ffigwr 1 isod yn darparu darlun gweledol o'r canlyniadau meintiol. Mae'n dangos bod 67% wedi dewis eu bod naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf, 14% wedi dweud eu bod yn niwtral, a 19% wedi dewis eu bod naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.


Ffigwr 3:Ymatebion i 'I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r weledigaeth a'r amcanion a nodir yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol?'



3.2.2 I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r polisïau a'r ymyraethau a nodir yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft?

Rhoddodd 200 o gyfranogwyr eu barn ar y cwestiwn hwn. Mae Ffigwr 2 isod yn darparu darlun gweledol o'r canlyniadau meintiol. Mae'n dangos bod 61% wedi dewis eu bod naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf, 14% wedi dweud eu bod yn niwtral, a 25% wedi dewis eu bod naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.


Ffigwr 4: Atebion i 'I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r polisïau a'r ymyraethau a nodir yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft?'



3.2.3 Dywedwch wrthym beth yw eich barn am ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft neu gwnewch awgrymiadau eraill yma.

Ymatebodd 159 o gyfranogwyr i'r cwestiwn hwn. Amlinellir isod grynodeb lefel uchel o'r themâu allweddol a godwyd yn y sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft. Darperir manylion ac ymatebion yn Atodiad 6.

Ffigwr 5: Themâu allweddol a godwyd gan ymatebwyr mewn ymateb i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft.



Hygyrchedd**:** Rhoddodd wyth ymatebydd adborth ar y pwnc hwn. Fe wnaeth chwech ymatebydd sylwadau ar bwysigrwydd cysylltiadau trafnidiaeth ag ardaloedd gwledig. Awgrymodd y ddau ymatebydd arall y dylid canolbwyntio mwy ar wella teithio cynaliadwy/llesol i gymudwyr.

Bws**:** Rhoddodd 24 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, canolbwyntiodd 12 o'r ymatebwyr ar bwysigrwydd gwasanaeth dibynadwy, mwy aml. Roedd gan PT1 un sylw yn cefnogi, ac un sylw yn gwrthwynebu. Dywedodd tri ymatebydd fod prisiau tocynnau bws yn rhy ddrud. Rhoddodd ymatebwyr eraill adborth ar lwybrau bysiau, preifatrwydd, a chysylltiad rhwng gwasanaethau bysiau.

Coets**:** Rhoddodd dau ymatebydd adborth ar y pwnc hwn. Canolbwyntiodd un ymatebydd ar y rôl y gall coetsis ei chwarae mewn cysylltedd ledled gogledd Cymru, tra bod yr ymatebydd arall wedi gwneud sylwadau ar y gogwydd tuag at drafnidiaeth ffyrdd o'i chymharu â rheilffyrdd.

Ymgynghoriad**:** Rhoddodd 17 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, gydag 16 yn rhoi awgrymiadau ar sut y gellid gwella'r dogfennau ymgynghori. Cefnogodd un ymatebydd y dogfennau a'r broses ymgynghori.

Trafnidiaeth sy'n Ymateb i'r Galw/Trafnidiaeth Gymunedol**:** Rhoddodd chwech ymatebydd adborth ar y pwnc hwn. Roedd tri sylw yn canolbwyntio ar Fflecsi, y sylwadau eraill yn canolbwyntio ar fuddsoddiad, twristiaid a beirniadaeth o'r cynllun am beidio â mynd i'r afael â thrafnidiaeth gymunedol.

Cysylltedd Digidol**:** Rhoddodd pump ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, rhoddodd tri awgrymiadau amgen ynghylch digideiddio mewn arosfannau bysiau a chymhwysiad integredig. Canolbwyntiodd dau ar gyflymder band eang.

Datblygiad Economaidd: Rhoddodd saith ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, gan ddarparu awgrymiadau ar dai ac isadeiledd, llwybrau cludo nwyddau, a hwb hydrogen Caergybi.

Galluogi newidiadau mewn ymddygiad teithio: Rhoddodd 14 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, gyda saith yn awgrymu dewisiadau amgen ar lwybrau penodol, cymhellion ar gyfer newid, a mecanweithiau ariannu. Rhoddodd tri ymatebydd adborth cyffredinol. Canolbwyntiodd yr ymatebwyr eraill ar gefnogaeth i Bolisi LU1, pryderon diogelwch ac ardaloedd awdurdodau lleol penodol.

Yr Amgylchedd: Rhoddodd wyth ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, pump yn canolbwyntio ar y newid hinsawdd/sero net. Mynegodd un ymatebydd bryderon ynghylch pwyslais annigonol ar bynciau tirwedd a gweledol, mynegodd ymatebydd arall bryderon am y themâu trawsbynciol oedd yn eithrio datgarboneiddio a gwytnwch hinsawdd.

Cyffredinol: Rhoddodd 52 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, 21 yn cefnogi'r NWRTP, 17 yn gwrthwynebu. Canolbwyntiodd yr ymatebwyr eraill ar dynnu sylw at bryderon ynghylch cyllid, dibynadwyedd, amserlenni, ardaloedd gwledig, a darparu awgrymiadau.

Integreiddio rhwng dulliau teithio: Rhoddodd pump ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, pedwar o'r rhain yn awgrymiadau am ddewisiadau amgen ynghylch defnyddio beiciau ar drafnidiaeth gyhoeddus, llwybrau penodol, coetsis ar lwybrau trên a pharcio diogel. Cytunodd un ymatebydd gydag integreiddio dulliau trafnidiaeth, ond nid ar draul yr amgylchedd naturiol.

Cynllunio Defnydd Tir: Rhoddodd saith ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, gyda thri yn gwrthwynebu'r trawsnewid i Gerbydau Trydan (EV). Cwestiynodd un ymatebydd gyflwyno gwefru EV i gyrraedd y targedau a osodwyd gan Lywodraeth y DU. Awgrymodd yr ymatebwyr eraill ddewisiadau amgen a chwestiynu Dyhead 3 SRN a Pholisi RS1.

Porthladdoedd a Chludiant Nwyddau: Rhoddodd chwech ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, darparodd pump ddewisiadau amgen a pholisïau ychwanegol ynghylch cludo nwyddau rheilffordd i Gaergybi, llwybrau eraill, a gweithio mewn partneriaethau. Rhoddodd un ymatebydd gefnogaeth i'r gwelliannau i lwybrau allweddol fydd yn hwyluso symud nwyddau yn effeithlon.

Uchelgeisiau Rheilffyrdd: Rhoddodd 39 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, awgrymodd 22 o'r rhain ddewisiadau amgen, gan gynnwys 17 yn tynnu sylw at hepgor Gorsaf Maes Glas. Canolbwyntiodd 12 ymatebydd ar orsafoedd a llwybrau a'r ymatebwyr eraill ar ddibynadwyedd ac amlder.

Ffyrdd, strydoedd a pharcio: Rhoddodd 25 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, gyda phedwar ymatebydd yn datgan eu bod yn anghytuno â therfynau cyflymder 20mya. Canolbwyntiodd ymatebwyr eraill ar y trawsnewid i EV, cyllid, cynnal a chadw parhaus, a pholisïau penodol.

Economaidd-gymdeithasol: Rhoddodd 16 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, gyda phedwar yn canolbwyntio ar iechyd a llesiant pobl yng ngogledd Cymru. Canolbwyntiodd pedwar ymatebydd ar effeithiau twristiaeth yn yr ardal. Gwnaeth yr ymatebwyr eraill sylwadau ar effeithiau a rhoi awgrymiadau ar ddiwylliant, cymudo, twf economaidd a chynhwysiant ardaloedd gwledig.

Uchelgeisiau Ffyrdd Strategol: Rhoddodd 27 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn. Gwnaeth pump ymatebydd sylwadau ar 'Lwybr Coch' Sir y Fflint gyda phedwar yn ei wrthwynebu ac un yn ei gefnogi. Soniodd pump ymatebydd am bolisïau penodol gan gynnwys SRN 3, SRN 4 ac SRN 5. Mynegodd tri ymatebydd wrthwynebiadau ac roedd un ymatebydd yn cefnogi'r Uchelgeisiau Ffyrdd Strategol. Awgrymodd yr ymatebwyr eraill ddewisiadau amgen oedd yn ymwneud â therfynau cyflymder, rheoli traffig a systemau priffyrdd.

Mynediad ar y ddaear at awyrennau: Mynegodd un ymatebydd yr angen am lwybrau trên mwy aml ac uniongyrchol yng ngogledd Cymru i faes awyr.

Gweledigaeth ac Amcanion: Darparodd 16 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, dau yn cefnogi, a dau yn gwrthwynebu'r Weledigaeth a'r Amcanion. Gofynnodd dau ymatebydd sut y byddai'r weledigaeth a'r amcanion yn cael eu hariannu. Tynnodd gweddill yr ymatebwyr sylw at bolisi, heriau i ardaloedd gwledig, heriau trafnidiaeth presennol ac adborth cyffredinol.


Cerdded, olwyno a beicio**:** Rhoddodd 25 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, cododd saith ymatebydd bryderon ynghylch diogelwch. Canolbwyntiodd yr ymatebwyr eraill ar welliannau awgrymedig ac adborth cyffredinol. Roedd dau ymatebydd yn gwrthwynebu'r cynllun, a chyfleodd dau eu cefnogaeth i'r cynllun.

3.3 Cynllun Monitro a Gwerthuso

3.3.1 I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r dull a ddilynwyd gennym yn ein Cynllun Monitro a Gwerthuso drafft?

Rhoddodd 207 o gyfranogwyr eu barn ar y cwestiwn hwn. Mae Ffigwr 3 isod yn darparu darlun gweledol o'r canlyniadau meintiol. Mae'n dangos bod 48% wedi dewis eu bod naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf, 35% wedi dweud eu bod yn niwtral, a 17% wedi dewis eu bod naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.


Ffigwr 6: Ymatebion i 'I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r dull a ddilynwyd gennym yn ein Cynllun Monitro a Gwerthuso drafft?'



3.3.2 Dywedwch wrthym beth yw eich barn am ein Cynllun Monitro a Gwerthuso drafft neu gwnewch awgrymiadau eraill yma.

Ymatebodd 81 o gyfranogwyr i'r cwestiwn hwn. Amlinellir isod grynodeb lefel uchel o'r themâu allweddol a godwyd yn y sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r Cynllun Monitro a Gwerthuso drafft. Darperir manylion ac ymatebion yn Atodiad 6.

Ffigwr 7: Themâu allweddol a godwyd gan ymatebwyr mewn ymateb i'r Cynllun Monitro a Gwerthuso drafft.



Hygyrchedd**:** Derbyniwyd un ymateb ar gyfer y pwnc hwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd mynediad at wasanaethau teithio/trafnidiaeth, yn enwedig o ran gwasanaethau trên mwy aml.

Bws**:** Adroddodd dau ymatebydd yn ôl ar y pwnc hwn, un yn tynnu sylw at bwysigrwydd defnyddio'r isadeiledd bysiau presennol, fel bysiau trydan, cyn buddsoddi ymhellach, tra bod un arall yn cefnogi'r cyfle i gydweithio wrth ddatgarboneiddio fflyd bysiau'r sector cyhoeddus a dylunio isadeiledd trawsffiniol.

Ymgynghoriad**:** Rhoddodd 12 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, ac roedd naw ohonynt yn cyflwyno safbwyntiau oedd yn gwrthwynebu neu'n pryderu am y broses ymgynghori, yn enwedig o ran cael mynediad at ddogfennau ymgynghori. Mynegodd ymatebion eraill gefnogaeth i'r broses, gan werthfawrogi'r cyfle i roi adborth, tra bod eraill yn tynnu sylw at yr angen i ddefnyddio'r adborth a roddwyd i wella'r cynllun, gydag awgrymiadau i ddefnyddio grwpiau ffocws neu gynghorwyr lleol i fonitro boddhad ar wahanol gamau o weithredu'r NWRTP.

Galluogi newidiadau mewn ymddygiad teithio**:** Derbyniwyd un ymateb ar y pwnc hwn yn tynnu sylw at yr angen i ddefnyddio gwasanaethau bysiau a threnau cyhoeddus presennol i ddarparu ar gyfer cludiant ysgolion, fel bod myfyrwyr yn arfer â defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, galluogi newid ymddygiad, a lleihau dyblygu gwasanaethau, yn cefnogi polisi CB10.

Yr Amgylchedd**:** Rhoddodd dau ymatebydd adborth ar y pwnc hwn. Roedd un ymatebydd yn gwrthwynebu gostyngiadau terfyn cyflymder gan eu bod o'r farn bod hyn yn lleihau ansawdd aer. Gofynnodd ymatebydd arall sut mae'r cynllun yn anelu at fesur effeithiau amgylcheddol cynlluniau ffyrdd.

Cyffredinol**:** Rhoddodd 52 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, gyda 21 ohonynt yn mynegi cefnogaeth gyffredinol, tra bod 15 ymatebydd wedi mynegi gwrthwynebiad neu bryder am y cynllun. Tynnodd ymatebwyr eraill sylw at feysydd lle gellid mireinio'r cynllun monitro a gwerthuso ymhellach i ddarparu mwy o eglurder, yn enwedig o ran mesurau monitro. Gwnaed y sylwadau sy'n weddill ynghylch cynnwys pob ardal awdurdod lleol a'r angen i fuddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus i ddatgloi cyfleoedd ar draws y rhanbarth.

Cynllunio Defnydd Tir: Rhoddodd dau ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, gan gyfeirio at isadeiledd EV, gan fynegi pryder am ddyfodol gwefru EV heb wydnwch grid ac awgrymu'r angen i gynnwys y fframwaith caffael genedlaethol i symleiddio'r broses gaffael gan sicrhau cysondeb ar draws pob rhanbarth.

Porthladdoedd a Chludiant Nwyddau**:** Rhoddodd dau ymatebydd adborth ar y pwnc hwn. Tynnodd un ymatebydd sylw at gefnogaeth i gludo nwyddau ar reilffyrdd, gydag un arall yn cynnig awgrym i integreiddio'r cyfuniad o HGVs yn y Cynllun Rhanbarthol.

Uchelgeisiau Rheilffyrdd**:** Rhoddodd wyth ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, gyda saith o'r ymatebion yn tynnu sylw at yr angen i gynnwys Gorsaf Maes Glas yn y cynlluniau. Roedd ymateb pellach yn cefnogi gwasanaethau rheilffordd bob awr rhwng Crewe a Llandudno.

Ffyrdd, strydoedd a pharcio**:** Rhoddodd pedwar ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, ac roedd dau ohonynt yn gwrthwynebu gweithredu polisi 20mya Llywodraeth Cymru. Tynnodd eraill sylw at yr angen am well cysylltiadau ffyrdd a gwella safleoedd tagfeydd ledled y rhanbarth, gyda sylw pellach yn awgrymu y dylid cynnwys ffocws ar gymhellion ariannol EV yn yr NWRTP.

Economaidd-gymdeithasol**:** Rhoddodd pedwar ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gyda themâu iechyd a llesiant a chynhwysiant ardaloedd gwledig. Awgrymodd ymatebwyr hefyd fod anghenion teithio i'r gwaith wedi'u hanwybyddu, ac y dylid teithio i ysgolion ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Uchelgeisiau Ffyrdd Strategol: Rhoddodd pump ymatebydd adborth ar y pwnc hwn. Mynegwyd gwrthwynebiad i uchelgeisiau SRN2, SRN3 ac SRN4, tra mynegodd eraill yr angen i wella cysylltiadau ffyrdd a safleoedd tagfeydd.


Cerdded, olwyno a beicio**:** Rhoddodd pump ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, gyda dau ymateb yn cefnogi a dau yn gwrthwynebu cynlluniau. Gwnaed sylw pellach yn awgrymu y dylai'r Cynllun Monitro a Gwerthuso ddarparu gwell monitro o deithio llesol ac y dylid cydnabod cysylltiadau gydag iechyd a llesiant yn well.

3.4 Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol

3.4.1 I ba raddau yr ydych chi'n cytuno â'r dull a ddilynwyd gennym yn ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft?

Rhoddodd 202 o gyfranogwyr eu barn ar y cwestiwn hwn. Mae Ffigwr 4 isod yn darparu darlun gweledol o'r canlyniadau meintiol. Mae'n dangos bod 50% wedi dewis eu bod naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf, 28% wedi dweud eu bod yn niwtral, a 22% wedi dewis eu bod naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.


Ffigwr 8: Ymatebion i 'I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r dull a ddilynwyd gennym yn ein Cynllun Monitro a Gwerthuso drafft?'



3.4.2 Dywedwch wrthym beth yw eich barn am ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft neu gwnewch awgrymiadau eraill yma.

Ymatebodd 85 o gyfranogwyr i'r cwestiwn hwn. Amlinellir isod grynodeb lefel uchel o'r themâu allweddol a godwyd yn y sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft. Darperir manylion ac ymatebion yn Atodiad 6.

Ffigwr 9: Themâu allweddol a godwyd gan ymatebwyr mewn ymateb i'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft.



Hygyrchedd**:** Rhoddodd dau ymatebydd adborth ar y pwnc hwn ynglŷn â mynediad at wasanaethau teithio/trafnidiaeth, yn enwedig mwy o hygyrchedd at drenau a bysiau i unigolion anabl.

Bws**:** Rhoddodd chwech ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gan dynnu sylw at yr angen am well isadeiledd bysiau, yr angen i gynyddu amlder a dibynadwyedd gwasanaethau, yn ogystal â'r farn nad yw'r cynllun yn gwella'r sefyllfa bresennol yng ngogledd Cymru.

Coets: Rhoddodd un ymatebydd adborth ar y pwnc hwn yn cwestiynu'r angen am goets gyflym newydd yr ystyrir ei bod yn dyblygu'r rhwydwaith trenau presennol.

Ymgynghoriad: Rhoddodd chwech ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, yn ystyried bod dogfennau ac opsiynau adborth yn gymhleth a bod angen ymgysylltu ehangach.

Cysylltedd digidol: Rhoddodd un ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gan fynegi cefnogaeth i isadeiledd digidol mewn arosfannau bysiau, gan gefnogi polisi DC3.

Datblygiad Economaidd: Rhoddodd tri ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, i gyd yn ystyried y bydd y mwy o gysylltedd a ddarperir gan y cynllun yn cefnogi datblygiad economaidd gogledd Cymru yn fawr.

Yr Amgylchedd: Rhoddodd un ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gyda phryderon am fioamrywiaeth wrth ddatblygu llwybrau teithio llesol.

Cyffredinol: Rhoddodd 39 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, gan fynegi teimlad cyffredinol, a sylwadau ynghylch yr angen i wella trafnidiaeth gyhoeddus yn gyffredinol, ac i flaenoriaethu ardaloedd awdurdodau lleol.

Integreiddio rhwng dulliau teithio: Rhoddodd saith ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gan fynegi cefnogaeth neu awgrymu ychwanegiadau at gynlluniau gan gynnwys sylwadau ar docynnu rhyngfoddol, safleoedd cyfnewidfeydd ychwanegol a chysylltiadau â thrafnidiaeth gymunedol. Rhoddwyd cefnogaeth gyffredinol i gyfleusterau parcio a theithio newydd, gan gefnogi polisi IN5.

Cynllunio defnydd tir: Rhoddodd un ymatebydd adborth ar y pwnc hwn ynglŷn â datblygu polisi i gynnwys gwell cysylltiadau â chynllunio aml-adran.

Porthladdoedd a chludo nwyddau: Rhoddodd un ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gan awgrymu y dylid rhoi mwy o bwyslais ar ffynonellau tanwydd amgen fel datrysiadau hydrogen a cherbydau hydrogen, a drafodwyd ym mholisi PF4.

Uchelgeisiau Rheilffyrdd: Rhoddodd 24 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, ac mae 11 ohonynt yn tynnu sylw at yr angen am Orsaf Maes Glas gyda sylwadau pellach yn awgrymu llwybrau a gorsafoedd eraill y dylid eu hystyried. Mynegodd eraill nad oedd y cynllun yn cynnig gweledigaeth oedd o ddifrif ynglŷn â gwella rheilffyrdd, tra bod eraill yn cefnogi gwelliannau'r cynlluniau.

Ffyrdd, strydoedd a pharcio: Rhoddodd pump ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gan gynnwys cefnogaeth a gwrthwynebiad i gynlluniau EV, pryderon diogelwch ar hyd llwybrau penodol, yr angen i wella cysylltiadau ffyrdd a cheisiadau i gael gwared ar derfynau cyflymder 20mya.

Economaidd-gymdeithasol: Rhoddodd pump ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gyda sylwadau ynglŷn â'r angen i gynnwys ardaloedd gwledig, yr angen i flaenoriaethu cynlluniau sy'n cynnig twf economaidd ac am ystyriaeth bellach i'r sector twristiaeth.

Uchelgeisiau Ffyrdd Strategol: Rhoddodd 11 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gan gynnwys newidiadau a awgrymwyd ar gynlluniau a pholisïau penodol (SRN2 a 3), yr angen i ymgorffori cyfeiriadau at welliannau rhwydwaith priffyrdd, gwrthwynebiad i gynnwys isadeiledd ffyrdd a'r Llwybr Coch.


Cerdded, olwyno a beicio: Rhoddodd wyth ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gan awgrymu newidiadau i bolisïau neu bolisïau ychwanegol, gyda gwelliannau cefnogol i deithio llesol tra bod eraill yn gwrthwynebu cynlluniau o blaid ceir preifat.

3.5 Arfarniad Llesiant Integredig

3.5.1 I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r dull a ddilynwyd gennym yn ein Hasesiad Llesiant Integredig drafft?

Rhoddodd 193 o gyfranogwyr eu barn ar y cwestiwn hwn. Mae Ffigwr 5 isod yn darparu darlun gweledol o'r canlyniadau meintiol. Mae'n dangos bod 48% wedi dewis eu bod naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf, 33% wedi dweud eu bod yn niwtral, a 19% wedi dewis eu bod naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.


Ffigwr 10: Ymatebion i 'I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r dull a ddilynwyd gennym yn ein Harfarniad Llesiant Integredig drafft?'



3.5.2 Dywedwch wrthym beth yw eich barn am ein Harfarniad Llesiant Integredig drafft neu gwnewch awgrymiadau eraill yma.

Ymatebodd 66 o gyfranogwyr i'r cwestiwn hwn. Amlinellir isod grynodeb lefel uchel o'r themâu allweddol a godwyd yn y sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r Arfarniad Llesiant Integredig drafft. Darperir manylion ac ymatebion yn Atodiad 6.

Ffigwr 11: Themâu allweddol a godwyd gan ymatebwyr mewn ymateb i'r Arfarniad Llesiant Integredig drafft.



Hygyrchedd: Rhoddodd tri ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, gan dynnu sylw at bwysigrwydd mynediad at wasanaethau teithio/trafnidiaeth, yn enwedig gan nad yw teithio llesol yn addas i bawb, a bod llesiant yn cael ei gynorthwyo gan fynediad da at wasanaethau.

Bws: Rhoddodd dau ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gan dynnu sylw at yr angen am wasanaethau mwy aml a dibynadwy gyda gwasanaethau bysiau gwledig yn cael eu lleihau, ddim yn rhedeg ar adegau cyfleus a theithiau bws yn cymryd yn rhy hir i fod yn ddull amgen effeithlon.

Ymgynghoriad: Rhoddodd wyth ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gan fynegi pryder/gwrthwynebiad i'r broses ymgynghori gyffredinol gan ystyried yn benodol bod diffyg ymgysylltiad cyffredinol wedi bod, yn enwedig gyda grwpiau lleiafrifol, a bod deunyddiau ymgynghori yn annigonol.

Datblygiad Economaidd: Derbyniwyd un ymateb ar y pwnc hwn ynglŷn â chysylltedd, yn mynegi cefnogaeth i ailagor maes awyr Ynys Môn.

Galluogi newidiadau mewn ymddygiad teithio: Derbyniwyd un ymateb ar y pwnc hwn yn mynegi cefnogaeth i Bolisi CB10 a CB11, yn trafod yn benodol yr angen i gynnwys addysg ar gyfer sefydliadau a all wneud gwahaniaeth i ddiwylliant ac agwedd preswylwyr.

Yr Amgylchedd: Derbyniwyd tri ymateb ar y pwnc hwn gan gynnwys cais i adael i dir ar ymylon ffyrdd dyfu'n wyllt. Mynegodd sylwadau hefyd wrthwynebiad i gynnwys yr IWBA.

Cyffredinol: Rhoddodd 42 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn yn bennaf yn mynegi cefnogaeth gyffredinol neu wrthwynebiad/pryder am yr IWBA. Roedd sylwadau cefnogol cyffredinol o'r farn bod yr IWBA yn annog y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a gwella iechyd trwy gerdded a beicio ac yn cefnogi agwedd y cynlluniau i roi lles yr amgylchedd a'r boblogaeth wrth wraidd y cynllun. Roedd y rhai a gyflwynodd wrthwynebiad i'r cynllun o'r farn nad yw'n diwallu anghenion llesiant pobl leol a'i fod yn methu ag asesu materion anymarferol trafnidiaeth neu unrhyw sgil-effeithiau ar gymunedau lleol wrth ddatblygu isadeiledd ffyrdd. Mae'r gwrthwynebiad arall yn fwy cyffredinol gan ystyried nad yw'r cynllun yn angenrheidiol/defnydd o arian cyhoeddus, nad yw'n gweithio i ardaloedd gwledig, gyda'r syniadau a gyflwynir yn rhai 'gwrth-fodurwyr'. Trafodwyd datblygu polisi a heriau

trafnidiaeth presennol yma hefyd gydag integreiddio a llesiant yn cael eu dynodi'n bwysig i ddatblygu cynigion ymhellach.

Integreiddio rhwng dulliau teithio: Derbyniwyd un ymateb ar y pwnc hwn yn tynnu sylw at yr angen i gydweithio â darparwyr bysiau, coetsis a threnau a hefyd gyda chwsmeriaid presennol a darpar gwsmeriaid i gynllunio integreiddio'n effeithiol a symud i ffwrdd o ddefnyddio ceir.

Uchelgeisiau Rheilffyrdd: Rhoddodd chwech ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gan awgrymu gorsafoedd neu lwybrau ychwanegol y dylid eu hychwanegu at y cynllun, yn enwedig Gorsaf Maes Glas, a'r angen am wasanaethau mwy aml a dibynadwy.

Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio: Rhoddodd pedwar ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gyda rhai yn awgrymu mai gwella cysylltiadau ffyrdd a phwyntiau tagfeydd ledled y rhanbarth yw prif ofyniad y cynllun, tra bod eraill yn pwysleisio'r angen nad yw adeiladu ffyrdd newydd yn effeithiol ac y dylid mynd i'r afael â materion cynnal a chadw parhaus yn gyntaf.

Economaidd-gymdeithasol: Rhoddodd chwech ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gan dynnu sylw at yr angen i wella'r ardal leol i bobl leol cyn lletya eraill. Tynnwyd sylw hefyd at iechyd a llesiant gyda rhai ymatebwyr yn cefnogi ymgysylltu â thrafnidiaeth gyhoeddus a defnyddio teithio llesol, gydag eraill yn mynegi pryder gan nad yw teithio llesol yn addas i bawb.

Uchelgeisiau Ffyrdd Strategol: Rhoddodd dau ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gan ganolbwyntio ar bolisi penodol (SRN5) gan ddadlau bod angen rheoli traffig yn hytrach nag adeiladu pont newydd dros y Fenai, gan nodi rhesymau amgylcheddol. Mae ymatebion eraill yn tynnu sylw at farn mai gwella cysylltiadau ffyrdd ar draws y rhanbarth yw'r prif ofyniad.

Cerdded, olwyno a beicio: Rhoddodd wyth ymatebydd adborth ar y pwnc hwn. Er bod rhai yn cefnogi'r cynlluniau, roedd eraill yn bryderus bod mesurau teithio llesol yn anymarferol i ardaloedd gwledig, cymunedau lleol a modurwyr. Tynnodd eraill sylw at yr angen i gynlluniau teithio llesol ddarparu rhwydwaith integredig, nid dim ond gwneud mân welliannau. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod angen mwy o lwybrau beicio gyda cherddwyr a beicwyr wedi'u gwahanu lle bo hynny'n bosib i leihau pryderon diogelwch.


3.6 Unrhyw sylwadau eraill

3.6.1 A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am yr ymgynghoriad hwn neu ein cynigion?

Amlinellir isod grynodeb o'r themâu allweddol a godwyd yn y sylwadau 'eraill' a dderbyniwyd mewn ymateb i'r Cynllun Trafnidiaeth Gogledd Cymru drafft. Mae'r crynodeb hwn yn rhoi'r rheswm dros yr ymatebion a dderbyniwyd trwy'r platfform ymgysylltu rhithwir ar-lein ac a dderbyniwyd trwy e-bost mewn perthynas â'r maes ffocws dan sylw. Er eglurder, mae unrhyw ymatebion a gyflwynwyd (ar wahân i'r ymatebion i'r ymgyrch, sy'n cael eu hystyried yn Atodiad 6, sydd wedi'u derbyn heb fod ar ein fformat templed holiadur (e.e. ymatebion ar ffurf rydd)) wedi'u hystyried yma.

Rhoddodd 157 o gyfranogwyr eu barn ar neu mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

Ffigwr 12: Themâu allweddol a godwyd gan ymatebwyr mewn ymateb i unrhyw gwestiynau eraill.



Hygyrchedd**:** Rhoddodd 17 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gan dynnu sylw at faterion ynghylch mynediad at deithio, amseroedd gwasanaeth a'r heriau y mae cymunedau gwledig yn eu hwynebu.

Bws**:** Rhoddodd 37 ymatebydd eu barn ar y pwnc hwn, gyda mwyafrif yr ymatebwyr yn canolbwyntio ar isadeiledd bysiau. Canolbwyntiodd ymatebwyr eraill ar lwybrau, amlder a dibynadwyedd gwasanaethau cyfredol.

Coets**:** Rhoddodd un ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, gan ddarparu ei gefnogaeth i uwchraddio coetsis ar lwybrau lle nad oes gwasanaeth yn rhedeg.

Ymgynghoriad**:** Rhoddodd 26 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, gan awgrymu bod yr ymgynghoriad yn annigonol neu'n cynnwys deunyddiau anhygyrch.

Cyflawnadwyedd: Rhoddodd chwech ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, y thema fwyaf cyffredin a godwyd oedd argaeledd cyllid.

Trafnidiaeth sy'n Ymateb i'r Galw/Trafnidiaeth Gymunedol**:** Rhoddodd 12 ymatebydd eu barn ar y pwnc hwn, gyda'r mwyafrif yn tynnu sylw at yr angen am drafnidiaeth gymunedol.

Cysylltedd Digidol: Rhoddodd pump ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, gyda'r mwyafrif yn cefnogi cysylltedd digidol. Nodwyd bod angen gwella cyflymder band eang mewn ardaloedd gwledig.

Datblygu Economaidd: Rhoddodd saith ymatebydd eu barn ar y pwnc hwn; y prif themâu a godwyd oedd cysylltedd, mynediad cludo nwyddau a pharthau buddsoddi.

Galluogi newidiadau mewn ymddygiad teithio: Rhoddodd 15 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn. Awgrymodd mwyafrif yr ymatebwyr ddewisiadau amgen ynghylch prisio, cefnogi cerdded, gyda phryderon cyllid a diogelwch hefyd yn cael eu codi.

Yr Amgylchedd: Rhoddodd 16 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, gyda'r mwyafrif yn tynnu sylw at yr effeithiau ar newid hinsawdd a sero net.

Cyffredinol: Rhoddodd 37 ymatebydd adborth cyffredinol, gyda sylwadau cefnogol a gwrthwynebiad. Gwnaed wyth sylw mewn perthynas â dogfennau penodol; pedwar ar yr RTDP, tri ar yr IWBA ac un ar yr M&E.

Integreiddio rhwng dulliau teithio: Rhoddodd 12 ymatebydd eu barn ar y pwnc hwn, gyda'r rhan fwyaf o'r sylwadau yn canolbwyntio ar ddewisiadau amgen a pholisïau ychwanegol a awgrymwyd gan gynnwys tocynnau integredig, creu cysylltiadau newydd i deithio ymlaen a gwella cysylltiadau trafnidiaeth cyfredol.

Cynllunio defnydd tir: Rhoddodd 15 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn; roedd y mwyafrif o blaid y cynllun gyda dewisiadau amgen awgrymedig wedi'u hychwanegu yn cynnwys cynyddu darpariaeth beicio, a datgarboneiddio.

Porthladdoedd a Chludiant Nwyddau: Rhoddodd 11 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn; rhoddodd y sylwadau awgrymiadau ychwanegol i wella cysylltiadau porthladdoedd a chludo nwyddau gan gynnwys cynyddu nifer y pontydd, lleihau cymudo pellter hir a llwybrau penodol.

Uchelgeisiau Rheilffyrdd: Rhoddodd 51 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, a chanolbwyntiodd cyfran fawr o'r ymatebwyr ar yr angen am Orsaf Maes Glas. Roedd ymatebion eraill yn cynnwys llwybrau a gorsafoedd newydd a awgrymwyd.

Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio: Rhoddodd 24 o ymatebwyr eu barn ar y pwnc hwn; roedd y themâu yn cynnwys cynnal a chadw parhaus, gwrthwynebiad i EV, dewisiadau amgen a awgrymwyd, a phryderon amgylcheddol.

Economaidd-gymdeithasol: Rhoddodd 35 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, gan ganolbwyntio ar dwristiaeth, awgrymu dewisiadau amgen, iechyd a llesiant a theithio i'r gwaith.

Uchelgeisiau Ffyrdd Strategol: Rhoddodd 29 ymatebydd eu barn ar y pwnc hwn; awgrymodd mwyafrif yr ymatebwyr ddewisiadau amgen gan gynnwys llwybrau penodol, mathau o lwybrau ac uwchraddio ffyrdd presennol.

Mynediad ar y ddaear at awyrennau: Rhoddodd saith ymatebydd adborth ar y pwnc hwn; dywedodd tri o'r ymatebwyr y dylai agor maes awyr Ynys Môn fod yn flaenoriaeth, a dywedodd un na ddylid gwella mynediad i'r meysydd awyr. Roedd sylwadau eraill yn canolbwyntio ar gefnogaeth gyffredinol ac amlder trafnidiaeth gyhoeddus.

Gweledigaeth ac Amcanion : Rhoddodd 24 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gyda themâu allweddol yn cynnwys heriau trafnidiaeth presennol, dewisiadau amgen a awgrymwyd a chyllid.

Cerdded, olwyno a beicio: Rhoddodd 29 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gyda themâu allweddol yn cynnwys pryderon diogelwch, iechyd a llesiant, a chyllid.

3.7 Ymateb i'r Ymgyrch

Drwy gydol yr ymgynghoriad, derbyniwyd 1,421 o ymatebion i'r ymgyrch gan Ymddiriedolaethau Natur Cymru yn gwrthwynebu Coridor yr A494/A55/Sir y Fflint, y cyfeirir ato fel y 'Llwybr Coch'. Roedd pob ymateb i'r ymgyrch a dderbyniwyd yn debyg iawn oherwydd templed e-bost ymgyrch a

hyrwyddwyd ar wefan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru[2]. Mae'r holl ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi'u hystyried.

Roedd yr ymateb i'r ymgyrch fel arfer yn darllen fel a ganlyn:

Derbyniwch hwn fel fy ngwrthwynebiad i Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft Gogledd Cymru ynglŷn â'i gyfeiriad at yr A494/A55/Coridor Sir y Fflint y cyfeirir ato'n aml fel y Llwybr Coch.

[Testun wedi'i deilwra/ testun unigryw]

Rwy'n gwrthwynebu cynnwys y cynllun priffyrdd newydd hwn yn y rhestr o 'ddyheadau' a nodir ym mharagraff 2 o dudalen 39 o'r ddogfen ymgynghori, am y rhesymau a ganlyn:

- *Byddai'r ffordd ddeuol yn dinistrio ardaloedd helaeth o fywyd gwyllt cyfoethog ac unigryw Sir y Fflint, gan gynnwys er enghraifft, coetir hynafol Leadbrook a'r glaswelltir sy'n gyfoethog o rywogaethau.*
- *Byddai'r brifffordd newydd yn creu traffig newydd, a byddai'r cynnydd mewn allyriadau carbon o ganlyniad, gan gynnwys allyriadau sy'n gysylltiedig ag adeiladu, yn peri niwed difrifol i frwydr Cymru yn erbyn newid hinsawdd.*
- *Nid oes angen y prosiect. Byddai datblygiadau diweddar mewn technoleg traffig SMART, mân waith priffyrdd 'ar-lein' nad ydyw'n cynnwys adeiladu priffyrdd newydd, ynghyd â gwell trafnidiaeth gyhoeddus a llesol yn mynd yn bell iawn tuag at fynd i'r afael ag unrhyw faterion tagfeydd, ar ffracsiwn fechan o gost a chyllideb garbon y Llwybr Coch.*
- *Mae'r gost eisoes wedi mynd allan o reolaeth – amcangyfrifodd diweddariad diwethaf cyllideb y Llywodraeth yn 2019 fod cost y Llwybr Coch yn £300m. Byddai'r gost, pe bai'r Llwybr Coch yn mynd rhagddo nawr, yn £5700m, cynnydd o £207m neu 70%. Mae'n debyg bod hyd yn oed y symiau anferth hyn wedi eu tanamcangyfrif.*
- *Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi bod Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol i fod i ganolbwyntio ar wneud y defnydd gorau o'r isadeiledd trafnidiaeth presennol a helpu i ddileu'r cymhelliant dros ddefnyddio ceir, felly mae cynnwys y Llwybr Coch fel dyhead yn mynd yn groes i gylch gorchwyl y cynllun.*

Felly, os gwelwch yn dda dilëwch y Llwybr Coch o'r rhestr o gynlluniau 'dyheadol' a nodir yng Nghynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft Gogledd Cymru.

[Enw a chod post]

Lle cynhwyswyd testun wedi'i deilwra/unigryw, roedd themâu cynnwys cyffredin yn cynnwys pryderon am y 'Llwybr Coch' mewn perthynas â:

- Llesiant, meddyliol a chorfforol.
- Cynnydd mewn perygl llifogydd.
- Effaith amgylcheddol a bioamrywiaeth.
- Effaith ar goetir hynafol.
- Yr argyfwng hinsawdd.
- Cost y llwybr.

[2] home page | North Wales Wildlife Trust

- Bod y cynlluniau yn anghyfiawn.

Nid rôl Uchelgais Gogledd Cymru yw lobïo dros y Llwybr Coch, fodd bynnag, swyddogaeth y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yw darparu opsiynau i fynd i'r afael â phroblemau trafnidiaeth ar yr SRN drwy Sir y Fflint, gogledd Cymru a thu hwnt. Mae'r pwynt hwn wedi'i egluro gyda diweddariadau i'r cynlluniau.

Dylid nodi bod Ymddiriedolaethau Natur Cymru wedi cyflwyno ymateb manwl unigryw i'r ymgynghoriad, a gafodd ei ystyried a'i ystyried ar wahân, ac ymatebwyd iddo hefyd gyda themâu allweddol a nodwyd yn Atodiad 6.

3.8 Ymatebion sefydliadol

Ochr yn ochr ag ymatebion unigol i'r ymgynghoriad, nodwyd bod ymatebion hefyd yn cynrychioli sefydliadau fel a ganlyn (efallai na fydd y rhestr yn gynhwysfawr):

1. Bwrdd Teithio Llesol
2. Ynni Carbon Lleol Uchelgais Gogledd Cymru
3. Cyngor Dinas Bangor
4. Prifysgol Bangor
5. Cyngor Tref Caernarfon
6. Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer
7. CIHT Cymru
8. Cymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol (CTA)
9. Crafty Jo (manwerthwr)
10. Cycling UK
11. Darwin Gray (cwmni cyfreithiol)
12. Cyngor Sir Ddinbych
13. Comisiwn Dylunio Cymru
14. Cymdeithas Cerbydau Trydan
15. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
16. FI Real Estate Management
17. Cyfeillion y Ddaear Rhuthun
18. Cyngor Gwynedd
19. Cyngor Tref Treffynnon
20. Sefydliad y Peirianwyr Sifil (ICE) Cymru
21. Cyngor Sir Ynys Môn
22. Cyngor Cymuned Llanddaniel
23. Cyngor Cymuned Llanengan
24. Logistics UK
25. M-SParc
26. Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
27. Cyngor Cymuned Llaneurgain
28. Cyfoeth Naturiol Cymru
29. RML Consult (Richards, Moorehead & Laing Ltd)
30. RNIB Cymru
31. Snowdonia Hub
32. Dileu'r Llwybr Coch (Stamp Out The Red Route) ac Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (ymateb ar y cyd)
33. Sustrans
34. Cymdeithas Eryri
35. Trafnidiaeth i'r Gogledd
36. Vision Support
37. Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Mae'r rhestr hon yn helpu i ddangos yr amrywiaeth eang o ddiddordebau sy'n cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ac yn cynrychioli'r economi, y gymdeithas, y diwylliant a'r amgylchedd yng ngogledd Cymru a thu hwnt.

4. Sut mae adborth wedi'i ystyried

Mae'r holl adborth wedi'i ystyried yn ofalus, gan lywio'r NWRTP terfynol a'i ddogfennau ategol.

Er mwyn helpu i ddangos sut mae adborth wedi'i ystyried, mae pynciau adborth wedi'u grwpio ac ymatebion wedi'u darparu mewn dull ‘Fe Wnaethoch Chi Ddweud, Fe Wnaethon Ni Wneud’, sydd i'w weld yn Atodiad 6. Lle mae'r NWRTP neu unrhyw un o'i ddogfennau ategol wedi'u diwygio i fynd i'r afael ag adborth, eglurir hyn yn yr ymatebion a ddarparwyd.

Fel y nodir yn adran 1.2, mae Datganiad Ôl-fabwysiadu ar gyfer yr IWBA wedi'i baratoi ochr yn ochr â'r Adroddiad Ymgynghori hwn ac ar wahân iddo, sy'n esbonio sut mae'r adborth wedi siapio'r IWBA a sut mae'r IWBA wedi llywio dogfennau'r NWRTP yn unol â hynny (yn unol â'r SEA a'r gweithdrefnau cysylltiedig).

Mae'r NWRTP a'r dogfennau ategol yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, a phan gaiff ei rhoi bydd yn arwain at y cynlluniau yn cael eu mabwysiadu a'u cyhoeddi gan Uchelgais Gogledd Cymru.

A.1 Holiadur Ymgynghori (Cymraeg a Saesneg)

Ymgynghoriad ar Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft Gogledd Cymru

Holiadur

Mae'r ymgynghoriad yn rhedeg o 20 Ionawr 2025 am 12 wythnos. Anfonwch eich ymateb atom erbyn 23:59pm ar 14 Ebrill 2025.

Dweud eich dweud

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn ceisio'ch barn ar Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol arfaethedig Gogledd Cymru a'i ddogfennau ategol, sy'n cynnwys cynllun monitro a gwerthuso, cynllun cyflawni ar gyfer cynlluniau awdurdodau lleol, ac arfarniad llesiant integredig.

Gallwch weld ein cynlluniau ac ymateb i'n hymgynghoriad drwy lenwi holiadur ar-lein, sydd ar gael yn ein hystafell arddangos rithwir yma: **https://northwalesregionaltransportplan.virtual-engage.com/**

Fel arall, gallwch e-bostio ymatebion i **northwalesregionaltransportplan@arup.com**

Neu, ysgrifennwch atom a phostiwch gopïau argraffedig o'r holiadur at:
FREEPOST UGC / ANW

Os hoffech siarad â ni am ein cynlluniau, gallwch hefyd ein ffonio ar: **01172 405 350**

Gellir darparu copïau papur neu amgen i chi ar gais drwy anfon e-bost atom neu adael neges i ni ar ein gwasanaeth ffôn (manylion uchod).

Byddwn yn ystyried yr holl adborth a gawn yn ofalus, a fydd yn cael ei ddefnyddio i ddiweddaru a chwblhau ein cynlluniau. Ein nod yw cyhoeddi a mabwysiadu ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn Haf 2025.

Amdanoch chi

Mae'n ddewisol i chi ddarparu'r wybodaeth isod ond trwy ddarparu'r data hwn i ni, bydd yn ein helpu i ddeall pwy sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn, a fydd yn rhoi cipolwg p'un a yw'r sylwadau a dderbynnir yn gynrychioliadol o'r gymuned yng Ngogledd Cymru. Bydd hefyd yn ein helpu i ystyried sut i gynnal ymgynghoriadau tebyg yn y dyfodol. Byddwn ond yn defnyddio'r wybodaeth hon i gysylltu â chi os oes gennym unrhyw faterion technegol annisgwyl gyda'ch ymatebion.

Os nad ydych am gwblhau'r rhan hon o'r ffurflen, rhowch eich cod post i ni yn unig, a fydd yn ein helpu i ddeall o ble mae pobl yn cael dweud eu dweud.

Cod post

Enw Cyntaf / Cyfenw

Oedran

☐ o dan 25 ☐ 25-39 ☐ 40-60 ☐ 60+

Rhyw

☐ gwryw ☐ benyw ☐ anneuaidd

☐ well gennyf hunan-ddisgrifio ☐ mae'n well gen i beidio â dweud

arall

Ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?

☐ Ydw ☐ Nac ydw

Ydych chi mewn cyflogaeth?

☐ Ydw ☐ Nac ydw

Ydych chi mewn addysg neu hyfforddiant?

☐ Ydw ☐ Nac ydw

Cyfeiriad e-bost

Diogelu data

Mae Arup yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar ran Uchelgais Gogledd Cymru. Gellir gweld polisi data Uchelgais Gogledd Cymru yma: Diogelu data (llyw.cymru) . Mae Arup yn gweithredu fel Prosesydd Data ar ran Uchelgais Gogledd Cymru. Ar ddiwedd yr ymgynghoriad mae'r holl wybodaeth bersonol yn cael ei throsglwyddo i Uchelgais Gogledd Cymru. Nid yw gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw y tu hwnt i'r cyfnod hwn. Pan fyddwn yn storio eich gwybodaeth dros dro, caiff ei storio'n ddiogel yn ein hisadeiledd cwmwl sydd wedi'i leoli yn yr UE.

Bydd eich adborth gan gynnwys unrhyw sylwadau yn ddienw ac yn cael ei ddefnyddio i'n helpu i gwblhau ein cynigion. Gellir llunio cofnod o sylwadau y gellid eu cyhoeddi. Ni ellir priodoli sylwadau i unrhyw unigolyn neu sefydliad os bydd hyn yn digwydd.

Cwestiynau

Mae'r holl gwestiynau yn ddewisol.

1. Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

B. I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r weledigaeth a'r amcanion a nodir yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft?

- Cefnogi'n gryf
- Cefnogi
- Niwtral
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

C. I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r polisïau a'r ymyraethau a nodir yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft?

- Cefnogi'n gryf
- Cefnogi
- Niwtral
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

D. Dywedwch wrthym beth yw eich barn am ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft neu gwnewch awgrymiadau eraill yma . . .

2. Cynllun Monitro a Gwerthuso

A. I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r dull a ddilynwyd gennym yn ein Cynllun Monitro a Gwerthuso drafft?

- Cefnogi'n gryf
- Cefnogi
- Niwtral
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

B. Dywedwch wrthym beth yw eich barn am ein Cynllun Monitro a Gwerthuso drafft neu gwnewch awgrymiadau eraill yma . . .

3. Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol

A. I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r dull a ddilynwyd gennym yn ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft?

- Cefnogi'n gryf
- Cefnogi
- Niwtral
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

B. Dywedwch wrthym beth yw eich barn am ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft neu gwnewch awgrymiadau eraill yma . . .

4. Arfarniad Llesiant Integredig

A. I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r dull a ddilynwyd gennym yn ein Hasesiad Llesiant Integredig drafft?

- Cefnogi'n gryf
- Cefnogi
- Niwtral
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

B. Dywedwch wrthym beth yw eich barn am ein Harfarniad Llesiant Integredig drafft neu gwnewch awgrymiadau eraill yma . . .

5. Unrhyw sylwadau eraill

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am yr ymgynghoriad hwn neu ein cynigion?

Consultation on the draft North Wales Regional Transport Plan Questionnaire

The consultation runs from 20th January 2025 for 12 weeks. Please submit your response to us by 23:59pm on 14th April 2025.

Have your say

Ambition North Wales are seeking your views on the proposed Regional Transport Plan for North Wales and its supporting documents, which include a monitoring and evaluation plan, delivery plan for local authority schemes, and an integrated well-being appraisal.

You can view our plans and respond to our consultation by completing a questionnaire online, available in our virtual exhibition room here: **https://northwalesregionaltransportplan.virtual-engage.com/**

Alternatively, you can email responses to **northwalesregionaltransportplan@arup.com**

Or, write to us and post printed copies of the questionnaire to: **FREEPOST UGC / ANW**

If you'd like to speak to us about our plans, you can also call us on: **01172 405 350**

Paper or alternative copies can be provided to you on request by emailing us or leaving us a message on our telephone service (details above).

We will carefully consider all the feedback we receive, which will be used to update and finalise our plans. We are aiming to publish and adopt our Regional Transport Plan in the Summer 2025.

About you

The following information is optional for you to provide, but by providing us with this data it will help us to understand who has participated in this consultation, which will provide insight on whether comments received are representative of the community in North Wales. It will also help us to consider how to undertake similar consultations in the future. We would only use this information to contact you should we have any unforeseen technical issues with your responses.

If you do not want to complete this section of the form, please only provide us with your postcode, which will help us understand from where people are having their say.

Postcode

First Name / Last Name

Age

☐ under 25 ☐ 25-39 ☐ 40-60 ☐ 60+

Gender

☐ male ☐ female ☐ non-binary

☐ prefer to self-describe ☐ prefer not to say

other

Do you consider yourself to be disabled?

☐ Yes ☐ No

Are you in employment?

☐ Yes ☐ No

Are you in education or training?

☐ Yes ☐ No

Email address



Data protection

Arup is undertaking a public consultation on the North Wales Regional Transport Plan on behalf of Ambition North Wales. Ambition North Wales's data policy can be found here: Data protection (llyw.cymru). Arup act as a Data Processor on behalf of Ambition North Wales. At the end of the consultation all personal information is transferred to Ambition North Wales. Personal information is not retained beyond this time. When we do temporarily store your information, it is stored securely in our cloud infrastructure located within the EU.

Your feedback including any comments will be anonymised and used to help us finalise our proposals. A record of comments may be produced that could be published. Comments will not be made attributable to any individual or organisation if this happens.

Questions

All questions are optional.

1. Regional Transport Plan

B. To what extent do you support the vision and objectives set out in our draft Regional Transport Plan?

- Strongly support
- Support
- Neutral
- Disagree
- Strongly disagree

C. To what extent do you support the policies and interventions set out in our draft Regional Transport Plan?

- Strongly support
- Support
- Neutral
- Disagree
- Strongly disagree

D. Please tell us what you think about our draft Regional Transport Plan or make alternative suggestions here . . .

2. Monitoring and Evaluation Plan

A. To what extent do you support the approach we have taken to our draft Monitoring and Evaluation Plan?

- Strongly support
- Support
- Neutral
- Disagree
- Strongly disagree

B. Please tell us what you think about our draft Monitoring and Evaluation Plan or make alternative suggestions here . . .

3. Regional Transport Delivery Plan

A. To what extent do you support the approach we have taken to our draft Regional Transport Delivery Plan?

- Strongly support
- Support
- Neutral
- Disagree
- Strongly disagree

B. Please tell us what you think about our draft Regional Transport Delivery Plan or make alternative suggestions here . . .

4. Integrated Well-being Appraisal

A. To what extent do you support the approach we have taken to our draft Integrated Well-being Appraisal?

- Strongly support
- Support
- Neutral
- Disagree
- Strongly disagree

B. Please tell us what you think about our draft Integrated Well-being Appraisal or make alternative suggestions here . . .

5. Any other comments

Do you have any other comments about this consultation or our proposals?

Hawdd ei Ddeall

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

Ein cynllun ar gyfer trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru

Ffurflen ymateb



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Uchelgais Gogledd Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Ymgynghoriad ar Holiadur drafft Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru**'.

Mawrth 2025

Am y ffurflen ymateb yma

Dyma ffurflen ymateb hawdd ei ddeall. Efallai y byddwch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu chi.




Darllenwch "Ein cynllun ar gyfer trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru". Ac yna atebwch y cwestiynau yn y ffurflen ymateb yma.



Anfonwch eich atebion i ni erbyn: **14 Ebrill 2025**.




Rydych chi'n gallu e-bostio'r ffurflen at: northwalesregionaltransportplan@arup.com



Neu ei bostio i: **FREEPOST UGC / ANW**



Fe fyddwn ni'n gwrando ar beth mae pobl yn ei ddweud.



Yna fe fyddwn ni'n gwneud cynllun terfynol yn haf 2025.

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhiftrwydded Photosymbols 4035272477


Cwestiynau amdanoch chi



Does dim rhaid i chi ateb y cwestiynau amdanoch chi. Ond fe fydd yn ein helpu i ddysgu mwy am bwy sy'n cymryd rhan.

Dywedwch wrthyn ni beth ydy eich:

Cod post:



Enw Llawn:



Oed:



Rhyw:



Cyfeiriad ebost:





Ydych chi'n cyfrif eich hun yn anabl?

☐ Ydw

☐ Nac ydw



Oes gennych chi swydd?

☐ Oes

☐ Nac oes




Ydych chi mewn addysg neu hyfforddiant?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

Cwestiynau am y cynllun



1. Faint ydych chi'n cytuno â'r newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud yn y cynllun?

- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno
- ☐ Dim un ohonyn nhw
- ☐ Anghytuno
- ☐ Anghytuno'n gryf



2. Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y cynllun. Ac unrhyw syniadau sydd gennych chi:



3. Ydych chi'n cytuno â sut fyddwn ni'n edrych dros y cynllun?

- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno
- ☐ Dim un ohonyn nhw
- ☐ Anghytuno
- ☐ Anghytuno'n gryf



4. Dywedwch wrthyn ni am unrhyw farn neu syniadau sydd gennych chi am edrych dros y cynllun yma:



5. Oes yna unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud am y cynllun?

Sut rydyn ni'n edrych ar ôl eich gwybodaeth bersonol



Mae cwmni o'r enw Arup yn rheoli'r holiadur yma i ni.



Fydd eich gwybodaeth breifat ddim yn cael ei rhannu ag unrhyw un arall. Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod eich gwybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel ac yn breifat.



Fyddwn ni ddim yn rhannu eich gwybodaeth bersonol gyda'ch atebion i'r cwestiynau.



Cysylltwch â ni os ydych chi eisiau rhagor o wybodaeth am hyn. Rydych chi'n gallu:

Ffôn: 01172 405 350

Neu ebostiwch:
northwalesregionaltransportplan@arup.com

Easy Read

Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

Our plan for transport in North Wales

We want to know what you think








This document was written by the **Ambition North Wales**. It is an easy read version of '**North Wales Regional Transport Plan**'.

March 2025

How to use this document

This is an easy read document. You may still need support to read it. Ask someone you know to help you.

Where the document says **we**, this means **Ambition North Wales.** For more information contact:

Website: Ambition North Wales | North Wales Regional Transport Plan (draft) - Public Consultation

Email: northwalesregionaltransportplan@arup.com

Phone: 01172 405 350

Easy Read Wales made this document into Easy Read using **Photosymbols**. To tell us what you think about this easy read version, click here.

Photosymbols Licence number 403527247

Contents

About this plan **4**

What we want to change **6**

Changes to trains 7

Trunk roads 8

Bus 9

Coach and community transport 10

Walking, wheelchairs and cycling 11

Ports and freight 12

Roads, streets and parking 13

Access to airports 14

Digital connection 15

Travel behaviour 17

Better connections 18

Planning 18

Checking this plan **19**

Have your say **20**

About this plan

We are **Ambition North Wales**.



We are made up of the 6 councils in North Wales. And some universities and colleges.




We have worked together to make this plan.



It is really important that people can get around easily in North Wales. For example, it should be easy for people to:

- get to work,
- go to school,
- go shopping
- and many other things.



We have made this plan to improve transport in North Wales.



It says what needs to be done in the next 5 years.



We would like to know what you think about this plan.

What we want to change



We want it to be safer to walk, cycle, use wheelchairs and use public transport.



We want public transport to be cheaper.



We want buses and trains to run more often and on time.



We want buses and trains to be better for the environment.



We want it to be easier to plan journeys using the internet and phones.



Some of the changes we want to make are:

Changes to trains



Railways in North Wales are run by the UK Government. So local councils have no control over them.



But we would like to see these things improved:

- North Wales Main Line and Chester Station
- Borderlands Line and Padeswood
- Shotton Station Interchange
- New Station at Deeside Industrial Park
- Shrewsbury – Wrexham – Chester Line
- Conwy Valley and Cambrian Coast Lines

Trunk roads



This means really large, main roads. They connect places to make it easier for people to travel long distances, and to deliver goods.

We do not control these roads. But we would like to see:



- The roads improved. So they are safer and less busy.



- Better connections across the Menai Strait.

Bus




We want buses to be better for the environment.



We want more buses going to more places.



There should be buses at least every hour between main towns. From 7am to 10pm.



Buses should connect villages to large towns at least 3 times a day.



We will support the Welsh Government with how bus services are managed.

Coach and community transport



Coaches can be useful for long trips. And for routes buses do not cover.



We support the services called '**Fflecsi**' and '**Ring and Ride**'. These are transport services that can pick you up and drop you off in places more easier for you.



We want '**Sherpa'r Wyddfa**' to keep going. This is a bus service that travels around Yr Wyddfa. We want this service to connect with other buses and trains better.



We want more coach services between towns and cities where there are no trains.

Walking, wheelchairs and cycling



We want it to be easier to do these things.

We want to see changes like:



- Make it quicker and safer to do these things



- Support hiring bikes and other equipment in a safe way. And that people can afford.

Ports and freight



This is about moving products by ships and lorries.

Some of the changes we want to see are:



- Improve ports and have more jobs there



- Make services for drivers of big lorries safer and easier



- Improve using clean fuel. For example, electric vehicles



- Use more railways to move products. This is better for the environment.

Roads, streets and parking



We want people to travel in ways that are cleaner for the environment.



But we know many journeys still need to be made by car. For example, in countryside areas.



We want roads to be safe and in good condition.



We will help people think about greener ways of travelling. This means travel that is better for the environment.



We want our streets and areas to feel safe. We will look into our car parks and costs.



We will support car sharing schemes. This is where people travelling to the same place, travel together in 1 car.

Access to airports



There are 3 large airports close to North Wales. They are in Liverpool, Manchester and Birmingham.



There is also Anglesey Airport for short flights.



We want to make it easier to travel to airports.

Digital connection



The Welsh Government wants many more people to work away from their office.



This will help reduce traffic and pollution.



	Mae rhai ymatebwyr yn annog ymrwymiad i hygyrchedd a chynhwysiant fel rhan o'r datganiad gweledigaeth. Byddai hyn yn adlewyrchu cryfderau'r Amcanion, gyda ffocws clir ar 'wella hygyrchedd a dewis trafnidiaeth.' Argymhellir bod yr holl Amcanion yn ystyried anghenion pobl anabl, gan gynnwys pobl ddall ac sy'n gweld yn rhannol, trwy ychwanegu manylion ar integreiddio technolegau cynorthwyol a nodweddion hygyrchedd corfforol. Bydd hyn yn galluogi ac yn helpu pawb i symud o gwmpas rhwydwaith trafnidiaeth gwell ac integredig yng Ngogledd Cymru.	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru i gryfhau ymrwymiad Uchelgais Gogledd Cymru i hygyrchedd a chynhwysiant fel rhan o'i ddatganiad gweledigaeth. Cyfeiriwyd ymhellach at integreiddio technolegau cynorthwyol a nodweddion hygyrchedd ffisegol yn adran cysylltedd digidol y cynllun i helpu pawb i symud o gwmpas rhwydwaith trafnidiaeth gwell ac integredig yng Ngogledd Cymru.
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y byddai'n ddefnyddiol manylu ar sut mae amcanion yn gweithio i gyflawni'r weledigaeth ac i osod mwy o amcanion SMART (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol) ar gyfer pob maes polisi. Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at Amcan 4 fel un sy'n arbennig o amwys, a bod y datganiad 'mwy o ystod o deithio o fewn 1 awr' yn cael ei ystyried yn un nad yw'n uchelgeisiol nac yn fesuradwy.	Mae ein pedwar amcan CAMPUS wedi'u datblygu ymhellach i 15 uchelgais cychwynnol y cytunwyd arnynt gydag awdurdodau lleol Gogledd Cymru, a manylir arnynt yn yr Achos dros Newid. Maent yn adlewyrchu'r targedau cenedlaethol ar gyfer newid dulliau teithio a datgarboneiddio trafnidiaeth, a fydd yn helpu i sicrhau bod cynnydd a llwyddiannau ein rhanbarth yn cyfrannu'n gadarnhaol at ganlyniadau cenedlaethol. Mae ein hamcanion yn llywio ein Cynllun Monitro a Gwerthuso, sy'n cyd-fynd â'r amcanion cenedlaethol a rhanbarthol cyffredinol ar gyfer trafnidiaeth i helpu i sicrhau ei fod yn cyfrannu at eu cyflawni, gan ystyried pob maes polisi gyda chyfres o fesurau a dangosyddion.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
Uchelgeisiau'r rheilffyrdd	Mae rhai ymatebwyr yn argymell bod y cynlluniau yn ystyried pwysigrwydd Rhaglen Trawsnewid Manceinion a'r Gogledd Orllewin / Tasglu Manceinion i ddatgloi tagfeydd ym Manceinion, fel galluogwr i ddarparu mwy o gysylltiadau rheilffyrdd rhanbarthol â Gogledd Cymru. Awgrymir bod y cynlluniau yn cyfeirio at raglen TriLink i adnewyddu Prif Lein Arfordir y Gorllewin i'r gogledd o Crewe. Awgrymir bod ymrwymiadau i Lein y Gororau yn cyd-fynd ag uchelgais Dinas-ranbarth Lerpwl (LCR) ar gyfer gorsaf newydd yn Woodchurch, ac y byddai gorsaf newydd yn Daresbury hefyd yn cynnig manteision i Ogledd Cymru. Awgrymir hefyd bod LCR hefyd yn cefnogi gorsaf newydd ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.	Caiff rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol Gogledd Cymru ei reoli a'i gynnal gan Network Rail, gyda gwasanaethau teithwyr yn cael eu gweithredu gan Drafnidiaeth Cymru ac Avanti West Coast. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod pwysigrwydd cysylltedd trawsffiniol rhwng Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr, ac mae'r awgrymiadau defnyddiol hyn wedi'u hystyried a'r cynlluniau wedi'u diweddaru yn unol â hynny fel rhan o uchelgeisiau'r rheilffyrdd. Mae Cyngor Sir y Fflint yn cefnogi'r sylwadau ar gyfer gorsaf newydd ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy ar Lein y Gororau.
	Mae rhai ymatebwyr yn ystyried yr angen i Ddyhead Rheilffyrdd 9 flaenoriaethu eto y capasiti a'r gwelliannau i'r gwasanaeth ar Lein Dyffryn Conwy a Lein Arfordir y Cambrian, i fynd i'r afael â risgiau gwasanaeth gwledig ac anfanteision economaidd. Awgrymir bod y cynllun yn flaenoriaeth rhy isel ac wedi methu rhoi diffiniad penodol o'r uchelgais o ran ehangu amlder gwasanaethau trên Lein Arfordir y Cambrian neu Lein Dyffryn Conwy.	Nid yw'r cynlluniau i flaenoriaethu capasiti a gwella'r gwasanaeth ymhellach ar Lein Dyffryn Conwy a Lein Arfordir y Cambrian wedi'u cynnwys ym Mlaenoriaethau'r Bwrdd Rheilffyrdd na'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol. Er nad oes unrhyw waith achos busnes wedi'i wneud i nodi'r lefelau gwasanaeth sy'n cael eu ffafrio, bydd Trafnidiaeth Cymru yn parhau i fonitro lefelau'r cymorth a'r cyllid posib. Bydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn helpu i barhau i ymgysylltu â Trafnidiaeth Cymru, gan geisio sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yng Ngogledd Cymru yn diwallu anghenion ei chymunedau o safbwynt oriau gweithredu ac amlder. O ran bysiau, mae gwasanaethau yn destun adolygiad parhaus a bydd unrhyw welliannau sy'n amodol ar gyllid yn parhau i gael eu hystyried gan Gyngor Gwynedd.
	Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at yr angen am fwy o wasanaethau sy'n amlach a threnau (neu fysiau) hwyrach ar gyfer cymudwyr, yn enwedig rhai sy'n cysylltu Tywyn, Aberdyfi a Machynlleth.	

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod y cynllun yn iawn i gydnabod y gwelliannau yng Ngorsaf Caer sy'n unol â'r cynigion ar gyfer Porth Dinas Caer, ac yn cefnogi'r dyheadau ar gyfer gwelliannau i Lein y Gororau -gan gynnwys darparu gwasanaethau uniongyrchol i Lerpwl - a fyddai'n darparu manteision sylweddol i drigolion Gorllewin Swydd Gaer a Chaer yn Neston a Parkgate. Fodd bynnag, ceisir sicrwydd nad yw'r gwelliannau hyn yn arwain at effeithiau negyddol ar wasanaethau rheilffyrdd ar rwydwaith Merseyrail yng Ngorllewin Swydd Gaer a Chaer -mae grwpiau yn awyddus i weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gwelliannau posib ar Lein y Gororau a gwelliannau posibl o Hooton i Barc Busnes ORIGIN yn Ellesmere Port yn gydnaws â'i gilydd.	Mae Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid trawsffiniol i nodi'r atebion sy'n cael eu ffafrio i wella gwasanaethau ar Lein y Gororau a chynyddu capasiti yng ngorsaf Caer. Byddai penderfyniadau ar fanylion gwasanaeth yn y dyfodol o ran gwasanaethau Merseyrail i Gaer yn fater i Ranbarth Dinas Lerpwl a fyddai'n ymgynghori ar y rhain yn unol â'u gofynion a'u rhaglenni eu hunain.
	Mae rhai ymatebwyr yn nodi nad yw pont droed Gorsaf Rhiwabon erioed wedi'i newid am un newydd, a bod hyn i gynnwys mynediad i bobl anabl - sydd ar hyn o bryd yn atal mynediad a'r defnydd o wasanaethau, yn enwedig wrth deithio i'r gogledd neu ddod oddi ar y trên i'r de.	Mae dyluniad amlinellol ar gyfer cynllun Mynediad i Bawb yn Rhiwabon wedi'i gwblhau gyda Network Rail yn gweithio gyda phartneriaid i fynd drwy'r broses gymeradwyo a chaniatáu.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn mynegi pryder ynghylch y ffaith ei bod yn ymddangos fel bod gorsaf Maes Glas / Treffynnon wedi'i hepgor o'r cynlluniau. Mae rhai yn codi pryderon na wnaeth Trafnidiaeth Cymru gyflwyno Astudiaeth Trafnidiaeth Gogledd Sir y Fflint 2021 i'r Comisiwn Trafnidiaeth. Mae hepgor yr orsaf hon yn cael ei weld fel rhywbeth sy'n cael effaith negyddol ar adfywio lleol. Awgrymir bod Cyngor Tref Treffynnon yn mynegi cefnogaeth gref i Orsaf Maes Glas mewn argymhellion rheilffyrdd yn y dyfodol, gan nodi bod astudiaeth Cam 1 Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) wedi'i chwblhau, a bod Cymal 2 WelTAG wedi'i gwblhau gan mwyaf. Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu bod bwlch mewn mynediad i'r rheilffyrdd ar hyd arfordir y gogledd rhwng Prestatyn a'r Fflint heb yr orsaf, ac y byddai'r seilwaith presennol ym Maes Glas yn gofyn am ychydig o waith er mwyn dod ag ef yn ôl yn weithredol. Byddai hyn yn rhoi cyfle i deithio ar y trên i nifer fawr o bobl yn Nhreffynnon. Mae rhai ymatebwyr yn codi pryderon ynglŷn â blaenoriaethu prosiectau, gan awgrymu bod cynlluniau Metro Gogledd Cymru Trafnidiaeth Cymru wedi cael eu lleihau trwy hepgor gorsaf newydd ym Maes Glas.	Caiff rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol Gogledd Cymru ei reoli a'i gynnal gan Network Rail, gyda gwasanaethau teithwyr yn cael eu gweithredu gan Drafnidiaeth Cymru ac Avanti West Coast. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru i esbonio'r sefyllfa efo unrhyw gynlluniau ar gyfer gorsaf ym Maes Glas. Lle mae achos cryf dros orsafoedd neu seilwaith rheilffyrdd newydd a fydd yn gwella mynediad i'r rhwydwaith rheilffyrdd heb effeithio'n andwyol ar wasanaethau presennol ac yn annog teithio cynaliadwy, yna bydd Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r rhain. Bydd y gwaith hwn hefyd yn ystyried opsiynau ehangach ar gyfer cysylltu cymunedau yn well â gorsafoedd rheilffordd. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn parhau i ymgysylltu â Trafnidiaeth Cymru, gan gydnabod bod lleoliadau lle mae cefnogaeth leol ar gyfer gorsaf newydd yn cynnwys Maes Glas.
	Mae rhai ymatebwyr yn siomedig nad yw cynigion i wella'r seilwaith yn cael eu blaenoriaethu i'r gorllewin o Gyffordd Llandudno (RA4). Awgrymir bod hyn yn methu â bodloni'r dyheadau a nodir yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ac nad yw'n ystyried pwysigrwydd Gorsaf Reilffordd Caergybi a allai ddarparu ar gyfer teithwyr rhyngwladol i gysylltu eu taith ymlaen o/i Iwerddon â gweddill y DU neu hyd yn oed i Ewrop trwy Lundain ac i Borthladd Rhydd Ynys Môn.	Caiff rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol Gogledd Cymru ei reoli a'i gynnal gan Network Rail, gyda gwasanaethau teithwyr yn cael eu gweithredu gan Drafnidiaeth Cymru ac Avanti West Coast. Mae'r achos busnes dros welliannau gwasanaeth ar Brif Lein Gogledd Cymru yn nodi bod buddion yn gostwng, a bod costau'n cynyddu ymhellach i'r gorllewin. Fodd bynnag, byddai'r lefelau gwasanaethau a ffafrir a nodwyd yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn darparu gwasanaethau gwell ym

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod angen gwell cysylltiadau rhwng Cyffordd Llandudno a Llandudno o'r gorllewin.	mhob gorsaf rhwng Caergybi a Chaer ac mae gwaith uwchraddio wedi'i raglennu i helpu i sicrhau piblinell fforddiadwy o welliannau ledled Gogledd Cymru. Bydd y cynigion ar gyfer Porth Caergybi yn ei gwneud hi'n fwy hwylus i newid yn yr orsaf, ac yn ei gwneud hi'n haws cael mynediad i'r orsaf drwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, tra'n gwella'r amgylchedd lleol wrth y porth pwysig hwn i Gymru. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys polisïau ar wella mynediad i'r Porthladd Rhydd a Phorthladd Caergybi, a bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i helpu i nodi sut y gellir gwneud hyn. O ran cysylltiadau yng Nghyffordd Llandudno i Landudno o'r gorllewin, mae Trafnidiaeth Cymru wedi awgrymu ei bod yn annhebygol y byddai datrysiad seilwaith yn fforddiadwy neu'n ymarferol.
	Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod uchelgeisiau gorsaf Bangor yn aneglur, gan awgrymu bod cyfle i greu Hwb trafnidiaeth deinamig a safonol sy'n cynnig opsiynau clir a rhwydd i deithio yn eich blaen, yn ogystal â chyfeirio pobl i'r cyfeiriad cywir ar gyfer ardaloedd i ymweld â nhw a sut i wneud hyn yn gynaliadwy.	Bydd cynigion Porth Bangor, a ddatblygwyd gan Trafnidiaeth Cymru mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd, yn creu cyfnewidfa drafnidiaeth deinamig o ansawdd uchel. Bydd manylion yn dod i'r amlwg wrth i'r cynigion fynd rhagddynt.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at yr angen i gynyddu amlder ac argaeledd gwasanaethau trên yn y lleoliadau canlynol: • Gwasanaeth trên bob awr rhwng Crewe a Llandudno i wella'r cysylltiad. • Wrecsam i Gaerdydd, gan ei bod ar hyn o bryd yn gyflymach ac yn haws teithio i Lundain. • Porthladd Caergybi, ar gyfer gweithwyr sy'n gweithio shifftiau cynnar. • Treffynnon i Gaer. • Cysylltu Caernarfon â'r rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol er mwyn cael cysylltiadau gorllewin/de sy'n fwy cyfleus.	Mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymgymryd â gwaith achos busnes i helpu i adnabod y patrymau gwasanaeth mwyaf effeithiol ar Brif Lein Gogledd Cymru. Mae hyn wedi bwydo i'r dyheadau lefel gwasanaeth sy'n cael eu nodi yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae astudiaethau wedi'u cynnal ar gysylltu Caernarfon fel rhan o astudiaethau llwybrau ehangach. Er y gallai fod peth mantais yn hyn o beth wrth ddarparu cyswllt rheilffordd uniongyrchol i Gaernarfon, mae'n gymhleth ac yn annhebygol o gael ei flaenoriaethu yn y tymor canolig. Fodd bynnag, mae gan y dref gysylltiadau bws uniongyrchol â gorsaf Bangor ar Brif Lein Gogledd Cymru, a Phorthmadog a Machynlleth ar Lein y Cambrian drwy'r gwasanaeth Traws T2. Mae amseroedd teithio Wrecsam i Gaerdydd a Llundain yn debyg. Lle mae achos cryf dros orsafoedd neu seilwaith rheilffyrdd newydd a fydd yn gwella mynediad i'r rhwydwaith rheilffyrdd heb effeithio'n andwyol ar wasanaethau presennol ac yn annog teithio cynaliadwy, bydd Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r rhain. Bydd y gwaith hwn hefyd yn ystyried opsiynau ehangach ar gyfer cysylltu cymunedau yn well â gorsafoedd rheilffordd. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn parhau i ymgysylltu â Trafnidiaeth Cymru, gan gydnabod bod lleoliadau lle mae cefnogaeth leol ar gyfer gorsaf newydd yn cynnwys Treffynnon / Maes Glas ymhlith eraill.
	Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at gefnogi buddsoddiad mewn amserlenni trenau a gwella capasiti i wella gwasanaethau rheilffyrdd, yn enwedig ym Mhenarlâg a Shotton.	Nodwyd.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu yn lle canolbwyntio ar Lein Caer a'r Gororau, dylid rhoi blaenoriaeth i wneud gwelliannau i Lein Arfordir Gogledd Cymru gan mai hon yw'r brysuraf a'r un sydd angen ei gwella fwyaf. Mae'r ymatebwyr hefyd yn tynnu sylw at ddiffyg sylw i wella seilwaith rheilffyrdd ym Mangor er cydnabod mai dyma'r orsaf a ddefnyddir fwyaf yn y rhanbarth.	Caiff rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol Gogledd Cymru ei reoli a'i gynnal gan Network Rail, gyda gwasanaethau teithwyr yn cael eu gweithredu gan Drafnidiaeth Cymru ac Avanti West Coast. Mae Lein y Gororau yn darparu cyswllt pwysig o'r gogledd i'r de yn nwyrain ein rhanbarth. Mae'r potensial i ddarparu gwasanaethau uniongyrchol i Lerpwl yn rhoi cyfle sylweddol i gynyddu mynediad at swyddi i holl drigolion Gogledd Cymru ac yn cynyddu'r farchnad lafur i gyflogwyr yn ein rhanbarth. Mae Prif Lein Gogledd Cymru wedi derbyn buddsoddiad yn fwy diweddar na Lein y Gororau ac ni ellir cyflawni'r lefelau gwasanaeth a ddymunir heb waith i gynyddu capasiti yng Ngorsaf Caer, felly mae hyn yn allweddol i wella gwasanaethau rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru. Bydd y cynigion ar gyfer Porth Bangor yn hwyluso gwell cyfnewidfa yn yr orsaf, ac yn ei gwneud hi'n haws cael mynediad i'r orsaf drwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, tra'n gwella amgylchedd lleol yr orsaf sy'n cael ei defnyddio fwyaf yng Ngogledd Cymru.
	Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at ddiffyg trafodaeth yn y cynlluniau ynghylch llifogydd cyson ar lein Dyffryn Conwy a'r cyfyngiadau sylweddol y mae hyn yn eu creu ar gyfer ei dibynadwyedd.	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru i gydnabod pwysigrwydd gwytnwch a dibynadwyedd ar seilwaith Dyffryn Conwy/Arfordir y Cambrian.
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y dylai Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol Rhif 9 (Integreiddio â gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus strategol: Gwell mynediad i Orsaf Rhiwabon a Gorsaf Gwersyllt), gael ei restru ar wahân, gan eu bod ar wahanol leiniau ac y byddant yn cael eu cyflawni ar wahân.	Mae'r newid hwn wedi'i wneud i'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol ar ôl ymgysylltu â Thrafnidiaeth Cymru ar y mater hwn.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at yr angen am gysylltiadau cryf parhaus â Llundain a Gogledd-orllewin Lloegr fel blaenoriaeth yn y tymor hir i gysylltu pobl ymlaen o Ddulyn ac ar gyfer teithio busnes i'r rhai sy'n dewis preswylio ar yr Ynys [Ynys Môn] a byddai'n werthfawr iawn ar gyfer 'gweithio hybrid'. Yn hyn o beth, ymddengys bod Polisi PF1 yn groes i hyn lle mae'r polisi yn hyrwyddo blaenoriaethu cysylltiadau trafnidiaeth cynaliadwy â Chaergybi, ond nid yw'n ymddangos bod yr uchelgais i wella seilwaith yn ymestyn y tu hwnt i Gyffordd Llandudno. Yn yr un modd, nid yw cost teithio ar y trên (a gynyddwyd yn ddiweddar gan Trafnidiaeth Cymru) a'r diffyg gwasanaethau stopio yn y rhan fwyaf o orsafoedd ar Ynys Môn yn annog defnydd rheolaidd dros geir preifat.	Mae Trafnidiaeth Cymru wedi cytuno bod uchelgais i flaenoriaethu Crewe i Gyffordd Llandudno yn gywir gan mai dyna lle mae'r achos busnes ar ei gryfaf a byddai'n rhoi manteision i'r lein gyfan i Gaergybi. Mae Trafnidiaeth Cymru yn cydnabod bod y rhan(nau) i Gaergybi yn fwy heriol, ac mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru i gydnabod bod Bangor a Chaergybi yn ddyheadau tymor hwy gyda'r bwriad o archwilio rhaglen fforddiadwy o uwchraddio.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod diffyg ymrwymiad i ddiogelu'r hen aliniad rheilffordd o Benyffordd i'r Wyddgrug rhag datblygu - manylwyd ar hyn yn 'Ehangu'r Rhwydwaith Rheilffyrdd'9, sef yr Ymgyrch dros Drafnidiaeth Well yn 2019 - ble nodwyd bod y rheilffordd yn deilwng o gael blaenoriaeth i gael ei hailagor- gan weld bod hyn wedi'i hepgor yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft. Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu diffyg synergedd â Llwybr Newydd mewn perthynas ag ailddefnyddio leiniau rheilffordd segur. Cyfeiriodd un rhanddeiliad at y cyfle i ased Lein Amlwch gael ei ddefnyddio, gan awgrymu y gallai ailddefnyddio asedau rheilffyrdd segur (i'w defnyddio yn y dyfodol) greu economi ymwelwyr gadarnhaol ac ased cymunedol o'u hailagor.	Nid yw Trafnidiaeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw ddyheadau na gwaith sy'n cael ei wneud i ailagor yr hen aliniad rheilffordd o Benyffordd i'r Wyddgrug - a fyddai'n gynllun hirdymor y byddai angen uwchraddio signalau cyfan Lein y Gororau i gyflawni uwchraddiadau pellach. Ond, rhannwyd y sylw hwn â swyddogion cynllunio defnydd tir gyda'r bwriad o ystyried y pwynt fel rhan o'r Cynllun Datblygu Strategol a Chynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint. Argymhellodd Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru (NWTC) ddiogelu hen leiniau rheilffordd rhag cael eu datblygu yn y dyfodol, a datblygu llwybrau cerdded a beicio ar eu hyd lle bo hynny'n briodol, gyda gwasanaethau bws o ansawdd uchel i'r cymunedau ochr yn ochr â nhw, sy'n gyson â'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Cydnabu'r NWTC fod rhywfaint o ddiddordeb mewn adfer rheilffyrdd Amlwch – Gaerwen a Bangor – Porthmadog a daeth i'r casgliad nad dyma'r defnydd mwyaf effeithiol o arian cyhoeddus o'i gymharu â'r argymhellion eraill. Fodd bynnag, lle nad yw'r datblygiad wedi digwydd eisoes, mae'n ddoeth diogelu llwybrau rheilffordd blaenorol ar draws y rhanbarth. Roedd yn cefnogi creu cyswllt teithio llesol rhwng Amlwch a Llangefni yn unol â newid dulliau teithio carbon isel, teithio i'r gwaith a hamdden. Yn ogystal, argymhellodd y dylid cyflwyno llwybrau bysiau, wedi'u hintegreiddio â'r rhwydwaith rheilffyrdd, ar hyd coridorau Amlwch – Gaerwen a Bangor – Porthmadog. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi bod cyfle hefyd, mewn ardaloedd mwy gwledig, i ddefnyddio hen leiniau rheilffordd ar gyfer teithio llesol a threfi cysylltu - dylid eu harchwilio fel mesurau ategol i ddarparu'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu bod angen ailagor mwy o leiniau trenau a gorsafoedd, gan nodi'n benodol: • Bangor i Gaernarfon • Pwllheli i Fangor • Lein Nant Conwy • Gorsafoedd Porthaethwy, Plas Menai a/neu Gaerwen • Gorsafoedd Johnstown, Gresffordd a Marford • Lein ddolen o Lefel Uchel Shotton i Lein Ganol Gogledd Cymru (a fyddai hefyd yn caniatáu ar gyfer gwasanaethau trawsffiniol i Birmingham) • Trenau uniongyrchol o Gaergybi i Lime Street drwy Halton Curve (mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi bod gwasanaeth rheilffordd uniongyrchol i Lerpwl, ond nid yw hyn yn wir ar Brif Lein Gogledd Cymru) • Gorsaf yng Nglannau Dyfrdwy (i leihau traffig i'r gwaith) • Bangor i Afon Wen • Bangor i Langefni • Amlwch • Amwythig – Wrecsam – Caer • Y Waun – fel Gorsaf Borth (Polisi IN1)	Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys cynlluniau awdurdodau lleol sy'n ceisio gwella'r cysylltiad â gwasanaethau rheilffyrdd, er enghraifft gorsaf newydd ar gyfer Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy (datblygu gorsaf reilffordd newydd gyda llwybr bws cysylltiol) ochr yn ochr â dyheadau ar gyfer Amwythig, Wrecsam a Chaer. Lle mae achos cryf dros orsafoedd neu seilwaith rheilffyrdd newydd a fydd yn gwella mynediad i'r rhwydwaith rheilffyrdd heb effeithio'n andwyol ar wasanaethau presennol ac yn annog teithio cynaliadwy, bydd Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r rhain. Bydd y gwaith hwn hefyd yn ystyried opsiynau ehangach ar gyfer cysylltu cymunedau yn well â gorsafoedd rheilffordd.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
Uchelgeisiau ffyrdd strategol	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y gallai fod angen newid Dyhead SRN 3 sy'n darllen yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft "Dylai'r achos dros gyflwyno detholiad o gynlluniau priffyrdd strategol a oedwy", sy'n awgrymu bod cynlluniau y cyfeirir atynt wedi'u canslo gan Lywodraeth Cymru (fel rhan o'i Hadolygiad Ffyrdd). Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu ei bod yn ddryslyd cael SRN3 a RS1, cynnal a chadw asedau priffyrdd presennol, nad yw'n sôn am yr angen posibl am wella'r rhwydwaith priffyrdd.	Rhoddodd y Panel Adolygu Ffyrdd gyngor i Lywodraeth Cymru ar brosiectau ffyrdd a sut y dylem ystyried prosiectau ffyrdd yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon â'r drafftio presennol ac mae Dyhead SRN 3 yn cynnwys adolygiad o gyflawni rhai cynlluniau priffyrdd strategol, yn enwedig y rhai a all ddarparu manteision ehangach a gwella cyfleusterau. Mae hyn yn awgrymu canolbwyntio ar ail-werthuso prosiectau a dewisiadau amgen a allai gynnig gwelliannau sylweddol i'r rhwydwaith trafnidiaeth. Mae'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN) yng Ngogledd Cymru yn cael ei reoli a'i gynnal gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Llywodraeth Cymru, tra bod y rhwydwaith priffyrdd lleol – yn adran 'ffyrdd, strydoedd a pharcio' y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol - yn gyfrifoldeb i'n hawdurdodau lleol. Mae gwelliannau yn canolbwyntio mwy ar wydnwch y rhwydwaith yn hytrach na chapasiti.
	Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at yr angen i gynlluniau gael eu hadolygu trwy lens yr egwyddorion a nodir gan Adroddiad Adolygu Ffyrdd Cymru: Dyfodol buddsoddiad ffyrdd yng Nghymru.	

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn ystyried adeiladu mwy o gynlluniau cefnffyrdd ac ni fyddai trydedd pont dros y Fenai yn annog unrhyw newid mewn ddulliau teithio i ffwrdd o ddefnydd ffyrdd. Mae rhai o'r farn y byddai cynllun trydedd bont y Fenai yn gamgymeriad (heb eglurhad). Mynegodd eraill gefnogaeth i welliannau o'r fath, gan ystyried ei fod yn gyfle i Ynys Môn a Gogledd-orllewin Cymru ddatrys her drafnidiaeth ac economaidd. Mae rhai yn pwysleisio bod dyheadau ar gyfer newid isadeiledd trawsnewidiol gyda thrydedd pont y Fenai yn hanfodol i gadernid coridor yr A55 (llwybr Euro-22) - sef prif wythïen trafnidiaeth rhanbarth Gogledd Cymru ar gyfer cysylltedd rhyngwladol ag Iwerddon. Mae rhai yn pwysleisio'r effeithiau andwyol y mae cau pontydd yn ei gael ar lesiant economaidd a chymdeithasol trigolion.	Mae'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yng Ngogledd Cymru yn cael ei reoli a'i gynnal gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu nad oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig nac awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru ddylanwad uniongyrchol ar y rhwydwaith ffyrdd strategol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn yn nodi dyheadau rhanbarthol ar gyfer ffyrdd strategol gan fod y rhain yn allweddol i gefnogi ein dyheadau ehangach ar gyfer cysylltedd ehangach i Ogledd Cymru. Mae Dyhead SRN 4 a 5 yn ymwneud â gwytnwch croesi'r Fenai, gan gefnogi achos dros drydedd bont a phecyn o ymyriadau gan gynnwys gwella isadeiledd trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol, allwyryddion gwynt, gwelliannau wrth gyffyrdd, a mesurau rheoli traffig. Yn dilyn argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi bwrw ymlaen â'r gwaith ar yr argymhellion blaenoriaeth uchaf gan gynnwys gwelliannau i gyffyrdd ac aliniadau ffyrdd cerbydau, cyflwyno gwyfeirwyr gwynt i Bont Britannia a gwelliannau ar gyfer cerdded a beicio. Mae'r astudiaeth hon bellach yn agosáu at ei chwblhau, a bydd yn gallu penderfynu a chyhoeddi manylion yr opsiynau a ffafrir a'r camau datblygu nesaf yn haf 2025. Nid yw hyn yn diystyru trydedd bont yn y dyfodol, ond mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gellid gwneud mwy yn y tymor byr i'r tymor canolig i wella gwytnwch y croesfannau presennol.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn ystyried yr angen i uwchraddio ffordd osgoi Y Waun (A483) yn ffordd ddeuol i gyd-fynd â gweddill yr ardal, gyda gormod o draffig yn ffurfio trwy gydol y dydd oherwydd y darn sy'n ffordd sengl.	Ar hyn o bryd nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i ddeuoli'r A483 yn y Waun. Bydd strategaethau rheoli llwybrau ar gyfer llwybrau strategol yn cael eu datblygu yng Nghymru gan ddechrau gyda'r A55 a'r M4 gydag ystyriaethau a chynllunio rhan o'r gwaith hwn yn y dyfodol a fydd yn ystyried ymgorffori cynigion RTP.
	Mae llawer o ymatebwyr yn gwrthwynebu Coridor yr A494/A55/Sir y Fflint (y cyfeirir ato'n gyffredin fel y 'Llwybr Coch' mewn ymatebion) sy'n rhan o ddyheadau SRN y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft. Mae llawer yn mynegi y dylid ailystyried cyfeirio ato /ei gynnwys yn y cynlluniau, yn aml yn nodi na fydd yn helpu i leihau tagfeydd ond y bydd yn cael effaith amgylcheddol negyddol sylweddol (gyda chyfeiriadau penodol at fywyd gwyllt, coetir hynafol a pherygl llifogydd). Dylid nodi bod rhai ymatebwyr yn mynegi cefnogaeth i wella ffyrdd, yn enwedig gan gyfeirio at y Llwybr Coch (ond gyda mwy o sylwadau yn gwrthwynebu nag yn cefnogi oherwydd ymgyrch mewn cysylltiad ag Ymddiriedolaethau Natur Cymru). Mae rhai yn codi pryderon nad oes unrhyw ystyriaeth o Ddyhead SRN 3 a 4 (rhai yn cyfeirio'n benodol at y Llwybr Coch) yn erbyn Sero Net a thargedau hinsawdd.	Mae'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yng Ngogledd Cymru yn cael ei reoli a'i gynnal gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu nad oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig nac awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru ddylanwad uniongyrchol ar y rhwydwaith ffyrdd strategol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn yn nodi dyheadau rhanbarthol ar gyfer ffyrdd strategol gan fod y rhain yn allweddol i gefnogi ein dyheadau ehangach ar gyfer cysylltu Gogledd Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon â'r drafftio presennol ac mae Dyhead SRN 3 yn cynnwys adolygiad o gyflawni rhai cynlluniau priffyrdd strategol, yn enwedig y rhai a all ddarparu manteision ehangach a gwella cyfleusterau. Mae hyn yn golygu ail-werthuso prosiectau a dewisiadau amgen a allai gynnig gwelliannau sylweddol i'r rhwydwaith trafnidiaeth. Nid

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn croesawu'r bwriad i ddisodli Pont Afon Dyfrdwy ond yn codi pryderon am ddiffyg cydlyniant parhaus yn y rhwydwaith cyfagos. Credir y gallai'r cynllun gynnig cyfleoedd i wella gwytnwch y system priffyrdd yn y lleoliad hwn, yn enwedig ar gyfer traffig tua'r gorllewin.	rôl Uchelgais Gogledd Cymru yw pwyso am y Llwybr Coch, fodd bynnag, swyddogaeth y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yw darparu opsiynau i ymdrin â phroblemau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth ar yr SRN drwy Sir y Fflint, Gogledd Cymru a thu hwnt. Mae'r pwynt hwn wedi'i egluro'n fanylach gyda diweddariadau i'r cynlluniau. Mae Llywodraeth Cymru'n cadarnhau nad yw'n bwrw ymlaen â Gwelliannau i Goridor Sir y Fflint A55/A494/A548 ar hyn o bryd yn dilyn argymhellion y Panel Adolygu Ffyrdd. Mae'r Llywodraeth yn y broses o gomisiynu gwaith i ddatblygu Strategaeth Llwybr ar gyfer yr A55/A494 fydd yn tynnu sylw at yr heriau a'r problemau ar hyd y coridor, gydag ymyraethau posib i ymdrin â nhw.
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu bod y newid canlynol yn cael ei wneud i Welliannau Trafnidiaeth Llanbedr: Mae Cyngor Gwynedd yn cydweithio â phartneriaid i nodi pecyn o atebion trafnidiaeth gynaliadwy i wella mynediad a lliniaru problemau trafnidiaeth yn Llanbedr. Mae hyn yn symud ymlaen drwy'r broses WelTAG yn unol ag Adolygiad Ffyrdd 2021.	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru i wneud y newid hwn.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn cwestiynu sut y bydd yr A55 o Lanfairfechan i Landudno yn cael ei gwella ac yn cwestiynu a fydd unrhyw newidiadau i gynigion yr A494 o ystyried materion tir sensitif a phrynu tai.	Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys nifer o gynlluniau sy'n ceisio gwelliannau ar hyd yr A55 a chynllun i nodi a gweithredu cysylltiadau teithio llesol lleol mewn cysylltiad â Phont Afon Dyfrdwy. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod Adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494 yn dal i fwrw ymlaen gydag opsiwn a ffafrir i'w gyhoeddi yn yr haf 2025. Bydd hyn yn cynnwys llwybr teithio llesol yn gyfochrog â'r A494 gyda chysylltiadau â rhwydweithiau teithio llesol eraill yn yr ardal. Fel rhan o'r broses statudol, mae disgwyl i Orchmynion drafft a Datganiad Amgylcheddol gael eu cyhoeddi yn Hydref 2025 a fydd yn nodi'r tir sydd ei angen ar gyfer y cynllun. Gellir cynnal Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus yn dibynnu ar natur yr ymatebion/gwrthwynebiadau a dderbyniwyd.
	Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at yr angen i uwchraddio'r ffordd rhwng y Cross Foxes i Fachynlleth trwy Corris, gan fynegi rhwystredigaeth nad yw'r gwaith ar gynnal a chadw yn ddigon.	Mae'r sylw hwn yn ymwneud â chefnffordd yr A487, sy'n gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru ac sy'n cael ei chynnal a'i chadw gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn croesawu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n cefnogi gwaith i adolygu'r llwybrau allweddol a fydd yn helpu i leddfu tagfeydd, er yn awgrymu y gallai diffyg cyllid a ddyrannwyd i wella ffyrdd arwain at beidio â bwrw ymlaen â llawer o'r prosiectau. Mae rhai ymatebwyr o'r farn ei bod yn hanfodol bod y cynlluniau yn ceisio gwella cysylltiadau ffyrdd ar draws y rhanbarth gyda'r farn bod trigolion yn annhebygol o feicio neu gymryd y bws os oes ganddynt geir, yn enwedig yn ystod tagfeydd yn yr Haf. Sonnir yn benodol bod angen buddsoddiad pellach ar yr A55 i leihau problemau tagfeydd, yn enwedig gwella Cyffyrdd 14 i 16 – nodir bod hyn angen ei flaenoriaethu yn dilyn cynlluniau sydd wedi'u stopio, oherwydd bod y cylchfannau yn achosi rhwystrau mawr, yn debyg i gyfyngiad Pontydd y Fenai. Soniodd ymatebwyr eraill hefyd y bydd materion amgylcheddol mewn pentrefi yn parhau heb ffyrdd newydd. Mae rhai ymatebwyr eraill yn mynegi gwrthwynebiad i unrhyw ffyrdd newydd.	Fel yr amlinellir yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, mae ffyrdd yng Ngogledd Cymru yn cael eu cynnal a'u cadw gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Llywodraeth Cymru sy'n golygu nad oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig nac Awdurdodau Lleol ddylanwad uniongyrchol ar y rhwydwaith ffyrdd strategol. Fodd bynnag, mae'r dyheadau polisi a amlygwyd yn yr adrannau 'Rhwydwaith Ffyrdd Strategol' ac adrannau 'Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio' y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, yn tynnu sylw at sut y bydd y cynllun yn parhau i sicrhau bod llwybrau'n parhau i fod yn ddiogel ac yn ddibynadwy (SRN1/RS1), yn ogystal â sut y gellir gwella'r rhwydwaith ffyrdd i wella cyfleusterau ar gyfer teithio cynaliadwy (SRN3/RS6). Mae SRN3 yn esbonio y bydd rhai cynlluniau priffyrdd, sydd ar stop, yn cael eu hadolygu lle gallant helpu i fynd i'r afael â thagfeydd a chefnogi dyheadau ehangach ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru i wneud hyn yn gliriach. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ei bod wedi comisiynu astudiaeth (WelTAG 1 a 2) i ystyried heriau gweithredol y rhwydwaith, gwytnwch a diogelwch ar y ffyrdd rhwng Cyffyrdd 14 a 18 ar yr A55. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn comisiynu gwaith i ddatblygu Strategaeth Llwybr yr A55/A494.
Galluogi newidiadau i ymddygiad teithio	Mae rhai ymatebwyr yn nodi'r angen am newidiadau i'r Cod Priffyrdd ynghylch hierarchaeth defnyddwyr y ffordd i helpu i wneud newid cadarnhaol i bobl sy'n teithio mewn ffyrdd eraill ar wahân i gar. Awgrymir yr ymgyrchoedd cenedlaethol CLOCS a Kerbcraft hefyd fel ffordd o godi ymwybyddiaeth, yn enwedig mewn ysgolion.	Er bod newidiadau i'r Cod Priffyrdd y tu allan i gylch gwaith Uchelgais Gogledd Cymru a'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, mae wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r angen am wybodaeth dda i helpu pobl i wneud dewisiadau teithio cynaliadwy a diogel.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion i hyrwyddo a hwyluso mwy o weithio o bell, ac mae rhai yn cyfeirio at yr enghraifft dda o ddatblygu mannau gweithio cydweithredol fel y rhai a ddarperir yn M-SParc. Awgrymir y gallai cyfleoedd 'desg boeth' a rhwydweithio helpu i fynd i'r afael â rhai o heriau gweithio gartref / o bell yn ogystal â hyrwyddo cydweithredu, arloesi ac entrepreneuriaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Awgrymir hefyd bod hyn yn arbennig o bwysig i gefnogi busnesau micro a bach sy'n rhan allweddol o'r economi ranbarthol.	Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru, drwy brosiect Egni gyda Phrifysgol Bangor, yn canolbwyntio ar ddatblygu Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel ym Mhrifysgol Bangor ac M-Sparc. Bydd hyn yn gwella gallu'r rhanbarth i ymchwilio, dylunio ac arloesi ym maes ynni carbon isel a bydd yn darparu cyfleoedd ar gyfer ymchwil bellach, datblygu cadwyn gyflenwi a gwneud Gogledd Cymru yn ddeniadol ar gyfer cyfleoedd mewnfuddsoddi. Mae gwella capasiti yn M-Sparc yn greiddiol i'r prosiect hwn a bydd yn hwyluso mwy o gydweithio ar draws busnesau a'r gymuned ehangach.
	Mae rhai ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgyrchoedd i rannu gwybodaeth, ymwybyddiaeth a helpu i fynd i'r afael â rhwystrau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth. Mae eraill yn awgrymu bod yn rhaid i'r math hwn o weithgaredd gael ei adeiladu o amgylch naratif cydlynol a negeseuon cyson ar draws y rhanbarth, bod yn berthnasol i bobl, a'u cymell i wneud penderfyniadau mwy cynaliadwy. Mae rhai yn awgrymu y bydd hyn yn gofyn am ymrwymiad sylweddol o ran amser ac adnoddau, a bydd angen ei gydlynu'n effeithiol i sicrhau effaith.	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod bod darparu'r isadeiledd a'r gwasanaethau sy'n caniatáu i bobl wneud dewisiadau teithio cynaliadwy yn bwysig ond, er mwyn i hyn fod yn effeithiol, mae'n rhaid i bobl fod yn ymwybodol ohonynt a'r manteision o'u defnyddio. Mae ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu yn hanfodol ac yn gallu cael eu teilwra i ganolbwyntio ar grwpiau defnyddwyr targed penodol, megis trigolion a defnyddwyr hamdden, cymudwyr, pobl ifanc, neu bobl hŷn. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gydag arbenigwyr cyfathrebu a sefydliadau partner i helpu i sicrhau bod ganddo'r sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ei gynlluniau.
	Mae rhai ymatebwyr yn ystyried y cyfle i addysg wneud gwahaniaeth i ddiwylliant ac agweddau trigolion, gan gynnwys addysg sy'n seiliedig ar drafnidiaeth mewn ysgolion.	Roedd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod pwysigrwydd darparu dewisiadau i bobl ynglŷn â sut maen nhw'n cael mynediad at addysg, a bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi addysg sy'n seiliedig ar drafnidiaeth.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu hyrwyddo teithio i grwpiau penodol, gan gynnwys twristiaid neu berchnogion tai newydd.	Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid fel y bo'n briodol i helpu i nodi a hyrwyddo dulliau arloesol o annog dewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy. Perthnasol yw Polisi CB14 (ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu) a Pholisi CB15 (gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid yn y sector twristiaeth i ymchwilio i ddulliau o annog ymwelwyr â Gogledd Cymru i deithio'n gynaliadwy).
	Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at yr angen i drafnidiaeth gyhoeddus fod yn fwy fforddiadwy er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr.	Mae fforddiadwyedd yn thema drawsbynciol yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i helpu i wella mynediad at drafnidiaeth gynaliadwy fforddiadwy.
	Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at Bolisi CB23 (Bydd dull partneriaeth yn cael ei gymryd i ddatblygu cynllun ar gyfer gwella gwasanaethau rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru sy'n cefnogi'r economi ymwelwyr yn well) fel un sy'n bwysig yn y ffordd y mae ymwelwyr yn dod i'r ardal. Ond, maent yn awgrymu bod angen ystyried opsiynau teithio ymlaen, storio bagiau, systemau gwybodaeth a storio beiciau fel sy'n bodoli yn y rhan fwyaf o wledydd eraill lle mae rheilffyrdd yn ffordd gyffredin o deithio.	Er mai ategol yw polisïau'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol eraill, er enghraifft Polisi DC3 (bydd dull partneriaeth yn cael ei gymryd i gyflwyno gwybodaeth ddigidol ac amser real ynghylch gwasanaethau cludiant cyhoeddus, gan flaenoriaethu arwyddion digidol mewn cyfnewidfeydd cludiant allweddol, gan weithio tuag at wybodaeth amser real mewn safleoedd bws ledled gogledd Cymru) a PT8 (safleoedd bws allweddol, megis y rhai mewn canolfannau pentref, rhai lle mae llawer o ddefnydd ohonynt, a'r rhai lle mae cyfnewid rhwng dulliau trafnidiaeth yn gyffredin, yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer gwelliannau...), mae Polisi CB23 wedi'i ddiweddaru (Bydd dull partneriaeth yn cael ei gymryd i ddatblygu cynllun ar gyfer gwelliannau pellach i wasanaethau rheilffordd yng Ngogledd Cymru sy'n cefnogi'r economi ymwelwyr yn well), a hynny i egluro'n gliriach cefnogaeth Uchelgais Gogledd Cymru i alluogi darpariaethau mewn cysylltiad â gwasanaethau cludiant cyhoeddus.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn croesawu Polisi CB16 (Ceisir cyfleoedd i gefnogi'r economi ymwelwyr drwy reoli parcio bysiau a chartrefi modur ar safleoedd addas yn agos at atyniadau yng Ngogledd Cymru. Dylai hyn ystyried cyfleoedd codi tâl ar gyfer cerbydau dim allyriadau) - ond gan argymell geiriad ychwanegol i'r polisi hwn yn unol â'r canlynol: Cytunir bod angen rheoli parcio bysiau a chartrefi modur, ond bydd angen i'r dewis o safleoedd newydd ystyried lleoliadau sy'n osgoi effeithiau niweidiol, megis ar Rinweddau Arbennig Parc Cenedlaethol Eryri, a bod yn unol â pholisïau'r Cynllun Datblygu.	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru i wneud y newid hwn.
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu gwneud Polisi CB18 yn fwy eglur, drwy gynnwys cyfeiriad at ehangu capasiti parcio a theithio mewn lleoliadau 'porth' sy'n gwasanaethu'r Wyddfa a Dyffryn Ogwen, ynghyd â gostyngiad graddol yn y ddarpariaeth barcio presennol ar hyd ffyrdd trwy'r amgylchedd mynyddig hynod sensitif.	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru i wneud y newid hwn.
	Mae rhai o'r farn nad yw'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn darparu unrhyw eglurder ar sut y bydd ymyriadau i newid ymddygiad yn cyflawni'r newid mewn dulliau teithio y cyfeirir ato.	Mae'r Cynllun Monitro a Gwerthuso yn nodi cyfres o fesurau a dangosyddion i helpu i ystyried cynnydd tuag at dargedau a nodwyd. Mae polisïau ac ymyriadau sy'n seiliedig ar newid ymddygiad y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ceisio cyfrannu at helpu i gyflawni'r targedau hynny.
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu polisïau sy'n gwneud defnydd ceir yn ddrytach ar adegau ac mewn mannau lle mae'r defnydd o ffyrdd yn drwm. Gyda natur wledig yr ardal yn golygu bod codi tâl am dagfeydd yn annhebygol o fod yn ateb effeithiol, dylid ystyried codi tâl am barcio yn y gweithle, er enghraifft.	Mae'r ffocws allweddol yn ein cynigion ar roi mwy o ddewis i bob grŵp o bobl ynghylch pryd a sut maent yn teithio. Ar hyn o bryd nid oes gan Uchelgais Gogledd Cymru unrhyw gynlluniau i gyflwyno polisi ar gyfer codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd na chodi tâl am barcio yn y gweithle.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn ystyried yr angen i wella mynediad at fysiau a threnau er mwyn atal ynysu, gan nodi materion gan gynnwys: • Problemau gweledegdd wrth groesfan i gyrraedd arosfannau a gorsafoedd • Pellteroedd stopio o'r palmentydd sy'n ei gwneud hi'n anoddach mynd ar ac oddi ar fysiau • Trenau newydd sydd â grisiau uwch i fynd ymlaen ac oddi arnynt, yn ogystal â phellter o ymyl y platfform • Nid yw bysiau lleol yn hygyrch mewn cadair olwyn	Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi ymrwymo i wneud trafnidiaeth gyhoeddus yng Ngogledd Cymru yn decach ac yn hygyrch i bawb. Mae Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol PT10 yn enghraifft, lle byddwn yn gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys awdurdodau lleol a chwmnïau i wneud teithio ar fws yn fwy hygyrch i bobl â symudedd cyfyngedig neu anableddau. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru hefyd yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i helpu i sicrhau bod gwasanaethau rheilffyrdd a gorsafoedd yn hygyrch.
	Mae rhai ymatebwyr yn ystyried y dylid rhoi mwy o bwysigrwydd ar greu llwybrau beicio diogel, yn enwedig o amgylch ysgolion. Mae rhai ymatebwyr o'r farn y dylai trenau a bysiau cyhoeddus fod yn rhan o drafnidiaeth ysgol, fel bod myfyrwyr yn dod yn gyfarwydd â defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae rhai ymatebwyr yn pryderu y byddai refeniw yn cael ei arbed trwy stopio bysiau ysgol yn sgil hyrwyddo a gwella llwybrau teithio llesol, gan arwain at fwy o ddefnydd o geir preifat.	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys polisïau sy'n canolbwyntio ar roi dewisiadau i bobl ynglŷn â sut maen nhw'n cael mynediad at wasanaethau, gan gynnwys ysgolion ac addysg. Mae'r rhain yn ceisio helpu i sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i gynlluniau a gwasanaethau ariannu sy'n gwella mynediad cynaliadwy (Polisi CB8), mynd ar drywydd contract gwasanaethau cyfan i gyfuno gwasanaethau i ddarparu gwell gwasanaeth i'r cyhoedd ac i leihau dyblygu adnoddau (Polisi CB9), a rhoi dewisiadau i bobl ynghylch sut y maent yn cael mynediad at addysg (Polisïau CB10, 11 a 12).

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
Bws	Er bod rhai ymatebwyr yn teimlo bod y posibilrwydd o fasnachfreinio bysiau yn rhywbeth calonogol, mae rhai hefyd yn mynegi pryder gan nodi newidiadau i Wasanaethau TrawsCymru (T3) sy'n newid llwybrau ac amlder sy'n arwain at ostyngiad yn nifer y teithwyr. Mae ymatebwyr eraill yn tynnu sylw at y ffaith bod cyllid eisoes yn gostwng oherwydd diffyg galw am wasanaethau - nid yw'n glir sut y bydd masnachfreinio yn helpu heblaw arbed cost gyfalaf cerbydau i'r Senedd. Mae ymatebwyr eraill yn tynnu sylw at yr angen i weithredwyr bysiau llai gael lle yn y model newydd, i gynyddu dewis a thegwch.	Mewn cysylltiad â Pholisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol PT1 (gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru i gefnogi'r broses o gyflwyno masnachfreinio bysiau yng Ngogledd Cymru, a ddylai gynnwys cyllid aml-flwyddyn a fyddai'n rhoi sicrwydd i'r cyhoedd sy'n teithio, awdurdodau a gweithredwyr) - mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru i egluro y bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru i helpu i gyflawni'r rhwydwaith gorau posibl i drigolion Gogledd Cymru a ddylai ddiwallu anghenion cymunedau. Rydym hefyd yn cydnabod bod angen i Fusnesau Bach a Chanolig (SME) / gweithredwyr llai fod yn rhan o'r ateb ac na ddylid eu hanwybyddu gyda'r model masnachfreinio newydd. Rydym hefyd yn cydnabod bod y busnesau bach a chanolig / gweithredwyr llai yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol i awdurdodau lleol.
	Mae rhai ymatebwyr yn annog y cynlluniau i ystyried sut y gellid ystyried cyflenwi a dosbarthu hydrogen ar sail drawsffiniol ochr yn ochr â hybiau hydrogen yng Ngogledd Cymru, gan fanteisio ar brosiectau fel Hynet North West. Mae rhai ymatebwyr yn mynegi cefnogaeth i gerbydau sy'n cael eu pweru gan hydrogen, gan gyfeirio at sut mae hyn wedi'i ystyried yn y Cynlluniau Ynni Ardal Leol ar gyfer fflyd y cyngor a cherbydau nwyddau trwm.	Er bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod bod hydrogen yn ateb posibl i ddatgarboneiddio'r fflyd fysiau (Polisi PT3) a cherbydau nwyddau trwm allyriadau isel (Polisi PF4), bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn ystyried y cyfleoedd ehangach gyda rhanddeiliaid. Bydd hyn yn cael ei gynnwys fel rhan o Strategaeth Ynni Gogledd Cymru, sydd wedi cael mwy o ystyriaeth fel rhan o ddiweddaru'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at rwystredigaethau pan fydd llwybrau bysiau yn cael eu rhedeg gan wahanol gwmnïau ac nid yw amserlenni'n cyd-fynd. Pe bai hyn yn cael ei wella, credir y byddai'r defnydd yn cynyddu. Mae rhai yn dweud bod hyn yn bryder neilltuol ac yn gyfle arbennig mewn ardaloedd gwledig, lle gall pobl gael eu hallgau'n gymdeithasol trwy ddiffyg opsiynau trafnidiaeth.	Mae ein cynlluniau ar gyfer teithio ar fws yn cael eu hystyried o fewn cyd-destun y rhwydwaith bysiau arfaethedig ledled Cymru yn y dyfodol mae Trafnidiaeth Cymru wrthi'n ei ddatblygu fel rhan o gynigion Llywodraeth Cymru i gyflwyno masnachfreintiau bws. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u hamlinellu ym mhapur gwyn 'Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn' a'r ddogfen Ein Map Ffordd i Ddiwygio'r Bysiau. Mae disgwyl i'r cynigion hyn gyflawni system drafnidiaeth aml-ddull integredig, di-dor, gyda gwybodaeth, prisiau siwrnai a thicedi gwell i gwsmeriaid o 2026 ymlaen. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau diweddaraf ar gyfer masnachfreinio bysiau ar ôl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) ar 31 Mawrth 2025. Mae hefyd wedi'i ddiweddaru i bwysleisio pwysigrwydd integreiddio amserlenni i'w gwneud hi'n haws i bobl wneud dewisiadau teithio cynaliadwy.
	Mae rhai ymatebwyr yn cefnogi gwella cysylltiad bysiau ar draws y ffin , ac yn anelu at ryngwynebu cynlluniau masnachfreinio bysiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'r rhai sy'n cael eu datblygu yn Ninas-ranbarth Lerpwl.	Nodwyd.
	Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at yr angen i ardaloedd gwledig gael gwasanaethau bws dibynadwy 7 diwrnod yr wythnos – mae gwasanaethau cyfyngedig ers y pandemig yn arwain at ddibyniaeth ar geir preifat ac ynysu. Roedd rhai hefyd yn tynnu sylw at yr angen i ystyried effaith y polisïau 20mya ar amserlenni bws, gyda gostyngiad mewn gwasanaethau wedi'i nodi ers gweithredu'r polisi.	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys Polisi PT1 i PT5 sy'n ceisio galluogi gwasanaethau bws bob dydd sy'n addas i'r diben. Mae cynigion ar gyfer gwelliannau i fysiau yng nghyd-destun polisi 20mya Llywodraeth Cymru.
	Mae rhai ymatebwyr yn canmol Polisi PT10 fel ymrwymiad annibynnol i hygyrchedd, gan gytuno bod angen i deithio ar fws fod yn haws ac yn decach i bawb.	Nodwyd.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Nododd rhai ymatebwyr angen neu ddymuniad am lwybrau bysiau penodol a mesurau blaenoriaeth, gan gynnwys: • Yr Wyddgrug • Dolgellau i Flaenau • Wrecsam i Gaer • Llandudno i Flaenau Ffestiniog • De Sir y Fflint i Gaer • Dolwyddelan • Cwm Lledr • Dyffryn Conwy • Caergybi i Ynys Lawd • Talacre • Bangor – Felinheli – Caernarfon • Bangor – Ynys Môn • Ynys Môn Wledig • Llaneurgain • Gerddi Bodnant	Mae Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol PT4 yn ceisio cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Rhwydwaith Trawsnewid Gwasanaethau Bysiau yng Ngogledd Cymru. Bydd hyn yn cynnwys rhwydwaith craidd o wasanaethau rhwng aneddiadau mawr a safleoedd gwaith gyda dau i bedwar bws yr awr, - gyda'r nos hefyd. Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys cynlluniau bysiau a fydd yn cael eu blaenoriaethu dros gyfnod y cynllun. Mae astudiaeth wedi'i chynnal ledled Gogledd Cymru i ystyried gwaith y gellid ei wneud i roi mwy o flaenoriaeth i fysiau ac mae awdurdodau lleol yn edrych ymlaen at weithio gydag Uchelgais Gogledd Cymru, Trafnidiaeth Cymru, a Llywodraeth Cymru, i fwrw ymlaen â'r prosiect hwn, yn amodol ar gyllid. O ran bysiau, mae gwasanaethau yn destun adolygiad parhaus a bydd unrhyw welliannau sy'n dibynnu ar gyllid yn parhau i gael eu hystyried gan awdurdodau lleol. Roedd Dolgellau i Flaenau yn llwybr uniongyrchol o'r blaen y mae gwasanaethau'r T2 a'r T22 bellach yn ei wasanaethu. Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Ngwarchodfa Natur Ynys Lawd ynghylch mynediad cynaliadwy. Nid yw'r maes parcio wedi cael ei wasanaethu gan wasanaeth bws cofrestredig ers nifer o flynyddoedd ac mae cael cerbydau i symud yn ddiogel wedi bod yn broblem.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
Coetsys, trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw a thrafnidiaeth gymunedol	Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod gwasanaethau Fflecsi yn allweddol i boblogaethau gwledig, gan gysylltu cymunedau â rhai galwadau am gyllid pellach ar gyfer cynlluniau o'r fath. Gwneir cais penodol am weithredu cynllun Fflecsi yn Ynys Môn ac i ganiatáu i wasanaethau groesi ffiniau os ydynt am fod yn effeithiol. Fodd bynnag, mae ymatebwyr eraill o'r farn bod gwasanaethau Fflecsi yn anhyblyg gyda diffyg capasiti a ddim yn gweithio'n dda i dwristiaid. Pwysleisir na ddylai'r ddibyniaeth ar Fflecsi atal gwaith i wella neu ddatblygu trafnidiaeth yn y dyfodol. Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at y ffaith nad yw gwasanaethau Fflecsi ar hyn o bryd yn gweithredu fel gwasanaeth neidio ar fws a neidio oddi ar fws (*hop-on-hop-off)*, ac mae angen trefnu bythefnos ymlaen llaw yn enwedig yn ystod y tymor prysur. Mae hefyd yn dibynnu ar gael ffôn symudol neu fynediad i'r rhyngrwyd, gan arwain at anghydraddoldeb mewn opsiynau teithio.	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru i gadarnhau y bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i adolygu a gwella cynnig Fflecsi yng Ngogledd Cymru i helpu i sicrhau bod Trafnidiaeth sy'n Ymateb i'r Galw yn diwallu anghenion cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan drafnidiaeth gyhoeddus arall orau.

	Mae rhai ymatebwyr yn mynegi bod angen i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ystyried trafnidiaeth gymunedol a Chynllun Bach y Trydydd Sector, sef Llwybr Newydd, ymhellach. Trwy beidio ag ystyried trafnidiaeth gymunedol yn fwy llawn, awgrymir bod effaith ar y rhestr o gynlluniau â blaenoriaeth o fewn y Cynllun Cyflawni cysylltiedig. Dyma rai o'r argymhellion i: • Dylai'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gynnwys ymrwymiad i gynyddu nifer y Cynlluniau Trafnidiaeth Gymunedol, i gynyddu faint mae'r sector yn ei gyrraedd a darparu mwy o opsiynau trafnidiaeth sy'n gwbl gynhwysol. • Datblygu Cynllun Datblygu Trafnidiaeth Gymunedol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, fel rhan o ddull integredig ar draws rhanbarth Gogledd Cymru. • Cynlluniau Datblygu Trafnidiaeth Gymunedol i'w cefnogi gan Gynlluniau Buddsoddi i gyflymu'r gyfradd ddatblygu ar gyfer mynediad cyfartal i drafnidiaeth ledled Cymru i bobl sydd â gofynion symudedd ychwanegol. • Ymgorffori'r Llwybr Gwledig o fewn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a chynnwys polisïau, rhaglenni a phrosiectau i fuddsoddi mewn mentrau trafnidiaeth a arweinir gan y gymuned mewn ardaloedd gwledig, a datblygu'r mentrau hynny. • Mae'r Cynllun Datblygu Trafnidiaeth Gymunedol i gynnwys llwybr datgarboneiddio ar gyfer y sector yng Ngogledd Cymru, a dyraniad o adnoddau parod, fel y Gronfa Allyriadau Isel Iawn, i gynorthwyo darparwyr trafnidiaeth gymunedol nid er elw. • Cynnwys ymrwymiad o fewn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer buddsoddi mewn cynlluniau	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys adran ar goetsys, trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw a thrafnidiaeth gymunedol. Mae gwerth trafnidiaeth gymunedol a'r trydydd sector yn cael ei gydnabod ac mae Cynllun Bach y Trydydd Sector, sef Llwybr Newydd, wedi cael mwy o ystyriaeth fel rhan o ddiweddariadau i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	prawf cysyniad Olwynion i'r Gwaith, a gwerthusiad annibynnol Cymru gyfan. • Cynnwys y Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol a gweithredwyr trafnidiaeth gymunedol yn y gwaith o ddatblygu cynllun peilot Contract Gwasanaeth Cyflawn. • Ochr yn ochr â'r ymrwymiad i gynyddu nifer y clybiau ceir, dylai fod ymrwymiad tebyg i gynyddu nifer y cynlluniau Car Cymunedol.	
	Mae rhai ymatebwyr yn ystyried bod y cynlluniau yn gwasanaethu cymunedau arfordirol a threfol yn weddol dda, ond gan feddwl am drefi marchnad gwledig a llai wedyn. Er eu bod yn croesawu polisïau PT11 a PT12 yn gyffredinol, mae fflecsi a mentrau trafnidiaeth gymunedol yn aml yn cael eu hystyried fel yr ail ateb orau. Mae profiad lleol yn dangos y gallant fod yn annibynadwy ac yn gyfyngedig yn enwedig o ran gwasanaethau gyda'r nos a phenwythnos a dylent weithio ochr yn ochr â mentrau trafnidiaeth twristaidd. Mae rhai yn awgrymu nad yw polisi cenedlaethol yn ystyried yn llawn yr heriau sy'n wynebu ardaloedd gwledig yn y sector trafnidiaeth - mae'r diffyg trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig yn gwaethygu'r ddibyniaeth ar geir, gyda diffyg dewisiadau amgen realistig.	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth cysylltiadau trafnidiaeth i gymunedau trefi gwledig a marchnad, ac mae'n cynnwys polisïau sy'n canolbwyntio ar ddarparu dewisiadau i bobl mewn ardaloedd gwledig a lled-drefol. Un o'r themâu trawsbynciol yn y cynllun yw tegwch neu gydraddoldeb opsiynau trafnidiaeth, sy'n golygu sicrhau bod gan bawb yng Ngogledd Cymru fynediad teg at opsiynau trafnidiaeth. Mae'n cydnabod bod gan wahanol bobl anghenion gwahanol, yn enwedig y rhai sy'n perthyn i grwpiau difreintiedig, neu'r rhai mewn cymunedau gwledig.
	Mae rhai ymatebwyr yn gwerthfawrogi cydnabyddiaeth o'r gwasanaeth bws Sherpa, gan dynnu sylw at yr angen am wasanaeth o'r fath yn Eryri, ble mae problemau parcio rheolaidd trwy gydol y tymor, ac nid oes llawer o opsiynau teithio cynaliadwy yn yr ardal hon. Mae gweithio gyda chymunedau i nodi eu hanghenion yn y cyfnodau prysur hyn yn hanfodol.	Nodwyd.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn cwestiynu pam bod bws cyflym yn cael ei gynnig ar gyfer Caergybi i Lerpwl pan fo hyn yn dyblygu'r rhwydwaith rheilffyrdd presennol i raddau helaeth.	Mae'r gwasanaeth bws cyflym arfaethedig o Gaergybi i Lerpwl yn cael ei ddatblygu gan Trafnidiaeth Cymru sy'n canolbwyntio ar hyd coridor yr A55, llwybr strategol sydd heb opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus rheolaidd ar hyn o bryd. Nod y gwasanaeth hwn yw pontio bylchau sylweddol yn y rheilffyrdd drwy gysylltu ardaloedd heb eu gwasanaethu yng Ngogledd Cymru, fel Bodelwyddan a Threffynnon. Ar ben hynny, byddai'n darparu cysylltiadau uniongyrchol â chyrchfannau yng Ngogledd Orllewin Lloegr, gan gynnwys Lerpwl ac ardaloedd eraill sydd heb gysylltiadau uniongyrchol trwy'r rhwydwaith rheilffyrdd fel Cheshire Oaks a Maes Awyr Lerpwl. Trwy integreiddio â gwasanaethau rheilffordd yng Nghyffordd Llandudno a chysylltu â gwasanaethau bysiau lleol ar hyd ei lwybr, mae'r gwasanaeth bysiau yn ceisio sefydlu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig yng Ngogledd Cymru, gan wella hygyrchedd i drigolion ac ymwelwyr yn y rhanbarth.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
Cerdded, olwyno a beicio	Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod y cynlluniau yn rhy drwm o blaid teithio llesol, bydd yn anymarferol mewn ardaloedd gwledig – mae'r cynlluniau yn anwybyddu'r angen i wella trafnidiaeth gyhoeddus o ran amlder, dibynadwyedd, cost, a chwmpas cyn blaenoriaethu gostyngiad yn y defnydd o geir a chynnydd mewn teithio llesol. Mae rhai yn tynnu sylw at yr angen am weithredu ar lefel weithredol pan ddaw'n fater o newid ymddygiad er mwyn i bobl ddefnyddio teithio llesol yn effeithiol - mae angen i'r cynllun roi mwy o bwyslais ar deithio llesol dros ddefnyddio car preifat.	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ceisio hyrwyddo a gwella'r dewis o drafnidiaeth ledled Gogledd Cymru, gan gynnwys ardaloedd gwledig. Mae'r cynlluniau yn ymateb i bolisi Llywodraeth Cymru a'r Hierarchaeth Teithio Cynaliadwy yn Llwybr Newydd yn ogystal â nodau lleol i wella teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus, a chyfrannu at newid mewn dulliau teithio i leihau'r ddibyniaeth ar y car. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys polisïau i alluogi newidiadau mewn ymddygiad teithio i helpu i gyflawni newid mewn dulliau teithio. Fel y nodir yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol, mae cynlluniau wedi'u nodi, eu gwerthuso ac mae ymgynghoriad wedi bod arnynt i helpu i sicrhau bod y cynlluniau yn addas i'r diben ac yn cael eu cymeradwyo mor eang â phosibl. Mae mesurau teithio llesol yn cael eu hystyried yn bwysig i helpu i leihau dibyniaeth ar y car ar gyfer teithiau byrrach, ac mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod pwysigrwydd darparu dewisiadau i bobl mewn ardaloedd gwledig a lled-drefol.
	Mae rhai ymatebwyr yn mynegi ei bod yn braf gweld y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn cael ei grybwyll.	Nodwyd.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu bod awdurdodau lleol yn gwneud mân welliannau yn unig trwy eu Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol ac nad yw rhwydwaith integredig yn cael ei ddarparu. Mae chynnal a chadw llwybrau troed yn wael ar y cyfan, ac nid oes posib defnyddio llwybrau yn aml. Gwnaed awgrym pellach y dylai teithio llesol gynnwys llwybrau sy'n addas ar gyfer ceffylau.	Mae Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol AT5 yn ceisio helpu i sicrhau y dylai awdurdodau lleol ganolbwyntio yn gyntaf ar lwybrau sydd â'r cyfle mwyaf i gysylltu cymunedau â chyrchfannau lleol, gan ddod â nhw i safon a allai helpu i gynyddu cerdded, olwyno, beicio a marchogaeth mewn ardaloedd gwledig. Mae Polisi AT6 yn cefnogi creu Lonydd Tawel yng Nghymru. Y bwriad yw i'r rhain alluogi cerddwyr, beicwyr, rhai sy'n marchogaeth a phobl gyda nam symudedd, i fwynhau lonydd gwledig yn ddiogel, drwy annog traffig i deithio'n arafach a llai o draffig yn gyffredinol. Mae polisi RS1 yn ceisio helpu i sicrhau refeniw digonol yn ogystal â chyllid cyfalaf ar gyfer arwynebu a chynnal a chadw.
	Mae rhai ymatebwyr o'r farn y gallai'r cynlluniau fod yn gliriach am y mecanweithiau a fydd yn cael eu defnyddio i flaenoriaethu ac ariannu'r rhaglenni gwaith presennol yn unol â'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol ym mhob awdurdod lleol. Yn ogystal, mae cefnogaeth gref i gytundebau cyllido aml-flwyddyn ac mae ymatebwyr o'r farn bod angen cynllun cyflawni clir ochr yn ochr â'r trefniadau cyllido.	Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi'r dull o flaenoriaethu'r cynllun a'i ganlyniadau. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau i'w datblygu gan awdurdodau lleol yn unol â'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol ym mhob awdurdod lleol. Mae Uchelgais Gogledd Cymru, drwy'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a dull cynllunio a chyflawni rhanbarthol, yn ceisio sicrhau dull cyson a chydlynol ledled Gogledd Cymru. Rydym yn cydnabod bod timau teithio llesol awdurdodau lleol eisoes yn ddarbodus ac yn aml heb adnoddau, a bydd cydlynu rhanbarthol yn helpu i rannu'r arferion gorau, cyfuno adnoddau, lleihau dibyniaeth ar ymgynghorwyr, a blaenoriaethu lle mae'r anghenion mwyaf.
	Mae rhai ymatebwyr o'r farn ei bod yn aneglur sut y bydd cynllunio teithio llesol rhanbarthol a lleol yn cael ei alinio. Croesewir yr awgrym o un swyddogaeth Teithio Llesol ranbarthol, ond codir pryder os yw hyn yn arwain at ostyngiad cyffredinol mewn capasiti teithio llesol ledled y rhanbarth.	

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig ar gyfer Uned Cyflawni Teithio Llesol gyda'r amod ei bod yn osgoi biwrocratiaeth ychwanegol ddiangen ac yn manteisio ar arbenigedd presennol o fewn awdurdodau lleol, Trafnidiaeth Cymru a sefydliadau'r trydydd sector fel Sustrans.	Mae llawer o'r cyfrifoldeb am gyflawni cynlluniau cerdded a beicio yn yr awdurdodau lleol. Mae nifer o sefydliadau gwahanol yn rhan o'r gwaith o wella'r seilwaith cerdded a beicio, yn cynnwys Trafnidiaeth Cymru, y Cyd-bwyllgor Corfforedig, Sustrans ac Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru. Gallai cyflwyno Uned Teithio Llesol i ogledd Cymru hwyluso'r cydweithio a rhesymoli'r gwaith o ddarparu cynlluniau teithio llesol, rhannu arbenigedd ac arfer dda, a chydlynu'n well yr adnoddau ar gyfer rhaglenni cyflawni a chyllido.
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y dylid ymgynghori â Sustrans ar yr holl gynlluniau a allai effeithio ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol a bod Cynllun Datblygu Rhwydwaith Sustrans yn llywio blaenoriaethu prosiectau.	Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi'r dull o flaenoriaethu'r cynllun a'i ganlyniadau. Mae hyn yn seiliedig ar broses y cytunwyd arni sy'n cynnwys Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru ochr yn ochr ag awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau i'w datblygu gan awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gyflawni, ac a ddylai ymgysylltu â Sustrans fel rhan o waith cynllunio, dylunio a datblygu prosiect fel y bo'n briodol.
	Mae rhai ymatebwyr yn codi pryderon am Bolisi AT14 yn y ffordd y mae'n cyfeirio at archwilio defnydd E-sgwteri, gan awgrymu eu bod yn peri perygl i bobl ddall a rhannol ddall, ac y dylai unrhyw gynlluniau E-feiciau hyrwyddo ymddygiad diogel a pharchus gan ddefnyddwyr ac ymwybyddiaeth o golli golwg.	Bydd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru yn parhau i gadw llygad ar ganlyniadau treialon y DU ac yn darparu unrhyw gyngor wedi'i ddiweddaru yn y dyfodol fel y bo'n briodol - dylai hyn ystyried anghenion pob grŵp gan gynnwys pobl ddall a phobl sy'n rhannol ddall.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn croesawu'r ymrwymiad o'r newydd i Fapiau Rhwydwaith Teithio Llesol ond yn mynegi siom nad ydynt yn gweld yr un ymrwymiad i gynnal y safonau a nodir yng Nghanllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol - bydd cynnal y safonau hyn yn bwysig wrth wneud y mwyaf o gyllid ar gyfer datblygiadau teithio llesol. Awgrymir bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol terfynol yn cynnwys datganiad clir y bydd Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol yn cael eu cynnal.	Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am gyhoeddi ei Chanllawiau Deddf Teithio Llesol, sy'n cynnwys yr arferion gorau o ran dylunio seilwaith ac yn rhoi canllawiau ar sut i ddarparu cyfleusterau cysylltiedig fel lle parcio beiciau. Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys cynlluniau i'w datblygu gan awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gyflawni, ac a ddylai gymhwyso'r canllawiau perthnasol fel rhan o waith cynllunio, dylunio a datblygu prosiect fel y bo'n briodol.
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y dylai'r cynlluniau gynnwys y cynlluniau canlynol: • Llwybrau trawsffiniol a nodwyd gan Gynghrair Merswy a Dyfrdwy yn eu Strategaeth Teithio Llesol 2024 a'r cyfle i newid dulliau teithio yn y llif ar draws y ffin. • Elfennau allweddol o argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru, yn enwedig 'uwchraddio a chwblhau rhannau coll o'r NCN5 ar hyd yr arfordir' (nodir rhai gwelliannau unigol ond dylid ystyried y llwybr fel ased rhanbarthol).	Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi'r dull a gymerwyd tuag at nodi a blaenoriaethu cynlluniau, a chanlyniadau. Mae hyn yn seiliedig ar broses y cytunwyd arno sy'n cynnwys Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru ochr yn ochr ag awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau trawsffiniol i'w datblygu gan awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gyflawni.

	Mae rhai ymatebwyr yn nodi lleoliadau penodol ble maen nhw'n gweld bod darpariaeth teithio llesol annigonol, gan gynnwys: • Gwynedd i Ynys Môn • Caernarfon a Bangor i Lanberis • Ynys Môn i'r tir mawr • Treffynnon i Brestatyn • Dolwyddelan i Fetws-y-Coed • A470 Cwm Lledr • Llanfachraeth • Bodedern • Wrecsam i'r Wyddgrug Awgrymwyd hefyd y dylid trosi hen leiniau rheilffordd yn llwybrau teithio llesol, gan ganiatáu llwybrau ar wahân i feicwyr, cerddwyr a defnyddwyr eraill y ffordd, yn benodol: • Yr Wyddgrug i Rydymwyn a thu hwnt trwy Gwm Chwiler i Ddinbych • Y Rhyl i Gaer • Rhuthun i Ddinbych	Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys ystod eang o gynlluniau teithio llesol sy'n ceisio gwella cysylltedd a darpariaeth ar gyfer cerdded, olwyno a beicio. Bydd y coridorau/llwybrau y gofynnir amdanynt yn cael eu hystyried fel rhan o adolygiadau Map Rhwydwaith Teithio Llesol. Mae'r Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol AT4 wedi'i anelu at wella teithio llesol mewn ardaloedd gwledig ac mae'n ystyried yn benodol y cyfle i ddefnyddio hen leiniau rheilffordd ar gyfer teithio llesol a chysylltu trefi, - dylid eu harchwilio fel mesurau ategol i ddarparu'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol. Llywodraeth Cymru a'r Asiant Cefnffyrdd sy'n gyfrifol am ddwy bont y Fenai, a bydd Cyngor Ynys Môn yn parhau i ymgysylltu ochr yn ochr ag Uchelgais Gogledd Cymru ynghylch mynediad cadarn a chynaliadwy yn yr ardal hon. Mae Cynllun A5 Llanfairpwll eisoes wedi datblygu i gysylltu â Dolen Menai. Mae Bodedern a Llanfachraeth y tu allan i'r aneddiadau teithio llesol, fodd bynnag, bydd y potensial i wella cysylltiad â Bodedern yn cael ei ystyried fel rhan o Astudiaeth WelTAG a fydd yn cysylltu Awyrlu Brenhinol y Fali â'r Fali. Gellid ailedrych ar y ddarpariaeth yn Llanfachraeth pe bai'r datblygiadau yn Wylfa Newydd yn mynd rhagddo. Mae prosiect Pont Reilffordd Afon Clwyd o fewn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn bwriadu defnyddio rhychwant diangen y bont reilffordd i ddarparu llwybr teithio llesol newydd sy'n cysylltu'r Rhyl a Bae Cinmel. Mae Llwybr 5 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn cysylltu Prestatyn â'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Sir y Fflint, ac mae sylwadau yn cael eu nodi.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn ystyried bod angen i'r cynlluniau hyrwyddo a gwella llwybrau teithio llesol yn well. Mae'r awgrymiadau a wnaed yn cynnwys: • Mynedfeydd hawl tramwy • Gweithredu mesurau tawelu traffig • Gwahanu beicwyr oddi wrth gerddwyr i wella diogelwch • Angen 'ystyriaeth hanfodol' wrth benderfynu ar led y llwybr i warchod cynefinoedd bywyd gwyllt ac ystyried defnyddwyr eraill y ffordd • Ystyried effaith 20mya ar feicwyr – mae rhai o'r farn ei bod yn beryglus cael traffig cerbydau yn teithio ar yr un cyflymder â beicwyr • Marciau ffyrdd i ddangos blaenoriaeth i gerddwyr • Gwella diogelwch o amgylch safleoedd cyfnewidfa posibl e.e. safleoedd bws • Mwy o hyblygrwydd mewn Canllawiau Dylunio Teithio Llesol ar gyfer teithiau cerdded gwledig i ganiatáu i awdurdodau lleol ddatblygu llwybrau teithio llesol yn llwyddiannus er budd pob defnyddiwr • Darparu llwybrau teithio llesol i ysgolion	Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi'r dull o flaenoriaethu'r cynlluniau, a'r canlyniadau. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau teithio llesol i'w datblygu gan awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gyflawni, a fydd yn ystyried y canllawiau teithio llesol perthnasol a'r arfer orau wrth ddylunio a datblygu eu cynlluniau.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
Integreiddio rhwng dulliau	Mae rhai ymatebwyr yn cytuno bod angen integreiddiad pellach rhwng dulliau, yn enwedig rhwng bws a rheilffyrdd, gyda mwy o hygyrchedd. Mae rhai yn awgrymu bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn canolbwyntio ar ddulliau trafnidiaeth ar wahân, ac yn awgrymu bod angen mwy o ffocws ar ryng-gysylltedd. Mae rhai ymatebwyr yn nodi hyn ar gyfer y llwybrau bws rhwng Bangor a Chyffordd Llandudno, a ddylai fod yn stopio yn yr orsaf, nid Conwy yn unig.	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod pwysigrwydd integreiddio dulliau teithio a rhwydwaith, ac un o'i themâu trawsbynciol yw integreiddio. Mae'n cydnabod bod newid dulliau teithio yn gofyn am ddull holistig, integredig o gynllunio teithiau, gan weithio ar draws gwahanol ddulliau a sectorau i'w gwneud hi'n haws i bobl deithio o ddrws i ddrws gan ddefnyddio dulliau trafnidiaeth cynaliadwy. Mae'n canolbwyntio ar wella integreiddio a chysylltedd trawsffiniol, ac integreiddio effeithiol rhwng gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd trwy ei gwneud hi'n haws newid Mae themâu polisi yn cynnwys integreiddio rhwng dulliau gyda pholisïau ac ymyriadau penodol IN1-5. Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys cynlluniau sy'n ceisio gwella cysylltedd bysiau drwy integreiddio trafnidiaeth Gorsaf Cyffordd Llandudno; Integreiddio trafnidiaeth Ardal Gorsaf Porth Bangor; a Hwb Symudedd ym Mangor. Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol hefyd yn cynnwys cynllun i wella canol tref Bae Colwyn sy'n cynnwys gwella seilwaith y ffordd y tu allan i flaengwrt yr orsaf ym Mae Colwyn.
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y dylid mynd i'r afael ag integreiddio trenau a bysiau ym Mae Colwyn, mewn ffordd debyg i'r hyn a wnaed yn Llandudno a'r Rhyl, gyda seilwaith safleoedd bws hefyd angen ei uwchraddio.	Mae'r Cynllun Cyflawni yn cynnwys Cynllun 8 Integreiddio â gwasanaethau trafnidiaeth strategol: Integreiddio trafnidiaeth gorsaf Bae Colwyn, a fydd yn gwella canol tref Bae Colwyn sy'n cynnwys gwella seilwaith y ffordd y tu allan i flaengwrt yr orsaf ym Mae Colwyn.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn ystyried yr angen am leoliadau cyfnewid yng: • Nghaernarfon, gan gynnwys cysylltiadau â rhwydweithiau Sherpa/Traws Cymru • Llanfairpwll	Mae Cyngor Gwynedd yn cadarnhau bod cyfnewidfa Caernarfon ar hyn o bryd yn hwyluso cysylltiadau â gwasanaethau Sherpa/ Traws Cymru. Mae cyfnewidfa fysiau ym Mhorthaethwy a gwasanaeth gwell ar gael ym Mangor tra byddai cyfnewidfa yn Llanfairpwll yn dyblygu'r ddarpariaeth bresennol. Ystyrir y dylai'r ffocws fod ar integreiddio amserlenni bysiau a rheilffyrdd yn Llanfairpwll. Byddai hyn yn bosibl fel opsiwn i newid dulliau teithio. Ar hyn o bryd, nid yw amserlenni'r gwasanaeth bysiau ar Ynys Môn yn cael eu llunio i sicrhau integreiddio ag amserlenni rheilffyrdd, felly mae potensial i wella.
	Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod angen i bolisïau integreiddio ystyried gweithredu a chost tocynnau integredig.	Mae ein cynlluniau ar gyfer teithio ar fws yn cael eu hystyried o fewn cyd-destun y rhwydwaith bws arfaethedig ledled Cymru ar gyfer y dyfodol, - mae Trafnidiaeth Cymru wrthi'n datblygu hyn fel rhan o gynigion Llywodraeth Cymru i gyflwyno masnachfreintiau bws. Mae disgwyl i'r cynigion hyn gyflawni system drafnidiaeth aml-ddull sy'n integredig a llyfn, gyda gwybodaeth well, prisiau siwrnai a thicedu gwell i gwsmeriaid o 2026 ymlaen.
	Mae rhai ymatebwyr yn croesawu'n arbennig Polisi IN5 ac yn gobeithio y bydd opsiynau yn cael eu hystyried yn fuan ar gyfer Parcio a Theithio i fynd i'r afael â'r problemau tagfeydd a pharcio difrifol yn ardal Eryri yn ystod oriau prysur.	Nodwyd.
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu cysylltu Porthaethwy â gorsafoedd trên Llanfairpwll a Bangor yn gynharach ac yn hwyrach yn y dydd ac ar ddydd Sul.	Nodwyd (yn amodol ar wneud penderfyniadau masnachol a gallai Cyngor Sir Ynys Môn ailymweld fel rhan o fasnachfreinio bysiau).

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at yr angen am well integreiddio rhwng dulliau teithio, yn enwedig amseroedd bysiau a threnau, i ddarparu ar gyfer cymudwyr a disgyblion ysgol, neu sicrhau bod meysydd parcio mewn gorsafoedd bysiau a threnau yn ddiogel ac ar gael fel nad oes rhaid cwblhau teithiau yn gyfan gwbl mewn car.	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ymateb i'r angen am wella integreiddio rhwng dulliau yn ei bolisïau IN1-6.
	Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod darpariaeth barcio mewn gorsafoedd ar lein y Gororau ym Mwcle, Penarlâg a Shotton yn ddigonol a byddai rhwystr i fwy o ddefnydd o'r lein pe bai'r gwelliant gwasanaeth arfaethedig yn digwydd.	Nodwyd. Mae hyrwyddo teithio llesol ac integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu hannog fel rhan o'r cynlluniau i helpu i sicrhau newid mewn ddulliau teithio, gan gydnabod nad yw'n ymarferol cynyddu'r ddarpariaeth parcio ceir yn y gorsafoedd hyn. Mae Cyngor Sir y Fflint yn awgrymu y dylid rhoi ystyriaeth bellach i ddatblygu Gorsaf Penyffordd (Caer) fel cyfle Parcio a Theithio ar gyfer y rheilffordd. Hefyd, lle mae parcio yn cael ei ystyried, mae angen i hyn hyrwyddo darpariaeth cerbydau trydan.
Porthladdoedd a chludo llwythi	Mae rhai ymatebwyr yn dweud nad yw'r cynlluniau yn gosod targed i gefnogi'r symudiad at gludo nwyddau ar y rheilffordd. Awgrymir y dylai'r targed alinio â tharged cenedlaethol yr Adran Drafnidiaeth (twf o 75% mewn cludo nwyddau ar y rheilffyrdd erbyn 2050) a tharged Trafnidiaeth i'r Gogledd i dreblu cyfran cludo nwyddau ar y rheilffyrdd i 25.5% erbyn 2050.	Mae'r Cynllun Monitro a Gwerthuso yn nodi cyfres o fesurau a dangosyddion i helpu i ystyried cynnydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol tuag at dargedau a nodwyd, yn unol â Fframwaith Monitro Trafnidiaeth Cymru, gan ymateb i ganllawiau Llywodraeth Cymru i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Mae Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru yn cynnal eu prosesau monitro eu hunain ar dargedau cenedlaethol.
	Mae rhai yn argymell cyfeiriad pellach at Borthladd Lerpwl i adlewyrchu rôl y Porthladd yn y rhanbarth a goblygiadau traffig HGV, gan adlewyrchu'r angen i liniaru, datgarboneiddio a symud at y rheilffyrdd lle bo hynny'n bosibl.	Mae'r cynlluniau yn cydnabod pwysigrwydd trafnidiaeth a chysylltedd trawsffiniol, ac mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru i gynnwys cyfeiriad at Borthladd Lerpwl yn unol â hynny.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn cefnogi'r newid o'r ffordd i'r rheilffordd ar gyfer cludo nwyddau i helpu i leihau tagfeydd a llygredd. Fodd bynnag, tynnir sylw at y ffaith na ellir gweld nwyddau yn cael eu cludo ar y rheilffordd yn gyfan gwbl, yn hytrach nag ar y ffordd. Gall y ddau ddull trafnidiaeth hyn weithio gyda'i gilydd, i gefnogi symudiadau logisteg, ond pan fydd angen symud nwyddau ar fyr rybudd, yn aml yr opsiwn gorau yw'r ffordd. Felly, byddai buddsoddiad strategol yn y rhan hon o'r rhwydwaith ffyrdd yn ddefnyddiol i'r holl weithredwyr logisteg (ym Mhrydain Fawr ac Iwerddon), gan y bydd yn helpu i sicrhau bod nwyddau yn cael eu symud yn y ffordd fwyaf effeithlon..	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys ystod o bolisïau sy'n ceisio sicrhau bod trafnidiaeth ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd, a hynny ar gyfer cludo nwyddau hefyd, yn addas i'r diben. Mae'r Cynllun yn ceisio cefnogi datgarboneiddio nwyddau hefyd.
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y llwybrau canlynol ar gyfer cludo nwyddau ar y rheilffordd: • Caer i borthladd Caergybi i helpu i leihau tagfeydd ar yr A55. • Llangefni ac Amlwch ar gyfer rheilffordd ysgafn.	Bydd Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol PF9 (gweithio gyda phartneriaid yn y diwydiant rheilffyrdd i gefnogi newid i reilffyrdd ar gyfer symud nwyddau, gan gynnwys logisteg ysgafn ar reilffyrdd) yn helpu i nodi'r angen am welliannau gan gynnwys y rhai a awgrymwyd.
	Mae rhai ymatebwyr yn cefnogi twf porthladd, gorsaf reilffordd a safleoedd Porthladd Rhydd cyfagos yng Nghaergybi (Polisïau PF1-PF3) ond yn tynnu sylw y gallai fod goblygiadau pellach oherwydd mwy o symud nwyddau. Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu bod angen uwch-gynllun holl-gynhwysfawr ar gyfer y porthladd a'r orsaf reilffordd ehangach (yn ogystal â chysylltiadau priffyrdd) gan fod hyn yn cael ei ystyried yn ddarn allweddol o seilwaith strategol i sbarduno trafnidiaeth ac adfer datblygiad economaidd yn y rhanbarth.	Perchennog Porthladd Caergybi yw Stena Line Ports Limited, is-gwmni i Stena Line. Mae Stena Line yn rheoli Porthladd Caergybi a byddai'n gyfrifol am gyflwyno unrhyw uwch-gynllun mewn cydweithrediad â phartneriaid neu randdeiliaid allweddol yn y sector cyhoeddus. Drwy'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol, mae cynlluniau awdurdodau lleol perthnasol yn cynnwys Cynllun 169 Gwelliannau mynediad ar y ddaear a gwaith cysylltiedig i oresgyn cyfyngiadau trafnidiaeth i gael mynediad i safleoedd porthladd rhydd Ynys Môn; Cynllun 255 Mynediad i Safleoedd Porthladd Rhydd; a Chynllun 168 Tanwyddau Amgen Cludo Nwyddau (Hydrogen yng Nghaergybi).

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y bydd cynllunio ar gyfer trydaneiddio cludo nwyddau yn hanfodol ac y byddai adnabod safleoedd a seilwaith ar gyfer codi tâl am gludo nwyddau, yn enwedig ar hyd coridor yr A55, yn ychwanegiad buddiol i Bolisi RS10.	Mae Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol PF4 (cefnogi newid i danwydd hydrogen ar gyfer gweithredwyr cludo nwyddau yn y rhanbarth) a Pholisi PF5 (cyfleoedd ar gyfer trydaneiddio cerbydau ar gyfer danfon yn lleol) yn berthnasol. Mae cefnogaeth ar gyfer adnabod safleoedd a seilwaith rhagweithiol ar gyfer codi tâl am gludo nwyddau, yn enwedig ar hyd coridor yr A55, wedi cael mwy o ystyriaeth wrth ddiweddaru'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.
	Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod trafnidiaeth ar y môr yn cael ei hanwybyddu gydag angen am amserlen fferi fwy hawdd ei ddefnyddio rhwng Dulyn a Gogledd Cymru. Mae Stena Line a Irish Ferries yn weithredwyr fferi masnachol cystadleuol ac mae eu llongau yn dilyn amserlen debyg iawn, yn gyffredinol yn gadael bwlch chwe awr rhwng hwylio. Byddai hwylio tua bob tair awr yn llawer mwy ffafriol i gryfhau a thyfu'r cysylltiadau economaidd a chymdeithasol rhwng Cymru ac Iwerddon.	Mae amserlenni hwylio yn gyfrifoldeb i'r gweithredwyr masnachol presennol ond mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ceisio cefnogi datblygiad porthladdoedd a'r bobl a'r nwyddau sy'n symud drwyddynt trwy bolisïau sy'n ceisio gwella mynediad a chysylltedd.
	Mae rhai ymatebwyr yn mynegi cefnogaeth i Bolisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol PF1-PF3, gan nodi bod gwelliannau yn y dyfodol i gefnogi twf y porthladd, gorsaf reilffordd a safleoedd Porthladd Rhydd cyfagos yn cael eu croesawu. Mae rhai o'r farn bod angen uwch-gynllun holl-gynhwysfawr ar gyfer y porthladd a'r orsaf reilffordd ehangach.	Nodwyd. Mae Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol 6 (Uwch-gynllun Trafnidiaeth Caergybi) yn ceisio cefnogi Trafnidiaeth Cymru a sefydliadau partner eraill i helpu i symud ymlaen gyda dull cynhwysfawr ac integredig o gynllunio ar gyfer gwelliannau yn yr ardal.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu defnyddio amonia a gynhyrchir gan ddefnyddio hydrogen gwyrdd a glas mewn porthladdoedd, gan awgrymu bod hyn yn debygol o dyfu'n sylweddol fel tanwydd morol carbon isel amgen sy'n galluogi datgarboneiddio'r sector morol. Gallai hyn gynnwys llongau sy'n gweithio sy'n mynd i mewn ac yn gadael porthladdoedd Mostyn a Chaergybi, llongau cargo, cludiadau fferi HGV, a thwristiaeth. Awgrymir bod y cynllun yn gwneud rhai cyfeiriadau byr at weithio gyda phartneriaid i ddatblygu hybiau ail-lenwi trafnidiaeth hydrogen ar gyfer cerbydau ffordd, ond dylai hefyd ystyried gweithio gyda phartneriaid yn y diwydiannau morol a rheoli porthladdoedd i alluogi cynhyrchu, storio a chyflenwi amonia ar gyfer y diwydiant morol.	Mae cynhyrchu, storio a chyflenwi amonia ar gyfer y diwydiant morol y tu allan i gwmpas y Cynllun Trafnidiaeth ond bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn ystyried yn ofalus sut orau i ymgysylltu â rhanddeiliaid i gefnogi'r porthladdoedd i ddatblygu eu capasiti a'u gallu mewn perthynas â gwell mynediad a dadgarboneiddio.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn meddwl y gellid cynnwys polisi neu gynllun yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar ddatgarboneiddio cerbydau nwyddau trwm.	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi nad oes unrhyw gyfleusterau yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd fyddai'n cefnogi cludwyr yn y rhanbarth sy'n ceisio newid i ddefnyddio cerbydau allyriadau isel. Byddai cefnogi cludwyr i wneud y newid hwn yn lleihau effaith leol cerbydau HGV yng ngogledd Cymru. Mae Polisi PF4 (cefnogi newid i danwydd hydrogen ar gyfer gweithredwyr cludo nwyddau yn y rhanbarth) a Pholisi PF5 (cyfleoedd ar gyfer trydaneiddio cerbydau ar gyfer danfoniadau lleol) yn ceisio helpu i ymdrin â'r angen am welliannau. Bydd Cynllun Twf Gogledd Cymru, drwy ei brosiect Hwb Hydrogen Caergybi gyda'i ariannwr arweiniol, Menter Môn Cyf, yn sefydlu cyfleuster dosbarthu a chynhyrchu hydrogen gwyrdd ym Mharc Cybi, Caergybi, o fewn parth Porthladd Rhydd Ynys Môn - bydd yn darparu ar gyfer cwsmeriaid trafnidiaeth y ffordd, morwrol a rheilffordd ar draws Gogledd Cymru. Bydd yr hwb yn cynyddu sicrwydd ynni hydrogen, gan leihau'r ddibyniaeth ar fewnforion a lleihau allyriadau carbon, yn enwedig yn y sector cludiant. Bydd y prosiect yn chwarae rhan allweddol yn natblygiad economi hydrogen y rhanbarth, gan ysgogi masnacheiddio a mabwysiadu hydrogen fel tanwydd, denu mewnfuddsoddiad, a chreu swyddi gwerth uchel yn y tymor hir.
	Mae rhai ymatebwyr yn ystyried pwysigrwydd hanfodol Porthladd Caergybi i'r rhanbarth (a'r DU ehangach) gyda chefnogaeth i bolisïau PF2 a PF3 sy'n anelu at wella mynediad cerbydau a chyfleusterau i yrwyr HGV. Mae eraill yn awgrymu bod angen cyfleusterau parcio HGV naill ochr i'r Fenai.	Nodwyd. Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys Cynllun 117 (Darparu parcio HGV yng Nghaergybi, ar hyd yr A55 ac ar ddwy ochr Pont Britannia).

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y dylai'r cynlluniau gynnwys fferïau trydan ar gyfer twristiaid.	Mae Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol PF1 yn ceisio cefnogi twf ein porthladdoedd a'n safleoedd datblygu cyfagos yng Ngogledd Cymru, a chefnogi eu cynlluniau ar gyfer datgarboneiddio. Mae datgarboneiddio cerbydau porthladd a fferïau wedi cael mwy o ystyriaeth fel rhan o ddiweddariadau i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
Ffyrdd, strydoedd a pharcio	Mae rhai ymatebwyr yn croesawu ffocws y Cynllun ar gefnogi'r trawsnewidiad cerbydau trydan (EV) trwy ddarparu isadeiledd gwefru digonol a chysylltiad â chynllunio defnydd tir. Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu bod ardaloedd gwledig yn dioddef o ddiffyg darpariaeth i gerbydau trydan gyda'r posibilrwydd o osod pwyntiau gwefru yn amrywio ar draws y rhanbarth. Mae ymatebwyr eraill yn cefnogi gweithredu isadeiledd cerbydau trydan a'r posibilrwydd o fysiau trydan yn ogystal â cheir. Awgrymir bod Fframwaith Isadeiledd Gwefru Trafnidiaeth EV i'r Gogledd ac adroddiad Isadeiledd Presennol EV ar gael i'r cyhoedd a gallant ddarparu tystiolaeth ehangach ynglŷn â sut y gall partneriaid gynyddu eu defnydd o EV mewn dull trawsffiniol. Mae ymatebwyr eraill yn codi pryderon am y gor-ddibyniaeth bosibl ar y grid cenedlaethol ar gyfer cynnydd yn y galw am wefru EV sy'n arwain at gamgynrychioli posibl o fanteision datgarboneiddio. Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu ail-bwrpasu isadeiledd tanwydd a gorsafoedd gwasanaeth presennol, mwy o gefnogaeth i berchnogaeth gymunedol o wefru EV, a'r angen am wybodaeth fwy gwrthrychol i drigolion am gerbydau allyriadau isel. Mae rhai yn mynegi cefnogaeth i bwyntiau gwefru gaiff eu sybsideiddio ar strydoedd preswyl a chanolfannau cymunedol fel cymhellion i annog mwy o ddefnydd o geir trydan.	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod pwysigrwydd datgarboneiddio trafnidiaeth trwy ei bolisïau perthnasol RS7-11 a PF5 ac mae wedi'i ddiweddaru i gyfeirio ac ystyried Fframwaith Isadeiledd Gwefru EV Trafnidiaeth i'r Gogledd a'r adroddiad isadeiledd EV presennol a sut y gall partneriaid gynyddu'r defnydd o EV mewn dull trawsffiniol. Mae'r Cynllun hefyd wedi'i ddiweddaru i gryfhau'r ymrwymiad i gerbydau allyriadau isel, gan gynnig cefnogaeth i ail-bwrpasu isadeiledd tanwydd a gorsafoedd gwasanaeth presennol, perchnogaeth gymunedol o gyfarpar gwefru EV, a'r angen am wybodaeth fwy gwrthrychol am gerbydau allyriadau isel i drigolion. Mae'r Cynllun hefyd wedi'i ddiweddaru i gyfeirio at strategaeth ynni gogledd Cymru, sy'n galw am fwy o ynni adnewyddadwy i ateb y galw yn y dyfodol i gyflawni sero net erbyn 2050, a chywiro anghysondebau yn y dyddiadau targed ar gyfer cerbydau allyriadau sero.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn canolbwyntio'n helaeth ar gerbydau trydan (EVs) ac isadeiledd gwefru, gan ddibynnu ar ehangu'r grid cenedlaethol i gwrdd â'r galw cynyddol yma am drydan, ac nid yw'n mynd i'r afael â sut y bydd y trydan hwn yn cael ei gyflenwi. Awgrymir hefyd y dylai'r cynlluniau sicrhau bod ynni adnewyddadwy yn cwrdd â'r galw cynyddol i gyflawni manteision sero net a chynaliadwyedd. Nodir hefyd bod anghysondebau yn y dyddiadau targed ar gyfer cerbydau allyriadau sero yng Ngogledd Cymru (wedi'u nodi fel 2030 ar t27 a 2035 ar t93).	Mae isadeiledd cynhyrchu ynni y tu allan i gwmpas y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, ond mae wedi'i ddiweddaru i roi mwy o ystyriaeth i synergeddau â Strategaeth Ynni Ranbarthol berthnasol gogledd Cymru. Mae anghysondebau yn y dyddiadau targed ar gyfer cerbydau allyriadau sero yng ngogledd Cymru (a nodir fel 2030 ar t27 a 2035 ar t93) wedi'u cywiro.
	Mae rhai ymatebwyr yn eiriol dros gynnwys Systemau Rhybuddio Acwstig i Gerbydau (AVAS) i gerbydau trydan, a bod hynny'n fandadol, gan esbonio bod hyn yn arbennig o bwysig i bobl ddall a rhannol ddall sy'n dibynnu ar arwyddion clywedol.	Mae cynnwys Systemau Rhybuddio Acwstig i Gerbydau (AVAS) i gerbydau trydan, yn orfodol, y tu allan i gwmpas y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, ond bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i helpu sicrhau bod eu cerbydau fflyd eu hunain yn cael eu galluogi.
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu bod Polisi RS6 yn cefnogi ymgorffori paneli haul ar y to neu ganopi meysydd parcio a rennir, a fyddai'n osgoi colli tir ac amrywiaeth yn sgil ffermydd solar newydd. Gellid cymhwyso'r dull hwn hefyd i orsafoedd a depos bysiau sy'n cyd-fynd â nodau Strategaeth Ynni Gogledd Cymru o hyrwyddo ynni adnewyddadwy a lleihau effeithiau ar ddefnydd tir.	Mae Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol RS6 wedi'i ddiweddaru i ymgorffori gorsafoedd a depos bysiau, gan gyd-fynd â Strategaeth Ynni Gogledd Cymru.
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y byddai cynnwys y fframwaith caffael cenedlaethol a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer isadeiledd cerbydau trydan yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn fuddiol iawn.	Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu fframwaith caffael cenedlaethol ar gyfer isadeiledd gwefru cerbydau trydan i safoni a gwella safonau'r diwydiant, gan sicrhau isadeiledd gwefru cyson ac integredig ledled Cymru. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru i gyfeirio at y gwaith hwn.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu bod cefnogi clybiau ceir cymunedol gan gynnwys Car-n-arfon (Polisi RS12) yn cyd-fynd â'r Strategaeth Ynni Ranbarthol, cam gweithredu 4G, i ddarparu isadeiledd a gwasanaethau trafnidiaeth carbon isel sy'n canolbwyntio ar y gymuned.	Mae Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol RS12 wedi'i ddiweddaru i ymgorffori cyfeiriad at Car-n-arfon fel enghraifft o isadeiledd a gwasanaethau trafnidiaeth carbon isel sy'n canolbwyntio ar y gymuned, gan gyd-fynd â Strategaeth Ynni Gogledd Cymru.
	Mae rhai ymatebwyr yn pwysleisio'r pwysigrwydd bod cyllid digonol ar gael i gynnal isadeiledd presennol priffyrdd, gan gynnwys ffyrdd a phontydd ac asedau cysylltiedig. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran gwytnwch hinsawdd. Nododd rhai arwyddocâd ansawdd wyneb y ffordd i feicwyr a gwasanaethau bysiau.	Mae Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol RS1 yn darparu cyfle i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig weithio gyda phartneriaid i sicrhau cyllid digonol ar gyfer arwynebau a chynnal a chadw strwythur sy'n sicrhau gweithrediad parhaus a gwytnwch asedau presennol priffyrdd.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys polisïau yn erbyn modurwyr tra'n awgrymu nad oes unrhyw system drafnidiaeth gyhoeddus amgen, y gellir ei defnyddio, yn cael ei darparu. Galwodd rhai ymatebwyr am gael gwared ar bolisi 20mya Llywodraeth Cymru yn ogystal â mynegi ymdeimlad bod modurwyr dan anfantais oherwydd cyfyngiadau cyflymder is, ac mae rhai yn awgrymu bod hyn yn aml yn achosi tagfeydd traffig ac oedi. Er bod rhai ymatebwyr yn cytuno bod trafnidiaeth rhatach sydd ar gael yn haws yn beth da, ystyrir hefyd na ddylai hyn fod ar draul trafnidiaeth breifat sydd ei angen, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.	Nod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yw hyrwyddo a gwella pob dewis trafnidiaeth sydd ar gael ar draws gogledd Cymru, gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio ceir preifat. Nod y dyheadau o dan yr Uchelgais Ffyrdd Strategol yw cynnal a gwella'r rhwydwaith ffyrdd ar gyfer modurwyr preifat yn ogystal â defnyddiau trafnidiaeth amgen. Fel yr amlinellir yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, mae ffyrdd yng ngogledd Cymru yn cael eu cynnal gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Llywodraeth Cymru sy'n golygu nad oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig na'r Awdurdodau Lleol ddylanwad uniongyrchol ar y rhwydwaith ffyrdd strategol. Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi ymrwymo i ddatgarboneiddio trafnidiaeth ac annog newid mewn modd teithio lle ac fel y bo'n briodol. Mae'r cynllun 20mya yn Strategaeth Llywodraeth Cymru sydd y tu allan i gylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Yn dilyn cyfnod gwrando cyhoeddus a chyhoeddi canllawiau diwygiedig, mae awdurdodau lleol Cymru wedi bod yn ymgynghori ar newidiadau posibl i'r cyfyngiad cyflymder diofyn o 20mya, gyda rhai awdurdodau'n dechrau asesu ffyrdd a chynnig newidiadau yn ôl i 30mya mewn rhai achosion lle mae achos wedi'i wneud dros eithriadau.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn codi pryderon ynglŷn â'r gostyngiad posibl mewn parcio yng nghanol trefi ac ardaloedd twristaidd gan dynnu sylw at y ffaith bod angen ceir ar y rhan fwyaf o dwristiaid i grwydro drwy ogledd Cymru. Gwneir rhai awgrymiadau gan gynnwys cydweithredu â ffermwyr lleol i gynyddu'r ddarpariaeth parcio pan fo angen ac i leihau parcio yng nghanol tref lle mae dewisiadau amgen ar gael. Mae ymatebwyr eraill yn tynnu sylw at y defnydd o gyfleusterau Parcio a Theithio sy'n effeithiol, os yw taliadau parcio yn rhesymol. Mae rhai ymatebwyr yn ystyried yr angen am ddull cyson ar gyfer costau parcio ceir ledled y rhanbarth.	Mae Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol RS5 a RS6 yn ceisio cefnogi parcio cyhoeddus i geir, sy'n gynaliadwy, mewn trefi a dinasoedd. Mae'r awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru yn rheoli ac yn gweithredu ystod o feysydd parcio cyhoeddus sy'n gwasanaethu canol trefi a dinasoedd yn ein rhanbarth. Yr awdurdodau lleol sy'n pennu faint o le parcio sydd ar gael a'r tâl am barcio a rhaid iddynt ystyried y cydbwysedd rhwng faint o le parcio sydd ei angen i gefnogi busnesau lleol, gan annog newid i deithio mwy cynaliadwy, a chost gweithredu'r gwasanaeth parcio. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddatblygu strategaeth integredig ar barcio i gefnogi polisïau trafnidiaeth a lleoliadol cyffredinol eu cynlluniau datblygu lleol. Dylai awdurdodau lleol ystyried materion parcio ar y cyd ag awdurdodau cyfagos. Dylid defnyddio safonau parcio gyda hyblygrwydd, gan geisio lefelau is o barcio i gefnogi datblygiad lleoedd o ansawdd uchel. Weithiau gall darparu meysydd parcio dra-arglwyddiaethu ar ein trefi a'n dinasoedd, gyda meysydd parcio a pharcio ar y stryd yn cymryd llawer iawn o le. Weithiau gellid defnyddio'r gofod hwn yn well i gyfoethogi creu lleoedd a gwella'r amgylchedd leol. Mae Siarter Creu Lleoedd Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd creu lleoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda, yn gynaliadwy ac yn gynhwysol. Mae'n annog awdurdodau lleol a datblygwyr i ystyried effeithiau ehangach parcio ceir ac i flaenoriaethu egwyddorion creu lleoedd wrth gynllunio trefi.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr o'r farn nad oes digon o bwyslais ar fioamrywiaeth ac isadeiledd gwyrdd, yn enwedig o ran goleuadau stryd, a chredir y dylai awdurdodau priffyrdd leihau hyn. Ystyriwyd nad oes gan awdurdodau priffyrdd yr awydd i weithredu isadeiledd gwyrdd ac felly ystyrir nad yw Polisi RS6, sy'n cyfeirio at ailddyrannu mannau parcio i wella'r amgylchedd lleol, yn effeithiol.	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod y gallai trawsnewid ardaloedd parcio sy'n cael eu tanddefnyddio neu newid y ffordd y mae pobl yn cyrchu ein lleoedd mewn car arwain at fwy o leoedd yn dod i ddefnydd cymunedol gwell fel parciau neu erddi, a all wella bioamrywiaeth drefol, darparu mannau hamdden a gwella ansawdd aer. Trwy ailfeddwl sut mae parcio ceir wedi'i integreiddio yn ein trefi a'n dinasoedd yng ngogledd Cymru, gallwn greu cyfleoedd i fod o fudd i'n hamgylcheddau lleol, hyrwyddo teithio cynaliadwy, a chreu mannau cyhoeddus mwy deniadol ac ymarferol. Mae adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus gan gynnwys Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ac awdurdodau lleol i 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth' i'r graddau y mae'n gyson ag arfer priodol y swyddogaethau hynny. Wrth wneud hynny, rhaid i awdurdodau cyhoeddus hefyd geisio 'hyrwyddo gwytnwch ecosystemau'. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wrth ystyried Polisi RS6 wedi'i ddiweddaru i gyfeirio at y ddyletswydd honno.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn mynegi cefnogaeth i welliannau i'r A548 gan nodi y byddent yn lleihau traffig ar Aston Hill ac yn creu mynedfa fwy croesawgar i dwristiaid.	Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod y cyfle i fwrw ymlaen â gwelliannau i'r A548 ac mae'n cynnwys cynllun Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer gwella diogelwch llwybrau'r A548. Mae Cyngor Sir y Fflint yn cadarnhau bod cyflwyniadau blaenorol wedi'u gwneud i Lywodraeth Cymru ac Asiant y Cefnffyrdd i'r A548 fod yn gefnffordd drwy Sir y Fflint. Dylid ystyried cyswllt mwy cadarn o'r A55 a'r A548 fel ffactor brys a hanfodol sy'n rhoi cyfle i lwybro'r A550/A55 i ffwrdd o fannau cyfyng presennol wrth bont Queensferry ac Aston Hill. Trwy ddarparu llwybr amgen i ran arfordirol yr A55 o rwydwaith traffyrdd Lloegr, gellid lleihau'r llwybr presennol o ran capasiti, trwy dynnu'r tros-bontydd o gyfnewidfeydd Queensferry ac Ewlo. Byddai hyn yn darparu gwelliant amgylcheddol ac o ran llygredd a gwytnwch i un o'r llwybrau prysuraf i mewn i Gymru a llwybr Ewropeaidd allweddol i Iwerddon. Byddai cynnal rhywfaint o gapasiti ond symud y rhan fwyaf o'r traffig i'r A548 yn rhoi'r fantais ychwanegol o ddarparu cylchffordd gylchredol lawn o amgylch ardal Glannau Dyfrdwy, Queensferry, Cei Connah gan leihau'r problemau tagfeydd a brofir yn yr ardal ar hyn o bryd.
	Mae rhai ymatebwyr yn ystyried ei bod yn flaenoriaeth allweddol i adeiladu cyswllt rhwng pont y Fflint a Llaneurgain.	Mae Cyngor Sir y Fflint yn ymwybodol o ganlyniad Adolygiad Ffyrdd yr A55, yr A494 a llwybrau SRN eraill, oedd yn dilyn argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru ac yn cyd-fynd â'r profion adeiladu ffyrdd yn y dyfodol. Roedd Sir y Fflint wedi awgrymu opsiynau amgen ar gyfer gwelliannau i'r coridor hwn a elwir yn opsiwn "Gwyrdd", a fyddai wedi cynyddu gwytnwch, ond nid oedd angen y ffordd gyswllt.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn croesawu'r ymrwymiad o'r newydd i gefnogi dull 'Gweledigaeth Sero' Llywodraeth Cymru o ddiogelwch ar y ffyrdd, gan nodi bod y cynigion manwl yn pwysleisio rôl cynlluniau newydd. Mae ymatebwyr yn mynegi cefnogaeth i gofleidio'r rôl y mae rheoli asedau yn ei chwarae wrth sicrhau diogelwch holl ddefnyddwyr y ffordd, gan gynnwys troedffyrdd a chroesfannau. Mae ymatebwyr eraill o'r farn nad oes digon yn cael ei wneud i fynd i'r afael â phryderon diogelwch, gan sôn yn benodol am gyfleusterau gollwng a pharcio ar Cross Tree Lane – Penarlâg.	Mae Cyngor Sir y Fflint yn cadarnhau bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a Strategaeth Trafnidiaeth Integredig Sir y Fflint ei hun yn cefnogi uchelgais Gweledigaeth Sero i ddileu marwolaethau ac anafiadau difrifol ar y ffyrdd yn ogystal â chydnabod pwysigrwydd rheoli asedau parhaus wrth gynnal isadeiledd diogel a hygyrch i bob defnyddiwr. Mae pryderon lleol a godwyd mewn perthynas â Cross Tree Lane fel arfer yn cael sylw trwy fecanweithiau presennol a arweinir gan y cyngor, gan gynnwys archwiliadau diogelwch ffyrdd, adolygiadau trafnidiaeth lleol, ac asesiadau traffig ardal-benodol. Mae'r rhain yn caniatáu i awdurdodau lleol nodi problemau, ymgynghori â chymunedau, a blaenoriaethu gwelliannau. Bydd y pryderon a godwyd yn cael eu cyfeirio at yr awdurdod lleol perthnasol i'w hystyried ymhellach o fewn y fframwaith hwn, gan sicrhau bod unrhyw ymyraethau arfaethedig yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cyd-fynd â'r strategaeth ehangach Gweledigaeth Sero.
	Mae rhai ymatebwyr yn cytuno bod tagfeydd yng nghanol trefi ac ardaloedd trefol yn broblem, gyda chyfeiriadau penodol at y Bala, Shotton a Chei Connah. Fodd bynnag, mae rhai yn tynnu sylw at y dull blanced hwn sy'n dargyfeirio'r holl draffig ac y gall hyn arwain at ganol trefi gwag, gyda risg bod y sector twristiaeth yn colli ymwelwyr. Felly, ystyrir ei bod yn bwysig bod mesurau llacio tagfeydd yn rhan o weledigaeth ehangach.	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod yr angen am atebion i greu lleoedd da wrth fynd i'r afael â dibyniaeth ar geir, gan gynnwys Polisi RS6. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hefyd yn cydnabod gwerth y diwydiant twristiaeth yng ngogledd Cymru ac yn cynnwys polisïau CB15-23 sy'n helpu pobl i fwynhau ein hatyniadau ymwelwyr a chefnogi'r diwydiant twristiaeth.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
Mynediad ar y ddaear at awyrennau	Mae rhai yn awgrymu y byddai gwell cysylltedd â Maes Awyr Lerpwl o fudd i ogledd Cymru ac yn cyd-fynd â dyheadau Rhanbarth Dinas Lerpwl (LCR) i wella mynediad ar y ddaear gan ddefnyddio trafnidiaeth gyflym bysiau. Mae rhai ymatebwyr wedi tynnu sylw at y ffaith nad oes mynediad i Feysydd Awyr Lerpwl neu Fanceinion ar hyn o bryd heblaw am yn y prynhawn.	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod gwerth a phwysigrwydd cysylltedd â Maes Awyr John Lennon Lerpwl a Maes Awyr Manceinion ac mae Polisi AV1 yn cefnogi gwelliannau i fynediad daear i feysydd awyr domestig a rhyngwladol, gan ganolbwyntio ar wella gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus.
	Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod y sôn am Faes Awyr Ynys Môn ar dudalen 10 a 19 yn anghywir ers i'r maes awyr hwnnw gau yn 2022. Mae hyn yn pwysleisio'r angen am gysylltiadau trafnidiaeth cyflym amgen ar gyfer cysylltedd ledled y wlad. Mae rhai yn awgrymu adfer maes awyr Ynys Môn, a fyddai'n helpu datblygiad economaidd yr ardal ac a fyddai'n haws ei chyrraedd drwy ddefnyddio cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus presennol.	Er bod y maes awyr yn dal i gael ei ddefnyddio, mae'n gwasanaethu gweithgareddau hedfan cyffredinol yn bennaf, gan gynnwys hyfforddiant a hediadau anfasnachol eraill.
Cysylltedd digidol	Mae rhai ymatebwyr yn ystyried y gellid gweithredu'r camau canlynol i uwchraddio gorsafoedd trên ac arosfannau bysiau i hyrwyddo mwy o ddefnydd: ailenwi gorsafoedd i dynnu sylw at gysylltedd; uwchraddio cysgodfannau ac ychwanegu nodweddion fel teledu cylch cyfyng i atal fandaliaeth; ychwanegu gwybodaeth cyrraedd amser real i orsafoedd bysiau. Mae ymatebwyr eraill yn atgyfnerthu'r angen i barhau i ddarparu amserlenni bysiau ysgrifenedig i'r rhai sydd ddim ar-lein.	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod pwysigrwydd hyrwyddo'r defnydd o wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus trwy isadeiledd ddiogel a deniadol. Mae'r polisïau a ganlyn yn berthnasol: Polisi DC2 (Hyfforddiant ac addysg llythrennedd digidol), Polisi DC3 (cyflwyno gwybodaeth ddigidol ac amser real) a Pholisi PT8 (Gwella arosfannau bysiau allweddol i gynnwys cysgodfannau, gwybodaeth amser real a gwybodaeth am gysylltiad teithio ymlaen ac ati).
	Mae rhai ymatebwyr yn mynegi cefnogaeth i Bolisi PT6, ac er eu bod yn croesawu cynlluniau i wella mynediad at wybodaeth amser real mewn arosfannau bysiau, maent yn cynghori bod hyn yn cael ei weithredu yn unol â Rheoliadau Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus (Gwybodaeth Hygyrch) 2023.	Nodwyd.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr o'r farn y byddai digideiddio gwasanaethau yn gwella'r defnydd a wneir o drafnidiaeth gyhoeddus. Mae rhai ymatebwyr yn cytuno â'r angen am well gwybodaeth am wasanaethau ac yn ystyried y byddai gwell gwybodaeth amser real yn cynyddu hyder wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, sydd ar hyn o bryd yn teimlo'n annibynadwy. Byddai amserlenni byw wedi'u digido a chymhwysiad integredig a chodau QR hefyd yn cefnogi hyn. Mae rhai ymatebwyr yn codi'r angen am gyfeiriadau mwy penodol yn y cynlluniau i uwchraddio gwasanaethau 4G/5G ar gyfer gwell gwasanaeth i ddyfeisiadau symudol ar drafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig gwasanaethau trên Arfordir Gogledd Cymru a gwasanaethau bysiau.	Mae'r Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol DC3 yn cefnogi dull partneriaeth o gyflwyno gwybodaeth ddigidol ac amser real am wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, ac mae'n nodi, gan weithio gyda gweithredwyr gwasanaeth a gorsafoedd gan gynnwys Trafnidiaeth Cymru a Network Rail, ein bod am weld gwell Wi-Fi i deithwyr ar wasanaethau bysiau a rheilffyrdd yn ogystal â mewn cyfnewidfeydd trafnidiaeth, i'w gwneud hi'n haws ac yn fwy deniadol i bobl ddod o hyd i'w ffordd o gwmpas a gwella'r profiad teithio.
Cynllunio Defnydd Tir	Mae rhai ymatebwyr yn ystyried bod polisïau sy'n anelu at hyrwyddo datblygiadau sy'n ystyried trafnidiaeth a thorri dibyniaeth ar geir preifat trwy ddatblygu cynaliadwy yn gadarnhaol, gyda'r angen am ddatblygiad pellach mewn Cynlluniau Datblygu Strategol. Mae rhai ymatebwyr yn annog defnyddio Siarter Creu Lleoedd Cymru fel offeryn ar gyfer dadansoddi a strategaeth yn seiliedig ar leoedd yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r Cynllun Datblygu Strategol. Mae un ymatebydd yn cyfeirio at Borth Wrecsam fel enghraifft lle dylid cymhwyso dull cyfannol o brosiectau i ganolfannau trafnidiaeth a chyfnewidfeydd allweddol. Pwysleisir y dylai ymyraethau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth fynd law yn llaw â mentrau datblygu economaidd eraill ar lefel ranbarthol a lleol.	Mae Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol LU1 yn cefnogi'r egwyddor o Ddatblygu ar sail Trafnidiaeth ar gyfer datblygiadau newydd. Fel rhan o Bolisi RS6 cyfeirir at Siarter Creu Lleoedd Cymru, i bwysleisio pwysigrwydd creu lleoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda, yn gynaliadwy ac yn gynhwysol. Mae'n annog awdurdodau lleol a datblygwyr i ystyried effeithiau ehangach parcio ceir ac i flaenoriaethu egwyddorion creu lleoedd wrth gynllunio trefi. Bydd hyn yn mynd ymlaen i'r Cynllun Datblygu Strategol sy'n dod i'r amlwg.

	Mae rhai ymatebwyr yn annog ystyried dull sy'n seiliedig ar le sy'n mynd i'r afael â'r materion gofodol, cyfleoedd a pholisïau fel pecyn o fesurau, yn hytrach na bod y cynllun yn cael ei gyflwyno mewn categorïau sy'n seiliedig ar bwnc.	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i osod i fframio ein polisïau a'n ymyraethau sy'n ystyried themâu polisi yn seiliedig ar naw cynllun bach Strategaeth Trafnidiaeth Cymru i bob dull o drafnidiaeth. Mae'n mynd ymlaen i esbonio sut mae angen mwy o fannau cyhoeddus wedi'u cynllunio'n dda sy'n ystyried dull sy'n seiliedig ar le ac anghenion y gymuned gyfan. Mae'n esbonio bod creu lleoedd a mesurau canfod ffyrdd deniadol yn gyfranwyr allweddol at wella trafnidiaeth gynaliadwy i bobl. Wrth ystyried Polisi RS6, mae'r cynllun yn nodi sut mae Siarter Creu Lleoedd Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd creu lleoedd wedi'u cynllunio'n dda, yn gynaliadwy a chynhwysol. Mae'n annog awdurdodau lleol a datblygwyr i ystyried effeithiau ehangach parcio ceir ac i flaenoriaethu egwyddorion creu lleoedd wrth gynllunio trefi. Wrth ystyried polisïau cynllunio defnydd tir y cynllun, mae'n nodi bod Cynlluniau Creu Lleoedd yng Nghymru hefyd yn adeiladu ar y polisi Canol Tref yn Gyntaf, sy'n ffordd o greu gweledigaeth ar gyfer dyfodol ardal, ac i nodi camau gweithredu a all ei gwella. Anogir cynlluniau creu lleoedd ym mhob tref a chanolfannau mwy trefol eraill yng ngogledd Cymru i ddarparu dull trosfwaol o ymdrin â sut y dylai lle edrych, teimlo a gweithredu nawr ac yn y dyfodol, a dylent ymgorffori ystyriaethau ynghylch darparu trafnidiaeth, yn enwedig cyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol. Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol wedyn yn amlinellu'r dull sy'n seiliedig ar rwydwaith a ddilynwyd yn ein cynigion, gan esbonio bod rhaglenni a phrosiectau yn cael eu nodi i gael effaith ranbarthol neu is-ranbarthol, ar y graddfeydd gofodol canlynol: Pob rhan o ogledd Cymru; Trefi mawr gyda phoblogaeth o dros 10,000; Trefi bach ac ymylon trefi mawr; Pentrefi; Pentrefannau ac anheddau anghysbell.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu gweithredu mapiau asedau ehangach sy'n dangos pob safle twristiaeth posibl gydag awgrymiadau o Blas Newydd (Ynys Môn) fel safle delfrydol i dreialu tocyn ymwelwyr a theithio cyfunol.	Fel y nodir yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi'r gallu i awdurdodau lleol godi treth ymwelwyr ar arhosiad dros nos yn eu cymunedau. Bydd y cyfraniad hwn yn cael ei dalu gan ymwelwyr a'i fuddsoddi mewn twristiaeth gynaliadwy. Mae Polisi CB22 yn amlinellu y byddwn yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid yn y diwydiant twristiaeth ar yr arfordir i adnabod mesurau a fydd yn cefnogi newid i ddulliau cynaliadwy i gael mynediad at atyniadau poblogaidd tra'n parhau i sicrhau bod gogledd Cymru yn parhau i fod yn gyrchfan o ddewis ar gyfer gwyliau a theithiau dydd. Er enghraifft, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn bwriadu ystyried cynllun teithio i ymwelwyr ar gyfer yr holl brif atyniadau twristaidd ar yr Ynys gyda mewnbwn gan randdeiliaid ac atyniadau.
	Mae rhai ymatebwyr yn mynegi cefnogaeth gref i Bolisi LU4 (Dylid cefnogi datblygiadau dim ond lle maent yn hyrwyddo cysylltedd teithio llesol) ac yn awgrymu y dylid ymgorffori hyn yn y Cynllun Datblygu Strategol.	Nodwyd.
	Mae rhai ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig ar gyfer Partneriaeth Trafnidiaeth Strategol sy'n cynnwys cyflogwyr mawr ar draws Wrecsam a Sir y Fflint, fel cam cadarnhaol tuag at fanteisio i'r eithaf ar opsiynau teithio ar gyfer cymudo mewn ardaloedd cyflogaeth a chlystyrau allweddol, gyda'r cynllun yn cydnabod clystyrau teithio trawsffiniol i'r gwaith o amgylch Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, canol dinasoedd Wrecsam a Chaer, Airbus Brychdyn, Parc Busnes Caer, ac Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam.	Nodwyd.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod angen cydlynu gwell rhwng polisïau cynllunio defnydd tir lleol a chynllunio trafnidiaeth a gyda mwy o gyfeiriad at y gwelliannau rhwydwaith priffyrdd a fydd yn angenrheidiol i hwyluso datblygiadau newydd.	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys adran benodol ar gynllunio defnydd tir, sy'n ceisio esbonio'r berthynas â'r Cynllun Datblygu Strategol sy'n dod i'r amlwg, a'r polisïau perthnasol sy'n anelu at gyfuno trafnidiaeth a chynllunio defnydd tir yn well.
	Mae rhai ymatebwyr yn ystyried yr angen i wella cysylltiadau trawsffiniol ac i ranbarthau ehangach Cymru, yn enwedig i wella mynediad at waith ac addysg, gan hyrwyddo datblygiad economaidd. Mae rhai ymatebwyr yn falch bod y Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol cysylltedd trafnidiaeth drawsffiniol effeithiol, cynaliadwy rhwng Gorllewin Swydd Gaer a Chaer a gogledd Cymru. Mae hyn yn cael ei ystyried yn arbennig o arwyddocaol o ystyried rôl Caer fel porth allweddol i rwydweithiau ffyrdd a rheilffyrdd strategol gogledd Cymru, ac fel canolfan ranbarthol sy'n cysylltu coridor yr A483/A55 a gydnabyddir yn y cynllun fel catalydd ar gyfer twf economaidd ehangach.	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth cysylltedd trawsffiniol ac yn cyflwyno tystiolaeth i gefnogi'r angen am well hygyrchedd, yn enwedig rhwng gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr. Enghraifft o bolisi perthnasol sy'n ceisio helpu i gyflawni hyn yw Polisi CB3 (Gweithio gydag Awdurdodau Lleol a Chyfun cyfagos gan gynnwys Gorllewin Swydd Gaer a Chaer a Rhanbarth Dinas Lerpwl i sicrhau dull cyflenwol o Gynllunio Trafnidiaeth, yn enwedig yn Is-ranbarth Merswy-Dyfrdwy. Dylai hyn ystyried teithiau cymudo a symudiad nwyddau).
	Roedd rhai ymatebwyr yn falch o weld Polisi CB19 (Bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn ystyried gofynion tir ar gyfer cyfleusterau cyfnewid ar safleoedd porth i Barc Cenedlaethol Eryri ac yn ystyried y dylai trafodaethau ddechrau ar frys.)	Nodwyd.
	Mae rhai ymatebwyr yn ystyried bod polisïau defnydd tir yn ddyheadau yn hytrach na thargedau i gyflawni deilliannau cadarnhaol, ac yn awgrymu ail-eirio cynlluniau i wneud targedau'n fwy eglur.	Mae'r Cynllun Monitro a Gwerthuso yn nodi cyfres o fesurau a dangosyddion i helpu i ystyried cynnydd tuag at y targedau a nodwyd. Mae polisïau ac ymyriadau y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ceisio helpu i gyfrannu at gyflawni'r targedau hynny.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at effaith diffyg trafnidiaeth gyhoeddus ar yr henoed, pobl anabl a phobl ifanc, gyda phryderon am lefelau presennol o ddarpariaeth sydd yn groes i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Cydraddoldeb, gan nodi ei bod yn ei gwneud hi'n anodd mynychu apwyntiadau, gwaith ac ysgol. Awgrymir bod disgyblion ysgol uwchradd yn aml yn dibynnu ar rieni i fynd i'r ysgol ac oddi yno gyda bysiau sydd ddim yn gwasanaethu'r diben hwn ac yn aml heb unrhyw opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus eraill ar gael. Mae ymatebwyr eraill yn croesawu polisïau sy'n canolbwyntio ar sicrhau mynediad effeithiol i safleoedd addysgol (CB10, CB11, CB12) trwy drafnidiaeth gynaliadwy, ond yn cynghori bod angen cyfuniad o fesurau i sicrhau newid ystyrlon, gan gynnwys mabwysiadu strydoedd ysgolion.	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod pwysigrwydd teithio i'r ysgol ac opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy i wella hygyrchedd i waith, cyfleusterau ac addysg (yn enwedig 'Darparu dewisiadau i bobl ynglŷn â sut maent yn cael mynediad at wasanaethau'). Mae'r Arfarniad Llesiant Integredig ategol yn ystyried effaith y cynllun yn ofalus ar feysydd lles a chydraddoldeb.
	Mae rhai ymatebwyr yn ystyried yr angen i'r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy gael llinyn cryf trwy gydol y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gyda'r holl bolisïau a phrosiectau yn cael eu halinio'n glir â'r hierarchaeth a'r nod o greu lleoedd cynaliadwy. Mae rhai ymatebwyr yn canmol y rhannau o'r cynllun sydd wedi eu gosod yn nhrefn yr hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy.	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod pwysigrwydd yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy ac mae'n cynnwys Polisi LU2 (Bydd yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy yn cael ei ddefnyddio i helpu i sicrhau bod datblygiadau'n cefnogi cerdded a beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau allyriadau isel iawn dros gerbydau modur preifat eraill).

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu defnyddio cyllid Adran 106 neu Ardoll Isadeiledd Cymunedol (CIL) ar dai newydd a datblygiadau masnachol i ariannu gwell gwybodaeth am wasanaethau bysiau neu ar gyfer tocynnau tymor cychwynnol i breswylwyr newydd. Awgrymir y bydd cytundebau Adran 106 yn bwysig wrth sicrhau bod datblygwyr mawr yn cyfrannu at wella isadeiledd a mentrau trafnidiaeth, gan nodi cyfle i'r rhanbarth fanteisio ar strategaethau gwerth cymdeithasol a chynlluniau cyflawni o'r llif prosiectau isadeiledd mawr arfaethedig/posibl yng ngogledd Cymru. Awgrymir y gallai gweithio'n agos gyda hyrwyddwyr prosiect a datblygwyr hefyd arwain at gyllid/adnoddau ychwanegol tuag at gyflawni amcanion y Cynllun.	Er bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys polisïau sy'n ceisio chwalu'r ddibyniaeth ar y car preifat drwy ddatblygu cynaliadwy (yn benodol, Polisi LU4 a 5), mae wedi'i ddiweddaru i gyfeirio at rai o'r offer sydd ar gael i gynllunwyr i helpu i gyflawni hyn, gan gynnwys adran 106 a CIL.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
Cyflawnadwyedd a fforddiadwyedd	Mae rhai ymatebwyr o'r farn nad yw'r cynlluniau yn realistig nac yn ymarferol, o ran cyllid ac oherwydd natur yr ardal sy'n wledig, er gwaethaf yr awgrym mai yn yr ardaloedd hynny y mae angen y gwelliannau fwyaf. Er bod rhai ymatebwyr yn cytuno â'r gwaith a wnaed i nodi, blaenoriaethu ac ariannu cynlluniau, mae eraill yn codi pryderon am fforddiadwyedd, ac mae angen mwy o fanylion i ddangos sut a ble y bydd newidiadau'n cael eu gwneud. Mae rhai ymatebwyr yn galw ar y CBC i ystyried symleiddio'r allbynnau o'r broses ymgynghori a blaenoriaethu adnabod pib-linell o brosiectau sydd â thebygolrwydd uchel o fynd rhagddynt yn ystod cyfnod y cynllun, yn dilyn pryder bod llu o gynlluniau yn rhwystr i sefydlu cyd-dealltwriaeth o flaenoriaethau. Mae rhai yn pwysleisio bod effeithiolrwydd y CTRh yn dibynnu ar weithredu'r Cynllun Cyflawni, ac mae angen mecanwaith i sicrhau bod cyllid yn cael ei rannu'n gyfartal ar draws y rhanbarth.	Darperir ffrydiau cyllido presennol ac amserlenni gweithredu yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol, a fydd yn parhau i gael ei adolygu trwy gydol proses weithredu'r cynllun. Mae fforddiadwyedd yn ystyriaeth allweddol, yn enwedig mewn rhannau mwy gwledig o ogledd Cymru, ac mae diweddariadau wedi'u gwneud i'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol i ystyried costau a chyllid yn fanylach mewn perthynas â ffynonellau cyllid Llywodraeth Cymru. Bydd cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol yn cael ei ddyrannu ar sail y cynlluniau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cyflawni. Yn bwysig, mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'i chynlluniau ar gyfer proses foderneiddio grantiau, sy'n ceisio dod â nifer o grantiau trafnidiaeth lleol ynghyd, gan alinio'r ffrydiau ariannu hyn â'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a bydd hyn yn rhoi mwy o allu i'r CBCau wneud penderfyniadau ynghylch sut mae cyllid grant trafnidiaeth leol yn cael ei wario ochr yn ochr â'u hawdurdodau lleol, mewn ffordd gydweithredol wrth i'r rhaglen gyflawni bob blwyddyn weithredu'r Cynllun Cyflawni a chael ei thrafod a'i chytuno yn y dyfodol, gan ei mabwysiadu ar ôl y cynllun.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Nododd rhai ymatebwyr bryderon ynglŷn â ble mae'r Cynllun yn dangos meysydd lle mae gan Uchelgais Gogledd Cymru ddylanwad cyfyngedig neu ddim dylanwad uniongyrchol na chyfrifoldebau mewn perthynas â thrafnidiaeth (e.e. prosiectau cefnffyrdd a rheilffyrdd) gan geisio eglurhad ynglŷn ag os oes mecanweithiau yn eu lle neu y bwriedir eu cael i sicrhau bod buddiannau'r rhanbarth yn cael eu cynrychioli'n llawn ac yn hafal pan fo penderfyniadau sy'n dylanwadu ar gynaliadwyedd trafnidiaeth yn y dyfodol yng ngogledd Cymru yn cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a/neu asiantau eraill.	Rhaid i'n Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gynnwys polisïau i gefnogi gweledigaeth ac uchelgeisiau Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, a chyd-fynd â'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol. Mae'n cysylltu â chynlluniau a pholisïau strategol cenedlaethol a rhanbarthol perthnasol fel y nodir yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, er enghraifft Adolygiad Cysylltedd Undeb y DU, Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan Cymru ac ati. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol, a bod ffynonellau cyllid Llywodraeth Cymru a'r DU yn amlwg yn gysylltiedig â'n cynlluniau, fel y manylir yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig bwerau tebyg i awdurdod lleol, a bydd yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid fel y bo'n briodol i fwrw ymlaen â chynlluniau ar gyfer trafnidiaeth yn y rhanbarth.
	Mae rhai ymatebwyr yn ystyried y cynlluniau i fod yn "wastraff arian" ar gynlluniau nad ydynt yn cael eu hystyried yn flaenoriaethau (yn eu barn nhw), gan ganolbwyntio ar deithio llesol ac isadeiledd gwefru cerbydau trydan.	Fel y nodir yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol, mae cynlluniau wedi'u nodi, eu gwerthuso ac wedi ymgynghori arnynt i helpu sicrhau bod y cynlluniau yn addas i'r diben ac wedi eu cymeradwyo mor eang â phosibl. Ystyrir bod mesurau isadeiledd teithio llesol a gwefru cerbydau trydan yn bwysig i helpu lleihau dibyniaeth ar y car ar gyfer teithiau byrrach, ac maent yn cefnogi datgarboneiddio trafnidiaeth ac yn adlewyrchu strategaeth a pholisi Llywodraeth Cymru.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn ystyried y dylai teithio llesol dderbyn o leiaf 10% o gyfanswm gwariant trafnidiaeth, gyda chyllid wedi'i neilltuo ar gyfer cerdded, olwynion, a beicio, a gyda CBCau yn sefydlu mecanwaith glir a chyson i ddosbarthu cyllid teithio llesol i awdurdodau lleol. Mae eraill yn ychwanegu bod angen mecanwaith o hyd i sicrhau bod cyllid yn cael ei rannu'n gyfartal er mwyn darparu buddion pendant i bob cymuned ledled gogledd Cymru.	Fel y nodir yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol, bydd cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth i'w darparu gan ein hawdurdodau lleol yn cael ei ddyrannu yn seiliedig ar y cynlluniau sydd yn ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Yn bwysig iawn, mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'i gynlluniau ar gyfer proses moderneiddio grantiau, sy'n ceisio dod â nifer o grantiau trafnidiaeth lleol ynghyd, gan alinio'r ffrydiau ariannu hyn gyda'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a'u Cynlluniau Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Nod hyn yw rhoi mwy o allu i ni wneud penderfyniadau o ran sut mae arian grant trafnidiaeth lleol yn cael ei wario. Drwy ddyrannu cyllid i drafnidiaeth ranbarthol, bydd hyn hefyd yn helpu i leihau'r baich gweinyddol ar ein hawdurdodau lleol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i adnabod ffynonellau cyllid ar lefel leol, rhanbarthol, cenedlaethol a'r DU i ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer rhwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy o ansawdd uchel ledled gogledd Cymru. Mae cynlluniau cerdded, olwyno a beicio yn chwarae rhan bwysig yn ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol.
	Mae rhai ymatebwyr yn codi pryderon os yw'r swm o gyllid sydd ar gael i gyflawni'r cynlluniau yn sylweddol llai nag sydd ei angen, yna gallai teithio llesol fod ar ei golled i nifer fach o brosiectau proffil uchel a drud.	
	Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at weinyddu grantiau o flwyddyn i flwyddyn sy'n rhoi cyfyngiad neu risg sylweddol ar awdurdodau lleol ac yn awgrymu nad yw'r fecanwaith ar gyfer dosbarthu cyllid yn ddigonol nac yn deg, sy'n golygu bod gwahaniaeth sylweddol yn aml rhwng lefel y ddarpariaeth a'r gallu i deithio rhwng ardaloedd trefol a gwledig.	
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y dylid cynnwys adran bwrpasol ar gymhellion ariannol yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n pwysleisio cydweithio â llywodraeth y DU ac archwilio amrywiol fodelau fforddiadwyedd a pherchnogaeth ar gyfer cerbydau allyriadau sero. Gellid cynnwys mecanwaith adolygu yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i asesu ac addasu cyfnodau cyllido a hyd contractau ar gyfer y Gronfa Trafnidiaeth Leol.	

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod angen eglurder pellach ynglŷn ag o ble y daw'r gallu a'r adnoddau i gyflawni'r Cynllun Cyflawni. Mae angen taro cydbwysedd mewn perthynas â gweledigaeth a dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth yng ngogledd Cymru yn erbyn y cyllid fydd ar gael i gyflawni'r dyheadau – mae perygl y byddwn yn codi disgwyliadau pobl heb sicrwydd y bydd y cyllid ar gael i gyflawni'r blaenoriaethau allweddol.	Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru i ystyried yn fanylach y wybodaeth am gostau cyfalaf a refeniw, a fforddiadwyedd yng nghyd-destun cyllidebau Llywodraeth Cymru.
	Mae rhai ymatebwyr yn ystyried bod angen blaenoriaethu clir a statws presennol y prosiectau a fydd yn ffurfio'r ymyraethau. Yn ogystal, byddai arwydd o'r dyraniad cyllid a sicrhawyd neu sy'n cael ei geisio (gyda graddfa amser) ac amserlen ar gyfer cyflawni'r ymyraethau posibl yn ddefnyddiol iawn. Yn benodol, gwahaniaethu rhwng y rhai yn y 5 mlynedd nesaf, y rhai sy'n dod yn ddiweddarach, a'r rhai sy'n strategol. Gyda hyn wedi'i restru yn erbyn pob prosiect o fewn y cynllun, byddai'n osgoi'r risg o 'restr ddymuniadau' heb werth ychwanegol / gwerth ychwanegol cyfyngedig o'r wybodaeth sydd eisoes wedi'i chynnwys yn y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.	Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn amlinellu yn ei atodlen Enw'r Cynllun, Disgrifiad, Polisi / thema, Awdurdod(au) Lleol Arweiniol, Amserlen Gyflawni a Ragwelir, Amcangyfrif o Lefel Cost CAPEX, Amcangyfrif o Lefel Cost OPEX, Ffynhonnell Ariannu Posibl a Blaenoriaeth (byr, canolig, hir, uchelgeisiol).
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu blaenoriaethu rhai 'enillion cyflym' neu 'bethau hawdd i'w torri' er mwyn bwrw iddi a dangos bod cyflawniad yn erbyn yr amcanion. Awgrymir y byddai profi gwelliannau tymor byr yn helpu i ennill ymddiriedaeth a chefnogaeth i'r cynlluniau, a fyddai yn ei dro yn ysgogi partneriaid cyflawni, cymunedau lleol ac aelodau o'r cyhoedd. Mae rhai yn pryderu y bydd 'enillion hawdd' ar hyd yr A55 a chynlluniau yng Ngogledd Ddwyrain Cymru yn cael eu blaenoriaethu gyda'r angen i sicrhau cydraddoldeb ar draws y rhanbarth.	Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi'r dull a gymerir tuag at, a chanlyniadau, blaenoriaethu cynlluniau. Mae hyn yn seiliedig ar broses y cytunwyd arni sy'n cynnwys Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru ochr yn ochr ag awdurdodau lleol sy'n helpu i sicrhau bod cynlluniau yn cael eu blaenoriaethu ar sail ranbarthol. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau tymor byr, canolig a hir yn ogystal â chynlluniau uchelgeisiol. Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio ar raglen ar gyfer cyflawni'r flwyddyn gyntaf yn amodol ar gytuno ar ei gynlluniau gyda Llywodraeth Cymru (a fydd yn cymeradwyo'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol).

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
Cynlluniau y Cynllun Cyflawni	Mae rhai ymatebwyr yn mynegi bod y gwelliannau a'r cynlluniau blaenoriaeth uwch a nodwyd yn y cynlluniau yn cael eu croesawu a'u bod yn eglur i'w deall. Fodd bynnag, mae rhai yn awgrymu nad oes gan rai o'r cynlluniau a nodwyd yr uchelgais gyffredinol fel y nodir yn y ddogfen bolisi ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol. Yn benodol, codir pryderon am y cynlluniau canlynol: • Cynllun 4. Mae rhai yn awgrymu y dylid ystyried integreiddio trafnidiaeth Gorsaf Porth Bangor fel blaenoriaeth llawer uwch, gan awgrymu ei bod yn hanfodol ateb heriau traffig craidd y rhanbarth ac annog canran llawer uwch o drafnidiaeth i'r ardal ar drafnidiaeth gyhoeddus yn hytrach na char. • Cynllun 5. Mae rhai yn mynegi nad ydynt yn ymwybodol o'r gwelliannau arfaethedig i Ben y Pas, Ogwen, Nantgwynant a Geirionnydd a hoffent weld rhagor o fanylion a deall lefel yr uchelgais. • Cynllun 20. Mae rhai yn mynegi, er bod gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus twristiaid/ymwelwyr am ddim yn uchelgeisiol ac yn seiliedig ar dreth twristiaeth posibl, mae angen i'r gwasanaethau a gynigir yn gyntaf fod yn eu lle ac o safon ddigon da i bawb allu defnyddio dull amgen ymarferol i geir, cyn ystyried y cynnig hwn. • Cynllun 29. Mae rhai yn awgrymu y dylai'r Hwb Symudedd ym Mangor nid yn unig fod yn uchelgeisiol ond yn rhan hanfodol o'r strategaeth gyffredinol.	Cynllun 4 a 29 – Mae Cyngor Gwynedd wedi gweithio'n agos gydag Uchelgais Gogledd Cymru a'i bartneriaid i helpu i gytuno ar flaenoriaethu'r cynllun, a fydd yn parhau i gael ei adolygu'n barhaus fel rhan o'r ymarfer monitro a gwerthuso. Cynllun 5 – mae'r holl fanylion sydd ar gael ar hyn o bryd wedi'u darparu fel rhan o'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Darperir rhagor o wybodaeth wrth i'r cynllun fynd yn ei flaen. Cynllun 20 – mae'r awdurdodau lleol perthnasol yn cytuno ar sail yr ardoll twristiaid posibl, bod angen i'r gwasanaethau a gynigir yn gyntaf fod ar waith ac o safon ddigon da i bawb allu defnyddio dewis amgen ymarferol yn lle ceir, cyn ystyried y cynnig hwn.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu ar gyfer Cynllun Rhif 4, Porth Bangor (mae Trafnidiaeth Cymru wedi nodi cyfle yng ngorsaf Bangor i wella'r croeso i mewn i ddinas Bangor a gwella'r gyfnewidfa â'r dulliau teithio ymlaen. Mae astudiaeth Chwarter yr Orsaf yn cael ei chynnal i ddeall y problemau a'r rhwystrau cyfredol sy'n wynebu pobl wrth deithio i, o ac wrth ddefnyddio Gorsaf Bangor), dylai'r disgrifiad gynnwys y frawddeg gyntaf yn unig, gan fod yr ail frawddeg eisoes wedi'i chwblhau.	Mae disgrifiad y cynllun wedi'i ddiwygio ar ôl ymgysylltu â Thrafnidiaeth Cymru.
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y dylid ailedrych ar y Cynllun Cyflawni pe bai datblygiadau strategol neu newidiadau yn digwydd yn ystod cyfnod y cynllun, gan nodi'r cynigion ar gyfer Wylfa, y Porthladd Rhydd, y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig, a'r Parth Buddsoddi yng ngogledd Cymru.	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi ystyried y potensial ar gyfer datblygiadau strategol yn y dyfodol a newidiadau yn ei dystiolaeth, ei bolisïau a'i ymyriadau, gan gynnwys y rhai a grybwyllir fel rhai sy'n bwysig ledled gogledd Cymru. Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi'r blaenoriaethau cyfredol ar gyfer cynlluniau awdurdodau lleol dros y pum mlynedd nesaf, gan ystyried yr hyn sydd wedi'i gynllunio neu ei ymrwymo ar hyn o bryd. Mae'r Cynllun Monitro a Gwerthuso yn esbonio sut y bydd y cynlluniau yn y Cynllun Cyflawni yn cael eu hadolygu a'u hystyried yn ystod cyfnod y cynllun, gan gydnabod y gallai fod newidiadau i flaenoriaethau dros amser.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod angen blaenoriaethu Ynys Môn gyda phryderon nad oes digon o fesurau wedi'u cynnwys yn y cynlluniau i wella isadeiledd Ynys Môn. Mae'r awgrymiadau a wnaed yn cynnwys: • Uwchraddio pont Ynys Môn gyda tholl i annog y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus i'r ynys ac oddi yno. • Gwella gwasanaethau bysiau trwy well integreiddio / gwasanaethau cyfunol. • Gwella isadeiledd EV ar yr ynys, sy'n cael ei ystyried yn gyfyngedig ar hyn o bryd. • Darparu bysiau neu gyfleuster parcio a theithio dros y pontydd ar adegau brig i wella llif traffig	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi Dyheadau Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (4 a 5) i fynd i'r afael â gwytnwch Croesfan Y Fenai. Mae rhai o gynlluniau perthnasol y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer Ynys Môn yn cynnwys: • Datblygu rhwydwaith teithio llesol cynhwysfawr, cyfforddus, deniadol a diogel sy'n ymestyn o ddau ben y ddwy bont i gysylltu cymunedau a chyrchfannau pwysig yn Ynys Môn gyda gogledd Gwynedd • Cynlluniau i adnabod a datblygu gwelliannau mynediad i'r ddaear a gwaith cysylltiedig i Safleoedd Porthladd Rhydd Ynys Môn • Gweithredu'r rhwydwaith trawsnewid bysiau • Gwefru EV cyhoeddus mewn meysydd parcio cyhoeddus a chydlynu gwybodaeth Mae trefniadau Pont Menai o dan awdurdodaeth Llywodraeth Cymru. Dylai masnachfreinio bysiau wella'r trefniadau integreiddio presennol. Mae Cynllun Gweithredu Cyngor Sir Ynys Môn yn cael ei ddatblygu i reoli cyflwyniad hyn yn y dyfodol a rhaid iddo fod yn gost-effeithiol i'r awdurdod lleol. Bydd Astudiaeth Gwytnwch Y Fenai dan arweiniad Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r pwynt ynglŷn â chyfleusterau parcio a theithio / llif traffig. Y gobaith yw y byddai gweithredu'r rhwydwaith trawsnewid bysiau yn gweld gwelliant yn lefel y ddarpariaeth gwasanaeth bysiau. Uchelgais Gogledd Cymru i archwilio cyfleoedd gyda CSYM i ddatblygu canolfan ddosbarthu tanwydd mewn cysylltiad â Hwb Hydrogen Caergybi ym Mharc Cybi, mewn cydweithrediad â Menter Môn

	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y dylai Cynllun Cyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gynnwys o leiaf un prosiect trafnidiaeth blaenoriaeth uchel dan arweiniad y gymuned, sy'n treialu integreiddio aml-foddol rhwng Cynlluniau Trafnidiaeth Gymunedol presennol a dulliau trafnidiaeth eraill. Gwneir awgrymiadau gan gynnwys: • Peilot Prawf Cysyniad Olwynion i'r Gwaith (Wheels to Work) mewn safleoedd dethol yng ngogledd Cymru a gwerthusiad annibynnol cyn eu cyflwyno o bosibl • Prosiect Pathfinder Trafnidiaeth Gymunedol Trafnidiaeth i Iechyd i wella mynediad at ofal iechyd a gwasanaethau lles eraill sy'n gwella bywyd • Cynnwys gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol o fewn y Contract Cyfanswm Gwasanaethau yn ardal beilot yr Awdurdod Lleol • Cynnwys cynlluniau ceir cymunedol ochr yn ochr â chlybiau ceir, gan ddatblygu rhwydwaith ledled gogledd Cymru mewn cymunedau llai, mwy gwledig • Cyflwyno prosiectau e-feiciau ar draws y sector Trafnidiaeth Gymunedol yng ngogledd Cymru • Datgarboneiddio bysiau i gynnwys y sector Trafnidiaeth Gymunedol fel safon a chefnogi mynediad at isadeiledd allyriadau sero • Pecyn cychwynnol o gymorth i gymunedau 'Newydd i Drafnidiaeth Gymunedol' sy'n dymuno sefydlu eu menter drafnidiaeth eu hunain dan arweiniad y gymuned	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod y rôl bwysig y gall trafnidiaeth dan arweiniad y gymuned ei chwarae wrth ddiwallu anghenion cymunedau gwledig a chymunedau sydd heb eu gwasanaethu. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar drefniadau masnachfreinio a chyllido bysiau i helpu i sicrhau bod darparwyr trafnidiaeth gymunedol yn parhau i allu cael gafael ar gyllid. Gall mentrau fel 'Wheels to Work' fod â rôl bwysig yn rhai o'n cymunedau mwy gwledig lle gall mynd i ac o gyflogaeth fod yn heriol iawn i drigolion nad oes ganddynt fynediad at gar. Yn aml, nid yw gwasanaethau bws yn dechrau yn ddigon cynnar, neu'n gorffen yn ddigon hwyr i weddu gyda sifftiau cyflogaeth benodol fel shifftiau cynnar mewn ffatrïoedd, neu orffen yn hwyr yn y sector bwyd a lletygarwch. Er ei bod yn debygol y bydd ardaloedd gwledig yn cael eu gwasanaethu fwyfwy gan wasanaethau tebyg i Fflecsi unwaith y bydd masnachfreinio bysiau yn cael ei weithredu, mae'r gwasanaethau presennol yn aml ar gael yn ystod yr adegau prysur o'r dydd ac fel arfer yn ystod y diwrnod ysgol gan fod yr un cerbydau yn aml yn cael eu defnyddio ar gyfer cludiant ysgol at ddibenion effeithlonrwydd. Mae'r Cynllun yn cefnogi rhwydwaith trafnidiaeth aml-foddol, cynhwysol ac yn darparu fframwaith lle gall awdurdodau lleol, mewn partneriaeth â chyrff rhanbarthol a sefydliadau'r trydydd sector, archwilio a threialu atebion trafnidiaeth arloesol. Mae mecanweithiau presennol o fewn cynghorau, gan gynnwys Fforymau Trafnidiaeth Gymunedol a ffrydiau cyllido peilot, sy'n caniatáu adnabod a chefnogi prosiectau o'r fath. Bydd yr awgrymiadau a godir yn cael eu rhannu gyda'r gweithgor rhanbarthol i'w hystyried fel rhan o ddatblygiad parhaus o gynlluniau peilot, gan sicrhau bod lleisiau cymunedol yn parhau i siapio cyflenwi trafnidiaeth. Mae awdurdodau lleol yn mynegi cefnogaeth i gynlluniau peilot yn amodol ar gyllid gan Lywodraeth Cymru.

	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu bod diffyg ymyraethau yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol fel a nodwyd yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol mewn perthynas â cherbydau trydan a'i fod ar hyn o bryd ond yn cynnwys arwyddion y bydd strategaethau yn cael eu cynhyrchu. Awgrymir bod hyn yn llawer llai o weithgarwch na'r hyn sy'n cael ei wneud yn y rhanbarth ar hyn o bryd gan y chwe awdurdod lleol yn annibynnol, ac yn cael ei ariannu drwy Gronfa Allyriadau Isel Iawn Llywodraeth Cymru. Gwneir awgrymiadau ar gyfer: • Ymyraethau i hyrwyddo codi tâl cyrchfan i safleoedd twristiaeth ac, yn arbennig, darparwyr llety • Rhaglenni cyfathrebu a newid ymddygiad sy'n cynnwys hyrwyddo'r defnydd o gerbydau trydan, a'r cyfle i gael Cerbydau Trydan ail-law. • Galluogi gwefru yn y cartref • Cynlluniau gwefru ar y stryd • Cynlluniau peilot gwefru cerbydau cludo nwyddau	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod pwysigrwydd cyflymu'r trawsnewid i gerbydau allyriadau sero ac yn cefnogi gweithredu rhanbarthol cydgysylltiedig i ategu a gwella'r gwaith parhaus gan awdurdodau lleol. Er bod y Cynllun Cyflawni yn amlinellu datblygu strategaeth i ddechrau fel cam cyntaf, bwriedir iddi fod yn ddogfen fyw sy'n esblygu ochr yn ochr ag argaeledd cyllid, cynnydd lleol, a pharodrwydd technolegol. Mae awdurdodau lleol ledled gogledd Cymru eisoes yn cael mynediad at arian Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn, i gyflawni ystod o fentrau. Mae'r Cynllun Cyflawni yn darparu fframwaith ar gyfer ehangu'r gwaith hwn yn rhanbarthol, gan gefnogi cydweithredu, cysondeb a rhannu'r hyn a ddysgir. Mae awdurdodau lleol ledled Gogledd Cymru yn datblygu eu strategaethau isadeiledd cerbydau trydan, sy'n mynd i'r afael â'r materion a'r awgrymiadau a wneir. Mae'r rhan fwyaf ohonynt ar y gweill a byddant yn cael eu hariannu y tu allan i'r cyllidebau trafnidiaeth oni bai eu bod wedi'u pennu yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Er enghraifft, bydd Cynllun Gweithredu EV Ynys Môn yn ystyried y pwyntiau a godwyd ac mae Hwb Hydrogen Caergybi yn dangos sut mae tanwyddau carbon isel amgen yn cael eu hystyried. Bydd yr awgrymiadau a godwyd yn cael eu hystyried fel rhan o waith datblygu'r strategaeth cerbydau trydan rhanbarthol, a bydd cyfleoedd ar gyfer cynlluniau peilot a mentrau ar y cyd yn cael eu harchwilio trwy fecanweithiau cydlynu traws-awdurdod presennol. Gall cyllid cyfalaf annigonol a chapasiti rhwydwaith ynni lleol fod yn rhwystr i gyflwyno pwyntiau gwefru pellach, ac mae gwefru ar y stryd yn codi anawsterau ymarferol. Cytunir felly fod angen dull rhanbarthol o geisio mynd i'r afael â'r heriau hyn, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a'r sector cyflenwi a dosbarthu ynni. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn helpu i hwyluso'r dull hwn.
	Mae rhai ymatebwyr o'r farn y dylai Cynllun 174 (Gwelliannau i	Ystyrir bod Cynllun 174 yn flaenoriaeth is oherwydd y diffyg

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	isadeiledd yng nghyffiniau Cyffordd 4 a Phorth y Gorllewin) fod yn flaenoriaeth uwch nag a gynigir yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft gan fod hyn yn cael ei ystyried yn sylfaenol i sicrhau twf economaidd cynaliadwy yn Wrecsam.	gwybodaeth ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae WelTAG Lite/1&2 ar fin cael ei gwblhau a bydd yn rhoi mwy o eglurder ar y prosiect, gan gynnwys y gost debygol, a'r ffordd ymlaen.
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu, er y bydd rhai elfennau o'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael eu gweithredu ar lefel leol, y dylid ceisio safoni lle bo hynny'n bosibl, gydag enghreifftiau yn cael eu darparu fel ffioedd parcio safonol neu gynllun trwydded barcio aml-sir.	Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi ceisio cyflwyno safoni lle bo hynny'n briodol, er mwyn helpu i ddod o hyd i gysondeb ac effeithlonrwydd. Er enghraifft, mae gan bob awdurdod lleol gynllun ar gyfer gwefru cerbydau trydan cyhoeddus, a fydd yn edrych ar ddarparu cynlluniau pwyntiau gwefru ym mhob maes parcio cyhoeddus.
Monitro a Gwerthuso	Mae rhai ymatebwyr yn croesawu'r Cynllun Monitro a Gwerthuso drafft gan gynnwys cyfarfodydd chwarterol, adolygiadau blynyddol a'r cyfle i awdurdodau lleol gymryd rhan mewn trafodaethau ar gyllid a datblygiadau newydd. Fodd bynnag, mae eraill yn codi pryderon ynghylch sut y bydd cyflawni yn cael ei fonitro, gyda chwestiynau ynghylch y cosbau posibl i awdurdodau lleol a chwmnïau preifat os na chyflawnir yr amcanion. Gwnaed awgrymiadau y byddai rhyngweithio a monitro pellach (a mwy rheolaidd) rhwng sefydliadau yn gwella atebolrwydd gan fod y cynllun yn cynnwys gwerthusiad cynhwysfawr ym mlwyddyn tri yn unig. Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod angen eglurder pellach ynglŷn â chyfrifoldeb, p'un a yw'n cael ei gynnal ar sail cynllun wrth gynllun, neu mewn dull mwy cyfannol o fesur perfformiad ar draws y rhanbarth.	Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'i Is-bwyllgor Trafnidiaeth yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun Monitro a Gwerthuso, pan fydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael ei fabwysiadu. Fel rhan o reoli perfformiad, bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'i Is-bwyllgor Trafnidiaeth yn ystyried cynnydd polisïau ac ymyraethau yn y cynlluniau sydd wedi'u cymeradwyo mewn cysylltiad â dyraniadau cyllid, gyda'r broses moderneiddio grantiau sy'n dod i'r amlwg yn ceisio datganoli cyllid i'r haen ranbarthol o lywodraethu. Mae'r Cynllun Monitro a Gwerthuso wedi'i ddiweddaru i egluro'r trefniadau hyn ymhellach.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cyd-fynd i raddau helaeth â Strategaeth Ynni Gogledd Cymru (NWES) a'r Cynlluniau Ynni Ardal Leol (LAEP) ac yn pwysleisio pwysigrwydd monitro camau gweithredu'n agos i sicrhau bod yr ymdrechion yn cyd-fynd.	Mae'r Cynllun Monitro a Gwerthuso wedi'i ddiweddaru i ddarparu cyfeiriad ac ymrwymiad i Uchelgais Gogledd Cymru i ymgymryd â'i gyfrifoldebau monitro a gwerthuso ar draws ei gynlluniau mewn ffordd ar y cyd lle bo'n briodol ac yn ymarferol.
	Mae rhai ymatebwyr yn annog y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i nodi targedau clir mewn perthynas â newid moddol, ac i ddangos sut y bydd y data sy'n dod i'r amlwg o'r Arolwg Teithio Cenedlaethol yn cael ei ddadansoddi ac yn cyfrannu at fesur llwyddiant neu fel arall wrth gyrraedd y targedau hynny.	Mae'r Cynllun Monitro a Gwerthuso yn cynnwys mesurau a dangosyddion i helpu i ystyried cynnydd tuag at dargedau a nodwyd. Mae wedi cael ei ddiweddaru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am statws yr Arolwg Teithio Cenedlaethol a sut y bydd yn cyfrannu at weithgareddau monitro a gwerthuso.
	Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod angen eglurder ynghylch a fydd monitro a gwerthuso yn cael eu cynnal ar sail cynllun wrth gynllun, neu mewn ffordd fwy cyfannol i fesur perfformiad ar draws y rhanbarth.	Mae'r Cynllun Monitro a Gwerthuso yn cynnwys mesurau a dangosyddion i helpu i ystyried cynnydd tuag at dargedau a nodwyd. Mae wedi cael ei ddiweddaru i ddarparu rhagor o wybodaeth am fonitro'r cynllun mewn cysylltiad â'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol.
	Mae rhai ymatebwyr yn pryderu nad yw'r cynllun yn nodi mecanweithiau i bobl ddarparu adborth.	Mae'r Cynllun Monitro a Gwerthuso wedi'i ddiweddaru i esbonio sut y gall pobl barhau i ymgysylltu ag Uchelgais Gogledd Cymru yn ystod cyfnod gweithredu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a thu hwnt.
	Mae rhai ymatebwyr yn mynegi pryder nad yw'r cynlluniau yn mynd i'r afael â sut y bydd gwrthwynebiadau gan drigolion (NIMBYism) yn cael eu trin a sut y bydd datblygiadau newydd yn cael eu cyfathrebu i'r rhai a allai eu gwrthwynebu.	

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
Llesiant	Mae rhai ymatebwyr yn mynegi barn wahanol mewn perthynas â'r Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA) drafft. Er bod rhai ymatebion o'r farn bod yr IWBA yn gadarn ac yn dyfynnu mesurau ymarferol ac addasadwy i gyflawni'r amcanion, mae eraill o'r farn nad yw rhai pobl eisiau i'w dewisiadau iechyd a lles gael eu pennu iddynt yn dilyn y pandemig Covid, tra'n tynnu sylw at y ffaith bod nodau lles yn amrywio rhwng pobl. Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y dylai llesiant fod yn sail i bolisi trafnidiaeth er mwyn tynnu sylw at fanteision iechyd defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae rhai ymatebwyr yn cwestiynu a allai'r IWBA edrych ymhellach ar y rhesymau pam y gallai pobl â nodweddion gwarchodedig penodol fod yn fwy neu'n llai tebygol o ddewis mathau penodol o drafnidiaeth. Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod yr IWBA yn ystyried y cwestiynau cywir o safbwynt sut y bydd y rhaglen neu'r prosiectau o fudd i gymunedau, yr amgylchedd, lleoedd a'r economi, diwylliant a'r Gymraeg a'r effeithiau cadarnhaol a negyddol yn y cyd-destun hwn.	Mae'r Arfarniad Llesiant Integredig yn dangos sut y bydd ein cynlluniau yn cyfrannu at lesiant, gyda chefnogaeth yr asesiadau effaith yr ydym wedi'u cynnal i ystyried materion fel iechyd, cydraddoldeb a bioamrywiaeth. Mae wedi cael ei ddiweddaru i fynd i'r afael â sylwadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill, er enghraifft gyda mwy o wybodaeth waelodlin.
	Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at bryder am fregusrwydd y coridor ffyrdd/rheilffyrdd ar hyd arfordir gogledd Cymru i newid yn yr hinsawdd.	Nid oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig nac awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru ddylanwad uniongyrchol ar y rhwydwaith ffyrdd strategol na'r rhwydwaith rheilffyrdd. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi dyheadau rhanbarthol ar gyfer ffyrdd strategol a'r rhwydwaith rheilffyrdd gan fod y rhain yn allweddol i gefnogi ein dyheadau cysylltedd ehangach ar gyfer gogledd Cymru. Mae'r Arfarniad Llesiant Integredig yn ystyried Ffactorau Hinsawdd (adran 9), ac mae newid yn yr hinsawdd yn cael ei gynnwys yn Amcan 8 IWBA (Cefnogi trawsnewidiad tuag at sector trafnidiaeth gyda llai (gan gynnwys sero) o allyriadau carbon a gwella gwytnwch isadeiledd trafnidiaeth i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd).

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr yn darparu ystod eang o dystiolaeth ac ystadegau am drafnidiaeth ac anghenion pobl ddall a rhannol ddall.	Nid oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig nac awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru ddylanwad uniongyrchol ar y rhwydwaith rheilffyrdd. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi dyheadau rhanbarthol ar gyfer rheilffyrdd gan fod y rhain yn allweddol i gefnogi ein dyheadau cysylltedd ehangach ar gyfer gogledd Cymru. Mae'r Arfarniad Llesiant Integredig a'i wybodaeth sylfaenol wedi'i ddiweddaru i ddefnyddio'r adborth a'r dystiolaeth a rennir lle bo hynny'n briodol.
	Mae rhai ymatebwyr yn ystyried bod yn rhaid rhoi blaenoriaethu i gadw pobl ddall a rhannol ddall yn ddiogel mewn gorsafoedd rheilffordd.	Mae'r uchelgeisiau rheilffyrdd yn y cynllun wedi'u diweddaru i bwysleisio pwysigrwydd gorsafoedd i bawb, gan ystyried anghenion pobl ddall a rhannol ddall.
	Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu nad yw'r IWBA wedi arwain at ddylunio buddion wrth ddylunio allan unrhyw effeithiau a allai fod yn niweidiol mewn perthynas â'r hinsawdd a natur, gan ystyried y byddai'n ddefnyddiol gweld graddfa effaith gwahanol bolisïau ac amcanion h.y. beth yw'r effaith a ragwelir o ran carbon. Mae rhai ymatebwyr o'r farn nad oes cydnabyddiaeth ac ymgorfforiad digonol o allyriadau carbon, gwytnwch hinsawdd, difrod neu welliant i natur ac nad yw themâu trawsbynciol yn cynnwys datgarboneiddio neu wytnwch hinsawdd ac yn credu y dylent eu hymgorffori.	Mae'r Arfarniad Llesiant Integredig yn ystyried Ffactorau Hinsawdd (mae cyd-destun gwaelodlin i'w weld yn Atodiad B adran 9), ac mae newid yn yr hinsawdd yn cael ei gofnodi yn Amcan 8 yr IWBA (Cefnogi trawsnewidiad tuag at sector trafnidiaeth gyda llai o allyriadau carbon (gan gynnwys sero) a gwella gwytnwch isadeiledd trafnidiaeth i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd). Mae'r Arfarniad Llesiant Integredig yn ystyried Bioamrywiaeth (mae cyd-destun gwaelodlin i'w weld yn adran 4 Atodiad B), ac mae bioamrywiaeth yn cael ei ddal yn Amcan 4 yr IWBA (Gwarchod, diogelu a gwella buddiannau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, gan gynnwys drwy ddiogelu safleoedd, rhywogaethau a chynefinoedd pwysig). Mae Atodiad C yn ystyried y Rheoliadau Cynefinoedd.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai o'r farn, er bod yr arfarniad yn ystyried llesiant defnyddwyr, nid yw'n asesu'n ddigonol unrhyw effeithiau niweidiol i gymunedau lleol a allai gael eu heffeithio gan ddatblygu isadeiledd ffyrdd.	Mae'r Arfarniad Llesiant Integredig yn ystyried polisïau'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, gan gynnwys ar gyfer ffyrdd, strydoedd a pharcio. Nid oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru ddylanwad uniongyrchol ar y rhwydwaith ffyrdd strategol. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi dyheadau rhanbarthol ar gyfer ffyrdd strategol gan fod hyn yn allweddol i gefnogi ein dyheadau cysylltedd ehangach ar gyfer gogledd Cymru.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
Llesiant Economaidd	Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at "gylch dieflig" sydd wedi ffurfio dibyniaeth ar geir preifat i gyrraedd safleoedd cyflogaeth oherwydd gwasanaethau cyhoeddus gwael, ochr yn ochr â materion am ddirywiad cyflogaeth yng ngogledd Cymru. Mae rhai yn codi nad yw'n glir sut y gellir gwahanu polisi trafnidiaeth o'r economi gyffredinol. Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y dylai'r cynlluniau ystyried yr economi gylchol i helpu i leihau olion troed materol.	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod bod cyfle cryf ar gyfer dull rhanbarthol o ddatblygu yng ngogledd Cymru, gyda thrafnidiaeth, defnydd tir a datblygu economaidd, i gyd yn croestorri fel diagram Venn wedi'i gynllunio'n dda. Mae'r cydrannau hyn yn creu un system gydlynol gyda'r amcan o sicrhau bod y Gogledd mewn safle da i ddarparu'r sgiliau, y gyflogaeth a'r cyfleoedd economaidd sy'n hanfodol ar gyfer dyfodol llewyrchus. 'Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy' yw un o bedwar amcan y cynllun, ac amlinellir ymyraethau lluosog i helpu i leihau dibyniaeth ar y car preifat i gael mynediad at gyflogaeth, er enghraifft Polisi CB4 (Dylai cymudwyr i Barth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam allu cael mynediad at swyddi gan ddefnyddio isadeiledd cerdded a beicio o ansawdd uchel, gorsafoedd rheilffordd cyfagos gwell, neu wasanaethau bws sy'n ddeniadol ac yn adlewyrchu patrymau gwaith cyflogwyr yn y Parth Buddsoddi). Mae'r Arfarniad Llesiant Integredig yn ystyried yr economi (mae cyd-destun gwaelodlin i'w weld yn Atodiad B adran 15) ac mae llesiant economaidd yn cael ei gofnodi yn Amcan 12 yr IWBA (Creu system drafnidiaeth integredig sy'n hwyluso symud effeithlon a diogel pobl a nwyddau, gan gyfrannu at fwy o ffyniant economaidd yn y rhanbarth). Amcan 11 yw ymgorffori egwyddorion economi gylchol i leihau'r defnydd o ddeunyddiau crai, sydd hefyd yn ystyriaeth allweddol yn yr arfarniad.

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
	Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod y Cynllun yn cyd-fynd ag Adolygiad Cysylltedd Undeb Llywodraeth y DU i ddarparu rhwydwaith trafnidiaeth strategol. Mae rhai yn croesawu bod y cynlluniau yn cydnabod pwysigrwydd pyrth rhyngwladol allweddol, yng ngogledd Cymru fel Porthladd Caergybi, ac yng ngogledd Lloegr, fel Porthladd Lerpwl, Maes Awyr Manceinion a Maes Awyr Lerpwl. Mae ymatebwyr o'r farn bod y pyrth rhyngwladol hyn yn hanfodol i gefnogi twf economaidd, darparu cyflogaeth a gwasanaethu marchnadoedd nwyddau.	Nodwyd.
	Mae rhai ymatebwyr yn cefnogi'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol am ei botensial i hybu isadeiledd, cysylltedd a thwf economaidd. Awgrymir y bydd y rhwydweithiau trafnidiaeth gwell yn denu buddsoddiad, yn creu swyddi, ac yn cryfhau cadwyni cyflenwi, gan elwa o dwf diwydiannol twristiaeth ac ehangu busnes yng ngogledd Cymru.	Nodwyd.
Yr Iaith Gymraeg	Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod diffyg ystyriaeth i'r Gymraeg yn y cynlluniau.	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod bod gan Ogledd Cymru un o'r cyfrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru gyda 42% yn siarad Cymraeg, ac yng Ngwynedd mae hyn hyd yn oed yn uwch gydag oddeutu 70%, ac wrth i ni gysylltu cymunedau Cymraeg â marchnadoedd Saesneg, rhaid i ni ddiogelu a gwella cyfleoedd i'r iaith Gymraeg drwy ein polisïau a'n camau gweithredu. Mae'r cynllun wedi'i ddatblygu i gyd-fynd â'r strategaeth genedlaethol Llwybr Newydd, sy'n cynnwys canllawiau ar ddiogelu diwylliant ac iaith Cymru. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru i dynnu sylw at sut y gall trafnidiaeth helpu'r Gymraeg i ffynnu. Mae'r Arfarniad Llesiant Integredig yn ystyried yr iaith Gymraeg sy'n cael ei gofnodi yn Amcan 6 yr IWBA (Diogelu a gwella'r dreftadaeth ddiwylliannol leol, gan gynnwys y Gymraeg).

Thema	Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad	Ymateb
